# Bundle BCU Health Board - Welsh 28 May 2026

1 09:30 - MATERION RHAGARWEINIOL

1.1 09:30 - 26.81 Gair o groeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb
*Dyfed Edwards, Cadeirydd*

1.2 09:33 - 26.82 Datganiadau o Fuddiant yn Ymwneud â'r Agenda
*Dyfed Edwards, Cadeirydd*

1.3 09:35 - 26.83 Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2026
*Dyfed Edwards, Cadeirydd*
26.83 CYM Minutes from Health Board Meeting 26.03.26 V0.3 (Public)

1.4 09:40 - 26.84 Materion yn Codi a Chofnod o'r Camau Gweithredu
*Dyfed Edwards, Cadeirydd*

1.5 09:45 - 26.85 Eitem Profiad
*Debbie Eyitayo, Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Datblygu Sefydliadol a Helen Stevens-Jones, Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu*

1.6 10:05 - 26.86 Adroddiad Ymgysylltu â Dinasyddion a'u Profiadau
*Helen Stevens-Jones, Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu*
26.86 CYM Citizen Experience Board Paper_Health Board May 2026 Update

1.7 10:20 - 26.87 Adroddiad y Cadeirydd
*Dyfed Edwards, Cadeirydd*
26.87 Adroddiad Cadeirydd Mai 2026 Cymraeg

1.8 10:30 - 26.88 Adroddiad y Prif Weithredwr
*Carol Shillabeer, Prif Weithredwr*
26.88 Adroddiad y Prif Weithredwr

1.9 10:40 - 26.89 Adroddiad yr Is-gadeirydd
*Gareth Williams, Is-gadeirydd*
26.89 CYM Vice Chair's Report May 26

2 10:50 - EITEMAU STRATEGOL

2.1 10:50 - 26.90 Cymunedol o'r Cychwyn
*Tehmeena Ajmal, Prif Swyddog Gweithredu*
26.90 CYM Community by Design v1.1

2.2 11:10 - EGWYL

2.3 11:20 - 26.91 Adroddiad Newid Gwasanaeth
*Paolo Tardivel, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Trawsnewid a Chynllunio Strategol*

3 11:40 - PERFFORMIAD INTEGREDIG

3.1 11:40 - 26.92 Adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd - Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau
*Caroline Turner, Aelod Annibynnol*
26.92 CYM AAA Report for QSE Committee 07.05.26 V1.0

3.2 11:50 - 26.93 Adroddiad Ansawdd Integredig
*Angela Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth and Clara Day, Gyfarwyddwr Meddygol Gweithredol*
26.93 CYM Integrated Quality Report - May 26

3.3 12:00 - 26.94 Adroddiad Cynnydd Gofal Brys ac Argyfwng
*Tehmeena Ajmal, Prif Swyddog Gweithredu*

3.4 12:15 - 26.95 Adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd - Y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethiant Gwybodaeth
*Gareth Williams, Is-gadeirydd*
26.95 CYM AAA Report for PFIG Commitee 28.04.26 V1.0

3.5 12:20 - 26.96 Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig
*Russell Caldicott, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid*
26.96 CYM IQPR Coversheet

3.6 12:30 - 26.97 Fframwaith Rheoli Perfformiad
*Russell Caldicott, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid*

3.7 12:40 - 26.98 Adroddiad Ariannol
*Russell Caldicott, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid*

3.8 12:50 - 26.99 Cynllun Cyflawni Blynyddol 2025/26 - Adroddiad Cynnydd a Rhaglenni Allweddol Chwarter 4
*Emma Lea, Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Cynnllunio Corfforaethol (Dros Dro)*
26.99.1 CYM ADP Q4 2025 _ 26 progress report (coversheet) FINAL
26.99.2 CYM Key Programmes Report

3.9 13:05 - CINIO

4 13:35 - LLYWODRAETHIANT, RISG A SICRWYDD

4.1 13:35 - 26.100 Adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd: Y Pwyllgor Archwilio
*Paul Lambert, Cadeirydd y Pwyllgor*
26.100 CYM Audit Committee AAA Report 21.04.26 - v1.0

4.2 13:40 - 26.101 Adroddiad Arolwg Staff GIG Cymru 2025
*Debbie Eyitayo, Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Datblygu Sefydliadol*
26.101 CYM NHS Wales Staff Survey Report V6.2

4.3 13:50 - 26.102 Cynnig i ddod yn Bartner Maethu Cymru ac yn Gyflogwr sy'n Gyfeillgar i Faethu
*Debbie Eyitayo, Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Datblygu Sefydliadol*
26.102 CYM Proposal to becoming a Maethu Cymru-Foster Wales Partner and Foster Friendly Employer - Final Board Paper

4.4 14:00 - 26.103 Fframwaith Sicrwydd Comisiynu
*Russell Caldicott, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid*

4.5 14:10 - 26.104 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd
*Pam Wenger, Director of Corporate Governance*
26.104 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd 05.2026 (1)

4.6 14:15 - 26.105 Adroddiad Llywodraethiant Corfforaethol
*Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol*

26.105 CYM Corporate Governance Report V1.0

4.7 14:20 - 26.106 Adroddiadau Cadeiryddion Pwyllgorau a Grwpiau Cynghori
*Pwyllgor Taliadau, Dyfed Edwards*
*Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau, Clare Budden*
*Pwyllgor Pobl a Diwylliant, Dyfed Jones*
*Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl, Gareth Williams*
*Fforwm Partneriaeth Lleol, Carol Shillabeer*
*Pwyllgor Gweithredol, Carol Shillabeer*
26.106.1 CYM AAA Report for Remuneration Committee 17.3.26 & 12.5.26 v1.0
26.106.2 CYM AAA Report for PPHP Committee 07.05.26 V1.0
26.106.3 CYM AAA Report for P&C Committee 09.04.26 V1.0
26.106.4 CYM AAA Report for MHL Committee 14.05.26 v1.0
26.106.5 CYM AAA Report LPF 5.5.26 v1.0
26.106.6 CYM AAA Report for Executive Committee (Final)

5 14:25 - ADRODDIADAU BLYNYDDOL / DWY WAITH Y FLWYDDYN

5.1 14:25 - 26.107 Deddf Lefelau Staff Nyrsio
*Angela Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth*
26.107 CYM Nurse Staffing Levels Annual Assurance Report Spring 2026
26.107.1 CYM Appendix 1 - Annual Assurance Report of the Nurse Staffing Level May 2026 (3)
26.107.2 CYM Appendix 2 - Annual Assurance Report Summary of Required Establishment Spring 2025 & Autumn 2025
26.107.3 CYM Appendix 3 - Summary of Nurse Staffing Levels for 25B Wards Spring 2026

5.2 14:30 - 26.108 Adroddiad Blynyddol Parodrwydd am Argyfwng, Gwydnwch ac Ymateb
*Jane Moore, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd*
26.108 CYM Health Board EPRR Annual Report v2

6 14:35 - MATERION I GLOI

6.1 14:35 - 26.109 Adolygu Effeithiolrwydd y Cyfarfod
*Dyfed Edwards, Cadeirydd*

6.2 14:37 - 26.110 Dyddiad y cyfarfod nesaf – Dydd Iau, 30 Gorffennaf 2026
*Dyfed Edwards, Cadeirydd*

6.3 14:39 - 26.111 Penderfyniad i Eithrio’r Wasg a’r Cyhoedd
*Dyfed Edwards, Cadeirydd*

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)**
**Cofnodion Heb eu Cadarnhau o Gyfarfod y Bwrdd Iechyd**
**a gynhaliwyd yn Gyhoeddus ar 26 Mawrth 2026**
**yn Venue Cymru, Llandudno**

| **Aelodau'r Bwrdd a oedd yn bresennol** | |
|---|---|
| **Enw** | **Teitl** |
| Dyfed Edwards | Y Cadeirydd |
| Emma Adamson | Aelod Cyswllt: Cadeirydd Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd (rhan o'r cyfarfod) |
| Tehmeena Ajmal | Prif Swyddog Gweithredu |
| Clare Budden | Aelod Annibynnol |
| Russell Caldicott | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid |
| Clara Day | Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol |
| Debbie Eyitayo | Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Datblygu Sefydliadol |
| Urtha Felda | Aelod Annibynnol |
| Yr Athro Mike Larvin | Aelod Annibynnol |
| Paul Lambert | Aelod Annibynnol |
| Peter Lewis | Aelod Cyswllt: Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid |
| Chris Lothian-Field | Aelod Annibynnol |
| Dr Jane Moore | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd |
| Billy Nichols | Aelod Annibynnol |
| Teresa Owen | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddorau Iechyd |
| Carol Shillabeer | Y Prif Weithredwr |
| Paolo Tardivel | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Trawsnewid a Chynllunio Strategol |
| Caroline Turner | Aelod Annibynnol |
| Rhian Watcyn Jones | Aelod Annibynnol |
| Gareth Williams | Yr Is-gadeirydd |
| Angela Wood | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth |
| **Yn Bresennol** | |
| Andrew Doughton | Rheolwr Archwilio Perfformiad, Archwilio Cymru (rhan o'r cyfarfod) |
| Fflur Jones | Arweinydd Archwilio Perfformiad, Archwilio Cymru (rhan o'r cyfarfod) |
| Laura Jones | Rheolwr Llywodraethiant Corfforaethol |
| Stuart Keen | Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Ystadau |
| Phylis Makurunje | Darpar Aelod o'r Bwrdd |
| Justine Parry | Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg |
| Philippa Peake-Jones | Pennaeth Llywodraethiant Corfforaethol |
| Helen Stevens-Jones | Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu |
| Dave Thomas | Cyfarwyddwr Archwilio Perfformiad, Archwilio Cymru (rhan o'r cyfarfod) |
| Jason Walker | Prif Swyddog Gwybodaeth Glinigol (rhan o'r cyfarfod) |
| Pam Wenger | Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol |

**MATERION RHAGARWEINIOL**

**26.43 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Aelodau'r Bwrdd, aelodau o'r cyhoedd, a'r rhai a oedd yn gwylio ar-lein i'r cyfarfod.

Heb eu Cadarnhau

Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith bod yr agenda yn cynnwys nifer o adroddiadau allweddol a byddai cydweithwyr o Archwilio Cymru yn ymuno â'r cyfarfod i drafod yr **Adroddiad Asesiad Strwythuredig**. Nodwyd bod **Gofal Brys ac Argyfwng** yn parhau i fod yn adroddiad rheolaidd i'r Bwrdd a bydd yr Eitem Profiad yn canolbwyntio ar **Wasanaethau Canser** a gwaith y grwpiau cymorth. Bydd trafodaeth hefyd ar y **Cynllun Tymor Canolig Integredig** a fydd yn rhoi trosolwg o'r hyn y mae'r Bwrdd Iechyd yn anelu at ei gyflawni dros y blynyddoedd nesaf.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Fôn Roberts, Dyfed Jones a Dylan Roberts.

**26.44 Datganiadau o Fuddiant yn Ymwneud â'r Agenda**

Ni chodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**26.45 Cofnodion Heb eu Cadarnhau o gyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2026 a Chyfarfod yr Ymddiriedolwyr a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2026**

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **CYTUNO** bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2026 (yn amodol ar y diwygiad y cytunwyd arno isod) a chofnodion Cyfarfod yr Ymddiriedolwyr a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2026 yn gofnod gwir a chywir.

Gwneir diwygiad i eitem 26.10 Adroddiad Strategol Iechyd Meddwl ar dudalen saith o gofnodion cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2026. Gwneir y diwygiad yn unol ag e-bost gan Mr David Graves yn nodi bod y cofnodion yn rhoi crynodeb o'r drafodaeth ac nad ydynt yn cofnodi'r pwyntiau a godwyd air-am-air.

**26.46 Materion yn Codi a Chofnod o'r Camau Gweithredu**

Cyflwynwyd y cofnod o'r camau gweithredu i'r aelodau, a nodwyd y cynnydd a wnaed.

Mewn perthynas â cham gweithredu **26.20.1**, nodwyd bod adroddiad ar y Fframwaith Perfformiad ac Atebolrwydd Integredig wedi'i gynnwys ar agenda'r cyfarfod gan fod y Bwrdd wedi gofyn am ddiweddariad o'r Adroddiad Perfformiad yn flaenorol.

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **CYTUNO** i gau'r camau gweithredu y cynigiwyd eu cau.

**26.47 Eitem Profiad**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth yr eitem profiad, a rhannwyd cyflwyniad fideo â'r Bwrdd:

- Nodwyd mai ffocws y stori oedd **Gwasanaethau Canser** a'r gefnogaeth a roddir i gleifion ar draws y Bwrdd Iechyd, gan nodi'r swmp sylweddol o waith sy'n digwydd yn y maes hwn.
- Yn ogystal â'r grwpiau cymorth Canser, mae nifer o grwpiau cymorth ychwanegol ar gael ar draws y sefydliad ar gyfer amrywiaeth o arbenigeddau. Mae effaith gadarnhaol y grwpiau hyn yn amhrisiadwy ac yn sicrhau bod llwybrau cymorth ychwanegol ar gael i gleifion.

Wrth drafod y cyflwyniad fideo, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

Heb eu cadarnhau

- Nodi bod yr agenda yn cynnwys eitem sy'n canolbwyntio ar **Wasanaethau Canser** wedi'i hanelu at berfformio a chyflenwi.
- Cydnabod yr elfen lesiant a brofwyd a'r cymorth parhaus sydd ar gael yn dilyn triniaeth, a gofynnwyd a ellir mesur y profiad hwn. Cadarnhau nad oes unrhyw fetrigau ar waith ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae gwaith yn mynd rhagddo i gasglu adborth ar draws holl daith y claf er mwyn casglu tystiolaeth ynghylch cyfraddau adferiad uwch gan gleifion sy'n derbyn cymorth cofleidiol.
- Awgrymu bod y gwaith hwn yn cysylltu â'r **Trydydd Sector** ac annog y defnydd o rwydweithiau cymorth ledled y rhanbarth. Cytunwyd bod angen gwaith amlasiantaeth i helpu pobl i lywio eu taith Canser, gan gynnwys meysydd fel incwm a thai.
- Nodi bod Canser yn dod yn gyflwr hirdymor a bod angen cefnogi'r elfen lesiant o ran byw'n dda gyda Chanser. Nodwyd y bydd y **Cynllun Gwasanaethau Clinigol** yn ceisio mynd i'r afael â hyn ac yn cynnwys set ehangach o fesurau.
- Holi a oes gan y GIG yr adnoddau a'r polisïau ar gael i gefnogi pobl sy'n byw gyda Chanser. Cadarnhawyd bod amcanion un a dau o'r **Bwriad Strategol** yn canolbwyntio ar gefnogi cymunedau a bod gwaith yn digwydd i fynd i'r afael â seilweithiau cymunedol lleol. Darperir adborth yn rheolaidd hefyd mewn perthynas â phrofiad a chanlyniadau ac yn y dyfodol bydd angen canolbwyntio ar gofnodi a mesur profiadau llesiant.

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **NODI'R** eitem Profiad.

**26.48 Adroddiad Ymgysylltu â Gweithwyr a'u Profiadau**

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd a thynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Datblygu Sefydliadol sylw at y canlynol:

- Mae'r adroddiad yn nodi dull awgrymedig i ddatblygu a gwella ymgysylltiad gweithwyr ymhellach ac yn amlinellu mentrau strategol allweddol a gynlluniwyd i ymgysylltu â staff a gwrando arnyn nhw.
- Mae'r gwaith wedi'i gysylltu'n agos â'r **Rhaglen Diwylliant ac Arweinyddiaeth** ac mae'r **Cynllun Gwella Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu 2026-2029** cysylltiedig yn disgrifio gweithgarwch allweddol i wella ymgysylltiad a mesur canlyniadau.
- Mae'r adroddiad yn amlinellu'r gweithgarwch a wnaed yn ystod y deuddeg mis diwethaf, sy'n cynnwys arweinyddiaeth sy'n fwy amlwg a gwell mynediad atynt, yn ogystal â mentrau i gefnogi gwrando ar lais y staff.
- Mae tua 200 o **Arweinwyr Newid Diwylliant** bellach wedi'u penodi ac mae gwaith yn digwydd i gefnogi sgyrsiau dwyffordd gyda staff i ddechrau gwella diwylliant ar draws y sefydliad.
- Mae'r cyfeiriad strategol arfaethedig yn cynnwys **Fframwaith Ymgysylltu Strategol** pum colofn sy'n cyd-fynd â gwaith y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu a'r **Cynllun Gwella Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu**.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Croesawu'r dull gweithredu, cefnogi'r gwaith sy'n digwydd a nodi'r **Digwyddiad Arweinwyr Newid Diwylliant** a oedd i fod i ddigwydd yn ystod mis Ebrill 2026.
- Nodi bod y data gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn tynnu sylw at straen yn y gweithle fel pryder allweddol a gofynnwyd a oes angen dull rhagweithiol. Cytuno bod atal yn faes y mae angen mynd i'r afael ag ef gan nodi bod timau iechyd a llesiant galwedigaethol wedi'u cryfhau ac yn gweithio ar y cyd. Nodwyd hefyd bod rheoli straen yn hollbwysig o ystyried pwysau cynhenid bywyd a gwaith.

Heb eu cadarnhau

- Mae angen cynnydd cydnabyddedig o ran cyfathrebu tryloyw i sicrhau bod staff yn cael gwybodaeth ac yn ymgysylltu ag unrhyw newidiadau, gan gynnwys y **Rhaglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol**. Mae angen perchnogaeth a chefnogaeth glir ar weithwyr yn eu rolau hefyd a chytunwyd bod darparu'r seilwaith cywir yn bwysig i rymuso staff i gymryd y llyw o ran eu hamgylcheddau gwaith.
- Sefydlu bod trawsnewid diwylliannol yn broses raddol, sy'n gofyn am amser ac ymgysylltiad ymroddedig ag **Arweinwyr Newid Diwylliant** i sicrhau y gellir cyflawni cynnydd yn y maes hwn.
- Tynnu sylw at y ffaith bod staff yn gweithio dan straen a phwysau aruthrol a bod angen darparu diwylliant cefnogol, caredig a gofalgar a chysylltu â staff i ddarparu cymorth a chefnogaeth trwy wasanaethau Iechyd a Llesiant.
- Cadarnhau bod cydweithwyr ymgysylltiedig yn darparu lefelau uwch o ofal gan nodi bod staff wedi ymgysylltu'n dda â'r sgyrsiau yn y ffreutur sydd wedi digwydd gyda'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, gan gydnabod bod gweld rheolwyr yn bwysig i sicrhau y gellir rhannu barn.

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **CEFNOGI'R** dull gweithredu a amlinellir yn yr adroddiad fel rhan o'r gwaith ehangach i wella Diwylliant, Ymgysylltu ac Arweinyddiaeth.
- **CYMERADWYO'R** dull strategol a awgrymir ar gyfer ymgysylltu â staff a'u profiadau a ddisgrifir yn yr adroddiad.
- **NODI** bod cymeradwyo'n darparu'r mandad sefydliadol clir sydd ei angen i wreiddio arferion ymgysylltu cyson ar draws y Bwrdd Iechyd.

**26.49 Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd y Cadeirydd sylw at y canlynol:

- Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Jeremy Miles, wedi cadarnhau bod cyllid gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ddarparu i gefnogi ailddatblygu **Ysbyty Brenhinol Alexandra** yn y Rhyl. Mae hyn wedi bod ar y gweill ers dros ddegawd a diolchwyd i'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Ystadau a'u timau am eu gwaith parhaus i sicrhau bod y datblygiad pwysig hwn yn cael ei symud ymlaen. Bydd hyn yn mynd i'r afael ag anghenion y boblogaeth leol ac o fudd iddynt, a hefyd yn darparu gwasanaethau a fydd yn lleddfu rhywfaint o'r pwysau ar Ysbyty Glan Clwyd.
- Llofnodwyd memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn ddiweddar gyda **Phrifysgol Wrecsam** sy'n pwysleisio potensial cydweithio, ac yn rhoi cyfle i ddatblygu sgiliau a hyfforddiant i staff yn eu rolau.
- Mae'r ymgysylltiad ag aelodau etholedig yn parhau, efallai y bydd newid yn y Llywodraeth yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2026 a diolchwyd i gydweithwyr o'r Senedd am y perthnasoedd cadarnhaol a'r ymgysylltiad sydd wedi digwydd gyda'r sefydliad.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn hyrwyddo cyswllt uniongyrchol gan aelodau staff a'r cyhoedd gydag unrhyw feysydd sy'n peri pryder, gan nodi pwysigrwydd adborth sy'n ymwneud â gwasanaethau.

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **NODI** cynnwys yr adroddiad.

**26.50 Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd y Prif Weithredwr sylw at y canlynol:

Heb eu Cadarnhau

- Mae'r trefniadau atebolrwydd, uwchgyfeirio diwygiedig wedi'u derbyn gan Lywodraeth Cymru, a chytunodd y Prif Weithredwr i ddosbarthu'r ddogfen hon i aelodau'r Bwrdd a'i chynnwys fel atodiad i adroddiad nesaf y Bwrdd.
- Mae **Asesiad Sicrwydd Cenedlaethol ar gyfer Gofal a Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol** wedi'i gwblhau gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi rhoi cyfle pwysig i ddysgu a datblygu. Mae'r adroddiad bellach wedi'i gyhoeddi a bydd yn cael ei adolygu i fyfyrio ar gynnydd a blaenoriaethau yn y maes gwasanaeth allweddol hwn.
- Mae Modiwl Tri Covid-19 wedi'i gyhoeddi ac mae'n canolbwyntio ar y gwasanaeth iechyd a'r ymateb a fydd yn darparu rhai meysydd dysgu yn y dyfodol.
- Mae **Hwb Orthopedig Llandudno** i fod i agor cyn cyfarfod nesaf y Bwrdd a diolchwyd i bawb a oedd yn rhan o'r prosiect.
- Efallai y bydd ymrwymiad mawr gan Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu cyfalaf yn cael ei dderbyn i fuddsoddi yn **Hybiau Iechyd a Llesiant** y Bwrdd Iechyd. Byddai'r cyllid hwn yn gyfle sylweddol i'r sefydliad ddatblygu'r gwasanaethau hyn, gan bwysleisio cyfrifoldeb y Bwrdd Iechyd dros sicrhau datblygiad amserol a phriodol.
- Mae disgwyl i'r **System Presgripsiynu a Gweinyddu Meddyginiaethau yn Electronig (ePMA)** fod yn gwbl weithredol erbyn diwedd yr wythnos. Mae datblygiad digidol yn ffrwd allweddol wrth wella gofal a bydd yn cael ei drafod yn fanylach fel rhan o'r eitem **Gwella Gofal drwy Ddatblygiadau Digidol** ar yr agenda. Canmolwyd y timau dan sylw am eu gwaith yn y maes hwn a mynegwyd diolch i bawb.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Cydnabod y bydd eitem ar yr **Asesiad Sicrwydd Cenedlaethol ar gyfer Gofal a Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol** yn cael ei derbyn gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad ym mis Mai 2026 a bydd yr Athro Sally Holland, a arweiniodd yr adolygiad, yn bresennol.
- Cyfeirio at ganfyddiadau'r **Asesiad Sicrwydd Cenedlaethol** ynghylch lefelau staffio a'r gofyniad mewn perthynas ag anghenion cyfredol y boblogaeth. Cadarnhawyd y bydd hyn yn rhan graidd o'r broses gynllunio gyda chydweithwyr Iechyd Cyhoeddus i sicrhau bod anghenion gwirioneddol y boblogaeth yn cael eu nodi yn y lle cyntaf, er mwyn galluogi gwasanaethau i gael eu hadeiladu o amgylch anghenion y boblogaeth.
- Cydnabod y bydd gwaith yn digwydd yn y dyfodol mewn perthynas â'r **Asesiad Sicrwydd Cenedlaethol**, y bydd cyfraddau genedigaethau Cesaraidd yn cael eu hadolygu o safbwynt Cenedlaethol a Lleol ac y bydd cydymffurfiaeth o ran staffio mamolaeth yn cael ei hailasesu.

**Cam Gweithredu:**

- **26.50.1** Y Prif Weithredwr i ddosbarthu'r trefniadau atebolrwydd, uwchgyfeirio diwygiedig gan Lywodraeth Cymru a'u cynnwys fel atodiad i adroddiad nesaf y Bwrdd.

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **NODI** cynnwys yr adroddiad.

**EITEMAU STRATEGOL**

**26.51 Adroddiad Asesiad Strwythuredig**

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd a thynnodd y Prif Weithredwr, cydweithwyr Archwilio Cymru a'r Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol sylw at y canlynol:

- Diolch i Dave Thomas am ei gyfraniadau tra roedd yn gweithio i Archwilio Cymru ac am yr effaith y mae wedi'i chael ar y GIG yng Nghymru. Diolchwyd hefyd i Andrew Doughton, Fflur

Heb eu cadarnhau

Jones, y Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol, a'u timau am eu hymdrechion a'u rhan yn yr **Asesiad Strwythuredig**.

- Mae'r **Asesiad Strwythuredig** yn adolygiad annibynnol blynyddol a gynhelir gan Archwilio Cymru i werthuso pa mor effeithiol mae'r Bwrdd Iechyd yn cael ei lywodraethu a'i reoli. Bu ffocws ar wella effeithiolrwydd y sefydliad a fydd yn parhau ac a fydd yn helpu i lunio blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd yn y dyfodol.
- Mae'r asesiad yn rhan o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Cyffredinol ac mae'n archwilio a oes gan Fwrdd Iechyd y trefniadau llywodraethu, cynllunio a rheoli ariannol sy'n ofynnol i ddarparu gwasanaethau diogel a chynaliadwy.
- Mae'r asesiad wedi bod drwy broses glirio ar gyfer cywirdeb ffeithiol sy'n tynnu sylw at feysydd o arferion da ochr yn ochr â nifer o risgiau a nodwyd.
- Mae'r canfyddiadau allweddol yn cynnwys ymrwymiad y Bwrdd i fod yn agored, yn dryloyw a gyda lefel briodol o her, gan gynnwys **Fframwaith Sicrwydd Bwrdd** cryfach a chynnydd cadarnhaol ar yr argymhellion blaenorol a wnaed i'r Bwrdd Iechyd.
- Mae'r asesiad hefyd yn tynnu sylw at heriau parhaus o ran capasiti arwain, rheoli perfformiad, cynllunio strategol a chynaliadwyedd ariannol.
- Mae'r argymhellion yn darparu set glir o flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod, a bydd ffocws cyfunol parhaus yn allweddol i gynnal momentwm a chefnogi gwelliant parhaus, gan nodi bod yr ymatebion i'r argymhellion yn briodol ac yn gynhwysfawr.
- Cydnabuwyd y berthynas waith adeiladol rhwng cydweithwyr gan fod hyn wedi hwyluso'r gwaith o gynhyrchu'r adroddiad, gan fyfyrio ar daith y Bwrdd Iechyd dros y ddwy i dair blynedd diwethaf a'r gwelliannau a'r cynnydd a gyflawnwyd.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Cytuno bod yr adroddiad yn darparu asesiad teg gan nodi'r gwaith sy'n mynd rhagddo i fynd i'r afael â phortffolios.
- Tynnu sylw at broblem o ran cytundebau atebolrwydd ddim yn cael eu dychwelyd yn brydlon. Cadarnhawyd bod y Pwyllgor Archwilio yn cymryd camau i fynd i'r afael ag ymatebion rheolwyr i argymhellion archwilio a bod Cyfarwyddwyr Gweithredol yn cael eu gwahodd i ymuno â'r Pwyllgor yn rheolaidd i ymateb i argymhellion Archwilio.
- Cyfeirio at driongliant gwaith Archwilio a llif y gwaith hwn fel meysydd ffocws y Pwyllgorau perthnasol, gan awgrymu bod hwn yn faes i'w drafod a'i adolygu ymhellach.
- Tynnu sylw yn yr adroddiad at argymhellion hanesyddol a sut y gellir adlewyrchu'r rhain ar ôl cwblhau'r camau gweithredu. Cadarnhawyd bod Archwilio Mewnol yn trafod amrywiaeth o argymhellion hanesyddol gyda'r Tîm Llywodraethiant yn rheolaidd. Mae'r argymhellion hefyd yn cael eu monitro drwy adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor Archwilio, sy'n nodi y bydd yr argymhellion yn cael eu cau drwy gydol y flwyddyn os darperir digon o dystiolaeth, ond mae angen gwneud rhagor o waith yn y maes hwn.
- Cydnabod y **Rhaglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol** gan nodi'r dull cadarnhaol o gwblhau ymarfer cymdeithasoli gyda staff. Cytunwyd bod yr ymarfer cyn ymgysylltu yn gam pwysig i sicrhau bod cydweithwyr yn ymgysylltu'n agos ac yn cymryd rhan yn elfennau cyd-ddylunio'r rhaglen.
- Cydnabod bod y Bwrdd Iechyd ar daith a bod cynnydd yn cael ei wneud. Mae'r **Asesiad Strwythuredig** yn cydnabod y gwelliannau a wnaed o ran llywodraethiant, cyfathrebu, prosesau a chynlluniau sydd wedi galluogi'r sefydliad i gael ei reoli'n fwy effeithiol nag mewn blynyddoedd blaenorol. Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod y sefydliad yn datblygu gwasanaethau sy'n addas ar gyfer y dyfodol ac yn darparu'r gwasanaethau iechyd gorau posibl i boblogaeth Gogledd Cymru.
- Diolchwyd i bawb a gymerodd ran, gan nodi'r berthynas waith agored gyda chydweithwyr Archwilio Cymru.

Heb eu cadarnhau

Penderfynwyd bod y Bwrdd yn:

- **DERBYN** yr adroddiad ac yn **NODI** bod yr adroddiad wedi cael ei rannu â holl Aelodau'r Bwrdd.
- **NODI** bod yr adroddiad yn cyflwyno darlun teg a chytbwys o'r sefydliad, gan gydnabod yr agweddau cadarnhaol a nodwyd a'r meysydd hynny lle mae angen cynnydd pellach.
- **NODI** ymateb y rheolwyr i'r Asesiad Strwythuredig ac y bydd y cynnydd yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Archwilio a'i adrodd i'r Bwrdd drwy Adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd.

**26.52 Adroddiad Canser**

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd a thynnodd y Prif Swyddog Gweithredu a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol sylw at y canlynol:

- Gofynnwyd i'r adroddiad adolygu'n fanwl y perfformiad presennol mewn perthynas â **Gwasanaethau Canser** a'r camau nesaf i ddatblygu'r gwasanaeth ac ymateb i'r heriau.
- Nid oes un llwybr canser gan fod taith canser claf yn deillio o fannau ar draws gwahanol lwybrau ac mae angen triniaeth barhaus gan amrywiaeth o weithwyr gofal iechyd proffesiynol a gwasanaethau, felly mae gwella gofal canser yn gofyn am ddull cydlynol a chydweithredol.
- Mae achosion canser yn gymhleth ac yn cynnwys cyfuniad o ffactorau felly mae atal canser yn allweddol, mae angen nodi amheuon o ganser yn gyflym a symud ymlaen gyda thriniaeth, gan leihau'r amser y mae angen i gleifion aros.
- Mae'r targed Cenedlaethol o 80% o gleifion yn dechrau triniaeth ddiffiniol gyntaf ar gyfer canser o fewn 62 diwrnod i'r pwynt amheuaeth wedi cael ei gyflawni am gyfnod byr. Fodd bynnag, mae hyn yn anodd ei gynnal ac mae angen cryfhau capasiti diagnostig a mynd i'r afael â gwasanaethau bregus ar draws y llwybr canser.
- Mae nifer y bobl sy'n datblygu canser yn cynyddu wrth i bobl fyw'n hirach ac mae cynnydd hefyd yn y cyfraddau goroesi ar gyfer pobl â chanser, felly mae angen i'r Bwrdd Iechyd fuddsoddi yn y gallu i gefnogi'r cleifion hynny.
- Mae'r **Gwasanaethau Canser** yn cwmpasu amrywiaeth o feysydd gan gynnwys ymddygiad y boblogaeth, ymwybyddiaeth o symptomau, y nifer sy'n manteisio ar raglenni sgrinio a diagnosis cynnar. Nodwyd hefyd bod tua 4000 o bobl bob mis yn cael eu hatgyfeirio, eu hasesu ac yn cael cadarnhad nad oes ganddynt ganser, sy'n elfen bwysig o'r broses.
- Mae gwelliannau mewn llawfeddygaeth gan gynnwys llawfeddygaeth robotig, ac wrth i'r **Cynllun Gwasanaethau Clinigol** ddatblygu, bydd hyn yn caniatáu i ddaearyddiaeth y ddarpariaeth o driniaeth gael ei hadolygu'n fanylach.
- Mae ymchwil hefyd yn elfen hanfodol o **Wasanaethau Canser** ac mae treialon cenedlaethol wedi bod yn cael eu cynnal i wneud cynnydd yn y maes hwn.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Cydnabod yr angen i ganolbwyntio ar y gofod atal yn unol â'r **Bwriadau Strategol** gan gynnwys pwysigrwydd ymwybyddiaeth o'r boblogaeth. Cytunwyd ei bod yn bwysig nodi symptomau a chael diagnosis cynnar er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i gleifion, gan nodi'r gwaith sydd wedi'i gwblhau i leihau'r ôl-groniad yn y maes hwn.
- Cyfeirio at glinigau un stop lle mae cleifion yn cael eu hasesu ac yn cael profion diagnostig mewn un clinig, gan holi a fydd y clinigau hyn yn rhan o'r **Strategaeth Ystadau**. Cadarnhawyd bod gwaith yn cael ei wneud i ganfod y cyfleoedd gorau ar gyfer y clinigau hyn a allai fod yn rhan o'r **hybiau iechyd a llesiant**.

Heb eu cadarnhau

- Holi am gynnydd ar y **Cynllun Gwasanaethau Clinigol**, a chadarnhawyd mai'r nod yw lansio'r Cynllun ym mis Mai 2026 i ddarparu fframwaith cyffredinol ar gyfer rhaglen waith sy'n cyd-fynd â gwasanaethau sy'n cael eu herio.
- Cydnabod nad yw llawer o gleifion eisiau triniaeth ac roedd yn cwestiynu sut roedd gofal lliniarol yn cael ei reoli. Cadarnhawyd bod rhaglen waith yn gysylltiedig â'r maes hwn, mae angen cydbwyso'r canllawiau â gofal unigol gan nodi'r risg a'r manteision.
- Tynnu sylw at y cyfraddau sgrinio gan nodi bod cyfraddau'n isel mewn perthynas â sgrinio serfigol. Cadarnhawyd bod hyn yn cael sylw fel rhan o'r gwaith anghydraddoldeb iechyd a'i fod yn faes lle mae angen diagnosis cynnar.
- Holi a yw profion penodol yn darparu cyfleoedd i nodi materion eraill, er enghraifft mamogram sy'n canfod problemau gyda'r galon. Cadarnhawyd bod yr arfer hwn yn cael ei ddefnyddio mewn rhai meysydd fel sgrinio canser yr ysgyfaint a chanser y coluddyn, ac mae'n arfer safonol lle caiff ei ddefnyddio.
- Holi sut y gellir cefnogi **Gofal Sylfaenol** i sicrhau bod meddygon teulu'n atgyfeirio cleifion canser yn briodol. Cadarnhawyd bod angen canolbwyntio ar lwybrau strwythuredig i sicrhau bod cleifion yr amheuir bod canser arnynt yn cael eu hatgyfeirio a'u hadolygu o fewn cyfnod rhesymol.
- Cadarnhau bod angen gwneud rhagor o waith mewn cymunedau i sicrhau mynediad cyflymach at wasanaethau lleol, gan nodi y gallai trawsnewid technoleg helpu yn y maes hwn, a thynnodd sylw at dreial ledled y DU sy'n defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) i ganfod symptomau canser sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd. Cadarnhawyd bod elfennau o ddeallusrwydd artiffisial yn cael eu defnyddio'n ymarferol ar draws y Bwrdd Iechyd i nodi camau canser, sy'n darparu cyfleoedd i barhau i arloesi.
- Holi sut y gellir gwreiddio meysydd o'r gwaith hwn fel rhan o weledigaeth y Bwrdd Iechyd i ddatblygu gwasanaethau. Cytunwyd y dylai'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad dderbyn **Gwasanaethau Canser** fel eitem ar yr agenda mewn cyfarfod yn y dyfodol, i ystyried sut y gellir bwrw ymlaen â'r maes gwaith hwn yn dilyn trafodaeth ac adrodd yn ôl i un o gyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol.

**Cam Gweithredu:**

- **26.52.1** Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad i dderbyn Gwasanaethau Canser fel eitem ar yr agenda mewn cyfarfod yn y dyfodol, i ystyried sut y gellir bwrw ymlaen â'r maes gwaith hwn yn dilyn trafodaeth yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth, ac adrodd yn ôl i un o gyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol.

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **TRAFOD** cynnwys y papur a chefnogi'r blaenoriaethau strategol a amlinellwyd.

**26.53 Adroddiad Uwchgyfeirio Lefel 5**

Cafodd y Bwrdd yr adroddiad yr oedd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Trawsnewid a Chynllunio Strategol wedi tynnu sylw ato:

- Cafodd y Bwrdd Iechyd ei roi mewn **statws uwchgyfeirio Lefel 5** gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2023 ac mae'r adroddiad yn amlinellu'r meysydd o gynnydd a'r heriau sy'n weddill, y mae angen eu datblygu ymhellach cyn y gellir isgyfeirio.
- Mae'r sefydliad wedi sefydlogi ar draws llywodraethiant, arweinyddiaeth, ansawdd, cyllid a chynllunio ac mae cynnydd wedi'i wneud o ran cyflawni sylfeini perfformiad allweddol. Cefnogir hyn gan reolaethau cryfach, cyfeiriad strategol cliriach a gwell aeddfedrwydd sefydliadol.

Heb eu cadarnhau

- Mae gwelliant yn amlwg mewn meysydd sy'n cynnwys llywodraethiant bwrdd cryfach, datblygu arweinyddiaeth gyda ffocws ar ddatblygu newid diwylliant, gan gynnwys pwysigrwydd gwerthoedd ac ymddygiad.
- Mae cynnydd wedi cael ei wneud hefyd mewn perthynas â goruchwyliaeth glinigol, diogelwch cleifion, pryderon a rheoli digwyddiadau, ond mae'n ofynnol gwneud gwelliannau mewn perthynas â **Gofal Brys ac Argyfwng, Gwasanaethau Canser** a **Gofal wedi'i Gynllunio**.
- Gall y sefydliad bellach ddangos rheolaethau cryfach, gwell aeddfedrwydd cynllunio a gafael ariannol gadarnach. Wrth symud ymlaen, mae angen sicrhau bod perfformiad yn gwella'n barhaus ar draws amrywiaeth o feysydd gweithredol er mwyn gwella profiad cleifion a diogelwch cleifion.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Cydnabod y dystiolaeth sydd ar gael ynghylch isgyfeirio mewn rhai meysydd a chwestiynu'r gwaith sy'n cael ei wneud gyda Llywodraeth Cymru ynghylch sefyllfa bresennol y Bwrdd Iechyd. Cadarnhawyd bod isgyfeirio yn her, mae'r sefydliad wedi gwneud cynnydd mewn rhai meysydd, ond mae angen gwelliant digonol o hyd mewn perthynas â **Gofal wedi'i Gynllunio** a **Gofal Brys ac Argyfwng**. Wrth symud ymlaen, mae angen canolbwyntio ar ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl i'r boblogaeth.
- Holi a fydd gwasanaethau'n parhau'n gynaliadwy ar ôl i welliannau gael eu rhoi ar waith ac ar ôl i'r cyllid ddod i ben. Cadarnhawyd bod cyllid wedi dod i law i ganolbwyntio ar gael gwared ar ôl-groniadau ac wrth symud ymlaen, dylai'r defnydd o gyllid dros dro droi'n ddull mwy effeithiol wrth i wasanaethau gael eu datblygu ar gyfer y dyfodol, yn ogystal â sicrhau bod capasiti craidd yn bodloni gofynion gwasanaethau unigol.

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **DERBYN SICRWYDD** ynghylch y cynnydd parhaus sy'n cael ei wneud ar draws pob maes, gan gydnabod maint y gwaith a wnaed hyd yma.
- **NODI'r** heriau sy'n parhau a'r risgiau cyffredinol i'r posibilrwydd o isgyfeirio yn y dyfodol.

**26.54 Adroddiad Cynnydd Cynllun Tymor Canolig Integredig**

Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad a rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Trawsnewid a Chynllunio Strategol ddiweddariad ar Gynllun Cyflawni Blynyddol 2025/26 - Adroddiad Cynnydd Chwarter 3 a Chynllun Tymor Canolig Integredig 2026/29.

**Cynllun Cyflawni Blynyddol 2025/26 - Adroddiad Cynnydd Chwarter 3**

- Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r cynnydd o ran y **Cynllun Cyflawni Blynyddol**, gan dynnu sylw at feysydd lle mae angen gwella er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth orau bosibl a sicrhau effaith.
- Mae sylwebaeth weithredol wedi'i chynnwys ar gyfer y meysydd hynny nad ydynt i fod i gael eu cyflawni cyn diwedd y flwyddyn adrodd.
- Mae dros 70% o'r elfennau i'w cyflawni yn mynd rhagddynt yn dda ac yn dal ar y trywydd iawn i gael eu cyflawni erbyn diwedd Chwarter 4. Mae'r rhain yn cynnwys meysydd fel y **Bwriad Strategol**, yr Hwb Llywodraethiant, **Gwerth a Chynaliadwyedd** a'r **System Rheoli Ansawdd**.
- Mae nifer o feysydd heriol wedi'u nodi gyda hyder isel o ran cyflawni, sy'n cynnwys **Digidol a Data** a **Gofal Sylfaenol a Chymunedol**, yn ogystal â darparu **Diagnosteg** yn weithredol.
- Bydd adroddiad Chwarter 4 yn mynd drwy broses lywodraethu'r Bwrdd ar ôl iddo gael ei gwblhau er mwyn rhoi trosolwg llawn o 2025/26.

Heb eu cadarnhau

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Nodi'r arbedion mewn perthynas â **Gwerth a Chynaliadwyedd** a holi sut y cyflawnwyd yr arbedion. Cytunwyd y byddai'r wybodaeth hon yn fwy gweladwy wrth symud ymlaen.
- Cydnabod y gwahaniaeth mewn naws rhwng adroddiadau allweddol a phryderon a fynegwyd ynghylch **Gofal Sylfaenol a Chymunedol** a **Chymunedol o'r Cychwyn**. Cadarnhawyd bod gwaith wedi cael ei wneud i geisio cydbwyso'r negeseuon sy'n cael eu rhannu a thynnwyd sylw at y ffaith bod **Cymunedol o'r Cychwyn** wedi cael ei gynnwys fel rhaglen newid fawr yn y **Cynllun Cyflawni Blynyddol** nesaf, gan fod hwn yn faes gwaith pwysig i fwrw ymlaen ag ef.
- Cydnabod bod gan **Ddiabetes** hyder isel o ran cyflawni, gan dynnu sylw at yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar wasanaethau yn y dyfodol. Cadarnhawyd y bydd angen i hyn gyd-fynd â'r rhaglen **Cymunedol o'r Cychwyn** a'r **Cynllun Gwasanaethau Clinigol** i sicrhau'r effaith fwyaf ar gyfer anghenion y boblogaeth.
- Nodi'r angen i driongli adroddiadau wrth symud ymlaen, sy'n cyd-fynd â chyfeiriad strategol a datblygiad y Bwrdd Iechyd a fydd yn faes ffocws ac a fydd yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd.

**Cynllun Tymor Canolig Integredig 2026/29**

- Rhannwyd cyflwyniad gyda'r Bwrdd yn nodi bod y sefydliad wedi bod ar daith ddatblygu dros y tair blynedd diwethaf a'i fod bellach yn symud i gam datblygu strategaeth newydd drwy gymeradwyo'r pedwar datganiad **Bwriad Strategol** sydd wedi'u creu ar y cyd â phartneriaid.
- Cyflwynwyd elfen o gynllunio parhaus i ddatblygu agweddau ar y cynllun yn fwy organig a chaniatáu ymgysylltu cynharach yn fewnol ac yn allanol.
- Rhannwyd y negeseuon allweddol, y cynllun ar dudalen a phrosiectau a rhaglenni blaenoriaeth 2026-29 gyda'r Bwrdd, gan nodi'r elfennau sydd wedi gweld newidiadau mewn perthynas â'r **Rhaglenni Newid Mawr**, **Rhaglenni Allweddol** a **Gwasanaethau Bregus**.
- Rhannwyd **Cynllun Ariannol 2026/27** hefyd gan nodi'r diffyg sylfaenol o £114m a'r angen i sicrhau amcangyfrif o £89m o arbedion i gyflawni'r ddyletswydd statudol allweddol a sefyllfa mantoli'r cyfrifon.
- Mae cyfleoedd i wneud arbedion a tharged o £46m wedi'i osod ar gyfer cynllun 2026/27.
- Mae'r **Cynllun Cyfalaf** wedi cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethiant Gwybodaeth ac mae wedi'i gynnwys yn y **Cynllun Tymor Canolig Integredig** ac wedi'i nodi yn yr atodiadau.
- Y cam nesaf fydd cynnwys unrhyw bwyntiau allweddol a godwyd yn nyluniad terfynol y cynllun cyn ei gyflwyno gerbron Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2026.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Holi a yw'r £82m gan Lywodraeth Cymru yn gylchol. Cadarnhawyd ei fod wedi'i ddyrannu ar sail gylchol amodol a deellir y bydd yn cael ei gadw ar gyfer 2026/27.
- Cydnabod bod Purdah yn dechrau'n fuan yn ystod y cyfnod cyn-etholiadol a holodd a fydd hyn yn effeithio ar gymeradwyo'r cynllun. Cadarnhawyd na fydd y cynllun yn cael ei ystyried nes bydd y Llywodraeth newydd wedi cael ei phenodi, felly bydd hyn yn arwain at oedi.
- Awgrymu y gellid cydnabod arbedion fel rhan o **Raglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol**. Cadarnhawyd bod angen gwneud rhagor o waith yn y maes hwn ynghylch effeithlonrwydd a chynhyrchiant a bydd hyn yn cael ei gwblhau fel rhan o'r rhaglen.
- Cyfeirio at y datblygiad cadarnhaol a'r amcanion heriol ond mwy realistig, a holodd a fydd disgwyliadau'r Gweinidog yn cael eu cyflawni. Cadarnhawyd bod hyn yn orfodol felly mae angen cyflawni yn y meysydd hynny er mwyn adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru.
- Nodi'r sefyllfa ariannol a phwysigrwydd cynaliadwyedd ariannol, gan nodi y gallai fod angen adolygu'r defnydd o gyllid mewn rhai meysydd wrth symud ymlaen er mwyn nodi sut y gellir

Heb eu Cadarnhau

darparu gwasanaethau'n wahanol, drwy adolygu modelau gwasanaeth ar lefel fanylach i gydbwyso blaenoriaethau.

- Pwysleisio'r angen i raeadru'r blaenoriaethau yn y cynllun ar draws y sefydliad, gyda'r nod o sicrhau bod staff ar draws y Bwrdd Iechyd yn gallu nodi lle gallant gyfrannu at gyflawni'r **Cynllun Tymor Canolig Integredig**.
- Cynghorwyd gan y Swyddog Atebol, os nad yw'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei ddyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb, y bydd gofyniad i uwchgyfeirio er mwyn cyrraedd sefyllfa ariannol.

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **DERBYN SICRWYDD** o ran y cynnydd a wnaed yn ystod Chwarter 3 a nodi'r hyder o ran cyflawniad ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol.
- **NODI** adroddiad Cynllun Tymor Canolig Integredig 2026-29.
- **CYMERADWYO** Rhaglen Gyfalaf 2026-28 fel y'i cynhwysir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig.
- **CYTUNO** i **GEFNOGI** cyflwyno'r Cynllun Tymor Canolig Integredig i Lywodraeth Cymru gan nodi'r amgylchiadau ariannol.
- **CYTUNO** ar ddatblygu Cynllun Adfer Ariannol yn unol â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd Iechyd.

**26.55 Gwella Gofal drwy Ddatblygiadau Digidol**

Cafodd y Bwrdd gyflwyniad a thynnodd y Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg a'r Prif Swyddog Gwybodaeth Glinigol sylw at y canlynol:

- Mae'r cyflwyniad yn dangos llawer iawn o weithgarwch sydd wedi bod yn digwydd yn y gofod Digidol, gan ddefnyddio buddsoddiad cyfalaf i ddarparu rhwydwaith diogel, a disodli caledwedd lle bo angen, parhau i fynd i'r afael â risgiau seiberddiogelwch a dechrau rhoi'r gorau i ddefnyddio hen systemau nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach.
- Mae **Presgripsiynu Electronig a Gweinyddu Meddyginiaethau** wedi bod yn rhaglen ddigidol ar raddfa fawr gyda'r potensial i leihau gwariant ac adnoddau ar draws y sefydliad. Mae'r system bellach yn fyw ar draws pob safle cleifion mewnol ar gyfer presgripsiynu cleifion, ac mae'n helpu i gryfhau diogelwch cleifion a chefnogi llwybrau meddygaeth gyfan.
- Cyfeiriwyd at y cynnydd hyd yma mewn perthynas ag amrywiaeth o raglenni gan gynnwys **Cofnod Gofal Iechyd Electronig Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Pob Oedran**, **Caffael System Gwybodaeth Radioleg** a **System Rheoli Gwybodaeth Labordy**.
- Bydd y camau nesaf yn cynnwys ehangu'r academi ddigidol i ddefnyddio offer a chyfleusterau i wneud arbedion effeithlonrwydd sylweddol, cryfhau cyflenwyr trydydd parti a sicrhau bod trefniadau llywodraethiant ar waith i ddarparu amgylchedd diogel.
- Mynegwyd diolch am ymroddiad staff a'u hymgysylltiad a'u parodrwydd i weithio'n agos gyda gwasanaethau, i roi systemau newydd ar waith yn llwyddiannus.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Holi am barhad busnes a pha gymorth a gynigir unwaith y bydd systemau newydd wedi'u rhoi ar waith. Cadarnhawyd bod gwaith yn cael ei wneud gyda staff i ddatblygu cynlluniau parhad busnes a bod y rhain yn cael eu rhannu â phob ward pan fydd system newydd yn cael ei rhoi ar waith.
- Nodi bod presgripsiynu yn fater sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a bydd gweithredu **Presgripsiynu Electronig a Gweinyddu Meddyginiaethau** yn rhoi manteision y gellir eu gwireddu, yn ogystal â dysgu a fydd yn parhau wrth i systemau newydd gael eu gweithredu.

- Cydnabod faint o ddata a gafwyd o'r system ddigidol a holi a yw hyn yn cael ei ddefnyddio at ddibenion ymchwil. Cadarnhawyd bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal i gysylltu â phrifysgolion a bod opsiynau'n cael eu hystyried gyda **Phrifysgol Bangor**.
- Cydnabod yr amrywiaeth o systemau sy'n cael eu datblygu a chwestiynu a ydynt yn gydnaws â'r systemau presennol. Cadarnhawyd bod gofyniad wedi'i sefydlu i nodi'r angen am gydnawsedd ac aliniad â'r system **Cofnodion Gofal Iechyd Electronig**. Mae gwaith yn cael ei wneud i adolygu ac asesu risg systemau a nodi unrhyw systemau y gallai fod angen eu datgomisiynu.
- Cadarnhau y bydd y gwaith hwn yn helpu i wella gofal a phrofiad staff clinigol, felly mae angen adeiladu system ofal i safon uchel a sicrhau cysondeb ar draws y sefydliad.

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:
- **CEFNOGI** a **CHYDNABOD** y gwaith a wnaed gan dimau Digidol a'r effaith gadarnhaol ar y sefydliad hyd yma.
- **CYMERADWYO'R** rhaglen barhaus o drawsnewid digidol fel galluogwr strategol ar gyfer gwell mynediad, canlyniadau a phrofiad, yn unol â'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.

**PERFFORMIAD INTEGREDIG**

**26.56 Adroddiad Cynnydd Gofal Brys ac Argyfwng**

Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad gan nodi bod hon bellach yn eitem safonol ar gyfer cyfarfod y Bwrdd a thynnodd y Prif Swyddog Gweithredu sylw at y canlynol:
- Mae'r **Rhaglen Gofal Brys ac Argyfwng** wedi cynnal ffocws clir a disgybledig ar gyflawni blaenoriaethau ar unwaith yn y tymor byr, yn ogystal â mynd i'r afael â'r rhaglen chwe nod hirdymor.
- Mae rhai gwelliannau wedi bod mewn amseroedd aros am ambiwlansys a phecynnau gofal ers i Gwib 1 gael ei gynnal yn ystod mis Rhagfyr 2025. Fodd bynnag, mae'n anodd cynnal hyn oherwydd cymhlethdod **Gofal Brys ac Argyfwng** a phwysau mewn rhannau eraill o'r system.
- Mae'r adolygiadau 21 diwrnod a'r archwiliad 6As sydd ar y gweill yn gam nesaf hollbwysig i atgyfnerthu cynnydd a sicrhau bod gwersi'n cael eu trosi'n welliannau cynaliadwy i'r system.
- Mae angen sefydlu safonau cydraddoldeb clinigol sy'n gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion. Mae hyn yn cyd-fynd â thrafodaethau gyda'r Bwrdd Partneriaeth Lleol i sicrhau gweithio mewn partneriaeth.
- Mae pryder ynghylch diogelwch ac ansawdd gofal i gleifion a staff, yn enwedig y rheini sy'n cael eu rheoli mewn coridorau ac mae gwaith yn cael ei wneud i adolygu'r meysydd gofal hyn a sicrhau bod cleifion yn cael eu symud i wardiau cyn gynted â phosibl.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:
- Mynegi pryderon ynghylch cynaliadwyedd gan nodi'r angen am arweinyddiaeth gref i sicrhau cynnydd parhaol. Cadarnhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud ar draws y tri safle, gan gynnwys perthnasau cadarnhaol â chlinigwyr a lefelau uwch o atebolrwydd. Mae angen adeiladu ar sgiliau gweithredol mewn amgylcheddau heriol, gan bwysleisio bod yn rhaid i newid cynaliadwy ddod yn ail natur, nad yw wedi cael ei gyflawni eto.
- Cydnabod y pwysau ar staff sy'n gweithio mewn **Adrannau Achosion Brys** a chwestiynu beth sy'n cael ei wneud i atal normaleiddio gofal coridor. Cadarnhawyd bod gwaith yn cael ei wneud gyda Chyfarwyddwyr Gweithredol ynghylch mannau heb eu dynodi i fynd ati i reoli gofod wardiau, ac mae Panel Goruchwylio Gweithredol wedi cael ei sefydlu. Yn ogystal, mae dangosfyrddau byw yn cael eu defnyddio mewn **Adrannau Achosion Brys** i fonitro

Heb eu cadarnhau

niferoedd cleifion, mae darpariaeth nyrsio briodol yn cael ei hadolygu, mae asesiadau risg deinamig yn cael eu gweithredu ac mae adolygiadau staffio rheolaidd yn cael eu cynnal i reoli gofal coridor yn systematig.

- Cyfeirio at y defnydd o'r lolfa ryddhau a chadarnhawyd bod safonau clir ynghylch defnyddio'r ardal hon nad ydynt yn cael eu mabwysiadu fel mater o drefn oherwydd yr heriau. Mae rhyddhau cleifion yn gynharach yn y dydd yn golygu bod modd trosglwyddo cleifion yn fwy effeithlon i wardiau, gan nodi bod symud cleifion yn amserol yn hanfodol. Lle bynnag y bo modd, dylid asesu cleifion gartref neu mewn mannau cymunedol ac mae gwaith yn cael ei wneud i adolygu modelau effeithiol i gefnogi'r dull hwn.
- Cadarnhau bod hwn yn faes ffocws sylweddol a bod angen cydweithio â thimau gweithredol i ddysgu o ddigwyddiadau a chynnal protocolau llym, gan reoli risgiau'n barhaus ar draws y system. Mae hefyd angen mynd i'r afael ag achosion cymhleth a chydbwyso'r gofal sydd ei angen gan alluogi timau i gyfrannu at atebion arloesol yn y maes hwn.

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **DERBYN** a **NODI'R** gwelliannau mesuradwy a gyflawnwyd drwy'r Rhaglen Gofal Brys ac Argyfwng, gan gynnwys gostyngiadau mewn Oedi yn y Llwybr Gofal, gwell perfformiad wrth drosglwyddo cleifion o ambiwlansys, a phrosesau rhyddhau cleifion cadarnach.
- **CYMERADWYO'R** gwaith parhaus o roi camau gweithredu ar waith ar draws y system, gan gynnwys y model Rhyddhau i Adfer ac Asesu, egwyddorion Cartref yn Gyntaf, ac ehangu rolau Asesydd Dibynadwy, fel galluogwyr hanfodol ar gyfer gwelliant cynaliadwy.
- **CEFNOGI'R** gwaith o sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod ar draws PBC, a datblygu'r model Un Pwynt Mynediad ymhellach, er mwyn gwella dewisiadau eraill yn lle derbyniadau a gwella llif y system.
- **GOFYN AM SICRWYDD** ar gynaliadwyedd gwelliannau, yn enwedig mewn perthynas â llwybrau rhyddhau cleifion, capasiti cymunedol, a gofal y tu allan i'r ysbyty, a chadarnhau bod risgiau a goblygiadau adnoddau'n cael eu rheoli'n weithredol.
- **CYMERADWYO** integreiddio Gwib a dysgu MADE i fusnes fel arfer, gan adrodd yn rheolaidd ar gynnydd, risgiau ac effaith.
- **NODI'R** risgiau i enw da sy'n gysylltiedig ag oedi parhaus a chymeradwyo cydweithio parhaus ar draws y system gyfan gyda phartneriaid Awdurdodau Lleol a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.
-

**26.57 Adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd - Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau**

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd Cadeirydd y Pwyllgor sylw at y canlynol:

- Cytunodd y Pwyllgor i dynnu sylw'r Bwrdd at yr heriau ynghylch **Gofal Brys ac Argyfwng** a'r cynllun peilot llwyddiannus o'r storfa ddysgu ym maes Fferylliaeth, sy'n caniatáu i wersi gael eu dysgu ac sydd i fod i gael ei gyflwyno'n ehangach ar draws y sefydliad.

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **NODI** cynnwys yr adroddiad.

**26.58 Adroddiad Ansawdd Integredig**

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth sylw at y canlynol:

- Bydd canllawiau newydd yn cael eu cyflwyno mewn perthynas â chwynion ac yn ystod y cyfnod, cafodd 83% o gwynion eu cau o fewn 30 diwrnod, yn uwch na'r targed o 75%. Mae'r tîm yn hyderus y gallant gynnal y safonau yn y maes gwaith hwn.

Heb eu Cadarnhau

- Mae un **Digwyddiad Byth** wedi cael ei adrodd yn ymwneud â gosod draen yn y frest sydd wedi arwain at bwyslais cryfach ar arferion gweithdrefnol diogel y tu allan i theatrau.
- Mae rhaglenni wedi'u targedu ar waith o ran **Atal a Rheoli Heintiau**, tynnwyd sylw at faterion yn ystod Ionawr 2026 ynghylch norofeirws ac mae gostyngiad wedi bod erbyn hyn.
- O ran **Atal Marwolaethau yn y Dyfodol**, tynnwyd sylw at risgiau systemig mewn gastroenteroleg ac endosgopi ac mae hyn yn cael ei ddatblygu gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol.
- Mae un **Adroddiad Budd y Cyhoedd** yn dal ar agor oherwydd cam gweithredu sy'n weddill ar y Fframwaith Sicrwydd Comisiynu ac mae'r Ombwdsmon wedi caniatáu estyniad.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Holi a oes unrhyw batrymau mewn perthynas â **Digwyddiadau sy'n Adroddadwy yn Genedlaethol**. Cadarnhawyd bod y digwyddiadau hyn yn amrywio, ond nid yw materion thematig yn tueddu i gael eu cydnabod yn y maes hwn.
- Cyfeirio at yr agwedd tuag at bwysau gwaith ac a yw hyn yn achosi unrhyw broblemau. Cadarnhawyd bod unrhyw gwynion a dderbynnir mewn perthynas ag agweddau ac ymddygiad yn cael eu bwydo'n ôl i'r timau i nodi unrhyw batrymau a, bod cefnogaeth hefyd yn cael ei darparu gan y Tîm Datblygu Sefydliadol.
- Tynnwyd sylw at yr **Adroddiad Budd y Cyhoedd** a'r argymhelliad ynghylch cryfhau'r broses o ddelio â chwynion a datrys cwynion yn gynnar er mwyn lleihau uwchgyfeirio. Cadarnhawyd y bydd archwiliad dwfn yn cael ei gwblhau mewn ymateb i'r Adroddiad.

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **NODI'R adroddiad; ac wedi**
- **CAEL SICRWYDD** o'r adroddiad, gan nodi bod yr holl eithriadau yn yr adroddiad yn cael eu monitro a bod ganddynt gynlluniau rheoli i olrhain y gwaith o'u cwblhau.
- **NODI** bod y cynlluniau gweithredu hyn yn cael eu holrhain drwy fforymau ansawdd craidd.

**26.59 Adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd - Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethiant Gwybodaeth**

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd yr Aelod Annibynnol sylw at y canlynol:

- Cytunodd y Pwyllgor fod angen i dargedau ac amserlenni mewn adroddiadau fod yn fwy penodol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau'n brydlon.
- Ni chafodd **Gofal wedi'i Gynllunio** ei adrodd gerbron y cyfarfod diwethaf, ond cytunodd y Pwyllgor y dylai hwn fod yn ddiweddariad rheolaidd er mwyn cynnal goruchwyliaeth a sicrwydd.

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **NODI** cynnwys yr adroddiad.

**26.60 Fframwaith Rheoli Perfformiad**

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid sylw at y canlynol:

- Mae'r adroddiad yn cyflwyno **Fframwaith Perfformiad ac Atebolrwydd Integredig** diwygiedig i'w gymeradwyo a'i roi ar waith o fis Ebrill 2026 ymlaen.
- Mae'r fframwaith yn nodi dull tryloyw o fonitro, mesur a gwella perfformiad sefydliadol ac yn sefydlu llinellau atebolrwydd clir ar bob lefel o'r sefydliad.

Heb eu cadarnhau

- Mae'r fframwaith yn mabwysiadu dull cerdyn sgorio cytbwys ac mae'n cael ei asesu gan ddefnyddio system sgorio Coch, Oren, Gwyrdd (RAG) sy'n golygu bod modd nodi risgiau'n gynnar a sbarduno cam uwchgyfeirio neu gymorth yn ôl yr angen.
- Bydd y fframwaith yn caniatáu canolbwyntio ar gyflawni amcanion strategol o ran perfformiad ac yn tynnu sylw at ble mae perfformiad yn symud oddi ar y trywydd iawn.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:
- Nodi nad yw'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad yn gyson â'r arferion presennol. Cadarnhawyd bod angen darparu tystiolaeth o weithredu ac mae hyn yn elfen graidd i'w chyflawni o dan y **Rhaglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol**. Y nod yw cael rolau a chyfrifoldebau clir a sicrhau cydbwysedd o ran darparu cymorth a dwyn pobl i gyfrif. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei drafod yn fanylach dros yr wythnosau nesaf ac y byddai'n cael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethiant Gwybodaeth i roi sicrwydd ynghylch cynnydd.
- Tynnu sylw at y ffaith, lle mae'r fframwaith yn awgrymu y gallai staff golli ymreolaeth os nad ydynt yn cadw o fewn targedau penodol, nad yw hyn yn cyd-fynd â chreu diwylliant tosturiol. Cadarnhawyd mai'r nod yw dechrau gyda chyllidebau sylfaenol ac wrth i'r ddarpariaeth gael ei chydnabod o fewn cyllidebau dynodedig, bydd ymreolaeth yn cynyddu.
- Cadarnhau gofyniad y sefydliad i gryfhau atebolrwydd a rheoli perfformiad a sicrhau bod pobl yn cael eu dwyn i gyfrif yn briodol.

**Cam Gweithredu:**
- **26.58.1** Y Fframwaith Rheoli Perfformiad i'w drafod yn fanylach gan y Bwrdd ac y byddai'n cael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethiant Gwybodaeth i roi sicrwydd ynghylch cynnydd.

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:
- **NODI'R** adroddiad.
- **CYTUNO** ar adolygiad pellach yn y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethiant Gwybodaeth cyn ei gymeradwyo'n derfynol ym mis Mai 2026.

**26.61 Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig**

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid sylw at y canlynol:
- Bu gwelliant o 80% yn nifer y cleifion sy'n aros dros 52 wythnos, gan nodi bod cyllid cenedlaethol wedi cael ei ddefnyddio i gyflawni'r gostyngiad sylweddol hwn.
- Gwelwyd gwelliannau hefyd yn nifer y cleifion sy'n aros dros 104 wythnos am bob cam o driniaeth, gyda chynnydd o 70% yn y ffigurau o'r un cyfnod adrodd yn 2025.
- Bu cynnydd yn y ffigurau **Diagnosteg** oherwydd yr apwyntiadau cleifion allanol newydd cyntaf ychwanegol sydd wedi'u cwblhau fel rhan o'r fenter genedlaethol. Fodd bynnag, mae'r perfformiad wedi gwella yn nifer y cleifion sy'n aros mwy nag 8 wythnos am **Ddiagnosteg**.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:
- Cyfeirio at y gwaith **Gwasanaethau Canser** a chadarnhau bod Rheolwr Rhwydwaith bellach wedi'i benodi a bod cyfarfodydd adolygu Canser yn digwydd i gasglu'r data perthnasol.

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:
- **DERBYN** yr adroddiad er sicrwydd ac wedi'i **NODI**.
- **CYMERADWYO'R** camau gwella sydd ar waith.

Heb eu cadarnhau

- **NODI** unrhyw feysydd y mae angen craffu arnynt ymhellach neu sydd angen eu huwchgyfeirio.

**26.62 Adroddiad Cyllid**

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid sylw at y canlynol:

- Mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd am ddiffyg o £17.3m hyd yma gyda rhagolwg o £17.4m erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- Mae'r sefyllfa hon yn cynnwys derbyn yr £82m o gyllid anghylchol wrth symud ymlaen i gynllun 2026/27.
- Y sefyllfa o ran cyflawni arbedion yw £40m a chyda rhai enillion ychwanegol ar y fantolen, y cyfanswm cyfunol yw tua £54m.

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **DERBYN** yr adroddiad a **CHRAFFU** arno.

**LLYWODRAETHIANT, RISG A SICRWYDD**

**26.63 Adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd: Y Pwyllgor Archwilio**

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio sylw at y canlynol:

- Pryderon yn ymwneud â dirywiad sicrwydd mewn cydymffurfiaeth statudol, a phrydlondeb ymatebion rheolwyr i argymhellion archwilio, gan nodi bod Cyfarwyddwyr Gweithredol yn mynychu'r Pwyllgor Archwilio ar sail dreigl i drafod unrhyw feysydd sy'n peri pryder.
- Mae adolygiad o risgiau ar fin cael ei gynnal i leihau lefelau risg a mynd i'r afael â bylchau mewn rheolaethau.

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **NODI** cynnwys yr adroddiad.

**26.64 Y Gofrestr Risg Gorfforaethol**

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd y Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol sylw at y canlynol:

- Mae'r Pwyllgorau wedi derbyn y **Gofrestr Risg Gorfforaethol**, a bydd gwaith holi pellach yn cael ei wneud ynghylch risgiau gweithredol a chamau gweithredu. Bydd sesiynau gyda'r Pwyllgor Gwaith a'r Bwrdd yn cael eu trefnu dros y misoedd nesaf.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Cwestiynu'r golofn mesurau rheoli ychwanegol sydd eu hangen a chadarnhawyd bod hyn yn cyfeirio at risg y tu allan i'r archwaeth risg sydd angen rheolaethau ychwanegol i leihau'r risgiau, er mwyn hwyluso tuedd ar i lawr. Wrth symud ymlaen, mae angen canolbwyntio ar reoli risg yn dda ar draws y sefydliad.

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **NODI** sefyllfa bresennol y Gofrestr Risg Gorfforaethol.
- **CEFNOGI'R** camau sy'n cael eu cymryd gan y Tîm Gweithredol i adolygu'r risgiau sydd uwchlaw'r lefelau goddefiant a'r camau gweithredu a gynigir.
- **CEFNOGI** dull y Tîm Gweithredol o adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a Datblygiad y Bwrdd i'r dyfodol yn y maes hwn.

Heb eu cadarnhau

- **CEFNOGI'R** gwaith parhaus o fireinio rheolaethau a disgrifyddion risg.

**26.65 Adroddiad Llywodraethiant Corfforaethol**

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd y Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol sylw at y canlynol:

- Mae'r Rheolau Sefydlog a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog wedi'u cynnwys yn y papurau ategol sy'n cyfeirio at fân newidiadau sydd wedi'u hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio.

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **NODI'R** adroddiad.
- **CADARNHAU** Cam Gweithredu'r Cadeirydd a gymerwyd ers y cyfarfod diwethaf.
- **NODI** bod y Sêl Gyffredin wedi'i gosod.
- **CADARNHAU** cymeradwyaethau o ran Clinigwyr Cymeradwy a Meddygon Adran 12(2) yn unol â chanllawiau cenedlaethol.
- **CYTUNO** ar y Cylch Busnes Blynyddol a Chynllun Datblygu'r Bwrdd ar gyfer 2026-27.
- **NODI** Adroddiad Sicrwydd Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

**26.66 Adroddiadau Cadeiryddion y Pwyllgorau a'r Grwpiau Cynghori:**

Cyflwynwyd Adroddiadau Cadeiryddion y Pwyllgorau a'r Grwpiau Cynghori canlynol i'r Bwrdd ac fe'u derbyniwyd:

- Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau
- Pwyllgor Pobl a Diwylliant
- Pwyllgor y Ddeddfwriaeth Iechyd Meddwl
- Pwyllgor Cronfeydd Elusennol
- Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid
- Fforwm Partneriaeth Lleol
- Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol
- Y Pwyllgor Gweithredol

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **DERBYN** yr adroddiadau ac wedi'u **NODI**.

**MATERION I GLOI**

**26.67 Adolygu Effeithiolrwydd y Cyfarfod**

Myfyriodd y Bwrdd ar y trafodaethau a gynhaliwyd, gan nodi'r canlynol:

- Bu'r agenda'n hir ond trafodwyd materion allweddol yn fanwl.
- Roedd ansawdd a naws yr adroddiadau wedi gwella ac felly roedd angen i'r Bwrdd graffu ymhellach arnynt.
- Cafwyd trafodaeth strategol dda ac awgrymwyd y gellid defnyddio sesiynau anffurfiol i gael dealltwriaeth mewn rhai meysydd, er mwyn gallu trafod ar lefel strategol yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd.
- Mae **Grŵp Cynghori'r Cadeirydd** wedi cytuno i ddechrau gweithio tuag at agenda cydsynio ar gyfer yr eitemau hynny sydd wedi cael eu cyflwyno gerbron cyfarfodydd y Pwyllgor.

Heb eu cadarnhau

| |
|---|
| • Mae **Gofal Brys ac Argyfwng** yn faes pryder pwysig ac mae angen i'r Bwrdd roi sylw llawn iddo. |
| **26.68 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:**<br><br>Dydd Iau 28 Mai 2026 am 9.30am yn Venue Cymru |
| **26.69 Penderfyniad i Eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd**<br><br>*"Eithrio'r wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn o ystyried natur gyfrinachol y materion sydd i'w trafod, gan y byddai cyhoeddusrwydd yn niweidiol i fudd y cyhoedd, yn unol ag Adran 1(2) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960."* |

Heb eu cadarnhau

## Pwyllgor Gweithredol

# ADRODDIAD YMGYSYLLTU Â DINASYDDION A'U PROFIADAU

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod<br>Date of Meeting** | 28 Mai 2026 |
| **Statws Cyhoeddi<br>Publication Status** | Agored/ Cyhoeddus |
| | Amherthnasol |
| **Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad<br>Report Author name and title** | Helen Stevens-Jones, Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu |
| **Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol<br>Lead Executive Team Member name and title** | Helen Stevens-Jones, Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu |

| | |
|---|---|
| **Pwrpas yr Adroddiad<br>Report Purpose** | I'w Nodi |

**Crynodeb Gweithredol**
**Executive Summary**

Mae'r Adroddiad hwn ar Ymgysylltu â Dinasyddion a'u Profiadau yn rhoi trosolwg lefel uchel i'r Bwrdd Iechyd o adborth gan ddinasyddion rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2026. Mae'n canolbwyntio ar y themâu allweddol sy'n deillio o ryngweithio â chleifion, arolygon, straeon, sgyrsiau yn y gymuned, ymgysylltu digidol, gohebiaeth wleidyddol, a gwaith Llais.

Dyma'r prif themâu ar draws y llwybrau ymgysylltu a chynrychioli hyn:

- Profiad ac amodau yn yr Adran Achosion Brys (gofal brys a gofal mewn argyfwng)
- Amseroedd aros ac oedi ar draws llwybrau cyfan (h.y. rhwng atgyfeirio a diagnosteg a chael canlyniadau a thriniaeth)
- Mynediad at ofal, yn enwedig gofal sylfaenol a deintyddiaeth y GIG
- Bylchau yn y system gyfan – rhyddhau cleifion, gofal cymdeithasol, capasiti cymunedol
- Ymddiriedaeth, cyfathrebu a phrofiad cleifion
- Atal a chanolbwyntio yn y dyfodol

| |
|---|
| Yn bennaf, mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu profiadau'r rheini sydd wedi mynegi pryderon, ac nid yw'n cyfleu'n llawn y llu o brofiadau cadarnhaol sy'n cael eu lleisio'n llai aml. |

| **Ymgysylltu (mewnol/allanol) yr ymgymerwyd ag ef hyd yma (gan gynnwys derbyn/ ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp)**<br>**Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)** | | |
|---|---|---|
| **Pwyllgor / Grŵp / Unigolion**<br>**Committee / Group / Individuals** | **Dyddiad**<br>**Date** | **Canlyniad, Tystiolaeth a Data**<br>**Outcome, Evidence and Data** |
| Trafodwyd fersiwn ddrafft o'r Adroddiad yn y Pwyllgor Gwaith | 22.04.26 | |
| Trafodwyd fersiwn ddrafft o'r Adroddiad yn y Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau | 07.05.26 | |

| **Acronymau / Rhestr Termau**<br>**Acronyms / Glossary of Terms** | |
|---|---|
| **AI** | Deallusrwydd Artiffisial |
| **GP** | Meddyg Teulu |
| **GIG** | Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| **PEARS** | Gwasanaeth Ymholiadau a Datrys y Bobl |

# ADRODDIAD YMGYSYLLTU Â DINASYDDION A'U PROFIADAU

## 1. SEFYLLFA

### 1.1 PWRPAS

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg strategol a sicrwydd i'r Bwrdd Iechyd ynghylch adborth a gafwyd gan ddinasyddion rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2026. Mae'n canolbwyntio ar y themâu allweddol sy'n deillio o ryngweithio â chleifion, arolygon, straeon, sgyrsiau yn y gymuned, ymgysylltu digidol, gohebiaeth wleidyddol, a gwaith Llais.

Mae'r diweddariad hefyd yn dangos sut mae adborth presennol yn cael ei ddefnyddio i lywio gwaith parhaus, ochr yn ochr ag enghreifftiau o ble mae eisoes wedi arwain at newid ystyrlon.

## 2. CEFNDIR

### 2.1 Beth mae dinasyddion yn ei ddweud wrthym: Prif themâu

Ar draws y llwybrau ymgysylltiad a chynrychioliolaeth, y prif themâu rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2026 yw:

- Profiad ac amodau yn yr Adran Achosion Brys (gofal brys a gofal mewn argyfwng)
- Amseroedd aros ac oedi ar draws llwybrau cyfan (h.y. rhwng atgyfeirio a diagnosteg a chael canlyniadau a thriniaeth)
- Mynediad at ofal, yn enwedig gofal sylfaenol a deintyddiaeth y GIG
- Gweithio system gyfan – rhyddhau cleifion, gofal cymdeithasol, capasiti cymunedol
- Ymddiriedaeth, cyfathrebu a phrofiad cleifion
- Atal a chanolbwyntio yn y dyfodol

Er gwaethaf y problemau hyn â'r system, mae dinasyddion yn parhau i gydnabod caredigrwydd rhagorol staff, gofal tosturiol, a chefnogaeth gan gymheiriaid. Mae hyn yn cael ei adleisio mewn gwaith ymgysylltu digidol, sy'n tynnu sylw at adborth cadarnhaol ar wasanaethau, negeseuon o ddiolch a chydnabyddiaeth i staff a chysylltiad emosiynol cryf â thimau lleol.

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'n bennaf adborth gan unigolion sydd wedi dewis rhannu pryderon neu brofiadau, ac o'r herwydd, mae'n tueddu i dynnu sylw at feysydd lle nad yw gofal wedi cyrraedd y disgwyliadau. Er bod y ddealltwriaeth hon yn hanfodol i ganfod risgiau a blaenoriaethau ar gyfer gwella, nid yw'n cynnwys yr

ystod lawn o brofiadau dinasyddion. Mae llawer o bobl yn cael gofal da a thosturiol ac nid ydynt yn rhoi adborth fel mater o drefn pan fydd gwasanaethau'n bodloni eu disgwyliadau. Felly, mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i driongli'r wybodaeth hon gyda data perfformiad ehangach, arolygon ac adborth cadarnhaol i gynnal dealltwriaeth gytbwys a chymesur o brofiad.

Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod gwaith sylweddol yn mynd rhagddo ar draws yr holl feysydd hyn i sbarduno gwelliant, wedi'i gefnogi gan gynlluniau gweithredu clir a chydweithio ar draws y system. Er bod cynnydd yn cael ei wneud, mae cydnabyddiaeth nad yw'r perfformiad yn gyson eto lle mae angen iddo fod, a bod angen ymdrech bellach mewn nifer o feysydd. Mae'r Bwrdd yn dal wedi ymrwymo i gyflymu gwelliannau a sicrhau bod y newidiadau sy'n cael eu rhoi ar waith yn arwain at welliannau ystyrlon a chyson ym mhrofiad dinasyddion.

**2.2 Arolwg Profiad Pobl Cymru Gyfan**

Rhwng 1 Ionawr 2026 a 31 Mawrth 2026, cafodd y Bwrdd Iechyd 19,161 o ymatebion i Arolwg Profiad Pobl Cymru Gyfan. Roedd 85.33% o bobl yn dweud bod eu profiad cyffredinol o gael mynediad at wasanaethau'r Bwrdd Iechyd yn gadarnhaol (da (18.57%) a da iawn (66.76%)).

Fe wnaeth 78.83% o bobl rannu profiadau cadarnhaol o gwmpas yr amser roeddent wedi aros i gael eu gweld, gyda 30.31% o ymatebwyr yn dweud bod yr amser aros yn 'weddol gywir', 10.73% yn teimlo ei fod 'ychydig yn fyrrach na'r disgwyl' a 32.79% yn teimlo ei fod 'yn llawer byrrach na'r disgwyl'.

Dywedodd 85.47% o'r ymatebwyr eu bod 'bob amser' yn cael eu trin ag urddas a pharch a dywedodd 90.30% o bobl eu bod 'bob amser' yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith gan gynnwys; Cymraeg, Saesneg, Pwyleg, Panjabi a Phortiwgaleg.

Data allweddol arall o'r arolwg:

- 74.03% o bobl 'bob amser' yn cael gofal da
- 77.82% o bobl yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnyn nhw 'bob amser'
- 75.62% o bobl yn cael eu cynnwys 'bob amser' mewn penderfyniadau am ofal
- 79.94% o bobl yn dweud bod pethau 'bob amser' cael eu hegluro iddynt mewn ffordd y gallent ei deall

Mae Arolwg Profiad Pobl GIG Cymru bellach ar gael i'r cyhoedd yn y 9 prif iaith sy'n cael eu siarad yng Nghymru, gan gynnwys arolwg fideo mewn BSL.

**2.3 Dysgu o adborth**

Mae rheolwyr ward a gwasanaeth yn cael data arolwg adborth cleifion yn fisol, ac maent yn gyfrifol am adolygu themâu, nodi cyfleoedd ar gyfer gwella a rhoi camau

gweithredu lleol ar waith lle bo angen. Mae gweithgarwch dysgu a gwella yn cael ei adrodd drwy'r Gymuned Iechyd Integredig a Grwpiau Profiad Cleifion a Gofalwyr Gwasanaethau Arbenigol, gydag enghreifftiau o newidiadau a wnaed mewn ymateb i adborth cleifion yn cael eu rhannu fel rhan o drefniadau parhaus i wella ansawdd.

Bob chwarter, mae'r Gymuned Iechyd Integredig a'r Gwasanaethau Arbenigol yn cynnal adolygiad ehangach o themâu adborth a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg, gan nodi dysgu sefydliadol a meysydd y mae angen canolbwyntio ymhellach arnynt. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei hadrodd drwy'r Grŵp Profiad Cleifion a Gofalwyr i'r Grŵp Cyflawni Ansawdd i gefnogi goruchwyliaeth a sicrwydd.

Yn ogystal â chefnogi gwelliannau gweithredol, mae themâu o adborth dinasyddion yn cael eu defnyddio fwyfwy i lywio gwaith cynllunio strategol a datblygu gwasanaethau ehangach ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn cynnwys cyfrannu at ddatblygu'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol, Strategaeth y Bwrdd Iechyd a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, ochr yn ochr â llywio rhaglenni ymgysylltu a newid gwasanaeth penodol, gan gynnwys gwaith parhaus yn Nhywyn a Penley.

Mae adborth a gesglir drwy arolygon, sgyrsiau cymunedol, gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid, gohebiaeth wleidyddol a gwaith profiad bywyd yn helpu i sicrhau bod blaenoriaethau sefydliadol a modelau gwasanaeth yn y dyfodol yn seiliedig ar brofiad dinasyddion, angen lleol ac effaith ymarferol gwasanaethau ar gymunedau. Mae hyn yn cefnogi ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i gydgynhyrchu, ymgysylltu'n gynnar a dylunio gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar bobl.

## 3. MATERION PENODOL I'W HYSTYRIED

Er mwyn cryfhau sicrwydd bod llais y dinesydd yn arwain at newid pendant, cyflwynir themâu allweddol i'r Bwrdd Iechyd sy'n deillio o ymgysylltu â dinasyddion yn ystod y cyfnod hwn, ochr yn ochr â'r camau a gymerwyd a'r arwyddion cynnar o effaith.

### 3.1 Gofal Brys a Gofal Argyfwng

**Dywedodd pobl fod** gofal brys ac argyfwng yn parhau i olygu amseroedd aros hir, gorlenwi ac, ar adegau, gofal yn cael ei ddarparu mewn amgylcheddau anghlinigol megis coridorau. Mae profiadau a rannwyd yn tynnu sylw at bryderon o ran urddas, cysur a chyfathrebu wrth aros, yn enwedig lle mae oedi'n ymestyn dros gyfnodau hir.

Mae adborth ar draws pob sianel hefyd yn dangos dealltwriaeth glir ymysg y cyhoedd bod y pwysau hyn yn gysylltiedig â heriau ehangach y system, gan gynnwys argaeledd gwelyau, oedi wrth ryddhau cleifion a mynediad at ofal yn y gymuned.

I gefnogi hyn, mae dadansoddiad manwl o adborth cleifion (ar draws 2025/26, ar sail dros 12,000 o ymatebion i'r arolwg) yn dangos bod profiad mewn Adrannau Achosion Brys yn dal yn is na phrofiad y Bwrdd Iechyd ehangach, gydag agweddau allweddol ar ofal - megis teimlo bod rhywun yn gofalu amdanynt, yn gwrando arnynt, yn eu cynnwys, a bod pethau'n cael eu hegluro'n glir - ddim yn cyrraedd y safonau disgwyliedig. Mae tystiolaeth hefyd o ddirywiad diweddar ym mhrofiad cleifion, sy'n atgyfnerthu'r pryderon a godwyd drwy ymgysylltu ehangach ac yn tynnu sylw at yr angen i barhau i ganolbwyntio ar wella.

Mae adborth ansoddol o'r dadansoddiad yn tynnu sylw at dosturi a phroffesiynoldeb staff, yn enwedig yn ystod amgylchiadau heriol. Fodd bynnag, mae themâu cyffredin yn yr adborth yn cynnwys cyfathrebu, cymryd rhan mewn penderfyniadau i wneud â gofal a chleifion yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt, gyda dirywiad mewn mesurau profiad yn cael eu nodi yn ystod Ch4 2025/26, sy'n debygol o adlewyrchu pwysau gweithredol cynyddol o fewn lleoliadau gofal brys.

**Camau a gymerwyd:** Mae cynllun rhaglen Gofal Brys ac Argyfwng bellach wedi'i gytuno ar gyfer 2026/27, sy'n canolbwyntio ar wella llif cleifion, rhyddhau cleifion yn amserol a lleihau'r pwysau ar draws Adrannau Achosion Brys. Mae hyn yn tynnu sylw at y canlynol:

**Disgwyliadau Cyflawni Allweddol ar gyfer 2026-27**

- Gweithredu llwybrau cymunedol a llwybrau osgoi derbyniadau (Codymau, Un Pwynt Mynediad, Eiddilwch) i leihau trawsgludiad a derbyniadau y gellir eu hosgoi.
- Cyflawni trosglwyddiadau ambiwlans diogel ac amserol, yn unol â chanllawiau cenedlaethol ac argymhellion Gwneud Pethau'n Iawn y Tro Cyntaf (GIRFT).
- Adfer llif ysbyty cyfan, gan gynnwys lleihau Oedi mewn Llwybr Gofal (POCD), modelau Aseswyr Dibynadwy a phrosesau rhyddhau cleifion saith diwrnod yr wythnos.
- Disgwyliad clir bod cyllid yn cael ei gyflwyno'n raddol a'i reoli bob chwarter, gyda'r cyflawni a'r gwariant yn cyd-fynd â cherrig milltir y cytunwyd arnynt.

Ar gyfer 2026/27, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi datblygu cynllun cyflawni cynhwysfawr Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng sy'n cyd-fynd â Blaenoriaethau 3A y Cynllun Tymor Canolig Integredig a gofynion y rhaglen genedlaethol. Mae'r cynllun yn cadarnhau £2.69m o gyllid craidd y Chwe Nod ac mae'n nodi pum ffrwd waith flaenoriaethol sy'n canolbwyntio ar ymateb yn y gymuned i godymau, Un Pwynt Mynediad, eiddilwch drws ffrynt, trosglwyddiadau ambiwlans a'r llif ysbyty gorau posibl. Bydd y cyflawni yn blaenoriaethu osgoi derbyniadau, gwneud penderfyniadau gwell wrth y drws ffrynt, trosglwyddiadau ambiwlans amserol, a llif ysbyty cyfan, wedi'i ategu gan broses cryfach o ryddhau cleifion a lleihau Oedi mewn Llwybr Gofal. Mae pob ffrwd waith yn seiliedig ar lywodraethu clir, arweinwyr a enwir, elfennau i'w cyflawni bob chwarter a chynllun

ariannol graddol i sicrhau bod gweithgarwch a ariennir yn cael ei gyflawni yn ôl y bwriad ac yn rhoi sicrwydd ynghylch defnyddio cyllid cenedlaethol yn effeithiol ar draws 2026/27.

Mae hyn yn parhau i fod yn her gymhleth i'r system gyfan, ac er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, mae angen gwelliant parhaus pellach. Mae'r adroddiad ar gynnydd Gofal Brys ac Argyfwng ym Mwrdd Iechyd mis Mai yn disgrifio'r heriau a'r cynnydd mewn mwy o fanylder.

### 3.2 Amseroedd aros ac oedi ar draws llwybrau cyfan

**Dywedodd pobl fod** amseroedd aros hir yn dal yn bryder sylweddol ar draws llwybr cyfan y claf, gan gynnwys ar gyfer apwyntiadau cleifion allanol, diagnosteg, canlyniadau profion a thriniaeth. Yn ogystal â'r amser aros, tynnodd pobl sylw at yr ansicrwydd a'r pryder sy'n gysylltiedig ag oedi, yn enwedig lle nad oes llawer o gyfathrebu neu eglurder ynghylch y camau nesaf.

Codwyd pryderon amlaf mewn perthynas â gwasanaethau orthopedig, dermatoleg, offthalmoleg a diagnosteg, gyda rhai cleifion yn dweud bod eu cyflwr neu ansawdd eu bywyd wedi dirywio wrth aros.

**Camau a gymerwyd:**

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wneud cynnydd o ran lleihau'r amseroedd aros hiraf a chynyddu capasiti cyffredinol. Mae'r camau gweithredu allweddol yn cynnwys:

- Gostyngiad o 62.8% dros y 12 mis diwethaf yn nifer y cleifion sy'n aros mwy na dwy flynedd am driniaeth wedi'i chynllunio.
- Lleihad o 93.2% mewn amseroedd aros o ddwy flynedd am apwyntiad cyntaf fel claf allanol a gostyngiad o 79.9% mewn amseroedd aros o flwyddyn.
- Gostyngiad o 47% mewn amser aros o ddwy flynedd am ofal orthopedig.
- Parhau i ddefnyddio trefniadau mewnoli ac allanoli i gynyddu gweithgarwch a lleihau ôl-groniadau.
- Datblygu cyfleusterau newydd, gan gynnwys y ganolfan lawfeddygol orthopedig yn Llandudno, i gefnogi capasiti ychwanegol.

Er gwaethaf y cynnydd hwn, cydnabyddir nad yw gwelliannau'n cael eu profi'n gyson gan gleifion eto, ac mae angen gwneud rhagor o waith i wella amseroedd aros a chyfathrebu drwy gydol y llwybr.

### 3.3 Mynediad at ofal, yn enwedig gofal sylfaenol a Deintyddiaeth y GIG

**Dywedodd pobl fod** cael mynediad at ofal sylfaenol yn dal yn anodd ac yn anghyson, gyda heriau o ran sicrhau apwyntiadau meddygon teulu, parhad gofal cyfyngedig a dibyniaeth ar fodelau mynediad yn gynnar yn y bore. Dywedodd rhai

pobl eu bod wedi osgoi gwasanaethau'n gyfan gwbl oherwydd profiadau negyddol blaenorol.

Mae mynediad at ddeintyddiaeth y GIG yn parhau i fod yn bryder, gyda phrinder argaeledd yn golygu bod rhai pobl yn teithio'n bell, yn talu'n breifat, neu'n mynd heb ofal. Yn fwy cyffredinol, tynnodd pobl sylw at heriau o ran cael mynediad at wasanaethau yn y gymuned, gan gynnwys ffisiotherapi, cymorth iechyd meddwl a gwasanaethau ataliol. Mae'r problemau hyn o ran mynediad yn cyfrannu at fwy o alw ar wasanaethau gofal brys ac argyfwng.

**Camau a gymerwyd:**

Mae amrywiaeth o gamau gweithredu ar y gweill i wella mynediad a darparu llwybrau amgen:

- Parhau i ehangu gwasanaethau fferylliaeth gymunedol, gan gynnig triniaethau a chyngor ar gyfer ystod eang o gyflyrau heb fod angen apwyntiad meddyg teulu.
  Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn contractio 144 o fferyllfeydd ledled Gogledd Cymru i ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG.
- Parhau i ddatblygu ac ehangu darpariaeth ddeintyddol ledled Gogledd Cymru, a welodd hyn gontractau newydd y GIG gwerth dros £4m yn cael eu rhoi ar waith yn 2025/6.
- Mwy o ddefnydd o'r Porth Mynediad Deintyddol, a gefnogodd 11,000 o bobl i gael eu dyrannu i bractisau'r GIG yn 2025/6.
- Gweithio i wella'r broses gyfeirio ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o wasanaethau amgen, gan gynnwys Unedau Mân Anafiadau ac opsiynau gofal yn y gymuned.

Nod y camau hyn yw gwella mynediad amserol at ofal, lleihau'r pwysau ar bractisiau meddygon teulu ac Adrannau Achosion Brys, a darparu mwy o ofal yn nes at adref.

### 3.4 System gyfan - rhyddhau cleifion, gofal cymdeithasol, y gymuned

**Dywedodd pobl fod** oedi o ran gofal ysbyty yn aml yn gysylltiedig â heriau ehangach y system, yn enwedig mynediad at ofal cymdeithasol, pecynnau gofal a chymorth cymunedol. Mae ymwybyddiaeth gynyddol ymysg y cyhoedd o'r rhyngddibyniaethau rhwng gwasanaethau ysbytai, awdurdodau lleol a darpariaeth gymunedol.

Roedd yr adborth yn tynnu sylw at bryderon ynghylch oedi wrth ryddhau cleifion, argaeledd gwelyau cymunedol a llai o fynediad at wasanaethau lleol, yn enwedig

mewn ardaloedd gwledig. Nodwyd hefyd bod trafnidiaeth a phellteroedd teithio yn rhwystrau rhag cael mynediad at ofal.

**Camau a gymerwyd:**

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid awdurdodau lleol a'r trydydd sector i gryfhau dull gweithio system gyfan:

- Mentrau ar y cyd i wella llwybrau rhyddhau cleifion a chynyddu argaeledd gofal yn y gymuned a gwasanaethau ail-alluogi.
- Canolbwyntio parhaus ar fanteisio i'r eithaf ar gapasiti cymunedol drwy ddulliau ail-alluogi, ailgynllunio gwasanaethau a chryfhau cymorth yn y gymuned. Fel rhan o'r gronfa trawsnewid Awdurdodau Lleol sydd wedi gweld cynnydd mewn ailalluogi, pecynnau cymunedol o ddarpariaeth gofal, a chynnydd mewn staff gofal cymdeithasol i leihau oedi oherwydd asesiadau gofal cymdeithasol / dyraniad o weithwyr cymdeithasol.
- Cydweithio parhaus drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gefnogi'r gwaith o gynllunio a chyflawni gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mewn modd integredig. Cynhaliwyd dau wib y 'gaeaf' a nododd perfformiad y system, camau gweithredu allweddol a dysgu i lywio gwydnwch parhaus.
- Ymgysylltiad parhaus â chymunedau a phartneriaid i lywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau a sicrhau bod anghenion lleol yn cael eu hadlewyrchu.

**Disgwyliadau Cyflawni Allweddol ar gyfer 2026-27**

- Gostyngiad yn nifer y bobl sy'n cael eu dal yn ôl yn yr ysbyty, gostyngiad yn nifer y diwrnodau sy'n cael eu gohirio a gostyngiad yn nifer y bobl sy'n cael eu dal yn ôl oherwydd eu bod yn aros am asesiad
- Canolbwyntio ar gyflwyno a gwreiddio modelau gofal Aseswyr Dibynadwy
- Gwreiddio rhaglenni gwella ymwybyddiaeth darparwyr gofal a rhyddhau cleifion ymhellach
- Gweithio gyda phartneriaid a chleifion ynghylch cynllunio rhyddhau cleifion ac arweiniad rhyddhau cyndyn
- Gweithredu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth / Gweledigaeth ar gyfer Rhyddhau (Dysgu o Wib y Gaeaf) rhyngsefydliadol. Cynhelir gweithdy ar 19$^{eg}$ Mai i roi'r dysgu a'r camau gweithredu allweddol ar waith.

Mae'r gwaith hwn yn ganolog i wella llif cleifion, lleihau'r pwysau ar ysbytai a galluogi mwy o ofal i gael ei ddarparu'n nes at adref.

### 3.5 Cyfathrebu, ymddiriedaeth a phrofiad cleifion

**Dywedodd pobl fod** cyfathrebu a theimlo bod rhywun yn gwrando arnynt yn dal yn agweddau allweddol ar eu profiad. Yn ôl rhai cleifion roeddynt yn teimlo eu bod yn

cael eu diystyru, nad oeddent yn cael digon o wybodaeth, neu eu bod yn ansicr ynghylch beth i'w ddisgwyl wrth ddefnyddio gwasanaethau neu wrth aros am ofal.

Ar yr un pryd, mae cydnabyddiaeth gyson a chryf o broffesiynoldeb, tosturi ac ymroddiad staff rheng flaen, hyd yn oed yng nghyd-destun pwysau sylweddol ar y system.

Mae'r cyfnod hwn hefyd wedi gweld mwy o ddylanwad ar adroddiadau yn y cyfryngau, ymgyrchoedd wedi'u targedu a gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys deunydd sydd wedi'i gynhyrchu gan ddeallusrwydd artiffisial, yn llywio barn y cyhoedd ac, ar adegau, cyfrannu at gamwybodaeth neu gamddealltwriaeth.

**Camau a gymerwyd:**
Mae nifer o gamau gweithredu ar y gweill i gryfhau cyfathrebu, ymddiriedaeth a phrofiad cleifion:

- Mwy o ganolbwyntio ar wybodaeth glir, amserol a hygyrch i'r cyhoedd, yn enwedig mewn perthynas â gofal brys a gofal mewn argyfwng a llwybrau amgen.
- Parhau i ddatblygu mecanweithiau adborth, gan gynnwys arolygon cleifion amser real a gweithgarwch ymgysylltu, i sicrhau bod llais cleifion yn sail i wella gwasanaethau.
- Parhau i hyrwyddo ymgyrchoedd i helpu pobl i ddewis y gwasanaeth iawn a deall beth i'w ddisgwyl wrth gael mynediad at ofal.
- Cydnabyddiaeth a dathliad parhaus o gyflawniadau staff i gefnogi morâl ac atgyfnerthu hyder y cyhoedd.
- Cryfhau'r gwaith o fonitro ac ymgysylltu â chyfryngau cymdeithasol er mwyn ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg, mynd i'r afael â chamwybodaeth a darparu gwybodaeth gywir.

Nod y camau gweithredu hyn yw gwella tryloywder, meithrin ymddiriedaeth a sicrhau bod profiad cleifion yn parhau i fod yn ganolog i ddarparu gwasanaethau.

### 3.6 Atal a chanolbwyntio yn y dyfodol

**Dywedodd pobl fod** cefnogaeth gref i ganolbwyntio mwy ar atal a helpu pobl i gadw'n iach am fwy o amser. Fodd bynnag, mynegwyd pryder gan rai na ddylai hyn

amharu ar fynd i'r afael â'r pwysau presennol a materion o ran mynediad yn y system.

Tynnodd adborth sylw at bwysigrwydd ymyrraeth gynnar, gwell mynediad at sgrinio a diagnosteg, a gweithio cryfach mewn partneriaeth ar draws iechyd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector.

**Camau a gymerwyd:**

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wneud y canlynol:

- Gweithio gyda phartneriaid i gryfhau dulliau gweithredu atal ac ymyrryd yn gynnar.
- Hyrwyddo cynlluniau sgrinio, brechu a ffordd iach o fyw.
- Edrych ar gyfleoedd i wella mynediad at wasanaethau ataliol a chymorth yn y gymuned.
- Ymgysylltu â chymunedau i sicrhau bod strategaethau atal yn seiliedig ar brofiad bywyd.

## 4. YMGYSYLLTU AR DDATBLYGIADAU STRATEGAETH A GWASANAETH

Ochr yn ochr â gwelliannau gweithredol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymgysylltu i siapio datblygiadau strategol

### 4.1 Datblygu Ymgysylltu Strategol a Llais yr Ifanc

Fel rhan o'r gwaith o gryfhau llais y dinesydd a chyd-gynhyrchu, cynhaliwyd gweithdy Llais yr Ifanc ym mis Mawrth 2026 gyda thua 40 o gyfranogwyr, gan gynnwys pobl ifanc, gweithwyr ieuenctid, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a staff y Bwrdd Iechyd, i lywio'r gwaith o ddatblygu Fforwm Llais yr Ifanc. Pwysleisiodd pobl ifanc fod yn rhaid i ymgysylltu fod yn ystyrlon, gyda thystiolaeth glir bod eu barn yn dylanwadu ar benderfyniadau, yn hytrach na bod yn symbolaidd. Cafodd llwyddiant ei ddisgrifio fel pobl ifanc yn bartneriaid cyfartal wrth wneud penderfyniadau, gyda chyfleoedd cynhwysol i gymryd rhan ac adborth clir ar sut mae eu mewnbwn yn arwain at newid pendant.

Bydd y Bwrdd yn clywed yn uniongyrchol am y camau nesaf posibl gan rai o'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn sesiwn a gynhelir ym mis Mehefin.

### 4.2 Ymgysylltu ynghylch Newidiadau i Wasanaethau yn Nhywyn:

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ymgysylltu â chleifion, staff, cynrychiolwyr cymunedol a rhanddeiliaid lleol i lywio penderfyniadau am fodelau gwasanaeth yn Nhywyn yn y dyfodol. Mae hyn wedi cynnwys gweithdai strwythuredig, cyfarfodydd cymunedol, a thrafodaethau wedi'u hwyluso i sicrhau bod amrywiaeth eang o

safbwyntiau'n cael eu cofnodi. Mae adborth parhaus o weithgarwch ymgysylltu yn Nhywyn yn dangos bod galw cryf a pharhaus ymysg y cyhoedd am ailagor y ward cleifion mewnol. Ochr yn ochr â hyn, mae pryderon sylweddol ynghylch mynediad at ofal, pellteroedd teithio estynedig, a'r risgiau cysylltiedig i ddiogelwch cleifion.

### 4.3 Ymgysylltu ynghylch Newidiadau i Wasanaethau yn Llannerch Banna:

Mae gwaith ymgysylltu parhaus yn yr ardal wedi tynnu sylw at alw mawr am gynigion cliriach a manylach, ochr yn ochr â chwestiynau am fwriadau ar gyfer y dyfodol, diogelwch cyllid a defnydd hirdymor yr adeilad. Mae mynediad at wasanaethau lleol yn parhau i fod yn bryder allweddol, yn enwedig mewn perthynas â rhwystrau trafnidiaeth, ynysu gwledig a diogelwch cleifion. Mae cefnogaeth glir i fodel ehangach ar gyfer pob oed sy'n canolbwyntio ar atal a gwasanaethau cymunedol ymarferol.

Gyda'i gilydd, mae'r ymarferion ymgysylltu hyn yn dangos ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i gynnwys dinasyddion, staff a phartneriaid yn y camau cynharaf o'r broses o gynllunio gwasanaethau a strategaethau.

## 5. SICRWYDD I'R BWRDD IECHYD

Mae adborth dinasyddion bellach yn cael ei gasglu a'i ddadansoddi'n fwy systematig nag erioed o'r blaen. Mae themâu cyson ar draws cysylltiadau PEARS, arolygon, sgyrsiau cymunedol, gohebiaeth wleidyddol, ac adroddiadau Llais yn dangos pa mor ddibynadwy yw'r wybodaeth hon. Mae gwelliannau lleol – fel bwydlenni diwygiedig ar wardiau, systemau apwyntiadau newydd, a grwpiau cymorth i gleifion – yn darparu tystiolaeth bod adborth yn cael ei drosi'n newidiadau i wasanaethau.

## 6. ARGYMHELLION

6.1 Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd wneud y canlynol:

- **NODI'R** themâu allweddol yn yr adborth gan ddinasyddion.
- **SICRHAU** ei hun bod llais y dinesydd yn llywio penderfyniadau ac amcanion ar lefel sefydliadol a gwneud penderfyniadau, yn ogystal â gwelliannau gweithredol.

| ASESIAD / ASSESSMENT | |
|---|---|
| **Cyswllt â'r Blaenoriaethau Strategol**<br>**Link to Strategic Priorities** | 4. Gwella ansawdd, canlyniadau a phrofiad |
| | |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod: |
| **Yr Egwyddorion Dylunio**<br>**Design Principles** | Pobl yn Gyntaf<br>Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod: |
| **Fframwaith Risgiau Corfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd**<br>**Corporate Risks and Board Assurance Framework** | Mae llawer o'r themâu a amlygir yn y papur hwn yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r risgiau presennol ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Iechyd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol (CRR). Mae'r rhain yn cynnwys risgiau sy'n ymwneud â mynediad amserol ac amseroedd aros, ansawdd a diogelwch gofal, cadernid y gweithlu, anghydraddoldebau iechyd, ac enw da/hyder y cyhoedd. Mae'r adborth gan ddinasyddion a gyflwynir yma yn atgyfnerthu meysydd sydd eisoes wedi'u nodi fel risgiau strategol ac yn darparu rhagor o dystiolaeth i lywio mesurau lliniaru a sicrwydd. |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant**<br>**Wellbeing of Future Generations Act – Wellbeing Goals** | Cymru Iachach |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod: |

| ASESIADAU O EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS | | |
|---|---|---|
| **Cydraddoldeb**<br>*A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (sy'n cynnwys gofynion Safonau'r Gymraeg)*<br>**Equality**<br>*Have you undertaken an Equality Impact Assessment Screening (which includes the requirements of the Welsh Language Standards)* | Do / Yes: ☐ | Naddo / No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y papur hwn, gan ei fod yn darparu crynodeb strategol o adborth dinasyddion yn hytrach na chynnig neu weithredu newidiadau penodol i |

| | | |
|---|---|---|
| | | wasanaethau. Cynhelir Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel y bo'n briodol i gefnogi cynigion i newid gwasanaethau unigol. |
| **Asesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol**<br>*A ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol?*<br>**Socio-Economic Impact Assessment**<br>*Have you undertaken a Socio-Economic Impact Assessment* | Do / Yes: ☐ | Naddo / No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Nid oes angen Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol ar gyfer y papur hwn, gan ei fod yn darparu crynodeb strategol o adborth dinasyddion yn hytrach na chynnig neu weithredu newidiadau penodol i wasanaethau. Cynhelir Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel y bo'n briodol i gefnogi cynigion i newid gwasanaethau unigol. |
| **Ansawdd**<br>*A ydych chi wedi ymgymryd â phrawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd?*<br>**Quality**<br>*Have you undertaken a Quality Impact Assessment Screening?* | **Galluogwyr Ansawdd Enablers of Quality** Diwylliant a Gwerthfawrogi Pobl | **Meysydd Ansawdd Domains of Quality** Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:<br>If more than one applies, please list below: | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:<br>If more than one applies, please list below: |
| | | |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant**<br>**Wellbeing of Future Generations Act – Wellbeing Goals** | Cymru Iachach | |

| | | |
|---|---|---|
| **Effaith Amgylcheddol / Cynaliadwyedd (5Rs)**<br>**Environmental /Sustainability Impact (5Rs)** | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod If more than one applies, please list below: | |
| | Na - Ddim yn berthnasol | |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod If more than one applies, please list: | |
| **Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog**<br>A ydych chi wedi ystyried Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog:<br>**Armed Forces Covenant Due Regard Duty**<br>Have you considered the Armed Forces Covenant Due Regard Duty? | Do / Yes: ☐ | Naddo / No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale: | |
| **Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data**<br>*A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data?*<br>**Data Protection Impact Assessment**<br>*Have you undertaken a Data Protection Impact Assessment Screening?* | Do / Yes: ☐ | Naddo / No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale: | |
| **Asesiad o Effaith ar Atal Twyll**<br>*A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau ar atal twyll?*<br>**Counter Fraud Impact Assessment**<br>*Have you considered the counter fraud impacts* | Do / Yes: ☐ | Naddo / No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale: | |
| **Cyfreithiol**<br>**Legal** | Nid oes goblygiadau cyfreithiol penodol yn gysylltiedig â'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn. | |
| | | |
| **Enw Da** | Oes (Rhowch ragor o fanylion isod) | |

| | |
|---|---|
| **Reputational** | Mae risg i enw da ac i hyder y cyhoedd mewn perthynas ag amseroedd aros, capasiti gwelyau, prinder staff, gofal coridor ac oedi gydag ambiwlansys, gan bwysleisio pwysigrwydd sicrwydd prydlon, cyfathrebu ffeithiol clir, a mynd i'r afael â chamwybodaeth i gynnal hyder y cyhoedd a lleihau ansicrwydd |
| **Effaith ar Adnoddau** *(Pobl / Ariannol)* **Resource Impact** *(People / Financial)* | Nid oes effaith uniongyrchol ar adnoddau o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn. |

**BWRDD IECHYD**

**ADRODDIAD CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod**<br>**Date of Meeting** | 28 May 2026 |
| **Statws Cyhoeddi**<br>**Publication Status** | Cyhoeddus |
| | |
| **Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad**<br>**Report Author name and title** | Dyfed Edwards<br>Cadeirydd |
| **Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol**<br>**Lead Executive Team Member name and title** | |

| | |
|---|---|
| **Pwrpas yr Adroddiad**<br>**Report Purpose** | I'w nodi |

| **Crynodeb Gweithredol**<br>**Executive Summary** |
|---|
| Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am faterion allweddol o fewn y sefydliad a gwaith allanol gyda'r Llywodraeth a phartneriaid eraill<br><br>• Cyfarfodydd gyda Chynrychiolwyr Etholedig<br>• Apwyntiadau<br>• Manylion ymweliadau a chyfarfodydd |

| **Ymgysylltu (mewnol/allanol) yr ymgymerwyd ag ef hyd yma (gan gynnwys derbyn/ ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp)**<br>**Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)** | | |
|---|---|---|
| **Pwyllgor / Grŵp / Unigolion**<br>**Committee / Group / Individuals** | **Dyddiad**<br>**Date** | **Canlyniad, Tystiolaeth a Data**<br>**Outcome, Evidence and Data** |
| | | |

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

**Adroddiad y Cadeirydd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

**Mai, 2026**

Mae peth o'r gwaith rydw i wedi'i wneud ers fy adroddiad i gyfarfod Bwrdd Mawrth wedi'i grynhoi isod:

**Bwrdd a Phwyllgorau**

Dangoswyd stori gleifion, *'This Too Will Pass'*, mewn **Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion (QSE) yn ddiweddar** yn atgyfnerthu dysgu ar urddas, caredigrwydd, lleihau stigma a chynhaliaeth oes gyfan. Mae hyn yn tanlinellu ein huchelgais i wrando ar ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cefnogi i lunio ein gwasanaethau yn y dyfodol. Gellir ei weld yma **https://youtu.be/uliVWOgd-7o** Bydd y ffilm hefyd yn cael ei dangos yn Y Ganolfan Porthmadog ar 15 Gorffennaf 2026.

Mae'r **Hunanasesiad Bwrdd ar gyfer 2025-26 a gwblhawyd yn ddiweddar** yn werthusiad agored o'r ffordd rydym yn gweithio gyda'n gilydd fel Bwrdd. Mae'r adroddiad yn tanlinellu beth yw ein cryfderau tra hefyd yn sail i ddatblygu pellach. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried sut y gallwn weithio gyda phartner er mwyn datblygu ymhellach fel Bwrdd

Llongyfarchiadau a diolch i Gareth Jones, sydd wedi cael ei benodi'n ddiweddar yn Is-gadeirydd y **Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid** (SRG). Dymuniadau gorau i Gareth wrth iddo gefnogi gwaith y grŵp hwn

Cafwyd cyfarfodydd diweddar o'r **Grŵp Goruchwylio Cyllid, y Bwrdd Anffurfiol a'r Grŵp Perfformiad** gyda rhai themâu clir yn datblygu, sef yr angen i sicrhau ein bod yn grymuso staff i gyflawni perfformiad a chyllid yn lleol er mwyn datblygu perchnogaeth ac atebolrwydd. Er mai rôl y Bwrdd yw pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer y sefydliad, dylai'r cyflawniad fod yn lleol

**Ymgysylltu ag eraill**

Mae etholiadau i'r Senedd ym mis Mai wedi arwain at ffurfio llywodraeth newydd a byddwn yn ceisio gweithio'n gynhyrchiol gyda thîm Plaid Cymru – **Rhun ap Iorwerth AS, Prif Weinidog Cymru, Mabon ap Gwynfor AS, Gweinidog y Cabinet dros Iechyd a Gofal, Nerys Evans AS, y Dirprwy Weinidog dros Iechyd y Cyhoedd ac Iechyd Ataliol a Delyth Jewell AS, Y Dirprwy Weinidog dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd Meddwl a Iechyd Menywod**. Rydym yn ymwybodol o flaenoriaethau'r llywodraeth newydd ar gyfer iechyd ac yn deall arwyddocâd ein perfformiad fel Bwrdd Iechyd yn y cyd-destun yma.

Fel rhanbarth mae gennym bellach 24 o Aelodau'r Senedd ar draws pob plaid wleidyddol a byddwn yn ymdrechu i ymgysylltu'n gadarnhaol â phob un ohonynt er

mwyn cefnogi eu gwaith wrth gynrychioli etholwyr. Rydym wedi cynllunio sesiynau briffio gydag aelodau yn eu grwpiau gwleidyddol a byddaf yn gobeithio cwrdd â chymaint o aelodau newydd â phosibl dros y cyfnod nesaf. Hoffwn hefyd gydnabod a diolch i gyn-Weinidogion ac aelodau'r Senedd am y cyfle i weithio gyda nhw dros y tair blynedd diwethaf. Dymunwn yn dda iddyn nhw i gyd ar gyfer y dyfodol.

Cefais y pleser o fynychu nifer o ddigwyddiadau dros yr wythnosau diwethaf: Roeddwn yn westai mewn dau ginio dathlu i goffáu **25 mlynedd ers recriwtio nyrsys Filipino yma yn y Bwrdd Iechyd.** Roedd yn gyfle i ddiolch iddynt i gyd am eu hymroddiad a'u hymrwymiad a hefyd yn ein hatgoffa o natur ryngwladol ein gweithlu. **Roedd Dysgwr y Flwyddyn** yn seremoni ardderchog yn cydnabod ymdrechion cymaint o staff i ddysgu Cymraeg. Mae gennym bron i fil o staff yn y Bwrdd Iechyd bellach yn dysgu Cymraeg – llwyddiant mawr sy'n ganlyniad i waith ardderchog tîm y Gymraeg. Cefais y fraint o fynychu perfformiad o **The Shackleton Play gan staff a phobl yn eu gofal yn Nhŷ Llywelyn, Bryn y Neuadd**. Gyda chefnogaeth ein Tîm Celfyddydau mewn Iechyd, roedd yn ysbrydoledig gweld y cynhyrchiad hwn a siarad â rhai o'r cast. Mae llawer o ffactorau yn dylanwadu ar ein hiechyd a'n lles a gall y celfyddydau gael effaith gadarnhaol ar iechyd y boblogaeth fel y mae'r prosiect hwn yn dangos. Mae **Deepening Roots** yn brosiect dan arweiniad Coed Lleol a mynychais sesiwn yng Nghanolfan Gadwraeth Pensychnant, Conwy. Roedd y sesiwn yn rhan o raglen barhaus a gynlluniwyd i gefnogi lles staff trwy gysylltiad ystyrlon â natur, creadigrwydd, a phrofiadau awyr agored ymwybodol. Yn ddiweddar, gwahoddodd Clare Budden, Aelod Annibynnol a Phrif Weithredwr Cymdeithas Tai Clwyd Alyn Jane Moore, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd a minnau i **brosiect Well-Fed yn Shotton, Glannau Dyfrdwy**. Mae hon yn fenter gymdeithasol a sefydlwyd yn 2019 fel partneriaeth unigryw rhwng Can Cook, Cymdeithas Tai Clwyd Alyn a Chyngor Sir y Fflint. Maent yn cyflenwi prydau bwyd i gymdeithasau tai, cartrefi gofal, awdurdodau lleol, a busnesau, gan eu helpu i ddiwallu anghenion gweithredol tra'n gwella mynediad at fwyd da a gwella iechyd pawb trwy ddeiet. Mae potensial clir i ni fel Bwrdd Iechyd archwilio posibiliadau i staff a chleifion.

Isod mae crynodeb o rai o'm cyfarfodydd a'm hymweliadau hyd at Fai 21, 2026.

| | |
|---|---|
| 19 Mawrth | Digwyddiad Fframwaith Lles, Atal ac Angor |
| 19 Mawrth | Seremoni Dysgwr Cymraeg y Flwyddyn BIPBC |
| 20 Mawrth | Digwyddiad Dyfnhau Gwreiddiau, Pensychnant |
| 23 Mawrth | Jacqueline Totterdell, Cyfarwyddwr Cyffredinol GIG Cymru |
| 23 Mawrth | Aelodau Annibynnol, Prif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |
| 23 Mawrth | Adolygiad Diwedd Blwyddyn gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| 23 Mawrth | Cyfarfod Perfformiad Wythnosol |
| 23 Mawrth | Phylis Makurunje, Darpar Aelod o'r Bwrdd |
| 24 Mawrth | Fforwm Strategol y Gymraeg |
| 24 Mawrth | Grŵp Cymheiriaid Cadeiryddion Cymru Gyfan |
| 24 Mawrth | Gareth Williams, Is-gadeirydd |
| 24 Mawrth | Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |
| 24 Mawrth | Cyfweliad: Hyrwyddo Dementia fel Blaenoriaeth Genedlaethol |
| 25 Mawrth | Amcanion Cadeiryddion gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| 25 Mawrth | Sesiwn Datblygu Bwrdd, Llandudno |
| 26 Mawrth | Bwrdd Iechyd, Llandudno |
| 27 Mawrth | Digwyddiad Dathlu'r Celfyddydau a'r Meddyliau - Perfformiad o ddrama Shackleton, Tŷ Llywelyn, Bryn y Neuadd |
| 30 Mawrth | Cyfarfod Llety Gweithwyr Allweddol |
| 31 Mawrth | Darren Hughes, Cydffederasiwn GIG Cymru |
| 31 Mawrth | Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |
| 31 Mawrth | Kirsty Williams, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| 31 Mawrth | Gweminar Cydffederasiwn GIG Cymru gyda'r Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar |
| 1 Ebrill | Prosiect Cyntedd a Caffi newydd Ysbyty Gwynedd |
| 2 Ebrill | Canolfan Gofal Sylfaenol Porthmadog - cyfarfod gyda chynrychiolwyr lleol |
| 2 Ebrill | Ymweliad y Prif Weinidog â Chanolfan Orthopedig Ysbyty Llandudno |
| 7 Ebrill | Carol Shillabeer, Prif Swyddog Gweithredol |
| 7 Ebrill | Cyflwyniad i Raddedigion GIG Cymru |
| 9 Ebrill | Gosod Agenda y Bwrdd Iechyd |
| 9 Ebrill | Grŵp Goruchwylio Ariannol |
| 16 Ebrill | Trafodaeth Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru |
| 17 Ebrill | Digwyddiad Dathlu Pen-blwydd Nyrsys Ffilipinaidd yn 25 oed (Gorllewin), Caernarfon |
| 20 Ebrill | Adolygiad o Gyd-bwyllgor Canolbarth Cymru – Gweithdy |
| 20 Ebrill | Carol Shillabeer, Prif Swyddog Gweithredol |

| | |
|---|---|
| 20 Ebrill | Cyfarfod Perfformiad Wythnosol |
| 21 Ebrill | Pwyllgor Archwilio |
| 21 Ebrill | Cwmni Seren, Blaenau Ffestiniog |
| 22 Ebrill | Trafodaeth Prif Swyddog Gweithredol a Chadeirydd gyda Grŵp Arweinyddiaeth Feddygol, Llanelwy |
| 23 Ebrill | Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru |
| 24 Ebrill | Digwyddiad Dathlu Pen-blwydd Nyrsys Ffilipinaidd yn 25 oed (Canol a Dwyrain), Wrecsam |
| 27 Ebrill | Carol Shillabeer, Prif Swyddog Gweithredol |
| 27 Ebrill | Cyfarfod Perfformiad Wythnosol |
| 28 Ebrill | Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth |
| 29 Ebrill | Digwyddiad Dathlu Arweinwyr Newid Diwylliant BIPBC |
| 30 Ebrill | Datblygu Bwrdd, Llandudno |
| 5 Mai | Fforwm Partneriaeth Lleol |
| 5 Mai | Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |
| 6 Mai | Carol Shillabeer, Prif Swyddog Gweithredol |
| 7 Mai | Pwyllgor Cynllunio, Partneriaethau a Iechyd y Boblogaeth |
| 7 Mai | Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad |
| 8 Mai | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
| 11 Mai | David Graves, Swyddfeydd Llais, Bangor |
| 11 Mai | Arfarnu Is-gadeirydd |
| 11 Mai | Cyfarfod Perfformiad Wythnosol |
| 12 Mai | Carol Shillabeer, Prif Swyddog Gweithredol |
| 12 Mai | Pwyllgor Tâl |
| 12 Mai | Carol Shillabeer, Prif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol Pam Wenger |
| 12 Mai | Jane Farrell, Ymgynghorydd Gwella a Carol Shillabeer, Prif Swyddog Gweithredol |
| 12 Mai | Gareth Williams, Is-gadeirydd |
| 12 Mai | Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |
| 13 Mai | Paolo Tardivel a Tehmeena Ajmal |
| 13 Mai | Grŵp Goruchwylio Cyllid |
| 14 Mai | Helen Stevens-Jones, Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu |
| 14 Mai | Claire Budden Arfarniad Aelodau Annibynnol |
| 15 Mai | Marc Jones AS a Carrie Harper AS, Wrecsam |
| 18 Mai | Prosiect Well-Fed, Shotton |
| 18 Mai | Carol Shillabeer, Prif Swyddog Gweithredol |
| 18 Mai | Cyfarfod Perfformiad Wythnosol |
| 19 Mai | Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |
| 19 Mai | Pwyllgor Archwilio Preifat |
| 20 Mai | Panel Rhiant Corfforaethol Cyngor Gwynedd |
| 21 Mai | Cynhadledd Ddigidol GIG Cymru 2026, Caerdydd |

# Bwrdd Iechyd

## ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod**<br>**Date of Meeting** | 28 Mai 2026 |
| **Statws Cyhoeddi**<br>**Publication Status** | Agored / Cyhoeddus<br>Amherthnasol |
| **Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad**<br>**Report Author name and title** | Carol Shillabeer, Prif Weithredwr |
| **Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol**<br>**Lead Executive Team Member name and title** | Carol Shillabeer, Prif Weithredwr |

| | |
|---|---|
| **Pwrpas yr Adroddiad**<br>**Report Purpose** | Ar gyfer Nodi |

| **Crynodeb Gweithredol**<br>**Executive Summary** |
|---|
| Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o ddatblygiadau a gweithgareddau allweddol dan arweiniad y Prif Weithredwr rhwng 14 Mawrth a 14 Mai 2026. Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r rhyngweithio allweddol â Llywodraeth Cymru, datblygiadau yn y bwrdd iechyd a materion ehangach sy'n ymwneud â phartneriaethau a chymunedau. |

| **Ymgysylltu (mewnol/allanol) yr ymgymerwyd ag ef hyd yma (gan gynnwys derbyn/ ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp)**<br>**Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)** | | |
|---|---|---|
| **Pwyllgor / Grŵp / Unigolion**<br>**Committee / Group / Individuals** | **Dyddiad**<br>**Date** | **Canlyniad, Tystiolaeth a Data**<br>**Outcome, Evidence and Data** |
| Ddim yn berthnasol i'r adroddiad hwn | | |

| **Acronymau / Rhestr Termau**<br>**Acronyms / Glossary of Terms** | |
|---|---|
| BCUHB | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| GIG | Gwasanaeth Iechyd Gwladol |

## 1.0 CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei lunio i roi trosolwg o'r prif weithgareddau, y cynnydd a'r materion gan y Prif Weithredwr. Mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 14 Mawrth a 14 Mai 2026.

## 2.0 PERTHYNAS Â LLYWODRAETH CYMRU

### 2.1 Cyfarfod y Bwrdd Uwchgyfeirio

Cyfarfu aelodau'r Tîm Gweithredol â swyddogion Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill fel rhan o Drefniadau Atebolrwydd diwygiedig GIG Cymru, lle mae sefydliadau Lefel 5 yn cynnal cyfarfodydd goruchwylio bob mis. Roedd y trafodaethau'n ymdrin ag arweinyddiaeth a llywodraethu, ansawdd a phrofiad cleifion, blaenoriaethau perfformiad ac adfer, y gweithlu a diwylliant, cynllunio strategol a chyllid. Darparwyd diweddariad ar y cyfarfod i'r Bwrdd yng nghyfarfod anffurfiol y Bwrdd ar **30 Ebrill 2026**. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am ragor o wybodaeth i gefnogi goruchwyliaeth barhaus, gan ganolbwyntio ar atebolrwydd clir, adroddiadau tryloyw i'r Bwrdd, cyflawni'r cynlluniau y cytunwyd arnynt a gwelliant amlwg i gleifion a staff. Ar ben hynny, mae'r ffocws ar berfformiad ariannol ar draws GIG Cymru yn sylweddol, a gofynnwyd i'r Bwrdd Iechyd gyflwyno Cynlluniau Adfer Ariannol i swyddogion Llywodraeth Cymru.

Mae'r cyfarfod goruchwylio nesaf wedi'i drefnu ar gyfer **29 Mai 2026**, gyda'r camau gweithredu gofynnol yn cael eu cydlynu drwy'r Tîm Gweithredol a'u hadrodd drwy'r Bwrdd a'i bwyllgorau fel y bo'n briodol. Mae'r llythyr a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn dilyn y cyfarfod wedi'i atodi yn **Atodiad 1** a'r ymateb yn **Atodiad 2**. Mae'r cyfarfodydd hyn yn debygol o esblygu yn yr un modd â rôl Perfformiad a Gwella'r GIG ar ôl sefydlu'r swyddogaeth Cymorth Ymyrraeth.

### 2.2 Y Tîm Ymyriadau

Mae'r Tîm Cefnogi Ymyriadau yn parhau i weithio ochr yn ochr â'r Bwrdd Iechyd a'r Tîm Gweithredol fel rhan o'r trefniadau cymorth Mesurau Arbennig Lefel 5 y cytunwyd arnynt, gan ddarparu arbenigedd wedi'i dargedu, her a chapasiti ychwanegol i gyflymu gwelliant. Mae hyn yn cynnwys cymorth sy'n canolbwyntio ar Ofal Brys ac Argyfwng, Gofal wedi'i Gynllunio a Gwasanaethau Canser, ochr yn ochr â phenodi **Cyfarwyddwr Adfer** sy'n gweithio i'r Prif Swyddog Gweithredu i gryfhau cydgysylltiad a chyflymder y ddarpariaeth, heb ysgwyddo cyfrifoldeb rheoli llinell.

Mae trefniadau adrodd ac atebolrwydd clir yn dal ar waith, wedi'u hategu gan gyfarfodydd Goruchwylio Gwelliannau bob pythefnos dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr. Cynhaliwyd cyfarfod gyda Thîm Perfformiad a Gwella'r GIG (Cefnogi Ymyriadau) ar **20 Mai 2026** ac, yn unol â Fframwaith Atebolrwydd GIG Cymru, bydd diweddariad llafar yn cael ei ddarparu yng Nghyfarfod y Bwrdd.

## 3.0 DIWEDDARIADAU ALLWEDDOL

### 3.1 Y Tîm Gweithredol

Mae nifer fach o swyddi gwag ar gyfer swyddogion gweithredol ac uwch arweinwyr yn cael eu datblygu ar hyn o bryd drwy drefniadau recriwtio y cytunwyd arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cynllunio a Phartneriaethau a maes o law y Prif Swyddog Digidol/Cyfarwyddwr Data, Digidol a Thechnoleg.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio dull pwyllog a thryloyw o lenwi'r swyddi hyn, gan gydbwyso penodi amserol â'r angen i sicrhau'r gallu arwain cywir i gefnogi cleifion, staff a gwelliant parhaus.

### 3.2 Gwella Atebolrwydd

Fel rhan o'r dull gweithredu y cytunwyd arno gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Chwefror 2026 i gryfhau system rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd, mae Llythyrau Atebolrwydd Blynyddol a Datganiadau Atebolrwydd ar gyfer 2026/27 wedi cael eu cyhoeddi'n ffurfiol i bob Cyfarwyddwr Gweithredol. Mae'r Datganiadau Atebolrwydd yn cael eu cyhoeddi ar ddechrau'r flwyddyn ariannol i atgyfnerthu atebolrwydd personol, cefnogi goruchwyliaeth barhaus drwy gydol y flwyddyn, ac osgoi dibyniaeth ar brosesau diwedd blwyddyn. Disgwylir i gyfarwyddwyr gynnal eu datganiadau fel dogfennau byw, gan ddefnyddio sicrwydd cymesur a chredadwy yn unol â'u cyfrifoldebau statudol, rheoleiddiol a dirprwyedig.

Mae'r dull hwn yn gwella atebolrwydd, yn cefnogi Datganiad Rheolaeth Fewnol y Prif Weithredwr, ac yn darparu llwybr archwilio clir sy'n dangos sut mae Cyfarwyddwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau, yn uwchgyfeirio materion yn briodol, ac yn mynd i'r afael ag unrhyw wendidau a nodwyd o ran rheolaeth neu sicrwydd, yn unol â disgwyliadau'r Pwyllgor Archwilio.

### 3.3 Adolygiadau'r Gyfarwyddiaeth Gorfforaethol

Cynhaliwyd Adolygiadau'r Gyfarwyddiaeth Gorfforaethol ym mis Ebrill, yn unol â Fframwaith Perfformiad ac Atebolrwydd Integredig presennol y Bwrdd Iechyd. Mae'r adolygiadau'n darparu mecanwaith strwythuredig, gweithredol ar gyfer craffu ar berfformiad a chyflawni yn erbyn amcanion y cytunwyd arnynt, gan gynnwys cynnydd ar gynlluniau'r gyfarwyddiaeth, cyflawni'r Cynllun Blynyddol, perfformiad ariannol, risgiau a materion, a chydymffurfio â gofynion llywodraethu a statudol. Mae'r adolygiadau'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn cefnogi atebolrwydd clir, gan alluogi'r Tîm Gweithredol i herio'n briodol, i gytuno ar gamau cywiro lle bo angen, ac i sicrhau cysondeb parhaus rhwng gweithgarwch y gyfarwyddiaeth, blaenoriaethau'r sefydliad a disgwyliadau rheoleiddiol.

Cynigir y dylai'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth ystyried adrodd ar yr adolygiadau perfformiad fel rhan o'r Fframwaith Perfformiad ac Atebolrwydd Integredig.

### 3.4 Cam Cymdeithasu Sylfeini ar gyfer y Dyfodol

Mae'r Model Gweithredu newydd Sylfeini ar gyfer y Dyfodol yn mynd rhagddo, gyda ffocws sylweddol yn ddiweddar ar elfen Strwythur y model. Mae'n bwysig pwysleisio na fydd y newidiadau arfaethedig i strwythurau ar eu pen eu hunain o reidrwydd yn gwella effeithiolrwydd y sefydliad o ran cyflawni ei amcanion ac felly rhoddir pwyslais cryf ar ddatblygu strategaeth (gan gynnwys modelau gofal), diwylliant, pobl a phrosesau.

Ychwanegwyd cam cyn ymgynghori (cymdeithasu) i'r broses o ran strwythurau, ac mae hyn wedi bod yn amhrisiadwy o ran cynnwys cydweithwyr ymhellach yn y dyluniad cyn ymgynghori'n ffurfiol. Mae rhan ffurfiol y broses ar fin digwydd ac mae'r gwaith cynllunio ar gyfer ymgysylltu â staff a'u cefnogi drwy'r cyfnod hwn yn mynd rhagddo'n dda. Yn dilyn ymgynghoriad 6 wythnos, rhagwelir y bydd cyfnod o ystyriaeth ofalus yn cael ei gynnal gydag ymateb llawn wedi'i gyhoeddi a'r sefyllfa derfynol i ddilyn ddiwedd mis Awst.

Mae datblygu Cynllun Cyflawni yn hanfodol er mwyn galluogi'r Model gweithredu newydd i fod mor llwyddiannus â phosibl cyn gynted â phosibl. Mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar draws pob maes i gysoni'r rhyngddibyniaethau sydd eu hangen er mwyn i'r Model Gweithredu gael y dechrau gorau posibl. Mae hyn yn cynnwys gwaith ar draws strategaethau (a chynllunio), diwylliant, pobl (gan gynnwys datblygu arweinyddiaeth, caffael cymwyseddau ac ati) a phrosesau (fframwaith gwneud penderfyniadau, symleiddio prosesau biwrocrataidd ac ati). Bydd y Cynllun Cyflawni yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant graffu arno.

### 3.5 Gwrando ar Bobl – canllawiau statudol

O 1 Ebrill ymlaen, mae'r Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i weithredu newidiadau i'r ffordd yr ymchwilir i bryderon ledled Cymru. Un o'r prif newidiadau sy'n cael eu cyflwyno yw'r canllawiau statudol newydd, Gwrando ar Bobl, sy'n disodli'r canllawiau Gweithio i Wella presennol.

Mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar bawb sy'n gweithio i GIG Cymru, nid dim ond staff mewn rolau cymorth neu bryderon cleifion. Mae'r dull newydd yn rhoi pwyslais cryf ar dosturi, bod yn agored, cyfathrebu amserol a gwrando ar bobl pan fyddant yn mynegi pryderon am eu gofal.

Mae cydymffurfiad â Safonau Cenedlaethol yn cael ei fonitro'n wythnosol gyda'r holl feysydd gweithredol ac adroddir arno drwy'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad.

### 3.6 System Mamolaeth Ddigidol

Ar 10 Mawrth 2026, aeth y System Mamolaeth Ddigidol (BadgerNet) yn fyw yn llwyddiannus ar draws yr holl wasanaethau mamolaeth. Ers hynny, mae 662 o fabanod wedi cael eu cofnodi'n ddiogel ar y system, sy'n adlewyrchu mabwysiadu cynnar cryf ar draws pob safle. Mae'r system yn disodli cofnodion mamolaeth papur gydag un cofnod digidol, gan wella ansawdd a diogelwch gofal i fenywod a babanod, cefnogi gwell rhannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau, a gwella profiad staff.

Mae'r rhaglen yn cynrychioli newid diwylliannol pwysig tuag at ofal mamolaeth sydd wedi'i alluogi'n ddigidol ac mae'n cyd-fynd â disgwyliadau cenedlaethol a Blaenoriaeth Weinidogol 5. Mae gwaith bellach yn mynd rhagddo i Gam 2, a fydd yn cryfhau'r system ymhellach drwy integreiddiadau ychwanegol, gan adeiladu ar y platfform sefydlog a diogel sydd bellach ar waith, gyda ffocws clir ar sicrhau'r manteision gorau posibl i deuluoedd, staff a diogelwch ar draws y system dros y misoedd nesaf.

## 4.0 CYFARFODYDD/YMWELIADAU

### 4.1 Fframwaith Llesiant, Atal ac Angori Digwyddiadau Ymgysylltu â Systemau Rhanbarthol

Ym mis Mawrth, es i ddigwyddiad ymgysylltu â system gogledd Cymru a oedd yn dod â Chadeiryddion y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Iechyd at ei gilydd i siapio'r Fframwaith Llesiant, Atal ac Angori Rhanbarthol. Roedd y digwyddiad yn tynnu sylw at raddfa a pharhad yr anghydraddoldebau yn ein cymunedau, gyda ffactorau economaidd-gymdeithasol yn arwain at wahaniaethau amlwg mewn disgwyliad oes iach. Yr hyn a oedd yn arbennig o galonogol oedd yr ymrwymiad cyffredin ar draws sefydliadau i weithio'n wahanol fel system gyfan, gan ganolbwyntio ar atal, penderfynyddion ehangach iechyd, a'n rôl ar y cyd fel Cyrff Angori.

Mae'r Fframwaith yn darparu ffordd ymarferol a chydlynol o adeiladu ar waith sydd eisoes ar y gweill, cysoni ein hymdrechion, a throsi uchelgais yn weithredu'n lleol. Bydd y dull hwn yn bwysig o ran cefnogi gwelliant mwy cyson a hirdymor mewn iechyd a llesiant yng ngogledd Cymru.

### 4.2 Digwyddiad Dathlu Arweinwyr Newid Diwylliant

Ym mis Ebrill, ynghyd ag aelodau'r Bwrdd, es i Ddigwyddiad Dathlu Arweinwyr Newid Diwylliant lle daeth cydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad at ei gilydd sy'n cyfrannu'n weithredol at newid diwylliant drwy eu harweinyddiaeth bob dydd. Roedd y digwyddiad yn gyfle i gydnabod a dathlu'r gwaith hwn, i glywed enghreifftiau lleol o welliant, ac i fyfyrio ar sut mae arweinyddiaeth dosturiol a chynhwysol yn cael ei gwreiddio mewn ymarfer. Roedd cyfraniadau gan ein Harweinwyr Newid Diwylliant, y mae tua 200 ohonynt ar draws y sefydliad, ochr yn ochr â myfyrdodau gan yr Athro Michael West, yn atgyfnerthu nad yw newid diwylliant cynaliadwy yn cael ei

sbarduno gan strategaeth yn unig, ond gan ymddygiad, perthnasoedd ac arweinyddiaeth gyson ar bob lefel. Roedd y digwyddiad yn cadarnhau ein hymrwymiad ar y cyd i greu diwylliant lle mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, bod rhywun yn gwrando arnynt ac yn eu cefnogi i ddarparu'r gofal gorau posibl.

## 5.0 CYDNABYDDIAETH

### 5.1 Gwobrau Canser Moondance

Mae nifer o unigolion a phrosiectau cydweithredol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer Gwobrau Canser Moondance eleni, sy'n cydnabod eu llwyddiannau a'u cyfraniadau at ddatblygu gwasanaethau canser.

Mae'r rheini o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sydd ar y rhestr fer yn cynnwys:

- Caroline Williams, Rheolwr Rhwydwaith ar gyfer Canser (Gwobr Arweinyddiaeth a Chyflenwi Gwasanaethau Canser)
- Y Gwasanaeth Rhagsefydlu Arbenigol ar gyfer Canser (Gwobr Profiad Gwell i Gleifion)
- Adnodd Fideo ar Ddeiet Canser y Fron wedi'i Gydgynhyrchu (Gwobr Cyfranogiad a Chynnwys Cleifion a'r Cyhoedd)
- Adeiladu Gweithlu Radiotherapi Amlbroffesiynol (Dyfarniad Gweithio Gyda'n Gilydd)
- Gwella Mynediad at Ymchwil Canser drwy Gydweithio (Gwobr Gweithio Gyda'n Gilydd)

### 5.2 Cydnabod Gwella Ansawdd

Mae'r Tîm Datblygu Ansawdd Corfforaethol (sy'n cynnwys Sefydliad Nyrsio'r Frenhines) sy'n cefnogi cartrefi gofal wedi cael cydnabyddiaeth genedlaethol am eu gwaith, ar ôl i Sefydliad Nyrsio'r Frenhines a'r Coleg Nyrsio Brenhinol gysylltu â nhw i'w cynnwys mewn blog cenedlaethol sy'n tynnu sylw at arferion gorau. Bydd hyn yn dangos effaith y Fframwaith Sicrhau Ansawdd a'r Offer Cymorth Ansawdd Gofal o ran cryfhau ansawdd a sicrwydd gofal. Mae'r tîm hefyd wedi cael gwahoddiad i gyflwyno eu gwaith mewn cyfarfod cenedlaethol Cymru a chyfarfod Nyrsys y Frenhines yng Nghymru, gan ddarparu dilysiad allanol pellach o arweinyddiaeth y Bwrdd Iechyd o ran gwella ansawdd cartrefi gofal.

### 5.3 Cynhadledd a Gwobrau Nyrsio a Bydwreigiaeth

Ar 11 Mai 2026, cynhaliodd y Bwrdd Iechyd ei drydedd Gynhadledd a Gwobrau Nyrsio a Bydwreigiaeth yng Nghanolfan OpTIC, Llanelwy, lle roedd mwy na 150 o staff yn bresennol. Cafodd y digwyddiad ei gynnal i gyd-fynd â Diwrnod Rhyngwladol y Nyrsys, ac roedd yn dathlu rhagoriaeth, arweinyddiaeth a thosturi ar draws nyrsio, bydwreigiaeth, myfyrwyr, staff cymorth a thimau.

Cyflwynwyd **12 gwobr** a oedd yn cydnabod effaith unigol a chyfunol ar draws gofal clinigol, arweinyddiaeth, gwella ansawdd, addysg, arloesi a phrofiad cleifion.

- Cyflwynwyd **Gwobrau Cyflawniad Oes** i **Mandy Jones** a **Chris Lynes**, gan gydnabod dros chwe degawd o wasanaeth cyfun ac arweinyddiaeth, mentora a chyfraniad rhagorol at nyrsio yng ngogledd Cymru. Noddwyd y wobr gan y **Coleg Nyrsio Brenhinol**.
- Dyfarnwyd gwobr **Nyrs y Flwyddyn** i **Caroline Lidford** am ei harweinyddiaeth a'i harloesedd o ran gwella mynediad at ofal i bobl ag anableddau dysgu a lleihau anghydraddoldebau iechyd.
- Cafodd y wobr **Bydwraig y Flwyddyn** ei dyfarnu i **Louise Taylor** am ddarparu gofal cyfannol sy'n canolbwyntio ar y teulu mewn lleoliadau cymunedol cymhleth ac am ei harweinyddiaeth mewn addysg dysgu a bwydo babanod.
- Dyfarnwyd gwobr **Staff Cymorth y Flwyddyn** i **Ashley Owen** am ofal dementia tosturiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n gwella urddas, llesiant a diwylliant wardiau.
- Dyfarnwyd gwobr **Myfyriwr y Flwyddyn** i **Alwen Sayer**, gan gydnabod ymarfer myfyriol sy'n canolbwyntio ar y claf a photensial arweinyddiaeth gynnar.
- Cyflwynwyd y **Wobr Seren Newydd** i **Lucy Bromley** am arweinyddiaeth gynnar, effeithiol, gwella gwasanaethau a datblygu tîm mewn amgylchedd clinigol lle mae llawer o bwysau.
- Roedd **Gwobr Gofalu Gyda'n Gilydd** yn cydnabod **Tîm Eiddilwch Uwch Ymarferwyr Nyrsio Canol a De Sir Ddinbych** am ymarfer cydweithredol ac uwch sy'n lleihau derbyniadau i'r ysbyty ac yn gwella canlyniadau i gleifion eiddil ac oedrannus.
- Dyfarnwyd **Gwobr Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion** i'r **Nyrsys Clozapine ar Wardiau Uned Diogelwch Canolig Tŷ Llewelyn** am eu gwaith archwilio a gwella ansawdd parhaus a oedd yn cryfhau diogelwch, llywodraethu a dealltwriaeth cleifion.
- Dyfarnwyd **Gwobr Rhagoriaeth Atal Heintiau** i **Gaynor Hughes** am arweinyddiaeth ym maes atal heintiau, adnabod risg a chryfhau diwylliant diogelwch cleifion.
- Cyflwynwyd **Gwobr Arweinyddiaeth Ragorol** i **Tesni Sullivan** am arweinyddiaeth weledigaethol a thosturiol sydd wedi trawsnewid gwasanaethau a theithiau cleifion.
- Dyfarnwyd **Gwobr Arloesedd a Rhagoriaeth Ddigidol** i'r **Tîm Nyrsio Presgripsiynu a Gweinyddu Meddyginiaethau yn Electronig (ePMA)** am arwain y newid o weinyddu meddyginiaethau papur i rai electronig, gwella diogelwch a chefnogi trawsnewid digidol.

## 5.0 CASGLIAD

Bwriad yr adroddiad yw rhoi trosolwg o'r prif weithgareddau a gyflawnir gan y Prif Weithredwr yn ogystal â materion pwysig i dynnu sylw atynt a allai fod yn destun adroddiadau manylach eraill neu beidio. Croesewir adborth ar yr adroddiad.

## 6.0 ARGYMHELLION

Gofynnir i Aelodau'r Bwrdd

- **NODI'R** diweddariadau a ddarperir yn yr adroddiad hwn.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

| ASESIAD / ASSESSMENT | |
|---|---|
| **Cyswllt â'r Blaenoriaethau Strategol**<br>**Link to Strategic Priorities** | 4. Creu System Gofal Iechyd Fodern sy'n Canolbwyntio ar Bobl |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: |
| **Yr Egwyddorion Dylunio**<br>**Design Principles** | Pobl yn Gyntaf<br>Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: |
| **Fframwaith Risgiau Corfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd**<br>**Corporate Risks and Board Assurance Framework** | Nid yw'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn arwain at unrhyw risgiau corfforaethol newydd. Mae'r meysydd ffocws yn ystod y cyfnod adrodd, yn enwedig arweinyddiaeth a llywodraethu, cyflawni blaenoriaethau gwella, adfer perfformiad a chryfhau atebolrwydd, yn cyd-fynd â'r risgiau presennol yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ac yn parhau i gael eu rheoli drwy drefniadau llywodraethu ac uwchgyfeirio sefydledig. Mae ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a'r Tîm Cefnogi Ymyriadau yn darparu craffu a sicrwydd ychwanegol yn erbyn y risgiau hyn, gyda chynnydd a materion yn cael eu hadrodd drwy'r Tîm Gweithredol, cyfarfodydd goruchwylio perthnasol a phwyllgorau'r Bwrdd yn unol â Fframwaith Atebolrwydd GIG Cymru. |

| ASESIADAU O EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS | | |
|---|---|---|
| **Cydraddoldeb**<br>*A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (sy'n cynnwys gofynion Safonau'r Gymraeg)*<br>**Equality**<br>*Have you undertaken an Equality Impact Assessment Screening (which includes the requirements of the Welsh Language Standards)* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Dim angen |

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

| | | |
|---|---|---|
| **Asesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol**<br>*A ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol?*<br>**Socio-Economic Impact Assessment**<br>*Have you undertaken a Socio-Economic Impact Assessment* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Dim angen |
| **Ansawdd**<br>*A ydych chi wedi ymgymryd â phrawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd?*<br>**Quality**<br>*Have you undertaken a Quality Impact Assessment Screening?* | **Galluogwyr Ansawdd**<br>**Enablers of Quality**<br>Mae pob un yn Berthnasol | **Meysydd Ansawdd**<br>**Domains of Quality**<br><br>Mae pob un yn Berthnasol |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: |
| | | |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant**<br>**Wellbeing of Future Generations Act – Wellbeing Goals** | Ddim yn berthnasol | |

| | | |
|---|---|---|
| **Effaith Amgylcheddol / Cynaliadwyedd (5Rs)**<br>**Environmental /Sustainability Impact (5Rs)** | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: | |
| | Na - Ddim yn berthnasol | |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny:<br>If more than one applies, please list: | |
| **Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog**<br>*A ydych chi wedi ystyried Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog?*<br>**Armed Forces Covenant Due Regard Duty** | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Dim angen |

| | | |
|---|---|---|
| *Have you considered the Armed Forces Covenant Due Regard Duty?* | | |
| **Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data**<br>*A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data?*<br>**Data Protection Impact Assessment**<br>*Have you undertaken a Data Protection Impact Assessment Screening?* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | |
| **Asesiad o'r Effaith ar Atal Twyll**<br>*A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau ar atal twyll?*<br>**Counter Fraud Impact Assessment**<br>*Have you considered the counter fraud impacts?* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | |
| **Cyfreithiol**<br>**Legal** | Nid oes goblygiadau cyfreithiol penodol yn gysylltiedig â'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn. | |
| | There are no specific legal implications related to the activity outlined in this report. | |
| **Enw Da**<br>**Reputational** | Nid oes effaith uniongyrchol ar enw da'r Bwrdd Iechyd o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn. | |
| | There is no direct impact on the reputation of the Health Board as a result of the activity outlined in this report. | |
| **Effaith ar Adnoddau**<br>*(Pobl / Ariannol)*<br>**Resource Impact**<br>*(People / Financial)* | Nid oes effaith uniongyrchol ar adnoddau o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn. | |
| | There is no direct impact on resources as a result of the activity outlined in this report. | |

## Bwrdd Iechyd

# ADRODDIAD YR IS-GADEIRYDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod**<br>**Date of Meeting** | 28 Mai 2026 |
| **Statws Cyhoeddi**<br>**Publication Status** | Open/ Public<br>Not Applicable |
| **Enw a theitl Awdur yr Adroddiad**<br>**Report Author name and title** | Gareth Williams, Is-gadeirydd |
| **Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol**<br>**Lead Executive Team Member name and title** | Amherthnasol |

| | |
|---|---|
| **Pwrpas yr Adroddiad**<br>**Report Purpose** | For Noting |

| **Crynodeb Gweithredol**<br>**Executive Summary** |
|---|
| Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o raglen yr ymweliadau, yr ystod o ddyletswyddau a'r gweithgarddau a gyflawnwyd gan yr Is-gadeirydd. |

| **Ymgysylltu (mewnol/allanol) yr ymgymerwyd ag ef hyd yma (gan gynnwys derbyn/ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp)**<br>**Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)** | | |
|---|---|---|
| **Pwyllgor / Grŵp / Unigolion**<br>**Committee / Group / Individuals** | **Dyddiad**<br>**Date** | **Canlyniad, Tystiolaeth a Data**<br>**Outcome, Evidence and Data** |
| Amherthnasol | | |

| **Acronymau / Rhestr Termau**<br>**Acronyms / Glossary of Terms** | |
|---|---|
| PFIG | Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth |

## 1. RHAGYMADRODD

Ers dychwelyd o'm gwyliau estynedig yn gynharach yn y flwyddyn rwyf wedi ailddechrau rhaglen o ymweliadau yn ymwneud â gofal sylfaenol a chymunedol ac iechyd meddwl, ochr yn ochr â chyfarfodydd rheolaidd gyda chydweithwyr gweithredol ac (wrth gwrs) yr amrywiaeth o ddyletswyddau a gyflawnir fel Aelod Annibynnol a Chadeirydd y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth (PFIG).

## 2. CYFARFODYDD / YMWELIADAU

### 2.1 Iechyd Meddwl

Rwyf wedi parhau i gael cyfarfodydd rheolaidd gyda Teresa Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol, Vicky Jones, Pennaeth yr Is-adran Strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, a Louise Bell, y Cyfarwyddwr Cyswllt ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn ogystal â chyfarfod terfynol â Ros Alstead, Cadeirydd y Grŵp Cynghori Arbenigol yn dilyn trafodaeth ar adroddiad terfynol y Grŵp yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr.

Yn anffodus, bu'n rhaid canslo cyfarfod a drefnwyd o'r Bwrdd Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yng Ngogledd Cymru oherwydd mai ychydig iawn o ymweliadau a gadarnhawyd o'r tu allan i'r Bwrdd Iechyd. Roedd hyn yn peri rhywfaint o bryder ac rydym yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru i ystyried y ffordd orau o godi momentwm newydd i weithio gyda phartneriaid a'r rhai sydd â phrofiad bywyd gan fod strategaeth newydd Llywodraeth Cymru ar waith yn llawn. O ystyried y newidiadau sylweddol iawn sydd ar y gweill, a ffocws cymunedol cryf y model 'Mynediad Agored' sy'n cael ei ddatblygu, mae'n hanfodol ein bod yn llwyddo i ymgysylltu'n llawn ag awdurdodau lleol a phartneriaid yn y trydydd sector.

Roeddwn i'n falch iawn o gael y cyfle i ymweld ag Uned Mamau a Babanod Seren yn Ysbyty Iarlles Caer (a ariennir ar y cyd gan GIG Cymru er mwyn darparu gwelyau i famau a babanod o Ogledd Cymru) lle cefais gwrdd ag Elaine Worrall, Rheolwr y Ward ynghyd â Debbie Griffin, ein Pennaeth Iechyd Meddwl Amenedigol. Mae'r Uned yn darparu amgylchedd gwych (wedi'i gyd-ddylunio gyda'r rhai sydd â phrofiad bywyd) i gefnogi mamau sy'n dioddef o salwch meddwl aciwt, gan gynnwys cyfleusterau gwych i alluogi tadau ac aelodau eraill o'r teulu i dreulio amser gwerthfawr gyda nhw a'u babanod. Calonogol iawn oedd clywed am y dystiolaeth gynnar o ganlyniadau gwell, yn enwedig o ran hyd arhosiad, sy'n deillio o gael gofal mor rhagorol ac arbenigol yn nes at adref. Calonogol hefyd oedd gweld bod arwyddion a deunyddiau eraill yn ddwyieithog.

Ail ymweliad calonogol iawn a gafwyd oedd cwrdd â staff iechyd yng Ngharchar EF Berwyn. Yn yr amgylchedd heriol hwn, gyda phoblogaeth sy'n newid yn gyson, gan gynnwys nifer fawr o garcharorion ar remand, roedd yn amlwg fod tîm profiadol ac ymroddedig iawn dan arweiniad nyrsys cofrestredig iechyd meddwl yn darparu

amrywiaeth eang o wasanaethau iechyd i garcharorion. Roedd yn drawiadol fod rheolwyr rheng flaen, yn wahanol i lawer o rannau eraill o'r Bwrdd Iechyd, yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i arloesi ac addasu'r ddarpariaeth i ateb anghenion sy'n newid – yn bennaf oherwydd bod gwasanaethau'n cael eu hariannu gan y Gwasanaeth Carchardai. Ar ben hynny, o ystyried yr anhawster o gludo carcharorion i apwyntiadau y tu allan i'r carchar, mae'r cysyniad o ddarparu 'gofal yn nes at adref' yn cael ei roi ar waith mor llawn â phosibl. Er ei fod yn ymddangos yn syniad rhyfedd, wrth ystyried sut rydym yn gweithredu ein rhaglen fawr newydd o 'Gymunedol o'r Cychwyn', efallai y bydd gwersi i'w dysgu o'r microcosm hwn o'n gwasanaethau.

### 2.2 Gofal Sylfaenol a Chymunedol

O ran Gofal Sylfaenol a Chymunedol, rwyf wedi cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'n Prif Swyddog Gweithredu, Tehmeena Ajmal a'n Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, Jane Moore.

Rwyf hefyd wedi cael trafodaeth gydag Alan Lawrie, Cyfarwyddwr Cyswllt Gofal Sylfaenol, am y gwaith y mae wedi bod yn ei wneud i adolygu olion traed presennol ein clystyrau gofal sylfaenol a photensial ffrwd newydd (er bychan) o gyllid o fewn contract y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol – y Gronfa Newid a Chronfa Datblygu'r Gweithlu. Dylai'r ddwy gronfa alluogi clystyrau neu gydweithrediadau o feddygfeydd eraill i ddarparu cydwasanaethau yn uniongyrchol, sydd hyd yma wedi bod yn un o brif anfanteision gweithio mewn clystyrau (ynghyd â'r diffyg adnoddau sydd ar gael gan Fyrddau Iechyd i 'brif ffrydio' mentrau llwyddiannus sy'n cael eu treialu gan gyllid Clwstwr penodol). Cefais drafod hyn hefyd gyda chydweithwyr yn rhwydwaith yr Is-gadeiryddion, a hwyluswyd gan Gonffederasiwn GIG Cymru.

Cefais ymweld â Chlinig Pen-glin a oedd yn cael ei gynnal yn Rhosllannerchrugog. Mae'r model hwn sy'n cael ei ddatblygu yng Nghymuned Iechyd Integredig y Dwyrain ychydig yn wahanol i'r Diwrnodau Asesu Cymunedol ar gyfer ffisiotherapi sydd wedi cael eu datblygu yng Nghymuned Iechyd Integredig y Gorllewin i gyflymu'r broses o asesu cleifion allanol. Mae manteision i'r dull gweithredu, yn enwedig gan ei fod ar raddfa fwy cyfyngedig ac yn canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â'r pen-glin yn unig. Gellir ei ddarparu yn adeiladau'r Bwrdd Iechyd (heb dalu am ganolfannau hamdden na lleoliadau cymunedol, na dibynnu ar eu haelioni). Roedd y cleifion y cwrddais â nhw yn falch o gael y cyfle i gael apwyntiad yn agos at eu cartref, ac roedd y staff yn amlwg hefyd wedi mwynhau'r cyfle i weithio mwy fel tîm nag sy'n bosibl yn aml o ystyried y diffyg cyfleuster ffisiotherapi pwrpasol i gleifion allanol yn Ysbyty Maelor Wrecsam (o leiaf, nes bod ail gam Tŷ Gororau wedi'i gwblhau). Fodd bynnag, teimlais fod presenoldeb ystod eang o bartneriaid trydydd sector ac awdurdodau lleol yn y Diwrnod Asesu Cymunedol yr ymwelais ag ef cyn y Nadolig ym Mhorthmadog yn gwneud y profiad yn fwy o 'siop un stop', a oedd efallai yn fwy gwerthfawr fyth i gleifion.

Rwyf eisoes wedi sôn am y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud o ran gwella'r ystod o wasanaethau sydd ar gael drwy fferylliaeth gymunedol, sef maes lle mae'r Bwrdd Iechyd ar y blaen i weddill Cymru yn y rhan fwyaf o ffyrdd.

Felly, roeddwn i'n falch o gael y cyfle i ymweld â'r cyfleuster Optometreg 'Trin a Hyfforddi' newydd yn Ysbyty Treffynnon (mae ail ganolfan yn Ysbyty Glannau Dyfrdwy hefyd) ac i ymweld ag optegydd ar y stryd fawr (Specsavers yn y Fflint). Mae hyn yn hyfforddi optometryddion sy'n gweithio yn y gymuned i gynnig amrywiaeth o wasanaethau ychwanegol sy'n cael eu hariannu drwy Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru, sy'n wasanaeth cymharol newydd. Mae hyn eisoes yn lleddfu'r pwysau ar wasanaethau eilaidd, gan leihau'r amseroedd aros annerbyniol o hir i rai cleifion gael apwyntiadau dilynol, ac yn galluogi llawer mwy o fynediad ar y stryd fawr at bresgripsiynau ar gyfer problemau llygaid brys. Maes o law, bydd hyn yn darparu ystod lawer ehangach o wasanaethau fel diagnosis a thriniaeth glawcoma.
Roedd pawb y cwrddais â nhw (nifer ohonynt yn gweithio yn Lloegr yn ogystal â Chymru) yn awyddus i ddweud wrthyf fod contract Cymru yn ei gwneud yn llawer haws i optometryddion ddatblygu eu sgiliau a darparu ystod ehangach o wasanaethau ym maes gofal sylfaenol nag yn unman arall yn y DU.

## 3. CASGLIAD

Bwriad yr adroddiad yw rhoi trosolwg o weithgareddau allweddol a gyflawnwyd gan yr Is-gadeirydd yn ogystal â materion pwysig i dynnu sylw atynt.

## 4. ARGYMHELLION

Gofynnir i'r Bwrdd:

- **NODI'R** diweddariadau a ddarperir yn yr adroddiad hwn.

| ASESIAD / ASSESSMENT | |
|---|---|
| **Cysylltiad â'r Bwriadau Strategol**<br>**Link to Strategic Intentions** | 4.Create a Modern, People Centred Healthcare System |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: |
| **Yr Egwyddorion Dylunio**<br>**Design Principles** | People First<br>Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: |
| **Fframwaith Risgiau Corfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd**<br>**Corporate Risks and Board Assurance Framework** | Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR)<br>Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks (cross reference to the BAF and CRR)<br><br>Mae'r materion a godwyd yn effeithio ar ystod o risgiau. |

| ASESIADAU O EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS | | |
|---|---|---|
| **Cydraddoldeb**<br>*A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (sy'n cynnwys gofynion Safonau'r Gymraeg)*<br>**Equality**<br>*Have you undertaken an Equality Impact Assessment Screening (which includes the requirements of the Welsh Language Standards)* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Amherthnasol |
| **Asesiad o'r Effaith Gymdeithasol-economaidd**<br>*A ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith Gymdeithasol-economaidd?*<br>**Socio-Economic Impact Assessment**<br>*Have you undertaken a Socio-Economic Impact Assessment* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Not applicable |

| | | |
|---|---|---|
| **Ansawdd**<br>*A ydych chi wedi ymgymryd â phrawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd?*<br>**Quality**<br>*Have you undertaken a Quality Impact Assessment Screening?* | **Galluogwyr Ansawdd Enablers of Quality** Leadership | **Meysydd Ansawdd Domains of Quality** All Apply |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: |
| | | |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant**<br>**Wellbeing of Future Generations Act – Wellbeing Goals** | A Healthier Wales | |

| | | |
|---|---|---|
| **Effaith Amgylcheddol / Cynaliadwyedd (5Rs)**<br>**Environmental /Sustainability Impact (5Rs)** | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: | |
| | No - Not Applicable | |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny:<br>If more than one applies, please list: | |
| **Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog**<br>A ydych chi wedi ystyried Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog:<br>**Armed Forces Covenant Due Regard Duty**<br>Have you considered the Armed Forces Covenant Due Regard Duty? | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | Amherthnasol |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | |
| **Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data**<br>*A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data?*<br>**Data Protection Impact Assessment** | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | Amherthnasol |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: | |

| | | |
|---|---|---|
| *Have you undertaken a Data Protection Impact Assessment Screening?* | If no, please include rationale: | |
| **Asesiad o Effaith ar Atal Twyll**<br>*A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau ar atal twyll?*<br>**Counter Fraud Impact Assessment**<br>*Have you considered the counter fraud impacts* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | Amherthnasol |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | |
| **Cyfreithiol**<br>**Legal** | There are no specific legal implications related to the activity outlined in this report. | |
| **Enw Da**<br>**Reputational** | There is no direct impact on the reputation of the Health Board as a result of the activity outlined in this report. | |
| **Effaith ar Adnoddau**<br>*(Pobl / Ariannol)*<br>**Resource Impact**<br>*(People / Financial)* | There is no direct impact on resources as a result of the activity outlined in this report. | |

# Bwrdd Iechyd

## CYMUNEDOL O'R CYCHWYN

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod**<br>**Dyddiad y Cyfarfod** | 28 May 2026 |
| **Statws Cyhoeddi**<br>**Publication Status** | Agored / Cyhoeddus |
| | Statws Drafft – Bydd y Fersiwn Derfynol yn cael ei Chyhoeddi |
| **Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad**<br>**Report Author name and title** | Tehmeena Ajmal – Prif Swyddog Gweithredu<br>Paolo Tardivel, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Trawsnewid a Chynllunio Strategol |
| **Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol**<br>**Lead Executive Team Member name and title** | Tehmeena Ajmal – Prif Swyddog Gweithredu |

| | |
|---|---|
| **Pwrpas yr Adroddiad**<br>**Report Purpose** | I'w Drafod |

**Crynodeb Gweithredol / Executive Summary**

Mae Cymunedol o'r Cychwyn yn rhaglen a gychwynnir yn genedlaethol sy'n cyd-fynd â chyfeiriad polisi hirsefydlog gan Lywodraeth Cymru tuag at ofal integredig, ataliol a chymunedol.

Ym mis Rhagfyr 2025, cadarnhaodd digwyddiad strategaeth genedlaethol y dylid ystyried Cymunedol o'r Cychwyn nid fel rhaglen ychwanegol, ond fel fframwaith gweithredu craidd ar gyfer y system iechyd a gofal, gan osod gwasanaethau sylfaenol a chymunedol fel canolbwynt cydlynu gofal.

Ym mwrdd iechyd Betsi Cadwaladr, mae neges gref a chyson bod cyflawni'r dyhead hwn yn gofyn am y canlynol:

- Newid sylfaenol o fodelau adweithiol sy'n cael eu harwain gan wasanaethau i ddulliau rhagweithiol sy'n canolbwyntio ar iechyd y boblogaeth
- Dylunio gofal o amgylch pobl a lle, gyda thimau amlddisgyblaethol ar lefel cymdogaeth
- Mynd i'r afael â darnio systemau, gweithio mewn seilos ac amrywiadau diangen

Amlygodd tystiolaeth iechyd y boblogaeth a drafodwyd yn y digwyddiad bwysigrwydd y newid hwn, gan gynnwys:

- Cynnydd mewn amlafiachedd a galw

- Anghydraddoldebau iechyd sy'n ehangu ac sy'n gysylltiedig ag amddifadedd
- Pwysau cynyddol gan boblogaeth sy'n heneiddio

Mae'r papur hwn yn cynnig amlinelliad o'r rhaglen genedlaethol a chyfleoedd lleol, gan gydnabod bod y rhaglen yng nghamau cynnar ei datblygiad.

| **Ymgysylltu (mewnol/allanol) yr ymgymerwyd ag ef hyd yma (gan gynnwys derbyn/ ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp)**<br>**Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)** | | |
|---|---|---|
| **Pwyllgor / Grŵp / Unigolion**<br>**Committee / Group / Individuals** | **Dyddiad**<br>**Date** | **Canlyniad, Tystiolaeth a Data**<br>**Outcome, Evidence and Data** |
| Y Pwyllgor Gweithredol<br><br>PPHP | 13/05/2026<br><br>15/05/26 | Trafodaeth ar elfennau craidd Cymunedol o'r Cychwyn, y camau nesaf ar gyfer y camau darganfod a dylunio<br><br>Trafodaeth ar elfennau craidd Cymuned o'r Cychwyn, a'r goblygiadau i flaenoriaethau a chyfeiriad strategol y Bwrdd Iechyd |

| **Acronymau / Rhestr Termau**<br>**Acronyms / Glossary of Terms** | |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

DRAFT

# CYMUNEDOL O'R CYCHWYN

## 1. Y SEFYLLFA / SITUATION

Mae polisi a chyfeiriad strategol yng Nghymru tuag at ddarpariaeth a arweinir gan y gymuned wedi bod yn gryf ac yn gyson ers dros bymtheng mlynedd, gyda'r bwriad y bydd gweithredu hyn yn arwain at ganlyniadau iechyd gwell. Er y bu gweithgarwch helaeth, arloesedd, ac enghreifftiau o waith rhagorol, mae'r trawsnewidiad yn parhau i fod yn anghyflawn gyda modelau sy'n canolbwyntio ar ysbytai yn dal i fodoli ledled Cymru.

Er mwyn bwrw ymlaen â chamau gweithredu i gyflawni'r newid hwn mewn ffocws a gweithgarwch, mae Rhaglen Trawsnewid Genedlaethol Cymuned o'r Cychwyn wedi cael ei sefydlu i gyflymu'r cynnydd ac i sicrhau'r canlynol:

- Gall pobl a staff lywio llwybrau gofal yn hawdd
- Mae apwyntiadau'n amserol ac yn briodol i'r angen, yn y lleoliad cywir
- Gwella llesiant staff
- Mae atal a rheoli iechyd y boblogaeth yn cael eu gwreiddio'n systematig ym mhob cyswllt.


Mae'r egwyddorion sylfaenol yn cynnwys dylunio gwasanaethau gyda chymunedau, gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys gyda chymunedau lleol, sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu gyrru'n glinigol, a symud y tu hwnt i ofal sylfaenol i ganolbwyntio ar y system gyfan, lle mae gweithgarwch wedi'i leoli yn y gymuned yn ddiofyn ac mewn lleoliad acíwt drwy eithriad.

Mae'r rhaglen genedlaethol a'r ddarpariaeth leol yn y camau datblygu cynnar iawn, gan roi cyfle i drafod yn fewnol a chyda phartneriaid ehangach beth ddylai'r rhaglen hon ei gyflawni ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru.

## 2. MATERION PENODOL I'W HYSTYRIED / SPECIFIC MATTERS FOR CONSIDERATION

Mae'r rhaglen genedlaethol wedi datblygu tair colofn allweddol ar gyfer y rhaglen Cymunedol o'r Cychwyn:
atal a rheoli iechyd y boblogaeth; gofal brys a gofal yr un diwrnod, a rheoli cyflyrau cronig, i gyflawni'r canlyniadau canlynol:

- Gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau
- Gostyngiad yn nifer yr achosion a chymhlethdodau clefydau cronig
- Gwell ansawdd bywyd, yn enwedig ar gyfer eiddilwch a gofal diwedd oes
- Gwell mynediad, profiad a chydlynu gofal
- Dinasyddion yn cael eu hysgogi fwy a phenderfyniadau'n cael eu gwneud ar y cyd
- Symudiad mesuradwy mewn adnoddau a chost tuag at ofal yn y gymuned




DRAFT

Mae'n ofynnol i bob Bwrdd Iechyd sefydlu Bwrdd Trawsnewid Cymunedol o'r Cychwyn lleol, yn ogystal â chefnogi'r gwaith o ddatblygu'r egwyddorion cenedlaethol a galluogwyr allweddol. O ystyried maint a natur y trawsnewid, bydd rôl y Bwrdd Iechyd felly'n cynnwys y canlynol:

- Cynnig eglurder strategol ar bwrpas, canlyniadau a blaenoriaethau
- Sicrhau bod Cymunedol o'r Cychwyn yn gweithredu fel fframwaith system gyfan yn hytrach na chasgliad o fentrau
- Cefnogi'r amodau sydd eu hangen ar gyfer llwyddiant, gan gynnwys llywodraethiant, cysoni adnoddau a newid diwylliannol

Bydd y camau nesaf yn cynnwys cyd-ddylunio strwythuredig gydag ymgysylltu parhaus yn fewnol ac yn allanol, eglurder ynghylch blaenoriaethau a chanlyniadau, a nodi galluogwyr allweddol. Mae hefyd yn hanfodol bod y rhaglen yn gweithredu yn unol â'r rhaglenni newid mawr eraill, gan ddylanwadu arnynt a chael eu dylanwadu ganddynt.




## 3. RISGIAU ALLWEDDOL / MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO
## KEY RISKS / MATTERS FOR ESCALATION

Mae nifer o risgiau a phroblemau allweddol yn gysylltiedig â datblygu a chyflwyno’r rhaglen:

- Sicrhau cam darganfod cadarn ac eang i feithrin ymgysylltiad a pherchnogaeth
- Capasiti’r gweithlu a chyfyngiadau o ran gallu
- Trefniadau ariannol a llywodraethiant rhwng partneriaid, a chyfyngiadau ariannol yn cyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer buddsoddiad newydd
- Darnio ar draws gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd
- Rhwystrau diwylliannol gan gynnwys osgoi risg ac ymddygiad ynysig
- Cyfyngiadau digidol ac ystadau

DRAFT

## 4. ARGYMHELLION / RECOMMENDATIONS

Gofynnir i'r Bwrdd / The Board is asked to:

- Nodi’r bwriad strategol cryfach, wedi’i lywio gan ymgysylltu a thystiolaeth ar draws y system
- Cefnogi’r gwaith o fframio Cymunedol o’r Cychwyn fel y fframwaith gweithredu craidd ar gyfer trawsnewid yn y gymuned
- Cymeradwyo’r ffocws ar ganlyniadau, cyd-ddylunio, atal ac integreiddio systemau
- Cefnogi’r camau nesaf arfaethedig, gan gynnwys blaenoriaethu clir ac arddangos effaith yn gynnar

| ASESIAD / ASSESSMENT | |
|---|---|
| | |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyswllt â'r Blaenoriaethau Strategol**<br>**Link to Strategic Intent** | 3. Gwell Mynediad, Canlyniadau a Phrofiadau<br><br>Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: | |
| **Yr Egwyddorion Dylunio**<br>**Design Principles** | Dewiswch eitem.<br>Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:<br>If more than one applies, please list below: | |
| **Fframwaith Risgiau Corfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd**<br>**Corporate Risks and Board Assurance Framework** | Manylion y risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y Gofrestr Risg Gorfforaethol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd)<br>Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks (cross reference to the BAF and CRR) | |
| **ASESIADAU O EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS** | | |
| **Deddf Cydraddoldeb 2010 Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus:**<br>**A yw BIPBC wedi darparu tystiolaeth o 'Sylw Dyledus' i gydymffurfio â thair rhan Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (Dyletswydd Gyffredinol):**<br>[Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus [Html] LLYW.CYMRU]() | Do/Yes: ☒ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | |
| **Deddf Cydraddoldeb 2010 - Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol**<br>*A yw BIPBC wedi darparu tystiolaeth o 'Sylw Dyledus' o ran cydymffurfio â'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol?* | Do/Yes: ☒ | Naddo/No: ☐ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | |
| *Ydych chi wedi llenwi Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb Integredig WP8a?* | Canlyniad/Outcome:<br>Do/Yes: | Naddo/No: |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: | |

| | | |
|---|---|---|
| *Templed WP8a* | If no, please include rationale:<br>Canlynaid/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | |
| **Deddf Hawliau Dynol**<br>*A roddodd Wp8a sylw i bryderon sy'n ymwneud â Hawliau Dynol* | Do/Yes: ☒ | Naddo/No: ☐ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| **Cydymffurfio â gofynion o ran y Gymraeg?**<br>*Ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith* | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Naddo/No: ☐ |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | |
| **Cydymffurfiad o ran rhoi "Sylw Dyledus" i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog**<br>*A roddodd WP8a sylw i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog* | Do/Yes: ☒ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | |
| **Ansawdd**<br>*A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd?*<br>**Quality**<br>*Have you undertaken a Quality Impact Assessment Screening?* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | **Galluogwyr Ansawdd**<br>**Galluogwyr Ansawdd**<br>Dewiswch eitem.<br><br>Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:<br>Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod: | |

| | | |
|---|---|---|
| **[Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant](#)**<br>**[Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Nodau Llesiant](#)** | Cymru Iachach | |
| **Effaith Amgylcheddol / Cynaliadwyedd (5Rs)**<br>**Environmental /Sustainability Impact (5Rs)** | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: | |
| | Na - Ddim yn berthnasol | |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny:<br>If more than one applies, please list: | |
| **Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data**<br>*A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data?*<br>**Data Protection Impact Assessment**<br>*Have you undertaken a Data Protection Impact Assessment Screening?* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | |
| **Asesiad o'r Effaith ar Atal Twyll**<br>*A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau ar atal twyll?*<br>**Counter Fraud Impact**<br>*Ydych chi wedi ystyried yr effeithiau o ran atal twyll* | Do/Yes: ☒ | Naddo/No: ☐ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | |
| **Cyfreithiol**<br>**Legal** | Nid oes goblygiadau cyfreithiol penodol yn gysylltiedig â'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn. | |
| **Enw Da**<br>**Reputational** | Nid oes effaith uniongyrchol ar enw da'r Bwrdd Iechyd o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn. | |
| **Effaith ar Adnoddau**<br>*(Pobl / Ariannol)*<br>**Resource Impact**<br>*(People / Financial)* | Nid oes effaith uniongyrchol ar adnoddau o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn. | |

DRAFT

<table>
<tr><th colspan="5">Adroddiad Materion Allweddol y Bwrdd Iechyd</th></tr>
<tr><td colspan="2">Dyddiad y Bwrdd</td><td colspan="3">28/05/2026</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dyddiad y Pwyllgor</td><td>07/05/2026</td><td>Adroddiad:</td><td>Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cworwm wedi’i gyrraedd:</td><td colspan="3">Do</td></tr>
<tr><td>1</td><td>Agenda</td><td colspan="3">Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad (QSE) yn parhau i gyfarfod bob deufis. Ystyriodd y Pwyllgor yr agenda sydd ynghlwm: QSE Committee - BCUHB</td></tr>
<tr><td>2a</td><td>Rhybudd</td><td colspan="3">Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn dymuno rhybuddio aelodau'r Bwrdd:<br><br>1. Bod Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng yn parhau i gyflwyno risg sylweddol o ran ansawdd a diogelwch, yn enwedig o ran arosiadau hir yn yr Adran Achosion Brys, oedi wrth drosglwyddo o ambiwlansys, gofal ar goridorau a datgyflyru ymhlith cleifion, er gwaethaf trefniadau goruchwylio mwy cadarn.<br>2. Adroddiad Ansawdd Integredig: Mae Digwyddiadau Na Ddylent Byth Ddigwydd a risgiau difrod i'r system wedi cynyddu yn y cyfnod adrodd cyfredol, yn bennaf y rhai sydd yn gysylltiedig â chydymffurfiaeth â phrosesau mewn amgylcheddau dan bwysau mawr, gan ddangos bod y system gyfan yn parhau i fod yn fregus.<br>3. Marwolaethau: Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad briffio ar farwolaethau, a cafwyd sicrwydd bod trefniadau goruchwylio, ymchwilio a dysgu yn parhau i fod yn gadarn, a phwysleisiwyd pwysigrwydd parhau i driongli gwybodaeth am farwolaethau, phwysau system a gweithgaredd gwella ansawdd. Atodir dolen i'r papur hwn er mwyn gweledfedd. QSE Mortality Paper</td></tr>
<tr><td>2b</td><td>Sicrwydd</td><td colspan="3">Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn dymuno sicrhau aelodau'r Bwrdd:<br><br>1. Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng: Mae goruchwyliaeth glinigol a gweithredol o Ofal Brys a Gofal mewn Argyfwng wedi cryfhau, gydag adolygiadau ansawdd rheolaidd, dan arweiniad clinigol, bellach yn gyrru dysgu a rennir, craffu ar niwed a chamau gwella gyda ffocws ar draws safleoedd Adrannau Achosion Brys.<br>2. Adroddiad Ansawdd Integredig/Adroddiad Rheoleiddio: Mae goruchwyliaeth o ansawdd, rheoleiddio a llywodraethu yn dod yn fwy integredig, gyda thriongli gwybodaeth am ansawdd mewnol, gofynion</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | | Arolygaeth Gofal Iechyd Cymru, gweithgareddau ombwdsmon a phryderon crwner yn well<br>3. **Deddf Staffio Nyrsys:** mae hyn wedi'i gynnal, gyda gofynion Deddf Staffio Nyrsys wedi'u bodloni, heb unrhyw angen am gynnydd ychwanegol o sefydlu wardiau ar sail adolygiad o ofynion, niwed a gweithlu. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am ddychwelyd papur nad yw wedi'i gynnwys yn y Ddeddf i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r gymhareb staffio ar y Wardiau.<br>4. **Diweddariad ar Wasanaethau sy'n Wynebu Heriau (QS26.70):** Nododd y Pwyllgor y pwysau parhaus ar draws y gwasanaethau sy'n wynebu heriau a chafwyd sicrwydd bod trefniadau goruchwylio yn cryfhau, a phwysleisiwyd pwysigrwydd alinio'r gwaith hwn â thrawsnewid system ehangach i gefnogi cynaliadwyedd gwasanaethau a diogelwch cleifion ledled Gogledd Cymru.<br>5. **Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Oedolion:** Nododd y Pwyllgor y pwysau parhaus ar wasanaethau. Cafwyd sicrwydd o drefniadau strategol a goruchwylio cryfach, a phwysleisiwyd pwysigrwydd cefnogaeth gyfannol yn y gymuned a dysgu parhaus o brofiad cleifion i wella ansawdd a chanlyniadau. |
| **2c** | Cynghori | Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn dymuno cynghori aelodau'r Bwrdd:<br><br>1. Dylid cydnabod **dyletswyddau statudol o ran y Gymraeg** yn benodol fel mater ansawdd a diogelwch, ac ystyried briffio ar lefel Bwrdd i gryfhau ymwybyddiaeth sefydliadol a lleihau'r risg o niwed i gleifion yn y dyfodol.<br>2. Dylai **adrodd ar berfformiad ac ansawdd** barhau i symud tuag at daflwybrau, cerrig milltir ac effeithiau cyflawni cliriach er mwyn cryfhau sicrwydd cynnar ac uwchgyfeirio.<br>3. **Rhaid i liniaru Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng ganolbwyntio fwyfwy ar atal a chapasiti cymunedol,** gan gynnwys cefnogaeth i bobl fregus, rheoli cartrefi gofal a dewisiadau amgen i gludo cleifion, yn unol â'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (Cymuned trwy Ddylunio).<br>4. **Cynllun Gwasanaethau Clinigol:** Nodwyd y Cynllun Gwasanaethau Clinigol sy'n datblygu gan y Pwyllgor, croesawyd ymgysylltiad clinigol cynnar cryf, a phwysleisiwyd yr angen i barhau i alinio â rhaglenni trawsnewid ehangach i gefnogi darpariaeth gofal iechyd cynaliadwy ledled Gogledd Cymru. Bydd hyn yn dychwelyd i'r Pwyllgor fel rhan o Sesiwn Ddatblygu yn y dyfodol. |

| | | |
|---|---|---|
| **2d** | Adolygiad o Risgiau | Adolygodd y Pwyllgor y risgiau o fewn ei gylch gwaith a nodwyd:<br><br>Bod Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi parhau i aeddfedu, gyda llywodraethu cliriach, gwell aliniad â blaenoriaethau strategol a mwy o atebolrwydd, tra'n nodi bod angen gwaith pellach i gryfhau perchnogaeth, hyder i gyflawni ac effaith camau sicrwydd. |
| **2e** | Rhannu dysgu | Atgyfnerthodd **stori'r claf – "Daw hyn hefyd i ben"** (QS26.62) ddysgu am urddas, caredigrwydd, lleihau stigma a chymorth ar gyfer bywyd yn ei gyfanrwydd, gan lywio dylunio gwasanaethau, addysg y gweithlu a llwybrau iechyd meddwl a dylid rhannu'r stori gyda'r Bwrdd yng nghyfarfod 28 Mai **https://youtu.be/uliVWOgd-7o** |
| **3** | Camau gweithredu i'w hystyried gan y | Nid oedd eitemau i'w cyfeirio. Bydd Stori'r Claf uchod yn cael ei rhannu yng nghyfarfod y Bwrdd. |

## Bwrdd Iechyd

# ADRODDIAD ANSAWDD INTEGREDIG

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod**<br>**Date of Meeting** | 28 May 2026 |
| **Statws Cyhoeddi**<br>**Publication Status** | Agored/ Cyhoeddus<br>Amherthnasol |
| **Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad**<br>**Report Author name and title** | • **Diogelwch Cleifion:** Chris Lynes, Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio (Diogelwch Cleifion) a Tracey Radcliffe, Pennaeth Diogelwch Cleifion<br>• **Diogelu:** Michelle Denwood, Cyfarwyddwr Diogelu ac Amddiffyn y Cyhoedd<br>• **Atal a Rheoli Heintiau:** Andrea Ledgerton, Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio - Atal Heintiau a Dihalogi<br>• **Profiad Cleifion a Gofalwyr:** Chris Lynes, Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio (Profiad Cleifion) a Leon Marsh, Pennaeth Profiad Cleifion<br>• **Effeithiolrwydd Clinigol:** Joanne Shillingford, Pennaeth Effeithiolrwydd Clinigol<br>• **Sicrhau Ansawdd:** Jo Kendrick, Pennaeth Ansawdd, Erika Dennis, Prif Reolwr Ansawdd, Sarah Musgrave, Prif Reolwr Busnes Ansawdd<br>• **Cyfraith Gofal Iechyd:** Matthew Joyes, Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Debbie Kumwenda, Prif Reolwr Cyfraith Gofal Iechyd |
| **Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol**<br>**Lead Executive Team Member name and title** | • Angela Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth (Aelod Arweiniol)<br>• Dr Clara Day, Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol<br>• Teresa Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Proffesiynau Perthynol i Iechyd a Gwyddor Gofal Iechyd |

| | |
|---|---|
| | • Dr Jane Moore, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd |

| | |
|---|---|
| **Pwrpas yr Adroddiad**<br>**Report Purpose** | I'w Nodi |

| **Crynodeb Gweithredol**<br>**Executive Summary** |
|---|
| Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o berfformiad ansawdd, diogelwch a phrofiad ar draws y Bwrdd Iechyd ar gyfer y cyfnod rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2026. Cymysg ydy'r sicrwydd drwyddi draw. Mae perfformiad cryf i'w weld yn amlwg ym mhrydlondeb ymchwiliadau i Ddigwyddiadau sy'n Adroddadwy yn Genedlaethol (NRI), yn y trefniadau ar gyfer delio â chwynion, meincnodi archwiliadau clinigol a gwella ffigurau marwolaethau. Fodd bynnag, erys y pryderon parhaus ynghylch diogelwch cleifion, yn enwedig y Digwyddiadau Byth sy'n cael eu hailadrodd a'r cynnydd parhaus yn y niferoedd, yr heriau parhaus wrth atal heintiau, a'r trefniadau craffu allanol drwy'r Ombwdsmon a chyrff rheoleiddio. Mae'r cynnydd yn parhau gyda'r gwaith o sefydlu'r trefniadau rheoli ansawdd, dysgu sefydliadol a chydymffurfio â fframweithiau cenedlaethol, er bod cynaliadwyedd a chysondeb yn dal i fod yn risgiau allweddol. |

| **Ymgysylltu (mewnol/allanol) a wnaed hyd yma (gan gynnwys derbyn/ ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp)**<br>**Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)** | | |
|---|---|---|
| **Pwyllgor / Grŵp / Unigolion**<br>**Committee / Group / Individuals** | **Dyddiad**<br>**Date** | **Canlyniad, Tystiolaeth a Data**<br>**Outcome, Evidence and Data** |
| Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau | 07/05/26 | Y drafodaeth a'r adborth wedi'u cynnwys yn adroddiad y Bwrdd |
| Pwyllgor Gweithredol | 06/05/26 | Y drafodaeth a'r adborth wedi'u cynnwys yn adroddiad y Bwrdd |

| **Acronymau / Rhestr Termau**<br>**Acronyms / Glossary of Terms** | |
|---|---|
| AGC | Arolygiaeth Gofal Cymru |
| AGIC | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru |
| AMaT | System Rheoli ac Olrhain Archwiliadau |
| BAT | Offeryn Asesu Sylfaenol |
| CAF | Fframwaith Sicrwydd Comisiynu |
| DXA | Amsugniametreg Pelydr-x Ynni Deuol |
| EDON | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth |

| | |
|---|---|
| EICOP | Y Panel Gweithredol Integredig ar gyfer Goruchwylio Pryderon |
| EMD | Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |
| ESR | Cofnod Staff Electronig |
| HCAI | Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd |
| LFERs | Adroddiadau dysgu oddi wrth ddigwyddiadau |
| LocSSIPs | Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Ymwthiol |
| LTP | Gwrando ar Bobl |
| NICE | Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal |
| NRI | Digwyddiadau sy'n adroddadwy yn genedlaethol |
| PALS | Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion |
| PES | Gwasanaeth Profiad y Bobl |
| PFD | Atal Marwolaethau yn y Dyfodol |
| PIR | Adroddiad Budd y Cyhoedd |
| QMS | System Rheoli Ansawdd |
| RAMI | Mynegai marwolaethau wedi'i addasu yn ôl risg |
| SCEG | Grŵp Effeithlonrwydd Clinigol Strategol |
| SOP | Trefniadau Gweithredu Safonol |
| UEC | Gofal Brys ac Argyfwng |

# ADRODDIAD ANSAWDD INTEGREDIG

## 1. Y SEFYLLFA / SITUATION

1.1 Ar gyfer y GIG yng Nghymru, mae ansawdd yn cael ei ddiffinio fel diwallu anghenion y boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu yn barhaus, yn ddibynadwy ac yn gynaliadwy.

1.2 I gyflawni hyn, dan y Ddyletswydd Ansawdd statudol, bydd angen i Weinidogion Cymru a chyrff y GIG sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn **ddiogel**, **yn amserol**, yn **effeithiol**, yn **effeithlon**, yn **deg,** ac yn **canolbwyntio ar yr unigolyn**. Mae chwe galluogwr yn sail i'r meysydd hyn, sef **arweinyddiaeth**, **gweithlu**, **diwylliant**, **gwybodaeth**, **dysgu ac ymchwil** a **dull sy'n edrych ar systemau cyfan**.

1.3 Mae'r meysydd a'r galluogwyr hyn yn ffurfio'r **Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal** ar gyfer Cymru a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2023 drwy ganllawiau statudol.

## 2. Y CEFNDIR / BACKGROUND

2.1 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon uchel ar draws pob maes gofal. Er mwyn rhoi sicrwydd a sbarduno gwelliannau parhaus, mae'r Bwrdd Iechyd yn monitro amrywiaeth o fetrigau ansawdd yn rheolaidd. Mae'r mesurau hyn yn rhoi’r gallu i wneud penderfyniadau doeth, yn cefnogi dysgu sefydliadol, ac yn sail ar gyfer twf a datblygiad. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi sefyllfa bresennol y Bwrdd Iechyd o ran perfformiad ansawdd ac yn nodi'r camau allweddol sydd eu hangen i gryfhau canlyniadau a sicrhau gwelliannau parhaus.

## 3. MATERION PENODOL I'W HYSTYRIED / SPECIFIC MATTERS FOR CONSIDERATION

- Nodi’r cynnydd mewn digwyddiadau sy’n adroddadwy yn genedlaethol a Digwyddiadau Byth, gan gynnwys digwyddiadau sy’n cael eu hailadrodd ar yr un safle, a cheisio sicrwydd bod y dysgu a'r camau gweithredu ar lefel systemau yn gadarn ac yn effeithiol.
- Cymryd anogaeth oddi wrth y perfformiad cadarn yn genedlaethol wrth ddelio â chwynion, amseroldeb digwyddiadau sy’n adroddadwy yn genedlaethol, meincnodi archwiliadau clinigol a gwella dangosyddion marwolaethau.
- Nodi bod fframwaith Cwynion, Digwyddiadau ac Gwneud Iawn newydd y GIG wedi cael ei roi ar waith yn llwyddiannus o fis Ebrill 2026 ymlaen.
- Adolygu’r cynnydd a’r risgiau sy’n gysylltiedig â chyflwyno’r System Rheoli Ansawdd, gan gynnwys cynaliadwyedd yn y dyfodol.
- Nodi’r gwaith craffu allanol parhaus, gan gynnwys Adroddiadau Budd y Cyhoedd, gofynion ymateb i Reoliad 28 y Crwner a’r dirwedd gyfreithiol a deddfwriaethol sy’n esblygu.

## 4. RISGIAU ALLWEDDOL / MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO

## KEY RISKS / MATTERS FOR ESCALATION

4.1 Dyma’r prif risgiau y mae angen eu huwchgyfeirio:

- **Diogelwch Cleifion:** Digwyddiadau Byth yn digwydd yn amlach ac yn ailddigwydd, gydag amser cyfyngedig rhwng y digwyddiadau, sy’n arwydd o wendidau systemig posibl yn y rheoli.
- **Rheoli ac Atal Heintiau:** Mae nifer o organebau allweddol yn mynd y tu hwnt i’r llwybrau y cytunwyd arnynt, nifer yr achosion o glefydau a’r gwelyau sy’n cael eu cau o’r herwydd, gan effeithio ar lif cleifion a diogelwch.
- **Oedi gyda Diagnosteg a Thriniaethau:** Amseroedd aros estynedig am sgan DXA yn y Gwasanaeth Cyswllt Toresgyrn, gan gynyddu’r risg o dorri asgwrn.
- **Llywodraethu a Sicrwydd Allanol:** Camau gweithredu o adroddiadau arolygiadau heb eu cwblhau, craffu parhaus gan yr Ombwdsmon a therfynau amser ar gyfer gweithredu yn sgîl Adroddiadau Budd y Cyhoedd yn cael eu methu.

- **Cynaliadwyedd:** Diffyg cyllid rheolaidd ac adnoddau parhaol i gefnogi’r gwaith o wreiddio’r System Rheoli Ansawdd yn y tymor hir.
- **Cyswllt Cyfreithiol:** Mwy o atebolrwydd posibl yn dilyn dyfarniad diweddar gan y Goruchaf Lys a’r newidiadau statudol a gyflwynwyd o fis Ebrill 2026 ymlaen.

## 5. ARGYMHELLION / RECOMMENDATIONS

5.1 Gofynnir i'r Bwrdd dderbyn yr adroddiad fel sicrwydd. Mae'r holl eithriadau a nodir yn y papur hwn yn cael eu monitro ac mae cynlluniau rheoli yn eu lle i gadw golwg ar y gwaith o'u cwblhau. Mae'r cynlluniau gweithredu hyn yn cael eu tracio drwy fforymau ansawdd craidd.

| ASESIAD / ASSESSMENT | |
|---|---|
| **Cyswllt â'r Blaenoriaethau Strategol**<br>**Link to Strategic Priorities** | 4. Gwella ansawdd, canlyniadau a phrofiad |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below:<br>5. Sefydlu amgylchedd effeithiol ar gyfer Dysgu |
| **Yr Egwyddorion Dylunio**<br>**Design Principles** | Symleiddio, Safoni, a Mabwysiadu Arferion Gorau<br>Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:<br>If more than one applies, please list below: |
| **Fframwaith Risgiau Corfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd**<br>**Corporate Risks and Board Assurance Framework** | Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR)<br>Manylion y risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y Gofrestr Risg Gorfforaethol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd)<br><br>BAF-SP18 a CRR-24-04 – Ansawdd, Arloesi a Gwella |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant**<br>**Wellbeing of Future Generations Act – Wellbeing Goals** | Cymru Iachach |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:<br>If more than one applies, please list below: |

| ASESIADAU O EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS | | |
|---|---|---|
| **Cydraddoldeb**<br>*A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (sy'n cynnwys gofynion Safonau'r Gymraeg)*<br>**Equality**<br>*Have you undertaken an Equality Impact Assessment Screening (which includes the requirements of the Welsh Language Standards)* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | *Amh* |

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

| | | |
|---|---|---|
| **Asesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol**<br>*A ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol?*<br>**Socio-Economic Impact Assessment**<br>*Have you undertaken a Socio-Economic Impact Assessment* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | *Amh* |
| **Ansawdd**<br>*A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd?*<br>**Quality**<br>*Have you undertaken a Quality Impact Assessment Screening?* | **Galluogwyr Ansawdd Enablers of Quality** Mae pob un yn berthnasol | **Meysydd Ansawdd Domains of Quality** Mae pob un yn berthnasol |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:<br>If more than one applies, please list below: | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:<br>If more than one applies, please list below: |
| | | |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant**<br>**Wellbeing of Future Generations Act – Wellbeing Goals** | Cymru Iachach | |
| **Effaith Amgylcheddol / Cynaliadwyedd (5Rs)**<br>**Environmental /Sustainability Impact (5Rs)** | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:<br>If more than one applies, please list below: | |
| | Na - Ddim yn berthnasol | |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny:<br>If more than one applies, please list: | |
| **Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog**<br>A ydych chi wedi ystyried Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog:<br>**Armed Forces Covenant Due Regard Duty** | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Amh |

| | | |
|---|---|---|
| Have you considered the Armed Forces Covenant Due Regard Duty? | | |
| **Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data**<br>*A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data?*<br>**Data Protection Impact Assessment**<br>*Have you undertaken a Data Protection Impact Assessment Screening?* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Amh |
| **Asesiad o'r Effaith ar Atal Twyll**<br>*A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau ar atal twyll?*<br>**Counter Fraud Impact Assessment**<br>*Have you considered the counter fraud impacts* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Amh |
| **Cyfreithiol**<br>**Legal** | Oes (Rhowch ragor o fanylion isod) | |
| | | |
| **Enw Da**<br>**Reputational** | Oes (Rhowch ragor o fanylion isod) | |
| | | |
| **Effaith ar Adnoddau**<br>*(Pobl / Ariannol)*<br>**Resource Impact**<br>*(People / Financial)* | Oes (Rhowch ragor o fanylion isod) | |
| | Gweithredu fframwaith y Cynllun Trafnidiaeth Lleol, Ebrill 2026 | |

## 1.0 DIOGELWCH CLEIFION

**Digwyddiadau sy'n Adroddadwy yn Genedlaethol**

Rhwng 01 Rhagfyr 2026 a 31 Ionawr 2026, roedd 20 digwyddiad sy’n adroddadwy yn genedlaethol (yn ôl dyddiad y digwyddiad) (i lawr o 14 yn y cyfnod blaenorol), gan gynnwys achosion yn ymwneud ag asesu/diagnosis, canlyniadau mamolaeth, ymddygiad (gan gynnwys trais ac ymddygiad ymosodol) a rheoli heintiau.

Ar ddiwedd Mawrth, ceid 47 o ymchwiliadau agored i ddigwyddiadau sy’n adroddadwy yn genedlaethol, gyda 4 ymchwiliad heb eu cwblhau mewn pryd. Mae ein perfformiad yn gryf yn genedlaethol. Mae cyfran y digwyddiadau sy’n adroddadwy yn genedlaethol sy’n dal i fod ar agor am fwy na 90 diwrnod wedi cynyddu o 21.5% i 33%. Y diwrnodau gwaith canolrifol hyd at gwblhau yw’r ffigur isaf yng Nghymru ar 75 diwrnod, o’i gymharu â ffigur canolrifol o 125 diwrnod ar gyfer Cymru Gyfan.

**Digwyddiadau Byth**

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi adrodd ar ddau Ddigwyddiad Byth yn y cyfnod adrodd hwn.

- Roedd un yn ymwneud â mewnblaniad/prosthesis anghywir gan nodi yr adroddwyd ar Ddigwyddiad Byth bron yn union yr un fath ym mis Hydref 2025, gyda’r ddau’n digwydd ar safle’r un ysbyty. Mae hyn bellach yn destun adolygiad allanol.
- Llawdriniaeth ar y man anghywir oedd yr ail Ddigwyddiad Byth (Dermatoleg drwy gontract allanol). Mae protocol newydd yn cael ei ddatblygu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer llawdriniaethau mewn un ymweliad, i’w defnyddio yn y gwasanaeth a gydag unrhyw bartneriaid.

Mae nifer y Digwyddiadau Byth sy’n digwydd yn BIPBC yn dal i godi, gyda 9 adroddiad am Ddigwyddiadau Byth yn cael eu gwneud mewn cyfnod treigl, Ebrill 2025 i Fawrth 2026, gydag amser cyfyngedig rhwng digwyddiadau; y canolrif ar hyn o bryd yw 44 diwrnod.

Mae pump o'r rhain wedi bod yn weithdrefn safle anghywir, dau yn fewnblaniad anghywir, dau yn wrthrych wedi'i gadw ac un feddyginiaeth wedi'i weinyddu ar y llwybr anghywir. Dylid nodi bod y gweithdrefnau safle anghywir yn gyffredinol yn digwydd y tu allan i amgylchedd ffurfiol y theatr lawdriniaeth.

Mae'r camau presennol yn canolbwyntio ar sicrhau bod LocSSIPs a NatSSIPs ar waith, wedi'u safoni ar draws y bwrdd iechyd ac wedi'u dilyn gyda thystiolaeth archwilio ar waith. Cynhelir archwiliadau o weithgaredd rhestr wirio WHO; mae adolygiad o'r gweithgaredd archwilio hwn a'i adolygiad ar waith a bydd yn adrodd trwy SCEG.

Nifer y Digwyddiadau Byth yn digwydd dros y tair blynedd diwethaf

| | Cyfanswm |
|---|---|
| 2022/2023 | 5 |
| 2023/2024 | 6 |
| 2024/2025 | 5 |
| 2025/2026 | 10 |
| 2026/2027 | 1 |

**Rhybuddion Diogelwch**

Mae rhybuddion diogelwch yn parhau i gael eu gweithredu, gyda phrosesau cydymffurfio ar y gweill ar gyfer y rhybuddion cenedlaethol canlynol:

PSA019, Oedi Gweinyddu Rasburicase

PSA020, Cofnodi Anghywir o Alergedd Penisilin vs Penicillamine

PSA021, Risg sy'n gysylltiedig â chylchedau anadlu oedolion heb lwybr anadlu patent

MHRA FSN DSI / 2025 / 005, Cydrannau Amnewid Clun Profemur.

## 2.0 DIOGELU

Mae cydymffurfio â'r hyfforddiant ar Ddiogelu ac Amddiffyn y Cyhoedd ym maes Gofal Sylfaenol wedi hen ennill ei blwyf ac mae'n gwella, a chefnogir hynny gan waith partneriaeth effeithiol a sicrwydd allanol cadarnhaol gyda gwaith sicrwydd ychwanegol wedi'i dargedu yn mynd rhagddo mewn ymateb i adborth y Bwrdd Diogelu.

Mae rhagor o waith sicrwydd wedi'i dargedu yn mynd rhagddo o fewn gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (MHLD).

## 3.0 ATAL A RHEOLI HEINTIAU

Mae'r Bwrdd Iechyd yn tracio nodau o safbwynt chwe organeb. Cymysg yw'r cynnydd yn erbyn Nodau Gwella Strategol o safbwynt Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd (HCAI). Er ein bod wedi gweld gostyngiadau mewn rhai organebau, mae nifer o fathau

allweddol o heintiau ar hyn o bryd yn mynd y tu hwnt i'r llwybrau y cytunwyd arnynt; mae hon yn risg barhaus i ddiogelwch cleifion ac i'r gweithrediadau.

**Perfformiad yn erbyn Nodau Strategol**

- Adroddir am **berfformiad gwell** ar gyfer:
  - E. coli (sy'n dechrau yn yr ysbyty) - islaw'r llwybr
  - *MRSA* - yn is na lefelau'r flwyddyn flaenorol
- **Mae perfformiad sy'n mynd y tu hwnt i'r llwybr** yn amlwg ar gyfer:
  - *C. difficile*
  - *Klebsiella (sy'n dechrau yn yr ysbyty)*
  - *Pseudomonas (sy'n dechrau yn yr ysbyty)*
  - *MSSA*
- Mae perfformiad o ran dechrau yn y gymuned hefyd yn gymysg, gyda:
  - Gwelliant mewn *Klebsiella*
  - Dirywiad mewn *Pseudomonas* a *Staffylococws awrews*

Cyrhaeddodd nifer yr achosion ei anterth ym mis Chwefror a Mawrth, cofnodwyd 20 o achosion a sbardunwyd yn bennaf gan Norofeirws. COVID (2), C. diff (5) a CPE (1) oedd y lleill

Effaith:

- Cau 13 ward yn llwyr

Collwyd 376 o ddiwrnodau gwely, gyda Norofeirws yn cyfrif am 91% (342 diwrnod)

## 4.0 PROFIAD CLEIFION

### 4.1 CWYNION

Ar 30 Mawrth 2026, roedd cyfanswm y cwynion a oedd ar agor wedi cynyddu i 311. Er bod y niferoedd yn cynyddu, mae'r perfformiad yn dal yn gryf, gyda BIPBC ar y brig yng Nghymru o ran yr amser cau cyfartalog (21 diwrnod gwaith). Caiff 77.81% o gwynion eu cau cyn pen 30 diwrnod, sy'n uwch na'r targed o 75%.

Gwelwyd cynnydd hefyd yn nifer y cwynion sy'n ymwneud ag agwedd ac ymddygiad a chyfathrebu. Mae adolygiad ffocws yn cael ei gynnal yn y meysydd lle mae'r cynnydd wedi digwydd i gefnogi, lliniaru a dysgu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cyfres o newidiadau i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Pryderon, Cwynion a Threfniadau Gwneud Iawn y GIG) (Cymru) 2011. Nod y newidiadau hyn yw moderneiddio sut mae pryderon a

chwynion am ofal y GIG yn cael eu codi, sut yr ymchwilir iddynt a sut cânt eu datrys, gan sicrhau bod y system yn addas ar gyfer anghenion heddiw a'r dyfodol. Daeth y newid mewn deddfwriaeth dan y teitl Gwrando ar Bobl: Proses Cwynion, Digwyddiadau a Gwneud Iawn y GIG i rym ar 1 Ebrill 2026.

Nodau craidd y fframwaith newydd hwn yw:

- Gwella'r gwaith o ddarparu gofal mwy diogel drwy wrando a gweithredu ar adborth.
- Hyrwyddo diwylliant agored a chyfiawn.
- Cynyddu tryloywder ac ymddiriedaeth.
- Lliniaru niwed yn y dyfodol a chefnogi staff i ddysgu.
- Bodloni safonau cyfreithiol a moesegol.

Yn ystod mis Chwefror, Mawrth 2026, cafodd yr holl gerrig milltir allweddol eu cyrraedd ar amser ac yn unol â'r amserlen, gyda'r Bwrdd Iechyd yn cyrraedd y dyddiad cau ar gyfer gweithredu.

## 4.2 ADBORTH GAN GLEIFION

Fe wnaeth y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS) ddelio â 1,561 o ymholiadau yn ystod y cyfnod. Mae'r boddhad cyffredinol ymysg cleifion yn dal i fod yn uchel, gyda chanlyniadau'r Gwasanaeth Profiad y Bobl yn dangos profiad cadarnhaol o 86%. Mae adborth drwy negeseuon testun wedi'u targedu ar gyfer gofal mamolaeth a newyddenedigol wedi cael ei roi ar waith.

Er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn agored ac yn hygyrch i gael adborth, mae Arolwg Profiad y Bobl GIG Cymru bellach ar gael yn y 9 prif iaith sy'n cael eu siarad yng Nghymru, gan gynnwys arolwg fideo mewn BSL.

# 5.0 EFFEITHIOLRWYDD CLINIGOL

## 5.1 ARCHWILIADAU CLINIGOL

Yn ystod Chwarter 4 (Chwefror-Mawrth), cyhoeddwyd tri archwiliad clinigol cenedlaethol Haen 1. Bwriedir cyhoeddi'r adroddiadau ffurfiol ar y rhain yn ystod Ebrill–Mai 2026. Yn ogystal, cyhoeddwyd pedwar adroddiad archwilio cenedlaethol yn cynnwys data adnabyddadwy am BIPBC yn Chwarter 4.

Cafodd tri o'r pedwar adroddiad archwilio Haen 1 sgôr Gwyrdd o ran bod perfformiad BIPBC yn meincnodi'n dda ar draws darparwyr eraill. Cododd un archwiliad (Gwasanaeth Cyswllt Toresgyrn) rai pryderon ynghylch y ddarpariaeth. Mae'r Gwasanaeth Cyswllt Toresgyrn yn cael ei ddarparu o safle **Ysbyty Glan Clwyd**. Roedd nifer o'r marcwyr yn uwch na chyfartaledd Cymru Gyfan ond mynegwyd pryder ynghylch oedi sylweddol o hyd at 15 mis am sgan DEXA (DXA), gan gynyddu'r risg bod triniaethau a fwriedir i atal toriadau i'r dyfodol yn cael eu hoedi.

| 5.2 | CANLLAWIAU NICE |
|---|---|

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wneud gwelliannau cyson a pharhaus wrth gofnodi a monitro cydymffurfiaeth â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal ( (NICE). Mae hyn yn adlewyrchu:

- Cefnogaeth barhaus i wasanaethau clinigol; a
- Bod y system Rheoli ac Olrhain Archwilio (AMaT) wedi cael ei sefydlu'n llawn.

Er mwyn cryfhau'r sicrwydd, mae pob achos o 'Fethu â Chydymffurfio' bellach yn cael ei uwchgyfeirio'n ffurfiol i'r Grŵp Effeithiolrwydd Clinigol Strategol. Mae'n ofynnol i wasanaethau greu naill ai cynllun gweithredu neu Offeryn Asesu Sylfaenol, sy'n nodi sut a phryd y bydd yn cydymffurfio â'r safonau cenedlaethol.

Canfu archwiliad mewnol diweddar fod rhai arweinwyr clinigol yn gallu diystyru ymatebion ynghylch cydymffurfio yn AMaT, gan osgoi'r broses adolygu lawn. Mae'r camau sydd ar y gweill yn cynnwys:

- Dileu'r swyddogaeth diystyru yn AMaT; a
- Gwaith dilynol uniongyrchol gan Dîm Effeithiolrwydd Clinigol NICE gyda gwasanaethau sydd wedi defnyddio'r swyddogaeth hon, i sicrhau bod adolygiadau cydymffurfio llawn yn cael eu cwblhau.

| 5.3 | ADOLYGIAD O FARWOLAETHAU |
|---|---|

Cyflwynwyd diweddariad corfforaethol ar farwolaethau yng nghyfarfod Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau'r mis hwn. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:

- Dadansoddiad o fetrigau marwolaethau BIPBC o Adroddiad Blynyddol CHKS 2024/25 gyda plymio dwfn i feysydd lle roedd data'n dangos dirywiad ymddangosiadol mewn marwolaethau o fewn BIPBC. Cynhaliwyd adolygiad llawn o godio ac achosion unigol os oes angen a nodwyd meysydd lle efallai y bydd angen goruchwyliaeth bellach. Mae hyn wedi cynnwys goruchwyliaeth BIPBC o farwolaethau strôc a fydd yn cael ei hymgorffori mewn rhaglen QI newydd ledled y DU ar gyfer gofal strôc gyda YGC yn gyfranogwr wedi'i nodi.
- Dadansoddiad o fetrigau marwolaethau BIPBC o Adroddiad Blynyddol CHKS 2024/25; ac
- Adolygiad o farwolaethau ymysg cleifion a oedd yn hysbys i'r gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu, ac i'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys marwolaethau yr amheuir eu bod yn hunanladdiad.
- Nid yw'r metrigau marwolaethau'r boblogaeth yn dangos gwahaniaeth mawr â'r lefelau Cymru gyfan mewn naill ai marwolaethau mewn gofal eilaidd,

marwolaethau oherwydd hunanladdiad nac mewn marwolaethau ymysg pobl sy'n camddefnyddio sylweddau.

Mae'r adroddiadau corfforaethol ar farwolaethau yn dangos gwelliannau parhaus mewn ffigurau marwolaethau crai gyda meincnodau priodol â ffigurau Cymru gyfan. Mae'r Mynegai Marwolaethau wedi'i Addasu yn ôl Risg (RAMI) hefyd wedi dangos gwelliant er mis Awst, gan gyd-fynd â chyrraedd y targed o gwblhau 95% o'r gwaith codio clinigol.

Mae panelau marwolaethau Cymuned Iechyd Integredig y Canolbarth a'r Dwyrain wedi cwblhau adolygiad o ôl-groniad hanesyddol o achosion, gyda'r gwersi'n cael eu rhannu drwy fforymau sefydliadol perthnasol. Mae'r Gorllewin eisoes yn adolygu achosion amser real.

Mae'r pryderon a godwyd drosodd a drosodd gan yr Archwilydd Meddygol ac mewn adolygiadau mewnol i ddigwyddiadau yn cynnwys yr angen i uwchgyfeirio dirywiad y gellir ei wyrdroi yn fwy prydlon, a sicrhau sgyrsiau cynnar ac agored am DNACPR a therfynau gofal lle bo'n briodol. Hefyd, mae angen gweithredu Call 4 Concern, yn seiliedig ar Martha's rule, fel y gwelir yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru 2026 01. Mae'r Cyfarwyddwyr Meddygol yn arwain rhaglen waith i roi sylw i'r materion hyn mewn ffordd systematig.

## 6.0 SICRHAU ANSAWDD

Mae cynlluniau gweithredu arolygiadau AGIC yn dal i fynd rhagddynt, gyda rhai camau gweithredu hwyr angen cael eu monitro'r barhaus. Mae'r ceisiadau diweddar am sicrwydd yn ymwneud â staffio, diogelwch, gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a materion amgylcheddol.

Ni chanfu arolygiadau Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ddim pryderon uniongyrchol ac mae'r cynlluniau gwella yn dal i fod ar y trywydd iawn.

Nododd Adolygiadau gan Gymheiriaid fylchau o ran dogfennu, cyfathrebu a llywodraethu yn y Rhwydwaith Trawma, gyda gwaith gwella'n mynd rhagddo.

## 6.1 OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Mae'r Ombwdsmon yn dal i weithredu fel corff allanol pwysig i ysgogi sicrwydd mewn ansawdd a llywodraethu ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae 52 o achosion yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd, gan adlewyrchu'r lefelau craffu cyson.

**Adroddiadau Budd y Cyhoedd**

- Adroddiad Budd y Cyhoedd Terfynol (Wedi'i Uwchgyfeirio)
  Mae un Adroddiad Budd y Cyhoedd yn dal ar agor oherwydd un cam gweithredu a oedd heb ei gymryd o safbwynt y Fframwaith Sicrwydd Comisiynu. Er y cytunwyd i ymestyn y dyddiad cwblhau i 31 Ionawr 2026, cafodd ei fethu. Caniatawyd estyniad arall hyd at 15 Mai 2026. Mae trefniadau llywodraethu ar lefel y Bwrdd a threfniadau goruchwylio corfforaethol ar waith i sicrhau bod y mater yn cael ei ddirwyn i ben.
- Adroddiad Budd y Cyhoedd Terfynol Newydd
  Cyhoeddwyd Adroddiad Budd y Cyhoedd Terfynol arall ym mis Mawrth 2026 o safbwynt gofal i gleifion sydd o bosibl â chanser y prostad; mae ynddo chwech argymhelliad. Mae'r holl gamau gweithredu yn bwrw ymlaen yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt, ac ni cheir dim pryderon ar hyn o bryd ynghylch ei gyflawni.

**Metrigau Perfformiad (Mawrth 2026)**

Mae lefelau gweithgaredd yr Ombwdsmon yn dal i fod yn uchel. Cafwyd 45 o gysylltiadau ym mis Mawrth, sy'n gynnydd oddi ar fis Chwefror, tra bo ffigurau'r ymchwiliadau newydd yn dal i fod yn sefydlog. Mae'r cynnydd mewn cwynion a gaiff eu cadarnhau yn amlygu'r angen parhaus i gryfhau ansawdd y broses gwynion, datrys mwy o gwynion yn gynnar, a sicrhau bod y sefydliad yn dysgu mwy o wersi.

Er bod lefel yr argymhellion yn dal i gynyddu, mae'r lefelau cydymffurfio cyffredinol yn dal i fod yn gadarn ar 91%, gan adlewyrchu gwell trefn olrhain a llywodraethu. Mae'r cyfyngiadau mewn adroddiadau ar amseroedd ymateb yn dal i fodoli oherwydd swyddogaeth Datix; fodd bynnag, mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r system genedlaethol a chafodd diweddariadau lleol eu gweithredu ar 1 Ebrill 2026.

| 6.2 | SYSTEM RHEOLI ANSAWDD |
|---|---|

Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i wneud cynnydd da i sefydlu System Rheoli Ansawdd, gyda threfn oruchwylio, seilwaith digidol, a threfn lywodraethu graidd yn awr ar waith. Mae hon yn golygu bod y Bwrdd yn gallu gweld yn gliriach yr ansawdd, yr aeddfedrwydd, y dull gweithredu safonol a rheolaeth sefydliadol fwy cadarn.

Mae'r gwaith gweithredu cynnar yn mynd rhagddo ar draws gwasanaethau clinigol a chorfforaethol, wedi'i ategu gan waith ymgysylltu un-pwrpas gan y tîm Gweithredol a'r Grŵp Strategol. Roedd y gwerthusiad chwe mis a gwblhawyd yn cadarnhau eu bod yn gydnaws â'r blaenoriaethau sefydliadol, gan gynnwys y rhaglen Sylfeini'r Dyfodol, ac mae wedi llywio'r cam nesaf i gyflwyno'r system.

Gall y Bwrdd fod yn dawel ei feddwl bod y rhaglen yn mynd rhagddi'n ôl y bwriad a'i bod yn dechrau sefydlu arferion rheoli ansawdd cyson. Fodd bynnag, mae cynaliadwyedd hirdymor yn dal i fod yn un o'r prif risgiau, oherwydd diffyg cyllid rheolaidd, at y pwrpas ac adnoddau parhaus. Mae lliniaru yn canolbwyntio ar sefydlu'r System Rheoli Ansawdd mewn prosesau busnes-fel-arfer, cwblhau trefniadau llywodraethu a pholisi, ac ehangu'r lefelau mabwysiadu ar draws y sefydliad er mwyn sicrhau'r gwerth a'r gwytnwch gorau.

## 6.3 DYSGU SEFYDLIADOL

Mae'r Storfa Ddysgu ddigidol wedi cwblhau Cam 1 ac mae'n barod i gael ei chyflwyno'n ehangach yn 2026. Bydd timau mabwysiadu cynnar yn dechrau ei defnyddio, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i integreiddio'r dysgu yn y strwythurau llywodraethu sydd eisoes yn bodoli.

## 7.0 CYFRAITH GOFAL IECHYD

**PFDs sydd newydd eu cyhoeddi**

Mae Crwner EM ar gyfer Canol De Cymru wedi cyhoeddi adroddiad Atal Marwolaethau yn y Dyfodol (PFD) yn dilyn cwest i farwolaeth plentyn ym mis Medi 2024. Nid oedd yr achos yn ymwneud â'r Bwrdd Iechyd, ac fe'i cyflwynwyd i bob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth yng Nghymru i dynnu sylw at risg bosibl.

Cododd y Crwner bryderon am oedi wrth gael mynediad at feddyginiaeth frys yn ystod dadebru pediatrig, sy'n gysylltiedig â diffyg safoni troliau damweiniau pediatrig ar draws safleoedd ysbytai, yn enwedig y tu allan i oriau.

Mae Gwasanaethau Cyfreithiol yn cydlynu'r ymateb gydag arweinwyr clinigol perthnasol. Mae angen ymateb erbyn 27 Mehefin 2026**.**

**Ymateb i PFDs**

Fel y nodwyd yn flaenorol, cafodd y Bwrdd Iechyd adroddiad PFD yn tynnu sylw at risgiau ehangach mewn gwasanaethau gastroenteroleg ac endosgopi (er gwaethaf casgliad y Crwner mai achosion naturiol oedd yn gyfrifol am farwolaeth yn yr achos hwn ac na wnaeth y materion a nodwyd effeithio ar y canlyniad). Mewn ymateb i'r adroddiad hwn, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd raglen o gamau gweithredu ar unwaith ac yn y tymor hwy i liniaru risgiau diogelwch cleifion, gan gynnwys goruchwyliaeth gryfach gan y tîm Gweithredol, recriwtio ac ailgynllunio'r gweithlu, capasiti diagnostig gwell (gan gynnwys uned endosgopi dros dro), dilysu a rhesymoli rhestrau aros, a safoni llwybrau atgyfeirio a brysbennu. Cafodd Adolygiad Cyflym o Ansawdd gwasanaethau gastroenteroleg ei drefnu ym mis Chwefror 2026, gyda risgiau'n cael eu hadolygu a'u huwchgyfeirio drwy drefniadau llywodraethu corfforaethol.

Cadarnhaodd y Bwrdd Iechyd hefyd fod gwaith yn mynd rhagddo i greu Gwasanaeth Clefydau Treulio Integredig i wella cadernid, trefn lywodraethu a chysondeb y gofal ar draws Gogledd Cymru. Mae'r ymateb yn rhoi sicrwydd i'r Crwner fod y risgiau a welwyd yn cael eu rheoli'n weithredol drwy drefniadau llywodraethu clir, lliniaru a gwella gwasanaethau'n barhaus.

**Ymateb i Bryderon eraill y Crwner**

Yn ogystal ag adroddiadau Atal Marwolaethau yn y Dyfodol ffurfiol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymateb i nifer o arsylwadau'r Crwner nad oeddent yn cyrraedd y trothwy statudol ar gyfer PFD.

Gofynnodd y Crwner am sicrwydd ynghylch yr oedi yn y broses o gadarnhau niferoedd staff nyrsio parhaol yn Adran Achosion Brys yn Ysbyty Gwynedd. Cadarnhaodd y Bwrdd Iechyd fod trefniadau staffio dros dro wedi cael eu cynnal i liniaru risgiau diogelwch i gleifion wrth i'r achosion busnes ffurfiol symud ymlaen drwy brosesau cymeradwyo Gweithredol.

Codwyd pryderon hefyd ynghylch diffyg system cofnodion clinigol electronig fodern yn y gwasanaethau iechyd meddwl. Cadarnhaodd y Bwrdd Iechyd fod y gwaith o gaffael system cofnodion iechyd electronig newydd ar gyfer iechyd meddwl ac anableddau dysgu bron â chael ei gwblhau, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, gydag amserlenni diffiniedig ar gyfer dyfarnu contractau, eu rhoi ar waith a mynd yn fyw.

Roedd arsylwadau ychwanegol yn ymwneud â dogfennau cydsynio, mynediad at therapi mewnwythiennol, a phwysau'r llwyth gwaith meddygol dros nos. Amlinellodd y Bwrdd Iechyd gamau lliniaru gan gynnwys hyfforddiant cydsynio gorfodol sy'n cyd-fynd â'r canllawiau cenedlaethol, cyflwyno gwasanaeth mynediad mewnwythiennol pwrpasol, a mesurau cymorth clinigol interim wrth i atebion tymor hwy i'r gweithlu gael eu datblygu.

Tynnodd y Crwner sylw hefyd at bwysau parhaus ar draws y llwybrau gofal brys ac argyfwng, gan gynnwys oedi wrth drosglwyddo cleifion o ambiwlansys a darparu gofal mewn amgylcheddau sydd dan bwysau mawr. Rhoddodd y Bwrdd Iechyd sicrwydd bod y risgiau hyn yn destun goruchwyliaeth weithredol gryfach, sy'n seiliedig ar Adolygiadau Ansawdd Cyflym dan arweiniad clinigol, gyda mwy o uwchgyfeirio, monitro a chamau gweithredu ar draws y system yn cael eu cymryd mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.

**Hawliadau Atebolrwydd**

Mae'r trefniadau ar gyfer goruchwylio Adroddiadau Dysgu o Ddigwyddiadau Cronfa Risg Cymru yn dal i wella. Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, roedd 10 adroddiad yn hwyr, gan ddangos gwelliant parhaus o'i gymharu â pherfformiadau cynharach yn y

flwyddyn. Disgwylir i 15 adroddiad arall gael eu cwblhau yn y mis nesaf ac mae'r gwaith rheoli'n mynd rhagddo.

Mae'r adroddiadau hwyr wedi'u crynhoi o hyd mewn nifer fach o Is-adrannau a Chymunedau Iechyd Integredig. Mae'r perfformiad o flwyddyn i flwyddyn wedi gwella, gyda llai o gosbau. Mae llawer o'r oedi'n digwydd oherwydd ceisiadau gan Gronfa Risg Cymru am wybodaeth ychwanegol yn hytrach na bod yr adroddiadau ddim yn cael eu cyflwyno. Mae prosesau sicrwydd mewnol gwell ar waith o hyd i gefnogi'r broses o gyflwyno adroddiadau amserol, o ansawdd uchel.

**Other Legal Matters**

Cyhoeddodd y Gwasanaethau Cyfreithiol arweiniad yn dilyn dyfarniad gan y Llys Apêl ar benderfyniadau ynghylch triniaeth i gleifion sydd â diffyg galluedd, gan atgyfnerthu penderfyniadau er lles gorau, dogfennau, ymgynghori ac uwchgyfeirio'n fuan pan geir anghydfod.

Mae un dyfarniad yn y Goruchaf Lys (*CCC yn erbyn Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG Ysbytai Addysgu Sheffield*) wedi cynyddu'n sylweddol yr iawndal posibl mewn hawliadau am anafiadau pediatrig trychinebus, gyda goblygiadau ar gyfer achosion o esgeulustod clinigol i'r dyfodol.

Daeth darpariaethau allweddol Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 a Rheoliadau'r GIG (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2026 i rym o 1 Ebrill 2026, gan gyflwyno newidiadau mawr yn systemau, trefniadau comisiynu a llywodraethu Byrddau Iechyd.

## 9.0 CASGLIAD

Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i ddangos meysydd o sicrwydd cadarn, yn enwedig o ran amseroldeb ymchwiliadau, delio â chwynion, effeithiolrwydd clinigol a gwella marwolaethau. Fodd bynnag, mae Digwyddiadau Byth sy'n cael eu hailadrodd, heriau atal heintiau a chraffu allanol parhaus yn risgiau sylweddol sy'n galw am oruchwyliaeth barhaus gan y tîm Gweithredol. Bydd y cyfnod nesaf yn canolbwyntio ar atal digwyddiadau diogelwch rhag cael eu hailadrodd, cryfhau'r gwaith o reoli heintiau, sicrhau bod camau rheoleiddio a chamau gweithredu'r Ombwdsmon yn cael eu cwblhau'n brydlon, a sefydlu trefniadau cynaliadwy ar gyfer rheoli ansawdd a dysgu sefydliadol.

| Adroddiad Materion Allweddol y Bwrdd Iechyd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dyddiad y Bwrdd** | | 28/05/2026 | | |
| **Dyddiad y Pwyllgor** | | 28/04/2026 | **Adroddiad:** | Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth, Cyllid a Pherfformiad |
| **Cworwm wedi'i gyrraedd:** | | Oes | | |
| **1** | Agenda | Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth, Cyllid a Pherfformiad (PFIGC) yn parhau i gyfarfod bob deufis. Ystyriodd y Pwyllgor yr agenda sydd ynghlwm: BIPBC - PLGCP | | |
| **2a** | Rhybudd | Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth, Cyllid a Pherfformiad yn dymuno rhybuddio aelodau'r Bwrdd:<br><br>• O ran Gofal wedi'i Gynllunio, nododd yr aelodau, er bod y gwelliannau a wnaed yn parhau i leihau amseroedd aros hir ar gyfer gofal cynlluniedig, bod llawer o'r gwelliant hwn wedi dod o **fesurau dros dro,** megis clinigau ychwanegol a chefnogaeth allanol. Nid oedd gan y Pwyllgor sicrwydd digonol eto bod **capasiti a chynhyrchiant hirdymor, cynaliadwy** wedi gwella i'r un graddau.<br>• Ar hyn o bryd mae'n anodd gweld **pryd y bydd dibyniaeth ar drefniadau dros dro yn lleihau** a sut y bydd gwelliannau'n cael eu cynnal drwy ddefnyddio staff a chyfleusterau arferol y Bwrdd Iechyd.<br>• Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod mewn **sefyllfa lle rhagwelir diffyg.** Er bod hyn yn adlewyrchu'r pwysau ehangach ar draws GIG Cymru, mae'n parhau i gyflwyno risg os na fydd atebion parhaol.<br>• Ni chafodd y Pwyllgor y cyfle i ystyried y Fframwaith Perfformiad ac Atebolrwydd diwygiedig fel y gofynnwyd iddo ei wneud gan y Bwrdd ym mis Mawrth, ond nodwyd nad y ddogfen ddrafft yw'r broblem ond yn hytrach methiant y trefniadau gweithredol presennol i'w hadlewyrchu.<br>• Mae drafft yr alldro ariannol ar gyfer 2025/6 yn dangos yn glir ein bod ymhell o gyflawni 'symudiad i'r chwith' yn unol â gofynion y fenter Cymuned drwy ddylunio, gyda thanwariant mewn meysydd darparu gofal sylfaenol allweddol.<br>• Er bod adolygiad cychwynnol o oblygiadau ariannol Sylfeini'r Dyfodol yn awgrymu arbediad o ran yr haenau rheoli uchaf, mae angen ystyried yn fanylach y costau trosglwyddo a'r costau cyffredinol tebygol. | | |
| **2b** | Sicrwydd | Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth, Cyllid a Pherfformiad yn dymuno sicrhau aelodau'r Bwrdd: | | |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Bod cynnydd clir wedi'i wneud o ran gwella mynediad at wasanaethau, gan gynnwys:<br>  ○ Gostyngiadau sylweddol yn yr amseroedd aros hiraf ar gyfer gofal wedi'i gynllunio ac yn nifer y cleifion sy'n aros mwy na 52 wythnos am apwyntiad cleifion allanol cyntaf.<br>  ○ Ffocws parhaus ar wella llwybrau gofal canser, diagnostig a brys.<br>• Mae **Adroddiad Perfformiad Integredig** ar ei newydd wedd yn cael ei ddatblygu i wneud gwybodaeth yn gliriach ac yn haws i aelodau'r Bwrdd a'r cyhoedd ei deall, gan gefnogi goruchwyliaeth fwy tryloyw.<br>• Gofynnwyd i Archwilio Mewnol adolygu **rhaglen Sylfeini'r Dyfodol**, gan roi sicrwydd ychwanegol ar gyflawni, llywodraethu a rheoli risg. |
| **2c** | Cynghori | Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth, Cyllid a Pherfformiad yn dymuno cynghori aelodau'r Bwrdd:<br><br>• Dylai gwelliannau yn y dyfodol o ran gofal wedi'i gynllunio ganolbwyntio llai ar fesurau adfer dros dro a mwy ar:<br>  ○ Gwella cynhyrchiant o fewn gwasanaethau presennol.<br>  ○ Gwneud y defnydd gorau o amser staff, theatrau a chapasiti clinigol.<br>  ○ Nodi'n glir sut y bydd gwelliannau'n cael eu cynnal.<br>• Mae'r Pwyllgor yn argymell bod cymeradwyaeth derfynol y **Fframwaith Sicrwydd Comisiynu** yn cael ei lywio drwy graffu'r Pwyllgor i sicrhau ei fod yn darparu goruchwyliaeth glir o ansawdd a diogelwch mewn gwasanaethau a ddarperir gan bartneriaid allanol.<br>• Efallai y bydd angen ystyried sut mae trefniadau rheoli ariannol presennol yn cydbwyso goruchwyliaeth angenrheidiol â chefnogi timau lleol i gymryd cyfrifoldeb am gyflawni a gwella. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod y trefniadau presennol yn rhwystro gallu rheolwyr gweithredol i wneud newidiadau a fyddai'n gwella perfformiad.<br>• Mae'r Pwyllgor yn credu y dylid archwilio'n egnïol cyfleoedd i dreialu cyllidebau cyfunol gwirioneddol gydag un neu fwy o awdurdodau lleol i alluogi rhyddhau cleifion sydd wedi profi oedi wrth drosglwyddo gofal yn gyflymach. |
| **2d** | Adolygiad o Risgiau | Derbyniodd y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth, Cyllid a Pherfformiad, sicrwydd a chymeradwywyd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, wedi'i ddiweddaru gan nodi bod: |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Mae'r Pwyllgor wedi derbyn diweddariad ar y tair risg y mae'n eu goruchwylio gan nodi bod y templed ar gyfer adrodd risg i'r pwyllgor yn cael ei adolygu.<br>• Mae gwaith ar y gweill i wella sut mae risgiau'n cael eu hadrodd i bwyllgorau, i'w gwneud yn gliriach ac yn fwy cyson.<br>• Mae dibyniaeth barhaus ar drefniadau gwasanaeth dros dro yn parhau i fod yn risg bwysig sy'n cwmpasu perfformiad, cyllid a chynaliadwyedd. |
| **2e** | Rhannu dysgu | Nid oedd unrhyw eitemau dysgu penodol i ddwyn i sylw'r Bwrdd y tro yma. |
| **3** | Camau gweithredu i'w hystyried gan y P&C<br><br>Pwyllgor Gweithredol<br><br>Pwyllgor Diogelwch ac Ansawdd<br><br>PPHP | • Ceisio sicrwydd ynghylch **argaeledd a pharhad cefnogaeth rheoli rhaglenni** ar gyfer rhaglen Sylfeini'r Dyfodol, er mwyn lleihau'r risg o amhariadau tra'n rhoi ar waith.<br><br>• Tynnir sylw at **amseriad adrodd Llywodraethu Gwybodaeth,** er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor Gweithredol yn gweld gwybodaeth berthnasol mewn da bryd a hynny er mwyn cefnogi goruchwyliaeth a gwneud penderfyniadau.<br><br>• Gofyn i'r Pwyllgor Gweithredol **gynyddu data ar gynhyrchiant theatrau** o ran adrodd ar berfformiad, gan nad oes tystiolaeth o newid cadarnhaol.<br><br>• Gofyn i'r Pwyllgor Diogelwch ac Ansawdd ystyried y **Fframwaith Comisiynu drafft** i sicrhau bod ansawdd a diogelwch yn cael digon o bwyslais o fewn gweithgaredd caffael.<br><br>• Dylid ailystyried arfer presennol ein staff i **gynghori newyddiadurwyr i gael gwybodaeth drwy Ryddid Gwybodaeth**. |

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

# Bwrdd Iechyd

# ADRODDIAD ANSAWDD A PHERFFORMIAD INTEGREDIG (IQPR)

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod**<br>**Dyddiad y Cyfarfod** | 28 May 2026 |
| **Statws Cyhoeddi**<br>**Publication Status** | Agored / Cyhoeddus<br>Statws Drafft – Bydd y Fersiwn Derfynol yn cael ei Chyhoeddi |
| **Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad**<br>**Report Author name and title** | Ed Williams<br>Dirprwy Gyfarwyddwr Perfformiad<br>Deputy Director for Performance |
| **Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol**<br>**Lead Executive Team Member name and title** | Russell Caldicott<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid<br>Executive Director of Finance |

| | |
|---|---|
| **Pwrpas yr Adroddiad**<br>**Report Purpose** | I'w Nodi |

**Crynodeb Gweithredol**
**Executive Summary**

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Ansawdd, Mynediad, y Gweithlu a pherfformiad Ariannol er gwybodaeth a sicrwydd, gyda'r adroddiad llawn wedi'i gynnwys fel atodiad. Dyma'r negeseuon allweddol:

- **Ansawdd**

  Nodwyd bod dau 'Ddigwyddiad Byth' newydd wedi digwydd ym mis Mawrth 2026 fel a ganlyn:
  - Camddiagnosis (Diagnosis Anghywir)
  - Methu ag asesu'n glinigol

- **Gofal wedi'i Gynllunio**

  - Cleifion sy'n aros 52 wythnos neu fwy am eu hapwyntiad cyntaf fel claf allanol:

    Mae'r timau Gweithredol wedi defnyddio cyllid cenedlaethol i sicrhau gostyngiadau sylweddol yn nifer y cleifion sy'n aros, gan nodi gwelliant o fwy nag 80% – o 31,905 o gleifion yn aros dros 52 wythnos i 5,858

*Y sefyllfa ddiweddaraf sydd heb ei dilysu ar gyfer mis Ebrill 2026 yw 6,265*

- Cleifion sy'n aros dros 104 wythnos am bob cam o'r driniaeth

  Y nifer a oedd yn aros ddiwedd mis Mawrth 2026 oedd 2,161 (dros 1,500 yn well na'r trywydd a gynlluniwyd ar gyfer diwedd mis Mawrth sef 3,782).

  *Y sefyllfa ddiweddaraf sydd heb ei dilysu ar gyfer mis Ebrill 2026 yw 2,747*

- **Canser (safon genedlaethol 75%)**

  Ym mis Chwefror 2025, roedd y Bwrdd Iechyd wedi trin 53.1% (213 allan o 401) o gleifion o fewn y 62 diwrnod targed. Er bod y perfformiad yn erbyn y targed yn parhau i fod yn heriol, bu gostyngiad sylweddol yn nifer y cleifion sy'n aros ym maes dermatoleg a hyd yr amseroedd aros. Y perfformiad targed i symud allan o fesurau arbennig oedd 55% am bedwar chwarter. Mae cynlluniau ar y gweill i gyflawni'r ddarpariaeth darged hon. Nodwyd mai 75% yw'r perfformiad lefel un sydd wedi'i dargedu.

  *Y sefyllfa ddiweddaraf wedi'i dilysu ar gyfer mis Mawrth 2026 yw 54%*

- **Diagnosteg**

  Yn erbyn y safon 8 wythnos, mae wedi gwella'n sylweddol ym mis Chwefror a mis Mawrth gyda 9,000 o ostyngiad yn nifer y cleifion, sef o 21,800 i 13,778 ym mis Ionawr 2026. Mae'r cynlluniau'n cael eu monitro'n agos i sicrhau bod amseroedd aros dros 8 wythnos yn cael eu lleihau'n barhaus drwy gydol chwarter cyntaf 2026/27.

  Mae pryderon ynghylch Uwchsain nad yw'n Obstetreg yn parhau, ac maent yn cael eu monitro'n agos gan dimau gweithredol.

  *Y sefyllfa ddiweddaraf wedi'i dilysu ar gyfer mis Ebrill 2026 yw 12,396*

- **Gofal Brys a Gofal Argyfwng**

  Mae'r Gweinidog wedi nodi dau faes blaenoriaeth o ran perfformiad, sef cleifion yn aros mwy na 12 awr, a chyfnodau trosglwyddo o ambiwlans sy'n para mwy na 45 munud. Ym mis Mawrth 2026, mae perfformiad wedi gwella mewn pump o'r chwe mesur uwchgyfeirio. Dyma oedd y perfformiad:

  - Oedi dros 45 munud wrth drosglwyddo o ambiwlans: 2,316 (65% o drawsgludiadau) gyda'r oedi hiraf dros 26 awr.

  *Y sefyllfa ddiweddaraf wedi'i dilysu ar gyfer mis Ebrill 2026 yw 1,960 (yr hiraf yn 18 awr)*

- Nifer y cleifion sy'n aros mwy na 12 awr: 3,631 (28% o ymweliadau)

*Y sefyllfa ddiweddaraf wedi'i dilysu ar gyfer mis Ebrill 2026 yw 3,400*

- Gostyngiad yn nifer y cleifion sy'n aros mwy na 24 awr: 1,849 (15% o ymweliadau)

*Y sefyllfa ddiweddaraf wedi'i dilysu ar gyfer mis Ebrill 2026 yw 1,707*

- Nifer is o gleifion yn aros mwy na 48 awr: 607 (6% o ymweliadau)

*Y sefyllfa ddiweddaraf wedi'i dilysu ar gyfer mis Ebrill 2026 yw 464*

- Nifer uwch o gleifion oedd heb aros, sef 1,632 (11%)

*Y sefyllfa ddiweddaraf wedi'i dilysu ar gyfer mis Ebrill 2026 yw 1,408*

- Nifer is o gleifion â llwybrau gofal wedi'u gohirio, sef 291

*Y sefyllfa ddiweddaraf wedi'i dilysu ar gyfer mis Ebrill 2026 yw 293*

Er bod cynlluniau ar waith i gefnogi gwelliannau yn y maes gofal brys a gofal argyfwng, bydd yn parhau i fod yn faes pryder a ffocws wrth i ni symud ymlaen drwy 2026-2027.

- **Materion Ariannol**

Gosododd y Bwrdd Iechyd gynllun cytbwys ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, gan ail-ragweld adroddiadau ar ôl mis 9 am y sefyllfa o ddiffyg o £17.4m ar ôl rhoi mesurau rheoli ychwanegol ar waith.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno diffyg o £17.3m ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2025/26, ac mae Archwilio Cymru bellach yn archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd (mae hyn yn unol â'r rhagolwg diwygiedig a gyflwynwyd gan y Bwrdd Iechyd).

Nid yw sefyllfa alldro diffyg drafft diwedd blwyddyn 2025/26 o £17.3m yn cyflawni prif ddyletswydd y Bwrdd Iechyd, na'r cynllun a osodwyd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol i sicrhau sefyllfa ariannol gytbwys.

**3.6.2 Blwyddyn ariannol 2026/27**

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gosod cynllun diffyg o £43m ar gyfer y flwyddyn, sy'n gofyn am gyflawni £46m o arbedion. Mae'r cynllun yn cynnwys yr £82m cylchol amodol gan Lywodraeth Cymru (pe na bai hyn wedi cael ei sicrhau tan 2026/27 byddai'r diffyg wedi bod yn £125m).

Mae sefyllfa mis 1 yn cynrychioli diffyg o £5.4m (£1.8m er gwaeth i'r cynllun) yn bennaf o ganlyniad i arbedion heb gael eu cyflawni (mae'r cynllun yn mynnu bod £3.8m yn cael ei gyflawni bob mis) sydd wedi cael ei wrthbwyso'n rhannol drwy gynnal y mesurau rheoli sydd ar waith ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2025/26.

Nid yw cyflwyno cynllun diffyg yn bodloni gofynion y Ddyletswydd Ariannol Allweddol i fantoli'r gyllideb. Felly, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd lunio

| |
|---|
| Cynllun Adfer Ariannol ar gyfer 2026/27 i gyflawni gwelliannau i'r alldro, a fydd yn gofyn am nodi arbedion ychwanegol i'r hyn sy'n ofynnol fel rhan o'r cynllun.<br><br>Mae'n hanfodol fod y Bwrdd Iechyd yn nodi ac yn gweithredu'r cynlluniau arbedion ar gyfer y flwyddyn ariannol. Fel arall, bydd cyflawni'r cynllun yn mynd yn fwy heriol bob mis gan fod yn rhaid gwneud iawn am ddiffyg cyflawni yn y mis blaenorol mewn misoedd diweddarach. Sicrhau'r adnodd cylchol amodol gwerth £82m gan Lywodraeth Cymru yn 2027/28, sydd mewn perygl os na chaiff perfformiad ei gyflawni.<br><br>Gofynnir i'r aelodau nodi'r uchod a'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad cryno hwn sy'n tynnu sylw at berfformiad allweddol y Bwrdd Iechyd. Mae'r atodiad i'r adroddiad (atodiad A - Yr Adroddiad Perfformiad Integredig) yn nodi ymhellach y metrigau perfformiad ehangach. |


| **Ymgysylltu (mewnol/allanol) yr ymgymerwyd ag ef hyd yma (gan gynnwys derbyn/ ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp)<br>Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)** | | |
|---|---|---|
| **Pwyllgor / Grŵp / Unigolion<br>Committee / Group / Individuals** | **Dyddiad<br>Date** | **Canlyniad, Tystiolaeth a Data<br>Outcome, Evidence and Data** |
| Ddim yn berthnasol i'r adroddiad hwn | | |

| **Acronymau / Rhestr Termau<br>Acronyms / Glossary of Terms** | |
|---|---|
| A&E | Damweiniau ac Achosion Brys |
| AB | Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan |
| ADHD | Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd |
| ASD | Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig |
| BIPBC/PBC | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| C&V | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| CRR | Cyfeirnod y Gofrestr Risgiau Corfforaethol |
| CTM | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |

| | |
|---|---|
| ENT | Clust, Trwyn a Gwddf (ENT) |
| GIG | Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| GDS | Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol |
| HDda | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| AaGIC | Addysg a Gwella Iechyd Cymru |
| IHC | Cymuned Iechyd Integredig |
| LPMHSS | Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol |
| LIC | Llywodraeth Cymru |
| MH&LD | Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu |
| MMR | Y Frech Goch, Clwy'r Pennau a Rwbela |
| NR | Achlysurol/anghylchol |
| PADR | Adolygiad Datblygu ac Arfarnu Perfformiad |
| PFIG | Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethiant Gwybodaeth |
| QSE | Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau |
| SB | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |
| SM | Mesurau Arbennig |
| WAST | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| YTD | hyd yma eleni |

# ADRODDIAD ANSAWDD A PHERFFORMIAD INTEGREDIG

## 1. Y SEFYLLFA SITUATION




**1.1** O blith y mesurau yn Fframwaith Perfformiad GIG Cymru sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad, mae 20 ohonynt ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed a 38 ddim. Mae risgiau o hyd o ran cyflawni nifer o fetrigau allweddol. Mae'r adroddiad sydd ynghlwm yn atodiad I yn rhoi rhagor o fanylion amdanynt, gyda'r dangosfyrddau perthnasol ar gyfer pob un o'r pedwar cwadrant.

**1.2** Mae'r gwaith o flaenoriaethu'r metrigau oddi ar y cynllun wedi cael ei ddefnyddio i lenwi adran uwchgyfeirio'r IQPR (gweler atodiad I) er mwyn rhoi mwy o ffocws i'r metrigau rydym yn ceisio eu gwella yn y tymor byr. Bydd yr adroddiad cryno hwn yn nodi rhai elfennau allweddol o'n hansawdd, ein mynediad a'n gweithgarwch, ein pobl a'n cyllid fel y gwelir hynny yn y Bwrdd Iechyd.

**1.3** Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu heriau sylweddol o ran cyrraedd y targedau perfformiad yn y cynlluniau cenedlaethol a lleol, ac mae uwchgyfeirio yn parhau yn y meysydd hyn o ganlyniad. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod perfformiad mewn nifer o feysydd yn parhau i wella (ar sail cyflawniad hanesyddol a chymhariaeth o fewn y flwyddyn), ac mewn rhai achosion maent yn cyrraedd lefelau cenedlaethol wedi'u targedu.

**1.4** Drwy gydol 2025-26, cychwynnwyd ar gynlluniau i gefnogi blaenoriaethau cyflawni er mwyn gwella'n sylweddol amseroedd aros dewisol, cleifion allanol (newydd a dilynol), canser a pherfformiad diagnostig 8 wythnos.

**1.5** Gwahoddir yr aelodau i adolygu'r manylion sydd yn yr adroddiad perfformiad i asesu meysydd o her allweddol a chyfleoedd i wella, gan drafod cyflawni ar gerdyn sgorio cytbwys.

**2 Y CEFNDIR**
**BACKGROUND**

**2.1** Mae'r Gyfarwyddiaeth Perfformiad bellach yn adrodd i bortffolio'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, ac mae datblygu'r Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig (IQPR) yn amcan allweddol i sicrhau bod anghenion fforymau Gweithredol, y Weithrediaeth, Pwyllgorau a'r Bwrdd Iechyd yn cael eu diwallu. Bydd datblygu'r adroddiad yn adeiladu ar y gwaith o lansio model gwasanaethau Sylfeini ar gyfer y Dyfodol, sy'n hanfodol i sicrhau eglurder ynghylch rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd.

**2.2** Siartiau Rheoli Prosesau Ystadegol (SPC) fydd y prif gyfrwng i adrodd ar berfformiad (tueddiadau hanesyddol, presennol ac yn y dyfodol) gan sicrhau bod symudiadau mewn perfformiad yn cael eu deall. Ym mis Ionawr 2026, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r defnydd o fethodoleg 'Gwneud i Ddata Gyfrif' ym mhob adroddiad ffurfiol sydd eisoes wedi cael ei fabwysiadu gan BIPBC, a bydd yn cael ei gryfhau ymhellach yn ystod y misoedd nesaf. Mae'n hanfodol bod defnyddwyr yr adroddiadau'n gallu canfod effaith y camau gweithredu allweddol a ddisgwylir ar gyfer perfformiad yn y dyfodol, ac yn bwysig iawn, sut mae hyn yn cymharu â'r hyn sydd yn ein Cynlluniau Tymor Canolig Integredig (IMTP) a'n disgwyliadau cenedlaethol.

**2.3** Mae cyfarfodydd cychwynnol wedi cael eu cynnal gyda'r Weithrediaeth, Uwch Arweinwyr a'r timau, gyda rhagor o drafodaethau'n cael eu cynnal gyda chydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd i siapio'r model adrodd yn y dyfodol. Y disgwyliad yw y byddai hyn yn cael ei gefnogi gan y canlynol;

- Strwythur adrodd hierarchaidd (y wybodaeth wedi'i theilwra'n bwrpasol ar gyfer y gynulleidfa)
- Adolygu metrigau a ddefnyddir ar gyfer asesu, gan sicrhau perthnasedd
- Ymgysylltu â thimau Gweithredol a Chlinigol, i sicrhau bod modd mesur y camau gweithredu sydd wedi'u cynllunio i wella perfformiad ac felly bod modd eu defnyddio i ragweld y ddarpariaeth
- 'Fframwaith Perfformiad ac Atebolrwydd' diwygiedig a fydd yn galluogi meysydd a chyfarwyddiaethau sydd angen cymorth ychwanegol i gael eu nodi a'u huwchgyfeirio
- Ffocws ar gamau gweithredu ac effaith allweddol, modelu perfformiad yn y dyfodol ac alinio â chyflwyno cynlluniau i Lywodraeth Cymru a sut mae'r perfformiad hwn yn cymharu â meini prawf mesurau arbennig a gofynion Gweinidogol.

**2.4** Bydd gweithredu'r rhaglen 'Sylfeini ar gyfer y Dyfodol' wrth ddarparu eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau yn helpu i nodi llinellau atebolrwydd. Mae'n bwysig bod y fframwaith atebolrwydd yn cydnabod meysydd sy'n perfformio'n dda ac yn gwahaniaethu â'r rheini sydd angen cymorth i sicrhau gwelliant. Adrodd ar berfformiad yn y dyfodol sy'n ei gwneud yn ofynnol i gydweithwyr Gweithredol a Chlinigol benderfynu ar y camau i'w cymryd a'r effaith ddisgwyliedig.

**2.5** Wrth i'r datblygiadau hyn fynd rhagddynt, bydd yr adroddiad yn parhau i gael ei ddatblygu, a bydd pob adran yn ceisio gwella'r broses adrodd gan gynnwys;

- Crynodeb lefel uchel un dudalen o hyd o faterion i dynnu sylw'r aelodau atynt
- Yna, tudalen i bob cwadrant, sy'n rhoi darlun mwy penodol o'r perfformiad
- Yn olaf, eglurir pob metrig perfformiad yn yr adroddiad i ddarparu'r manylion i swyddogion sy'n ceisio deall mwy mewn perthynas â metrig penodol
- Bydd Siartiau Rheoli Prosesau Ystadegol yn cael eu defnyddio i ddangos y perfformiad a ragwelir yn ein cynlluniau a sut mae hyn yn cymharu â mesurau arbennig a gofynion Gweinidogol dros y flwyddyn, gan gynnwys naratif ar gyfer unrhyw gamau gweithredu ac effeithiau i'w rhoi ar waith i wella perfformiad

**3** **MATERION PENODOL I'W HYSTYRIED**
**SPECIFIC MATTERS FOR CONSIDERATION**

**3.1** O'r mesurau o Fframwaith Perfformiad GIG Cymru sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad, mae'n dal yn amlwg bod risgiau sylweddol o ran cyflawni nifer o fetrigau allweddol a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.

**3.2** Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu heriau sylweddol o ran cyrraedd y targedau perfformiad yn y cynlluniau cenedlaethol a lleol, ac mae uwchgyfeirio yn parhau i ddigwydd yn y meysydd hyn o ganlyniad. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod perfformiad yn parhau i wella mewn nifer o feysydd, gyda'r aelodau'n cael eu gwahodd i adolygu'r manylion yn y crynodeb a'r adroddiad perfformiad llawn i asesu meysydd o her allweddol a chyfleoedd i wella.

**3.3** **Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau**

Nodwyd bod dau 'Ddigwyddiad Byth' Newydd wedi digwydd ym mis Mawrth 2026 fel a ganlyn:

- Camddiagnosis (Diagnosis Anghywir)
- Methu ag asesu'n glinigol

## 3.4 Perfformiad Mynediad a Gweithgarwch

3.4.1 Cyflwyniad i'r Ddarpariaeth Gofal wedi'i Gynllunio


Mae'r adran hon yn cynnwys y nifer fwyaf o fesurau yn yr adroddiad ac mae'n trafod profiad ein poblogaeth leol o gael mynediad at wasanaethau. Y Bwrdd Iechyd yn cyflwyno'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) sy'n nodi ei fod wedi cyflawni cyfarwyddebau cenedlaethol ar gyfer Gofal wedi'i Gynllunio ar sail y canlynol:

- Derbyn cyllid ychwanegol i gefnogi'r gwaith o gyflawni 104 wythnos
- Gallu comisiynu gweithgarwch gan y sector preifat ar gyfer arbenigeddau allweddol

Cafodd y Bwrdd Iechyd ddyraniadau canolog yn 2025/26 i gefnogi'r gwaith o gomisiynu darpariaeth gofal allanol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i geisio gwella perfformiad ac mae wedi rhoi systemau goruchwylio ac uwchgyfeirio ychwanegol ar waith yn y gofod Gofal wedi'i gynllunio (y Prif Weithredwr yn Cadeirio cyfarfod goruchwylio ac uwchgyfeirio wythnosol), gyda goruchwyliaeth a llywodraethiant ychwanegol drwy gyfarfod wythnosol rhwng Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Iechyd.

**3.3.2 Perfformiad Gofal wedi'i Gynllunio**

**3.3.2.1 Cleifion sydd wedi aros dros 52 wythnos am apwyntiad cyntaf fel claf allanol**




Ar ôl cyflwyno gwasanaeth trefnu apwyntiadau wedi'i reoli'n ganolog ar gyfer apwyntiadau cyntaf cleifion allanol a mabwysiadu argymhellion GIRFT ar gyfer pob arbenigedd o ran trefnu apwyntiadau clinig, llwyddwyd i sefydlogi'r dirywiad mewn perfformiad a welwyd gan y Bwrdd Iechyd.

Yn ogystal, mae'r fenter genedlaethol o ddod â gweithwyr allanol i mewn i ymdrin ag apwyntiadau cyntaf cleifion allanol newydd, wedi golygu bod dros 2,000 o gleifion yn cael eu gweld bob penwythnos. Mae'r ychwanegedd hwn wedi sicrhau dros 80% o ostyngiad dramatig yn nifer y cleifion sy'n aros am

apwyntiad cyntaf fel claf allanol. Er bod hyn yn gyflawniad sylweddol, ni chyrhaeddwyd y targed o ddim cleifion yn aros dros 52 wythnos am eu hapwyntiad cyntaf fel claf allanol, gyda 5,858 o gleifion yn dal i aros.

Mae'n bwysig nodi y bydd angen ymyrraeth bellach ar rai o'r cleifion hyn, gan olygu y bydd pwysau wrth gyflawni'r perfformiad diagnostig 8 wythnos a 104 wythnos yn y dyfodol

(a) carfan o gleifion allanol cam 1 y mae angen triniaeth arnynt gyda rhai o'r achosion brys hyn neu hyd yn oed achosion brys lle'r amheuir canser, a disodli'r capasiti arferol presennol i wasanaethu cleifion sy'n aros dros 104 wythnos ar hyn o bryd.

**3.3.2.2 Cleifion sy'n aros dros 104 wythnos ar gyfer pob cam o'r ddarpariaeth gofal**




Roedd y Bwrdd Iechyd wedi targedu dim cleifion yn aros dros 104 wythnos erbyn 31 Mawrth 2026. Sicrhaodd y Bwrdd Iechyd welliannau sylweddol gyda 2,161 o gleifion (70% o ostyngiad dros y cyfnod hwnnw) yn aros dros 104 wythnos i gwblhau eu gofal. Fodd bynnag, ni chyrhaeddwyd y trywydd i gyrraedd sero erbyn 31 Mawrth 2026.


Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i sbarduno gwelliannau ochr yn ochr â chomisiynu gweithgarwch drwy'r Brif Raglen Gofal wedi'i Gynllunio, gyda ffocws ar gynhyrchiant. Un enghraifft yw gwelliannau o ran defnyddio theatrau (dechrau'n gynnar ac yn hwyr ynghyd â lleihau nifer y cansliadau byr-rybudd neu ar y diwrnod) i gefnogi gwelliannau wrth gyflawni.

**3.3.2.3 Perfformiad Canser (safon genedlaethol 75%)**

Ym mis Ionawr 2026, roedd y Bwrdd Iechyd wedi trin 53.1% (213 allan o 401) o'i gymharu â ?? (229 allan o 447) ym mis Ionawr) o gleifion o fewn y 62 diwrnod targed, fel y nodir yn y tabl isod;

| | BCUHB Total | West | Central | East |
|---|---|---|---|---|
| Haematology | 73% (19/26) ↓ | 86% (6/7) | 64% (7/11) | 75% (6/8) |
| Lung | 68% (26/38) ↑ | 54% (7/13) | 56% (5/9) | 88% (14/16) |
| Upper GI | 63% (17/27) ↓ | 50% (4/8) | 67% (6/9) | 70% (7/10) |
| Skin | 59% (51/86) ↓ | 52% (13/25) | 59% (19/32) | 66% (19/29) |
| Colorectal | 49% (20/41) ↑ | 44% (7/16) | 50% (4/8) | 53% (9/17) |
| Gynaecology | 47% (9/19) ↑ | 17% (1/6) | 60% (3/5) | 63% (5/8) |
| Breast | 43% (29/68) ↑ | 60% (15/25) | 20% (4/20) | 43% (10/23) |
| Urology | 41% (29/71) ↓ | 38% (9/24) | 42% (8/19) | 43% (12/28) |
| Head & Neck | 25% (4/16) ↓ | 20% (1/5) | 20% (1/5) | 33% (2/6) |
| Total | 53% (213/401) ↑ | 50% (67/133) ↓ | 49% (59/120) ↑ | 59% (87/148) ↑ |

***Colour coding:** Above target ie 75% and above; 65-74%; below 65%; arrows reflect change from last month*




O ran perfformiad Canser, mae heriau yn parhau ar draws Cymru. Mae mesurau wedi cael eu defnyddio i wella'r ddarpariaeth yn yr adrannau canlynol: Dermatoleg (croen) drwy ddod â gweithwyr contractiol allanol i mewn, y Colon a'r Rhefr gyda gwasanaethau endosgopi ychwanegol, y Fron drwy aildrefnu capasiti clinig oddi wrth ddydd Llun, a recriwtio meddygon ymgynghorol ychwanegol i'r adran Pen a'r Gwddf.


Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i dargedu perfformiad sy'n uwch na'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer mesurau arbennig (55% am bedwar mis yn olynol)

### 3.3.2.4 Diagnosteg (perfformiad yn erbyn y safon 8 wythnos)

Er bod perfformiad diagnosteg yn erbyn y safon 8 wythnos wedi dirywio dros y 12 mis diwethaf, roedd hyn yn rhannol o ganlyniad i'r ffaith fod angen 12,000 o achosion diagnostig ychwanegol yn dilyn y rhaglen genedlaethol 52 wythnos. Roedd y galw cynyddol yn canolbwyntio'n bennaf ar Radioleg, Delweddu Cyseiniant Magnetig (MRI), Uwchsain nad yw'n Obstetreg, ac Endosgopi , ac mae gwelliant sylweddol wedi bod ym mis Chwefror a mis Mawrth, gweler isod;

- Gyda'r 21,800 o gleifion yn aros mwy nag 8 wythnos ddiwedd mis Ionawr 2026 wedi gostwng i 13,778 (gostyngiad o 47%) ddiwedd mis Mawrth 2026.

- Y sbardunau yw cynnydd mewn dod â chapasiti Endosgopi a Radioleg i mewn ar draws pob safle, gyda'r tua 12,000 o atgyfeiriadau ychwanegol o'r fenter cleifion allanol genedlaethol gyntaf
- Dyraniad o £3.6m yn ystod y flwyddyn i wella'r sefyllfa o 8 wythnos ddiwedd mis Mawrth 2026.





Camau gweithredu allweddol yn y chwarter cyfredol yn canolbwyntio ar;

- Parhau â datrysiadau (ystafelloedd MRI symudol ac endosgopi symudol)
- Mabwysiadu mesurau ychwanegol i reoli'r galw


Y cynllun cychwynnol oedd lleihau nifer y cleifion yn aros dros 8 wythnos i oddeutu 4,700 o gleifion erbyn 31 Mawrth 2026. Fodd bynnag, roedd y gweithgarwch ychwanegol i gleifion allanol a welwyd drwy'r model cyntaf cenedlaethol ar gyfer dod ag adnoddau i mewn ar gyfer cleifion allanol, a barodd 52 wythnos, wedi arwain at weithgarwch diagnostig ychwanegol sylweddol, gan amharu ar berfformiad yn y maes hwn. Ar hyn o bryd, mae 13,778 o gleifion yn aros dros 8 wythnos am brofion diagnostig.

### 3.3.2.5 Aros am Therapi

Mae'r perfformiad o'i gymharu â'r targed o 14 wythnos ar gyfer amseroedd aros am therapi yn parhau i fod yn heriol, gyda 1,459 o gleifion yn aros mwy na 14 wythnos am eu therapi. Mae'r cleifion hyn yn bennaf ym maes Ffisiotherapi a Deieteg yng Nghymuned Iechyd Integredig y Dwyrain. Mae'r rhesymau dros yr oedi yn cynnwys lefelau staffio mewn deieteg, ac argaeledd llety ar gyfer ffisiotherapi.




### 3.2.2.7 Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS), a Niwroddatblygiadol





Mae amseroedd aros niwroddatblygiadol yn dal yn bryder, gyda'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn 6ed o 7 yng Nghymru gyda 10.3%. Mae perfformiad diweddaraf Cymru ym mis Mawrth 2026 yn 21%, ac nid oes yr un Bwrdd Iechyd yn cyrraedd y targed. Nid yw BIPBC yn cyflawni ei drywydd gwella mewnol ar gyfer mis Mawrth 2026.

### 3.3.3 Perfformiad Gofal Brys a Gofal Argyfwng

### 3.3.3.1 Trosglwyddo Cleifion o Ambiwlans o fewn 45 munud


Mae ffocws ar berfformiad yn y maes hwn. Mae’r amser trosglwyddo diweddar o 45 munud, a chydnabod y niwed i gleifion oherwydd yr amseroedd aros gormodol angen ei wella ar unwaith.

Ddiwedd mis Mawrth 2026, cafodd 45% o gleifion eu trosglwyddo o ambiwlans mewn llai na 45 munud, gyda 2,316 o gleifion yn aros dros 45 munud. Yr amser canolrifol i glaf mewn ambiwlans oedd 151 munud (2.5 awr), a’r oedi hiraf wrth drosglwyddo claf oedd 26 awr.





### 3.3.3.2 Cleifion sy'n aros dros 12 Awr mewn Adrannau Achosion Brys

Nifer yr arosiadau 12 awr yw 3,631 (3,656 yn flaenorol) a dyma amrediad uchaf y Siart SPC isod. Mae mesurau i wella perfformiad yn canolbwyntio ar ddileu oedi cyn rhyddhau (amser o'r dydd ac yn feddygol iach i'w rhyddhau). Lefel yr allgleifion sy'n effeithio'n sylweddol ar allu'r Bwrdd Iechyd i weld cleifion brys yn effeithiol.





### 3.3.3.3 Cleifion sy'n aros dros 24 Awr mewn Adrannau Achosion Brys

Mae nifer y cleifion sy'n aros mwy na 24 awr wedi gostwng o uchafbwynt ym mis Ionawr 2026 ac mae bellach yn 1,849, o fewn yr ystod o wyriad arferol drwy'r Siart SPC. Fodd bynnag, mae gwaith yn cael ei wneud gyda'r timau ar gamau gweithredu ychwanegol a fyddai'n cefnogi perfformiad gwell yn y maes hwn




**3.3.3.4 Cleifion sy'n aros dros 48 Awr mewn Adrannau Achosion Brys**




### 3.3.4 Crynodeb

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sicrhau gwell mynediad i gleifion sy'n aros, o ran cleifion allanol newydd (80% o ostyngiad yn nifer y cleifion sy'n aros) a 104 wythnos (70% o ostyngiad yn nifer y cleifion sy'n aros) am driniaeth. Fodd bynnag, nid yw cyflymder y gwelliant yn cyd-fynd ag uchelgais Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd.

Mae'r prif raglenni gwaith mewn perthynas â Gofal wedi'i Gynllunio yn parhau i sbarduno cyfleoedd i wella cynhyrchiant ac arbedion effeithlonrwydd yn y Bwrdd Iechyd, a gweithredu'r enillion cynhyrchiant hyn yw'r datrysiad parhaol i sicrhau mynediad amserol at wasanaethau i'n poblogaeth leol.

Mae'r gofod Gofal Brys a Gofal Argyfwng yn gofyn am ffocws brys a mwy o ffocws wrth archwilio datrysiadau effeithiol i sbarduno gwelliant y mae mawr ei angen.

## 3.5 Datblygu'r Sefydliad a'r Gweithlu

Mae metrigau allweddol ar gyfer Datblygu Pobl a Datblygu Sefydliadol yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Mae absenoldeb oherwydd salwch wedi gwella ar 5.7%. Mae'r maes hwn yn ffocws allweddol i wella gofal a sicrhau arbedion effeithlonrwydd
- Canran y gwariant ar asiantaethau fel cyfran o gyfanswm y bil cyflogau yw 2.3%
- Ar ôl dirywiad cyson dros y misoedd diwethaf, mae cyfraddau'r Adolygiadau Arfarnu a Datblygu Personol (PADR) wedi adfer ac yn parhau i fod yn uwch na'r marc o 80% am yr ail fis yn olynol. Mae'r perfformiad wedi aros yn uwch na'r 80% drwy gydol 2025/26, ar wahân i ostyngiad i 79.3% a adroddwyd ym mis Ionawr 2026.

## 3.6 Perfformiad Ariannol – Mis 12 (Mawrth 2026)

### 3.6.1 Diwedd blwyddyn ariannol 2025/26

Gosododd y Bwrdd Iechyd gynllun cytbwys ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, gan ail-ragweld adroddiadau ar ôl mis 9 am y sefyllfa o ddiffyg o £17.4m ar ôl rhoi mesurau rheoli ychwanegol ar waith.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno diffyg o £17.3m ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2025/26, ac mae Archwilio Cymru bellach yn archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd (mae hyn yn unol â'r rhagolwg diwygiedig a gyflwynwyd gan y Bwrdd Iechyd).

Nid yw sefyllfa alldro diffyg drafft diwedd blwyddyn 2025/26 o £17.3m yn cyflawni prif ddyletswydd y Bwrdd Iechyd, na'r cynllun a osodwyd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol i sicrhau sefyllfa ariannol gytbwys.

### 3.6.2 Blwyddyn ariannol 2026/27

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gosod cynllun diffyg o £43m ar gyfer y flwyddyn, sy'n gofyn am gyflawni £46m o arbedion. Mae'r cynllun yn cynnwys yr £82m cylchol amodol gan Lywodraeth Cymru (pe na bai hyn wedi cael ei sicrhau tan 2026/27 byddai'r diffyg wedi bod yn £125m).

Mae sefyllfa mis 1 yn cynrychioli diffyg o £5.4m (£1.8m er gwaeth i'r cynllun) yn bennaf o ganlyniad i arbedion heb gael eu cyflawni (mae'r cynllun yn mynnu bod £3.8m yn cael ei gyflawni bob mis) sydd wedi cael ei wrthbwyso'n rhannol drwy gynnal y mesurau rheoli sydd ar waith ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2025/26.

Nid yw cyflwyno cynllun diffyg yn bodloni gofynion y Ddyletswydd Ariannol Allweddol i fantoli'r gyllideb. Felly, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd lunio Cynllun Adfer Ariannol ar gyfer 2026/27 i gyflawni gwelliannau i'r alldro, a fydd yn gofyn am nodi arbedion ychwanegol i'r hyn sy'n ofynnol fel rhan o'r cynllun.

Mae'n hanfodol fod y Bwrdd Iechyd yn nodi ac yn gweithredu'r cynlluniau arbedion ar gyfer y flwyddyn ariannol. Fel arall, bydd cyflawni'r cynllun yn mynd yn fwy heriol bob mis gan fod yn rhaid gwneud iawn am ddiffyg cyflawni yn y mis blaenorol mewn misoedd diweddarach. Sicrhau'r dyraniad gwerth £82m gan Lywodraeth Cymru yn 2027/28 sydd mewn perygl os na chaiff perfformiad ei gyflawni.

## 4 ARGYMHELLION RECOMMENDATIONS

**4.1** Gofynnir i'r Pwyllgor/Cyfarfod/Grŵp:
The Committee/Meeting/Group is asked to note the content of the report.

| **ASESIAD / ASSESSMENT** | |
|---|---|
| **Cyswllt â'r Blaenoriaethau Strategol**<br>**Link to Strategic Priorities** | 4. Gwella ansawdd, canlyniadau a phrofiad<br><br>Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: |
| **Yr Egwyddorion Dylunio**<br>**Design Principles** | Tegwch a Hygyrchedd<br>Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:<br>If more than one applies, please list below: |
| **Fframwaith Risgiau Corfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd**<br>**Corporate Risks and Board Assurance Framework** | CRR 25-01 Mynediad Amserol Cleifion at Ofal Diogel ac Effeithiol<br><br>CRR 25-06 Cyflawni Gwerth a Chynaliadwyedd Ariannol<br><br>CRR 25-08 Diffyg Cydymffurfio â Gofynion Rheoleiddiol a Deddfwriaethol |

| **ASESIADAU O EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS** | | |
|---|---|---|
| **Cydraddoldeb**<br>*A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (sy'n cynnwys gofynion Safonau'r Gymraeg)*<br>**Equality**<br>*Have you undertaken an Equality Impact Assessment Screening (which includes the requirements of the Welsh Language Standards)* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | |
| **Asesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol**<br>*A ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol?*<br>**Socio-Economic Impact Assessment**<br>*Have you undertaken a Socio-Economic Impact Assessment* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | |
| **Ansawdd**<br>*A ydych chi wedi ymgymryd â phrawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd?*<br>**Quality**<br>*Have you undertaken a Quality Impact Assessment Screening?* | **Galluogwyr Ansawdd Enablers of Quality**<br>Mae pob un yn Berthnasol | **Meysydd Ansawdd Meysydd Ansawdd** Mae pob un yn Berthnasol |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: |
| | | |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant**<br>**Wellbeing of Future Generations Act – Wellbeing Goals** | Cymru Iachach | |

| | |
|---|---|
| **Effaith Amgylcheddol / Cynaliadwyedd (5Rs)** | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: |

<table>
<tr><td rowspan="2">Environmental /Sustainability Impact (5Rs)</td><td colspan="2">Na - Ddim yn berthnasol</td></tr>
<tr><td>Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny:<br>If more than one applies, please list:</td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog<br>A ydych chi wedi ystyried Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog:<br>Armed Forces Covenant Due Regard Duty<br>Have you considered the Armed Forces Covenant Due Regard Duty?</td><td>Do/Yes: ☐</td><td>Naddo/No: ☒</td></tr>
<tr><td>Canlyniad/Outcome:</td><td></td></tr>
<tr><td>Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale:</td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data<br>A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o’r Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data?<br>Data Protection Impact Assessment<br>Have you undertaken a Data Protection Impact Assessment Screening?</td><td>Do/Yes: ☐</td><td>Naddo/No: ☒</td></tr>
<tr><td>Canlyniad/Outcome:</td><td></td></tr>
<tr><td>Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale:</td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Asesiad o Effaith ar Atal Twyll<br>A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau ar atal twyll?<br>Counter Fraud Impact Assessment<br>Have you considered the counter fraud impacts</td><td>Do/Yes: ☐</td><td>Naddo/No: ☒</td></tr>
<tr><td>Canlyniad/Outcome:</td><td></td></tr>
<tr><td>Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale:</td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="2">Cyfreithiol<br>Legal</td><td colspan="2">Yes (Include further detail below)</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="2">Enw Da<br>Reputational</td><td colspan="2">Oes (Rhowch ragor o fanylion isod)</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Effaith ar Adnoddau<br>(Pobl / Ariannol)<br>Resource Impact<br>(People / Financial)</td><td colspan="2">There is no direct impact on resources as a result of the activity outlined in this report.</td></tr>
</table>

## Bwrdd Iechyd

# CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL 2025/26
# ADRODDIAD CYNNYDD CHWARTER 4

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod**<br>**Date of Meeting** | 28 Mai 2025 |
| **Statws Cyhoeddi**<br>**Publication Status** | Wedi cau / Preifat<br>Amherthnasol |
| **Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad**<br>**Report Author name and title** | Emma Lea, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cynllunio Corfforaethol (Dros Dro) - Trawsnewid a Gwella |
| **Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol**<br>**Lead Executive Team Member name and title** | Paolo Tardivel, Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio Strategol (Dros Dro) |

| | |
|---|---|
| **Pwrpas yr Adroddiad**<br>**Report Purpose** | Am sicrwydd |

**Crynodeb Gweithredol**
**Executive Summary**

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r sefyllfa ddiwedd blwyddyn yn erbyn Cynllun Cyflawni Blynyddol (ADP) y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2025/26, sy'n sail i gyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd. Mae perfformiad cyffredinol wedi bod yn gymysg, gan gyfleu'r pwysau gweithredol sylweddol a chyfyngiadau system a brofwyd drwy gydol y flwyddyn.

Gwelwyd cyflawniadau allweddol mewn meysydd galluogi, gan gynnwys llywodraethu a sicrhau ansawdd cryfach, cyflawni'r Rhaglen Gwerth a Chynaliadwyedd gan ragori ar dargedau ariannol, gwelliannau mewn arweinyddiaeth a diwylliant sefydliadol, a chwblhau ymrwymiadau ymgysylltu â dinasyddion ac ymrwymiadau o ran y Gymraeg yn llawn.

Fodd bynnag, mae'r cynnydd ar draws blaenoriaethau clinigol a gweithredol craidd wedi bod yn fwy cyfyngedig. Mae ffactorau gan gynnwys argaeledd y gweithlu, cyfyngiadau ystadau, gallu arweinyddol a dibyniaethau cenedlaethol wedi effeithio ar y ddarpariaeth. Gwelwyd rhywfaint o welliannau mewn meysydd blaenoriaeth fel Iechyd Meddwl Oedolion, CAMHS, Plastigau, Oncoleg, Merched, Plant, er bod perfformiad mewn rhai meysydd yn parhau i fod islaw nod y sefydliad a disgwyliadau Llywodraeth Cymru.

Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod yr asesiad diwedd blwyddyn yn wahanol i ragolygon Chwarter 3, gan adlewyrchu symud i sgôr "cyflawn/anghyflawn" mwy pendant. Nid yw'r

| |
|---|
| dull hwn yn cyfleu cynnydd rhannol yn llawn mewn rhaglenni cymhleth ac mae wedi llywio gwelliannau i ddyluniad ADP 2026/27, a fydd yn cyd-fynd yn well â chanlyniadau perfformiad mesuradwy.<br><br>Mae'r hyn a ddysgwyd o'r flwyddyn yn dangos bod y sefydliad wedi bod yn rhy uchelgeisiol wrth gynllunio, ac mae cynlluniau ar gyfer y dyfodol wedi'u haddasu i sicrhau cydbwysedd mwy realistig rhwng uchelgais a chyflawnadwyedd. Mae'r cynllun tair blynedd a gymeradwywyd a'r ADP ar gyfer 2026/27 yn canolbwyntio ar fodloni'r meini prawf ar gyfer isgyfeirio o'r Mesurau Arbennig fel blaenoriaeth, ynghyd â gwella perfformiad cynaliadwy.<br><br>I gloi, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd pendant, wedi cryfhau ei sylfeini, ac wedi gwella ei aeddfedrwydd wrth gynllunio. Fodd bynnag, mae heriau sylweddol yn parhau, yn enwedig mewn meysydd gwasanaeth allweddol fel Canser, Gofal Wedi'i Gynllunio, Niwroddatblygiad a Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng. Mae'r sefydliad mewn sefyllfa well i adeiladu momentwm yn 2026/27, ond bydd angen sicrhau ffocws a gwelliant parhaus.<br><br>Gofynnir i'r Bwrdd gymryd sicrwydd o'r cynnydd a wnaed, y dysgu a nodwyd, ac aliniad clir blaenoriaethau'r dyfodol i fynd i'r afael â bylchau perfformiad presennol. |

| **Ymgysylltu (mewnol/allanol) yr ymgymerwyd ag ef hyd yma (gan gynnwys derbyn/ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp)**<br>**Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)** | | |
|---|---|---|
| **Pwyllgor / Grŵp / Unigolion**<br>**Committee / Group / Individuals** | **Dyddiad**<br>**Date** | **Canlyniad, Tystiolaeth a Data**<br>**Outcome, Evidence and Data** |
| Grŵp Cynllunio Strategol a Newid Gwasanaethau | 23 Ebrill 2026 | Wedi'i gymeradwyo i'w gyflwyno i PPHP |
| Y Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau | 7 Mai 2026 | Wedi'i gymeradwyo i'w gyflwyno i'r Bwrdd |
| | | |

| **Acronymau / Rhestr Termau**<br>**Acronyms / Glossary of Terms** | |
|---|---|
| ADP | Cynllun Cyflawni Blynyddol |
| IMTP | Cynllun Tymor Canolig Integredig |
| UEC | Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng |
| | |

# Cynllun Cyflawni Blynyddol 2025/2026
# Adroddiad Cynnydd Chwarter 4

## 1. Y SEFYLLFA

1.1. Mae Cynllun Cyflawni Blynyddol 2025/26 yn nodi ymrwymiadau blynyddol y Bwrdd Iechyd i gefnogi'r Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd. Mae'r adroddiad yn darparu adolygiad Chwarter 4 yn erbyn ymrwymiadau 2025/26 y sefydliad a nodir yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig 2025-2028 ac a fanylir arnynt yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol (ADP) 2025-26.

1.2. Datblygwyd yr ADP i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â 5 amcan strategol a 35 is-amcan y sefydliad. Mae pob gweithred, menter a mesur perfformiad yn y cynllun yn cefnogi cyflawni'r blaenoriaethau hyn yn uniongyrchol, gan sicrhau bod adnoddau, ymdrechion a chanlyniadau wedi'u canolbwyntio'n strategol i gyflawni'r effaith a ddymunir.

## 2. MATERION PENODOL I'W HYSTYRIED

2.1 Mae'r adroddiad Ch4 hwn yn rhoi trosolwg cynhwysfawr a thryloyw i'r Bwrdd o berfformiad yn erbyn Cynllun Cyflawni Blynyddol 2025/26 ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r ddarpariaeth gyffredinol yn ystod 2025/26 wedi bod yn amrywiol, yn enwedig mewn perthynas ag amcanion sy'n gysylltiedig â gwasanaethau rheng flaen, gan gyfleu'r pwysau gweithredol parhaus a'r cyfyngiadau ar y system.

2.2 Mae meysydd lle mae cynnydd cryf wedi'i gyflawni sy'n bennaf yn ymwneud â galluogwyr system y sefydliad, megis cryfhau trefniadau llywodraethu a sicrhau ansawdd, cyflawni'r rhaglen Gwerth a Chynaliadwyedd gan ragori ar dargedau ariannol, gwelliannau ystyrlon mewn arweinyddiaeth a diwylliant sefydliadol, a chwblhau'r holl gyflawniadau o ran Ymgysylltu â Dinasyddion ac o ran y Gymraeg.

2.3 Fodd bynnag, mewn rhai o'n meysydd gwaith pwysicach (e.e., blaenoriaethau clinigol, cymunedol a digidol cymhleth), mae perfformiad wedi bod yn fwy cyfyngedig ac mae dibyniaethau cenedlaethol, argaeledd y gweithlu, cyfyngiadau ystadau a chapasiti arweinyddiaeth wedi effeithio ar y ddarpariaeth.

2.4 Er gwaethaf gwelliannau mesuradwy mewn rhai o'r meysydd gwasanaeth blaenoriaeth (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion, CAMHS, Plastigau, Oncoleg, Merched, Plant), nid oes digon o gynnydd wedi'i wneud ac mae disgwyliadau o ran y perfformiad a'r safonau yn dal i fod yn is na dyheadau'r sefydliad a gofynion Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn rhywbeth y mae angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael ag ef, ac mi fydd yn gwneud hynny gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru a Thîm Perfformiad a Gwella'r GIG sy'n canolbwyntio ar Ofal wedi'i Gynllunio, Canser, Diagnosteg ac UEC a byddant yn dal ati i fonitro'r ddarpariaeth a'r cynnydd drwy'r ADP ar gyfer 2023/2027.

2.5 Cyflwynodd papur Ch3 yr ADP, a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Mawrth, sefyllfa fwy positif ar gyfer Adroddiad diwedd Ch4. Canolbwyntiodd gwaith adrodd Ch3 ar yr hyder o ran cyflawni am weddill y flwyddyn, tra bod Ch4 yn cyfleu'r cyflawniadau diwedd blwyddyn a gadarnhawyd ac yn mabwysiadu sgôr 'cyflawn' neu 'anghyflawn' mwy deuaidd. Nid yw mabwysiadu dull deuaidd ac edrych ar nifer y targedau cyflawni a gwblhawyd yn unig yn dangos y darlun cyfan. Mae rhai meysydd o'r cynllun yn sgorio'n wael ar y sail honno ond maent wedi gwneud cynnydd sylweddol (e.e. arosiadau 104 wythnos Gofal Wedi'i Gynllunio), ac mae meysydd eraill o'r cynllun lle cyflawnwyd yr holl gyflawniadau ond nid yw'r gwasanaeth yn y sefyllfa lle dymunai'r sefydliad iddi fod (e.e., y Gwasanaeth Niwroddatblygiad). Mae'r ADP ar gyfer 2026/27 wedi'i gynllunio i atal y broblem rhag codi dro ar ôl tro drwy alinio'r disgwyliadau perfformiad a'r llwybrau yn uniongyrchol â'r targedau cyflawni.

2.6 Fel rhan o'r dull cynllunio, gan ddysgu o'r cylch cynllunio ac adrodd diwethaf ac ystyried ei aeddfedrwydd cynyddol o ran cynllunio, efallai bod y Bwrdd Iechyd wedi bod yn rhy uchelgeisiol wrth geisio datblygu cynifer o raglenni gwaith pwysig ar yr un pryd. Mae'r Cynllun Tair Blynedd a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth (a'r ADP ar gyfer 2026/27) yn rhoi mwy o bwyslais ar ddisgwyliadau cyflawni realistig, gan gydbwyso uchelgais â disgwyliadau perfformiad cenedlaethol, gan ailffocysu i gyflawni'r meini prawf isgyfeirio ar gyfer y Mesurau Arbennig yn gyntaf, ac yna ymestyn perfformiad y tu hwnt i hynny lle bo modd. Mae hynny'n arwain at gynllun mwy mesuredig a realistig, sydd â gwell cydbwysedd rhwng heriau a chyflawnadwyedd.

2.7 Gyda'i gilydd, mae'r sefyllfa ddiwedd y flwyddyn yn dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi parhau i wneud cynnydd, wedi dysgu o heriau, wedi cryfhau ei alluoedd craidd a'i drefniadau llywodraethu, ac mewn sefyllfa dda i adeiladu momentwm yn 2026/27, ond yn cydnabod yn yr un modd fod gwaith sylweddol i'w wneud o hyd i gyflawni gwelliannau cynaliadwy a nodedig i'r boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu, yn enwedig mewn gwasanaethau megis Canser, Niwroddatblygiad, Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, Gofal Wedi'i Gynllunio, Diagnosteg ac ati.

2.8 Cyfeiriadedd i'r adran isod: Isod, gweler crynodeb o'r sefyllfa ddiwedd y flwyddyn yn ôl Amcan Strategol a Maes Blaenoriaeth a nodir yn fanylach yn Ch4 yr Adroddiad Cynnydd ar gyfer dogfennau ategol. Mae pob adran yn darparu'r wybodaeth ganlynol:

- Mae'r blwch ar y chwith yn cynnwys teitl y flaenoriaeth, crynodeb o ffocws y flaenoriaeth a faint o dargedau cyflawni a gwblhawyd o fewn y flaenoriaeth honno yn erbyn cyfanswm y targedau cyflawni.

- Mae'r blwch ar y dde yn dechrau gyda throsolwg o'r hyn a gyflawnwyd eleni a'i effaith ac yna'r hyn sydd ar ôl i'w wneud (os nad yw'r holl dargedau cyflawni wedi'u cwblhau). Mae'r cysylltiad rhwng y targedau cyflawni hynny ac ADP 2026/27 wedi'i nodi ar ddiwedd pob adran.

| Amcan Strategol - Maes Blaenoriaeth | Crynodeb Diwedd y Flwyddyn |
|---|---|
| **Amcan 1: Datblygu Sefydliad Effeithiol** | |
| **Systemau Llywodraethu Effeithiol (1A)**<br><br>Ffocws yr amcan hwn yw gwella effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, rheoli risg ac atebolrwydd sefydliadol er mwyn galluogi gwneud penderfyniadau cyson sy'n seiliedig ar ansawdd.<br><br>9/9 targed wedi'i gyflawni. | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Mae cynnydd wedi'i wneud o ran cryfhau prosesau i baratoi ar gyfer ymholiadau cenedlaethol ac ymateb iddynt, gan gynnwys sefydlu'r Grŵp Llywio Darganfod a Dysgu, a chychwyn adolygiad o sicrwydd trefniadau rheoleiddio a llywodraethu. Mae cyflawniadau o ran Iechyd a Diogelwch wedi datblygu trwy'r Cynllun Tair Blynedd sy'n cyd-fynd â HSG65. Mae trefniadau ar waith i archwilio caffael system rheoli cydymffurfiaeth i fodloni nifer o ofynion megis cydymffurfiaeth ddeddfwriaethol a rheoleiddiol, archwilio, rheoli risgiau a pholisi. Gyda'i gilydd, mae hyn wedi gwella sicrwydd rheoleiddiol, parodrwydd sefydliadol, gwelededd o ran cydymffurfiaeth, cryfhau trefniadau llywodraethu, a chynyddu hyder rhanddeiliaid. Mae cynnydd wedi'i gyfleu yn yr Asesiad Strwythuredig a adroddwyd i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2026.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae angen mwy o waith i ymgorffori gwelliannau a'u cynnal; fodd bynnag, mae hyder cryf o ran cyflawni ar gyfer 2026/27, gyda fframweithiau a phrosesau allweddol bellach ar waith. Mae blaenoriaethau ar gyfer 2026/27 yn cynnwys cwblhau'r adolygiad sicrwydd rheoleiddiol, gweithredu system rheoli cydymffurfiaeth i gasglu, lledaenu a rheoli deddfwriaeth newydd, cau camau Iechyd a Diogelwch sydd heb eu cymryd, a gwreiddio trefniadau monitro a goruchwylio deddfwriaethol yn llawn. Mae'r camau gweithredu hyn wedi'u cynnwys yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2026/27 (Adran 4H – Ansawdd). Mae hyder yn parhau i fod yn uchel, yn amodol ar y gallu i barhau i gyflawni yn erbyn yr amserlenni y cytunwyd arnynt. |
| **Sylfeini'r Dyfodol (1B)**<br><br>Ffocws yr amcan hwn yw symud y model gweithredu newydd yn bendant o'r cam dylunio i'r cam cyflwyno, gan sicrhau cymeradwyaeth ffurfiol a dechrau ei weithredu.<br><br>0 / 3 targed wedi'i gyflawni. | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, datblygodd y Bwrdd Iechyd y rhaglen *Sylfeini'r Dyfodol* drwy gwblhau'r cam darganfod a chyflawni'r rhan fwyaf o'r gwaith dylunio ar draws y pum ffrwd waith gydgysylltiedig sef Strategaeth, Diwylliant, Pobl, Prosesau a Strwythurau, gan gynnwys mireinio strwythurau, cylchoedd gwaith ac organogramau arfaethedig wedi'u llywio gan adborth cyn-ymgynghori helaeth, diweddaru tystiolaeth llywodraethu i'w hystyried gan y pwyllgor a'r Bwrdd, ail-ddilyniannu cynhyrchion dibynnol fel Teuluoedd Swyddi a'r Cyfeiriadur Swyddogaethau, cynnal ymgysylltiad staff didwyll, a hybu cynlluniau gweithredu lle nad yw'n ddibynnol ar gymeradwyaeth strwythurol. Mae'r gwaith hwn wedi cael effaith alluogol gref drwy gryfhau parodrwydd sefydliadol, cyfleu bwriadau strategol hirdymor, gwella aeddfedrwydd cynlluniau drwy brosesau IMTP ac ADP cryfach, gwella ymgysylltiad arweinyddiaeth, datblygu diwylliant a gwerthoedd, a darparu sicrwydd cynnar ac effaith gwasanaeth drwy Gam 1 y CSP, gyda gweithrediad Cam 2 ar y gweill; er bod yr effeithiau'n ansoddol ar hyn o bryd, mae'r cyfeiriad |

| | |
|---|---|
| | cyffredinol wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd ac mae'n darparu sylfaen gadarn ar gyfer gwaith trawsnewid.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys sicrhau cymeradwyaeth Weithredol ar gyfer yr amserlen ddiwygiedig, cychwyn ymgynghoriad ffurfiol ar strwythurau a'i chwblhau, sicrhau cymeradwyaeth i symud ymlaen i'r cyfnod cyflawni, gweithredu a mewnosod y model gweithredu newydd a'r newidiadau strwythurol, cwblhau pobl ddibynnol a chynhyrchion dylunio sefydliadol, a sefydlu trefniadau gwireddu buddion i olrhain ac adrodd ar ganlyniadau meintiol ar lefel y boblogaeth wrth i'r gweithrediad fynd rhagddo. Mae targedau cyflawni heb eu cwblhau wedi'u cynnwys yn yr adran isod yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2026/27: 4A – Sylfeini'r Dyfodol. |
| **Cydymffurfio â Deddfwriaeth (1C)**<br>Ffocws yr amcan hwn yw cryfhau parodrwydd sefydliadol drwy wella llywodraethu, cydymffurfiaeth a goruchwyliaeth ar draws gofynion statudol, diogelwch a rheoleiddiol allweddol drwy systemau a phrosesau cadarn, cyson a chynaliadwy.<br><br>3 / 8 targed wedi'i gyflawni. | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Gweithio i gryfhau prosesau paratoi ar gyfer ymholiadau cenedlaethol ac ymateb iddynt, sefydlu Grŵp Darganfod a Dysgu gyda chylch gorchwyl a phrosesau cyfeirio cymeradwy, cychwyn adolygiad o drefniadau sicrwydd rheoleiddiol a llywodraethu, hyrwyddo cyflawniadau Iechyd a Diogelwch drwy'r Cynllun Tair Blynedd sy'n cyd-fynd â HSG65, datblygu opsiynau ar gyfer system olrhain camau archwilio ledled y Bwrdd Iechyd, ac ailsefydlu trefniadau i gasglu a lledaenu deddfwriaeth newydd, gan archwilio opsiynau ar gyfer system rheoli cydymffurfiaeth sy'n cydymffurfio ac sy'n cynnig gwerth am arian. Mae'r gwaith hwn wedi gwella sicrwydd rheoleiddiol, parodrwydd sefydliadol a gwelededd cydymffurfiaeth. Mae wedi gwella'r gallu i ddysgu o ymholiadau cenedlaethol, wedi cryfhau trefniadau llywodraethu ac Iechyd a Diogelwch, ac wedi cynyddu hyder rhanddeiliaid a'r cyhoedd, gan gefnogi amgylcheddau mwy diogel i gleifion, ymwelwyr a staff a galluogi gwasanaethau i wella iechyd a lles ledled Gogledd Cymru. Mae cynnydd a ffocws wedi'u cyfleu yn yr Asesiad Strwythuredig a dderbyniwyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2026.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys cwblhau'r adolygiad sicrwydd rheoleiddiol a'i wreiddio, bwrw ymlaen â chaffael system rheoli cydymffurfiaeth briodol a'i gweithredu (gyda threfniadau dros dro ar waith yn ôl yr angen), cwblhau camau gweithredu Iechyd a Diogelwch sy'n weddill a gariwyd i mewn i Ch1, cwblhau prosesau monitro deddfwriaethol a'u gweithredu, a dal ati i gryfhau goruchwyliaeth archwilio, risg a chydymffurfiaeth i sicrhau cydymffurfiaeth a sicrwydd deddfwriaethol cynaliadwy. Mae targedau cyflawni heb eu cwblhau wedi'u cofnodi o fewn Cynllun 2026/27 yn: Gellir canfod y targedau cyflawni heb eu cwblhau yn adran ganlynol Cynllun Cyflawni Blynyddol 2026/27: 4H - Ansawdd |
| **System Rheoli Ansawdd (1D)**<br>Ffocws yr amcan hwn yw safoni a gwreiddio System Rheoli Ansawdd ar draws y Bwrdd Iechyd, gan gryfhau llywodraethu, dealltwriaeth o'r gweithlu a sicrwydd trwy integreiddio System Rheoli | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, aeth y Bwrdd Iechyd ati i weithredu'r System Rheoli Ansawdd (QMS) drwy sefydlu dulliau safonol ar gyfer asesu aeddfedrwydd QMS, datblygu fframweithiau llywodraethu, alinio cynllunio symud a gweithredu ar draws y sefydliad, ymgorffori QMS o fewn Cynllunio Gwasanaethau Clinigol a Gwasanaethau sy'n Wynebu Heriau, a chychwyn safleoedd mabwysiadu cynnar i gefnogi dysgu a chasglu data, gyda |

| | |
|---|---|
| Ansawdd yn rhan o gynlluniau gwasanaethau, goruchwyliaeth perfformiad a gwella ansawdd.<br><br>4 / 5 targed wedi'i gyflawni. | threfniadau llywodraethu wedi'u halinio â'r rhaglen *Sylfeini'r Dyfodol* a throsglwyddo gweithgaredd QMS i fusnes fel arfer o fewn y Gyfarwyddiaeth Ansawdd. Mae'r gwaith hwn wedi cryfhau dealltwriaeth sefydliadol o reoli ansawdd, gwella cysondeb a safoni prosesau gofal, gwella llywodraethu a sicrwydd ar lefel y Bwrdd yn unol â Dyletswydd Ansawdd (Cymru), cefnogi rheoli risg rhagweithiol a pharodrwydd rheoleiddio, gwella ymgysylltu â staff a diwylliant o amgylch gwella ansawdd, ac mae'n gosod y sylfeini ar gyfer gwella'r defnydd o ddata i gefnogi gofal mwy diogel, dibynadwy ac effeithlon i boblogaeth Gogledd Cymru.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys rheoli dibyniaethau a risgiau sy'n deillio o ailstrwythuro'r sefydliad, ehangu'r broses o gyflwyno'r QMS y tu hwnt i fabwysiadwyr cynnar wrth i gapasiti'r gwasanaeth ganiatáu, cwblhau'r gweithrediad a'r integreiddio sefydliadol, sicrhau adnoddau cynaliadwy drwy'r prosesau cymeradwyo priodol, a gwerthuso a gwreiddio'r QMS ymhellach i gyflawni manteision ansawdd, diogelwch, rheoleiddio ac effeithlonrwydd mesuradwy ar raddfa fawr. Gellir canfod y targedau cyflawni heb eu cwblhau yn adran ganlynol Cynllun Cyflawni Blynyddol 2026/27: 3C - Gwasanaethau Eiddil |
| **Amcan 2: Datblygu Strategaeth a Newid Hirhoedlog** | |
| **Strategaeth a Chynllun Gwasanaethau Clinigol y Bwrdd Iechyd (2A)**<br>Ffocws yr amcan hwn yw datblygu Strategaeth a Chynllun Gwasanaethau Clinigol clir, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar gyfer y Bwrdd Iechyd gyda phartneriaid, gan flaenoriaethu gwasanaethau sy'n wynebu heriau a gosod cyfeiriad hirdymor cryf a gefnogir gan sylfeini ansawdd, digidol a data.<br><br>4 / 6 targed wedi'i gyflawni. | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, aeth y Bwrdd Iechyd ati i gyflawni is-amcan datblygu'r strategaeth drwy gwblhau pedwar allan o chwe tharged cyflawni, gan gynnwys cyd-greu a chymeradwyaeth y Bwrdd o bedwar Datganiad Bwriad Strategol gyda phartneriaid, datblygu drafft y Weledigaeth Strategol ar gyfer Iechyd a Lles yng Ngogledd Cymru, a gweithredu cynlluniau cyflawni strategol allweddol fel y Cynllun Gwasanaethau Clinigol ochr yn ochr â gwaith cynnar ar strategaethau ategol gan gynnwys yn y meysydd digidol ac ystadau. Arafwyd cynnydd yn ystod y cyfnod Diagnosis gan gyfyngiadau capasiti, a chafodd adolygiad ffurfiol o amcanion Lles ei drefnu ar gyfer cyfnod diweddarach. Mae'r gwaith hwn wedi sefydlu cyfeiriad strategol hirdymor clir ar gyfer gwella iechyd a lles, wedi cryfhau'r aliniad â blaenoriaethau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP), disgwyliadau Llywodraeth Cymru a gofynion y Mesurau Arbennig, gwella dealltwriaeth a rennir ar draws partneriaid clinigol, gweithredol a system, ac wedi gosod sylfeini ansoddol ar gyfer gwelliant ar lefel y boblogaeth yn y dyfodol trwy flaenoriaethau cliriach, ffocws cryfach ar atal a ffocws ar y gymuned, a pharodrwydd i ailgynllunio llwybrau, er nad oes disgwyl canlyniadau poblogaeth mesuradwy eto ar hyn o bryd.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys cwblhau'r cyfnod Diagnosis, bwrw ymlaen â'r cyfnod Darganfod gan gynnwys adolygiad ffurfiol a diwygio amcanion Lles, adolygu amserlenni cyffredinol y rhaglen yn dilyn cyhoeddi Cynllun Tymor Canolig Integredig 2026–29, a symud ymlaen â chyflawni a gweithredu strategaeth fanwl i drosi'r cyfeiriad strategol sefydledig yn welliannau mesuradwy o ran mynediad, canlyniadau a thegwch i boblogaeth Gogledd Cymru. Gellir canfod y targedau cyflawni heb eu |

| | |
|---|---|
| | cwblhau yn Adran ganlynol Cynllun Cyflawni Blynyddol 2026/27: 4B – Strategaeth a Chynllunio |
| **Cynllunio a Chomisiynu (2B)**<br><br>Ffocws yr amcan hwn yw cryfhau cynllunio a chomisiynu drwy wella gallu, cysondeb ac aeddfedrwydd sefydliadol, gan sicrhau bod penderfyniadau wedi'u hategu gan brosesau cadarn, asesiadau capasiti dibynadwy a threfniadau comisiynu cynaliadwy.<br><br>5 / 6 targed wedi'i gyflawni. | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, gwnaeth y Bwrdd Iechyd gynnydd sylweddol o ran cryfhau cynllunio a chomisiynu drwy wella gallu cynllunio sefydliadol yn unol â'r Adolygiad Annibynnol o Gynllunio, datblygu cymwyseddau cynllunio craidd, sicrhau cymeradwyaeth y Bwrdd o'r Fframwaith Cynllunio Integredig (IPF) a'i ymgorffori yn y cylch cynllunio presennol, cwblhau hunanasesiad Matrics Aeddfedrwydd Cynllunio Cenedlaethol gyda chamau gweithredu canlyniadol wedi'u hintegreiddio i gynlluniau ymlaen llaw, a datblygu ffrydiau gwaith comisiynu allweddol gan gynnwys gostyngiadau mewn arosiadau hir ym maes gofal wedi'i gynllunio, adolygiadau mewnol o fewnoli ac allanoli, a chydweithio i adolygu contractau'r Trydydd Sector, ochr yn ochr â goruchwyliaeth weithredol gryfach drwy drosglwyddo arweinyddiaeth gomisiynu i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid. Mae'r gwaith hwn wedi cael effaith bositif drwy ymgorffori diwylliant cynllunio cryfach ar draws y sefydliad, gwella cysondeb, strwythur a chydweithio mewn cynllunio lefel gwasanaeth a chynllunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP), cynyddu ymgysylltiad a pherchnogaeth a rennir ymhlith timau clinigol a gweithredu, a dechrau dylanwadu ar sut mae gwasanaethau'n blaenoriaethu ac yn cydweithio i ddylunio gwasanaethau mwy effeithiol a chynaliadwy ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys datblygu a gwreiddio capasiti a chymwyseddau cynllunio ymhellach drwy'r rhaglen Sylfeini'r Dyfodol, parhau i aeddfedu defnydd yr IPF a chamau gweithredu aeddfedrwydd cynllunio, cwblhau a gweithredu'r Fframwaith Comisiynu a Sicrwydd, bwrw ymlaen â diwygiadau comisiynu mewnoli/allanoli a'r Trydydd Sector, a sicrhau bod cynllunio a chomisiynu wedi'u halinio'n llawn â modelau a gofynion gweithredu'r dyfodol. Gellir canfod targedau cyflawni heb eu cwblhau yn adrannau canlynol Cynllun Cyflawni Blynyddol 2026/27: 4B – Strategaeth a Chynllunio, 4K – Cyllid a Chomisiynu |
| **Ystadau a Chyfleusterau (2C)**<br><br>Ffocws yr amcan hwn yw gwella ansawdd, gwydnwch a chynaliadwyedd amgylcheddau, ystadau a chyfleusterau'r Bwrdd Iechyd trwy flaenoriaethu buddsoddiad cyfalaf, cynllunio ystadau'n effeithiol a chryfhau dulliau gweithio mewn partneriaeth.<br><br>10 / 12 targed wedi'i gyflawni. | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ddatblygu is-amcan *Gwella'r Amgylchedd, yr Ystâd a'r Cyfleusterau* drwy hyrwyddo ystod eang o flaenoriaethau cyfalaf, ystadau a chynaliadwyedd, gan gynnwys cymeradwyo a datblygu achos busnes rhaglen Ysgol Feddygol Gogledd Cymru ymhellach, parhau i gyflawni cynlluniau cyfalaf mawr (megis y Ganolfan Orthopedig yn Llandudno, ailddatblygu Ysbyty Brenhinol Alexandra, uwchraddio seilwaith trydanol yng Nglan Clwyd, datgarboneiddio a gwaith gwrth-glymu), adolygu trefniadau blaenoriaethu cyfalaf wedi'i alinio â phroses Cymru Gyfan, cychwyn blaenoriaethu cyfalaf yn y dyfodol ar gyfer 2025/26, datblygu cynlluniau parhad busnes, archwilio cyfleoedd rhesymoli ystadau, integreiddio ynni adnewyddadwy i ddatblygiadau cyfalaf, cryfhau partneriaethau allanol strategol, a gwaith parhaus ar asesiad risg newid hinsawdd ac adolygiadau sy'n gysylltiedig â chyfleusterau o fewn trefniadau llywodraethu diwygiedig. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at gynnydd amlwg ar draws rhaglenni cyfalaf allweddol, gan gryfhau prosesau llywodraethu a goruchwyliaeth trwy |

| | |
|---|---|
| | drefniadau craffu gwell, mwy o barodrwydd ar gyfer trawsnewid gwasanaethau yn y dyfodol, manteision cynnar mewn cynaliadwyedd a lleihau carbon, parhad busnes gwell, a chreu seilwaith galluogi i gefnogi amgylcheddau gofal iechyd diogel, gwydn a modern ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru, gan gydnabod bod newidiadau sefydliadol a llywodraethu wedi effeithio ar y ddarpariaeth.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys parhau i gyflawni cynlluniau cyfalaf aml-flwyddyn a heriol, symud ymlaen â rhesymoli ystadau wrth i strategaethau clinigol a deallusrwydd defnydd aeddfedu, cwblhau'r asesiad risg newid hinsawdd, hybu mentrau ynni adnewyddadwy, cwblhau adolygiadau cyfleusterau, mynd i'r afael â risgiau penodol i brosiectau sydd heb eu datrys, a sicrhau parhad gweithredu a gwireddu buddion o fewn model llywodraethu a gweithredu diwygiedig y Bwrdd Iechyd. Gellir canfod y targedau cyflawni heb eu cwblhau yn Adran ganlynol Cynllun Cyflawni Blynyddol 2026/27: 4I - Yr Amgylchedd ac Ystadau. |
| **Digidol a Data (2D)**<br><br>Ffocws yr amcan hwn yw gwella gallu data a thechnoleg digidol drwy sicrhau buddsoddiad, darparu systemau craidd, cryfhau cydnerthedd a sgiliau seiber, a galluogi trawsnewid gwasanaeth mwy diogel ac effeithlon.<br><br>6 / 14 targed wedi'i gyflawni. | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd gyflawni is-amcan *Gwella Dulliau Digidol, Data a Thechnoleg* drwy weithredu sawl rhaglen ddigidol fawr, yn fwyaf nodedig cyflwyno EHR ar gyfer gwasanaethau Mamolaeth (BadgerNet) ar draws pob lleoliad mamolaeth, defnyddio Presgripsiynu a Gweinyddu Meddyginiaethau yn Electronig (ePMA) yn llawn ar draws pob ward cleifion mewnol, cwblhau a mewnosod y Map Ffordd Digidol o fewn cynllunio strategol, blaenoriaethu portffolio digidol cryfach a llywodraethu buddion, moderneiddio'r ystâd ddigidol yn barhaus, a sicrhau cynnydd o fewn rhaglen y System Rheoli Gwybodaeth Labordy (LIMS) gan gynnwys defnyddio Patholeg Celloedd. Mae'r gwaith hwn wedi darparu manteision galluogi clir, gan gynnwys gwelliannau sylweddol mewn diogelwch meddyginiaethau, effeithlonrwydd llif gwaith clinigol, ansawdd data, gwydnwch systemau a sicrwydd rheoleiddiol, llai o ddibyniaeth ar brosesau papur, a gwell parodrwydd sefydliadol ar gyfer gofal integredig, digidol, gyda manteision cynnar o ran diogelwch ac effeithlonrwydd cleifion yn amlwg a manteision pellach i'w gwireddu wrth i raglenni aeddfedu.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys bwrw ymlaen â'r EHR Iechyd Meddwl yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, parhau ag adferiad cenedlaethol a lleol o Raglen Trawsnewid EHR a ffrydiau gwaith LIMS, cwblhau rhaglenni sydd wedi'u gohirio fel Cam 5 WPAS a'r Marwdy, ailgychwyn mentrau sydd wedi'u gohirio gan gynnwys y Rheolwr Therapïau a'r Academi Ddigidol pan fydd capasiti'n caniatáu, a chryfhau gwireddu buddion ffurfiol i ddangos gwelliannau mesuradwy i gleifion a gwasanaethau ledled Gogledd Cymru. Gellir canfod y targedau cyflawni heb eu cwblhau yn Adran ganlynol y Cynllun Cyflawni Blynyddol 2026/27: 4D – Digidol, Data a Deallusrwydd |
| **Gwerth a Chynaliadwyedd (2E)**<br><br>Ffocws yr amcan hwn yw gwella gwerth a chynaliadwyedd hirdymor | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd raglen Gwerth a Chynaliadwyedd wedi'i hadnewyddu ar draws chwe ffrwd waith gydberthynol, gan gynnwys rheoli meddyginiaethau, gofal iechyd parhaus, y gweithlu, |

| | |
|---|---|
| drwy leihau amrywiad diangen, ymgorffori egwyddorion gwerth ar draws y sefydliad, a meithrin gallu ar gyfer gwelliant clinigol, gweithlu ac ariannol cynaliadwy.<br><br>4 / 4 targed wedi'i gyflawni. | cyflogau a chaffael nad ydynt yn seiliedig ar werth, amrywiad clinigol ac ad-drefnu gwasanaethau, a gofal iechyd seiliedig ar werth, gyda ffocws sylfaenol ar leihau gwastraff, niwed ac amrywiadau diangen wrth ymgorffori gwelliant dan arweiniad gwerth o fewn fframweithiau sefydliadol. Mae'r gwaith hwn wedi cael effaith sylweddol, gyda rhagolygon ym Mis 11 y bydd y rhaglen yn cyflawni arbedion o £54.9m yn erbyn targed o £40m, gan gefnogi cyflawniad dyletswydd ariannol y Bwrdd Iechyd i wneud elw, gan gyfrannu'n bositif at yr amodau ar gyfer rhyddhau £42m o Gyllid Perfformiad a Thrawsnewid yn gylchol, a diogelu gwasanaethau rheng flaen trwy wella cynaliadwyedd ariannol hirdymor; ochr yn ochr â hyn, mae prosiectau clinigol a ariennir gan werth wedi dangos manteision ansoddol clir, gan gynnwys osgoi derbyniadau, llai o gymhlethdodau, profiadau a chanlyniadau gwell i gleifion, a gwelliannau mesuradwy fel llai o ddyddiau gwely, cyfraddau aildderbyn a marwolaethau is, a sgoriau swyddogaethol a lles gwell.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys cynnal cyflawniad arbedion rheolaidd, prif ffrydio gwelliant dan arweiniad gwerth ymhellach ar draws yr holl wasanaethau, cryfhau'r broses gyson o gasglu ac adrodd ar fuddion ansoddol a chanlyniadau yn unol ag argymhellion archwilio mewnol, ac ymgorffori egwyddorion gofal iechyd yn seiliedig ar werth yn fwy llawn o fewn cynllunio, comisiynu ac ailgynllunio gwasanaethau i sicrhau cynaliadwyedd ariannol a chlinigol parhaus i boblogaeth Gogledd Cymru. |
| **Cynllunio'r Gweithlu (2F)**<br><br>Ffocws yr amcan hwn yw cryfhau cynllunio a datblygu'r gweithlu drwy ymgorffori fframweithiau, meithrin gallu, gwella llywodraethu, lleihau costau a risgiau, a galluogi darpariaeth gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd uchel.<br><br>3 / 10 targed wedi'i gyflawni. | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, gwnaeth y Bwrdd Iechyd gynnydd cyson wrth gyflawni'r is-amcan *Gwella Dulliau Cynllunio a Datblygu'r Gweithlu* drwy sefydlu sylfeini cadarn, gan gynnwys cadarnhau Fframwaith Cynllunio Gweithlu Strategol cychwynnol a'i gyflwyno, datblygu offer a thempledi cynllunio wedi'u halinio, defnyddio dangosfyrddau deallusrwydd gweithlu digidol, darparu hyfforddiant ac ymgysylltu helaeth ar draws gwasanaethau blaenoriaeth, a chryfhau aliniad â chynllunio corfforaethol drwy'r broses IMTP. Mae'r gwaith hwn wedi gwella gallu aeddfedrwydd sefydliadol wrth gynllunio'r gweithlu, cynyddu dealltwriaeth o newidiadau yn y boblogaeth a'r farchnad lafur sy'n seiliedig ar ddata, cryfhau gweithio trawsadrannol, codi ymwybyddiaeth o drawsnewid y gweithlu, a dechrau galluogi cynllunio gwasanaethau, mynediad a chynaliadwyedd gwell, gan gefnogi'r nod hirdymor o weithlu gwydn, medrus a hyblyg ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru, er y bydd buddion llawn ar lefel cleifion yn dod i'r amlwg wrth i'r gweithrediad aeddfedu.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys cwblhau cymdeithasoli a gwreiddio'r Fframwaith Cynllunio Gweithlu, symleiddio ac integreiddio offer a dangosfyrddau ymhellach, ehangu dadansoddiad comisiynu gweithlu ac addysg, parhau ag ymgysylltu wedi'i dargedu â gwasanaethau, a throsi cynlluniau gwell yn ostyngiadau cynaliadwy yn y defnydd o asiantaethau, cynlluniau swyddi gwell yn ganlyniadau gwell o ran absenoldebau salwch, a sicrhau gwelliannau mewn mynediad cleifion a |

| | |
|---|---|
| | darpariaeth gofal. Gellir canfod y targedau cyflawni heb eu cwblhau yn Adran ganlynol Cynllun Cyflawni Blynyddol 2026/27: 4J - Y Gweithlu |
| **Amcan 3: Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu Tosturiol** | |
| **Datblygu Diwylliant (3A)**<br><br>Ffocws yr amcan hwn yw ymgorffori diwylliant tosturiol, sy'n cael ei arwain gan werthoedd, drwy gryfhau arweinyddiaeth, ymgysylltiad staff, llywodraethu a dysgu sefydliadol, gan alluogi atebolrwydd, ymreolaeth a gwelliant ansawdd parhaus mewn ffordd gynaliadwy.<br><br>6 / 7 targed wedi'i gyflawni. | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ddatblygu is-amcan *Datblygiad Diwylliannol* drwy ymgorffori'r Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau ar draws gweithgarwch sefydliadol, cwblhau'r cynllun cymdeithasoli ac ymgorffori i raddau helaeth, cyflawni Rhaglen Diwylliant ac Arweinyddiaeth Cronfa'r Brenin gydag AGIC a'r Athro Michael West, ehangu'r rhaglen Arweinwyr Newid Diwylliant (CCL) i 163 o staff ar draws dwy garfan, lansio offer a hyfforddiant cefnogol newydd (gan gynnwys yr Asesiad Iechyd Diwylliant a'r Sgil-effeithiau), cryfhau ymgysylltiad arweinyddiaeth ar draws grwpiau proffesiynol, a datblygu Cynllun Gwella Tair Blynedd diweddaredig ar gyfer Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltiad. Mae'r gwaith hwn wedi cael effaith bositif a gweladwy drwy wella ymgysylltiad, ysbryd, lles a chydweithio staff; cryfhau ymddygiadau tosturiol a pharchus; cynyddu gwelededd arweinyddiaeth a diogelwch seicolegol; gwella gwaith tîm a gweithio rhyngbroffesiynol; a chefnogi profiadau gofal mwy cyson, sy'n canolbwyntio ar y claf, gydag adborth ansoddol cryf gan staff yn dangos diwylliant gwaith mwy positif, cefnogol ac effeithiol sy'n sail i ofal mwy diogel ac o ansawdd uwch i boblogaeth Gogledd Cymru.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys cwblhau cyflwyno Carfan 3 y Rhaglen CCL, cwblhau Asesiad Iechyd Diwylliant a'i weithredu a mapio diwylliant (*heat-mapping*) i dargedu meysydd blaenoriaeth, ymgorffori'r Cynllun Gwella Tair Blynedd diwygiedig trwy arweinyddiaeth Weithredol, parhau i integreiddio'r Fframwaith ar draws pob proffesiwn a gwasanaeth, a chryfhau llywodraethu, dolenni adborth a gwerthuso buddion i ddangos effaith barhaus ar brofiad staff, ansawdd, diogelwch a chanlyniadau cleifion. Gellir canfod y targedau cyflawni heb eu cwblhau yn Adran ganlynol Cynllun Cyflawni Blynyddol 2026/27: 4A – Sylfeini'r Dyfodol |
| **Datblygu Arweinyddiaeth (3B)**<br><br>Ffocws yr amcan hwn yw datblygu gallu arweinyddiaeth gynhwysol a thosturiol ar bob lefel trwy gryfhau sgiliau, hyder a chefnogaeth trwy raglenni, hyfforddi, gwerthuso a gwella dan arweiniad tystiolaeth ar draws y sefydliad.<br><br>7 / 7 targed wedi'i gyflawni. | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd symud ymlaen â'r is-amcan *Datblygu Arweinyddiaeth* drwy ddatblygu a Fframwaith Datblygu Arweinyddiaeth Integredig a'i wreiddio ymhellach, adolygu rhaglenni arweinyddiaeth presennol a'u gwerthuso, a chyflwyno datblygiadau o ran arweinyddiaeth ar raddfa fawr ar draws ystod eang o grwpiau staff, gan sicrhau cyfranogiad, boddhad cryf a sefydlu datblygiad arweinyddiaeth fel busnes fel arfer a gefnogir gan raglenni, gweithdai a fforymau cynaliadwy. Mae'r gwaith hwn wedi cryfhau gallu a hyder arweinyddiaeth, gwella cysondeb o ran rheoli pobl ac ymddygiadau arweinyddiaeth tosturiol, gwella cefnogaeth i lesiant staff, ac atgyfnerthu gwydnwch sefydliadol, gan ddarparu galluogwyr allweddol ar gyfer profiad staff gwell a gwelliannau tymor hwy o ran diogelwch cleifion, ansawdd gofal a chynaliadwyedd gwasanaeth ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru, er nad yw canlyniadau lefel poblogaeth yn fesuradwy'n uniongyrchol eto.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?** |

| | |
|---|---|
| | Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys cynnal rhaglen beilot a gwerthuso'r Rhaglen Trochi Arweinyddiaeth Glinigol lefel ganol, cwblhau alinio'r Fframwaith Datblygu Arweinyddiaeth Integredig â Fframwaith Cymhwysedd Rheoli Craidd AGIC ar ôl ei lansio, a pharhau i aeddfedu a gwerthuso datblygiad arweinyddiaeth i ddangos effaith barhaus ar berfformiad sefydliadol a chanlyniadau cleifion. |
| **Ymgysylltu â Dinasyddion (3C)**<br><br>Mae'r amcanion hyn yn canolbwyntio ar ymgorffori ymgysylltiad cyson â dinasyddion sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ehangu cyrhaeddiad a phartneriaethau, a sicrhau bod lleisiau cymunedol yn dylanwadu ar wneud penderfyniadau, cynllunio a gwella gwasanaethau ledled Gogledd Cymru.<br><br>9 / 9 targed wedi'i gyflawni. | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ddatblygu is-amcan *Ymgysylltu â Dinasyddion a Gweithio mewn Partneriaeth* drwy ehangu a chryfhau gweithgaredd ymgysylltu ledled Gogledd Cymru, gan gynnwys ymgyrchoedd ymgysylltu digidol wedi'u targedu, rhaglenni gwrando gwell mewn lleoliadau penodol a rhaglenni gwrando ar bobl mewn ardaloedd gwledig, gweithio mewn partneriaeth well gydag awdurdodau lleol a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, cyflwyno cynlluniau peilot cymorthfeydd cynghorwyr, datblygu gwaith Llais Ieuenctid, datblygu egwyddorion Sefydliad Angori, a gweithredu dull mwy systematig o gasglu, dadansoddi ac adrodd ar adborth dinasyddion drwy fframweithiau a phecynnau cymorth. Mae'r gwaith hwn wedi cael effaith bositif drwy gynyddu cyrhaeddiad, cynhwysiant a thryloywder ymgysylltu yn sylweddol, cryfhau ymddiriedaeth a pherthnasoedd â chymunedau a phartneriaid, gwella ansawdd a hygrededd dirnadaethau sy'n llywio cynllunio a datblygu gwasanaethau—yn enwedig mewn ardaloedd gwledig—a sefydlu diwylliant ymgysylltu mwy cyson, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n cefnogi gwneud penderfyniadau ymatebol ac yn atgyfnerthu hyder y cyhoedd ledled Gogledd Cymru.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys cwblhau'r broses fabwysiadu a chyflwyno'r Pecyn Cymorth Cyd-gynhyrchu, Ymgysylltu ac Ymgynghori yn ffurfiol, ehangu gwaith ymgysylltu sy'n seiliedig ar leoliadau ac sy'n canolbwyntio ar ieuenctid, ymgorffori egwyddorion Sefydliad Angori trwy gynlluniau cyflawni, ymestyn cymorthfeydd cynghorwyr ar draws pob ardal awdurdod lleol, a datblygu gallu, llywodraethu ac adrodd sefydliadol ymhellach i sicrhau defnydd cynaliadwy, cyson a dangosadwy o ddirnadaethau dinasyddion wrth lunio gwasanaethau a gwella canlyniadau. |
| **Y Gymraeg (3D)**<br><br>Ffocws yr amcan hwn yw ymgorffori'r Gymraeg a diwylliant Cymru drwy ddatblygu'r ddarpariaeth, cryfhau gallu'r gweithlu, hybu dewis iaith, a gwella mynediad ar gyfer grwpiau cleifion agored i niwed.<br><br>5 / 5 targed wedi'i gyflawni. | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ddatblygu is-amcan *Y Gymraeg a Diwylliant Cymru* drwy symud o'r camau cynllunio i gamau cyflawni gweithredol cynnar Safonau'r Gymraeg a'r fframwaith *Mwy na geiriau*, gyda ffocws penodol ar ymgorffori'r Cynnig Rhagweithiol, cryfhau gallu'r gweithlu drwy lwybrau dysgu Cymraeg estynedig, a gwella parodrwydd a chydymffurfiaeth sefydliadol ar draws lleoliadau acíwt. Mae'r gwaith hwn wedi darparu manteision cynnar a phendant, gan gynnwys sicrhau mwy o welededd a chysondeb wrth gyfathrebu'n ddwyieithog, sicrhau y siaredir Cymraeg yn fwy rheolaidd ar y pwynt cyswllt cyntaf, gwella hyder a chymhwysedd diwylliannol staff, ac mae'n cynnig profiad gofal mwy cynhwysol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn teimlo'n fwy diogel i gleifion sy'n siarad Cymraeg—yn enwedig grwpiau agored i niwed fel oedolion hŷn, pobl â dementia a'r rhai sy'n profi gofid.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?** |

| | |
|---|---|
| | Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys symud o'r camau gweithredu cynnar i ymgorffori gweithredol llawn ar draws pob lleoliad, ehangu a thargedu gallu iaith y gweithlu ymhellach, cryfhau sicrwydd a monitro cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg, a sicrhau bod ystyriaethau ynglŷn â'r Gymraeg yn cael eu hintegreiddio'n llawn i bolisïau, prosesau a gwelliannau gwasanaethau er mwyn cyflawni gwelliannau cynaliadwy ym mhrofiad cleifion ledled Gogledd Cymru. |
| **Amcan 4: Gwella Ansawdd, Canlyniadau a Phrofiadau** | |
| **Atal ac Ymyrryd yn Gynnar (4A)**<br><br>Ffocws yr amcan hwn yw cryfhau dulliau atal ac ymyrraeth gynnar drwy dargedu grwpiau agored i niwed, gwella gwydnwch o ran imiwneiddio a diogelu iechyd, a meithrin gallu i ddangos effaith a lleihau anghydraddoldebau.<br><br>5 / 5 targed wedi'i gyflawni. | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, datblygodd y Bwrdd Iechyd flaenoriaethau atal a lles y boblogaeth drwy gyflwyno rhaglen iechyd cyhoeddus eang a oedd yn canolbwyntio ar leihau nifer yr achosion o gyflyrau hirdymor a'u datblygiad, gan gynnwys adolygiadau Atal a Rheoli Heintiau ar draws cartrefi gofal sydd bron wedi'u cwblhau, samplu cymunedol a samplu wedi'i dargedu estynedig i gefnogi agendâu dileu clefydau, ymatebion amserol i bob ymholiad diogelu iechyd, cyflwyno rhaglenni brechu ac imiwneiddio, cynyddu'r defnydd o wasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu a rheoli pwysau, sefydlu Rhaglen Deallusrwydd, Ymchwil a Gwerthuso Iechyd Cyhoeddus, a chryfhau gweithio mewn partneriaeth drwy asesiadau anghenion iechyd cynhwysol, y Fframwaith Angori Lles ac Atal, a phrosiectau mewnwelediadau digartrefedd. Mae effaith fesuradwy'r gwaith hwn i'w weld drwy'r nifer uchel o gleifion/staff sydd wedi cael brechiadau mewn cartrefi gofal, targedau samplu cymunedol a thargedig yn cael eu cyflawni, amddiffyniad gwell rhag clefydau heintus, mwy o ymgysylltiad mewn rhaglenni rhoi'r gorau i ysmygu a rheoli pwysau, cryfhau deallusrwydd system ar anghydraddoldebau iechyd a phenderfynyddion iechyd ehangach, ac mae'r parodrwydd i fynd i'r afael ag iechyd cynhwysol a digartrefedd, gan gefnogi canlyniadau iechyd mwy diogel, ataliol a theg i boblogaeth Gogledd Cymru wedi gwella.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys cynnal a gwella nifer y bobl sy'n cael brechiadau i gyrraedd targedau cenedlaethol, cryfhau prosesau dilysu canlyniadau rhoi'r gorau i ysmygu, ehangu'r gefnogaeth i raglenni ffordd iach o fyw ymhellach, ymgorffori deallusrwydd iechyd y cyhoedd yn fwy cyson mewn cynllunio a chomisiynu, gweithredu argymhellion sy'n deillio o waith iechyd cynhwysol a digartrefedd yn unol â deddfwriaeth sydd ar ddod, a pharhau â chamau gweithredu dan arweiniad partneriaeth i leihau anghydraddoldebau iechyd a gwella lles y boblogaeth dros y tymor hwy. |
| **Gofal Sylfaenol (4B)**<br><br>Ffocws yr amcan hwn yw cryfhau gofal sylfaenol a chlystyrau drwy wella mynediad, cynaliadwyedd a gallu'r gweithlu, lleihau'r galw ar ysbytai y gellir ei osgoi, a datblygu modelau gofal yn y gymuned.<br><br>11 / 16 targed wedi'i gyflawni. | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, gwnaeth y Bwrdd Iechyd gynnydd da wrth gyflawni is-amcan *Gofal Sylfaenol* drwy gryfhau sylfeini ar gyfer y Model Gofal Sylfaenol cenedlaethol i Gymru a'r dull Cymunedol o'r Cychwyn(CbD), sefydlu Bwrdd Cymunedol o'r Cychwyn, ymgorffori blaenoriaethau gofal sylfaenol yr IMTP, ehangu gwaith amlddisgyblaethol, gwella mynediad drwy gynigion ar yr un diwrnod a mentrau gofal sylfaenol brys, bwrw ymlaen â chaffael deintyddiaeth, cefnogi cynaliadwyedd contractwyr, gweithredu diwygiadau cytundebol fel WGOS 4 mewn optometreg, buddsoddi mewn datblygu'r gweithlu drwy'r Academi Gofal Sylfaenol, a dechrau adolygiadau o olion traed |

| | |
|---|---|
| | clwstwr ac opsiynau ar gyfer gofal sylfaenol ar raddfa fawr drwy ffederasiynau posibl. Mae'r gwaith hwn wedi cael effaith bositif drwy gynnal lefelau uchel o fynediad a pherfformiad mewn meddygaeth gyffredinol a gwasanaethau y tu allan i oriau, cynyddu darpariaeth gymunedol fel dewis arall yn lle mynd i Adrannau Achosion Brys, cynnig miloedd o apwyntiadau ychwanegol, ehangu cymysgedd sgiliau'r gweithlu gofal sylfaenol, gwella mynediad at wasanaethau deintyddol, fferyllol ac optometreg, a gosod y system i ddarparu gofal mwy integredig, hygyrch ac agosach at y cartref i dros 90% o ryngweithiadau'r boblogaeth â'r GIG yng Ngogledd Cymru.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys cwblhau adolygiadau o olion traed clystyrau, bwrw ymlaen â sefydlu ffederasiynau gofal sylfaenol sy'n cyd-fynd â'r model gweithredu yn y dyfodol, cwblhau'r Cynllun Trawsnewid lleol, ymgorffori modelau cymorth cartrefi gofal a modelau eiddilwch sy'n seiliedig ar glystyrau ymhellach, cryfhau trefniadau practisau a reolir gan y Bwrdd Iechyd, a chomisiynu a graddio gwasanaethau cymdogaeth a chymuned integredig yn unol ag uchelgeisiau CbD i ddarparu gofal sylfaenol a chymunedol cyson o ansawdd uchel ar raddfa fawr. Gellir canfod y targedau cyflawni heb eu cwblhau yn Adran ganlynol Cynllun Cyflawni Blynyddol 2026/27: 2A – Gofal Sylfaenol |
| **Gofal Cymunedol (4C)**<br><br>Ffocws yr amcan hwn yw ehangu gofal yn y gymuned drwy Ofal Cymunedol Uwch, gwasanaethau nyrsio ar benwythnosau a gwasanaethau lliniarol, gwella mynediad, parhad a chanlyniadau wrth leihau derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu hosgoi.<br><br>1 / 12 targed wedi'i gyflawni. | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, gwnaeth y Bwrdd Iechyd gynnydd cynyddrannol wrth gyflawni is-amcan *Gofal Cymunedol* drwy gynyddu gweithgaredd nyrsio cymunedol ar benwythnosau, ehangu darpariaeth nyrsio clinigol gofal lliniarol arbenigol ar benwythnosau yn ardaloedd y Gorllewin a'r Canol, treialu elfennau o ofal cymunedol uwch gan ddefnyddio cyllid presennol a chyllid cyfyngedig o ran amser, a gofalu am fwy o gleifion yn eu cartrefi drwy Uwch Ymarferwyr Nyrsio, Meddygon Teulu a thimau amlddisgyblaethol yn y gymuned, er bod sawl blaenoriaeth yn parhau i fod yn ddibynnol ar gymeradwyaeth a buddsoddiad achos busnes. Mae'r gwaith hwn wedi cael effaith bositif drwy wella mynediad at gyngor lliniarol arbenigol ar benwythnosau, cefnogi gofalwyr a chlinigwyr, galluogi mwy o gleifion i dderbyn gofal cymhleth yn agosach at eu cartrefi, hwyluso rhyddhau cynharach o'r ysbyty, a rhyddhau capasiti o ran darpariaethau cleifion mewnol, gan gydnabod bod manteision llawn darpariaeth penwythnos estynedig yn cael eu cyfyngu gan amrywiadau ar draws ardaloedd ac argaeledd gwasanaethau partner ehangach.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys cwblhau adolygiad sefydliad sylfaenol o dimau Nyrsio Ardal, gwella cysondeb a phrosesau adrodd ar weithio ar benwythnosau, sicrhau buddsoddiad cynaliadwy i gynyddu darpariaeth gofal cymunedol a lliniarol ar benwythnosau (yn enwedig yn y Dwyrain), cytuno ar fodel cyson ar draws y Bwrdd Iechyd ar gyfer gofal cymunedol uwch a'i ddatblygu, symud achosion busnes ymlaen lle bo'n briodol, ac alinio gwasanaethau cymunedol, gofal sylfaenol, therapi, diagnostig a gofal cymdeithasol i wneud y mwyaf o effaith darpariaeth gofal cymunedol estynedig.  Gellir canfod y targedau cyflawni |

| | |
|---|---|
| | heb eu cwblhau yn Adran ganlynol Cynllun Cyflawni Blynyddol 2026/27: 2B – Gofal Cymunedol |
| **Gofal wedi'i Gynllunio / Gofal Canser / Diagnosteg (4D)**<br><br>**Gofal wedi'i Gynllunio**<br><br>Y ffocws yw gwella gofal wedi'i gynllunio drwy gryfhau ansawdd data, optimeiddio llwybrau a rheoli capasiti galw, lleihau amrywiadau diangen, a chynyddu cynhyrchiant a mynediad at driniaeth.<br><br>7 / 18 targed wedi'i gyflawni. | **Gofal wedi'i Gynllunio**<br>**Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, gwnaeth y Bwrdd Iechyd gynnydd gyda chyflawni is-amcan *Gofal wedi'i Gynllunio, Gofal Canser a Diagnosteg* drwy hyrwyddo rhaglen eang o welliannau ar draws dilysu, rheoli cyfeiriadau, prosesau trefnu apwyntiadau, ailgynllunio llwybrau a galluogi digidol, er gwaethaf pwysau gweithredol a chyfyngiadau capasiti, gan gynnwys cyflwyno dilysu rhestrau aros awtomataidd a chlercyddol, cyhoeddi Polisi Dilysu Clinigol, llywodraethu clinigol cryfach drwy'r Grŵp Clinigol Gofal wedi'i Gynllunio, ehangu offer rhithwir a digidol (gan gynnwys Ap GIG Cymru, ymgynghoriadau fideo a dilysu â chymorth robotiaid sgwrsio), cyflwyno llwybrau cymunedol a chyngor ac arweiniad, a pheilota a mewnosod modelau ailgynllunio gwasanaethau fel clinigau POPS a llwybrau cataractau cymhlethdod isel cyfaint uchel. Mae'r gwaith hwn wedi cyflawni effaith fesuradwy gynnar drwy restrau aros glanach a mwy cywir, mynediad cyflymach i gleifion sydd angen gofal, llai o alw diangen am ofal eilaidd, ansawdd cyfeirio gwell, profiad a chyfathrebu gwell i gleifion, mwy o ddefnydd o ofal digidol a rhithwir, a defnydd mwy effeithlon o gapasiti clinigol, gan gefnogi llif llwybrau gwell a chynaliadwyedd i boblogaeth Gogledd Cymru.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys cwblhau a darparu adnoddau ar gyfer cynllun cyflawni cryfach drwy'r IMTP, cadarnhau perchnogaeth glinigol a rheolaethol, cwblhau ac ymgorffori ailgynllunio llwybrau a gwelliannau diagnostig sy'n weddill, graddio cynlluniau peilot llwyddiannus i fusnes fel arfer, a chyflymu'r ddarpariaeth unwaith y bydd capasiti a blaenoriaethu sefydliadol wedi'u cadarnhau i gyflawni amcanion llawn y rhaglen mewn modd cynaliadwy. Gellir canfod y targedau cyflawni heb eu cwblhau yn Adran ganlynol Cynllun Cyflawni Blynyddol 2026/27: 3B – Gofal wedi'i Gynllunio, Gofal Canser a Diagnosteg |
| **Gofal Canser**<br><br>Ffocws amcan Gofal Canser yw gwella gofal drwy gwtogi amseroedd aros, clirio ôl-groniadau, optimeiddio llwybrau a chapasiti, a datblygu modelau cynaliadwy o ran diagnosisau, triniaethau a chymorth.<br><br>6 / 10 targed wedi'i gyflawni. | **Gofal Canser**<br>**Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, aeth y Bwrdd Iechyd ati i gyflawni is-amcan *Gofal wedi'i Gynllunio, Gofal Canser a Diagnosteg* drwy weithredu cynllun cyflawni Llwybr Lle'r Amheuir Canser (SCP) , gan ddatblygu contractau mewnol ar draws arbenigeddau allweddol dan bwysau gan gynnwys endosgopi, dermatoleg ac wroleg, cyflwyno llwybrau newydd fel brysbennu dan arweiniad nyrsys mewn gwasanaethau y colon a'r rhefr, a gwella cymorth i gleifion ac ansawdd cyfeirio drwy Lwybrau Iechyd Cymunedol ac agor Canolfan Maggie's. Mae'r gwaith hwn wedi cael effaith bositif, gyda'r ôl-groniad o gleifion sy'n aros dros 62 diwrnod yn lleihau'n sylweddol o dros 3,000 i 1,660—y lefel isaf ers canol 2023—sy'n golygu bod mwy o gleifion yn derbyn triniaeth yn gynt, ochr yn ochr â gwelliannau ansoddol ym mhrofiad cleifion a theuluoedd a gwell cefnogaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau gofal sylfaenol.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?** |

| | |
|---|---|
| | Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys cyflawni ail gam y cynllun cyflawni SCP y cytunwyd arno, parhau i leihau ac yn y pen draw ddileu'r ôl-groniad sy'n weddill, mynd i'r afael â phwysau capasiti mewn arbenigeddau effaith uchel i wella perfformiad cyffredinol yn erbyn y targed 62 diwrnod, a gwreiddio gwelliannau llwybr a chapasiti i ddarparu gofal canser cynaliadwy ac amserol i boblogaeth Gogledd Cymru. Gellir canfod y targedau cyflawni heb eu cwblhau yn Adran ganlynol Cynllun Cyflawni Blynyddol 2026/27: 3B – Gofal wedi'i Gynllunio, Gofal Canser a Diagnosteg |
| **Diagnosteg**<br><br>Ffocws yr amcan hwn yw cryfhau diagnosteg drwy reoli galw a chapasiti, gallu'r gweithlu, systemau digidol ac ystadau yn well, gan sicrhau mynediad teg, sicrwydd ansawdd a gwasanaethau cynaliadwy.<br><br>7 / 11 targed wedi'i gyflawni. | **Diagnosteg**<br>**Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, gweithiodd y Bwrdd Iechyd ar gyflawni elfen ddiagnosteg yr is-amcan *Gofal wedi'i Gynllunio, Gofal Canser a Diagnosteg* drwy ganolbwyntio ar raglenni adfer a ariennir yn genedlaethol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau gweinidogol, cyflawni targedau 104 wythnos elfennau diagnosteg RTT ac Adran Cleifion Allanol, cynyddu lefelau gweithgaredd diagnostig, gweithredu seilwaith digidol allweddol gan gynnwys RISP Radioleg a chyflwyno'r rhaglen Patholeg LIMS 2.0 yn rhannol, datblygu achos busnes llawn ar gyfer PET-CT/Meddygaeth Niwclear, a mynd i'r afael â materion ystadau dethol sy'n effeithio ar wasanaethau diagnostig. Mae'r gwaith hwn wedi galluogi trwybwn diagnostig uwch, wedi lleihau'r arosiadau hiraf, wedi gwella ansawdd a chysondeb data ar draws safleoedd, wedi cryfhau'r sylfeini ar gyfer gwella gwasanaethau yn y dyfodol, ac wedi cefnogi darpariaeth diagnostig fwy diogel a chynaliadwy ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru, er bod amseroedd aros diagnostig arferol a'r ôl-groniad wyth wythnos yn parhau i fod yn sylweddol oherwydd y galw cynyddol a'r ddibyniaeth ar gapasiti cyfradd premiwm anghylchol.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys cwblhau'r broses o gyflwyno LIMS 2.0 (gan gynnwys lliniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thrallwysiadau gwaed), sicrhau cymeradwyaeth a symud ymlaen â darparu PET-CT/Meddygaeth Niwclear, craffu a datblygu achosion busnes diagnostig sydd heb eu cwblhau fel endosgopi a phatholeg celloedd digidol, mynd i'r afael â chyfyngiadau ystadau sy'n weddill, egluro'r model hwb diagnostig yn y dyfodol a'i flaenoriaethu, a symud o weithgarwch adfer tymor byr i fodel gwasanaeth diagnostig cynaliadwy, rheolaidd dros weddill cyfnod 2025–28. Gellir canfod y targedau cyflawni heb eu cwblhau yn Adran ganlynol Cynllun Cyflawni Blynyddol 2026/27: 3B – Gofal wedi'i Gynllunio, Gofal Canser a Diagnosteg |
| **UEC (4E)**<br><br>Ffocws yr amcan hwn yw gwella gofal brys a gofal mewn argyfwng drwy gryfhau mynediad drws ffrynt, llif drwy ysbytai a phrosesau rhyddhau, gan leihau derbyniadau y gellir eu hosgoi, oediadau a | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ddatblygu is-amcan *Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng (UEC)* drwy sefydlu llywodraethu a llinellau sylfaen wedi'u hadnewyddu ar draws pedwar ffrwd waith y rhaglen, cychwyn datblygu Un Pwynt Mynediad (SPOA) gan gynnwys setiau data cynnar, adnabod y gweithlu a pharatoi ar gyfer y cynllun peilot, hyrwyddo cynlluniau ymateb i godymau yn y gymuned a chartrefi gofal gyda phartneriaid, cwblhau asesiadau sylfaenol ar gyfer gwasanaethau eiddilwch, adolygu a dadansoddi bylchau mewn trefniadau trosglwyddo ambiwlansys yn erbyn gofynion |

| | |
|---|---|
| phwysau ar adrannau achosion brys yn gyffredinol.<br><br>3 / 7 targed wedi'i gyflawni. | cenedlaethol, a dechrau gweithio i wella llif ysbytai drwy recriwtio hwyluswyr Llif Ysbyty Gorau posibl a datblygu geirfa UEC a rennir. Mae'r gwaith hwn wedi cryfhau parodrwydd y system, wedi egluro amrywiadau a bylchau ar draws safleoedd, wedi gwella aliniad â'r Rhaglen Chwe Nod Genedlaethol, ac wedi gosod y sylfeini ar gyfer rheolaeth fwy cyson wrth y drws ffrynt, wedi gwella llif cleifion, wedi lleihau derbyniadau a datgyflyru y gellir eu hosgoi, a gwell cydlynu rhwng gwasanaethau cymunedol ac ysbyty, gan gefnogi mynediad mwy amserol at y gofal cywir i boblogaeth Gogledd Cymru.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys sicrhau cyllid Chwe Nod i alluogi symud ar raddfa fawr, treialu a gweithredu trefniadau SPOA, cyflwyno hyfforddiant a seilwaith ymateb i godymau yn y gymuned ac mewn cartrefi gofal, sefydlu'r model eiddilwch y cytunwyd arno a'i gyflawni, safoni prosesau trosglwyddo a llif ambiwlansys ar draws safleoedd acíwt, cwblhau geirfa UEC a'i hymgorffori, a datblygu trefniadau Gorchwyl a Gorffen i gyflawni gwelliannau cynaliadwy ym mherfformiad UEC, llif ysbytai a rhyddhau. Gellir canfod y targedau cyflawni heb eu cwblhau yn Adran ganlynol Cynllun Cyflawni Blynyddol 2026/27: 3A – Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng |
| **Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Oedolion (4F)**<br><br>Ffocws yr amcan hwn yw gwella gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu i oedolion drwy gryfhau ansawdd, diogelwch a mynediad, cwtogi amseroedd aros, gwella gofal mewn argyfyngau, a datblygu gwelliannau.<br><br>6 / 7 targed wedi'i gyflawni. | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ddatblygu is-amcan *Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (MHLD) Oedolion* drwy gryfhau prosesau llywodraethu a chyflawni drwy sefydlu'r Grŵp Goruchwylio a Chyflawni Iechyd Meddwl, alinio gwasanaethau â'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol cenedlaethol newydd a'r Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl, gweithredu argymhellion RCPsych, gwella modelau gofal mewn argyfwng, hyrwyddo caffael Cofnod Gofal Iechyd Electronig ym maes Iechyd Meddwl, ymgorffori PREMs a chychwyn PROMs, ehangu mynediad at wasanaethau iechyd meddwl sylfaenol ac arbenigol, lleihau lleoliadau y tu allan i'r ardal gan gynnwys agor yr Uned i Famau a Babanod yng Nghaer, a gwella cymorth ag iechyd corfforol i bobl â salwch meddwl ac anableddau dysgu. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at welliannau amlwg o ran mynediad, ansawdd a diogelwch gofal, gyda dros 80% o gleifion yn cael eu gweld o fewn 28 diwrnod mewn gwasanaethau iechyd meddwl gofal sylfaenol, 85% o ddefnyddwyr gwasanaeth yn nodi profiadau positif, ymatebolrwydd gwell i argyfwng, gofal gwell yn cael ei ddarparu'n agosach at adref, a phrosesau goruchwylio, galluogi staff a chynnwys cleifion wedi'u cryfhau, gan gyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd a sicrhau canlyniadau gwell i boblogaeth Gogledd Cymru.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys sicrhau cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a gweithredu'r Cofnod Gofal Iechyd Electronig (EHR) MHLD, ymgorffori modelau gofal mewn argyfwng a gofal cymunedol wedi'u hailgynllunio ymhellach, parhau â rhaglenni lleihau risgiau clymu a diogelwch, cwblhau targedau cyflawni a rennir gyda thimau partner, a chynnal gwelliant perfformiad trwy lywodraethu cadarn i ddarparu model gwasanaeth MHLD cydlynol, hygyrch a gwydn ledled Gogledd Cymru. Gellir |

| | |
|---|---|
| | canfod y targedau cyflawni heb eu cwblhau yn Adran ganlynol Cynllun Cyflawni Blynyddol 2026/27: 3D - Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu |
| **CAMHS (4G)**<br><br>Ffocws yr amcan hwn yw cryfhau CAMHS drwy wella capasiti'r gweithlu, mynediad ac amseroedd aros, ymgorffori arfer gorau, datblygu dewisiadau amgen i dderbyniadau, a chefnogi lles emosiynol plant.<br><br>5 / 5 targed wedi'i gyflawni. | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, gwnaeth y Bwrdd Iechyd gynnydd sylweddol yn erbyn is-amcan *CAMHS* drwy weithredu'r Rhaglen Gwella CAMHS, gan gydymffurfio â holl dargedau Rhan 1a a Rhan 1b y Mesur Iechyd Meddwl erbyn diwedd y flwyddyn, trawsnewid y model gofal mewn argyfwng drwy lwybrau estynedig a sicrhau mwy o staff sy'n ymarferwyr Adran Achosion Brys, cryfhau dulliau cymorth cynnar a mynediad agored, ymgorffori darpariaeth CAMHS mewn ysgolion ar draws yr holl Gymunedau Iechyd Integredig, a datblygu cynllun gweithlu strategol tair blynedd cynhwysfawr sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Gwella ehangach. Mae'r gwaith hwn wedi cael effaith glir a mesuradwy, gan gynnwys perfformiad cynaliadwy yn erbyn targedau cenedlaethol, gwella mynediad ac ansawdd gofal, gostyngiad o 31% mewn derbyniadau pediatrig ar gyfer pobl ifanc mewn argyfwng, adnabod achosion ac ymyrryd yn gynharach, gwella hygyrchedd trwy ddarpariaeth mewn ysgolion, a chynyddu gwydnwch gwasanaethau trwy rolau gweithlu amrywiol ac arloesol, gan gefnogi canlyniadau gwell i blant, pobl ifanc a theuluoedd ledled Gogledd Cymru.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys ymgorffori'r llwybr argyfwng uwch yn llawn fel model 24/7, symud ymlaen ymhellach tuag at wasanaethau mynediad agored, gweithredu a monitro cyflawniad cynllun y gweithlu, cynnal perfformiad wrth i arosiadau hir gael eu dileu, a pharhau i gryfhau modelau ymyrraeth gynnar a modelau cymunedol i sicrhau cydymffurfiaeth hirdymor, sefydlogrwydd a chanlyniadau iechyd meddwl gwell i'r boblogaeth. |
| **Y Gwasanaethau Niwroddatblygiadol (4H)**<br><br>Ffocws yr amcan hwn yw gwella gwasanaethau niwroddatblygiadol drwy gwtogi amseroedd aros, cyflwyno asesu darbodus, cryfhau rhannu gwybodaeth, a datblygu modelau cynaliadwy, sy'n cael eu harwain gan anghenion, gyda phartneriaid ar draws systemau.<br><br>5 / 5 targed wedi'i gyflawni. | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ddatblygu is-amcan y *Gwasanaethau Niwrodatblygiadol* drwy gynyddu trwybwn asesu yn sylweddol, cyflawni'r targed effeithlonrwydd gweinidogol, gweithio gyda'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Plant i ddatblygu a gweithredu model gofal amlasiantaethol, sy'n cael ei arwain gan anghenion, lansio offeryn proffilio a rennir sy'n cael ei arwain gan anghenion, a dechrau hyfforddiant i'r gweithlu ar draws yr holl awdurdodau lleol i wella cydweithio ag addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r gwaith hwn wedi cyflawni effaith fesuradwy drwy gynnydd o 63% yn y niferoedd sy'n cael eu hasesu, gostyngiad sylweddol mewn amseroedd aros tair blynedd, cysondeb gwell o ran cefnogaeth i blant a phobl ifanc ag ASD ac ADHD wrth iddynt aros am ddiagnosis ac wedi hynny, a chydweithrediad cryfach ar draws y system gyfan, gan wella profiad a chanlyniadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd ledled Gogledd Cymru.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys clirio'r ôl-groniad sy'n deillio o dan-gyflenwi gan ddarparwr preifat, adeiladu ar gapasiti asesu mewnol ymhellach, cwblhau'r broses o gyflwyno a gwreiddio'r model a'r offeryn proffilio sy'n cael ei arwain gan anghenion ar draws yr holl bartneriaid, a sicrhau buddsoddiad disgwyliedig NDIP Llywodraeth Cymru i gynnal amseroedd aros llai a sicrhau y gellir diwallu'r galw yn barhaus. |

| | |
|---|---|
| **Dementia (4I)**<br><br>Ffocws yr amcan hwn yw gwella gofal dementia drwy wella profiadau cleifion yn yr adran achosion brys, cryfhau addysg a hyfforddiant, creu amgylcheddau sy'n ystyriol o ddementia, a hybu atal drwy gydweithio ar draws gwasanaethau.<br><br>2 / 11 targed wedi'i gyflawni. | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ddatblygu is-amcan *Dementia* drwy gryfhau llywodraethu a gweithio mewn partneriaeth ranbarthol, ehangu arweinyddiaeth arbenigol a chapasiti ymarferwyr, gweithredu Cynllun Gwella Gofal Dementia sy'n canolbwyntio ar brofiadau mewn adrannau achosion brys, addysg, amgylcheddau ac atal, cyflwyno nifer o fentrau hyfforddi ac addysg, treialu ac ehangu ymyriadau ataliol a chymunedol, gwella'r gallu i gasglu data ac archwilio, a gwella cydweithio ag awdurdodau lleol, yr heddlu a phartneriaid yn y trydydd sector. Mae'r gwaith hwn wedi cyflawni effeithiau positif a mesuradwy, gan gynnwys sicrhau profiadau gwell i gleifion sy'n byw gyda dementia mewn lleoliadau brys, gostyngiadau mewn rhestrau aros ar gyfer asesiadau cof, perfformiad gwell yn erbyn yr Archwiliad Cenedlaethol ar gyfer Dementia, cynyddu gallu staff trwy addysg a hyfforddiant safonol, gwella prosesau adnabod a chefnogi pobl â dementia ar draws ysbytai a lleoliadau cymunedol, a chodi cydnabyddiaeth genedlaethol am fentrau diogelwch a phartneriaeth gymunedol arloesol, gan gefnogi gofal dementia mwy diogel, sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn ac sy'n ataliol i boblogaeth Gogledd Cymru.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys sicrhau capasiti ymarferwyr llwybrau ychwanegol, ymgorffori blaenoriaethau gohiriedig yn llawn yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol diwygiedig, ehangu safonau amgylchedd sy'n ystyriol o ddementia i ystadau a chynllunio cyfalaf, cwblhau dadansoddiad o anghenion hyfforddi dementia a graddio'r ddarpariaeth, cryfhau llwybrau llywodraethu ac adrodd, ac integreiddio modelau sy'n canolbwyntio ar atal ac sy'n seiliedig ar y gymuned ymhellach i leihau amrywiadau, gwella canlyniadau ac ymateb i gynnydd mewn nifer yr achosion o ddementia. Gellir canfod y targedau cyflawni heb eu cwblhau yn Adran ganlynol Cynllun Cyflawni Blynyddol 2026/27: 3I – Dementia |
| **Gwasanaethau sy'n Wynebu Heriau (4J)** | |
| **Wroleg**<br><br>Ffocws yr amcan hwn oedd cryfhau gwasanaethau wroleg drwy ddatblygu model gweithlu cynaliadwy, safoni a gwella llwybrau clinigol, a sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau radioleg arbenigol ac ymyriadol ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae hefyd yn anelu at ehangu capasiti a gwella profiad cleifion trwy lwybrau diagnostig a thriniaeth mwy effeithlon, gwella'r defnydd o fodelau achosion dydd ac achosion allanol, a threfniadau gwell ar gyfer y tîm | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, aeth y Bwrdd Iechyd ati i gyflawni'r is-amcan hwn drwy gynnal trefniadau dros dro diogel ar gyfer radioleg ymyriadol y tu allan i oriau gwaith, sicrhau cymeradwyaeth y Weithrediaeth i fwrw ymlaen â chomisiynu gwasanaeth fasectomi, integreiddio Fy Nghofnod Meddygol (MyMR) drwy lywodraethu, a sefydlogi llwybrau wroleg allweddol drwy fewnoli biopsïau LATP a systosgopi hyblyg wedi'u targedu i gynyddu capasiti a gwydnwch. Mae'r gwaith hwn wedi darparu manteision clir, gan gynnwys cynnal diogelwch cleifion a pharhad gwasanaeth, gostyngiadau sylweddol mewn amseroedd aros (gyda chyfnodau aros am fiopsi LATP wedi'u lleihau o 42 diwrnod i 10 diwrnod), mynediad gwell at lwybrau diagnosteg a chanser, mwy o degwch a phrofiad gwell trwy ddarpariaeth fasectomi estynedig, gostyngiad mewn presenoldeb cleifion allanol diangen trwy lwybrau dilynol MyMR, a mynediad gwell at lawdriniaethau canser mawr yn agosach at adref trwy gytundebau llwybr rhanbarthol.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?** |

| | |
|---|---|
| amlddisgyblaethol a'r gwasanaethau ar-alwad.<br><br>7 / 11 targed wedi'i gyflawni. | Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys cwblhau cytundeb lefel gwasanaeth radioleg ymyriadol y tu allan i oriau ffurfiol a'i weithredu, parhau â chontractau mewnol dros dro nes bod staff parhaol wedi'u sicrhau, cwblhau integreiddio MyMR yn amodol ar brosesau system genedlaethol, a throsglwyddo trefniadau comisiynu fasectomi i ddarpariaeth lawn i sicrhau model gwasanaeth cynaliadwy, wedi'i ddarparu'n llawn. Gellir canfod y targedau cyflawni heb eu cwblhau yn Adran ganlynol Cynllun Cyflawni Blynyddol 2026/27: 3C - Gwasanaethau Eiddil |
| **Fasgwlaidd**<br><br>Ffocws yr amcan hwn oedd cryfhau gwasanaethau fasgwlaidd drwy ddatblygu gweithlu cynaliadwy, medrus a sefydlu llwybrau gofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y claf ac sy'n gwella diogelwch, canlyniadau a chysondeb gofal. Mae hefyd yn anelu at ehangu capasiti a gwella profiad cleifion trwy fodelau gwell ar gyfer gofal AAA a CLTI, prosesau trosglwyddo a rhyddhau gwell, a defnyddio offer digidol i olrhain cleifion a chefnogi gwaith amlddisgyblaethol integredig.<br><br>5 / 8 targed wedi'i gyflawni. | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, gweithiodd y Bwrdd Iechyd ar gyflawni'r Cynllun Gwasanaethau sy'n Wynebu Heriau ar gyfer y Gwasanaethau Fasgwlaidd drwy weithredu gwelliannau cenedlaethol sy'n canolbwyntio ar gryfhau gwaith amlddisgyblaethol, ehangu clinigau adolygu brys dan arweiniad nyrsys, lleihau arosiadau hir, dechrau datblygu cynllun gweithlu strategol, cytuno ar Weithdrefnau Gweithredu Safonol a gefnogir gan gylchoedd archwilio a'u hymgorffori, ymgysylltu â'r System Rheoli Ansawdd, a datblygu adolygiadau llwybrau a gwaith ailgynllunio gwasanaethau, ochr yn ochr â pharhau i gyflawni llawdriniaethau fasgwlaidd gymhleth drwy'r SLA gydag Ysbyty Prifysgol Gogledd Canolbarth Lloegr. Mae'r gwaith hwn wedi cael effaith bositif drwy wella capasiti a mynediad, lleihau nifer y cleifion sy'n aros dros 104 wythnos i bump, sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld gan y clinigydd mwyaf priodol, cryfhau sicrhau ansawdd a llywodraethu, a gosod y sylfeini ar gyfer canlyniadau gwell—yn enwedig drwy ddatblygu gwasanaeth traed diabetig amlddisgyblaethol cydymffurfiol ar draws y rhwydwaith y disgwylir iddo leihau cymhlethdodau a thrychu aelodau corfforol y gellir eu hosgoi ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys cwblhau a gweithredu'r cynllun gweithlu strategol, cwblhau a gwreiddio egwyddorion dylunio gwasanaeth y cytunwyd arnynt, cwblhau archwiliadau llwybrau a chyflawni camau gweithredu gwella wedi'u targedu, ffurfioli a gweithredu'r model gwasanaeth traed diabetig amlddisgyblaethol newydd, a pharhau i symud ymlaen tuag at rwydwaith fasgwlaidd aeddfed a chynaliadwy sy'n cyd-fynd â safonau cenedlaethol ac amcanion gofal ataliol. Gellir canfod y targedau cyflawni heb eu cwblhau yn Adran ganlynol Cynllun Cyflawni Blynyddol 2026/27: 3C - Gwasanaethau Eiddil |
| **Dermatoleg**<br><br>Ffocws yr amcan hwn oedd cryfhau gwasanaethau dermatoleg drwy wella cynllunio'r gweithlu, safoni llwybrau cyfeirio a gofal, ac ehangu modelau cymunedol a modelau sy'n cael eu galluogi gan dechnoleg fel Teledermosgopi. Mae hefyd yn anelu at gynyddu capasiti a gwella profiad cleifion trwy wella'r defnydd o gyfleusterau, gwella prosesau | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ddatblygu is-amcan *Dermatoleg* drwy gyflawni model gwasanaeth dros dro sy'n seiliedig ar rwydwaith, cryfhau rheolaeth cyfeiriadau gyda chefnogaeth Llwybrau Iechyd Cymunedol, ehangu teledermosgopi a ffotograffiaeth feddygol, darparu clinigau canser y croen brys un stop ar benwythnosau, defnyddio capasiti nad yw'n acíwt yng Nghanolfan Iechyd Cei Connah, a pharhau i ailgynllunio brysbennu a llwybrau, ochr yn ochr â gwaith asesu effaith cydraddoldeb a thrafodaethau cynllunio swyddi parhaus. Mae'r gwaith hwn wedi cael effaith bositif a mesuradwy drwy leihau arosiadau rhwng cyfeirio a thriniaeth (gydag arosiadau dermatoleg gyffredinol bellach o dan 36 wythnos), lleihau arosiadau cleifion allanol canser yn sylweddol, lleihau uwchraddio cyfeiriadau |

| | |
|---|---|
| blaenoriaethu a gofal dilynol, ac integreiddio agosach â gofal sylfaenol.<br><br>5 / 10 targed wedi'i gyflawni. | heb fod diangen, cynyddu diagnosteg ar yr un diwrnod, gwella profiad cleifion drwy ofal a ddarperir yn agosach at adref, a lliniaru eiddilwch gwasanaeth yn y tymor byr er gwaethaf prinder gweithlu parhaus.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys sicrhau prosesau staffio staff meddygol uwch cynaliadwy, ymgorffori'r model gwasanaeth dros dro o fewn y Cynllun Gwasanaethau Clinigol ehangach a'r rhaglen Sylfeini'r Dyfodol, bwrw ymlaen â recriwtio meddygon arbenigol parhaol, cwblhau cynlluniau swyddi i wneud y mwyaf o'r capasiti craidd, a pharhau â chamau adfer gwasanaeth heriol drwy IMTP 2026–29 i gyflawni gwasanaeth dermatoleg sefydlog a chynaliadwy ledled Gogledd Cymru. Gellir canfod y targedau cyflawni heb eu cwblhau yn Adran ganlynol Cynllun Cyflawni Blynyddol 2026/27: 3C - Gwasanaethau Eiddil |
| **Plastigau**<br><br>Ffocws yr amcan hwn oedd cryfhau llwybrau llawfeddygol sy'n gysylltiedig â chanser y croen a dermatoleg drwy wella trefniadau comisiynu, egluro rheoli rhestrau aros, ac ehangu capasiti clinigol a gweithredol ledled Gogledd Cymru. Mae hefyd yn anelu at wella profiadau cleifion ac effeithlonrwydd trwy wneud gwell defnydd o gyfleusterau, adnoddau gofal dilynol digidol, a gwaith integredig gyda gofal sylfaenol i ddarparu gofal yn agosach at adref.<br><br>5 / 7 targed wedi'i gyflawni. | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, aeth y Bwrdd Iechyd ati i adfer y *Gwasanaeth Plastigau* drwy gyflawni gwelliannau cynhyrchiant, lleihau rhestrau aros, cynyddu mân gapasiti gweithredu, cryfhau gweithio mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Addysgu Merswy a Gorllewin Swydd Gaerhirfryn (MWL), ac agor Canolfan Feddygol Cei Connah i gynnig triniaethau dermatoleg a pheilota gweithgarwch plastigau, er gwaethaf oedi a achoswyd gan faterion yn ymwneud â phrydles. Mae'r gwaith hwn wedi cael effaith bositif ar boblogaeth Gogledd Cymru gan ddileu arosiadau 104 wythnos, creu gostyngiad amlwg yn nifer y cleifion sy'n aros dros 52 wythnos, sicrhau gwelliant sylweddol yn yr ôl-groniad o apwyntiadau dilynol, capasiti gweithredu lleol cynyddol, amseroedd aros byrrach i gleifion newydd, a llai o angen i gleifion deithio allan o'r ardal i gael triniaeth.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys cwblhau trefniadau comisiynu a chytundebol gydag MWL a'r Cydbwyllgor Comisiynu i bennu lefelau gweithgaredd a adleolwyd a rhai newydd, rhoi'r gwasanaeth plastigau ar waith yn llawn yng Nghei Connah gyda chyllid priodol, trosglwyddo rhestrau aros perthnasol i'r darparwr, a sefydlu'r model gwasanaeth lleol estynedig i sicrhau capasiti cynaliadwy a gwelliant hirdymor. Gellir canfod y targedau cyflawni heb eu cwblhau yn Adran ganlynol Cynllun Cyflawni Blynyddol 2026/27: 3C - Gwasanaethau Eiddil |
| **Oncoleg**<br><br>Ffocws yr amcan hwn oedd cryfhau gwasanaethau oncoleg drwy fynd i'r afael â bylchau critigol yn y gweithlu, moderneiddio capasiti triniaeth, a datblygu strategaeth gwasanaeth integredig sy'n cefnogi galw ac arloesedd yn y dyfodol. Mae hefyd yn anelu at wella diogelwch, effeithlonrwydd a phrofiad cleifion trwy dechnolegau newydd, gallu radiotherapi gwell, a | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, gwnaeth y Bwrdd Iechyd gynnydd gyda chyflawni is-amcan y gwasanaeth oncoleg drwy gyflwyno Radiotherapi Abladol Stereotactig (SABR) ar gyfer canser yr ysgyfaint yn lleol, hyrwyddo recriwtio meddygon ymgynghorol ac arbenigwyr, sefydlu Grŵp Gwaith Strategaeth Glinigol i ddatblygu Strategaeth Oncoleg gydlynol, a chyflawni gwelliannau technolegol allweddol gan gynnwys disodli peiriannau radiotherapi LINAC a chynnydd tuag at gontract meddalwedd SACT Cymru gyfan. Mae'r gwaith hwn wedi cael effaith bositif drwy wella profiad cleifion a mynediad cyfartal drwy leihau teithio a chynnig mwy o driniaethau'n lleol, cryfhau gwydnwch a chynaliadwyedd gwasanaethau drwy leihau nifer y swyddi gwag a sefydlogi'r gweithlu, a gwella'r gallu i ddarparu triniaethau canser mwy diogel a mwy datblygedig i boblogaeth Gogledd Cymru. |

| | |
|---|---|
| gwell mynediad at ofal yn agosach at adref.<br><br>8 / 8 targed wedi'i gyflawni. | **Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys bwrw ymlaen ag ehangu Cam 2 SABR i safleoedd tiwmor ychwanegol, cwblhau'r Strategaeth Oncoleg a'i gweithredu, parhau i fynd i'r afael â risgiau i'r gweithlu sy'n deillio o brinder cenedlaethol, ac adeiladu ar fuddsoddiadau technoleg diweddar i gynyddu capasiti lleol a gwydnwch gwasanaeth hirdymor ymhellach. |
| **Offthalmoleg**<br><br>Ffocws yr amcan hwn oedd cryfhau gwasanaethau offthalmoleg drwy fynd i'r afael â bylchau yn y gweithlu, safoni llwybrau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a gwella data, ystadau, a phrosesau digidol i gefnogi gofal diogel, cyson ac effeithlon. Mae hefyd yn anelu at ehangu capasiti a gwella profiad cleifion trwy effeithlonrwydd llwybrau, modelau cymunedol integredig, cynllunio galw a chapasiti, a mynediad gwell at driniaethau amserol.<br><br>0 / 12 targed wedi'i gyflawni. | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, aeth y Bwrdd Iechyd ati i adfer y *gwasanaeth Offthalmoleg* drwy ehangu capasiti Addysgu a Thrin Glawcoma, cynyddu cynhyrchiant cataractau drwy POAC un stop a modelau cymhlethdod isel cyfaint uchel, darparu gweithgaredd allanoli a mewnoli sylweddol, gwella ansawdd data a chodio cyfeiriadau, hybu trawsnewid digidol drwy OpenEyes ac e-gyfeirio cenedlaethol, a sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer gwelliannau ystadau wedi'u targedu gan gynnwys ystafell lân IVT y Gorllewin, ochr yn ochr â recriwtio parhaus a chryfhau arweinyddiaeth. Mae'r gwaith hwn wedi cael effaith bositif drwy leihau arosiadau hir (gyda dros 700 o gleifion glawcoma a oedd wedi bod yn aros yn hir wedi'u gweld a bron i 1,000 o apwyntiadau cyntaf cataractau wedi'u cynnal), gwella diogelwch a mynediad cleifion drwy lwybrau WGOS uwch, gwella profiad cleifion, a gosod sylfeini cadarnach ar gyfer cynllunio galw a chapasiti dibynadwy, a thrwy hynny'n lleihau niwed a gwella cysondeb gofal llygaid i boblogaeth Gogledd Cymru.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys cydgrynhoi gwydnwch y gweithlu ac arweinyddiaeth glinigol, cwblhau ac ymgorffori ailgynllunio llwybrau ar raddfa fawr, datblygu gwaith integreiddio digidol a data i aeddfedrwydd llawn, cyflawni gwelliannau ystadau, a chynnal allanoli a mewnoli wedi'u targedu tra bod capasiti mewnol yn cael ei ailadeiladu, er mwyn sicrhau sefydlogrwydd llawn gwasanaeth offthalmoleg diogel, cynaliadwy a chyfartal. Gellir canfod y targedau cyflawni heb eu cwblhau yn Adran ganlynol Cynllun Cyflawni Blynyddol 2026/27: 3C - Gwasanaethau Eiddil |
| **Orthodonteg**<br><br>Ffocws yr amcan hwn oedd cryfhau gwasanaethau Llawfeddygaeth y Genau a'r Wyneb ac Orthodonteg trwy eu cydgrynhoi yn un model rhwydweithiol, mynd i'r afael â bylchau yn y gweithlu, a gweithredu gwelliannau ansawdd sy'n cyd-fynd â GIRFT. Mae hefyd yn anelu at gynyddu capasiti a gwella profiadau cleifion drwy ddefnyddio theatrau'n well, sicrhau llwybrau cleifion allanol mwy effeithiol, a rhoi camau gweithredu wedi'u targedu ar waith | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, aeth y Bwrdd Iechyd ati i adfer y gwasanaeth orthodontig drwy gryfhau arweinyddiaeth glinigol drwy benodi meddyg ymgynghorol deintyddiaeth adferol, sefydlu Grŵp Orthodontig Gogledd Cymru i wella goruchwyliaeth ranbarthol, ymgymryd â chontractio mewnol wedi'i dargedu i fynd i'r afael â'r arosiadau hiraf, cychwyn adolygiad cynhwysfawr o'r gweithlu a'r capasiti, cwblhau asesiadau risg ar gyfer cleifion a fu'n aros yn hir, a datblygu cynllun gwella manwl wedi'i lywio gan argymhellion GIRFT ochr yn ochr â rhestr eiddo o leoliadau a chyfarpar clinigol. Mae'r gwaith hwn wedi cael effaith bositif drwy glirio'r arosiadau hiraf ar gyfer apwyntiadau cyntaf a rhoi'r gwasanaeth ar y trywydd iawn i gyflawni dim arosiadau Cam 1 erbyn Mawrth 2026, gwella diogelwch cleifion drwy nodi angen clinigol brys, cynyddu tryloywder y galw am driniaeth ddilynol i gefnogi cynlluniau gwell, a gosod sylfeini ar gyfer gwella tegwch, mynediad a chysondeb gofal i gleifion ledled Gogledd Cymru.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?** |

| | |
|---|---|
| i fynd i'r afael â rhestrau aros a phroblemau mynediad.<br><br>0 / 8 targed wedi'i gyflawni. | Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys mynd i'r afael â'r ôl-groniad sylweddol ar gyfer triniaethau, recriwtio a chadw staff orthodontig arbenigol, ehangu ac ailgynllunio capasiti triniaeth gyda chefnogaeth well o ran ystadau a defnydd offer, a gweithredu model gwasanaeth rhanbarthol safonol a chynaliadwy i sicrhau gwelliannau hirdymor o ran mynediad, ansawdd a phrofiad cleifion. Gellir canfod y targedau cyflawni heb eu cwblhau yn Adran ganlynol Cynllun Cyflawni Blynyddol 2026/27: 3C - Gwasanaethau Eiddil |
| **Trawma ac Orthopaedeg**<br>Ffocws yr amcan hwn oedd gwella gwasanaethau orthopaedeg drwy leihau amrywiadau clinigol diangen drwy gynllunio gweithlu cryfach, llwybrau safonol, ansawdd data gwell, ac arferion clinigol cyson. Mae hefyd yn anelu at gynyddu capasiti a gwella profiad cleifion drwy wneud y gorau o adnoddau, ehangu gweithgarwch lle bo modd, a sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal amserol a theg yn nes at adref.<br><br>2 / 10 targed wedi'i gyflawni. | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, aeth y Bwrdd Iechyd ati i adfer y gwasanaeth Orthopadeg drwy leihau arosiadau hir, ehangu'r fenter lleihau ôl-groniad o ran apwyntiadau dilynol drwy SOS, cryfhau arweinyddiaeth glinigol ranbarthol drwy'r Rhwydwaith Orthopedig ac arweinwyr IHC, symud ymlaen â rhesymoli impiadau (gyda phenderfyniad mewn egwyddor ar impiadau clun yn Llandudno a thrafodaethau ynghylch impiadau pen-glin ar y gweill), gwella codio clinigol ac ansawdd data, a hyrwyddo safoni llwybrau clinigol i leihau amrywiadau diangen. Mae'r gwaith hwn wedi cael effaith fesuradwy, gan gynnwys gostyngiad parhaus mewn arosiadau >104 wythnos, amseroedd aros gwell o ran apwyntiadau dilynol, diogelwch cleifion gwell trwy glirio'r risg o ôl-groniad, mwy o gysondeb gofal ar draws safleoedd, gwerth gwell trwy leihau amrywiadau, a dibynadwyedd data gwell i gefnogi cynllunio ac effeithlonrwydd, gan ddylanwadu'n bositif ar brofiad cleifion ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys lleihau'r ôl-groniadau ar gyfer apwyntiadau dilynol ymhellach trwy gyflwyno SOS yn llawn ar draws pob IHC, mynd i'r afael â chyfyngiadau capasiti parhaus, cwblhau rhesymoli impiadau, ymgorffori codio o ansawdd uchel (gan gynnwys MOPs), cynnal cynnydd yn erbyn y targed 104 wythnos, cryfhau cefnogaeth ar gyfer lleihau ôl-groniadau traws-safle, a chwblhau safoni llwybrau i ddarparu gwasanaeth orthopaedeg mwy cyson a chynaliadwy. Gellir canfod y targedau cyflawni heb eu cwblhau yn Adran ganlynol Cynllun Cyflawni Blynyddol 2026/27: 3C - Gwasanaethau Eiddil |
| **Merched (4K)**<br><br>Ffocws yr amcan hwn oedd cryfhau gwasanaethau merched, mamolaeth, a gwasanaethau amenedigol drwy symud datblygiadau strategol allweddol ymlaen fel yr Hwb Iechyd Merched, adfer llwybrau gynaecoleg, a gweithredu mentrau digidol a gwella ansawdd. Mae hefyd yn anelu at wella atal, cynllunio'r gweithlu, a mynediad teg at gymorth arbenigol, gan sicrhau bod gofal yn ddiogel, yn fodern, ac yn | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, aeth y Bwrdd Iechyd ati i gyflawni'r is-amcan *Gwasanaethau Merched* drwy gwblhau cyfnodau Darganfod a Dylunio rhaglen Hwb Iechyd Merched, sicrhau cyllid a llety yn Ysbyty Cyffredinol Llandudno a dechrau ei weithredu, datblygu blaenoriaethau ansawdd mamolaeth a newyddenedigol, cyflwyno'r system ddigidol ar gyfer gwasanaethau mamolaeth, cryfhau ymgysylltiad a dulliau ataliol, a chyflawni camau gweithredu wedi'u targedu i leihau arosiadau hir hanesyddol drwy ddilysu, ailgynllunio llwybrau a rheoli capasiti. Mae'r gwaith hwn wedi cael effaith bositif drwy wella mynediad at ofal a thegwch, lleihau amseroedd aros, cryfhau profiad a hyder cleifion drwy ymgysylltu'n well a defnydd cynnar o PREMs a PROMs ac arolygon cenedlaethol, gwella gallu'r gweithlu a chymhwysedd diwylliannol, a meithrin parodrwydd y system ar gyfer gwyliadwriaeth ansawdd barhaus, galluogi digidol a modelau gofal |

| | |
|---|---|
| cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol.<br><br>7 / 10 targed wedi'i gyflawni. | integredig, gyda manteision ansoddol a meintiol cynnar yn amlwg i ferched, babanod a theuluoedd ledled Gogledd Cymru.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys cwblhau gweithrediad yr Hwb Iechyd Merched a'i wreiddii, cadarnhau rolau arweinyddiaeth ar gyfer y Cynllun Iechyd Merched, ehangu'r defnydd o PREMs a PROMs, datblygu blaenoriaethau iechyd y cyhoedd a chyn-beichiogi, cynnal gwelliannau ansawdd mamolaeth a newyddenedigol, a pharhau ag adferiad gwasanaethau a datblygu'r gweithlu i wireddu manteision tymor hwy ar lefel y boblogaeth er gwaethaf heriau parhaus o ran y gweithlu a'r gyllideb. Gellir canfod y targedau cyflawni heb eu cwblhau yn Adran ganlynol Cynllun Cyflawni Blynyddol 2026/27: 3G – Iechyd Merched |
| **Plant a Phobl Ifanc (4L)**<br><br>Ffocws yr amcan hwn oedd cryfhau hawliau, llais a phrofiad plant o fewn y Bwrdd Iechyd drwy weithredu'r Siarter Plant, sefydlu Bwrdd Llais Ieuenctid, a datblygu ymrwymiadau fel Siarter Rhianta Corfforaethol Cymru. Mae hefyd yn anelu at wella canlyniadau i blant a phobl ifanc drwy wella nifer y bobl sy'n cael eu himiwneiddio, sicrhau llwybrau trosglwyddo cliriach, a dulliau cydweithredol o gefnogi'r rhai sydd ag anghenion cymhleth.<br><br>6 / 6 targed wedi'i gyflawni. | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, cwblhaodd y Bwrdd Iechyd waith allweddol i gryfhau hawliau ac ymgysylltiad plant drwy lansio Siarter Plant sydd ar gael i'r cyhoedd, gan ymgorffori ymwybyddiaeth o'r Siarter a hawliau plant o fewn hyfforddiant diogelu gorfodol a gofal sy'n seiliedig ar drawma, a chryfhau gweithio mewn partneriaeth ranbarthol drwy Grŵp Plant Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB) mwy cadarn a gweithredol gydag is-grwpiau amlasiantaeth yn canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth. Mae'r gwaith hwn wedi cael effaith bositif drwy wella cysondeb yn y ffordd y cyfathrebir â phlant, codi ymwybyddiaeth sefydliadol o hawliau plant, ymgorffori arfer sy'n seiliedig ar hawliau ac sy'n cael ei lywio gan drawma ar draws y gweithlu, a chryfhau cydweithio amlasiantaethol, gan alluogi adnabod anghenion plant yn gynharach ac ymatebion mwy cydlynol i blant a theuluoedd ledled Gogledd Cymru.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys ymgorffori a gwerthuso'r defnydd o'r Siarter Plant ymhellach yn ymarferol, parhau i gryfhau effeithiolrwydd is-grwpiau Grŵp Plant y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, cefnogi timau lleol i drosi momentwm partneriaeth yn welliannau gwasanaeth pendant, a datblygu mesurau cliriach o effaith ar brofiad a chanlyniadau plant. |
| **Gwasanaethau Fferylliaeth (4M)**<br><br>Ffocws yr amcan hwn oedd cryfhau prosesau rheoli meddyginiaethau a gwasanaethau fferylliaeth drwy weithredu argymhellion allweddol o'r Adolygiad Annibynnol, gwella presgripsiynu yn seiliedig ar werth, a symud datblygiadau strategol ymlaen fel Radiofferyllfa ganolog a modelau fferyllfa gymunedol ar gyfer rheoli cyflyrau hirdymor. Mae hefyd yn anelu at gefnogi anghenion y gweithlu ac addysg yn y dyfodol trwy gyflwyno'r rhaglen | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ddatblygu is-amcan y *Gwasanaethau Fferylliaeth* drwy hybu cynllunio gweithredu ar gyfer yr Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Fferylliaeth Glinigol Ysbytai drwy drefniadau sicrhau darpariaeth cenedlaethol, cwblhau a rhannu'r gwerthusiad o'r peilot gorbwysedd fferyllfa gymunedol, sefydlu rhaglen addysg MPharm gynaliadwy gyda Phrifysgol Bangor, ymgorffori monitro gwerth am feddyginiaethau gwell mewn gofal diabetes, a datblygu rhaglen drawsnewid Gwasanaethau Technegol Fferyllfa TrAMS gyda llywodraethu ffurfiol a rheolaeth rhaglen ar waith. Mae'r gwaith hwn wedi cael effaith alluogol ond ystyrlon drwy gryfhau cysondeb a sicrwydd gwasanaethau fferylliaeth glinigol, dangos gwell mynediad a phrofiad cleifion drwy reoli cyflyrau hirdymor dan arweiniad fferyllfeydd, gwella tryloywder a llywodraethu gwariant presgripsiynu, a mynd i'r afael â gwydnwch hirdymor y gweithlu drwy biblinell |

| | |
|---|---|
| MPharm mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor.<br><br>3 / 5 targed wedi'i gyflawni. | addysg fferylliaeth leol newydd, a thrwy hynny osod sylfeini cryf ar gyfer gofal fferyllol mwy diogel, teg a chynaliadwy i boblogaeth Gogledd Cymru.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys bwrw ymlaen â gweithredu argymhellion yr Adolygiad Annibynnol ledled Cymru, trosi gwaith gwerth am feddyginiaethau diabetes yn welliannau canlyniadau mesuradwy, cwblhau'r asesiad opsiynau TrAMS ac unrhyw achosion busnes gofynnol ar gyfer ad-drefnu radiofferyllfa, ymgorffori rhaglenni mewn i arferion rheolaidd gan nodi cerrig milltir clir ac olrhain buddion, a pharhau i alinio â blaenoriaethau cenedlaethol i sicrhau effaith gynaliadwy. Gellir canfod y targedau cyflawni heb eu cwblhau yn Adran ganlynol Cynllun Cyflawni Blynyddol 2026/27: 3H – Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaethau |
| **Gofal Lliniarol, Diwedd Oes a Phrofedigaeth (4N)**<br><br>Ffocws yr amcan hwn oedd cryfhau gofal lliniarol a gofal diwedd oes drwy ddatblygu cynllun cyflawni strategol, gwella cefnogaeth yn ystod profedigaeth drwy fodel SWAN, ac alinio gwasanaethau â disgwyliadau ansawdd cenedlaethol. Mae hefyd yn anelu at wella'r gallu i wneud penderfyniadau a gwella gwasanaethau drwy gynllun gweithlu pwrpasol, strategaeth gwella ansawdd, a chefnogi achosion busnes.<br><br>2 / 4 targed wedi'i gyflawni. | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ddatblygu'r is-amcan *Gofal Lliniarol, Gofal Diwedd Oes a Phrofedigaeth* drwy ailsefydlu arweinyddiaeth a chefnogaeth weithredol yn dilyn cyfnod o swyddi gwag, ffurfio grŵp strategol newydd, drafftio Cynllun Cyflawni Strategol ar gyfer Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes, cynnal gwaith cyflenwi nyrsys arbenigol clinigol a chyngor meddygol saith diwrnod, parhau â gweithgarwch cynllunio'r gweithlu, a bwrw ymlaen â gweithredu model profedigaeth SWAN er gwaethaf cyfyngiadau staffio. Mae'r gwaith hwn wedi cael effaith bositif o ran galluogi drwy sicrhau parhad a diogelwch gwasanaethau gofal lliniarol arbenigol ledled Gogledd Cymru, gan ddarparu mynediad cyson at gyngor a chefnogaeth i gleifion, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol, a darparu gofal profedigaeth tosturiol a dderbynnir yn dda drwy gynlluniau peilot SWAN sydd wedi cefnogi perthnasau a chryfhau arferion diwedd oes ar wardiau.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys cwblhau a chymeradwyo'r Cynllun Cyflawni Strategol, cryfhau a ffurfioli aelodaeth y grŵp strategol, cwblhau recriwtio i gefnogi'r broses gyflwyno SWAN lawn, gwella prosesau casglu data gweithgarwch i lywio cynllunio'r gweithlu, archwilio opsiynau i wella gwaith cyflenwi arbenigol (yn enwedig yn y Dwyrain), ac ymgorffori'r model gweithredu y cytunwyd arno i alinio'r ddarpariaeth yn llawn â Datganiad Ansawdd Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes. Gellir canfod y targedau cyflawni heb eu cwblhau yn Adran ganlynol Cynllun Cyflawni Blynyddol 2026/27: 2B – Gofal Cymunedol |
| **Deintyddol (4O)**<br><br>Ffocws yr amcan hwn oedd cryfhau gwasanaethau deintyddol gofal sylfaenol drwy ehangu mynediad, moderneiddio modelau gwasanaeth, a gwella gallu'r gweithlu drwy addysg, uwchsgilio, a dulliau arloesol o ddarparu gwasanaethau. Mae hefyd yn anelu at wella perfformiad, | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ddatblygu'r is-amcan *Deintyddol* drwy gyflawni ystod eang o gamau gweithredu i gynyddu darpariaeth gwasanaethau deintyddol cyffredinol (GDS) a chryfhau goruchwyliaeth y system, gan gynnwys dyfarnu £6m o gontractau deintyddol newydd ledled Gogledd Cymru, cyflwyno'r Porth Mynediad Deintyddol i symleiddio cofrestru cleifion, cynnal rhaglenni iechyd cyhoeddus ataliol mawr, datblygu cynllun addysg a hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer y gweithlu deintyddol drwy'r Academi Gofal Sylfaenol a Chymunedol, a gwella gweledigaeth a sicrwydd gwasanaethau deintyddol ar lefel y Bwrdd drwy adrodd ar berfformiad integredig, tra bod rhai blaenoriaethau fel llwybrau gofal yn y cartref ac |

| | |
|---|---|
| effeithlonrwydd a phrofiad cleifion drwy wella caffael, rheolaeth ariannol, prosesau rhestrau aros a gwelededd data perfformiad deintyddol.<br><br>7 / 10 targed wedi'i gyflawni. | adolygiadau galw a chapasiti CDS wedi'u datblygu'n rhannol ond heb eu cwblhau oherwydd llai o gapasiti uwch. Mae'r gwaith hwn wedi cael effaith bositif drwy gynyddu mynediad presennol a mynediad yn y dyfodol at ofal deintyddol y GIG, lleihau anghydraddoldebau iechyd y geg drwy raglenni ataliol cyfaint uchel gyda gostyngiadau amlwg mewn pydredd dannedd, cryfhau cynaliadwyedd y gweithlu drwy hyfforddiant wedi'i dargedu a gwella sgiliau, a gwella llywodraethu, tryloywder ac atebolrwydd ar gyfer gwasanaethau deintyddol ledled Gogledd Cymru.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys defnyddio contractau deintyddol newydd yn llawn i wireddu manteision mynediad ar lefel y boblogaeth, cwblhau'r llwybr gofal deintyddol cartref, cwblhau adolygiadau galw a chapasiti CDS a chamau gweithredu i wella rhestrau aros a pharhau i gryfhau capasiti uwch arweinyddiaeth i gyflawni'r blaenoriaethau sy'n weddill a chynnal gwelliannau hirdymor mewn mynediad, atal a pherfformiad. Gellir canfod y targedau cyflawni heb eu cwblhau yn Adran ganlynol Cynllun Cyflawni Blynyddol 2026/27: 2A Gofal Sylfaenol, 2B Gofal Cymunedol |
| **Diabetes (4P)**<br><br>Ffocws yr amcan hwn oedd cryfhau gofal diabetes drwy gynyddu darpariaeth yr 8 Proses Gofal, ehangu mynediad at dechnolegau newydd fel systemau 'Hybrid Closed Loop', a gwella cefnogaeth amlddisgyblaethol arbenigol. Mae hefyd yn anelu at ddatblygu modelau gwasanaeth oedolion mwy cynhwysfawr i fodloni gofynion cenedlaethol ac ymateb i'r galw cynyddol.<br><br>2 / 4 targed wedi'i gyflawni. | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, datblygodd y Bwrdd Iechyd y rhaglen *Diabetes* drwy sefydlu data sylfaenol a dechrau monitro'r 8 proses gofal diabetes, gan gyflawni gwelliannau cynnar yn erbyn targedau cenedlaethol, gwerthuso agweddau ar y pontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion, a datblygu achos busnes manwl a dull blaenoriaethu ar gyfer mabwysiadu technoleg diabetes sef Hybrid Closed Loop (HCL), ochr yn ochr â gwaith paratoi i alinio llwybrau diabetes â'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol ehangach a gweithgaredd *Sylfeini'r Dyfodol*. Mae'r gwaith hwn wedi dechrau cyflawni effaith fesuradwy, gyda chynnydd cymedrol yn nifer y bobl sy'n derbyn pob un o'r 8 proses gofal, ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n gysylltiedig â chanlyniadau gwell a llai o gymhlethdodau, a pharodrwydd system cliriach ar gyfer gofal a alluogir gan dechnoleg, sydd â'r potensial i leihau'r llwyth triniaeth ddyddiol yn sylweddol a gwella ansawdd bywyd pobl â diabetes Math 1 a'u teuluoedd ledled Gogledd Cymru; fodd bynnag, mae manteision ar lefel y boblogaeth yn dal i fod yn eu cyfnod cynnar.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys cynyddu gwelliant ar draws yr 8 proses gofal i gyflawni buddion ar gyflymder ac ar raddfa fawr, bwrw ymlaen â chyllid a gweithrediad systemau Hybrid Closed Loop, ymgorffori llwybr pontio cyson a chynaliadwy i wasanaethau oedolion o fewn y Cynllun Gwasanaethau Clinigol, a throsi gwaith sylfaenol yn welliannau cynaliadwy mewn atal, ymyrraeth gynnar a chanlyniadau hirdymor ar gyfer y boblogaeth ddiabetig. |
| **Amcan 5: Amgylchedd Effeithiol ar gyfer Dysgu a Datblygu Sgiliau** | |
| **Partneriaethau â Phrifysgolion (5A)**<br><br>Ffocws yr amcan hwn oedd cryfhau ac ehangu partneriaethau strategol | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ddatblygu'r is-amcan *Partneriaethau â Phrifysgolion ac Addysg Bellach* drwy ffurfioli perthnasoedd strategol â phob prif bartner addysg uwch a phellach yng Ngogledd Cymru drwy Femoranda Cyd-ddealltwriaeth wedi'u llofnodi â Phrifysgol Bangor, |

| | |
|---|---|
| â sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach i wella ymchwil, addysg, hyfforddiant ac arloesedd, gan gefnogi Dynodiad Prifysgol y Bwrdd Iechyd. Mae hefyd yn anelu at sicrhau datblygiadau addysg rhanbarthol mawr—gan gynnwys Ysgol Feddygol Gogledd Cymru, rhaglen MPharm, a strategaeth addysg ddeintyddol—er mwyn adeiladu gweithlu medrus ar gyfer y dyfodol.<br><br>6 / 7 targed wedi'i gyflawni. | Prifysgol Wrecsam a Grŵp Llandrillo Menai, cytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Choleg Cambria, a sefydlu Grwpiau Llywio Strategol i oruchwylio'r ddarpariaeth a'r cydweithio parhaus mewn addysg, hyfforddiant, ymchwil a datblygu. Mae'r gwaith hwn wedi cael effaith bositif drwy gryfhau a chydlynu piblinellau addysg y gweithlu, gwella dealltwriaeth ar draws y system o anghenion sgiliau presennol a rhai'r dyfodol, gwella cyfleoedd ar gyfer ymchwil ac arloesi, cefnogi trefniadau comisiynu a llywodraethu mwy effeithlon, ac atgyfnerthu uchelgais y Bwrdd Iechyd i gynnal ei ddynodiad Prifysgol, a thrwy hynny gyfrannu at gynaliadwyedd gwasanaeth hirdymor a budd i gleifion ledled Gogledd Cymru.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys ymgorffori'r dull partneriaeth ranbarthol yn llawn, parhau â gwaith Grwpiau Llywio Strategol i gyflawni cynlluniau y cytunwyd arnynt, alinio partneriaid addysg yn agosach â datblygiad y Cynllun Gwasanaethau Clinigol, a datblygu rhaglenni blaenoriaeth fel yr Ysgol Feddygol, datblygu MPharm a strategaeth y gweithlu deintyddol yn unol â rhyngddibyniaethau ac amserlenni cydlynol. Gellir canfod y targedau cyflawni heb eu cwblhau yn Adran ganlynol Cynllun Cyflawni Blynyddol 2026/27: 4E – Ymchwil, Datblygu ac Arloesi |
| **Ymchwil ac Arloesi (5B)**<br><br>Ffocws yr amcan hwn oedd cryfhau ecosystem ymchwil ac arloesi'r Bwrdd Iechyd drwy sefydlu seilwaith cefnogol, partneriaethau arbenigol, a chanllawiau hygyrch i arloeswyr. Mae hefyd yn anelu at gynyddu gweithgaredd ymchwil a dyfnhau cydweithio â phartneriaid academaidd trwy gynyddu penodiadau ar y cyd ac er anrhydedd.<br><br>2 / 3 targed wedi'i gyflawni. | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ddatblygu'r is-amcan *Ymchwil, Datblygu ac Arloesi* drwy sefydlu seilwaith cymorth arloesi strwythuredig i helpu staff a phartneriaid i gael mynediad at gyngor arbenigol, datblygu llinell o brosiectau arloesi ac ymchwil, cryfhau capasiti drwy benodi partneriaethau a chymrodyr ymchwil gyda sefydliadau academaidd lleol, a hyrwyddo cydweithio â Phrifysgol Bangor i gefnogi twf yn y dyfodol mewn gallu ymchwil. Mae'r gwaith hwn wedi cael effaith bositif drwy gynyddu capasiti a gallu ymchwil rhanbarthol, gan alluogi poblogaeth Gogledd Cymru i gymryd rhan mewn astudiaethau masnachol ac anfasnachol o ansawdd uchel gyda mynediad at dechnolegau a thriniaethau newydd, cryfhau recriwtio a chadw staff, a chefnogi arloesedd sydd â'r potensial i wella canlyniadau iechyd a darparu buddion economaidd a chlinigol tymor hwy.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys mynd i'r afael â chyfyngiadau capasiti o fewn gwasanaethau cymorth i alluogi twf mewn gweithgaredd, ymgorffori adnoddau ychwanegol i gyflawni cynnydd cynaliadwy mewn cyfranogiad ymchwil, ehangu swyddi academaidd cydweithredol, a datblygu'r biblinell arloesi i drosi syniadau yn ymchwil ar raddfa fawr, gwella gwasanaethau a chyfleoedd masnachol posibl. Gellir canfod y targedau cyflawni heb eu cwblhau yn Adran ganlynol Cynllun Cyflawni Blynyddol 2026/27: 4E – Ymchwil, Datblygu ac Arloesi |
| **Gyrfaoedd Academaidd (5C)**<br><br>Ffocws yr amcan hwn oedd diffinio a datblygu llwybr gyrfa academaidd clir o fewn y Bwrdd Iechyd drwy ymgysylltu â staff, cytuno ar ddiffiniad lleol, ac archwilio | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ddatblygu'r is-amcan *Gyrfaoedd Academaidd* drwy sefydlu Grŵp Gwaith Cymunedau Buddiant gyda chylch gorchwyl cytunedig, datblygu Fframwaith Gyrfaoedd Academaidd lleol amlinellol, cwblhau adolygiad llenyddiaeth, drafftio rhaglen gweithdy ymgysylltu, a chryfhau aliniad â gwaith cenedlaethol dan arweiniad Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a pholisi mewnol Pobl a Datblygu Sefydliadol, ochr yn |

| | |
|---|---|
| modelau arfer gorau. Ei nod yw sefydlu'r sylfeini ar gyfer fframwaith llywodraethu sy'n cefnogi ac yn cryfhau datblygiad gyrfa academaidd.<br><br>1 / 2 targed wedi'i gyflawni. | ochr â chyflwyno papur trafod i'r Pwyllgor Gweithredol. Mae'r gwaith hwn wedi cael effaith alluogi drwy greu strwythurau lleol cliriach, dealltwriaeth a rennir ac aliniad strategol i gefnogi datblygiad gyrfa academaidd, cryfhau cysylltiadau ag agendâu ymchwil a'r gweithlu, a gosod y sylfaen ar gyfer recriwtio, cadw a meithrin gallu gwell a fydd yn y pen draw yn cefnogi gofal, arloesedd a chanlyniadau gwell i boblogaeth Gogledd Cymru.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys datblygu'r Fframwaith Gyrfaoedd Academaidd ymhellach a'i Fireinio drwy'r Gymuned Fuddiant, casglu data sylfaenol i alluogi monitro ac adrodd yn y dyfodol, cyd-fynd ag unrhyw ddiffiniad gyrfaoedd academaidd cenedlaethol y cytunwyd arno, a gwreiddio llwybrau gyrfa academaidd o fewn cynlluniau datblygu ehangach y gweithlu, ymchwil a sefydliadol. Gellir canfod y targedau cyflawni heb eu cwblhau yn Adran ganlynol Cynllun Cyflawni Blynyddol 2026/27: 4F – Partneriaethau a Phrosiectau Addysg, Gyrfaoedd Academaidd a Chyfatebiaeth Strategol Addysg |
| **Seiliedig ar Wybodaeth (5D)**<br><br>Ffocws yr amcan hwn oedd cryfhau gallu deallusrwydd a dadansoddeg y Bwrdd Iechyd drwy wella ansawdd data, ehangu awtomeiddio, a moderneiddio'r seilwaith data. Ei nod yw sicrhau bod penderfyniadau cynllunio a gweithredol yn cael eu llywio fwyfwy gan fewnwelediad o ansawdd uchel, dadansoddeg ragfynegol, a gwybodaeth amser real hygyrch.<br><br>5 / 6 targed wedi'i gyflawni. | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, cyflawnodd y Bwrdd Iechyd is-amcan *Sefydliad Seiliedig ar Wybodaeth* drwy ymgorffori dulliau sy'n seiliedig ar wybodaeth ar draws chwe blaenoriaeth, gan gynnwys cwblhau prawf o gysyniad Awtomeiddio Prosesau Robotig, cyflwyno nod barcut ansawdd data ar draws setiau data blaenoriaeth, cryfhau modelu rhagweld a galw, defnyddio seilwaith data wedi'i foderneiddio, a lansio porth deallusrwydd IRIS gwell, gyda phob carreg filltir wedi'i chyflawni ac eithrio elfennau o ddadansoddeg ragfynegol yr effeithiwyd arnynt gan bwysau gweithredol. Mae'r gwaith hwn wedi cael effaith bositif o ran galluogi drwy wella ansawdd a sicrwydd data, gwella rhagweld a chynllunio galw (gan gynnwys modelu gwasanaethau cleifion allanol canser ac RTT cyfunol), cryfhau mewnwelediad gweithredol amser real, a chefnogi gwneud penderfyniadau mwy rhagweithiol a gwybodus ar draws gwasanaethau fel gofal brys ac argyfwng, a thrwy hynny'n gwella ymatebolrwydd a chynllunio sefydliadol ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys cwblhau'r datblygiad dadansoddeg rhagfynegol sy'n weddill, cyflwyno'r nod ansawdd data yn ehangach, ehangu'r capasiti awtomeiddio ymhellach o dan drefniadau llywodraethu'r Awdurdod Dylunio Clinigol, datblygu'r map ffordd i ddadansoddeg cwmwl, ac ymgorffori dulliau sy'n seiliedig ar wybodaeth yn gyson ar draws pob llwybr clinigol a gweithredol i wireddu'r buddion mwyaf posibl. Gellir canfod y targedau cyflawni heb eu cwblhau yn Adran ganlynol Cynllun Cyflawni Blynyddol 2026/27: 4D – Digidol, Data a Deallusrwydd |
| **Sefydliad sy'n Dysgu (5E)**<br><br>Ffocws yr amcan hwn oedd cryfhau gallu'r Bwrdd Iechyd fel Sefydliad sy'n Dysgu drwy wella sut mae'n casglu, gwerthuso a rhannu'r hyn a ddysgwyd o ddigwyddiadau, cwynion, cynllunio addysg ac | **Y Gwaith a Gwblhawyd a'r Effaith**<br>Yn ystod 2025/26, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ddatblygu'r is-amcan *Sefydliad sy'n Dysgu* drwy sefydlu mecanweithiau dysgu sefydliadol craidd a'u haeddfedu'n llawn, gan gynnwys y Fforwm Dysgu Sefydliadol, Storfa Ddysgu ganolog a phrosesau adolygu thematig, a thrwy gryfhau trefniadau llywodraethu a sicrwydd ar gyfer dysgu o ddigwyddiadau, cwynion ac ymholiadau cenedlaethol drwy lwybrau uwchgyfeirio cliriach a grwpiau goruchwylio cydlynol. Mae'r gwaith hwn wedi cael effaith bositif drwy wella |

| | |
|---|---|
| ymholiadau cenedlaethol. Ei nod yw ymgorffori dysgu mwy systematig, ar draws y sefydliad, sy'n sbarduno gwelliant parhaus mewn gofal cleifion a pherfformiad sefydliadol.<br><br>3 / 4 targed wedi'i gyflawni. | gwelededd, hygyrchedd a chysondeb dysgu a rennir, meithrin diwylliant dysgu mwy agored ac ymarferol, cryfhau mewnwelediad system-gyfan o wybodaeth am ddiogelwch cleifion a phrofiad, a galluogi camau gwella mwy targedig, a thrwy hynny gefnogi gofal cleifion mwy diogel ac o ansawdd uwch i boblogaeth Gogledd Cymru.<br>**Beth sydd ar ôl i'w wneud?**<br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill ar gyfer 2026/27 yn cynnwys ymgorffori ymgysylltiad â fforymau dysgu ymhellach, monitro a chynyddu presenoldeb a chyfranogiad, parhau i leihau digwyddiadau a niwed trwy gymhwyso dysgu'n gryfach, mireinio comisiynu a gwerthuso adolygiadau thematig, a dangos effaith gynaliadwy dysgu sefydliadol ar ansawdd, diogelwch a chanlyniadau cleifion.  Gellir canfod y targedau cyflawni heb eu cwblhau yn Adran ganlynol y Cynllun Cyflawni Blynyddol 2026/27: 4H – Ansawdd |

## 3. PROSES RHEOLI NEWIDIADAU

3.1. Yn unol â phrosesau sefydledig, caiff ceisiadau am newidiadau i'r cynllun eu hasesu i sicrhau bod y broses gynllunio yn parhau i fod yn hyblyg ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau diweddaraf y sefydliad. Ni wnaed unrhyw geisiadau i newid Cynllun Cyflawni Blynyddol 2025/26.

3.2. Mae'r broses rheoli newid yn cael ei hadolygu a bydd yn cael ei diweddaru i adlewyrchu'r dull cynllunio parhaus a fabwysiadwyd ar gyfer datblygu Cynllun Tair Blynedd 2026-29 er mwyn sicrhau bod y cynllun yn gallu parhau i fod yn hyblyg ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau sefydliadol, a bod cofnodion archwiliadwy llawn yn cael eu cadw er mwyn tryloywder.

## 4. CAMAU NESAF

4.1. Ar 26 Mawrth cymeradwyodd y Bwrdd gyflwyniad cynllun y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2026/29, er iddo gydnabod, o ystyried ei anallu i gyflwyno IMTP mantoledig, y byddai'r cynllun yn Gynllun Blynyddol wedi'i osod mewn cyd-destun tair blynedd.  Mae Adran 4 o'r Cynllun hwnnw'n cynrychioli'r Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 26/27, sy'n adeiladu ar y momentwm a gafwyd yn ystod y flwyddyn hon gydag aeddfedrwydd cryfach ar draws pob maes.

4.2. Mae'r Tîm Cynllunio wedi hwyluso gweithredu Cynllun 2026/27: gan ei ledaenu drwy'r sefydliad – gan gynnwys ei ymgorffori yn y broses o osod amcanion ledled y sefydliad, ei rannu gyda phartneriaid, a'i gyhoeddi'n ffurfiol ar ei dudalennau rhyngrwyd fel fersiwn y gellir ei defnyddio o ddydd i ddydd.

4.3. Gan barhau â'r daith honno o gryfhau aeddfedrwydd a gallu cynllunio ar draws y sefydliad, gofynnir am fyfyrdodau ac adborth i helpu i lywio gwelliannau i'r prosesau cynllunio.  Yn ogystal, bydd y Bwrdd Iechyd yn defnyddio Hunanasesiad y Matrics Aeddfedrwydd Cynllunio i fyfyrio ar yr hyn sydd wedi gwella a nodi meysydd i'w datblygu ymhellach.  Bydd y myfyrdodau a'r dysgu a rennir, ynghyd â dealltwriaeth glir o ble mae'r sefydliad o ran

aeddfedrwydd cynllunio, yn llywio'r adolygiad o'r Fframwaith Cynllunio Integredig a'r canllawiau a'r gefnogaeth gynllunio ddilynol.

4.4. Yn y cyfamser, mae gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi monitro ac adrodd cadarn yn erbyn y Cynllun Cyflawni Blynyddol, gan gynnwys adrodd ac amlder diwygiedig i sicrhau bod systemau rhybuddio cynnar ar waith a bod modd cymryd camau cywiro'n gynharach. Mae mwy o waith ar y gweill i alinio cylchoedd busnes ac adrodd ar draws nifer o swyddogaethau corfforaethol i sicrhau cysondeb, safoni prosesau adrodd a lleihau dyblygu. Bydd y cylch cynllunio ymlaen llaw yn galluogi pwyllgorau a grwpiau allweddol i gymryd rhan lawn mewn cynllunio parhaus drwy gydol y flwyddyn a chael golwg glir ar gynnydd drwy gydol y cylch cynllunio blynyddol.

4.5. Fel y nodwyd yn adran 3 uchod, gan gyfleu'r angen i sicrhau bod y cynllun yn gallu dal ati i fod yn hyblyg ac yn ymatebol i anghenion ac amgylcheddau sy'n newid, bydd proses Rheoli Newid ar gyfer y Cynllun Cyflawni Blynyddol yn cael ei hadolygu a'i diweddaru, gan sicrhau bod y sefydliad yn cynnal llinellau clir o archwilio ac atebolrwydd am unrhyw newidiadau i'r cynllun.

## 5. ARGYMHELLION

5.1. Fel y cytunwyd drwy'r Grŵp Cynllunio Strategol a Newid Gwasanaethau (SPSC) a'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth ac Atal (PPHP), dan Gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr, gofynnir i Aelodau'r Bwrdd NODI bydd yr adroddiad Cynllun Cyflawni Blynyddol (ADP) hwn yn ymgorffori'r adroddiadau a oedd ar wahân o'r blaen ar Raglenni Allweddol a Gwasanaethau sy'n Wynebu Heriau, er mwyn symleiddio prosesau adrodd yn y dyfodol.

5.2. Gofynnir i'r Pwyllgor:

**DERBYN SICRWYDD** ar y cynnydd a wnaed yn ystod 2025/26 a nodi sefyllfa diwedd y flwyddyn o ran cyflawni yn erbyn Cynllun Cyflawni Blynyddol 2025/26.

**NODI'R** gwaith i a gaiff ei wneud i adolygu'r broses Rheoli Newid yn unol ag adrodd yn erbyn y Cynllun Cyflawni Blynyddol.

| **ASESIAD / ASSESSMENT** | |
|---|---|
| **Cyswllt â'r Blaenoriaethau Strategol**<br>**Link to Strategic Priorities** | Choose an item. |
| | Pawb |

| | |
|---|---|
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: |
| **Yr Egwyddorion Dylunio**<br>**Design Principles** | Choose an item.<br>Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below:<br><br>Pawb |
| **Fframwaith Risgiau Corfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd**<br>**Corporate Risks and Board Assurance Framework** | Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR)<br>Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks (cross reference to the BAF and CRR) |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant**<br>**Wellbeing of Future Generations Act – Wellbeing Goals** | Cymru Iachach |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: |

| ASESIADAU O EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS | | |
|---|---|---|
| **Cydraddoldeb**<br>*A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (sy'n cynnwys gofynion Safonau'r Gymraeg)*<br>**Equality**<br>*Have you undertaken an Equality Impact Assessment Screening (which includes the requirements of the Welsh Language Standards)* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, nodwch y rhesymau:<br>If no, please include rationale: | *Amh.* |
| **Asesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol**<br>*A ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol?*<br>**Socio-Economic Impact Assessment**<br>*Have you undertaken a Socio-Economic Impact Assessment* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, nodwch y rhesymau:<br>If no, please include rationale: | *Amh.* |

| | | |
|---|---|---|
| **Ansawdd**<br>*A ydych chi wedi ymgymryd â phrawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd?*<br>**Quality**<br>*Have you undertaken a Quality Impact Assessment Screening?* | **Galluogwyr Ansawdd**<br>**Enablers of Quality**<br>Choose an item. | **Meysydd Ansawdd**<br>**Domains of Quality**<br>Choose an item. |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: |
| | | |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant**<br>**Wellbeing of Future Generations Act – Wellbeing Goals** | Cymru Iachach | |

| | | |
|---|---|---|
| **Effaith Amgylcheddol / Cynaliadwyedd (5Rs)**<br>**Environmental /Sustainability Impact (5Rs)** | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: | |
| | No - Not Applicable | |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny:<br>If more than one applies, please list: | |
| **Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog**<br>A ydych chi wedi ystyried Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog:<br>**Armed Forces Covenant Due Regard Duty**<br>Have you considered the Armed Forces Covenant Due Regard Duty? | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, nodwch y rhesymau:<br>If no, please include rationale: | Amh. |
| **Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data**<br>*A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data?*<br>**Data Protection Impact Assessment** | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, nodwch y rhesymau: | Amh. |

| | | |
|---|---|---|
| *Have you undertaken a Data Protection Impact Assessment Screening?* | If no, please include rationale: | |
| **Asesiad o Effaith ar Atal Twyll**<br>*A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau ar atal twyll?*<br>**Counter Fraud Impact Assessment**<br>*Have you considered the counter fraud impacts* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, nodwch y rhesymau:<br>If no, please include rationale: | Amh. |
| **Cyfreithiol**<br>**Legal** | There are no specific legal implications related to the activity outlined in this report. | |
| | | |
| **Enw Da**<br>**Reputational** | There is no direct impact on the reputation of the Health Board as a result of the activity outlined in this report. | |
| | | |
| **Effaith ar Adnoddau**<br>*(Pobl / Ariannol)*<br>**Resource Impact**<br>*(People / Financial)* | There is no direct impact on resources as a result of the activity outlined in this report. | |
| | | |

# Bwrdd Iechyd

## ADRODDIAD AR RAGLENNI ALLWEDDOL

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod**<br>**Date of Meeting** | 28 Mai 2026 |
| **Statws Cyhoeddi**<br>**Publication Status** | Agored/Cyhoeddus |
| | Amherthnasol |
| **Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad**<br>**Report Author name and title** | Geraint Parry, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Trawsnewid (Dros Dro) |
| **Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol**<br>**Lead Executive Team Member name and title** | Paolo Tardivel, Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio (Dros Dro) |

| | |
|---|---|
| **Pwrpas yr Adroddiad**<br>**Report Purpose** | I'w nodi |

**Crynodeb Gweithredol**
**Executive Summary**

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o sefyllfa ddiweddaraf portffolio gwaith y Rhaglenni Allweddol. Diben yr adroddiad yw rhoi trosolwg lefel uwch o'r statws a'r heriau presennol i aelodau'r Bwrdd, gan gydnabod bod y pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau (PPHP) yn gwneud gwaith craffu mwy manwl ar draws pob agwedd ar y rhaglenni, yn cynnwys yn ei gyfarfod ym mis Mai.

Mae'r papur yn amlinellu'r cynnydd da a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mewn rhaglenni sy'n gymhleth i'w cyflawni ac yn aml yn cynnwys partneriaid allanol. Bu rhai cyflawniadau sylweddol drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys gweithredu'r system Presgripsiynu a Gweinyddu Meddyginiaethau yn Electronig (EPMA), Prosiect System Gwybodeg y Gwasanaethau Radioleg (RISP) a'r System Ddigidol ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth.

Fodd bynnag, mae nifer o raglenni'n wynebu heriau sylweddol. Mae'r rhain yn cynnwys y System Rheoli Gwybodaeth Labordy (LIMS) lle mae nifer o dargedau cyflawni allweddol cenedlaethol wedi'u methu, ac atal y Cofnod Gofal Iechyd Electronig (EHR) dros dro yn dilyn cyfarwyddeb genedlaethol sy'n effeithio ar amcanion trawsnewid PBC.

| |
|---|
| Mae agor yr Hwb Gofal wedi'i Gynllunio yn Llandudno wedi'i ohirio oherwydd problem gyda'r unedau trin aer, ac nid oes dyddiad agor wedi'i gadarnhau hyd yma. Ar y cyfan, er bod PPHP wedi nodi'r diweddariad a'r cynnydd positif, ni ystyriwyd ei bod yn bosibl derbyn sicrwydd llawn ac mae angen rhoi camau unioni ar waith gyda phartneriaid i sicrhau bod y rhaglenni hyn ar y trywydd iawn. |

| **Ymgysylltu (mewnol/allanol) yr ymgymerwyd ag ef hyd yma (gan gynnwys derbyn/ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp)<br>Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)** | | |
|---|---|---|
| **Pwyllgor / Grŵp / Unigolion<br>Committee / Group / Individuals** | **Dyddiad<br>Date** | **Canlyniad, Tystiolaeth a Data<br>Outcome, Evidence and Data** |
| Cynllunio Strategol a Newid Gwasanaethau | 23 Ebrill 2026 | Wedi'i gymeradwyo i'w gyflwyno i PPHP |
| PPHP | 7 Mai 2026 | Nodwyd y Diweddariad |

| **Acronymau / Rhestr Termau<br>Acronyms / Glossary of Terms** | |
|---|---|
| SPSCG | Grŵp Cynllunio Strategol a Newid Gwasanaethau |
| PPHP | Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau |
| IMTP | Cynllun Tymor Canolig Integredig |
| RISP | Prosiect System Gwybodeg y Gwasanaethau Radioleg |
| EPMA | Presgripsiynu a Gweinyddu Meddyginiaethau yn Electronig |
| PIR | Adolygiad Ôl-weithredu |
| IHC | Cymuned Gofal Iechyd Integredig |
| SRO | Uwch Swyddog Cyfrifol |
| COO | Prif Swyddog Gweithredu |
| RPB | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
| DHCW | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |
| IRCF | Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso |
| LIMS | System Rheoli Gwybodaeth Labordai |
| EHR | Cofnod Gofal Iechyd Electronig |
| ADP | Cynllun Cyflawni Blynyddol |
| LIC | Llywodraeth Cymru |
| AGIC | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru |
| DMTP | Portffolio Meddyginiaethau a Thrawsnewid Digidol |
| DHCW | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |
| WP10 | Ffurflenni Presgripsiynu Cymru |
| WPAS | System Gweinyddu Cleifion Cymru |

| | |
|---|---|
| WBNS | System Hysbysu am Enedigaethau Cymru |
| EDT | Trosglwyddo Dogfennau'n Electronig |
| API | Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau |
| WCP | Porth Clinigol Cymru |
| SOC | Achos Amlinellol Strategol |
| OBC | Achos Busnes Amlinellol |
| BJC | Achos Cyfiawnhad Busnes |
| MOU | Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth |
| CSYM | Cyngor Sir Ynys Môn |
| DPIF | Cronfa Gwella Cynllunio Digidol |

## Adroddiad ar Raglenni Allweddol

1. **SEFYLLFA**

1.1 Dynododd y Bwrdd Iechyd 15 o Raglenni Allweddol yn ystod 2025/26 sy'n hanfodol i weddnewid y ddarpariaeth o wasanaethau iechyd a lles yng Ngogledd Cymru.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi'r trosolwg strategol diweddaraf i'r Bwrdd ac asesiad diwedd blwyddyn o gynnydd ar draws y rhaglenni hyn. Mae hyn yn adeiladu ar ddiweddariadau a ddarparwyd yn flaenorol i'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn (Mai 2025, Medi 2025, Ionawr 2026).

1.3 Mae diweddariadau mwy manwl ar lefel y rhaglen yn dal i gael eu rhannu â'r Grŵp Cynllunio Strategol a Newid Gwasanaethau ar gyfer goruchwyliaeth weithredol, gyda'r pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau (PPHP) hefyd yn derbyn adroddiadau am uchafbwyntiau yn rheolaidd yn y cyfamser fel rhan o oruchwyliaeth ar lefel y Bwrdd.

1.4 Mae nifer o'r rhaglenni wedi dod i ben yn ystod y flwyddyn ac felly ceir y diweddariad olaf amdanynt yn yr adroddiad hwn. Fel rhan o ddatblygiad yr IMTP, mae'r portffolio wedi'i ddiweddaru yn unol â'r cynnydd hwn, ac mae Sylfeini'r Dyfodol a Gwerth a Chynaliadwyedd yn cael eu trosglwyddo i'r portffolio hwn. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol fel rhan o adolygiadau cynnydd 2026/27.

2 **CEFNDIR**

2.1 Mae'r Rhaglenni Allweddol, sy'n gweithredu yn ychwanegol at y pedair Rhaglen Newid Mawr, yn gyfres o raglenni rhyng-gysylltiedig sy'n cynrychioli datrysiad gweddnewidiol i foderneiddio dull y Bwrdd Iechyd o ddarparu iechyd a lles a gwella iechyd y boblogaeth.

2.2 Categoreiddiwyd y rhaglenni hyn yn ystod Chwarter 1 2025/26, gan ddod â rhaglenni a oedd ar wahân o'r blaen at ei gilydd yn bortffolio cydlynol. Roedd hyn yn cyfleu pa mor bwysig yr oedd y Bwrdd Iechyd yn gweld yr elfen newid gwasanaethau a sicrhau canlyniadau gwell i gleifion trwy ffyrdd newydd o weithio, y tu hwnt i gyflawni amcanion rhaglenni unigol.

2.3 Mae'r rhaglenni a ddewiswyd i'w cynnwys yn cynrychioli mentrau strategol allweddol, sy'n cynrychioli newid trawsnewidiol sylweddol i'r sefydliad. Mae'r rhaglenni'n galluogi modelau newydd o ddarparu gwasanaethau ac yn cefnogi amcanion strategol y sefydliad, gan ddiwallu'r anghenion cyfredol yn ogystal â dechrau mynd i'r afael ag anghenion y boblogaeth yn y dyfodol gan ddarparu datrysiadau modern, addas at y diben ar gyfer y tymor hir.

2.4 Mae'r rhaglenni'n rhoi cyfle i wella integreiddio gwasanaethau gyda chydweithio ar draws y system, gan weithio gyda phartneriaid ac mewn cymunedau i ddarparu gwasanaethau cydgysylltiedig lle mae gan glinigwyr fynediad at ddatrysiadau technolegol modern a ddarperir mewn adeiladau addas at y diben.

## 3 MATERION PENODOL I'W HYSTYRIED

3.1 Mae gweithredu'r dull portffolio hwn, gan gynnwys adrodd yn rheolaidd yn y Grŵp Cynllunio Strategol a Newid Gwasanaethau (SPSCG), wedi arwain at wella goruchwyliaeth a chydlynu yn ystod 2025/26. Mae'r dull wedi parhau i esblygu ac aeddfedu yn ystod y flwyddyn ac mae wedi cefnogi uwchgyfeirio cynharach at y tîm Gweithredol ac ymyrraeth weithredol lle bo angen.

3.2 Mae nifer o raglenni wedi dod i ben yn ystod y flwyddyn yn unol â'r amserlenni disgwyliedig, sef Prosiect System Gwybodeg y Gwasanaethau Radioleg (RISP), Presgripsiynu a Gweinyddu Meddyginiaethau yn Electronig (EPMA) a'r System Ddigidol ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth. Bydd pob un o'r rhaglenni hyn yn mynd trwy Adolygiad Ôl-weithredu (PIR) ffurfiol ac mae gwersi cynnar a ddysgwyd eisoes yn nodi arferion positif i'w lledaenu ar draws rhaglenni yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys cefnogaeth lwyddiannus ar gyfer eu gweithredu a model cydweithredol ar ôl eu gweithredu rhwng DDaT, cyflenwyr, arweinwyr gwasanaeth ac uwch-ddefnyddwyr. Mae'r rhain yn ffurfio elfen bwysig o gyflawni newid yn llwyddiannus o fewn y sefydliad.

3.3 Mae graddfa'r gwaith a wnaed wrth gyflwyno EPMA yn ystod chwarter olaf y flwyddyn ariannol yn sylweddol ac yn hybu darpariaeth ansawdd a diogelwch o fewn y sefydliad mewn maes uchel o ran risg. Dechreuodd hyn gyda mabwysiadu cynnar yn Heddfan ym mis Rhagfyr ac ers hynny mae wedi ymestyn i bob maes cleifion mewnol mewn adrannau acíwt a chymunedol ym mhob IHC sy'n gyflawniad sylweddol i'r timau dan sylw.

3.4 Mae'r Tîm Gweithredol wedi cynnal adolygiad o gapasiti arweinyddiaeth ar draws y portffolio newid ac mae penderfyniad wedi'i wneud i drosglwyddo arweinyddiaeth yr Hybiau Iechyd a Lles i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Ystadau, a fydd yn cael ei benodi'n Uwch Swyddog Cyfrifol (SRO). Mae trefniadau'n cael eu gwneud i ddod â'r cydrannau unigol at ei gilydd o dan un Bwrdd Rhaglen i gyflymu cynnydd, a bydd hyn yn cyd-fynd â Rhaglen Newid Mawr Cymunedol o'r Cychwyn, sy'n parhau yng ngofal y Prif Swyddog Gweithredu (COO).

3.5 Gofynnwyd i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB) adnewyddu eu blaenoriaethau ac amserlenni ar gyfer y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso (IRCF) a chyflwynodd y Bwrdd Iechyd ddiweddariad o Raglen Cyflawni Cyfalaf IRCF i'r RPB ar 28 Ebrill. Mae hyn yn cadarnhau'r blaenoriaethau a'r dilyniant cyfredol ac yn cynnwys Canolfan Sylfaenol Porthmadog a fabwysiadwyd yn ffurfiol i'r portffolio hwn trwy IMTP eleni. Cymeradwyodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol y cais IRCF Cam 0 ym mis Chwefror ac mae cais i Lywodraeth Cymru am arian i ysgrifennu Achos Busnes yn cael ei ddrafftio a bydd diweddariadau'n cael eu cynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol.

3.6 Mae sawl targed cyflawni allweddol cenedlaethol yn parhau i fod heb eu cwblhau gyda'r System Rheoli Gwybodaeth Labordy (LIMS). Mae'r tîm Patholeg lleol yn cyfranogi ac yn ymgysylltu ac mae opsiynau'n cael eu hadolygu i ddod â'r gwaith Gwyddorau Gwaed ymlaen i sicrhau parhad busnes.

3.7 Mae'r diffyg cynnydd yn genedlaethol ynghylch Cofnod Gofal Iechyd Electronig (EHR) yn llesteirio ymdrechion lleol ynghylch y fenter hollbwysig hon. Wrth asesu rhyngddibyniaethau â'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol, mae'n amlwg bod mynediad at ddatrysiad modern, integredig, y gellir ei rannu hefyd â darparwyr arbenigol yng Ngogledd-orllewin Lloegr, yn hanfodol i ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy i boblogaeth Gogledd Cymru.

3.8 Yn dilyn adolygiad o fecanweithiau cynllunio ac adrodd, mae cyfleoedd wedi'u nodi i symleiddio elfen adrodd y portffolio Rhaglenni Allweddol hwn. Mae'r sefydliad yn aeddfedu ei ddull o gynllunio o flwyddyn i flwyddyn a bydd elfen adrodd y Cynllun Cyflawni Blynyddol (ADP) yn cael ei gydgrynhoi i ymgorffori sicrwydd pellach ynghylch cynnydd y rhaglenni hyn. Bydd hyn yn dileu dyblygu i staff gweithredu ac yn arwain at gyflwyno un set o adroddiadau i'r tîm gweithredol a phwyllgorau'r Bwrdd.

3.9 Mae problemau sylfaenol yn parhau ar draws nifer o'r rhaglenni. Mae'n werth nodi bod yr unig ddwy raglen sy'n nodi llawer o hyder yn y ddarpariaeth (System Ddigidol ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth ac EPMA) ar y cam olaf o'r broses gyflawni ar ôl cyrraedd cerrig milltir allweddol a newidiodd yr hyder yn y ddarpariaeth. Er cydnabod bod yr holl raglenni hyn yn gymhleth yn eu hanfod, cynhelir adolygiadau dysgu a fydd yn cynnwys penderfyniadau ar sut y gellir darparu mwy o sicrwydd a hyder yn gynnar.

3.10 Mae'r tabl canlynol yn darparu rhagor o wybodaeth gryno ar draws pob un o'r rhaglenni:

| Rhaglen | Crynodeb o'r Sefyllfa |
|---|---|
| **Iechyd Meddwl** | |
| **Uned Iechyd Meddwl Oedolion a Phobl Hŷn** i wella mynediad, ansawdd a diogelwch gofal iechyd meddwl ar draws y rhanbarth<br><br>*SRO: Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddorau Iechyd* | Mae cam presennol y rhaglen yn canolbwyntio'n bennaf ar yr achos busnes. Mae'r cynllun wedi derbyn cyfarwyddyd i fwrw ymlaen â chyllideb gyfalaf ddiwygiedig o £108.1m ac mae cydweithwyr cyfalaf yn parhau i archwilio'r llwybr caffael a fydd yn galluogi cyflawni'r cynllun o fewn cyllideb gyfalaf sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Mae rhai risgiau i gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru o'r achos busnes gan fod cyfeiriad y polisi cenedlaethol bellach yn rhoi pwyslais llawer cryfach ar ddarpariaeth yn y gymuned. Mae trafodaethau rheolaidd gyda chydweithwyr yn y Llywodraeth yn mynd rhagddynt o hyd ac mae'r achos busnes wedi'i lywio gan fodelau gofal sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac mae hefyd yn cynnig cau Bryn Hesketh sef un o'r unedau llai y mae'r strategaeth genedlaethol newydd yn canolbwyntio ar eu gwaredu. Mae yna hefyd ychydig o oedi posibl cyn gwneud penderfyniadau o ganlyniad i ddatblygu cynllun Cymru Gyfan. |
| **Cofnod Gofal Iechyd Meddwl Electronig** i wella ansawdd a diogelwch gofal sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl (pob oedran); gwella profiad staff.<br><br>*SRO: Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddorau Iechyd* | Mae cwmpas Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Pob Oedran yn gweithredu mewn 200 o leoliadau yng Ngogledd Cymru â thros 2,300 o weithwyr proffesiynol ymroddedig yn cefnogi 40+ o wasanaethau arbenigol i drigolion Gogledd Cymru a rhai cleifion o'r tu hwnt i'r ffin hon. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu ar bapur yn bennaf ac mae diffyg adnoddau digidol wedi'i nodi fel ffactor sy'n cyfrannu at farwolaethau cleifion, gan effeithio ar y broses o wneud penderfyniadau clinigol, cadw staff, heriau recriwtio a chydymffurfiaeth reoleiddiol, fel y'i hamlygwyd mewn nifer o adroddiadau Arolygiaeth Iechyd Cymru (AGIC) ac adolygiadau allanol, gan bwysleisio ei arwyddocâd fel mater cyfredol.<br><br>Mae angen newidiadau a moderneiddio sylweddol ar y gwasanaethau hyn o fewn BIPBC, ac mae'r angen am system Cofnod Gofal Iechyd Electronig (EHR) yn amlwg er mwyn gwella llifoedd gwaith, cyflawni gweithredol clinigol, cipio data, a thryloywder. Nid yw'r rhaglen hon yn ymwneud â thechnoleg yn unig ond yn hytrach â galluogi newid diwylliannol yn BIPBC - gan sicrhau bod |

| | |
|---|---|
| | diogelwch, ansawdd ac atebolrwydd wrth wraidd gofal. Mae cyflawni'r Cofnod Gofal Iechyd Electronig (EHR) yn hanfodol i flaenoriaethau Gweinidogol ar gyfer diogelwch cleifion, ansawdd a chynaliadwyedd y gweithlu.<br><br>Cynhaliwyd gwaith caffael ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn 2025, a chymeradwywyd yr Adroddiad Canlyniad Caffael ochr yn ochr ag Achos Busnes wedi'i ddiweddaru, yng nghyfarfod preifat y Bwrdd Iechyd ym mis Ionawr 2026. Mae'r Byrddau Iechyd bellach yn aros am gymeradwyaeth ffurfiol gan Lywodraeth Cymru i symud ymlaen i weithredu a chontractio. Mae gofyn am benderfyniad erbyn 5 Mehefin i aros o fewn cyfnod hyfywedd y tendr, fodd bynnag, roedd unrhyw benderfyniad cenedlaethol wedi'i ohirio oherwydd y cyfnod etholiad. |
| **Gofal wedi'i Gynllunio** | |
| **Hwb Gofal wedi'i Gynllunio Llandudno** i wella mynediad at ofal dewisol/wedi'i gynllunio, yn enwedig gwasanaethau orthopedig ar gyfer y rhanbarth<br><br>*SRO: Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid* | Yn ystod comisiynu Canolfan Lawfeddygol Gogledd Cymru, nodwyd problem gyda pherfformiad yr unedau trin aer. Y datrysiad i hynny yw cael ffannau newydd i fodloni'r gofynion perfformiad. Mae hyn wedi gohirio'r gwaith cwblhau ymarferol o fis Ebrill 2026 ac wedi gohirio derbyn y claf cyntaf o fis Mai 2026. Ar hyn o bryd mae deialog yn parhau gyda gwneuthurwr yr Unedau Trin Aer i gyflymu'r rhaglen o ailosod y ffannau ac felly ni ellir cadarnhau dyddiad agor newydd ar hyn o bryd. Bydd y lleoliad yn Abergele yn parhau i gael ei ddefnyddio ar gyfer llawdriniaethau cluniau a phen-gliniau newydd nes bod yr hwb yn agor. |
| **Gwella diogelwch, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gofal drwy ddigideiddio** | |
| **Cofnod Gofal Iechyd Electronig** i safoni a systemateiddio gofal ar draws y rhanbarth, gan ddefnyddio system ddigidol ar gyfer cofnodion a llif gwaith<br><br>*SRO: Prif Weithredwr* | Ar hyn o bryd nid oes gan BIPBC Gofnod Gofal Iechyd Electronig (EHR) modern. Mae'n defnyddio cymysgedd darniog o systemau cenedlaethol, lleol a phapur, sy'n effeithio'n ddyddiol ar ansawdd gofal. Mae BIPBC, fel pob Bwrdd Iechyd yng Nghymru, yn ddigidol anaeddfed. Nodwyd fod BIPBC ar gam 1 allan o 7 mewn asesiad aeddfedrwydd digidol gan y Gymdeithas Gwybodaeth a Systemau Rheoli Gofal Iechyd - Model Mabwysiadu Cofnodion Meddygol Electronig (HIMSS EMRAM) a gynhaliwyd yn 2023.<br><br>Mae diffyg systemau modern, digidol hefyd yn effeithio ar staff, sy'n cael eu gadael heb offer i ddiwallu anghenion clinigol a gweithredol. Mae seilwaith digidol hynafol yn parhau i lesteirio trawsnewid y ddarpariaeth |

| | |
|---|---|
| | gofal, gan arwain at ansawdd gofal anghyson ar draws gwasanaethau.<br><br>Mae buddsoddi mewn EHR cynhwysfawr a rhaglen drawsnewid ddigidol ategol yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn a chyflawni gweledigaeth strategol PBC, sef darparu gofal iechyd sydd wedi'i arwain yn glinigol a'i alluogi'n ddigidol yn unol â'r nod pedwarplyg ar gyfer pobl Gogledd Cymru.<br><br>Mae'r rhaglen wedi'i gohirio ar hyn o bryd tra'n disgwyl cyfarwyddyd cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru. Yng nghyfarfod Bwrdd y Rhaglen EHR ym mis Mawrth, cadarnhaodd arweinydd digidol Llywodraeth Cymru mai eu blaenoriaeth uniongyrchol yw datblygu pensaernïaeth ar gyfer targedau cenedlaethol a bydd gwaith ar y strategaeth EHR genedlaethol yn dechrau ym mis Mawrth. Eu bwriad yw cyflwyno golwg gyfannol, deng mlynedd ar drawsnewid digidol a buddsoddiad i'r Llywodraeth newydd erbyn diwedd mis Mai. Bydd y sefydliad yn parhau i wneud unrhyw waith paratoi posibl yn y cyfamser ac yn parhau i adrodd ar y rhaglen yn rheolaidd yn hytrach na'i hatal, oherwydd pwysigrwydd hanfodol y Cofnod Gofal Iechyd Electronig yng nghyd-destun gwaith trawsnewid ehangach. |
| **Presgripsiynu a Gweinyddu Meddyginiaethau yn Electronig** (ePMA) i wella ansawdd, diogelwch ac effeithlonrwydd gofal i gleifion ym meysydd gofal acíwt a chymunedol<br><br>*SRO: Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio* | Fel rhan o'r Portffolio Meddyginiaethau a Thrawsnewid Digidol (DMTP) dan arweiniad DHCW, mae BIPBC wedi llwyddo i gyflawni'r her uchelgeisiol o weithredu system ePMA ar draws pob maes cleifion mewnol. Mae hyn wedi golygu bod angen cydweithio agos rhwng timau meddygaeth, nyrsio, fferylliaeth a digidol i fynd i'r afael â heriau hirhoedlog wrth reoli meddyginiaethau, gan gynnwys aneffeithlonrwydd llifau gwaith, gwallau presgripsiynu, a'r angen am gofnodion meddyginiaethau diogel mewn amser real. Mae'r rhaglen yn cyd-fynd â blaenoriaethau Gweinidogol ar ansawdd, diogelwch ac effeithlonrwydd y gweithlu.<br><br>Yn dilyn cyfnod gweithredu o 12 wythnos, mae pob lleoliad â gwelyau cleifion mewnol acíwt a chymunedol ar draws BIPBC bellach yn defnyddio ePMA, gan lwyddo i gwrdd â therfyn amser cyllido Llywodraeth Cymru sef 31 Mawrth 2026.<br><br>Cydweithiodd timau Clinigol, Gweithredol, Rhaglen a Digidol ym mhob safle i gyflawni pob lansiad yn ddiogel |

| | |
|---|---|
| | ac yn effeithiol. Roedd pob lansiad yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o'r un blaenorol, gan gryfhau'r rhaglen a chefnogi rheoli meddyginiaethau'n fwy diogel ac effeithiol ar draws y sefydliad. Mae'r lansiadau llwyddiannus yn dangos ymroddiad a phroffesiynoldeb staff ar draws pob disgyblaeth, wedi'i ategu gan waith partneriaeth gref rhwng BIPBC, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) a chyflenwr y system sef Better Meds.<br><br>Mae'r gwaith o gyflwyno'r system ar gyfer gwasanaethau arbenigol cleifion allanol drwy ddefnyddio WP10s (ffurflenni Presgripsiwn Cymraeg) hefyd wedi dechrau yng Nghymunedau Iechyd Integredig y Dwyrain a'r Gorllewin, gyda Chymuned Iechyd Integredig y Canol yn dilyn yn fuan ar ôl eu gweithredu o fewn gwasanaethau cleifion mewnol. Mae hyn yn nodi carreg filltir arwyddocaol arall yn ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i foderneiddio rheoli meddyginiaethau a gwella diogelwch cleifion.<br><br>Mae'r tîm yn parhau i gefnogi defnyddwyr wrth iddynt ymgorffori ffyrdd newydd o weithio yn eu harferion bob dydd. Ochr yn ochr â hyn, mae gwaith ar y gweill i drawsnewid y gwasanaeth i fusnes fel arfer, gan sicrhau bod gweithgareddau cymorth parhaus, rheoli problemau ac optimeiddio yn cael eu trosglwyddo'n esmwyth i dimau gweithredu a digidol. Mae'r rhaglen bellach yn cyrraedd y cyfnod cau ffurfiol, gyda'r camau gweithredu, y ddogfennaeth a'r gweithgareddau llywodraethu sy'n weddill yn cael eu cwblhau mewn ffordd reoledig a strwythuredig i sicrhau trosglwyddo diogel a chynaliadwy a sylfaen sefydlog ar gyfer optimeiddio yn y dyfodol. |
| **System Ddigidol ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth** i wella ansawdd a diogelwch gofal i ferched beichiog a'u teuluoedd; i wella profiad staff<br><br>*SRO: Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Merched* | Gweithredwyd y System Ddigidol ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth yn llwyddiannus ar draws pob lleoliad Mamolaeth ar 10 Mawrth 2026. Hyd at 23 Ebrill roedd cyfanswm o 662 o fabanod wedi'u geni a'u rhoi ar y system; 284 yn Ysbyty Maelor Wrecsam, 190 yn Ysbyty Glan Clwyd a 188 yn Ysbyty Gwynedd.<br><br>Mae'r rhaglen yn cefnogi newid diwylliannol o fewn BIPBC, gan ymgorffori arferion mamolaeth sy'n cael eu galluogi'n ddigidol, gwella rhannu gwybodaeth, a gwella galluoedd gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn cyd-fynd â Blaenoriaeth Weinidogol 5 a disgwyliadau |

| | |
|---|---|
| | cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau mamolaeth diogel, wedi'u galluogi'n ddigidol.<br><br>Mae'r prosiect bellach yn symud i Gam 2 a fydd yn cynnwys nifer o integreiddiadau gan gynnwys:<br><br>• Viewpoint 6 i weld sganiau uwchsain.<br>• Porthiant 2 ffordd WPAS / System Hysbysu am Enedigaethau Cymru (WBNS), i'w ddarparu gan DHCW.<br>• Gweithredu cardiotocograffeg (CTG) ar draws yr ystâd Mamolaeth.<br>• Trosglwyddo Dogfennau'n Electronig (EDT) a fydd angen rhyngwyneb rhaglennu cymwysiadau (API) ar gyfer DHCW i hwyluso trosglwyddo dogfennau i Borth Clinigol Cymru (WCP).<br>• Dolen gyd-destunol i WCP i weld canlyniadau. Roedd hyn i fod i gael ei gyflwyno mewn rhyddhad meddalwedd o raglen BadgerNet ar 24 Mawrth 2026 ond mae wedi'i ohirio gan fod problemau wedi'u canfod yn ystod y profion. Mae DHCW yn gweithio ar ddatrysiad.<br>• LIMS, a fydd angen cyfranogiad DHCW. Mae'r ddolen gyd-destunol yn fesur dros dro nes bod yr integreiddio â LIMS ar gael.<br><br>Rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o'r integreiddiadau ar waith dros y 6 mis nesaf ac eithrio LIMS.<br>Mae pob Bwrdd Iechyd yng Nghymru bellach wedi gweithredu BadgerNet gyda'r integreiddiadau sy'n ddibynnol ar DHCW yn cael eu cydlynu ar lefel genedlaethol. |
| **Gwella Dulliau Diagnostig** | |
| **System Rheoli Gwybodaeth Labordai (LIMS)** i foderneiddio a gwella darpariaeth gwasanaethau labordai; darparu systemau gwybodeg modern i staff<br><br>*SRO: Cyfarwyddwr Cyswllt, Gwasanaethau Clinigol Rheoledig Gogledd Cymru* | Ar hyn o bryd mae gan Batholeg ddwy system LIMS, Telepath, a ddefnyddir gan y gwasanaeth Trallwyso Gwaed a TCL2016, a ddefnyddir mewn disgyblaethau eraill. Bydd y Rhaglen LIMS genedlaethol (LIMS2) sy'n cael ei harwain gan DHCW, yn disodli'r ddwy hen system. Mae manteision allweddol yn genedlaethol yn cynnwys cyflymu'r broses profi, gostwng nifer yr ailbrofion, gwella diogelwch clinigol trwy geisiadau electronig am brofion a hwyluso cynorthwyo â'r galw cynyddol.<br><br>Roedd y rhaglen i fod i ddod i ben ym mis Medi 2025, ond mae wedi wynebu heriau cenedlaethol yn ymwneud |

| | |
|---|---|
| | ag adeiladu systemau, ffurfweddu a datrys diffygion sydd wedi effeithio ar amserlenni cyflawni. Er gwaethaf y problemau hyn, mae cynnydd yn cael ei wneud gyda'r modiwlau Patholeg Celloedd a Marwdy wedi'u gweithredu yn BIPBC yn ystod mis Chwefror ac Ebrill 2026. Mae'r rhain yn nodi'r camau cyntaf mewn gwaith moderneiddio eang o fewn gwasanaethau Patholeg ledled Cymru yn ogystal â dechrau gwaith cyflwyno amlddisgyblaethol a fydd yn dod â'r holl wasanaethau Patholeg ynghyd ar un system fodern, safonol, gan ddarparu gwell ymarferoldeb a pherfformiad o fewn y datrysiad digidol.<br><br>Mae BIPBC yn dal i ymgysylltu'n weithredol â DHCW ar y rhaglen gymhleth hon sy'n hanfodol i gleifion, gan gymryd rhan flaenllaw mewn gweithgareddau profi a sicrwydd. Mae'r elfennau cynllunio a gwneud penderfyniadau ar gyfer y dyfodol yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. |
| **Hybiau Iechyd a Lles**<br><br>Ffocws ar ddarparu gwasanaethau i gymunedau lleol<br><br>*SRO: Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Ystadau* | |
| **Bangor** | Mae BIPBC yn dal ati i weithio gyda Chyngor Gwynedd (yr arweinydd ar gyfer yr Achos Amlinellol Strategol) ac ymgynghorwyr Hamdden allanol i adolygu'r SOC presennol yn dilyn newid perchnogaeth Canolfan Menai ac adborth gan Lywodraeth Cymru dros y 12 mis diwethaf. Bydd y SOC yn cynnwys cynlluniau ychwanegol ar gyfer Canolfan Menai gan ymgorffori hamdden. Mae gwaith ar y gweill gydag arweinwyr gwasanaeth i adolygu a gwirio ôl-troed a gofynion llety i gyflawni'r model gwasanaeth.<br><br>Mae'r gwaith i fod i gael ei gwblhau erbyn diwedd Mai 2026.<br><br>Yna, bydd angen i'r SOC diwygiedig fynd trwy brosesau llywodraethu'r Awdurdod Lleol a BIPBC cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i ystyried cyllid i symud ymlaen i Achos Busnes Amlinellol (OBC).<br><br>Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cwblhau Proffil Asesiad Anghenion Iechyd y Boblogaeth Cryno ar gyfer Bangor i helpu i lywio'r SOC diwygiedig. |

| | |
|---|---|
| | Mae rhaglen gyflawni IRCF wedi'i hadnewyddu sy'n nodi amserlenni prosiectau posibl wedi'i chyflwyno i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a fydd wedyn yn ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn arwain at sgyrsiau pellach ynghylch yr angen i flaenoriaethu prosiectau. |
| **Caledfryn** | Mae'r cynnig yn cynnwys prynu adeilad awdurdod lleol a'i adnewyddu i sefydlu Hwb Iechyd a Lles yn Ninbych.<br><br>Mae'r contract Achos Cyfiawnhad Busnes (BJC) wedi'i ddyfarnu i Archus ac wedi'i gymeradwyo gan BIPBC. Fodd bynnag, mae tîm y prosiect wedi cael cyfarwyddyd i beidio â bwrw ymlaen â'r BJC na chaffael partner adeiladu nes bod sicrwydd yn cael ei roi bod cyllid cyfalaf wedi'i gadarnhau. Mae papur briffio wedi'i baratoi ar gyfer yr SRO yn amlinellu'r sefyllfa.<br><br>Mae'r papur refeniw i nodi costau a manteision posibl i wrthbwyso'r sefyllfa refeniw yn cael ei gwblhau. Bydd Cyfarwyddwr y Prosiect yn cyflwyno hyn i'r Cyfarwyddwyr IHC ac mae'r SRO wedi nodi y bydd gofyn i Hybiau Iechyd a Lles ddangos arbedion refeniw o tua 5% er mwyn bod yn hyfyw.<br><br>Mae cyfarfodydd misol yn parhau gyda'r Tîm Adfywio i archwilio cyfleoedd ar gyfer cyllid cyfalaf Trawsnewid Trefi i gefnogi datblygiad y model gwasanaeth. |
| **Gorllewin Conwy** | Mae'r achos hwn yn mynd i'r afael â heriau gyda'r ystâd bresennol a'r angen i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal mwy integredig mewn amgylchedd modern, addas at y diben yng Nghonwy a Chyffordd Llandudno. Mae'r achos yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, y Clwstwr Meddygon Teulu a'r Trydydd sector.<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cadarnhau'r penderfyniad i ohirio'r cynllun hwn tan flwyddyn ariannol 2028/29 ac felly mae'r ffocws presennol ar symud cynlluniau eraill ymlaen. Gwneir penderfyniad ar y safle yn ystod y flwyddyn ariannol hon a bydd penderfyniadau eraill sy'n ymwneud â'r union fodel yn dibynnu ar hyn. |
| **Caergybi** | Mae drafft memorandwm cyd-ddealltwriaeth (MOU) rhwng BIPBC a Chyngor Sir Ynys Môn wedi'i baratoi a'i rannu â'r Cyngor i'w adolygu. |

| | |
|---|---|
| | Yn dilyn cyfarfod diweddar gyda Llywodraeth Cymru (11 Mawrth) ar y camau nesaf ar gyfer Caergybi, cytunwyd ar y canlynol:<br><br>**Craffu ar y SOC** - Mae IRCF Llywodraeth Cymru wrthi'n craffu ar SOC Caergybi (a gyflwynwyd ym mis Hydref 2024) ac wedi darparu adborth rhannol a byddant yn cwblhau'r adolygiad yn dilyn gwaith pellach gan PBC a Chyngor Sir Ynys Môn i adolygu ac adnewyddu'r SOC<br><br>**Adnewyddu'r SOC** - Cynghorir Cyngor Sir Ynys Môn a BIPBC i edrych ar adnewyddu'r SOC yng ngoleuni adborth Llywodraeth Cymru ynghylch cydbwysedd gwasanaethau a chyllid posibl o ffynonellau eraill; Integreiddio – mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am gryfhau partneriaethau ymhellach er mwyn darparu hwb integredig (nid Hwb Iechyd yn unig) ac i edrych ar y gwerth gorau o ddarparu hyn; Mae'n ymwneud â chydbwysedd gwasanaethau ac archwilio cyllid posibl gan sectorau Awdurdodau Lleol eraill – Hamdden / Tai ac ati;<br><br>**Amserlenni/cyflawni Prosiect IRCF** – Mae rhaglen gyflawni IRCF wedi'i hadnewyddu sy'n nodi amserlenni prosiect posibl wedi'i chyflwyno i'r RPB a fydd wedyn yn ei chyflwyno i Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn arwain at fwy o sgyrsiau ynghylch yr angen i flaenoriaethu prosiectau;<br><br>**Gwaith Adfywio Llywodraeth Cymru / cyfraniadau cyfalaf eraill** – Gofynnwyd i bartneriaid archwilio cyfraniadau o ffynonellau cyfalaf eraill yn ogystal â'r IRCF. Mae'r rhain yn cynnwys Rhaglen Gyfalaf i Gymru Gyfan, cronfeydd Adfywio, Cronfa Tai â Gofal a Grantiau Tai Cymdeithasol.<br><br>**Arweinydd Sefydliadol** – Partneriaid i ystyried pwy sydd yn y sefyllfa orau i arwain/cyflawni'r cynllun hwn; |
| **Penygroes** | Mae ymarfer costau trosglwyddadwy cynllun Canolfan Lleu bellach wedi'i gwblhau gan Grŵp Cynefin gyda chefnogaeth PBC ac wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru. |

| | |
|---|---|
| | Mae gwaith ar y costau amcangyfrifedig lefel uchel, y model cyflawni cyfalaf a'r rhaglen ar gyfer Canolfan Iechyd newydd – y gwnaeth Llywodraeth Cymru gais amdano– hefyd wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.<br><br>Mae'r Cyfarwyddwr Ystadau wedi trefnu cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru ym mis Mai i drafod y camau nesaf o ran cwblhau'r achos busnes.<br><br>Mae trafodaethau gyda Grŵp Cynefin hefyd wedi'u cynllunio i drafod y mater trosglwyddo tir ar gyfer y ganolfan iechyd. |
| **Ysbyty Brenhinol Alexandra** | Mae cynnydd Cam 1 yn parhau yn dilyn cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru gyda phecynnau gwaith a llywodraethu dros dro wedi'u sefydlu er mwyn sicrhau parodrwydd gweithredol. Mae trefniadau adleoli allweddol wedi'u cadarnhau ac mae gweithgarwch dylunio yn parhau.<br><br>Mae'r gwaith Adleoli Cyfalaf wedi'i gwblhau ac mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i ddargyfeirio pibell nwy a cheblau rhwydwaith. Cytunwyd ar drefniadau parcio ceir ychwanegol gyda Chyngor Sir Dinbych (yn cynnwys cyfnod o bedair awr am ddim i gleifion) ac mae sesiynau ymgysylltu â staff wedi'u cynnal yn ystod mis Mai.<br><br>Gwelwyd cynnydd yng Ngham 2 gyda chytundeb cwmpas a gwaith paratoi cynnar ar y gweill, gan gynnwys drafftio trefniadau llywodraethu, cynlluniau strwythurol a chasglu data cychwynnol.<br>Mae'r Rhaglen yn dal i fod mewn proses weithredol o weithredu, a chynhelir gweithdy ym mis Mai ynghylch opsiynau a blaenoriaethau.<br><br>Mae dadansoddiad parhaus gan Iechyd Cyhoeddus yn mynd rhagddo i lywio aliniad gwasanaethau ag anghenion y boblogaeth. Ar y cyfan, mae'r prosiect yn mynd rhagddo'n dda gyda gweithdai sydd ar ddod a chostau strwythurol yn gerrig milltir cynnar hollbwysig i gadarnhau cwmpas Cam 2 a'r camau nesaf. |
| **Waunfawr** | Cytunwyd ar y llwybr caffael ar gyfer Canolfan Iechyd Waunfawr yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr 2026. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda Gwasanaethau a Rennir (Ystadau Arbenigol) a Gwasanaethau Eiddo PBC i ddatblygu Memorandwm Gwerthu ar gyfer prynu'r |

| | |
|---|---|
| | tir ar gyfer y cyfleuster newydd arfaethedig yn Waunfawr.<br><br>Mae gwaith ar y gweill i gaffael Asiant Cyflogwr a Rheolwr Costau i ddatblygu Gofynion y Cyflogwr a dogfennau tendr ar gyfer contract dylunio ac adeiladu.<br><br>Cynhaliwyd cyfarfod diweddar o'r Bwrdd Prosiect (16 Ebrill) i sicrhau bod y Practis a rhanddeiliaid perthnasol wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r cynnydd cyfredol.<br><br>Y nod yw diweddaru a diwygio'r achosion masnachol ac ariannol o fewn y BJC i adlewyrchu unrhyw gostau chwyddiannol a'r newid yn y llwybr caffael. Yna bydd yn dychwelyd i'r Bwrdd i'w gymeradwyo a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo ar gyfer cyllid. Yn dibynnu ar gynnydd gyda threfniadau masnachol, rhagwelir y bydd hyn yn yr Hydref. |

## 4 RISGIAU ALLWEDDOL / MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO

4.1 Mae cyfnod hyfywedd y Cofnod Gofal Iechyd Electronig (EHR) Iechyd Meddwl yn dod i ben ar 5 Mehefin 2026, 365 diwrnod ar ôl i'r tendr gau. Os na chaiff y contract ei gyflawni erbyn yr amser hwn, gallai hyn arwain at gostau cyflenwyr uwch. Ar ben hynny, cynhelir ymarfer Oedi ac Adolygu ehangach o Gronfa Gwella Cynllunio Digidol (DPIF) Llywodraeth Cymru i asesu hyfywedd ariannol prosiectau a ariennir gan y DFIF, ac mae'r sefydliad yn aros am ganlyniad yr adolygiad hwnnw.

4.2 Efallai y bydd yr adolygiad uchod o raglenni Digidol hefyd yn cael effaith bellach ar y Cofnod Gofal Iechyd Electronig ledled y sefydliad sydd eisoes yn wynebu oedi'n lleol tra'n aros am gyfarwyddyd cenedlaethol. Mae'n gynyddol debygol y bydd disgwyl i'r Bwrdd Iechyd ddilyn datrysiad cenedlaethol, fodd bynnag, mae'n bwysig nodi pa mor hanfodol yw'r datrysiad hwn i ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy yng Ngogledd Cymru ac effaith unrhyw oedi pellach. Mae hyn yn cynnwys cydnabod llif cleifion i Ogledd-orllewin Lloegr a'r angen am ofal integredig a mynediad at gofnodion.

4.3 Gallai oedi cenedlaethol gyda'r system LIMS achosi problemau parhad busnes o fewn Gwyddorau Gwaed gan fod y contract system presennol yn dod i ben ar 15 Rhagfyr 2026. Mae opsiynau'n cael eu hadolygu i symud hyn ymlaen er mwyn sicrhau parhad busnes a lleihau'r risg i ddiogelwch cleifion.

4.4 Mae'r oedi pellach cyn agor yr Hwb Gofal wedi'i Gynllunio yn Llandudno yn golygu y bydd y risgiau i wireddu buddion blwyddyn lawn a nodwyd yn adroddiad y Bwrdd ym mis Ionawr yn dod i'r amlwg. Er y byddwn yn anelu at gyflawni'r manteision o ran cynhyrchiant ac effeithlonrwydd ar safleoedd presennol, bydd yn cymryd mwy o amser i'r manteision llawn o fewn yr achos busnes ddwyn ffrwyth. Comisiynodd y Prif Weithredwr adolygiad Cyfalaf Archwilio Mewnol gyda ffocws penodol ar Landudno sy'n nodi meysydd i'w cryfhau a chynhelir Adolygiad Ôl-weithredu llawn o'r rhaglen hefyd i nodi gwersi a ddysgwyd ar gyfer y dyfodol.

## 5 ARGYMHELLION

Gofynnir i'r Bwrdd:

- **NODI'R** diweddariadau ynghylch y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn gyntaf, gan gynnwys rhai cyflawniadau nodedig yn ogystal â'r wybodaeth ddiweddaraf am rai o'r heriau sy'n parhau i achosi pryder ac a oedd wedi atal PPHP rhag derbyn sicrwydd llawn.
- **CYTUNO** i integreiddio gwaith adrodd yn y dyfodol i'r Cynllun Cyflawni Blynyddol i sicrhau mwy o synergedd a llai o ddyblygu

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

| ASESIAD / ASSESSMENT | |
|---|---|
| **Cyswllt â'r Blaenoriaethau Strategol**<br>**Link to Strategic Priorities** | 2. Developing strategy and long-lasting change |
| | |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below:<br><br>4. Gwella ansawdd, canlyniadau a phrofiadau |
| **Yr Egwyddorion Dylunio**<br>**Design Principles** | Equity and Accessibility<br>Pobl yn Gyntaf<br>Dylunio Cynhwysol<br>Digidol yn Gyntaf<br>Gwario'n Ddoeth |
| **Fframwaith Risgiau Corfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd**<br>**Corporate Risks and Board Assurance Framework** | Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR)<br>Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks (cross reference to the BAF and CRR) |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant**<br>**Wellbeing of Future Generations Act – Wellbeing Goals** | Cymru Iachach |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: |

| ASESIADAU O EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS | | |
|---|---|---|
| **Cydraddoldeb**<br>*A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (sy'n cynnwys gofynion Safonau'r Gymraeg)*<br>**Equality**<br>*Have you undertaken an Equality Impact Assessment Screening (which includes the requirements of the Welsh Language Standards)* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | |
| **Asesiad o'r Effaith Gymdeithasol-economaidd** | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |

| | | |
|---|---|---|
| *A ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith Gymdeithasol-economaidd?*<br>**Socio-Economic Impact Assessment**<br>*Have you undertaken a Socio-Economic Impact Assessment* | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | |
| **Ansawdd**<br>*A ydych chi wedi ymgymryd â phrawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd?*<br>**Ansawdd**<br>*Have you undertaken a Quality Impact Assessment Screening?* | **Galluogwyr Ansawdd**<br>**Enablers of Quality**<br>Dewiswch eitem | **Meysydd Ansawdd**<br>**Domains of Quality**<br>Dewiswch eitem |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: |
| | | |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant**<br>**Wellbeing of Future Generations Act – Wellbeing Goals** | Cymru Iachach | |

| | | |
|---|---|---|
| **Effaith Amgylcheddol / Cynaliadwyedd (5Rs)**<br>**Environmental /Sustainability Impact (5Rs)** | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: | |
| | No - Not Applicable | |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny:<br>If more than one applies, please list: | |
| **Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog**<br>A ydych chi wedi ystyried Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog:<br>**Armed Forces Covenant Due Regard Duty**<br>Have you considered the Armed Forces Covenant Due Regard Duty? | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | |

| | | |
|---|---|---|
| **Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data**<br>*A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data?*<br>**Data Protection Impact Assessment**<br>*Have you undertaken a Data Protection Impact Assessment Screening?* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | |
| **Asesiad o Effaith ar Atal Twyll**<br>*A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau ar atal twyll?*<br>**Counter Fraud Impact Assessment**<br>*Have you considered the counter fraud impacts* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | |
| **Cyfreithiol**<br>**Legal** | There are no specific legal implications related to the activity outlined in this report. | |
| **Enw Da**<br>**Reputational** | Yes (Include further detail below) | |
| | Gallai methu â chyflawni'r newidiadau hyn effeithio ar waith partneriaeth a hyder y cyhoedd. | |
| **Effaith ar Adnoddau**<br>*(Pobl / Ariannol)*<br>**Resource Impact**<br>*(People / Financial)* | There is no direct impact on resources as a result of the activity outlined in this report. | |

| **Bwrdd Iechyd**<br>**Adroddiad Materion Allweddol**<br>**(ni ddylai'r adroddiad hwn fod yn fwy na 2 ochr tudalen A4)** | | | |
|---|---|---|---|
| **Dyddiad y Bwrdd** | 28/05/2026 | | |
| **Dyddiad y Pwyllgor** | 21/04/2026 | **Adroddiad:** | Pwyllgor Archwilio |
| **Cworwm:** | Oedd | | |
| **1** | Agenda | Mae'r Pwyllgor Archwilio yn parhau i gyfarfod bob dau fis. Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr agenda y gellir cael gafael arni yma: [Pwyllgor Archwilio - BIPBC](#) | |
| **2a** | Rhybuddio | Hoffai'r Pwyllgor Archwilio rybuddio aelodau'r Bwrdd am y canlynol:<br><br>1. Mae cau argymhellion archwilio yn dal yn anghyson, gyda nifer o gamau gweithredu'n hwyr, ansawdd y dystiolaeth ategol yn amrywiol, ac eglurder annigonol ynghylch llwybrau llywodraethu, cerrig milltir a mecanweithiau uwchgyfeirio.<br>2. Mae risgiau cydymffurfio statudol yn parhau, yn enwedig mewn perthynas â pholisïau a chamau archwilio hwyr, er bod gwaith gwella ar y gweill.<br>3. Mae rhaglenni a fframweithiau mawr (gan gynnwys llywodraethu, comisiynu, rheoli perfformiad a gwerth a chynaliadwyedd) yn gofyn am strwythur cliriach, goruchwyliaeth a cherrig milltir cyflawni er mwyn darparu sicrwydd amserol a dibynadwy.<br>4. Nid yw adroddiadau Datganiadau o Fuddiant yn adlewyrchu amlygiad i risg yn llawn eto. | |
| **2b** | Sicrhau | Hoffai'r Pwyllgor Archwilio roi sicrwydd i aelodau'r Bwrdd am y canlynol:<br><br>1. Mae rhai meysydd rheolaeth fewnol yn cryfhau, gyda thystiolaeth barn Archwilio Mewnol, gan gynnwys meysydd o sicrwydd rhesymol a sylweddol er bod oedi o ran ymateb y rheolwyr yn dal i beri pryder.<br>2. Mae proses y cyfrifon blynyddol ar gyfer 2025-26 ar y trywydd iawn, gyda threfniadau llywodraethu priodol ar waith a threfniadau archwilio allanol yn mynd rhagddynt yn ôl y bwriad.<br>3. Mae'r Cynllun Gwella Llywodraethiant Corfforaethol yn darparu mecanwaith cyfunol ar gyfer olrhain cyflawniad yn erbyn argymhellion asesu strwythuredig a gwelliannau llywodraethiant ehangach, sy'n gam cadarnhaol ymlaen. | |
| **2c** | Hysbysu | Hoffai'r Pwyllgor Archwilio hysbysu aelodau'r Bwrdd am y canlynol:<br><br>1. Angen fframweithiau llywodraethu clir, llwybrau uwchgyfeirio a cherrig milltir CAMPUS ar gyfer yr holl raglenni mawr, gan alluogi sicrwydd rheolaidd o ran cynnydd a chyflawni.<br>2. Cefnogi dull mwy penodol sy'n seiliedig ar risg ar gyfer Datganiadau o Fuddiant, gan ganolbwyntio ar y meysydd â'r | |

| | | |
|---|---|---|
| | | amlygiadau posibl mwyaf, yn hytrach na nifer yr enillion yn unig.<br>3. Parhau i oruchwylio'r gwaith o reoli argymhellion archwilio a chydymffurfio statudol fel risgiau sefydliadol â blaenoriaeth yn ystod 2026-27. |
| **2d** | Adolygu Risgiau | 1. Parhau y mae risg sefydliadol barhaus yn gysylltiedig â diffyg cydymffurfio, camau archwilio hwyr, a rheoli polisi anghyflawn.<br>2. Mae effeithiolrwydd rhaglenni newid a gwella mawr yn dibynnu ar lywodraethu cryfach, eglurder wrth adrodd, a mecanweithiau sicrwydd. |
| **2e** | Rhannu gwersi | 1. Mae gwelliannau mewn meysydd fel rheoli asbestos yn dangos effaith ffocws rheoli parhaus ac atebolrwydd clir.<br>2. Mae dysgu o archwiliadau a phrosiectau mawr yn tynnu sylw at bwysigrwydd gwreiddio sicrwydd, goruchwyliaeth a gwerthuso yn gynnar yn y broses o ddylunio rhaglenni. |
| **3** | Camau i'w hystyried gan y Bwrdd neu Bwyllgorau eraill | Nid oedd unrhyw eitemau i'w hatgyfeirio. |

## Bwrdd Iechyd

### Adroddiad Arolwg Staff GIG Cymru 2025

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod**<br>**Date of Meeting** | 28 Mai 2026 |
| **Statws Cyhoeddi**<br>**Publication Status** | Agored / Cyhoeddus<br>Amherthnasol |
| **Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad**<br>**Report Author name and title** | Katie Sargent<br>Pennaeth Ymgysylltu â Gweithwyr a'u Profiadau |
| **Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol**<br>**Lead Executive Team Member name and title** | Debbie Eyitayo<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Datblygu Sefydliadol |

| | |
|---|---|
| **Pwrpas yr Adroddiad**<br>**Report Purpose** | I'w Nodi<br><br>Gofynnir i'r Pwyllgor wneud y canlynol:<br>• **NODI A THRAFOD** canlyniadau Arolwg Staff GIG Cymru 2025;<br>• **CEFNOGI'R** camau nesaf sydd wedi'u cynllunio. |

**Crynodeb Gweithredol**
**Executive Summary**

Rhan o'n nod i wella diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltiad yw gwrando ar staff a dangos bod y sefydliad yn eu clywed. Mae hyn yn cynnwys casglu a dadansoddi adborth ar agweddau a phrofiadau staff er mwyn llywio gwelliannau, ac mae'r arolwg blynyddol, sef Arolwg Staff GIG Cymru, yn rhan allweddol o hynny.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion am ganfyddiadau arolwg 2025 ac yn amlinellu'r camau nesaf.

Mae llawer o'r themâu sy'n deillio o'r arolwg yn gyfarwydd gan eu bod wedi cael eu rhannu gan gydweithwyr drwy ddulliau eraill o roi adborth, gan gynnwys:

- grwpiau ffocws cam darganfod a dylunio Sylfeini ar gyfer y Dyfodol;
- gweithgarwch ymgysylltu drwy'r Rhaglen Diwylliant ac Arweinyddiaeth;

- gan yr Arweinwyr Newid Diwylliant;
- Codi Llais Heb Ofn;
- ac arolygon sy'n ymwneud â chydnabod staff ac enwebiadau ar gyfer gwobrau.

Felly, mae llawer o'r themâu a'r materion y mae staff yn eu codi yn cael sylw'n barod, er enghraifft drwy raglenni newid mawr fel Sylfeini ar gyfer y Dyfodol a Chynllun Gwella Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu 2026-28.

| **Ymgysylltu (mewnol/allanol) a wnaed hyd yma (gan gynnwys derbyn/ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp)<br>Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)** | | |
|---|---|---|
| **Pwyllgor / Grŵp / Unigolion<br>Committee / Group / Individuals** | **Dyddiad<br>Date** | **Canlyniad, Tystiolaeth a Data<br>Outcome, Evidence and Data** |
| Pwyllgor Gweithredol | 11.3.26 | Newidiadau wedi'u hawgrymu, sydd wedi cael eu hymgorffori yn y papur ar gyfer Pwyllgor Pobl a Diwylliant mis Ebrill 2026, gyda'r bwriad i'r papur hwn fynd gerbron y Bwrdd cyhoeddus ym mis Mai 2026 |
| Pwyllgor Pobl a Diwylliant | 9.4.26 | Trafodaeth ac adborth. Derbyniwyd data ansoddol ar 2.4.26 ac mae'r brif wybodaeth wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn yn adran 3.8. |
| Fforwm Partneriaeth Lleol | 5.5.26 | Cyflwynwyd fersiwn gynharach (f5.0) o'r papur hwn i gydweithwyr Undebau Llafur |

| **Acronymau / Rhestr Termau<br>Acronyms / Glossary of Terms** | |
|---|---|
| AaGIC | Addysg a Gwella Iechyd Cymru |
| CIC | Cymuned Iechyd Integredig |
| IMAD | Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu |
| SD | Sylfeini'r Dyfodol |

## 1 Y SEFYLLFA<br>SITUATION

1.1 Aeth Arolwg Staff GIG Cymru 2025 yn fyw ddydd Llun 6 Hydref a daeth i ben ddydd Llun 1 Rhagfyr. Cafodd sefydliadau GIG Cymru fynediad at ddata meintiol drwy ddangosfwrdd gwybodaeth AaGIC ar 23 Chwefror 2026.

1.2 Cafodd canlyniadau ansoddol (sylwadau testun rhydd sydd wedi cael eu gwneud yn ddienw) eu rhannu â Byrddau Iechyd ar 2 Ebrill 2026. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oes gennym fynediad eto at y dangosfwrdd i weld canlyniadau a rhedeg adroddiadau yn ôl grwpiau staff. Disgwylir y bydd modd gwneud hyn yn y dyddiau nesaf.

1.3 Disgwylir y bydd adroddiad ar y canfyddiadau cenedlaethol, sy'n rhoi trosolwg o ganlyniadau meintiol ar gyfer Cymru gyfan, yn cael ei gyhoeddi gan AaGIC ddechrau mis Mai 2026.

1.4 Mae'r adroddiad hwn yn darparu prif ganfyddiadau i'r Bwrdd ac yn amlinellu'r camau nesaf ar gyfer ymateb i'r adborth hwn gan staff.

## 2 Y CEFNDIR<br>BACKGROUND

2.1 Mae Arolwg Staff GIG Cymru yn cael ei gynnal bob blwyddyn ac mae'n cael ei weinyddu'n annibynnol ar y Bwrdd Iechyd drwy AaGIC ac IQVIA y darparwr. Mae hyn yn bwysig er mwyn creu ymddiriedaeth yng nghyfrinachedd adborth y staff.

2.2 Erbyn hyn, mae modd dadansoddi data'r ymatebion ar wahanol lefelau sefydliadol, ac rydym yn bwriadu adeiladu ar y newid y llynedd tuag at fwy o gyfrifoldeb ac atebolrwydd lleol dros weithredu ar yr hyn a ddywedodd ein cydweithwyr wrthym.

## 3 MATERION PENODOL I'W HYSTYRIED<br>SPECIFIC MATTERS FOR CONSIDERATION

**Cyfradd ymateb**

3.1 Ein nod oedd gwella o leiaf 5% ar gyfradd cyfranogiad 2025 o'i gymharu ag arolwg 2024 ar draws y Bwrdd Iechyd. Er mwyn gwreiddio atebolrwydd lleol, rhoddwyd targed i gyfarwyddwyr a rheolwyr i gael cyfradd gyfranogi o 23% yn eu meysydd.

3.2 Cwblhawyd yr arolwg gan 5,203 aelod o staff, sy'n cyfateb i gyfradd ymateb o 24.9%. Er ei fod yn is na chyfradd ymateb gyffredinol GIG Cymru, sef 30%, mae'n welliant i'r Bwrdd Iechyd wrth gymharu â chyfradd ymateb 2024, sef 17.4%. Mae hefyd yn rhagori ar ein targed o 23%.

3.3 Roedd y tair Cymuned Iechyd Integredig wedi rhagori ar y gyfradd ymateb darged o 23 y cant fel a ganlyn: Gorllewin – 29.6%; Canol – 28.1% a Dwyrain – 24.9%.

3.4 Ni chyrhaeddodd Ysbyty Glan Clwyd nac Ysbyty Maelor Wrecsam y gyfradd ymateb darged o 23% o staff yn cymryd rhan yn yr arolwg, gydag Ysbyty Glan Clwyd yn cael 19% ac Ysbyty Maelor Wrecsam yn cael 18%. Roedd perfformiad Ysbyty Gwynedd yn llawer gwell, gyda 32% o'r staff yn cwblhau'r arolwg. Roedd hyn, yn rhannol, oherwydd ymdrechion ar y cyd ar draws y safle i gynnwys staff mewn gweithgareddau hyrwyddo.

**Sgôr Mynegai Ymgysylltiad Staff**

3.5 Cawsom sgôr Mynegai Ymgysylltiad Staff o 69.3% (70.9% yn 2024). Mae hyn yn cymharu â sgôr mynegai staff GIG Cymru o 70.8%. Dylid nodi hefyd y bu gostyngiad cyffredinol mewn sgoriau Mynegai Ymgysylltiad Staff ledled Cymru.

Mae sgôr Mynegai Ymgysylltiad Staff yn mesur cysylltiad staff â'r sefydliad. Mae Tabl 1 isod yn dangos ymatebion staff o ran cytuno â phob datganiad.

**Staff Engagement Index Scores**

2025 Staff Survey Index Score: **69.3%**

1.5 on NHS Wales Benchmark

1.6 on BCUHB 2024 Index Score

| Sub-theme | Positive Responses | Wales Average | Negative Responses | Wales Average |
|---|---|---|---|---|
| **Ability to contribute towards improvement at work (Involvement)** | | | | |
| 23a) I am able to make improvements in my area of work | 56.9% | 58.2% | 18.2% | 16.9% |
| 23d) I am involved in deciding on changes introduced that affect my work/area/team/department | 43.9% | 44.7% | 29.8% | 29.5% |
| **Intrinsic psychological engagement (Motivation)** | | | | |
| 22a) I look forward to going to work | 49.2% | 48.5% | 17.9% | 17.4% |
| 22b) I am enthusiastic about my job | 65.2% | 64.1% | 9.9% | 10.3% |
| 22c) I am happy to go the extra mile at work when required | 78.5% | 77.2% | 5.7% | 5.8% |
| **Staff advocacy and recommendation (Advocacy)** | | | | |
| 23b) I would recommend my organisation as a place to work | 47.7% | 53.2% | 22.4% | 19.2% |
| 23c) I am proud to tell people I work for my organisation | 50.3% | 58.0% | 20.6% | 14.5% |

■ Favourable performance against NHS Wales Average
■ Unfavourable performance against NHS Wales Average

*Ffigur 1: Sgôr Mynegai Ymgysylltiad Staff 2025*

3.6 Llwyddodd BIPBC i gael sgôr uwch na chyfartaledd Byrddau Iechyd GIG Cymru yn elfen ymgysylltu seicolegol (cymhelliant) hanfodol y Mynegai:

- *Rwy'n edrych ymlaen i fynd i'r gwaith* (49.2%, sy'n uwch na meincnod GIG Cymru ar gyfer Byrddau Iechyd, sef 48.5%)
- *Rwy'n frwdfrydig ynghylch fy swydd* (65.2%, sy'n uwch na meincnod GIG Cymru ar gyfer Byrddau Iechyd, sef 64.1%)
- *Rwy'n hapus i fynd yr ail filltir yn y gwaith pan fo angen* (78.5%, sy'n uwch na meincnod GIG Cymru ar gyfer Byrddau Iechyd, sef 77.2%)

Fodd bynnag, fel y gwelir yng nghanlyniadau arolwg 2024, mae ymatebion staff i elfen eiriolaeth staff ac argymhellion y Mynegai yn tynnu positifrwydd cyffredinol y sgôr i lawr.

3.7 Rydym wedi gweld dirywiad ym mhob un o ddeg thema'r arolwg rhwng arolwg 2024 a 2025, er mai gostyngiadau bach yw'r rhain yn y rhan fwyaf o achosion. Mae'r rhain i'w gweld yn Nhabl 2 isod.

Dyma ragor o ganfyddiadau i'w nodi:

- Er mai ni yw'r Bwrdd Iechyd sydd â'r sgôr isaf yn y thema *Rydyn ni'n dosturiol ac yn gynhwysol* ar 67.6% – gostyngiad o 1.47% ers 2024 – dim ond 2% o gyfartaledd Byrddau Iechyd GIG Cymru yw hynny. Bydd y gwaith parhaus ar ddiwylliant, ymddygiad a gwerthoedd yn parhau i fynd i'r afael â'r maes hwn;
- Mae 82.9% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg yn cytuno ein bod yn dosturiol tuag at gleifion/defnyddwyr gwasanaeth. Mae hyn yn ostyngiad bach o 0.41% ers 2024 ac o dan gyfartaledd Byrddau Iechyd GIG Cymru, sef 83.3%;
- Ni yw'r Bwrdd Iechyd sydd â'r sgôr isaf yn y thema *Rydyn ni i gyd yn gallu lleisio ein barn*, sef 63.9%. Mae hyn yn ostyngiad o 1.85% ac mae'n is na chyfartaledd Byrddau Iechyd GIG Cymru, sef 65.6%. Mae gwaith pellach drwy archwiliad mewnol Codi Llais Heb Ofn wedi rhoi rhywfaint o sicrwydd, ac o ganlyniad, mae newidiadau'n cael eu gwneud ar unwaith i gryfhau proses Codi Llais Heb Ofn y bwrdd iechyd yn unol â Fframwaith cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Codi Llais Heb Ofn;
- Mae ein sgôr yn y thema *Ymgysylltu â Staff* wedi gostwng 2.88% i 55.9%, o'i gymharu â chyfartaledd Byrddau Iechyd GIG Cymru, sef 57.7%. Yn 2024 gwelwyd gwelliant o 6.7% yn ein sgôr ar gyfer y thema *Diogelwch Cleifion*, ond yn 2025, roedd y sgôr yn 58.6%, sef gostyngiad o 0.47%. Mae hyn dros 1% i ffwrdd o gyfartaledd Byrddau Iechyd GIG Cymru. Mae rhai ymatebion i gwestiynau sy'n gysylltiedig â'r thema *Diogelwch Cleifion* yn peri pryder. Er enghraifft, mae cwestiwn 17c yn dangos mai 44.4% sy'n cytuno y byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir pe bai angen triniaeth ar ffrind neu berthynas (gyda 27.7% yn anghytuno). Mae hyn 10.9% yn is na chyfartaledd Byrddau Iechyd GIG Cymru, sef 55.3%.

3.8 Roedd y data ansoddol a dderbyniwyd ar 2 Ebrill 2026 yn cynnwys sylwadau gan 1,649 o unigolion, sy'n cyfrif am oddeutu traean o'r rhai a gwblhaodd yr arolwg.

Mae AaGIC wedi golygu'r sylwadau i helpu i sicrhau bod cyfranogwyr yn aros yn ddienw. Gellir eu hidlo dim ond yn ôl lefelau sefydliadol haen dau h.y. fesul cyfarwyddiaeth fel Gwasanaethau Corfforaethol neu Wasanaethau Canser, yn hytrach na fesul adran 'haen tri' fel Cyllid neu Canser - Nyrsio.

Mae'r sylwadau'n cynrychioli cymysgedd o faterion, pynciau a safbwyntiau a rhaid nodi bod llawer yn gadarnhaol. Mae'r themâu cyffredin yr oedd ymatebwyr wedi rhoi adborth cadarnhaol yn eu cylch yn cynnwys:

- Diwylliant cadarnhaol gyda thimau a rheolwyr cefnogol;
- Balchder yn y GIG, eu rôl a helpu cleifion;
- Parodrwydd i fynd yr ail filltir i gydweithwyr, i gleifion ac i'r sefydliad; a
- Manteision gweithio hyblyg ar gydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

Ceir hefyd sylwadau siomedig a rhai sy'n peri pryder, gyda'r themâu mwyaf cyffredin yn cynnwys:

- Arweinwyr ac uwch reolwyr wedi'u datgysylltu oddi wrth staff a gofal cleifion yn dod yn ail i dargedau ariannol;
- Llesiant gwael, iechyd meddwl a straen gan gynnwys anhyblygrwydd o ran patrymau gweithio;
- Lefelau staffio, llwyth gwaith gormodol a gorweithio; a
- Bwlio, aflonyddu a diwylliant gwenwynig.

3.9 Mae'r prif ganfyddiadau i'w gweld yn y ddogfen sy'n rhoi ciplun o Arolwg Staff 2025 yn **Atodiad 1**.

3.10 Mae tystiolaeth yn dangos bod angen sawl blwyddyn ar raglenni gwella diwylliant y GIG fel arfer i gael canlyniadau sylweddol a pharhaol, gan fynnu buddsoddiad hirdymor mewn gallu ac arweinyddiaeth staff. Yn ddiweddar, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael archwiliad ar gyflawni a chynnydd mewn perthynas â chamau gweithredu a amlinellir yn y cynllun (Cynllun Tair Blynedd 2024-2027 a Chynllun Tymor Canolig Integredig 2025-28) i greu diwylliant o arweinyddiaeth dosturiol ar draws y sefydliad. Nododd yr archwiliad sicrwydd rhesymol yn hyn o beth.

Nod rhaglenni fel ein Rhaglen Diwylliant ac Arweinyddiaeth yw trawsnewid pethau'n effeithiol, a disgwylir iddynt gyflawni gwelliannau nodedig mewn perthynas ag ymgysylltiad staff ar ôl 12 i 24 mis.

3.11 Mae'n bwysig cydnabod yr effaith y mae newid sefydliadol yn ei chael ar brofiad staff wrth i ni symud ymlaen gyda'r rhaglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol.

Mae hefyd yn werth nodi bod ein trosiant yn gymharol isel, sy'n dangos nad yw cydweithwyr yn gadael y sefydliad.

# BCUHB positivity scores by theme 2025

| Theme | Year | Positivity score | Annual Trend | Wales Average | Variance |
|---|---|---|---|---|---|
| Morale | 2023 | 55.0% | | 54.1% | ↑ 0.87 |
| | 2024 | 55.0% | ↑ 0.04 | 54.6% | ↑ 0.37 |
| | 2025 | 53.6% | ↓ 1.44 | 53.7% | ↓ 0.09 |
| Patient Safety | 2023 | 52.6% | | 53.8% | ↓ 1.21 |
| | 2024 | 59.1% | ↑ 6.48 | 58.7% | ↑ 0.42 |
| | 2025 | 58.6% | ↓ 0.47 | 59.7% | ↓ 1.13 |
| Staff Engagement | 2023 | 59.3% | | 60.3% | ↓ 1.06 |
| | 2024 | 58.8% | ↓ 0.46 | 59.6% | ↓ 0.75 |
| | 2025 | 55.9% | ↓ 2.88 | 57.7% | ↓ 1.76 |
| We are all able to speak up | 2023 | 65.3% | | 65.8% | ↓ 0.58 |
| | 2024 | 65.8% | ↑ 0.54 | 66.2% | ↓ 0.42 |
| | 2025 | 63.9% | ↓ 1.85 | 65.6% | ↓ 1.65 |
| We are compassionate and inclusive | 2023 | 68.4% | | 69.6% | ↓ 1.22 |
| | 2024 | 69.1% | ↑ 0.68 | 70.0% | ↓ 0.91 |
| | 2025 | 67.6% | ↓ 1.47 | 69.6% | ↓ 2.01 |
| We are continuously learning and improving | 2023 | 64.2% | | 64.1% | ↑ 0.06 |
| | 2024 | 63.5% | ↓ 0.69 | 64.0% | ↓ 0.48 |
| | 2025 | 62.4% | ↓ 1.13 | 63.1% | ↓ 0.79 |
| We are stronger together | 2023 | 69.3% | | 68.5% | ↑ 0.87 |
| | 2024 | 70.4% | ↑ 1.08 | 69.2% | ↑ 1.25 |
| | 2025 | 68.5% | ↓ 1.93 | 68.7% | ↓ 0.26 |
| We champion flexible working | 2023 | 59.1% | | 58.1% | ↑ 1.00 |
| | 2024 | 62.3% | ↑ 3.23 | 61.5% | ↑ 0.84 |
| | 2025 | 60.0% | ↓ 2.32 | 60.8% | ↓ 0.85 |
| We nurture healthy working environments | 2023 | 56.5% | | 56.1% | ↑ 0.37 |
| | 2024 | 57.8% | ↑ 1.27 | 57.8% | ↓ 0.03 |
| | 2025 | 56.4% | ↓ 1.41 | 56.5% | ↓ 0.15 |
| We recognise everyone's contribution | 2023 | 62.3% | | 61.5% | ↑ 0.83 |
| | 2024 | 62.5% | ↑ 0.16 | 62.1% | ↑ 0.37 |
| | 2025 | 60.5% | ↓ 1.99 | 61.2% | ↓ 0.72 |

*Ffigur 2: Sgoriau positifrwydd fesul thema yn 2025, 2024 a 2023, o'i gymharu â chyfartaledd GIG Cymru ar gyfer sefydliadau yn y Byrddau Iechyd*

## Cymariaethau yn ôl uwch adrannau

3.12 Yn gyffredinol, mae'r cyfraddau ymateb yn erbyn deg thema'r arolwg yn is yn y tri ysbyty cyffredinol nag mewn mannau eraill yn y sefydliad. Bydd angen profi'r rheswm dros hyn ymhellach ond efallai bod gofynion gwasanaethau ysbytai a phwysau o ran capasiti adeg yr arolwg wedi cyfrannu.

3.13 Dangosodd ymatebion staff yn Ysbyty Maelor Wrecsam welliannau mewn meysydd allweddol ac roeddent yn uwch na chyfartaledd Byrddau Iechyd GIG Cymru yn y pedair thema ganlynol; *Morâl*, *Diogelwch Cleifion*, *Rydyn ni'n Hyrwyddo Gweithio'n Hyblyg*, *Rydyn ni'n Meithrin Amgylcheddau Gwaith Iach*. Nid oedd yr un cynnydd i'w weld yn Ysbyty Glan Clwyd nac yn Ysbyty Gwynedd, lle'r oedd ymatebion staff yn is na chyfartaledd Byrddau Iechyd GIG Cymru ym mhob un o'r deg thema.

3.14 Roedd ymatebion i'r arolwg gan staff mewn gwasanaethau corfforaethol yn fwy cadarnhaol ar y cyfan ac yn sylweddol uwch na chyfartaledd Byrddau Iechyd GIG Cymru yn y meysydd canlynol; *Morâl*, *Ymgysylltiad staff*, *Rydyn ni'n dysgu ac yn gwella drwy'r amser*, *Rydyn ni'n gryfach gyda'n gilydd*, *Rydyn ni'n hyrwyddo gweithio'n hyblyg*, *Rydyn ni'n meithrin amgylcheddau gwaith iach*, *Rydyn ni'n cydnabod cyfraniad pawb*.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion gan staff a lenwodd yr arolwg ym maes IMAD a Gwasanaethau Plant yn cyfateb i'r cyfartaledd ar gyfer Byrddau Iechyd yn GIG Cymru neu'n uwch na hynny.

**Y camau nesaf**

3.15 Bydd angen dull gweithredu clir a chydlynol wrth ymateb i ganfyddiadau'r arolwg ac fe'i nodir mewn 'cynllun ar dudalen' yn **Atodiad 2**. Rhaid i'n hymateb hefyd fod yn gymesur er mwyn sicrhau cynnydd cyson ac ystyrlon, gan gydnabod pwysau gweithredol parhaus a newid sefydliadol ehangach ar yr un pryd.

3.16 Y grŵp cyflawni newydd, Pobl a Datblygu Sefydliadol, fydd yn goruchwylio'r cynllun hwn. O ran ymateb i'r hyn rydym wedi'i glywed, mae'n bwysig ein bod yn gallu dangos yn ymarferol i staff pa wahaniaeth y byddant yn ei weld wrth symud ymlaen.

3.17 Cynigir bod cynllun gweithredu'r arolwg staff yn canolbwyntio ar nifer fechan o feysydd thema allweddol. Gellir gwneud gwaith penodol i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i brofiad staff cyn Arolwg Staff blynyddol nesaf GIG Cymru ym mis Hydref 2026.

Rydym yn cynnig bod y sefydliad yn canolbwyntio ar y ddau faes blaenoriaeth canlynol sydd eisoes wedi'u cynnwys yng Nghynllun Gwella Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu'r Bwrdd Iechyd:

1. ***Rydyn ni'n dosturiol ac yn gynhwysol*** – er bod tosturi yn un o'n tri gwerth sefydliadol, ni yw'r Bwrdd Iechyd sy'n sgorio isaf yng Nghymru yn y thema hon

ac mae cyfran fawr o'r sylwadau ansoddol a ddaeth i law yn cyfeirio at ymddygiad gwael.

2. ***Rydyn ni i gyd yn gallu lleisio ein barn*** – mae hon yn thema sy'n codi dro ar ôl tro drwy nifer o sianeli adborth staff ac mae data'r Arolwg Staff yn ategu hyn. Nid oes yr un Bwrdd Iechyd yng Nghymru yn sgorio'n is na BIPBC yn y thema. Mae'n dwysáu'r adborth bod rhai cydweithwyr yn ofni codi eu llais. Mae cred na fyddai'r sefydliad yn gweithredu ar bryderon pe bai staff yn gwneud hynny. Mae'r ffaith mai dim ond un o bob pedwar aelod o staff a gymerodd ran yn yr arolwg eleni yn atgyfnerthu'r flaenoriaeth hon.

3.18 Fel y nodwyd uchod, mae gwaith sylweddol eisoes ar y gweill i fynd i'r afael â'r materion hyn drwy'r canlynol:

- Cynllun Gwella Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu 2026-28;
- Sylfeini'r Dyfodol;
- Datblygu'r Bwrdd:
- Pwyllgorau Pobl a Diwylliant lleol; a
- cryfhau'r fframwaith Codi Llais Heb Ofn.

3.19 Felly, nid cyflwyno rhaglenni newydd yw ffocws ein hymateb i'r arolwg, ond mynegi'n glir sut mae gwaith presennol ac arfaethedig yn cyd-fynd ag adborth staff, a sut y disgwylir iddo wella profiad staff dros amser.

Mae cyfle hefyd i weithredu'n lleol i fynd i'r afael â materion y mae'n well dylanwadu arnynt ar lefel tîm, gwasanaeth neu uwch adran. Bydd hyn yn ategu'r ffocws corfforaethol ar themâu blaenoriaeth sy'n gofyn am arweinyddiaeth a chefnogaeth sefydliadol gyson, fel bod staff yn teimlo bod newid yn digwydd yn eu maes gwaith, nid dim ond ar lefel sefydliadol cyffredinol.

3.20 Mae'r dull hwn yn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o ganlyniadau arolwg 2024, yn cyd-fynd ag arferion da ar draws GIG Cymru ac yn atgyfnerthu'r egwyddor bod y cyfrifoldeb dros wella profiad staff yn rhywbeth i'r sefydliad i gyd, yn hytrach nag yn rhywbeth canolog.

Disgwylir i Gyfarwyddwyr fod yn atebol am sicrhau bod canlyniadau'r arolwg ar gyfer eu meysydd cyfrifoldeb nhw yn cael eu hystyried a bod camau cymesur yn cael eu nodi ac yn cael sylw.

Pwyllgorau Pobl a Diwylliant lleol yw'r prif fforwm ar gyfer trafod, cefnogi a goruchwylio ymatebion lleol i adborth arolygon heb gyflwyno baich adrodd ychwanegol.

Mae Arweinwyr yr Arolwg Staff ac Arweinwyr Newid Diwylliant yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o alluogi sgyrsiau lleol, cefnogi prosesau dehongli data a helpu timau i nodi gwelliannau ymarferol.

I gefnogi'r uchod, mae cyngor canolog ar gael i helpu cydweithwyr i ddeall beth mae'r arolwg yn ei ddweud wrthynt ac i gefnogi camau gweithredu.

3.21 Bydd y dull a gyflwynwyd y llynedd – sef '*Fe ddywedoch chi, Fe wnaethon ni*' – i gyfleu camau i ymateb i'r arolwg, yn parhau. Byddwn hefyd yn tynnu sylw at waith rhagorol sy'n digwydd ar draws y sefydliad er mwyn rhannu rhagoriaeth i ysbrydoli eraill.

## 4 RISGIAU ALLWEDDOL / MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO KEY RISKS / MATTERS FOR ESCALATION

Mae canlyniadau Arolwg Staff GIG Cymru 2025 yn dangos dirywiad mewn meysydd allweddol, gan gynnwys sgôr mynegai ymgysylltiad staff.

Mae risg y bydd lefelau ymgysylltu a chyfranogiad staff ar draws y sefydliad yn dirywio oherwydd pwysau gweithredol a blaenoriaethau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd, gan gynnwys newid sefydliadol o ganlyniad i'r rhaglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol.

## 5 ARGYMHELLION RECOMMENDATIONS

Gofynnir i'r Pwyllgor/Cyfarfod/Grŵp:
The Board is asked to:

- **NODI A THRAFOD** canlyniadau Arolwg Staff GIG Cymru 2025;
- **CEFNOGI'R** camau nesaf sydd wedi'u cynllunio.

**Atodiad 1**

# 2025 Snapshot

GIG Cymru | NHS Wales
Arolwg Staff | Staff Survey

## Participation

**5,203**
BCUHB staff took part

- 45% increase in participants from 2024
- 24.9% of staff (1,626 additional voices heard, up from 17.4% in 2024)
- Respondents 75.4% female; 15.8% male; largest age group 51-65 (33.1%); 76.0% identify as white British; 17.1% have an impairment; and 13.3% consider themselves neuro diverse / divergent

## Staff Engagement Index Score


**69.3%**

- Reduction on 2024 score of 70.9% and 2023 score of 71.3%
- 1.5% beneath Wales average of 70.8%
- Broadly in line with all Wales NHS engagement index score which has deteriorated by 0.8pp each year from 2023 onwards

## Motivation

Higher score than Wales HB average:

- 65.2% enthusiastic about their jobs (Wales HB avg. 64.1%)
- 78.5% of staff happy to go the extra mile (Wales HB avg. 77.2%)
- 87.5% feel trusted to do their job (down 1.17pp on 2024; just above the Wales HB avg. 87.4%)




| | 2024 score | 2025 score | National average | |
|---|---|---|---|---|
| Morale | 55.0 | 53.6 | 53.7 | 0.1 ↓ |
| Patient Safety | 59.1 | 58.6 | 59.7 | 1.1 ↓ |
| Staff Engagement | 58.8 | 55.9 | 57.7 | 1.8 ↓ |
| We are able to speak up | 65.8 | 63.9 | 65.6 | 1.7 ↓ |
| We are compassionate and inclusive | 69.1 | 67.6 | 69.6 | 2.0 ↓ |
| We are continuously learning and improving | 63.5 | 62.4 | 63.1 | 0.7 ↓ |
| We are stronger together | 70.4 | 68.5 | 68.7 | 0.2 ↓ |
| We champion flexible working | 62.3 | 60.0 | 60.8 | 0.8 ↓ |
| We nurture healthy working environments | 57.8 | 54.7 | 54.9 | 0.2 ↓ |
| We recognise everyone's contribution | 62.5 | 60.5 | 61.2 | 0.7 ↓ |

## Caring, belonging and feeling valued

- Although we are the lowest scoring health board in the *'We are compassionate and inclusive'* theme at 67.6% (a drop of 1.47pp from 2024), we are only 2pp from the national average
- 82.9% think we are compassionate towards patients / service users (down 0.41pp; just below Wales HB avg. of 83.3%)
- 72% feel that their immediate line manager values their work (down 1.86pp since 2024; Wales HB avg. 71.5)
- Only 44% feel their work is valued by the organisation (dropped 2.66pp since 2024; Wales HB avg. 47.6%)

## Support through change

- Drop in positivity relating to involvement in deciding on changes that affect their work / area / team / department from 55.7% in 2023, 48.1% in 2024 to 43.9% in 2025
- Below national average (70.3%) relating to compassionate culture (67.4%), a drop of 1.38pp on 2024

## Advocacy and feeling proud

- 50.3% are proud to tell people they work here (down 1.16pp since 2024; Wales HB avg. 58%)
- 47.7% would recommend BCUHB as a place to work (dropped 4.28pp since 2024; Wales HB avg. 53.2%)
- 44.4% would be happy with the standard of care provided if a friend or relative needed treatment (a fall of 2.51pp since 2024; 10.90pp below Wales HB avg. of 55.3%)

## Speaking up

- We are the lowest scoring health board in the *'We are all able to speak up'* theme
- 74.4% feel secure raising concerns about unsafe clinical practice (down 1.23pp on 2024 and just under the Wales HB avg. of 74.8%)
- 74.3% feel secure raising concerns about unethical behaviour (down 0.44pp from 2024; slightly under the Wales HB avg. of 75%)
- But only 52.3% feel safe to speak up about general concerns (a 2.36pp deterioration from 2024; 4.46pp below the Wales HB avg. of 56.7%)
- Only 36.7% feel that the organisation would address their concerns if they spoke up. This is a 0.61pp fall on our 2024 score; and is 5.67pp below the Wales HB avg. of 42.4%)

**Atodiad 2 – Cynllun Arolwg Staff y GIG 2025 ar dudalen**

| Dyddiad | Gweithredu | Manylion |
|---|---|---|
| 6 Hydref 2025 – 1 Rhagfyr 2025 | Arolwg Staff GIG Cymru 2025 yn fyw | |
| 23 Chwefror 2026 | Sefydliadau GIG Cymru yn cael mynediad at ddata meintiol drwy ddangosfwrdd gwybodaeth AaGIC | Ymatebodd 5,203 o weithwyr Bwrdd Iechyd BIPBC i'r arolwg – cynnydd o 45 y cant ers 2024 |
| 9 Mawrth | Holl Gyfarwyddwyr BIPBC yn cael adroddiadau ar ganlyniadau eu cyfarwyddiaeth er mwyn llywio sgyrsiau a chamau gweithredu | |
| Drwy gydol mis Ebrill | Sesiynau briffio drwy gyfarfodydd sefydledig gan gynnwys yr holl Bwyllgorau Pobl a Diwylliant lleol i gefnogi'r dasg o ddehongli canlyniadau | Y Pwyllgorau Pobl a Diwylliant lleol yw'r prif fforwm ar gyfer trafod a monitro |
| Drwy gydol mis Ebrill | Arweinwyr arolygon staff, arweinwyr adrannol a chydweithwyr Gwasanaethau Pobl yn cael mynediad at ddangosfwrdd AaGIC i adolygu perfformiad yn eu maes cyfrifoldeb a nodi cyfleoedd i wella | Enwebwyd dros 90 o gydweithwyr ar draws y sefydliad fel Arweinwyr lleol ar gyfer yr Arolwg Staff i gydlynu'r dasg o rannu canlyniadau a chamau gweithredu i ymateb yn lleol |
| 2 Ebrill 2026 | Sefydliadau GIG Cymru yn cael mynediad at ddata ansoddol (sylwadau testun rhydd) | Cafwyd 1,649 o sylwadau gan weithwyr BIPBC |
| Yr wythnos yn dechrau ar 6 Ebrill | Cynnig hyfforddiant a chefnogaeth ar ddefnyddio dangosfwrdd data AaGIC | Y llynedd, manteisiodd dros 70 o aelodau staff ar y cynnig o hyfforddiant ac maent wedi gallu hyfforddi cydweithwyr lleol eraill |
| 22 Ebrill | Diweddaru cyfarfod y Tîm Cyflogaeth | |

| | | |
|---|---|---|
| 23 Ebrill | Diweddaru Fforwm y Rheolwr Pobl | |
| 24 Ebrill | Diweddariad i gyfarfod Grŵp Partneriaeth y Gweithlu | |
| Dechrau mis Mai (dyddiad i'w gadarnhau) 2026 | AaGIC yn cyhoeddi adroddiad ar y canfyddiadau cenedlaethol (ac eithrio data ansoddol) | |
| 5 Mai | Diweddaru'r Fforwm Partneriaeth Lleol | |
| Yr wythnos yn dechrau ar 11 Mai | Cyhoeddi prif ganfyddiadau'r arolwg ar BetsiNet ar gyfer yr holl staff a rhannu deunyddiau ategol gan gynnwys templedi a chanllawiau. Cynnwys y ddau faes ffocws allweddol ar gyfer y sefydliad – ein hawgrym ni yw *Rydyn ni'n dosturiol ac yn gynhwysol* a *Rydyn ni i gyd yn gallu lleisio ein barn* | Cynnydd yn erbyn camau gweithredu i'w blaenoriaethu yr Arolwg Staff lleol sy'n cael eu monitro drwy Bwyllgorau Pobl a Diwylliant lleol, gan ddarparu goruchwyliaeth a sicrwydd lleol |
| Mehefin a dros yr haf | Hyrwyddo astudiaethau achos timau sydd wedi gweithredu ar adborth yr arolwg a thempledi ar gyfer y poster *Fe ddywedoch chi, Fe wnaethon ni* i'w haddasu'n lleol | |

| ASESIAD / ASSESSMENT | |
|---|---|
| **Cyswllt â'r Blaenoriaethau Strategol**<br>**Link to Strategic Priorities** | 3. Creu diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltiad tosturiol |
| | |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: |

| | |
|---|---|
| **Yr Egwyddorion Dylunio**<br>**Design Principles** | Pobl yn Gyntaf<br>Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: |
| **Fframwaith Risgiau Corfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd**<br>**Corporate Risks and Board Assurance Framework** | **CRR24-01 –** Mae risg nad oes gan PBC weithlu medrus, ymgysylltiedig a llawn cymhelliant, a gallai hyn effeithio ar ddarparu gofal yn ddiogel. Gallai hyn fod oherwydd diffygion staffio, enw da'r sefydliad a staff ddim yn teimlo'n ddiogel yn seicolegol a allai arwain at orflino. Gallai hyn arwain at anallu i ddenu a chadw pobl fedrus o safon uchel. |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant**<br>**Wellbeing of Future Generations Act – Wellbeing Goals** | Cymru Iachach<br><br>Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: |

| **ASESIADAU O EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS** | | |
|---|---|---|
| **Cydraddoldeb**<br>*A ydych chi wedi cynnal Prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (sy'n cynnwys gofynion Safonau'r Gymraeg)*<br>**Equality**<br>*Have you undertaken an Equality Impact Assessment Screening (which includes the requirements of the Welsh Language Standards)* | Do/Yes: ☐<br>Canlyniad/Outcome:<br><br>Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Naddo/No: ☒ |
| **Asesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol**<br>*A ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol?*<br>**Socio-Economic Impact Assessment**<br>*Have you undertaken a Socio-Economic Impact Assessment* | Do/Yes: ☐<br>Canlyniad/Outcome:<br><br>Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Naddo/No: ☒ |
| **Ansawdd**<br>*A ydych chi wedi ymgymryd â phrawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd?*<br>**Quality** | **Galluogwyr Ansawdd**<br>**Enablers of Quality**<br>Diwylliant a Gwerthfawrogi Pobl | **Meysydd Ansawdd**<br>**Domains of Quality**<br>Effeithlon |

| | | |
|---|---|---|
| *Have you undertaken a Quality Impact Assessment Screening?* | | |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: |
| | | |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant**<br>**Wellbeing of Future Generations Act – Wellbeing Goals** | Cymru Iachach | |

| | | |
|---|---|---|
| **Effaith Amgylcheddol / Cynaliadwyedd (5Rs)**<br>**Environmental /Sustainability Impact (5Rs)** | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: | |
| | Na - Ddim yn berthnasol | |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny:<br>If more than one applies, please list: | |
| **Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog**<br>A ydych chi wedi ystyried Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog:<br>**Armed Forces Covenant Due Regard Duty**<br>Have you considered the Armed Forces Covenant Due Regard Duty? | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | |
| **Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data**<br>*A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data?*<br>**Data Protection Impact Assessment**<br>*Have you undertaken a Data Protection Impact Assessment Screening?* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | |

| | | |
|---|---|---|
| **Asesiad o Effaith ar Atal Twyll**<br>*A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau ar atal twyll?*<br>**Counter Fraud Impact Assessment**<br>*Have you considered the counter fraud impacts* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | |
| **Cyfreithiol**<br>**Legal** | Nid oes goblygiadau cyfreithiol penodol yn gysylltiedig â'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn. | |
| | | |
| **Enw Da**<br>**Reputational** | Nid oes effaith uniongyrchol ar enw da'r Bwrdd Iechyd o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn. | |
| | | |
| **Effaith ar Adnoddau**<br>*(Pobl / Ariannol)*<br>**Resource Impact**<br>*(People / Financial)* | Nid oes effaith uniongyrchol ar adnoddau o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn. | |
| | | |

## Bwrdd Iechyd

**Cynnig i ddod yn Bartner Maethu Cymru ac yn Gyflogwr sy'n Gyfeillgar i Faethu**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod**<br>**Date of Meeting** | 28 May 2026 |
| **Statws Cyhoeddi**<br>**Publication Status** | Agored/ Cyhoeddus |
| | Statws Drafft - Bydd y Fersiwn Derfynol yn cael ei Chyhoeddi |
| **Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad**<br>**Report Author name and title** | Helen Stevens Jones, Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu |
| **Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol**<br>**Lead Executive Team Member name and title** | Debbie Eyitayo, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Pobl a Datblygu Sefydliadol |

| | |
|---|---|
| **Pwrpas yr Adroddiad**<br>**Report Purpose** | I'w Gymeradwyo |

**Crynodeb Gweithredol**
**Executive Summary**

Mae'r papur hwn yn nodi bwriad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) i wneud ymrwymiad sefydliadol ffurfiol i ddod yn Bartner Maethu Cymru a Chyflogwr sy'n Gyfeillgar i Faethu.

Byddai'r ymrwymiad hwn yn cydnabod ac yn cryfhau cefnogaeth y sefydliad i weithwyr sy'n ofalwyr maeth, ac yn cyfrannu at ymdrechion rhanbarthol a chenedlaethol ehangach i gynyddu nifer y gofalwyr maeth ledled Gogledd Cymru, gan gefnogi'r plant a'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed yn y gymuned.

Mae BIPBC eisoes mewn sefyllfa dda i wneud yr ymrwymiad hwn. Mae polisïau presennol Pobl y GIG ar gyfer Cymru gyfan — gan gynnwys y Polisi Absenoldeb Arbennig, y Polisi Gweithio'n Hyblyg — yn darparu fframwaith cryf sy'n galluogi i gefnogi gweithwyr sy'n maethu. Byddai ffurfioli'r ymrwymiad hwn drwy ymrwymo i ddod yn Bartner Maethu Cymru (Lefel 2) yn adeiladu ar y ddarpariaeth bresennol ac yn cyd-fynd â rôl Sefydliad Angori'r Bwrdd Iechyd, blaenoriaethau llesiant gweithwyr, ac ymrwymiad i gefnogi'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu.

| |
|---|
| Cynigir bod y Bwrdd yn mabwysiadu'r ymrwymiad hwn yn ffurfiol yn ei gyfarfod ym mis Mai 2026, gan gyd-fynd â Phythefnos Gofal Maeth, gan ddangos arweinyddiaeth sefydliadol a chefnogaeth gymunedol clir a gweladwy. |

| **Ymgysylltu (mewnol/allanol) yr ymgymerwyd ag ef hyd yma (gan gynnwys derbyn/ ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp)**<br>**Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)** | | |
|---|---|---|
| **Pwyllgor / Grŵp / Unigolion**<br>**Committee / Group / Individuals** | **Dyddiad**<br>**Date** | **Canlyniad, Tystiolaeth a Data**<br>**Outcome, Evidence and Data** |
| Pwyllgor Gweithredol | 25/03/26 | Cryfhau'r cysylltiadau â'r Gymraeg gan gyfeirio at Maethu Cymru. |
| Pwyllgor Pobl a Diwylliant | 09/04/26 | Cymeradwywyd y cyflwyniad i'r Bwrdd |

| **Acronymau / Rhestr Termau**<br>**Acronyms / Glossary of Terms** | |
|---|---|
| | |

# CYNNIG I DDOD YN BARTNER MAETHU CYMRU A CHYFLOGWR SY'N GYFEILLGAR I FAETHU

## 1. CEFNDIR A CHYD-DESTUN STRATEGOL

Mae gofalwyr maeth yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o ddarparu sefydlogrwydd, gofal a chymorth i blant a phobl ifanc nad ydynt yn gallu byw gyda'u teuluoedd. Mae Maethu Cymru, y rhwydwaith cenedlaethol o wasanaethau maethu awdurdodau lleol yng Nghymru, yn gweithio i recriwtio a chefnogi gofalwyr maeth a gwella canlyniadau i blant mewn gofal.

Ar hyn o bryd mae tua 7,000 o blant mewn gofal ledled Cymru, gyda chefnogaeth tua 3,800 o deuluoedd maeth. Yng Ngogledd Cymru, mae 532 o deuluoedd maeth yn cefnogi oddeutu 1,300 o blant a phobl ifanc. Fodd bynnag, cydnabyddir bod angen o leiaf 50 o aelwydydd maeth ychwanegol bob blwyddyn yng Ngogledd Cymru i ateb y galw cynyddol a sicrhau bod plant yn gallu aros yn agos at eu cymunedau.

Mae llawer o ofalwyr maeth yn cyfuno maethu â chyflogaeth. Mae tua 40% o ofalwyr maeth yn parhau i weithio, gan gynnwys unigolion a gyflogir yn BIPBC. Mae hyblygrwydd a chefnogaeth cyflogwyr yn hanfodol i alluogi staff i ymgymryd â chyfrifoldebau maethu, a allai gynnwys cael hyfforddiant, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i anghenion lleoliadau.

Fel un o'r cyflogwyr mwyaf yng Ngogledd Cymru, mae gan BIPBC gyfle i ddangos arweinyddiaeth wrth gefnogi gofalwyr maeth a chyfrannu at ymdrechion rhanbarthol i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc.

Mae hyn yn cyd-fynd yn gryf â rôl y Bwrdd Iechyd fel Sefydliad Angori — gan gefnogi llesiant cymunedau nid yn unig drwy ddarparu gofal iechyd, ond drwy arferion cyflogaeth, gwerth cymdeithasol a gweithio mewn partneriaeth.

Mae Maethu Cymru'n cynnig dwy lefel ategol o ymrwymiad sefydliadol i gefnogi maethu. Mae'r cyntaf, sef bod yn Gyflogwr sy'n Gyfeillgar i Faethu**,** yn canolbwyntio ar sicrhau bod polisïau, canllawiau a diwylliant sefydliadol gwasanaethau pobl yn mynd ati i gefnogi gweithwyr sy'n ofalwyr maeth, gan gynnwys galluogi hyblygrwydd, darparu absenoldeb priodol, a chodi ymwybyddiaeth o faethu yn y sefydliad.

Byddai'r ail, gan ddod yn Bartner Maethu Cymru**,** yn cynrychioli ymrwymiad strategol ehangach sy'n cyd-fynd â rôl y Bwrdd Iechyd fel Sefydliad Angori. Byddai hyn yn cynnwys cefnogi gweithwyr sy'n maethu, yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth weithredol â Maethu Cymru ac awdurdodau lleol i hyrwyddo maethu, cyfrannu at ymdrechion recriwtio rhanbarthol, a dangos arweinyddiaeth sefydliadol o ran gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc mewn gofal. Mae'r sefydliad wedi ymrwymo i symud ymlaen i lefel 2 Partner Maethu Cymru yn y lle cyntaf.

## 2. Y SEFYLLFA BRESENNOL

Mae BIPBC eisoes yn gweithredu cyfres gynhwysfawr o bolisïau Pobl GIG Cymru Gyfan sy'n darparu sylfaen gref ar gyfer cefnogi gofalwyr maeth.

Mae'r rhain yn cynnwys:

**Polisi Absenoldeb Arbennig (Cymru Gyfan)**

Mae'r Polisi Absenoldeb Arbennig yn galluogi rheolwyr i ganiatáu absenoldeb â thâl neu absenoldeb di-dâl mewn amrywiaeth o amgylchiadau, gan gynnwys cyfrifoldebau teuluol, argyfyngau domestig, ac amgylchiadau eithriadol eraill. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i gefnogi gweithwyr sy'n mynd i gyfarfodydd sy'n ymwneud â maethu, cael hyfforddiant, ac ymateb i anghenion lleoliadau. Byddai'r amser hwn yn ddi-dâl.

**Polisi Gweithio'n Hyblyg (Cymru Gyfan)**

Mae'r Polisi Gweithio'n Hyblyg yn galluogi gweithwyr i ofyn am newidiadau i batrymau gweithio, oriau neu leoliad, gan gefnogi cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a galluogi staff i reoli cyfrifoldebau gofalu ochr yn ochr â'u cyflogaeth.

## 3. CYNNIG - DOD YN BARTNER MAETHU CYMRU

Byddai dod yn Bartner Maethu Cymru yn cynrychioli ymrwymiad sefydliadol ffurfiol i gefnogi gofalwyr maeth a gweithio mewn partneriaeth â Maethu Cymru Gogledd Cymru. Cynigir bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ymrwymo i gyrraedd y lefel hon yn y lle cyntaf.

Byddai hyn yn cynnwys:

- Ymrwymiad ffurfiol ar lefel Bwrdd i fod yn sefydliad sy'n Gyfeillgar i Faethu.
- Cydnabod gofalwyr maeth o fewn cymorth i'r gweithlu a diwylliant sefydliadol.
- Gweithio mewn partneriaeth â Maethu Cymru Gogledd Cymru.
- Codi ymwybyddiaeth o faethu ymhlith staff ac yn y sefydliad.
- Cefnogi gweithwyr sy'n maethu neu sy'n ystyried maethu.
- Dangos rôl y Bwrdd Iechyd fel Sefydliad Angori sy'n gyfrifol yn gymdeithasol.

Mae gan BIPBC sylfaen gref i gyflawni'r lefel hon drwy fabwysiadu polisïau Absenoldeb Arbennig a Gweithio'n Hyblyg Cymru Gyfan.

Byddai'r ymrwymiad hwn yn cyd-fynd â gwerthoedd sefydliadol BIPBC a blaenoriaethau ehangach sy'n ymwneud â llesiant gweithwyr, cydraddoldeb ac ymgysylltu â'r gymuned. Byddem hefyd yn ymrwymo i ddargyfeirio adnoddau presennol o fewn Gwasanaethau Pobl i weithio ar gyflawni'r lefel hon.

## 4. STATWS CYFLOGWR SY'N GYFEILLGAR I FAETHU

Byddai cyflawni statws Cyflogwr sy'n Gyfeillgar i Faethu ffurfiol yn gofyn am ragor o waith i sicrhau bod maethu'n cael ei gydnabod yn benodol a'i gefnogi'n gyson mewn polisïau, canllawiau ac arferion sefydliadol.

Byddai hyn yn cynnwys adolygu polisïau presennol Gwasanaethau Pobl a chanllawiau cysylltiedig i sicrhau bod cyfrifoldebau maethu'n cael eu cefnogi a'u nodi'n glir, a bod dealltwriaeth sefydliadol gyson o sut y gellir cymhwyso'r darpariaethau presennol, gan gynnwys Absenoldeb Arbennig a Gweithio'n Hyblyg, i ofalwyr maeth. Byddai hefyd angen ymgysylltu â Gwasanaethau Pobl a Datblygu Sefydliadol, cydweithwyr partneriaeth staff, a Maethu Cymru Gogledd Cymru i sicrhau bod unrhyw welliannau'n briodol, yn gymesur ac yn ymarferol bosibl eu cyflawni.

Bydd meysydd ffocws penodol yn cynnwys y canlynol:

- Adolygu canllawiau a pholisïau pobl perthnasol i sicrhau bod maethu'n cael ei gydnabod yn briodol o fewn darpariaethau presennol.
- Datblygu canllawiau ategol i reolwyr i hyrwyddo defnydd cyson a chefnogol o ddarpariaethau Absenoldeb Arbennig a Gweithio'n Hyblyg ar gyfer gofalwyr maeth.
- Ystyried a ddylid cyflwyno unrhyw ddarpariaethau dewisol ychwanegol, fel dyraniad diffiniedig o absenoldeb â thâl ar gyfer cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â maethu, yn ffurfiol, gan ystyried effaith weithredol a thegwch â chyfrifoldebau gofalu eraill.
- Codi ymwybyddiaeth ymysg staff a rheolwyr o'r cymorth sydd ar gael, a hyrwyddo maethu fel rhan o Sefydliad Angori ehangach y Bwrdd Iechyd ac ymrwymiadau gwerth cymdeithasol.
- Gweithio gyda Maethu Cymru i ffurfioli cydnabyddiaeth sefydliadol a threfniadau partneriaeth.

Gellid bwrw ymlaen â'r gwaith ar ôl i'r Bwrdd ymrwymo a chyrraedd statws Partner Maethu Cymru. Byddai hyn yn sicrhau bod BIPBC nid yn unig yn bodloni, ond yn gwreiddio'n ystyrlon, safonau Cyflogwr sy'n Gyfeillgar i Faethu mewn ffordd sy'n gynaliadwy, yn deg ac yn cyd-fynd â fframweithiau presennol y gweithlu.

Trafodwyd y cynnig hwn yn y Pwyllgor Pobl a Diwylliant diweddar ym mis Ebrill 2026 ac fe'i cefnogwyd yn llawn gan aelodau'r pwyllgor.

## 5. Y CAMAU NESAF

Dyma'r camau nesaf yn amodol ar dderbyn ymrwymiad y Bwrdd:

- Gwasanaethau Pobl a Datblygu Sefydliadol i wneud rhagor o waith i adolygu polisïau, canllawiau ac arferion sefydliadol presennol Gwasanaethau Pobl i gefnogi'r gwaith o gyflawni statws Cyflogwr sy'n Gyfeillgar i Faethu.
- Bydd y gwaith hwn yn cynnwys ymgysylltu â Maethu Cymru Gogledd Cymru, cydweithwyr partneriaeth staff, a rhanddeiliaid mewnol perthnasol, a bydd yn ystyried a oes angen unrhyw welliannau i ddarpariaethau, canllawiau neu gyfathrebiadau presennol i sicrhau bod maethu'n cael ei gefnogi'n benodol ac yn gyson ar draws y sefydliad.
- Diweddariad cynnydd i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant, gan gynnwys unrhyw eglurhad polisi arfaethedig, canllawiau a chamau gweithredu.
- Bydd y gwaith o weithredu gweithgareddau partneriaeth, cyfathrebu ac ymwybyddiaeth yn cael ei ddatblygu yn ystod 2026/27, gyda goruchwyliaeth drwy'r Gwasanaethau Pobl presennol a threfniadau llywodraethiant sefydliadol.

## 6. ARGYMHELLION

Gofynnir i'r Bwrdd wneud y canlynol:

1. Cymeradwyo'r bwriad i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ddod yn Bartner Maethu Cymru, sy'n cyd-fynd â Phythefnos Gofal Maeth.
2. Sylwch fod dod yn Bartner Maethu Cymru yn adlewyrchu rôl y Bwrdd Iechyd fel Sefydliad Angori, gan gefnogi llesiant plant a phobl ifanc a chyfrannu at gapasiti maethu rhanbarthol ledled Gogledd Cymru.
3. Sylwch fod gan BIPBC eisoes sylfaen gref drwy fabwysiadu polisïau Gwasanaethau Pobl Cymru Gyfan, sy'n cynnig hyblygrwydd a chefnogaeth i weithwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu, gan gynnwys gofalwyr maeth.
4. Cefnogi rhagor o waith yn 2026/27, dan arweiniad Pobl a Datblygu Sefydliadol, i symud ymlaen i ennill statws Cyflogwr sy'n Gyfeillgar i Faethu, gan gynnwys adolygu polisïau perthnasol, canllawiau ategol, ac arferion sefydliadol.
5. Cytuno y bydd cynnydd sefydliadol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant er sicrwydd.

| ASESIAD / ASSESSMENT | |
|---|---|
| **Cyswllt â'r Blaenoriaethau Strategol**<br>**Link to Strategic Priorities** | 4. Creu System Gofal Iechyd Fodern sy'n Canolbwyntio ar Bobl<br><br>Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:<br>Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod: |
| **Yr Egwyddorion Dylunio Dylunio** | Dewiswch eitem.<br>Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:<br>Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:<br>N/A |
| **Fframwaith Risgiau Corfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd**<br>**Corporate Risks and Board Assurance Framework** | N/A |

| ASESIADAU O EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS | | |
|---|---|---|
| **Deddf Cydraddoldeb 2010 Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus:**<br>**A yw BIPBC wedi darparu tystiolaeth o 'Sylw Dyledus' i gydymffurfio â thair rhan Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (Dyletswydd Gyffredinol):**<br>[Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus [Html] LLYW.CYMRU]() | Do/Yes: ☒ | Naddo/No: ☐ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | |
| **Deddf Cydraddoldeb 2010 - Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol**<br>*A yw BIPBC wedi darparu tystiolaeth o 'Sylw Dyledus' o ran cydymffurfio â'r Ddyletswydd Economaidd-* | Do/Yes: ☒ | Naddo/No: ☐ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | |

| | | |
|---|---|---|
| *gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol?* | | |
| *Ydych chi wedi llenwi Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb Integredig WP8a?* <br> *[Templed WP8a]* | Canlyniad/Outcome: <br> Do/Yes: | Naddo/No: |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: <br> If no, please include rationale: <br> Canlynaid/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: <br> If no, please include rationale: | |
| **Deddf Hawliau Dynol** <br> *A roddodd Wp8a sylw i bryderon sy'n ymwneud â Hawliau Dynol* | Do/Yes: ☒ | Naddo/No: ☐ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| **Cydymffurfio â gofynion o ran y Gymraeg?** <br> *Ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith* | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: <br> If no, please include rationale: | Naddo/No: ☐ |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: <br> If no, please include rationale: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: <br> If no, please include rationale: | |
| **Cydymffurfiad o ran rhoi "Sylw Dyledus" i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog** <br> *A roddodd WP8a sylw i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog* | Do/Yes: ☒ | Naddo/No: ☐ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: <br> If no, please include rationale: | |
| **[Ansawdd]** <br> *A ydych chi wedi ymgymryd â phrawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd?* <br> **[Quality]** | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☐ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | **Galluogwyr Ansawdd Enablers of Quality** | |

| | | |
|---|---|---|
| *Have you undertaken a Quality Impact Assessment Screening?* | Dewiswch eitem.<br><br>Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:<br>Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod: | |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant Wellbeing of Future Generations Act – Wellbeing Goals** | Dewiswch eitem. | |
| **Effaith Amgylcheddol / Cynaliadwyedd (5Rs) Environmental /Sustainability Impact (5Rs)** | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:<br>Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod: | |
| | Dewiswch eitem. | |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny:<br>If more than one applies, please list: | |
| **Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data** *A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data?* **Data Protection Impact Assessment** *Have you undertaken a Data Protection Impact Assessment Screening?* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | |
| **Asesiad o Effaith ar Atal Twyll** *A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau ar atal twyll?* **Counter Fraud Impact** *Have you considered the counter fraud impacts* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | |
| **Cyfreithiol Legal** | Dewiswch eitem. | |
| | | |
| **Enw Da Reputational** | Dewiswch eitem. | |
| | | |
| **Effaith ar Adnoddau** | Dewiswch eitem. | |

| | |
|---|---|
| *(Pobl / Ariannol)*<br>**Resource Impact**<br>*(People / Financial)* | |

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

# Bwrdd Iechyd

## FFRAMWAITH SICRWYDD Y BWRDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod**<br>**Date of Meeting** | 28 Mai 2026 |
| **Statws Cyhoeddi**<br>**Publication Status** | Agored / Cyhoeddus |
| | Amherthnasol |
| **Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad**<br>**Report Author name and title** | Jody Evans, Pennaeth Cynorthwyol Rheoli Risgiau |
| **Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol**<br>**Lead Executive Team Member name and title** | Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol |

| | |
|---|---|
| **Pwrpas yr Adroddiad**<br>**Report Purpose** | I'w Gymeradwyo |

**Crynodeb Gweithredol**
**Executive Summary**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi trosolwg cyfunol i'r Bwrdd o sefyllfa bresennol Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, gan gynnwys statws camau lliniaru a'u haliniad â'r pedwar Bwriad Strategol a gymeradwywyd ym mis Mawrth 2026.

Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn parhau i ddarparu mecanwaith strwythuredig ar gyfer nodi a rheoli risgiau strategol i gyflawni amcanion sefydliadol. Mae cynnydd wedi cael ei wneud ar draws sawl maes; fodd bynnag, mae cyfran sylweddol o'r camau gweithredu heb eu cyflawni o hyd, gyda nifer fawr ohonynt bellach wedi'u gohirio neu'n hwyr. Mae hyn yn effeithio ar sgoriau sicrwydd ar draws nifer o brif risgiau, gan gynnwys y gweithlu, trawsnewid digidol, cynaliadwyedd ariannol, mynediad at ofal ac ansawdd gwasanaethau.

Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi cael ei adolygu'n gynhwysfawr drwy strwythur pwyllgorau'r Bwrdd Iechyd. Mae pwyllgorau wedi darparu sgoriau sicrwydd a sylwadau ar sefyllfaoedd risg, rheoli effeithiolrwydd a chynnydd yn erbyn camau lliniaru.

Er bod cynnydd yn cael ei gydnabod, mae adborth cyson wedi tynnu sylw at yr angen i gryfhau eglurder a phenodoldeb camau gweithredu ac, yn hollbwysig, i ddarparu adroddiadau mwy cadarn – sy'n seiliedig ar dystiolaeth – ar gynnydd i gefnogi hyder yn lefel y sicrwydd a gyflwynir i'r Bwrdd.

Mae'r sefyllfa bresennol yn adlewyrchu fframwaith sy'n dal i ddatblygu mewn aeddfedrwydd. Mae gofyniad clir i symud y tu hwnt i adrodd disgrifiadol tuag at gyflawni ac effaith amlwg, wedi'i ategu gan ganlyniadau mesuradwy a thystiolaeth gryfach o reoli effeithiolrwydd. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun statws Mesurau Arbennig y Bwrdd Iechyd a'r gofyniad i ddangos gwelliant parhaus mewn trefniadau llywodraethu a rheoli risg.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i fapio'r holl gamau gweithredu presennol, a'r camau sydd heb eu cwblhau, i'r pedwar Bwriad Strategol fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ar ei newydd wedd ar gyfer 2026–2029. Mae hyn yn rhoi cyfle i gryfhau blaenoriaethau, cysoni camau gweithredu'n gliriach â chanlyniadau strategol, a sicrhau bod adnoddau'n cael eu hatgyfeirio at y meysydd sydd â'r risg a'r effaith fwyaf.

Ochr yn ochr â hyn, mae pedair prif risg arfaethedig wedi cael eu datblygu i'w cynnwys yn Fframwaith Sicrwydd newydd y Bwrdd ar gyfer 2026–2029, sy'n cyd-fynd â'r Bwriadau Strategol, ac maent yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd eu hadolygu a rhoi sylwadau arnynt.

Bydd cryfhau sail ansawdd, cysondeb a thystiolaeth Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer 2026/27. Bydd y Pwyllgor Archwilio yn chwarae rhan ganolog yn y cam nesaf hwn, gan graffu a goruchwylio'n well er mwyn gwella ansawdd y camau gweithredu, sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni'n amserol, a chryfhau'r sicrwydd sydd ar gael i'r Bwrdd.

Yn gyffredinol, er bod Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn parhau i ddarparu llinell weledigaeth hanfodol ar risg strategol, mae angen gwelliant pellach i sicrhau ei fod yn darparu'r lefel o sicrwydd cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi penderfyniadau effeithiol y Bwrdd.

| **Ymgysylltu (mewnol/allanol) yr ymgymerwyd ag ef hyd yma (gan gynnwys derbyn/ ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp)**<br>**Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)** | | |
|---|---|---|
| **Pwyllgor / Grŵp / Unigolion**<br>**Committee / Group / Individuals** | **Dyddiad**<br>**Date** | **Canlyniad, Tystiolaeth a Data**<br>**Outcome, Evidence and Data** |
| **Grŵp Craffu ar Risg (RSG)** | 16 Ebrill 2026 | Adroddiad Llawn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd |
| **Y Pwyllgor Gweithredol** | 22 Ebrill 2026 | Adroddiad Llawn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd |
| **Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth** | 28 Ebrill 2026 | Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd sy'n berthnasol i'r Pwyllgor: |

| | | |
|---|---|---|
| | | • BAF24-03 Peidio â Chyrraedd Cynaliadwyedd Ariannol Hirdymor<br>• BAF24-07 Peidio â Darparu Mynediad Amserol at Ofal gan Arwain at Niwed Clinigol Posib, Cyflawni Gwael yn erbyn Targedau Perfformiad a Risg i Enw Da |
| **Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau** | 7 Mai 2026 | Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd sy'n berthnasol i'r Pwyllgor:<br>• BAF24-06 Peidio â Chyflawni'r Gwelliannau Angenrheidiol i Drawsnewid Gofal a Gwella Canlyniadau |
| **Y Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau** | 7 Mai 2026 | Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd sy'n berthnasol i'r Pwyllgor:<br>• BAF24-02 Peidio â Chyflawni Datblygiad Strategol a Thrawsnewid Digidol<br>• BAF24-05 Peidio ag Ymgysylltu â Dinasyddion, Partneriaid a Chymunedau<br>• BAF24-06 Peidio â Chyflawni'r Gwelliannau Angenrheidiol i Drawsnewid Gofal a Gwella Canlyniadau<br>• BAF24-08 Peidio â Gweithredu Gwelliannau ac Arloesi yn seiliedig ar Dystiolaeth |

| **Acronymau / Rhestr Termau**<br>**Acronyms / Glossary of Terms** | |
|---|---|
| BAF | Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd |

# FFRAMWAITH SICRWYDD Y BWRDD

## 1. Y SEFYLLFA SITUATION

1.1 Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (BAF) yn y Bwrdd Iechyd wedi cael ei gylch diweddaraf o ddiweddariadau. Er bod cynnydd yn parhau ar draws sawl maes, mae cyfran sylweddol o gamau lliniaru yn dal heb eu cwblhau, gyda chrynodiad o gamau gweithredu sydd bellach wedi'u gohirio neu'n hwyr.

Mae cyfanswm o 75 o gamau gweithredu wedi'u cofnodi ar hyn o bryd yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, ac o'r rhain:

- Mae 30 (40%) yn gyflawn,
- Mae 9 (12%) yn gwneud cynnydd,
- Mae 12 (16%) wedi'u gohirio, ac
- Mae 24 (32%) yn hwyr, gyda llawer o gamau gweithredu hwyr yn gysylltiedig â dyddiadau targed o 31 Mawrth 2026.

Mae nifer y camau gweithredu hwyr ac sydd wedi'u gohirio yn cyfrannu at sgoriau sicrwydd Cyfyngedig ac Anfoddhaol parhaus ar draws nifer o brif risgiau, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â'r gweithlu, trawsnewid digidol, cynaliadwyedd ariannol, mynediad at ofal, ac ansawdd gwasanaethau.

Yn ddiweddar, mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo pedwar Bwriad Strategol newydd, a holl gamau gweithredu presennol Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, yn enwedig camau gweithredu sydd heb eu cyflawni; rhaid eu mapio nawr i'r bwriadau newydd hyn i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â gwaith adnewyddu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd sydd ar y gweill ar gyfer 2026–2029. Mae'r gwaith mapio hwn yn mynd rhagddo.

Yn gyffredinol, mae'r sefyllfa'n gofyn am oruchwyliaeth, blaenoriaethu a chefnogaeth weithredol i gyflymu'r gwaith cyflawni, dad-rwystro cyfyngiadau traws-sefydliadol, a sicrhau bod camau gweithredu hwyr ac sydd wedi'u gohirio yn cael eu had-drefnu, eu hariannu'n briodol, a'u hymgorffori yn strwythur diwygiedig Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.

## 2. Y CEFNDIR BACKGROUND

Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (BAF) yw prif fecanwaith y Bwrdd Iechyd ar gyfer rhoi sicrwydd bod risgiau strategol i gyflawni amcanion y sefydliad yn cael eu nodi, eu rheoli a'u lliniaru'n effeithiol. Mae'r Fframwaith yn alinio'r prif risgiau, rheolaethau, sicrwydd a chamau lliniaru, ac mae'n cefnogi'r Bwrdd, ei Bwyllgorau a'r Tîm Gweithredol i fonitro cynnydd a nodi bylchau y mae angen eu huwchgyfeirio neu ymyrryd ynddynt.


Cafodd Fframwaith Sicrwydd presennol y Bwrdd ei gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Ionawr 2025, ac mae'n parhau i gael ei ddiweddaru'n rheolaidd gan Arweinwyr Gweithredol a pherchnogion camau gweithredu. Cafodd ei adolygu'n fwyaf diweddar drwy'r Grŵp Craffu ar Risg ym mis Ebrill 2026, ac mae'n parhau i fod yn sail ar gyfer goruchwylio risgiau strategol ar draws ansawdd, gweithlu, cyllid, trawsnewid digidol, a mynediad amserol at ofal.

Ym mis Mawrth 2026, cymeradwyodd y Bwrdd bedwar Bwriad Strategol newydd, a oedd yn mynnu bod y gyfres bresennol o gamau lliniaru Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn cael eu mapio a'u hail-alinio fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Drafft 2026–2029.

## 3. MATERION PENODOL I'W HYSTYRIED SPECIFIC MATTERS FOR CONSIDERATION

### 3.1 Y Sefyllfa Gyffredinol o ran Cynnydd y Cam Gweithredu

Ar draws Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, mae 75 o gamau gweithredu wrthi'n cael eu cofnodi:




4.

Mae'r gyfran uchel o gamau gweithredu hwyr ac sydd wedi'u gohirio yn adlewyrchu heriau parhaus gan gynnwys cyfyngiadau capasiti, cyllid cylchol cyfyngedig, dibyniaethau ar raglenni cenedlaethol, ac oedi ar draws rhaglenni digidol, ystadau, gweithlu a chlinigol.

### 3.2 Yr Effaith ar Lefelau Sicrwydd

Mae nifer o risgiau sy'n ymwneud â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn parhau i gario sgoriau sicrwydd Cyfyngedig neu Anfoddhaol, sy'n dangos tystiolaeth annigonol bod

y rheolaethau presennol yn effeithiol, a bod oedi gweithredu presennol yn effeithio ar liniaru risg yn gyffredinol.

Dyma'r prif risgiau yr effeithir arnynt:

- Peidio â darparu mynediad amserol at ofal (BAF24-07) – *Sicrwydd Anfoddhaol*
- Datblygu strategol a thrawsnewid digidol (BAF24-02) – *Sicrwydd Cyfyngedig*
- Cynaliadwyedd ariannol tymor hir (BAF24-03) – *Sicrwydd Cyfyngedig*
- Gweithlu a diwylliant (BAF24-04) – *Sicrwydd Cyfyngedig*
- Gwelliannau i drawsnewid gofal a gwella canlyniadau (BAF24-06) – *Sicrwydd Cyfyngedig*
- Mae'r lefelau sicrwydd hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â'r ôl-groniad o gamau gweithredu hwyr, sy'n dangos yr angen am ffocws gweithredol cryfach.
- Er bod cynnydd wedi'i wneud, mae Pwyllgorau'n adrodd yn gyson bod angen mwy o eglurder a dyfnder yn y camau gweithredu arfaethedig a thystiolaeth fwy sylweddol o gynnydd i gefnogi sicrwydd cadarn i'r Bwrdd. Mae hyn yn adlewyrchu gofyniad i symud y tu hwnt i ddisgrifio tuag at effaith a darpariaeth amlwg. Nid yw Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi cyrraedd y lefel aeddfedrwydd sydd ei hangen eto i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau strategol yn llawn. Mae hyn yn adlewyrchu, yn rhannol, fylchau o ran capasiti a gallu yn y seilwaith llywodraethu ategol.
- Bydd cryfhau'r agwedd hon ar y fframwaith yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer 2026/27. Bydd y Pwyllgor Archwilio yn chwarae rhan ganolog yn y cam nesaf hwn, gan graffu a goruchwylio'n well i sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu diffinio'n glir, eu bod yn fesuradwy a'u bod yn cael eu hategu gan dystiolaeth sy'n galluogi'r Bwrdd i fod yn hyderus yn y sicrwydd a ddarperir.

**3.3 Y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau sy'n cyd-fynd yn bennaf â'r Bwriadau Strategol canlynol:**

- Bwriad Strategol 1 – Canolbwyntio ar Iechyd a Llesiant Drwy Bob Cam o Fywyd
  (Atal, cymorth cynnar, iechyd y boblogaeth, llwybrau clefydau)
- Bwriad Strategol 2 – Gwella'r broses o Gydlynu Gofal drwy Ofal Sylfaenol a Chymunedol Integredig
  (Gofal sylfaenol, llwybrau cymunedol, modelau integredig)
- Bwriad Strategol 3 – Gwella Mynediad, Canlyniadau a Phrofiad drwy Lwybrau Gofal Cynaliadwy o Ansawdd Uchel
  (Gofal Brys ac Argyfwng, Gofal wedi'i Gynllunio, Canser, Diagnosteg, IMAD, CAMHS/ND, lleihau niwed)
- Bwriad Strategol 4 – Creu System Gofal Iechyd Fodern sy'n Canolbwyntio ar Bobl
  (Gweithlu, arweinyddiaeth, diwylliant, digidol a thrawsnewid data, cyllid, gwerth, ystadau a seilwaith)

Mae gwaith yn parhau i gysoni'r camau gweithredu hyn â strwythur diwygiedig Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ar gyfer 2026–2029.

I gefnogi hyn, mae pedair prif risg arfaethedig wedi cael eu datblygu i'w cynnwys yn Fframwaith Sicrwydd diwygiedig y Bwrdd. Mae'r rhain yn cyd-fynd â'r Bwriadau Strategol ac yn adlewyrchu prif feysydd risg y sefydliad. Gwahoddir y Bwrdd i adolygu, nodi a rhoi sylwadau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu tirwedd risg a gofynion sicrwydd y sefydliad yn gywir:

- BAF 26/01 – Methiant i wella iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau
- BAF 26/02 – Methiant i gydlynu gofal yn well ar gyfer pobl â chyflyrau hirdymor a gwella mynediad
- BAF 26/03 – Methiant i wella mynediad, canlyniadau a phrofiad
- BAF 26/04 – Methiant i ddarparu a chreu system gofal iechyd fodern sy'n canolbwyntio ar bobl ac sy'n canolbwyntio ar y dyfodol

**3.4 Cyfyngiadau Allweddol**

Dyma'r cyfyngiadau cyffredin sy'n effeithio ar gyflawni:

- Cyllid rheolaidd cyfyngedig ar gyfer rhaglenni digidol a rhaglenni'r gweithlu
- Cystadleuaeth am adnoddau cyfalaf ar draws ystadau ac offer
- Swyddi gwag a bylchau o ran capasiti mewn swyddi hanfodol
- Dibyniaethau ar raglenni digidol neu drawsnewid cenedlaethol

Mae'r cyfyngiadau hyn yn atgyfnerthu'r angen am flaenoriaethu Gweithredol a chamau cywiro.

**5. RISGIAU ALLWEDDOL / MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO**
**KEY RISKS / MATTERS FOR ESCALATION**

- Nifer uchel o gamau gweithredu heb eu cwblhau; 12 wedi'u gohirio a 24 yn hwyr, llawer yn gysylltiedig â therfynau amser 31/03/2026, gan greu bylchau mewn rheolaeth.
- Mae nifer o'r prif risgiau'n parhau i fod yn uwch na goddefgarwch gyda sicrwydd Cyfyngedig neu Anfoddhaol (trawsnewid digidol, gweithlu, cyllid, ansawdd gofal, a mynediad amserol at ofal).
- Mae cyfyngiadau o ran capasiti ac adnoddau ar draws y gweithlu, digidol, ystadau a rhaglenni clinigol yn rhwystro'r ddarpariaeth.
- Mae dibyniaeth ar raglenni cenedlaethol (EHR, CAMHS/ND, DDaT) yn achosi oedi nad oes modd ei osgoi.

- Angen brys i fapio'r holl gamau gweithredu sy'n weddill i'r pedwar Bwriad Strategol newydd i gefnogi'r gwaith o adnewyddu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd 2026-2029.

## 6. ARGYMHELLION RECOMMENDATIONS

a. Gofynnir i'r Pwyllgor/Cyfarfod/Grŵp:
The Committee/Meeting/Group is asked to:

Gofynnir i'r aelodau wneud y canlynol:

- **NODI'R** adborth gan Bwyllgorau yn dilyn eu hadolygiad o Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, gan gydnabod y cynnydd a wnaed hyd yma ar yr un pryd â thynnu sylw at yr angen am fwy o eglurder, dyfnder a chymorth tystiolaethol wrth ddisgrifio camau gweithredu a chynnydd;
- **CYMERADWYO'R** broses o gryfhau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn ystod 2026/27, gan ganolbwyntio'n glir ar sicrhau bod camau gweithredu yn benodol, yn fesuradwy ac yn gysylltiedig â chanlyniadau amlwg sy'n cefnogi sicrwydd cadarn;
- **CYTUNO** bod trefniadau adrodd gwell yn cael eu datblygu i ddarparu tystiolaeth gliriach o gyflawni, gan gynnwys cyfleu'n well sut mae camau gweithredu'n lliniaru risg ac yn cryfhau sicrwydd i'r Bwrdd;
- **CEFNOGI** rôl y Pwyllgor Archwilio o ran goruchwylio a chraffu'n gryfach ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, gan gynnwys adolygu ansawdd ac effeithiolrwydd camau gweithredu'n rheolaidd a'r dystiolaeth sy'n sail i sicrwydd; a
- **GOFYN** i gynnydd yn erbyn y gwelliannau hyn gael ei adrodd i'r Bwrdd drwy'r strwythur pwyllgorau y cytunwyd arno, gan alluogi goruchwyliaeth a sicrwydd parhaus o ran cyflawni.
- **RHOI SYLW** ar y pedair prif risg arfaethedig sydd wedi cael eu datblygu i'w cynnwys yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd sydd newydd gael ei ddiweddaru, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau strategol y sefydliad a meysydd allweddol o ran dod i gysylltiad â risg.

| ASESIAD / ASSESSMENT | |
|---|---|
| **Cyswllt â'r Blaenoriaethau Strategol**<br>**Link to Strategic Priorities** | 3. Gwell Mynediad, Canlyniadau a Phrofiadau.<br>4. Creu System Gofal Iechyd Fodern sy'n Canolbwyntio ar Bobl |

| | |
|---|---|
| **Yr Egwyddorion Dylunio**<br>**Design Principles** | Symleiddio, Safoni, a Mabwysiadu Arferion Gorau |
| **Fframwaith Risgiau Corfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd**<br>**Corporate Risks and Board Assurance Framework** | Fframwaith Sicrwydd Llawn y Bwrdd gyda chysylltiadau penodol â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. |

| **ASESIADAU O EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS** | | |
|---|---|---|
| **Deddf Cydraddoldeb 2010 Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus:**<br>**A yw BIPBC wedi darparu tystiolaeth o 'Sylw Dyledus' i gydymffurfio â thair rhan Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (Dyletswydd Gyffredinol):**<br>[https://www.llyw.cymru/dyletswydd-cydraddoldeb-y-sector-cyhoeddus-htmlDyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus [HTML] LLYW.CYMRU] | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | Ddim yn berthnasol |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Ddim yn berthnasol |
| **Deddf Cydraddoldeb 2010 - Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol**<br>*A yw BIPBC wedi darparu tystiolaeth o 'Sylw Dyledus' o ran cydymffurfio â'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol?* | Do/Yes: ☒ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | Ddim yn berthnasol |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Mae'r bwrdd iechyd yn parhau i asesu'r gofyniad i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac asesiadau o'r effaith ar yr Economi Gymdeithasol |
| *Ydych chi wedi llenwi Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb Integredig WP8a?*<br>*Templed WP8a* | Canlyniad/Outcome:<br>Do/Yes: | Naddo/No: |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale:<br>Canlynaid/Outcome: | Ddim yn berthnasol. |

| | | |
|---|---|---|
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Ddim yn berthnasol. |
| **Deddf Hawliau Dynol**<br>*A roddodd Wp8a sylw i bryderon sy'n ymwneud â Hawliau Dynol* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | Ddim yn berthnasol |
| **Cydymffurfio â gofynion o ran y Gymraeg?**<br>*Ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith* | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Naddo/No: ☒ |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Ddim yn berthnasol |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Ddim yn berthnasol |
| **Cydymffurfiad o ran rhoi "Sylw Dyledus" i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog**<br>*A roddodd WP8a sylw i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | Ddim yn berthnasol |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Ddim yn berthnasol |
| **Ansawdd**<br>*A ydych chi wedi ymgymryd â phrawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd?*<br>**Quality**<br>*Have you undertaken a Quality Impact Assessment Screening?* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | Ddim yn berthnasol |
| | **Galluogwyr Ansawdd**<br>**Enablers of Quality**<br>Mae pob un yn Berthnasol<br><br>Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: | |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant** | Cymru Lewyrchus | |

| | | |
|---|---|---|
| **Wellbeing of Future Generations Act – Wellbeing Goals** | | |
| **Effaith Amgylcheddol / Cynaliadwyedd (5Rs)**<br>**Environmental /Sustainability Impact (5Rs)** | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: | |
| | Na - Ddim yn berthnasol | |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny:<br>If more than one applies, please list: | |
| **Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data**<br>*A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data?*<br>**Data Protection Impact Assessment**<br>*Have you undertaken a Data Protection Impact Assessment Screening?* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | Ddim yn berthnasol |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Ddim yn berthnasol |
| **Asesiad o Effaith ar Atal Twyll**<br>*A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau ar atal twyll?*<br>**Counter Fraud Impact**<br>*Have you considered the counter fraud impacts* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | Ddim yn berthnasol |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Ddim yn berthnasol |
| **Cyfreithiol**<br>**Legal** | Nid oes goblygiadau cyfreithiol penodol yn gysylltiedig â'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn. | |
| **Enw Da**<br>**Reputational** | Nid oes effaith uniongyrchol ar enw da'r Bwrdd Iechyd o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn. | |
| **Effaith ar Adnoddau**<br>*(Pobl / Ariannol)*<br>**Resource Impact**<br>*(People / Financial)* | Nid oes effaith uniongyrchol ar adnoddau o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn. | |

## Bwrdd Iechyd

# ADRODDIAD LLYWODRAETHIANT CORFFORAETHOL

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod<br>Date of Meeting** | 28 Mai 2026 |
| **Statws Cyhoeddi<br>Publication Status** | Agored / Cyhoeddus<br>Amherthnasol |
| **Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad<br>Report Author name and title** | Philippa Peake-Jones – Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol |
| **Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol<br>Lead Executive Team Member name and title** | Pam Wenger – Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol |

| | |
|---|---|
| **Pwrpas yr Adroddiad<br>Report Purpose** | Cadarnhau i'w Gymeradwyo gan y Bwrdd |

**Crynodeb Gweithredol<br>Executive Summary**

Mae'r Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol hwn yn rhoi diweddariad cynhwysfawr i'r Bwrdd ar weithgareddau llywodraethu allweddol a gynhaliwyd ers y cyfarfod diwethaf, gan ddangos bod trefniadau llywodraethu'n parhau i gael eu cryfhau tra bo'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod mewn Mesurau Arbennig. Mae'r adroddiad yn cadarnhau bod gofynion statudol a rheoleiddiol yn cael eu bodloni drwy roi Rheolau Sefydlog ar waith yn effeithiol, defnyddio Camau Gweithredu'r Cadeirydd yn briodol, ac adrodd yn dryloyw ar benderfyniadau a wnaed mewn sesiwn breifat.

Mae tystiolaeth o gynnydd ar draws amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys adolygu a chymeradwyo fframweithiau llywodraethu allweddol fel trefniadau'r Cyd-bwyllgor Comisiynu, cryfhau sicrwydd y Bwrdd drwy oruchwyliaeth pwyllgorau, a datblygu effeithiolrwydd y Bwrdd yn barhaus ar sail hunanasesiad 2025/26. Mae rhaglen ddatblygu'r Bwrdd, dull ymweliadau diwygiedig y Bwrdd a ffocws parhaus ar aeddfedrwydd llywodraethu drwy raglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol yn cefnogi'r llwybr hwn ymhellach.

Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at feysydd ffocws parhaus, gan gynnwys cryfhau cynaliadwyedd arweinyddiaeth weithredol, miniogi ffocws strategol y Bwrdd a symleiddio adroddiadau'r Bwrdd ymhellach i gefnogi sicrwydd cliriach sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Felly, gofynnir i'r Bwrdd nodi'r cynnydd a wnaed,

| |
|---|
| cydnabod y llwybr gwella parhaus, a chymeradwyo'r diweddariadau a argymhellir i fframweithiau llywodraethu i gefnogi gwelliant a chyflawniad sefydliadol parhaus. |

| **Ymgysylltu (mewnol/allanol) yr ymgymerwyd ag ef hyd yma (gan gynnwys derbyn/ ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp)<br>Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)** | | |
|---|---|---|
| **Pwyllgor / Grŵp / Unigolion<br>Committee / Group / Individuals** | **Dyddiad<br>Date** | **Canlyniad, Tystiolaeth a Data<br>Outcome, Evidence and Data** |
| | | |

| **Acronymau / Rhestr Termau<br>Acronyms / Glossary of Terms** | |
|---|---|
| DoT | Datganiad o Ymddiriedaeth |
| SO | Rheolau Sefydlog |
| SoRD | Cynllun Cadw a Dirprwyo |

## ADRODDIAD LLYWODRAETHIANT CORFFORAETHOL

### 1. Y SEFYLLFA<br>SITUATION

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am faterion allweddol sy'n berthnasol i lywodraethiant corfforaethol.

### 2 Y CEFNDIR<br>BACKGROUND

2.1 Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd weithredu yn unol â'i Reolau Sefydlog. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth i alluogi'r Bwrdd Iechyd i gydymffurfio â hyn.

2.2 Mae'n hanfodol bod gan y Bwrdd drefniadau cadarn ar waith ar gyfer Llywodraethiant Corfforaethol a gallai methu â gwneud hynny gael goblygiadau cyfreithiol i'r Bwrdd Iechyd.

### 3 MATERION PENODOL I'W HYSTYRIED<br>SPECIFIC MATTERS FOR CONSIDERATION

### 3.1 CAMAU GWEITHREDU BRYS Y CADEIRYDD

Mae Rheol Sefydlog 2.1 y Bwrdd Iechyd yn caniatáu i gamau brys gael eu cymryd pan na fyddai'n ymarferol galw cyfarfod brys o'r Bwrdd. Ers y

cyfarfod diwethaf, cafwyd un Cam Gweithredu gan y Cadeirydd ar Hawliad Gwerth Uchel ond ni chaiff y manylion llawn eu cyhoeddi gan y byddai'n datgelu manylion adnabod ac mae'n ymwneud ag achos ymgyfreitha parhaus.

| **Dyddiad** | **Pwnc** | **Goblygiadau Ariannol** | **Gwybodaeth Ychwanegol** | **Cefnogir gan** |
|---|---|---|---|---|
| 30/04/26 | Contract IMCA | Sensitif yn Fasnachol | Cymeradwywyd Cam Gweithredu'r Cadeirydd | Gareth Williams<br>William Nichols<br>Rhian Watcyn Jones<br>Mike Larvin |
| 14/05/26 | Cynnal a Chadw Cyfarpar Cymunedol | Sensitif yn Fasnachol | Cymeradwywyd Cam Gweithredu'r Cadeirydd | Rhian Watcyn Jones<br>William Nichols<br>Gareth Willaims<br>Mike Larvin<br>Dyfed Jones<br>Caroline Turner |

3.2 **CRYNODEB O'R BUSNES A DRAFODWYD YN SESIWN BREIFAT Y BWRDD IECHYD AR 26 MAWRTH 2026**

Yn unol â Rheol Sefydlog 7.5.3, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd roi adroddiad ar unrhyw benderfyniadau a wnaed mewn sesiwn breifat i gyfarfod cyhoeddus nesaf y Bwrdd.

Trafodwyd yr eitemau canlynol yn ystod cyfarfod preifat y Bwrdd a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2026:

| **Eitem ar yr Agenda** | **Pwnc (gan gynnwys naratif)** | **Penderfyniad y Bwrdd** | **Rhesymeg dros eitem Breifat** |
|---|---|---|---|
| **26.74** | **Waunfawr** | Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:<br>• **NODI'R** diweddariad llafar a ddarparwyd. | Mae Braint Cyngor Cyfreithiol yn berthnasol |

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc (gan gynnwys naratif) | Penderfyniad y Bwrdd | Rhesymeg dros eitem Breifat |
|---|---|---|---|
| **6.75** | **Adnewyddu Contract Cytundeb Menter Microsoft** | Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:<br>• **CYMERADWYO** cyfranogiad y Bwrdd Iechyd yn y gwaith o adnewyddu Cytundeb Menter Microsoft Cymru Gyfan.<br>• **CADARNHAU'R** ymrwymiad i sicrhau'r cyllid angenrheidiol yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer y tymor pum mlynedd.<br>• **CYMERADWYO** dull gweithredu rheoledig sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer cyflwyno M365 Copilot yn gynnar.<br>• **NODI'R** risgiau sefydliadol sy'n gysylltiedig â pheidio ag adnewyddu.<br>• **CYMERADWYO** bod y Bwrdd Iechyd yn rhoi gwybod yn ffurfiol i Iechyd a Gofal Digidol Cymru drwy lofnodi'r Ymrwymiad i Gymryd Rhan a nodir yn Atodiad C. | Sensitif yn Fasnachol |
| **26.76** | **Adroddiad Cymeradwyo Contractau a Thendrau** | Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:<br>• **NODI'R** adroddiad.<br>• **CYMERADWYO** cyfranogiad BIPBC yn y gwaith o adnewyddu Cytundeb Menter Microsoft Cymru Gyfan.<br>• **CYMERADWYO'R** broses o symud ymlaen i | Sensitif yn Fasnachol |

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc (gan gynnwys naratif) | Penderfyniad y Bwrdd | Rhesymeg dros eitem Breifat |
|---|---|---|---|
| | | dendro ar gyfer Gwasanaeth Trallwyso Gwaed<br>• **CYMERADWYO'R** broses o symud ymlaen i dendro ar gyfer Cytundeb Menter Rhwydwaith Cisco | |
| **26.77** | **Y Gofrestr Risgiau Corfforaethol** | Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:<br>• **NODI** sefyllfa bresennol y ddwy risg breifat, gyda'r naill a'r llall yn parhau i fod yn uwch na'r awydd.<br>• **CEFNOGI** cynnydd parhaus ar y seilwaith digidol allweddol a chamau gweithredu seiberddiogelwch.<br>• **CYMERADWYO** trefniadau llywodraethu a goruchwylio parhaus i sicrhau bod risg yn cael ei lleihau'n amserol. | Sensitif yn Fasnachol |
| **26.78** | **Adroddiad Ansawdd Preifat** | Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:<br>• **NODI** cynnwys yr adroddiad. | Gwybodaeth bersonol y gellir ei hadnabod |

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc (gan gynnwys naratif) | Penderfyniad y Bwrdd | Rhesymeg dros eitem Breifat |
|---|---|---|---|
| **26.79** | **Hawliadau Gwerth Uchel** | Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:<br>• **CYMERADWYO** awdurdod i setlo iawndal hyd at swm cyfalaf o £25,997,145 i'w ddosrannu rhwng cyfandaliad a PPOs yn ôl yr angen (CN20-936).<br>• **CYMERADWYO** awdurdod i setlo iawndal hyd at £990,000 gros o daliadau interim a CRU (CN21-43).<br>• **CYMERADWYO** awdurdod i gytuno ar y taliad interim o £1,000,000 (ynghyd ag unrhyw ad-daliad ychwanegol gan yr Uned Cofnodion Troseddol) (CN21-987).<br>• **CYMERADWYO** awdurdod i setlo iawndal hyd at £2,400,000 (100% prisiad atebolrwydd), gan nodi y bydd y Bwrdd Iechyd yn ceisio disgownt atebolrwydd priodol yn unol â chyngor y Cwnsler (CN22-427).<br>• **CYMERADWYO** awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a Dirprwy Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol i wneud unrhyw daliadau interim pellach oherwydd costau ac i gytuno ar setliad | Gwybodaeth bersonol y gellir ei hadnabod |

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc (gan gynnwys naratif) | Penderfyniad y Bwrdd | Rhesymeg dros eitem Breifat |
|---|---|---|---|
| | | rhesymol o gostau yn unol â chyngor Cyfreithiwr Costau Arbenigol.<br>• **CYMERADWYO** awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a Dirprwy Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol i wneud unrhyw daliadau interim pellach oherwydd costau ac i gytuno ar setliad rhesymol o gostau yn unol â chyngor Cyfreithiwr Costau Arbenigol.<br>• **CYMERADWYO** Awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a Dirprwy Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol ar gyfer costau amddiffyn angenrheidiol. | |
| **26.80** | **Y Pwyllgor Gweithredol** | Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:<br>• **NODI** adroddiad y Pwyllgor Gweithredol. | Eitemau Cyfrinachol wedi'u rhannu |

**Bwrdd Anffurfiol – 30 Ebrill 2026**

Yn sesiwn anffurfiol y Bwrdd a Datblygu'r Bwrdd a gynhaliwyd ar 30 Ebrill 2026, trafododd yr aelodau nifer o faterion strategol, llywodraethu a chyflawni sylweddol i gefnogi cyd-ddealltwriaeth a llywio prosesau llywodraethu ffurfiol dilynol.

Roedd y meysydd allweddol a ystyriwyd yn cynnwys adborth gan Fwrdd Uwchgyfeirio Llywodraeth Cymru a safle'r Bwrdd Iechyd yn Fframwaith Atebolrwydd GIG Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar ansawdd, tryloywder, meini prawf isgyfeirio ac adrodd ar faterion a drafodwyd yn breifat.

Archwiliodd y Bwrdd hefyd gynigion newid gwasanaethau â blaenoriaeth, gan gynnwys cynlluniau ymgynghori sy'n dod i'r amlwg a phwysigrwydd ymgysylltu'n ystyrlon â'r gymuned. Fe wnaethon nhw hefyd adolygu canfyddiadau Hunanasesiad Bwrdd 2025/26, gan dynnu sylw at feysydd i'w datblygu ymhellach fel cynllunio olyniaeth a ffocws mwy penodol ar y Bwrdd.

Yn ogystal, bu'r aelodau'n ystyried cynnydd a chamau nesaf y rhaglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol, y cynllun adfer ariannol a threfniadau gafael a rheoli, a chawsant sesiynau briffio ar newidiadau deddfwriaethol sydd ar y gweill sy'n deillio o'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Ni wnaed unrhyw benderfyniadau yn ystod y sesiwn; fodd bynnag, nodwyd camau gweithredu, meysydd ar gyfer sicrwydd pellach a materion y mae angen eu symud ymlaen i'w hystyried drwy'r pwyllgorau priodol a, lle bo angen, eu hadrodd i'r Bwrdd cyhoeddus.

## 3.3 GOSOD Y SÊL GYFFREDIN

Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, mae angen adroddiad rheolaidd ar ddogfennau y gosodwyd y sêl gyffredin arnynt. Gofynnir i'r Bwrdd nodi bod Sêl y Bwrdd Iechyd wedi'i gosod ar y dogfennau a restrir isod.

| Rhif | Teitl | Llwybr Cymeradwyo | Dyddiad Llofnodi a Selio | Rhif y Sêl |
|---|---|---|---|---|
| 239 | Llinell Gymorth IMAD – Adnewyddu Prydles Adeilad RSS | Grŵp Buddsoddi Cyfalaf 11.11.25 a'r Pwyllgor Gwaith 01.10.25 | 18.03.26 | 724 |
| 240 | Adnewyddu Prydles Llys Carlton | Cytunwyd gan y Pwyllgor Gwaith | 21.04.26 | 725 |
| 241 | Meddygaeth Niwclear | Bwrdd Iechyd 29/1/26 – Achos Busnes Llawn. Dyfarniad Cyllid Llywodraeth Cymru 18.6.25 | 30.04.26 | 726 a 727 |
| 244 | Prydles Tir – 9 Cleveland Avenue, Tywyn | Trafodaeth yn y Grŵp Buddsoddi Cyfalaf ar 17.10.24 a chymeradwyaeth y tu allan i'r Grŵp Buddsoddi Cyfalaf gan swyddogion gweithredol i ddilyn | 30.04.26 | 728 |

## 3.4 DATGANIAD O YMDDIRIEDAETH

Mae gan Elusen y Bwrdd Iechyd Ddatganiad o Ymddiriedaeth (DoT) o 23 Medi 2010 sydd wedi'i gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau. Mae hyn yn rhan o gyfansoddiad yr elusen.

Mae'r Datganiad o Ymddiriedaeth (sydd wedi'i hatodi yn Atodiad 1) wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n ddiweddar i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol. Adolygodd cynghorwyr cyfreithiol y Datganiad o Ymddiriedaeth ac argymell rhai newidiadau i sicrhau bod y ddogfen yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r arferion a'r rheoliadau diweddaraf. Mae'r newidiadau'n adlewyrchu cynnwys perthnasol 'cymal enghreifftiol' y Comisiwn Elusennau a'r gyfraith bresennol. Mae'r ychwanegiadau wedi'u hamlygu yn y Datganiad o Ymddiriedaeth drafft.

Mae'r Datganiad o Ymddiriedaeth wedi cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol. Argymhellir bod y Bwrdd Iechyd yn derbyn y Datganiad o Ymddiriedaeth wedi'i ddiweddaru, bod y Sêl wedi'i hatodi a'i fod yn cael ei gyflwyno i'r Comisiwn Elusennau i'w gofnodi'n gyhoeddus.

## 3.5 ADOLYGIAD BLYNYDDOL O REOLAU SEFYDLOG A CHYFARWYDDIADAU ARIANNOL SEFYDLOG PWYLLGOR COMISIYNU'R CYD-BWYLLGOR

Yn ystod y cyfnod adrodd, bu'r Bwrdd Iechyd yn ystyried ac yn cymeradwyo diweddariadau i Fframwaith Llywodraethu Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru, yn unol â Chynllun Cadw a Dirprwyo'r Cyd-bwyllgor Comisiynu, sy'n cadw cymeradwyaeth i drefniadau llywodraethu cyd-bwyllgorau i Fyrddau Iechyd Lleol. Mae'r fframwaith diwygiedig yn dwyn ynghyd y Rheolau Sefydlog, y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, y Cynllun Dirprwyo, trefniadau Lletya a Memorandwm Cytundeb, y Map Atebolrwydd a'r canllawiau ar ymdrin â buddiannau, gan ddarparu sail gynhwysfawr a chydlynol ar gyfer gweithredu'r Cyd-bwyllgor Comisiynu.

Mae'r adolygiad, a gynhaliwyd yn ystod 2025/26, yn ymgorffori gofynion model Llywodraeth Cymru wedi'u diweddaru, yn adlewyrchu aeddfedrwydd gweithredol a'r profiad a gafwyd ers sefydlu'r Cyd-bwyllgor Comisiynu, ac yn cadarnhau bod y fframwaith yn parhau i weithredu'n effeithiol. Cymeradwywyd Cylch Gorchwyl wedi'i ddiweddaru ar gyfer yr Is-bwyllgorau Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau a Chynllunio, Perfformiad a Chyllid hefyd, yn dilyn cymeradwyaeth drwy'r Cyd-bwyllgor Comisiynu a'i is-bwyllgorau, gan gryfhau sicrwydd, tryloywder ac atebolrwydd ar gyfer comisiynu gwasanaethau a gynlluniwyd yn genedlaethol ar ran GIG Cymru.

**Mae'r adroddiad eglurhaol a'r atodiadau llawn ar gael yn y papurau ategol.**

## 3.6 HUNANASESIAD Y BWRDD 2025-26

**Arweinyddiaeth a Llywodraethu**

Mae Hunanasesiad y Bwrdd 2025/26 yn dangos sefyllfa gadarnhaol a chryfach mewn perthynas ag arweinyddiaeth a llywodraethu. Mae effeithiolrwydd ac arweinyddiaeth y Bwrdd yn cael eu sgorio'n gadarnhaol, gyda diwylliant cryf barch, bod yn agored, a herio adeiladol yn cael ei adrodd yn gyson. Mae arweinyddiaeth y Cadeirydd, a phartneriaeth y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, yn cael eu nodi fel cryfderau allweddol, ochr yn ochr â pherthynas waith effeithiol rhwng Aelodau Annibynnol a Chyfarwyddwyr Gweithredol. Mae'r Bwrdd yn dangos perchnogaeth ar y cyd o gyfrifoldebau llywodraethu a bod yn agored i welliant, gan adlewyrchu mwy o hyder, sefydlogrwydd ac aeddfedrwydd ar lefel y Bwrdd.

**Ansawdd**

Mae'r asesiad yn cadarnhau bod y Bwrdd yn herio ac yn goruchwylio materion ansawdd a diogelwch yn gadarn, gydag Aelodau'n adrodd yn hyderus ynghylch sut mae materion ansawdd yn cael eu craffu a'u huwchgyfeirio drwy Bwyllgorau i'r Bwrdd. Mae mwy a mwy o ffocws ar sicrwydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau a deall sut mae gwelliannau ansawdd yn cael eu gwreiddio mewn ymarfer. Er bod angen gwneud rhagor o waith i gryfhau cysondeb ac eglurder naratifau sicrwydd, mae'r Bwrdd yn cydnabod y bwlch hwn ac mae wedi'i nodi fel maes penodol i'w ddatblygu, gan ddangos mwy o hunanymwybyddiaeth a gafael.

**Cynllunio a Pherfformiad**

Mae Hunanasesiad y Bwrdd yn tynnu sylw at ddealltwriaeth glir o flaenoriaethau sefydliadol a'r heriau strategol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd. Mae'r aelodau'n nodi ymrwymiad cryf i strategaeth a llywodraethu, wedi'i gefnogi gan wella'r cysondeb rhwng prosesau llywodraethu, cynlluniau ac adrodd. Fodd bynnag, mae'r asesiad hefyd yn cydnabod y gall pwysau gweithredol wthio trafodaethau strategol i ffwrdd ar adegau, ac mae'r Bwrdd wedi cydnabod yr angen i ddiogelu amser ar gyfer cynllunio tymor hwy a goruchwylio systemau. Mae eglurder yr wybodaeth hon yn adlewyrchu safbwynt mwy aeddfed y Bwrdd sy'n canolbwyntio ar welliant parhaus.

**Cyllid**

Er nad yw Hunanasesiad y Bwrdd yn canolbwyntio'n helaeth ar berfformiad ariannol manwl, mae'n cadarnhau bod trefniadau llywodraethu a sicrwydd o ran risg, perfformiad a chynaliadwyedd yn sylweddol gryfach. Mae'r aelodau'n dweud bod mwy o hyder yng ngallu'r Bwrdd i herio, deall a goruchwylio materion cymhleth, gan gynnwys y rheini sydd â goblygiadau ariannol, wedi'i gefnogi gan strwythurau Pwyllgor effeithiol a llif sicrwydd cliriach.

**Datblygu'r Sefydliad a'r Gweithlu**

Mae'r asesiad yn nodi cynaliadwyedd y gweithlu ac arweinyddiaeth fel blaenoriaeth glir ar gyfer datblygu pellach. Er bod cynnydd wedi'i wneud, mae'r Bwrdd yn cydnabod yr angen i gryfhau arweinyddiaeth weithredol ar y cyd, lleihau gorganolbwyntio ar gyfrifoldeb, a gwella'r gwaith o gynllunio olyniaeth ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol. Mae'r ffocws hwn yn cynrychioli newid allweddol o sefydlogi i wreiddio gwydnwch a gallu hirdymor, sy'n cyd-fynd â'r disgwyliadau ar gyfer byrddau sy'n gweithredu mewn Mesurau Arbennig.

**Sicrwydd Cyffredinol**
Yn gyffredinol, mae Hunanasesiad y Bwrdd 2025/26 yn dangos cynnydd ystyrlon o ran effeithiolrwydd, diwylliant a gallu llywodraethu tra bo'r Bwrdd Iechyd yn dal mewn Mesurau Arbennig. Mae gan y Bwrdd ddealltwriaeth glir o'i gryfderau a'i flaenoriaethau datblygu, ac mae'n agored i her ac mae'n defnyddio hunanasesiad a datblygiad y Bwrdd i sbarduno gwelliant. Mae hyn yn rhoi sicrwydd credadwy bod trefniadau llywodraethu'n parhau i gryfhau a bod y Bwrdd mewn sefyllfa gynyddol dda i gefnogi adferiad a chynnydd ar y llwybr isgyfeirio.

## Meysydd Allweddol i'w Gwella (Hunanasesiad Bwrdd)

| | |
|---|---|
| **Cryfhau Cynaliadwyedd Arweinyddiaeth Weithredol a Chynllunio ar gyfer Olyniaeth** | |
| Mae Hunanasesiad y Bwrdd yn nodi'r angen i gryfhau arweinyddiaeth weithredol ar y cyd a chynaliadwy, gan sicrhau bod cyfrifoldebau'n cael eu rhannu'n briodol ac nad ydynt yn cael eu gorbwysleisio. | **Y Prif Weithredwr** |
| **Mireinio Ffocws Strategol ar Lefel Bwrdd** | |
| Er bod yr ymrwymiad i strategaeth yn gryf, gall pwysau gweithredol gyfyngu ar drafodaethau strategol; felly mae'r Bwrdd wedi nodi'r angen i ddiogelu amser yn well ar gyfer goruchwyliaeth strategol tymor hwy a chynaliadwyedd y system. | **Y Cadeirydd** |
| **Symleiddio Papurau'r Bwrdd a'r Cylch Busnes ymhellach** | |
| Mae'r asesiad yn tynnu sylw at y ffaith y gall papurau ac agendâu hir y Bwrdd wanhau'r ffocws ar ganlyniadau a risgiau allweddol; felly mae angen symleiddio'r broses o adrodd a mireinio cylch busnes y Bwrdd ymhellach er mwyn cefnogi sicrwydd cliriach sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau wrth i'r sefydliad barhau â'i adferiad. | **Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol** |

3.7 **DATBLYGU'R BWRDD 2026-27**

Yn ystod y cyfnod adrodd, datblygodd y Bwrdd Iechyd drefniadau i gaffael cymorth allanol i gyflawni rhaglen ddatblygu'r Bwrdd, yn unol ag arferion llywodraethu da a chanfyddiadau hunanasesiad blynyddol y Bwrdd.

Mae proses gaffael gystadleuol yn mynd rhagddi yn unol â Rheolau Sefydlog a rheoliadau caffael i sicrhau gwerth am arian, tryloywder a thegwch.

Pwrpas y tendr yw cefnogi datblygiad parhaus y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol, gan ganolbwyntio ar effeithiolrwydd ar y cyd, arweinyddiaeth, a'r ymddygiadau sydd eu hangen i gefnogi gwelliant ac adferiad. Bydd canlyniad y broses gaffael yn galluogi'r Bwrdd i gael gafael ar arbenigedd annibynnol i gefnogi ei flaenoriaethau datblygu parhaus, sy'n cyd-fynd â'r rhaglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol a'r disgwyliadau a nodir yn Fframwaith Atebolrwydd GIG Cymru.

## 3.8 YMWELIADAU'R BWRDD 2026-27

Mae rhaglen waith yn mynd rhagddi i weithredu Protocol Ymweliadau'r Bwrdd diwygiedig a gymeradwywyd gan y Bwrdd ddiwedd 2024. Er bod y cynnydd wedi bod yn arafach na'r bwriad oherwydd yr angen i gysoni'r rhaglen yn llawn â blaenoriaethau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig newydd ar gyfer 26/27, mae nifer o sylfeini allweddol bellach ar waith. Mae Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol wedi cael eu grwpio yn unol â themâu craidd y Cynllun Tymor Canolig Integredig er mwyn galluogi dull mwy strwythuredig, y gellir ei ailadrodd, o ymweld ag ymweliadau ar draws gwasanaethau. Mae amserlen ddrafft hefyd wedi cael ei datblygu ac mae'n barod i'w chadarnhau ar ôl i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig gael ei gwblhau. Bydd hyn yn sicrhau bod ymweliadau'n cael eu trefnu mewn ffordd sy'n cefnogi blaenoriaethau'r sefydliad ac sy'n sicrhau'r gwerth gorau posibl i staff ac aelodau'r Bwrdd. Mae ymgysylltu'n gynnar â Swyddfeydd Gweithredol wedi helpu i lunio model cyflawni ymarferol, ac mae dyddiadau bellach yn cael eu cydlynu ar gyfer Chwarter 1 a Chwarter 2. Bydd y cam gweithredu yn dechrau ar ôl i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig gael ei gymeradwyo, gydag adroddiadau rheolaidd ar themâu, dysgu a chamau gweithredu i'r Bwrdd.

## 3.9 CLINIGWYR CYMERADWY A MEDDYGON ADRAN 12(2)

Gofynnir i'r Bwrdd nodi a chadarnhau'r cymeradwyaethau yn unol â gofynion Dogfen Ganllaw Llywodraeth Cymru "Deddf Iechyd Meddwl 1983 Cymeradwyo Clinigwyr Cymeradwy (Cymru) Gorffennaf 2018 ar gyfer Clinigwyr Cymeradwy", Cyfarwyddiadau Deddf Iechyd Meddwl GIG Cymru 1983 (Clinigwyr Cymeradwy) (Cymru) 2018 a "Dogfen Meini Prawf a Phroses Adran 12(2) Cymru Gyfan ar gyfer cymeradwyaethau Meddygon Cymeradwy Adran 12(2)".

Mae'r atodiadau canlynol wedi'u cynnwys yn y pecyn ategol.

Atodiad C.1: Clinigwyr Cymeradwy (Cymru Gyfan)
Atodiad C.2: Meddygon Adran 12(2) (Cymru Gyfan).

## 3.10 YMCHWILIAD COVID-19 Y DU

Cyhoeddwyd adroddiad Modiwl 3 *'Effaith pandemig Covid-19 ar systemau gofal iechyd ym mhedair gwlad y DU'* ar 19 Mawrth 2025, ac mae'n dwyn ynghyd y canfyddiadau a'r argymhellion yn dilyn tystiolaeth a gasglwyd yn ystod y Modiwl. Roedd hyn yn cynnwys gwrandawiadau llafar rhwng 9 Medi 2024 a 25 Tachwedd 2024, gyda thystiolaeth lafar yn cael ei chlywed gan amrywiaeth eang o bobl gan gynnwys uwch wleidyddion, arweinwyr gofal iechyd, arbenigwyr gwyddonol a rhai o'r rheini y mae Covid-19 wedi effeithio arnynt. Roedd y deunydd ysgrifenedig yn cynnwys adroddiadau arbenigol, dogfennau a rannwyd â'r Ymchwiliad, datganiadau tystion a'r cofnod 'Mae Pob Stori'n Bwysig'. Am y tro cyntaf, mae'r Adroddiad hwn yn cynnwys rhai o'r profiadau a dyfyniadau dienw gan y rheini a rannodd eu straeon drwy 'Mae Pob Stori'n Bwysig'.

Daw'r Adroddiad i'r casgliad nad oedd y DU wedi paratoi'n ddigonol ar gyfer y pandemig a bod ei systemau gofal iechyd a oedd dan bwysau mewn cyflwr bregus. Roedd effaith y pandemig arnynt yn ddinistriol, ac mae'r Adroddiad yn crynhoi hyn wrth iddynt ymdopi, ond dim ond o drwch blewyn. Daeth systemau gofal iechyd yn agos at ddymchwel, a dim ond o drwch blewyn y llwyddwyd i osgoi'r cwymp hwnnw oherwydd ymdrechion eithriadol pawb sy'n gweithio ym maes gofal iechyd ledled y DU, sy'n dangos ymrwymiad ac ymroddiad rhyfeddol.

**Crynodeb o Argymhellion Modiwl 3**

Mae'r Adroddiad, sy'n cynnwys mwy na 400 o dudalennau, yn gwneud deg argymhelliad ar draws y system, ac mae pob un ohonynt yn berthnasol i Gymru. Dyma'r argymhellion:

A1 Cryfhau Strwythurau Atal a Rheoli Heintiau (IPC)
A2 Creu Canllawiau Cyfyngiadau Ymlyniad Tosturiol a Chlir
A3 Cynyddu'r Capasiti Profion Ffitio ar gyfer Cyfarpar Diogelu Personol Anadlol
A4 Gwella Systemau Data i Nodi Unigolion Risg Uchel
A5 Cynllunio ar gyfer Capasiti Brys mewn Gofal Brys ac Argyfwng
A6 Sicrhau y Gellir Ehangu Capasiti Ysbytai'n Gyflym
A7 Cyhoeddi Fframwaith Dyrannu Adnoddau Gofal Dwys ar gyfer y DU Gyfan
A8 Cofnodi Marwolaethau Gweithwyr Gofal Iechyd yn Systematig
A9 Creu Proses Cynllunio Gofal Safonol Ymlaen Llaw ar gyfer y DU gyfan
A10 Darparu Cymorth Seicolegol Graddadwy i Weithwyr Gofal Iechyd

**Themâu Cyffredinol i Gymru**

Mae'r argymhellion yn tynnu sylw dro ar ôl tro at anghenion Cymru yn y meysydd canlynol:

- Data a Seilwaith Digidol
- Awyru a gwella'r ystad
- Profion Ffitio a thegwch o ran cyfarpar diogelu personol

- Cynllunio ymchwydd yn y gweithlu
- Eglurder wrth wneud penderfyniadau gofal ymlaen llaw
- Cymorth seicolegol i staff

**Cyhoeddi adroddiadau eraill yr Ymchwiliad**

Bydd adroddiad Modiwl 4 ar Frechlynnau a Therapiwteg yn cael ei gyhoeddi ar 16 Ebrill 2026.

Mae'n debygol y bydd argymhellion a gwersi i'r Bwrdd Iechyd o nifer o'r adroddiadau hyn ar yr Ymchwiliad, ond Modiwl 3 yw'r un sydd wedi'i gyfeirio'n benodol at y Bwrdd Iechyd. Mae trefniadau eisoes ar waith i dderbyn ac ymateb i hyn ac unrhyw adroddiadau Ymchwiliad eraill drwy'r Grŵp Llywio Darganfod a Dysgu, dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth. Argymhellir bod y Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau yn goruchwylio ymateb y Bwrdd Iechyd i Fodiwl 3, gan gynnwys sicrwydd ynghylch cyflawni yn erbyn argymhellion perthnasol, gyda chynnydd a materion allweddol yn cael eu huwchgyfeirio a'u hadrodd i'r Bwrdd fel y bo'n briodol.

## 3.11 PWYLLGOR PARTNERIAETH CYDWASANAETHAU

Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r sicrwydd a roddwyd drwy gyfarfod Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2026. Ystyriodd y Pwyllgor amrywiaeth gynhwysfawr o faterion llywodraethu, perfformiad, ariannol a risg, a chadarnhaodd fod y fframwaith llywodraethu cyffredinol yn parhau i fod yn sylfaenol gadarn, wedi'i gefnogi gan ganfyddiadau'r Adolygiad Llywodraethu ac Atebolrwydd a'r gwaith gweithredu cysylltiedig sydd bellach ar y gweill. Roedd meysydd ffocws allweddol yn cynnwys rheoli ac uwchgyfeirio risg, cynaliadwyedd ariannol, y gweithlu a chyflawni rhaglenni, gyda'r Pwyllgor yn herio ac yn craffu'n briodol ar draws y meysydd hyn.

Cymeradwyodd y Pwyllgor nifer o eitemau sylweddol o fewn ei awdurdod dirprwyedig, gan gynnwys cytundebau lefel gwasanaeth, caffael ac ehangu contractau, a diwygiadau i drefniadau goruchwylio, gyda sicrwydd bod llywodraethiant, Cynllun Dirprwyo a Rheolau Sefydlog yn cael eu cymhwyso'n briodol. Nododd y Pwyllgor hefyd gynnydd parhaus yn erbyn y Cynllun Tymor Canolig Integredig, sefyllfa ariannol sefydlog, perfformiad cryf yn erbyn dangosyddion allweddol, a rheoli'r gofrestr risg gorfforaethol yn weithredol, gan gynnwys risgiau coch sy'n ymwneud â seiberddiogelwch, y gweithlu, pwysau ariannol a rhaglenni mawr. Roedd materion a ystyriwyd yn breifat yn cael eu rheoli yn unol â gofynion llywodraethu.

Yn gyffredinol, cadarnhaodd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol fod trefniadau llywodraethu, sicrwydd ac uwchgyfeirio effeithiol ar waith ac yn gweithredu yn ôl y bwriad.

Mae'r adroddiad wedi'i atodi yn Atodiad D

## 4 RISGIAU ALLWEDDOL / MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO KEY RISKS BOARD ASSURANCE FRAMEWORK / MATTERS FOR ESCALATION

Does dim risgiau na materion i'w huwchgyfeirio.

## 5 ARGYMHELLION RECOMMENDATIONS

5.1 Gofynnir i aelodau wneud y canlynol:

- **NODI** cynnwys yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol a'r cynnydd a wnaed o ran cryfhau trefniadau llywodraethu;
- **CADARNHAU** Camau Gweithredu'r Cadeirydd a gymerwyd ers y cyfarfod diwethaf;
- **NODI'R** penderfyniadau a wnaed mewn sesiwn breifat a gosod y Sêl Gyffredin;
- **CADARNHAU** cymeradwyaethau o ran Clinigwyr Cymeradwy a Meddygon Adran 12(2) yn unol â gofynion cenedlaethol;
- **NODI'R** sicrwydd a ddarperir drwy Bwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru;
- **CYMERADWYO** Fframwaith Llywodraethu Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru, wedi'i ddiweddaru, gan gynnwys Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol y Cyd-bwyllgor);
- **CYMERADWYO** datblygiad parhaus effeithiolrwydd y Bwrdd, gan gynnwys gweithredu rhaglen ddatblygu'r Bwrdd ac ymweliadau'r Bwrdd sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig;
- **CEFNOGI** meysydd i'w gwella a nodwyd sy'n deillio o Hunanasesiad y Bwrdd, yn enwedig cryfhau cynaliadwyedd arweinyddiaeth weithredol, mireinio ffocws strategol a symleiddio adroddiadau'r Bwrdd;
- **CYDNABOD** yr angen am ffocws parhaus ar gryfhau sicrwydd, gan gynnwys cyfleu camau gweithredu'n gliriach ac effaith amlwg mewn fframweithiau llywodraethu a risg allweddol.

| ASESIAD / ASSESSMENT | |
|---|---|
| • **Cyswllt â'r Blaenoriaethau Strategol**<br>• **Link to Strategic Priorities** | 4. Creu System Gofal Iechyd Fodern sy'n Canolbwyntio ar Bobl |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: |

| | |
|---|---|
| | |
| **Yr Egwyddorion Dylunio**<br>**Design Principles** | Symleiddio, Safoni, a Mabwysiadu Arferion Gorau<br>Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: |
| **Fframwaith Risgiau Corfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd**<br>**Corporate Risks and Board Assurance Framework** | BAF24-01 Creu Sefydliad Effeithiol ac Atebol<br><br>CRR-16 – Arweinyddiaeth/Mesurau Arbennig |

| ASESIADAU O EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS | | |
|---|---|---|
| **Cydraddoldeb**<br>*A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (sy'n cynnwys gofynion Safonau'r Gymraeg)*<br>**Equality**<br>*Have you undertaken an Equality Impact Assessment Screening (which includes the requirements of the Welsh Language Standards)* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Ddim yn ofynnol ar gyfer yr adroddiad hwn |
| **Asesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol**<br>*A ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol?*<br>**Socio-Economic Impact Assessment**<br>*Have you undertaken a Socio-Economic Impact Assessment* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Ddim yn ofynnol ar gyfer yr adroddiad hwn |
| **Ansawdd**<br>*A ydych chi wedi ymgymryd â phrawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd?*<br>**Ansawdd**<br>*Have you undertaken a Quality Impact Assessment Screening?* | **Galluogwyr Ansawdd**<br>**Galluogwyr Ansawdd**<br>Arweinyddiaeth | **Meysydd Ansawdd**<br>**Meysydd Ansawdd** Mae pob un yn Berthnasol |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant** **Wellbeing of Future Generations Act – Wellbeing Goals** | Ddim yn berthnasol | |

| | | |
|---|---|---|
| **Effaith Amgylcheddol / Cynaliadwyedd (5Rs)** **Environmental /Sustainability Impact (5Rs)** | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: | |
| | Na - Ddim yn berthnasol | |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny:<br>If more than one applies, please list: | |
| **Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog**<br>A ydych chi wedi ystyried Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog:<br>**Armed Forces Covenant Due Regard Duty**<br>Have you considered the Armed Forces Covenant Due Regard Duty? | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Ddim yn ofynnol ar gyfer yr adroddiad hwn |
| **Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data**<br>*A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data?*<br>**Data Protection Impact Assessment**<br>*Have you undertaken a Data Protection Impact Assessment Screening?* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Ddim yn ofynnol ar gyfer yr adroddiad hwn |
| **Asesiad o Effaith ar Atal Twyll**<br>*A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau ar atal twyll?*<br>**Counter Fraud Impact Assessment**<br>*Have you considered the counter fraud impacts* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: | Ddim yn ofynnol ar gyfer yr adroddiad hwn |

| | | |
|---|---|---|
| | If no, please include rationale: | |
| **Cyfreithiol**<br>**Legal** | Do (Rhowch ragor o fanylion isod)<br>Mae goblygiadau cyfreithiol yn yr eitemau Hawliadau Gwerth Uchel yr adroddwyd arnynt | |
| **Enw Da**<br>**Reputational** | Nid oes effaith uniongyrchol ar enw da'r Bwrdd Iechyd o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn. | |
| **Effaith ar Adnoddau**<br>*(Pobl / Ariannol)*<br>**Resource Impact**<br>*(People / Financial)* | Nid oes effaith uniongyrchol ar adnoddau o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn. | |

GIG CYMRU NHS WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

<table>
<tr><th colspan="4">Bwrdd Iechyd<br>Adroddiad Materion Allweddol<br>(ni ddylai'r adroddiad hwn fod yn fwy na 2 ochr tudalen A4)</th></tr>
<tr><td colspan="2">Dyddiad y Bwrdd</td><td colspan="2">28/05/2026</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dyddiad y Pwyllgor</td><td>17/03/2026<br>a 12/05/26</td><td>Adroddiad: Pwyllgor Taliadau –<br>Cyfarfod Arbennig 17.3.26<br>Cyfarfod wedi'i drefnu 12.5.26</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cyfarfu'r Cworwm:</td><td colspan="2">Do</td></tr>
<tr><td>1</td><td>Agenda</td><td colspan="2">Cyfarfu cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Taliadau i drafod materion brys ar 17.3.26 a chynhaliwyd cyfarfod a oedd wedi'i drefnu ar 12.5.26.<br>Cynhelir pob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Taliadau mewn sesiwn breifat oherwydd bod pynciau personol y gellir eu hadnabod yn cael eu trafod.</td></tr>
<tr><td>2a</td><td>Rhybuddio</td><td colspan="2">Hoffai'r Pwyllgor Taliadau rybuddio aelodau'r Bwrdd am y canlynol:<br>Ar 17.3.26<br>1. Roedd angen cytuno ar ddechrau'r broses recriwtio ar gyfer 3 swydd sefydliadol uwch er mwyn sicrhau bod gallu parhaus a chytbwys o fewn y Tîm Gweithredol.<br>2. Trafodwyd y posibilrwydd o roi estyniadau i rolau uwch er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â gwaith ymgynghori a gweithredu rhaglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol y sefydliad.<br>Ar 12.5.26<br>1. Darparwyd yr wybodaeth ddiweddaraf ar weithgarwch recriwtio presennol y Tîm Gweithredol i rolau nad ydynt wedi'u llenwi neu sy'n destun cynlluniau ymddeol.</td></tr>
<tr><td>2b</td><td>Sicrhau</td><td colspan="2">Hoffai'r Pwyllgor Taliadau sicrhau'r canlynol i aelodau'r Bwrdd:<br>ar 17.3.26<br>1. Cynhaliwyd trafodaethau ystyrlon i gytuno ar y canlynol:<br>1.1. penodi asiantaeth recriwtio allanol.<br>1.2. dechrau'r broses o recriwtio'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth yn dilyn ymddeoliad y deiliad presennol ym mis Awst 2026.<br>Ar 12.5.26<br>1. cynhaliwyd trafodaeth ynghylch gwella'r broses o recriwtio aelodau'r Bwrdd, yn enwedig o ran effeithlonrwydd cynnwys rhanddeiliaid.</td></tr>
<tr><td>2c</td><td>Hysbysu</td><td colspan="2">Hoffai'r Pwyllgor Taliadau, hysbysu aelodau'r Bwrdd o'r canlynol:<br>Ar 17.3.26<br>1. Cytunwyd y byddai trefniadau dros dro yn parhau mewn perthynas â rolau'r Cyfarwyddwr Gweithredol a'r Prif Swyddog Digidol.</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | | 2. Yn unol â'r canllawiau, cafodd Llywodraeth Cymru (LIC) wybod am y penodiadau dros dro dan gontract.<br>3. Cytunwyd ar bum estyniad secondiad er mwyn cyd-fynd â'r gwaith o weithredu'r rhaglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol.<br>4. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar y codiad cyflog ar gyfer Graddau Cyflog Gweithredol 2025/26, gan gynnwys ôl-ddyddio i fis Ebrill 2025.<br>5. Roedd yr holl apwyntiadau a secondiadau a gynghorwyd wedi cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru 2024/013.<br>Ar 12.5.26<br>1. Rhannwyd gweithgarwch recriwtio oedd yn ymwneud â'r rolau canlynol<br>1.1. Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth<br>1.2. Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Strategol<br>1.3. Cyfarwyddwr Digidol<br>1.4. Penodiad tymor byr i rôl y Dirprwy Brif Weithredwr<br>2. Nid oedd unrhyw weithwyr newydd na gweithwyr asiantaeth dros dro nad oedd yn cydymffurfio o fewn graddau cyflog Gweithredol ac Uwch Swyddogion (ESP)<br>3. Yn dilyn y drafodaeth, byddai'r Pwyllgor yn mynd ar drywydd prosesau cynllunio olyniaeth y sefydliad a chynlluniau datblygu a llesiant y Tîm Gweithredol. |
| **2d** | Adolygu Risgiau | Trafodwyd risgiau oedd yn ymwneud â<br>• bylchau posibl o ran capasiti mewn rolau tîm gweithredol hanfodol pe na bai ystyriaeth recriwtio amserol a llwyddiannus yn cael ei rhoi.<br>• Cymorth effeithiol o ran capasiti i swyddi uchel iawn |
| **2e** | Rhannu gwersi | Rhoddwyd ystyriaeth i weithgarwch recriwtio blaenorol a pherfformiad secondiad, ac roedd hynny'n sail i'r drafodaeth. |
| **3** | Camau i'w hystyried gan y Pwyllgor Pobl a Diwylliant | Arweinyddiaeth ac ymgysylltiad meddygol |

| **Bwrdd Iechyd**<br>**Adroddiad Materion Allweddol** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dyddiad y Bwrdd** | | 28/05/2026 | | |
| **Dyddiad y Pwyllgor** | | 07/05/2026 | **Adroddiad:** | Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau |
| **Cworwm:** | | Oedd | | |
| **1** | Agenda | Mae'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau (PPHP) yn parhau i gyfarfod bob dau fis. Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr agenda sydd ynghlwm: Pwyllgor PPHP - BIPBC | | |
| **2a** | Rhybuddio | Hoffai'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau rybuddio aelodau'r Bwrdd am y canlynol:<br><br>1. **Rhaglenni Allweddol:** Nododd y Pwyllgor risg barhaus o ran cyflawni ar draws nifer o raglenni mawr, rhai ohonynt yn dibynnu ar gymeradwyaethau cenedlaethol a phartneriaid allanol (gan gynnwys rhaglenni digidol ac ystadau), a allai effeithio ar amserlenni cyflawni.<br>2. **Cynllun Cyflawni Blynyddol ac Adroddiadau Cynllunio'r Gyfarwyddiaeth:** Roedd y Pwyllgor yn bryderus nad oedd y data alldro terfynol yn cyd-fynd mewn rhai meysydd â'r sgôr hyder a adroddwyd i'r Bwrdd ym mis Mawrth 26. Mae hyn wedi bod yn her barhaus. Roedd yr aelodau'n teimlo bod y Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 26/7 wedi gosod targedau mwy realistig gyda gwell dealltwriaeth o gapasiti; a bydd adroddiadau'n cael eu hadolygu i adlewyrchu'n well lle'r ydym drwy gydol y flwyddyn.<br>3. **Newid Mawr a Thrawsnewid:** Mae maint ac ehangder y gweithgarwch trawsnewid cydamserol yn dal yn sylweddol, gan roi pwysau parhaus ar gapasiti sefydliadol a chynyddu'r risg o lithriant os nad yw dilyniannu ac adnoddau'n cael eu rheoli'n ofalus.<br>4. **Adroddiad Cyflawni ar Iechyd y Boblogaeth:** Mae anghydraddoldebau iechyd parhaus, yn enwedig o ran y nifer sy'n manteisio ar frechiadau a chanlyniadau gwaith ataliol, yn cyfyngu fwyfwy ar wella iechyd y boblogaeth, gyda materion diffyg ymgysylltu a chydsyniad mewn cymunedau penodol yn her sylweddol i gyflawni disgwyliadau cenedlaethol. | | |
| **2b** | Sicrhau | Hoffai'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau roi sicrwydd i aelodau'r Bwrdd am y canlynol:<br><br>1. **Adroddiad Cynllunio'r Gyfarwyddiaeth:** Mae trefniadau cynllunio cryfach bellach ar waith, gydag aliniad cliriach | | |

| | | |
|---|---|---|
| | | rhwng y Cynllun Tymor Canolig Integredig, y Cynllun Cyflawni Blynyddol, rhaglenni newid mawr a'r System Rheoli Ansawdd, gan gefnogi gwell goruchwyliaeth a llywodraethiant.<br>2. **Rhaglenni Allweddol:** Cafodd y Pwyllgor sicrwydd bod swyddogaethau galluogi, gan gynnwys cynllunio strategol, rheoli rhaglenni ac ymgysylltu clinigol, yn parhau i aeddfedu a darparu sylfaen fwy sefydlog ar gyfer cyflawni.<br>3. **Adroddiad Blynyddol Parodrwydd am Argyfwng, Gwydnwch ac Ymateb:** Cafodd y Pwyllgor sicrwydd bod gwelliant sylweddol wedi bod mewn trefniadau parodrwydd am argyfwng a pharhad busnes, gan gynnwys gweithio'n gryfach gyda phartneriaid, cynlluniau cliriach a gwell parodrwydd sefydliadol, er bod mwy o waith i'w wneud o hyd. |
| **2c** | Hysbysu | Hoffai'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau hysbysu'r Bwrdd am y canlynol:<br><br>1. Byddai **sicrwydd y Bwrdd yn y dyfodol** yn cael ei gryfhau drwy fynegi'n gliriach beth yw'r realaeth o ran cyflawni, gan gynnwys tryloywder ynghylch risgiau, dibyniaethau a blaenoriaethu, a fydd yn cryfhau sicrwydd ac yn cefnogi dulliau penderfyniadau ar sail gwybodaeth.<br>2. **Newid Mawr, Cynllunio ac Ymgysylltiad Dinasyddion:** Bydd yn hanfodol canolbwyntio'n barhaus ar ddilyniannu ac integreiddio ar draws rhaglenni trawsnewid, yn enwedig lle mae cynllunio gwasanaethau clinigol, newid yn y gweithlu a thrawsnewid digidol yn croestorri.<br>3. **Profiad y Dinesydd ac Ymgysylltiad:** Bydd parhau i weld sut mae adborth dinasyddion a gwybodaeth drwy ymgysylltu yn llywio blaenoriaethau a gweithgarwch gwella yn cefnogi hyder y cyhoedd ac yn dangos ymatebolrwydd i brofiad y gymuned.<br>4. **Adroddiad Cyflawni ar Iechyd y Boblogaeth:** Bydd sicrhau canlyniadau iechyd y boblogaeth yn dibynnu fwyfwy ar ddulliau partneriaeth targedol sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a ffactorau ymddygiadol, gan barhau i ganolbwyntio ar gynnal enillion ataliol hirdymor. Awgrymwyd bod hyn yn cysylltu â thrafodaeth gan y Bwrdd ar lefel strategol ar Gymunedol o'r Cychwyn. Roedd y drafodaeth hefyd yn cyd-fynd â cham gweithredu 25.208.1 gan y Bwrdd, lle gofynnwyd i'r cynnydd mewn perthynas â'r argymhellion a gafodd eu cynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus gael eu datblygu, gan nodi bod ffocws sylweddol wedi bod ar wreiddio'r uchelgeisiau a ddisgrifir yn yr Adroddiad ar gynlluniau allweddol y Bwrdd Iechyd ac y bydd y cynnydd parhaus yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor. |

| | | |
|---|---|---|
| **2d** | Adolygu Risgiau | Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi parhau i aeddfedu, gyda llywodraethiant cliriach, gwell aliniad â blaenoriaethau strategol, a mwy o atebolrwydd, gan nodi bod angen gwneud rhagor o waith i gryfhau perchnogaeth, hyder o ran cyflawni ac effaith camau sicrwydd. |
| **2e** | Rhannu gwersi | Amh |
| **3** | Camau i'w hystyried gan Bwyllgorau eraill | Amh |

| Bwrdd Iechyd<br>Adroddiad Materion Allweddol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dyddiad y Bwrdd** | | 28/05/2026 | | |
| **Dyddiad y Pwyllgor** | | 09/04/2026 | **Adroddiad:** | Pwyllgor Pobl a Diwylliant |
| **Cworwm:** | | Do | | |
| **1** | Agenda | Mae'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant yn parhau i gyfarfod bob dau fis. Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr agenda sydd ynghlwm:<br>Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant - BIPBC | | |
| **2a** | Rhybuddio | Hoffai'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant rybuddio aelodau'r Bwrdd am y canlynol:<br><br>1. Mae adborth o weithgarwch ymgysylltu â staff, gan gynnwys Arolwg Staff GIG Cymru a chyflwyniad profiad staff, yn dangos bod angen gwneud rhagor o waith i gryfhau hyder wrth godi llais a gwreiddio ymddygiadau arwain a rheoli cadarnhaol yn gyson.<br>2. Mae angen cynnal momentwm a gweledigaeth clir y camau gweithredu sy'n deillio o Arolwg Staff GIG Cymru 2025, yn enwedig mewn perthynas â grwpiau proffesiynol, llesiant staff, llwyth gwaith ac ymgysylltu ag arweinwyr.<br>3. Mae graddfa'r newid sefydliadol sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol yn gofyn am gynllunio ac ymgysylltu'n ofalus â'r gweithlu i gefnogi llesiant a morâl staff drwy gydol y cyfnod cyflawni. | | |
| **2b** | Sicrhau | Hoffai'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant roi sicrwydd i'r aelodau'r Bwrdd am y canlynol:<br><br>1. Mae gwaith ymgysylltu a gwella cadarn yn mynd rhagddo mewn ymateb i Arolwg Staff GIG Cymru 2025, gyda chynlluniau ar gyfer dadansoddi pellach, triongli data, ac adrodd i'r Bwrdd.<br>2. Mae cynnydd wedi cael ei wneud o ran cryfhau'r Cynllun Gwella Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu, gan gynnwys mwy o berchnogaeth weithredol, atebolrwydd cliriach, a gwaith wedi'i hwyluso gan Ddatblygiad Sefydliadol i wella mesuradwyedd a bydd cynnydd yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor. Mae'r trafodaethau hyn yn cyd-fynd â cham gweithredu 25/210.1 gan y Bwrdd lle gofynnwyd i'r Cynllun Gwella Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu Tair Blynedd gael ei ddatblygu ymhellach a bod cynnydd yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Pobl a Diwylliant i roi sicrwydd i'r Bwrdd.<br>3. Cafodd y Pwyllgor sicrwydd ynghylch y cynnydd sy'n gysylltiedig â Chynllunio Swyddi Ymgynghorwyr, gan | | |

| | | |
|---|---|---|
| | | gynnwys datblygu protocolau ar y cyd a monitro parhaus fel mecanwaith allweddol i sicrhau'r gweithlu. |
| **2c** | Hysbysu | Hoffai'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant hysbysu aelodau'r Bwrdd am y canlynol:<br><br>1. Cymeradwyodd y Pwyllgor y cynnig i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ddod yn Bartner Maethu Cymru (Lefel 2) a chefnogi symud ymlaen i gael cymeradwyaeth y Bwrdd ym mis Mai 2026, yn unol â rôl Sefydliad Angori'r sefydliad.<br>2. Bydd y Cynllun Gwella Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu diwygiedig yn dychwelyd i'r Pwyllgor ym mis Mehefin 2026 am sicrwydd cyn ystyried llywodraethu ehangach.<br>3. Bydd adroddiadau sicrwydd parhaus yn parhau ar Gynllunio Swyddi Meddygon Ymgynghorol o ystyried ei bwysigrwydd strategol i gynaliadwyedd y gweithlu a darparu gwasanaethau.<br>4. Mae canolbwyntio ar ddatblygu arweinyddiaeth a rheolaeth yn dal yn flaenoriaeth uchel, gan fod hyn yn sbardun allweddol i gefnogi diwylliant sefydliadol gwell sy'n cyd-fynd â gwerthoedd. Mae'r cyfle i weithio gydag ysgol fusnes prifysgol i gyd-lunio hyfforddiant a datblygiad academaidd sy'n cefnogi ein huchelgeisiau strategol o dan Sylfeini ar gyfer y Dyfodol yn cael ei ystyried. |
| **2d** | Adolygu Risgiau | Ni thynnwyd sylw'n benodol at unrhyw risgiau yn y cyfarfod. |
| **2e** | Rhannu gwersi | Roedd yr hyn a ddysgwyd o Stori'r Staff - Codi Llais heb Ofn wedi amlygu pwysigrwydd hanfodol ymddygiadau arwain, diogelwch seicolegol, ac ymatebion sefydliadol cyson i bryderon a godwyd gan staff. |
| **3** | Camau i'w hystyried gan y Pwyllgor Gweithredol | Cafodd y Pwyllgor y diweddaraf am Gynllunio Swyddi Meddygon Ymgynghorol, a chytunodd y dylai sicrwydd ar gynnydd yn y maes hwn barhau, gyda gwybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu â'r Pwyllgor Archwilio fel rhan o'r fframwaith sicrwydd ehangach |

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

<table>
<tr><th colspan="5">Adroddiad Materion Allweddol<br>Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl</th></tr>
<tr><td colspan="2">Dyddiad y Bwrdd</td><td colspan="3">28/05/2026</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dyddiad y Pwyllgor</td><td>14/05/2026</td><td>Adroddiad:</td><td>Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cworwm wedi'i gyrraedd:</td><td colspan="3">Do</td></tr>
<tr><td>1</td><td>Agenda</td><td colspan="3">Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl yn parhau i gyfarfod bob deufis. Ystyriodd y Pwyllgor yr agenda sydd ynghlwm: MHL Committee - BCUHB</td></tr>
<tr><td>2a</td><td>Rhybudd</td><td colspan="3">Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl yn dymuno rhybuddio aelodau'r Bwrdd:<ul><li>Bod y defnydd o bwerau Adran 136 ymhlith pobl o dan 18 oed yn isel a sefydlog, a nodir gwelliant mewn tueddiadau perfformiad mewn gwrandawiadau Rheolwyr Ysbytai Cyswllt yn dilyn gwelliant o broblemau capasiti blaenorol.</li><li>Mae pwysau sy'n gysylltiedig ag oedi yn y llwybrau rhyddhau a phecynnau gofal yn creu risg bosibl i weithredu pwerau'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn briodol ac yn gymesur ar draws y system.</li><li>Nodwyd pwysau gweithredol parhaus sy'n gysylltiedig â gweithgaredd Adran 136, gan gynnwys cyfran uchel o ryddhau heb i unrhyw anhwylder meddwl gael ei nodi, fel pryder system.</li><li>Mae dibyniaethau rhyngasiantaethol parhaus, gan gynnwys amrywiaeth yn ymgysylltiad yr awdurdodau lleol, yn parhau i gyfrannu at oedi sydd y tu allan i reolaeth uniongyrchol y Pwyllgor.</li></ul></td></tr>
<tr><td>2b</td><td>Sicrwydd</td><td colspan="3">Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl yn dymuno sicrhau aelodau'r Bwrdd:<ul><li>Bod trefniadau llywodraethu, monitro ac adrodd statudol y Ddeddf Iechyd Meddwl yn parhau i fod yn gadarn ac yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol.</li><li>Bod canfyddiadau arolygiadau, canlyniadau archwiliadau a materion a nodwyd trwy graffu gan y Rheolwr Ysbyty Cyswllt yn cael eu goruchwylio'n weithredol a thrwy olrhain camau gweithredu.</li><li>Mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlogi capasiti'r gweithlu o ran y Ddeddf Iechyd Meddwl a chryfhau gwydnwch o fewn gweithgareddau cymorth cyfreithiol a gweinyddol.</li></ul></td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| **2c** | Cynghori | Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl yn dymuno cynghori aelodau'r Bwrdd:<br><br>• Cafwyd trafodaeth ddiddorol am dderbyniadau anffurfiol o gadwadau adran 2 ac a oedd hyn yn ddangosydd cadarnhaol neu negyddol.<br>• Dylai sicrwydd yn y dyfodol barhau i driongli gweithgaredd Deddf Iechyd Meddwl gyda gwybodaeth am brofiad cleifion, ansawdd a diogelwch. |
| **2d** | Adolygiad o Risgiau | Amherthnasol |
| **2e** | Rhannu Dysgu | Amherthnasol |
| **3** | Camau gweithredu i'w hystyried gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad | Cytunodd y Pwyllgor y dylid uwchgyfeirio'r risg sy'n amlygu ei hun o ran oedi yn y pecynnau gofal sy'n effeithio ar gymhwyso pwerau Deddf Iechyd Meddwl yn briodol, i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad er mwyn cael goruchwyliaeth ar lefel system. |

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

| Bwrdd Iechyd<br>Adroddiad Materion Allweddol | | | |
|---|---|---|---|
| **Dyddiad y Bwrdd** | 28.05.2026 | | |
| **Dyddiad y Pwyllgor** | 05/05/2026 | **Adroddiad:** | Fforwm Partneriaeth Lleol |
| **Cworwm:** | Do | | |

| | | |
|---|---|---|
| **1** | Agenda | Mae'r Fforwm Partneriaeth Lleol yn parhau i gyfarfod bob chwarter. Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr agenda sydd ynghlwm: [Fforwm Partneriaeth Lleol - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr] |
| **2a** | Rhybuddio | Dymuna'r Fforwm Partneriaeth Lleol rybuddio aelodau'r Bwrdd am y canlynol:<br>• Codwyd pryderon ynghylch aflonyddu rhywiol, anghydbwysedd pŵer, a'r angen am ymyrraeth gryfach gan y gwyliwr, a amlygwyd drwy straeon y staff<br>• Mae canlyniadau'r arolwg staff yn dangos diffyg cysylltiad o ran arweinyddiaeth, bwlio, pwysau llesiant, a phryderon ynghylch llwyth gwaith, er gwaethaf cefnogaeth gadarnhaol gan y tîm.<br>• Mae cynrychiolwyr undebau llafur yn dioddef diffygiad oherwydd materion yn ymwneud ag amser cyfleuster a rhyddhau.<br>• Mae'r sefyllfa ariannol yn parhau i fod yn heriol gyda diffyg o £17.3m, sy'n gofyn am gynllun adfer ac ailgynllunio gwasanaethau'n gynaliadwy.<br>• Codwyd problemau ynghylch defnyddio staff asiantaeth, cynllunio'r gweithlu, a'r ffaith bod angen adolygu modelau banc/asiantaeth.<br>• Nodwyd cam-drin cyhoeddus tuag at staff, sy'n galw am gamau ataliol. |
| **2b** | Sicrwydd | Dymuna'r Fforwm Partneriaeth Lleol roi sicrwydd i aelodau'r Bwrdd am y canlynol:<br>• Mae'r Cynllun Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu Diwylliannol yn mynd rhagddo, a chydnabuwyd bod cydweithio ag undebau llafur yn hanfodol.<br>• Ystyriwyd bod y pecyn cymorth PADR yn gynhwysfawr; mae gwaith yn mynd rhagddo i symleiddio prosesau, gan gynnwys ar gyfer presgripsiynwyr.<br>• Mae adroddiad Gwasanaethau Pobl yn tynnu sylw at ddulliau gweithredu tosturiol ac adferol ar gyfer ymdrin â chysylltiadau gweithwyr.<br>• Mae rheolaethau ariannol cadarn ar waith er gwaethaf y diffyg; arbedion sydd eisoes wedi'u cyflawni.<br>• Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn canolbwyntio ar isgyfeirio mesurau arbennig a gweithio mewn partneriaeth.<br>• Mae 533 o enwebiadau ar gyfer gwobrau cyflawniad staff yn dangos diwylliant cryf o gydnabyddiaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Lansiwyd hyfforddiant "Crych-effeithiau" i gefnogi moesgarwch a morâl. |
| **2c** | Hysbysu | Dymuna'r Fforwm Partneriaeth Lleol hysbysu aelodau'r Bwrdd am y canlynol:<br>• Cryfhau cyfathrebu a gwelededd arweinyddiaeth i fynd i'r afael â phryderon yr arolwg.<br>• Blaenoriaethu llesiant, mesurau gwrth-fwlio a diogelwch seicolegol ar draws timau.<br>• Parhau i wreiddio hyfforddiant y gwyliwr gweithredol a rhannu straeon staff gydag uwch grwpiau clinigol.<br>• Sicrhau bod undebau llafur yn cael mynediad prydlon at strwythurau sefydliadol i gefnogi ymgysylltu ystyrlon.<br>• Cynnal dulliau arwain tosturiol yn ystod adferiad ariannol er mwyn osgoi gwneud penderfyniadau trafodaethol.<br>• Adolygu'r gwaith o gynllunio'r gweithlu i leihau dibyniaeth ar staff asiantaeth a gwella cynaliadwyedd tymor hir.<br>• Cefnogi cynrychiolwyr undebau llafur gyda digon o amser cyfleuster i atal diffygiad. |
| **2d** | Adolygu Risgiau | Dim i'w nodi |
| **2e** | Rhannu gwersi | Dim i'w nodi |
| **3** | Camau i'w hystyried gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | • Debbie Eyitayo i gynnwys diweddariad ar absenoldeb oherwydd salwch yn ei hadroddiad.<br>• Debbie Eyitayo a Stuart Keen i edrych ar fesurau ataliol ar gyfer cam-drin sy'n cael ei sbarduno gan y cyhoedd.<br>• Rebecca Testa i symleiddio'r pecyn cymorth PADR a'r atodiadau, yn enwedig ar gyfer presgripsiynwyr.<br>• Jan Tomlinson i gydlynu adborth undebau llafur ar gyfraniad y Cynllun Tymor Canolig Integredig.<br>• Russell Caldicott a Dyfed Edwards i adolygu modelau staffio asiantaeth a banc.<br>• Cyfarfodydd i'w trefnu i roi strwythur sefydliadol cyfredol i undebau llafur ar gyfer mewnbwn.<br>• Ymgysylltu parhaus ar adolygiad strwythurol a mentrau gwella diwylliannol. |

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

## Bwrdd Iechyd

# ADRODDIAD PWYLLGOR GWEITHGOR

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod**<br>**Date of Meeting** | 28 Mai 2026 |
| **Statws Cyhoeddi**<br>**Publication Status** | Cyhoeddus |
| | Not Applicable |
| **Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad**<br>**Report Author name and title** | Catrin Williams |
| **Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol**<br>**Lead Executive Team Member name and title** | Pam Wenger,<br>Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |

| | |
|---|---|
| **Pwrpas yr Adroddiad**<br>**Report Purpose** | I'w nodi |

| **Crynodeb Gweithredol**<br>**Executive Summary** |
|---|
| Ers yr adroddiad diwethaf mae'r Pwyllgor Gweithgor wedi ymgynnull ar 11 Mawrth, 25 Mawrth, 8 Ebrill a 22 Ebrill. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi canolbwyntio ar ddatblygiadau gwasanaethau strategol, gwelliannau llywodraethu, a goruchwyliaeth ariannol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd.<br><br>Mae'r Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod yn breifat ac felly efallai y bydd rhai eitemau busnes sy'n cael eu hystyried yn gyfrinachol yn unol â Rheolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd. |

| **Ymgysylltu (mewnol/allanol) yr ymgymerwyd ag ef hyd yma (gan gynnwys derbyn/ ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp)**<br>**Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)** | | |
|---|---|---|
| **Pwyllgor / Grŵp / Unigolion**<br>**Committee / Group / Individuals** | **Dyddiad**<br>**Date** | **Canlyniad, Tystiolaeth a Data**<br>**Outcome, Evidence and Data** |
| Not applicable for this report | | |

**ADRODDIAD Y PWYLLGOR GWEITHGOR**

Ers yr adroddiad diwethaf mae'r Pwyllgor Gweithgor wedi ymgynnull ar 11 Mawrth, 25 Mawrth, 8 Ebrill a 22 Ebrill. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi canolbwyntio ar ddatblygiadau gwasanaethau strategol, gwelliannau llywodraethu, a goruchwyliaeth ariannol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd.

Mae'r Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod yn breifat ac felly efallai y bydd rhai eitemau busnes sy'n cael eu hystyried yn gyfrinachol yn unol â Rheolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd.

**1.0 Cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Ionawr**

**1.1 Contractau a Chymeradwyaethau Cyfalaf**

*Mae eitemau yn cael eu hadrodd mewn papur preifat*

**1.2 Llywodraethiant a Risg**

**1.2.1 Adroddiad Asesu Strwythuredig**

Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad Asesu Strwythuredig cyn cyflwyno i'r Bwrdd. Trafododd yr aelodau gywirdeb yr adroddiad a phwysigrwydd ymateb clir gan y rheolwyr.

Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a chytunodd y bydd yr ymateb terfynol yn cael ei gwblhau cyn cyflwyno i'r Bwrdd.

**1.2.2 Cynllunio Bwrdd a Chylchred Busnes**

Derbyniodd y Pwyllgor y cylch cynllunio wedi'i ddiweddaru, nodwyd yr eglurdeb ar lwybrau adrodd ac aliniad â bwriad strategol. Trafododd yr aelodau yr angen am fireinio pellach.

Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y cynllun a chytunodd y bydd mireinio pellach yn parhau cyn cyflwyno i'r Bwrdd.

**1.2.3 Cofrestr Risg Corfforaethol**

Derbyniodd y Pwyllgor y Gofrestr Risg Gorfforaethol a thrafododd welliannau i brosesau rheoli risg a'r angen i ganolbwyntio ar gamau lleihau risg ystyrlon.

Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y gofrestr a chytunodd i gefnogi datblygiad parhaus o sesiynau deifio dwfn a gwell goruchwyliaeth.

**1.3 Mesurau Arbennig 3 blynedd yn ddiweddarach**

Derbyniodd y Pwyllgor y diweddariad blynyddol ar gynnydd ar draws y meysydd Mesurau Arbennig. Trafododd yr aelodau yr angen i sicrhau bod y naratif yn gytbwys, yn cyd-fynd â'r Asesiad Strwythuredig, ac yn adlewyrchu cyflawniadau a heriau parhaus. Nodwyd bod rhywfaint o gynnwys yn parhau i fod yn anghyflawn ac roedd angen ei gwblhau cyn ei gyflwyno.

Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y diweddariad a chytunodd y dylid mireinio'r papur i sicrhau cydbwysedd, cywirdeb ac aliniad cyn cyflwyno i'r Bwrdd.

### 1.4 Diweddariad Cyfalaf a Rhaglen 2026–2031

Derbyniodd y Pwyllgor y diweddariad cyfalaf a'r rhaglen ddrafft. Trafododd yr aelodau gyfyngiadau cyllido a phwysigrwydd cynnal piblinell o brosiectau.

Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y diweddariad a chytunodd y dylai'r rhaglen fynd ymlaen i'r Bwrdd.

### 1.5 Cynllun Tymor Canolig Integredig 2026/27

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar ddatblygiad y Cynllun Tymor Canolig Integredig a thrafododd yr angen ei gwblhau ar frys.

Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y diweddariad a chytunodd fod yn rhaid i arweinwyr gweithredol ddarparu cynnwys rhagorol i alluogi ei gwblhau cyn ei gyflwyno.

### 1.6 Adroddiad Cynnydd Chwarter 3 y Cynllun Cyflawni Blynyddol

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad Chwarter 3 a nododd gynnwys cynlluniau lliniaru ar gyfer meysydd sy'n peri pryder.

Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y diweddariad a chytunodd y bydd yr adroddiad yn symud ymlaen i'r Bwrdd.

### 1.7 Adroddiad Profiad ac Ymgysylltu Gweithwyr

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad yr arolwg staff a thrafododd sgoriau sy'n gostwng a'r angen am weithredoedd corfforaethol â ffocws.

Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y diweddariad, cytunodd i flaenoriaethu nifer fach o gamau corfforaethol, a chytunodd y bydd dadansoddiad pellach yn dod yn ôl I sylw'r Pwyllgor.

### 1.8 Amseroedd aros Orthoptig i Blant

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar amseroedd aros orthoptig pediatrig a thrafododd ddatblygu safonau mewnol a phrosesau adrodd.

Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y diweddariad, cymeradwyodd y dull adrodd a chytunodd ar fireinio pellach cyn ei gynnwys mewn fframweithiau perfformiad.

**1.9 Diweddariad System Rheoli Gwybodaeth Labordy 2.0**

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar y rhaglen System Rheoli Gwybodaeth Labordy genedlaethol a thrafododd risgiau sylweddol sy'n ymwneud ag amserlenni a'r system trallwyso.

Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y risgiau a chytunodd y bydd adolygiad traws-swyddogaethol yn cael ei gynnal i ddarparu argymhelliad clir.

**1.10 Rhestrau Adran Cesaraidd Dewisol Cyllid**

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig ar gyfer parhau â'r cyllid a thrafododd yr angen i egluro'r model cyflawni mwyaf effeithiol.

Penderfyniad: Roedd y Pwyllgor yn cefnogi parhau â'r gwasanaeth a chytunodd y bydd y model cyllido yn cael ei gwblhau y tu allan i'r cyfarfod.

**1.11 Hybiau Iechyd Menywod yng Nghymru**

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar yr Hwb Iechyd Menywod a thrafododd bwysau ariannol a chynaliadwyedd.

Penderfyniad: Cytunodd y Pwyllgor i barhau â'r ddarpariaeth bresennol hyd at 30 Mehefin 2026 hyd nes y bydd adolygiad yn cael ei hystyried a chytunodd y bydd opsiynau tymor hir yn cael eu datblygu.

**2.0 Cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mawrth**

**2.1 Contractau a Chymeradwyaethau Cyfalaf**

*Mae eitemau yn cael eu hadrodd mewn papur preifat*

**2.2 Aliniad Sefydliad Nyrsio Cofrestredig (Graddedigion Medi 2026)**

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar gynllunio'r gweithlu ar gyfer carfan Medi 2026 a thrafododd y risgiau sy'n gysylltiedig â chyflenwad gweithlu, fforddiadwyedd a chynaliadwyedd.

Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y safbwynt, cytunodd ar ymateb rhybuddiol i Lywodraeth Cymru, a chytunodd fod angen rhagor o waith i ddatblygu dull cynaliadwy.

### 2.3 Sylfeini ar gyfer y Dyfodol

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar gynnydd y rhaglen a thrafododd risgiau sy'n ymwneud â diwylliant, gallu'r gweithlu a gweithredu.

Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y diweddariad a chytunodd ar y cyfeiriad teithio parhaus.

### 2.4 Hwb Orthopedig Llandudno

Derbyniodd y Pwyllgor bapur ar barodrwydd terfynol ar gyfer yr Hwb Orthopedig a thrafododd newidiadau staffio a chynnydd comisiynu.

Penderfyniad: Cymeradwyodd y Pwyllgor yr enw dwyieithog a'r trefniadau staffio cysylltiedig.

### 2.5 BIPBC yn dod yn Bartner Maeth

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig i ddod yn Bartner Maeth Cymru a thrafododd y manteision sefydliadol.

Penderfyniad: Cymeradwyodd y Pwyllgor y cynnig a chytunodd y dylai fynd ymlaen i'r Bwrdd.

### 2.6 Rhaglen Gofal Brys ac Argyfwng – Cynllun 6 Nodau

Derbyniodd y Pwyllgor y cynllun arfaethedig a thrafododd aliniad â disgwyliadau cenedlaethol a blaenoriaethau'r system.

Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y cynllun a chytunodd ei fod yn darparu sefyllfa interim briodol.

### 2.7 Diweddariad Gofal Llygaid Digidol

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar y rhaglen a thrafododd ansicrwydd cyllido a risgiau cyflawni.

Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y diweddariad a chytunodd i fwrw ymlaen wrth gynyddu'r sefyllfa ariannu.

## 3.0 Cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Ebrill

### 3.1 Contractau a Chymeradwyaethau Cyfalaf

*Eitemau a adroddwyd mewn papur preifat*

### 3.2 Llywodraethiant a Risg

### 3.2.1 Cydymffurfio â'r Côd Llywodraethu Corfforaethol

Derbyniodd y Pwyllgor yr asesiad cydymffurfio blynyddol a thrafododd feysydd sydd angen eu datblygu ymhellach.

Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor yr asesiad a'i ddilyniant drwy'r Pwyllgor Archwilio.

### 3.2.2 Grwpiau Cyflenwi Gweithredol

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig ar gyfer Grwpiau Cyflawni Gweithredol a thrafododd yr angen am eglurder, cysondeb ac aliniad â threfniadau llywodraethu.

Penderfyniad: Cefnogodd y Pwyllgor sefydlu’r grwpiau yn amodol ar ddatblygu Cylch Gorchwyl cyson.

### 3.2.3 Rheoli Risg Corfforaethol

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar reoli risg a thrafododd yr angen i gryfhau blaenoriaethu ac aliniad â chyflawni strategol.

Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y diweddariad a chefnogodd ddatblygiad pellach o'r dull.

### 3.2.4 Adroddiad Archwilio Mewnol Rheoli Risg Corfforaethol

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad archwilio mewnol a thrafododd ganfyddiadau yng nghyd-destun gwelliannau parhaus.

Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a'r sicrwydd rhesymol a ddarparwyd.

### 3.2.5 Safonau Ymddygiad Busnes

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad a thrafododd yr angen i wella cydymffurfiaeth ac ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad.

Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y diweddariad a'r camau parhaus.

### 3.2.6 Cynllun Gwella Llywodraethu Corfforaethol

Derbyniodd y Pwyllgor y cynllun gwella a thrafododd y cynnydd a'r blaenoriaethau.

Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y cynllun a'r monitro parhaus.

## 3.3 Opsiynau Uwchgyfeirio Ysbytai Cymunedol (Ward Gladstone)

Derbyniodd y Pwyllgor y papur yn amlinellu opsiynau ar gyfer gwelyau ychwanegol brys a thrafododd fforddiadwyedd, cynaliadwyedd ac aliniad â modelau gofal cymunedol ehangach.

Penderfyniad: Cytunodd y Pwyllgor na ddylid symud ymlaen ag Opsiwn 3 a chefnogodd waith pellach ar Opsiwn 1 fel rhan o gynllunio strategol ehangach.

## 3.4 Adolygiad Ansawdd Cyflym Gastroenteroleg

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar bryderon ansawdd sylweddol o fewn gwasanaethau gastroenteroleg a thrafododd yr angen am ymateb cydgysylltiedig ac arweinyddiaeth gryfach.

Penderfyniad: Cytunodd y Pwyllgor i ddynodi'r gwasanaeth fel un bregus a chefnogodd ddull seiliedig ar raglenni o adferiad.

### 3.5 Cynllunio Swyddi Uwch Feddygion

Derbyniodd y Pwyllgor y papur ar gynllunio swyddi a thrafododd bwysigrwydd cysondeb, fforddiadwyedd ac aliniad â pholisi cenedlaethol.

Penderfyniad: Cefnogodd y Pwyllgor y dull arfaethedig, yn amodol ar weithrediad rheoledig a chynllun manwl pellach.

### 3.6 Amseroedd Aros Ffisioleg Anadlol

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar amrywiad mewn amseroedd aros a thrafododd yr angen am well gwelededd, cydlynu ac aliniad gwasanaethau.

Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y diweddariad ac y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud trwy raglenni presennol.

### 3.7 Safonau Cyfathrebu Hygyrch a Iaith Arwyddion Prydain Cymru gyfan

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar ofynion statudol sy'n dod i'r amlwg a thrafododd yr angen am eglurder ar ganllawiau a gweithredu cenedlaethol.

Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y diweddariad a chytunodd y bydd gwaith pellach yn dilyn unwaith y bydd canllawiau cenedlaethol yn cael eu cyhoeddi.

### 3.8 Ymateb Rhagarweiniol Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol

Derbyniodd y Pwyllgor yr ymateb rhagarweiniol a thrafododd ansicrwydd cenedlaethol parhaus a threfniadau cyflawni lleol.

Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y diweddariad ac y bydd adroddiadau pellach yn dilyn wrth i ofynion cenedlaethol gael eu cadarnhau.

### 3.9 Asesiad o Anghenion Fferyllol Cymunedol

Derbyniodd y Pwyllgor y dull arfaethedig a thrafododd drefniadau llywodraethu ac amserlenni cyflawni.

Penderfyniad: Cymeradwyodd y Pwyllgor y dull a chytunodd y dylai fynd ymlaen.

### 3.10 Cronfeydd Elusennol

Derbyniodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ar lywodraethu cronfeydd elusennol a thrafododd gyfrifoldebau ymddiriedolwyr a chymhwyso cronfeydd.

Penderfyniad: Cymeradwyodd y Pwyllgor y Datganiad Ymddiriedaeth diwygiedig.

**4.0 Cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ebrill**

**4.1 Contractau a Chymeradwyaethau Cyfalaf**

*Mae eitemau yn cael eu hadrodd mewn papur preifat*

**4.2 Llywodraethiant a Risg**

**4.2.1 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd**

Derbyniodd y Pwyllgor y diweddariad a thrafododd aliniad â blaenoriaethau strategol.

Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y safbwynt a chymeradwyodd y dull arfaethedig o fapio camau gweithredu.

**4.2.2 Adroddiad Atebolrwydd Drafft 2025–26**

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a thrafododd y trefniadau i'w gwblhau.

Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a'r sicrwydd a ddarparwyd.

**4.2.3 Adroddiad Archwilio Mewnol – Diwylliant a Datblygu Arweinyddiaeth**

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad a thrafododd ganfyddiadau a chamau gwella.

Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a'r sicrwydd rhesymol.

**4.3 Gwaith amgylcheddol hanfodol ar Foelas i alluogi dychwelyd yn ddiogel**

Derbyniodd y Pwyllgor gynnig i ymgymryd â gwaith amgylcheddol a newidiadau gwasanaeth i alluogi dychweliad claf cymhleth ar frys a thrafododd y natur amser-hanfodol, diffyg darpariaeth amgen a gofynion cysylltiedig â'r gweithlu.

Penderfyniad: Cymeradwyodd y Pwyllgor y gwaith amgylcheddol, ail-gyflunio gwelyau a chodi staffio cysylltiedig, a chytunodd ar ddatblygu model tymor hwyr.

**4.4 Aliniad Sefydliad Nyrsys Cofrestredig – Graddedigion Medi 2026**

Derbyniodd y Pwyllgor y papur a thrafododd gynaliadwyedd y gweithlu, galw gweithredol a fforddiadwyedd.

Penderfyniad: Cefnogodd y Pwyllgor y dull arfaethedig, cymeradwyodd drosi galw dros dro mewn egwyddor a chymeradwyodd y defnydd o gronfeydd wrth gefn ar gyfer datrysiad cyfyngedig o amser.

**4.5 Adroddiadau Marwolaethau**

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariadau ar farwolaethau a thrafododd amrywiad ar draws gwasanaethau, prosesau dysgu a gofynion gwella.

Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor yr adroddiadau a'r datblygiad parhaus o brosesau adolygu marwolaethau.

### 4.6 Adroddiad Profiad ac Ymgysylltu â Dinasyddion

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad a thrafododd themâu allweddol gan gynnwys mynediad, pwysau system a hyder y cyhoedd.

Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a chytunodd ar fireinio ymhellach cyn cyflwyno i'r Bwrdd.

### 4.7 Adroddiad AAA y Grŵp Cynllunio Strategol a Newid Gwasanaethau

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad a nododd nad oedd unrhyw eitemau wedi'u uwchgyfeirio ar gyfer penderfyniad.

Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor yr adroddiad.

### 4.8 Fframwaith Sicrwydd Bwrdd

Derbyniodd y Pwyllgor y diweddariad a thrafododd aliniad â blaenoriaethau strategol.

Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y sefyllfa bresennol a chymeradwyodd y dull arfaethedig o fapio camau gweithredu.

### 4.9 Adroddiad Atebolrwydd Drafft 2025–26

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a thrafododd y trefniadau i'w gwblhau.

Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a'r sicrwydd a ddarparwyd.

### 4.10 Adroddiad Archwilio Mewnol – Diwylliant a Datblygu Arweinyddiaeth

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad a thrafododd ganfyddiadau a chamau gwella.

Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a'r sicrwydd rhesymol.

| ASESIAD / ASSESSMENT | |
|---|---|
| **Cyswllt â'r Blaenoriaethau Strategol**<br>**Link to Strategic Priorities** | 1. Building an effective organisation |
| | |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: |
| **Yr Egwyddorion Dylunio**<br>**Design Principles** | Simplify, Standardise, and Adopt Best Practices<br>Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: |
| **Fframwaith Risgiau Corfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd**<br>**Corporate Risks and Board Assurance Framework** | Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR)<br>Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks (cross reference to the BAF and CRR) |

| ASESIADAU O EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS | | |
|---|---|---|
| **Cydraddoldeb**<br>*A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (sy'n cynnwys gofynion Safonau'r Gymraeg)*<br>**Equality**<br>*Have you undertaken an Equality Impact Assessment Screening (which includes the requirements of the Welsh Language Standards)* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | *Not Applicable* |
| **Asesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol**<br>*A ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol?*<br>**Socio-Economic Impact Assessment**<br>*Have you undertaken a Socio-Economic Impact Assessment* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | *Not Applicable* |
| **Ansawdd**<br>*A ydych chi wedi ymgymryd â phrawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd?* | **Galluogwyr Ansawdd**<br>**Enablers of Quality**<br>All Apply | **Meysydd Ansawdd**<br>**Domains of Quality**<br>Choose an item. |

| | | |
|---|---|---|
| **Quality**<br>*Have you undertaken a Quality Impact Assessment Screening?* | | |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: |
| | | |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant**<br>**Wellbeing of Future Generations Act – Wellbeing Goals** | Choose an item. | |

| | | |
|---|---|---|
| **Effaith Amgylcheddol / Cynaliadwyedd (5Rs)**<br>**Environmental /Sustainability Impact (5Rs)** | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: | |
| | Choose an item. | |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny:<br>If more than one applies, please list: | |
| **Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog**<br>A ydych chi wedi ystyried Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog:<br>**Armed Forces Covenant Due Regard Duty**<br>Have you considered the Armed Forces Covenant Due Regard Duty? | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☐ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | |
| **Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data**<br>*A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data?*<br>**Data Protection Impact Assessment**<br>*Have you undertaken a Data Protection Impact Assessment Screening?* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☐ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | |

| | | |
|---|---|---|
| **Asesiad o Effaith ar Atal Twyll**<br>*A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau ar atal twyll?*<br>**Counter Fraud Impact Assessment**<br>*Have you considered the counter fraud impacts* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | *Not Applicable* |
| **Cyfreithiol**<br>**Legal** | There are no specific legal implications related to the activity outlined in this report. | |
| **Enw Da**<br>**Reputational** | There is no direct impact on the reputation of the Health Board as a result of the activity outlined in this report. | |
| **Effaith ar Adnoddau**<br>*(Pobl / Ariannol)*<br>**Resource Impact**<br>*(People / Financial)* | There is no direct impact on resources as a result of the activity outlined in this report. | |

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

## Bwrdd Iechyd

# ADRODDIAD SICRWYDD BLYNYDDOL Y LEFELAU STAFF NYRSIO MAI 2026

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod**<br>**Date of Meeting** | 28 May 2026 |
| **Statws Cyhoeddi**<br>**Publication Status** | Agored/ Cyhoeddus<br>Amherthnasol |
| **Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad**<br>**Report Author name and title** | Alison Griffiths, Cyfarwyddwr y Gweithlu Nyrsio, Staffio a Safonau Proffesiynol<br>Joanna Brown, Arweinydd y Rhaglen Staff Nyrsio |
| **Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol**<br>**Lead Executive Team Member name and title** | Angela Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth |

| | |
|---|---|
| **Pwrpas yr Adroddiad**<br>**Report Purpose** | I'w Gymeradwyo |

**Crynodeb Gweithredol**
**Executive Summary**

Mae'r papur hwn yn cyflwyno adroddiad sicrwydd blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ar gydymffurfiaeth â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2025/26 ar gyfer y cyfnod rhwng 6 Ebrill 2025 a 5 Ebrill 2026.

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd Iechyd mewn perthynas â dyletswydd statudol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) i gyfrifo a chymryd camau i gynnal lefelau staff nyrsio yn unol â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016.

Mae'r cyfrifiadau wedi cael eu gwneud yn unol â chanllawiau statudol a'u cymeradwyo gan y person dynodedig, y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, gan weithredu ar ran y Prif Swyddog Gweithredol.

Er bod y Bwrdd Iechyd wedi cydymffurfio â'r gofyniad statudol i gyfrifo lefelau staff nyrsio a chymryd camau rhesymol i'w cynnal, cyfyngir y sicrwydd a ddarperir drwy'r adroddiad hwn gan bwysau ariannol parhaus, staff heb eu hariannu a dibyniaeth barhaus ar gapasiti uwchgyfeirio, fel y nodir yn yr adroddiad sicrwydd blynyddol sydd ynghlwm.

Cynhyrchwyd yr atodiadau sydd ynghlwm gan Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan a rhaid eu defnyddio i lunio'r adroddiad sicrwydd blynyddol i sicrhau cysondeb yn y

| |
|---|
| wybodaeth gan bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru, gyda thestun gorfodol mewn llythrennau italig. |

| **Ymgysylltu (mewnol/allanol) a wnaed hyd yma (gan gynnwys derbyn/ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp)<br>Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)** | | |
|---|---|---|
| **Pwyllgor / Grŵp / Unigolion<br>Committee / Group / Individuals** | **Dyddiad<br>Date** | **Canlyniad, Tystiolaeth a Data<br>Outcome, Evidence and Data** |
| Pwyllgor Gweithredol | 06/05/2026 | Cefnogaeth |
| Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau | 07/05/2026 | Cefnogaeth |

# ADRODDIAD SICRWYDD BLYNYDDOL Y LEFELAU STAFF NYRSIO MAI 2026

## 1. Y SEFYLLFA SITUATION

1.1 Mae'r canllawiau statudol sy'n ategu Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn mynnu bod Byrddau Iechyd yn rhoi sicrwydd blynyddol i'r Bwrdd ynghylch lefelau staff nyrsio ym mhob ward sy'n dod o dan Adran 25B o'r Ddeddf.

1.2 Darperir y sicrwydd hwn drwy'r canlynol:

- Cyflwyniad blynyddol gan y person dynodedig sy'n nodi lefelau'r staff nyrsio a gyfrifwyd ar gyfer pob ward Adran 25B; ac
- Adroddiad sicrwydd blynyddol, wedi'i strwythuro i gefnogi'r cyflwyniad statudol bob tair blynedd i Lywodraeth Cymru.

1.3 Yn unol â'r gofynion hyn, mae cyfrifiadau staff nyrsio ddwywaith y flwyddyn yn cael eu gwneud yn y gwanwyn a'r hydref gan ddefnyddio'r fethodoleg driongli genedlaethol orfodol. Cyfrifiadau gwanwyn 2026 yw'r sail i'r sicrwydd a gyflwynir yn y papur hwn.

1.4 Felly, mae'r papur hwn yn cyflwyno adroddiad sicrwydd blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr 2025/26 ar gydymffurfiad â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) ar gyfer y cyfnod rhwng 6 Ebrill 2025 a 5 Ebrill 2026, er mwyn galluogi'r Bwrdd i gael sicrwydd ynghylch cydymffurfiaeth statudol a nodi'r risgiau sy'n cyfyngu ar sicrwydd llawn ar hyn o bryd.

1.5 Cyfrifwyd lefelau staff nyrsio ym mhob ward Adran 25B yn unol â chanllawiau statudol gan ddefnyddio'r fethodoleg triongli genedlaethol orfodol, a nododd a chymeradwyodd y person dynodedig y niferoedd gofynnol ar gyfer wardiau cleifion mewnol pediatrig, llawfeddygol a meddygol aciwt i oedolion.

## 2 Y CEFNDIR BACKGROUND

2.1 O dan Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, mae'n rhaid i berson dynodedig a awdurdodwyd i weithredu ar ran y Prif Swyddog Gweithredol gymeradwyo cyfrifiadau staff nyrsio. Yn y Byrddau Iechyd yng Nghymru, y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio sy'n cyflawni'r rôl hon.

2.2 Mae'r cyfrifiad cymeradwy yn sefydlu'r lefel staff nyrsio ar gyfer pob ward, a fynegir fel y nifer gofynnol i gefnogi rhestr staffio wedi'i chynllunio sy'n galluogi nyrsys i fodloni'r holl ofynion rhesymol o ran gofal cleifion. Disgwylir

i'r lefelau staffio hyn gael eu cynnal drwy ddyraniad refeniw'r Bwrdd Iechyd, gan ystyried costau cyflog gwirioneddol staff cyflogedig.

## 3 MATERION PENODOL I'W HYSTYRIED
## SPECIFIC MATTERS FOR CONSIDERATION

3.1 Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r canlynol, sy'n cefnogi amcan strategol y Bwrdd Iechyd i wella mynediad, canlyniadau a phrofiad a galluogi sicrwydd y Bwrdd:

- Cyfrifwyd lefelau staff nyrsio ar gyfer pob ward Adran 25B yn unol â gofynion statudol gan ddefnyddio'r fethodoleg triongli sy'n orfodol yn genedlaethol a chawsant eu cymeradwyo gan y person dynodedig.

- Y trefniadau llywodraethu presennol fydd yn parhau i oruchwylio'r gwaith o gynnal lefelau staff nyrsio cymeradwy, gan gynnwys uwchgyfeirio pan fydd newidiadau sylweddol yn digwydd o ran darparu gwasanaethau, aciwtedd neu ffurfweddiad wardiau.

## 4 RISGIAU ALLWEDDOL / MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO
## KEY RISKS / MATTERS FOR ESCALATION

4.1 Mae'r risgiau a amlinellir isod yn effeithio ar allu'r sefydliad i roi sicrwydd llawn ar gydymffurfiad statudol, cynaliadwyedd y gweithlu, a darpariaeth gofal diogel ac felly mae angen parhau â goruchwyliaeth y Bwrdd.

4.2 Gofynion Cyllido sy'n Weddill:
O dan y Ddeddf, rhaid i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau gymryd pob cam rhesymol i gynnal lefelau staff nyrsio, a ariennir drwy eu dyraniadau refeniw. Mae gan dair ward 25B ar draws BIPBC niferoedd staff nyrsio cymeradwy, ond nid yw'r codiadau cyfatebol yn y gyllideb sydd eu hangen i ddarparu'r niferoedd hyn wedi cael eu rhoi ar waith eto. Mae'r cam-alinio hwn rhwng lefelau staffio y cytunwyd arnynt ac adnoddau ariannol a ddyrannwyd yn peri risg sylweddol a pharhaus o ran cydymffurfio â'r Ddeddf.

O safbwynt llywodraethu, mae'r mater hwn yn cyfyngu ar allu'r sefydliad i roi sicrwydd llawn i'r Bwrdd ynghylch cydymffurfiaeth statudol, cynaliadwyedd y gweithlu, a darpariaeth gofal diogel ac effeithiol. Nes y caiff y codiadau gofynnol yn y gyllideb eu sicrhau, bydd y Bwrdd yn parhau i ysgwyddo mwy o risg weithredol, ariannol a rheoleiddiol, a bydd angen i brosesau rheoli risg a sicrwydd y sefydliad adlewyrchu hyn.

Mae'r niferoedd staff hyn nad ydynt yn cael eu hariannu yn cael eu lliniaru ar hyn o bryd drwy gyfuniad o staff dros dro a lleoli gweithredol. Nid yw'r sefyllfa hon yn gynaliadwy yn y tymor hir ac mae'n cynyddu'r risg ariannol a'r risg o ran y gweithlu.

4.3 Gwelyau Heb eu Hariannu a Gwelyau Uwchgyfeirio:
Mae pwysau parhaus ar draws y system yn parhau i olygu bod angen defnyddio capasiti uwchgyfeirio fel mater o drefn, ac ar gyfartaledd mae 157 o welyau neu drolïau heb eu hariannu yn cael eu defnyddio ar unrhyw adeg benodol. Er bod modd ymgorffori'r holl weithgarwch hwn o fewn y nifer staff presennol, mae angen staff ychwanegol i gynnal darpariaeth gofal diogel ar gyfer cyfran sylweddol ohonynt.

O safbwynt llywodraethu, mae'r ddibyniaeth barhaus ar ardaloedd uwchgyfeirio heb eu hariannu sydd â staff amrywiol yn peri risg sylweddol o ran cydymffurfiad y sefydliad â gofynion staffio nyrsys statudol, safonau ansawdd, a rheolaeth ariannol. Mae methu â staffio'r gwelyau hyn yn gyson mewn niferoedd staff cymeradwy yn cynyddu'r posibilrwydd o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, yn tanseilio gallu'r sefydliad i roi sicrwydd cadarn i'r Bwrdd, ac yn cyfrannu at bwysau ariannol rheolaidd.

Nes byddwn yn sefydlu dull cynaliadwy o reoli capasiti uwchgyfeirio sy'n cael ei ariannu, gan gynnwys eglurder ynghylch cyflenwad y gweithlu a sbardunau gweithredol, bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod â risg uwch o safbwynt weithredol, ansawdd a rheoleiddiol.

## 5 ARGYMHELLION RECOMMENDATIONS

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor/Cyfarfod/Grŵp:
The Board is asked to:

- Nodi'r risgiau a amlinellir yn yr adroddiad, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â niferoedd staff nyrsio heb eu hariannu a chapasiti uwchgyfeirio parhaus, a chytuno bod y rhain yn parhau i gael eu goruchwylio'n weithredol gan y Bwrdd drwy'r gofrestr risg gorfforaethol.
- Cymryd sicrwydd, yn seiliedig ar yr Adroddiad Sicrwydd Blynyddol a'r atodiadau cysylltiedig, bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cyflawni ei ddyletswydd statudol i gyfrifo lefelau staff nyrsio a chymryd camau rhesymol i'w cynnal ym mhob ward Adran 25B, gan gydnabod y cyfyngiadau presennol rhag cael sicrwydd llawn.
- Cefnogi'r camau gweithredu a'r argymhellion sydd yn yr adroddiad sicrwydd blynyddol, gan gynnwys y rhai sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â risgiau staffio, gweithredol ac ariannol a nodwyd.

| ASESIAD / ASSESSMENT | |
|---|---|
| **Cyswllt â'r Blaenoriaethau Strategol<br>Link to Strategic Priorities** | 3. Gwell Mynediad, Canlyniadau a Phrofiadau |
| | |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: |
| **Yr Egwyddorion Dylunio<br>Design Principles** | Cysondeb â Gwerthoedd y Sefydliad<br>Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below:<br>Gwario'n Ddoeth |
| **Fframwaith Risgiau Corfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd<br>Corporate Risks and Board Assurance Framework** | Mae sawl risg yn gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau gweithlu, ariannol a gweithredol sy'n gysylltiedig â diffyg staff, capasiti uwchgyfeirio heb ei ariannu, a'r angen am benderfyniadau amserol ar niferoedd y staff nyrsio. |

| ASESIADAU O EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS | | |
|---|---|---|
| **Deddf Cydraddoldeb 2010 Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus:<br>A yw BIPBC wedi darparu tystiolaeth o 'Sylw Dyledus' i gydymffurfio â thair rhan Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (Dyletswydd Gyffredinol):**<br>Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus [Html] LLYW.CYMRU | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | Amh |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Mae'r adroddiad yn ymwneud â phenderfyniadau mewnol ynghylch niferoedd y gweithlu. Nid yw'r adroddiad yn nodi unrhyw effaith ar grwpiau gwarchodedig, ac nid yw dyletswyddau cydraddoldeb cysylltiedig y sector cyhoeddus yn berthnasol (nid oes unrhyw effeithiau cysylltiedig ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig). |
| | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | Amh |

| | | |
|---|---|---|
| **Deddf Cydraddoldeb 2010 - Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol** *A yw BIPBC wedi darparu tystiolaeth o 'Sylw Dyledus' o ran cydymffurfio â'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol?* | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale: | Nid yw'r adroddiad yn cyflwyno penderfyniadau a fyddai'n cael effaith anghymesur ar unigolion neu gymunedau sy'n wynebu anfanteision economaidd-gymdeithasol. |
| *Ydych chi wedi llenwi Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb Integredig WP8a?* [*Templed WP8a*] | Canlyniad/Outcome: Do/Yes: | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | Amh |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale: | Mae'r adroddiad yn ymwneud â phenderfyniadau mewnol ynghylch niferoedd y gweithlu. Nid oes unrhyw effaith o ran cydraddoldeb. |
| **Deddf Hawliau Dynol** *A roddodd Wp8a sylw i bryderon sy'n ymwneud â Hawliau Dynol* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | Nid yw'r cynnig yn newid hawliau cleifion, hawliau gwasanaeth, preifatrwydd, rhyddid na llwybrau gofal. Mae hwn yn benderfyniad mewnol i niferoedd y gweithlu yn hytrach nag un sy'n effeithio ar hawliau unigolion. |
| **Cydymffurfio â gofynion o ran y Gymraeg?** *Ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith* | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale: | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | Amh |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale: | Nid yw'r newidiadau arfaethedig yn effeithio ar y gallu i ddarparu gwasanaethau clinigol dwyieithog, ar gyfathrebu â'r cyhoedd, nac ar fynediad at wybodaeth yn Gymraeg. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cydymffurfiad o ran rhoi "Sylw Dyledus" i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog**<br>*A roddodd WP8a sylw i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | Amh |
| | Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale: | Nid oes tystiolaeth bod niferoedd arfaethedig y gweithlu yn effeithio'n wahanol ar aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog o'u cymharu â defnyddwyr gwasanaethau eraill. Nid yw'r cynnig yn creu nac yn atal mynediad at wasanaethau sy'n effeithio'n benodol ar gyn-filwyr, staff presennol y lluoedd arfog, na'u teuluoedd. |
| **Ansawdd**<br>*A ydych chi wedi ymgymryd â phrawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd?*<br>**Quality**<br>*Have you undertaken a Quality Impact Assessment Screening?* | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | Amh |
| | **Galluogwyr Ansawdd Enablers of Quality**<br>Dewiswch eitem.<br><br>Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: | Mae'r adroddiad yn ymwneud â phenderfyniadau mewnol ynghylch niferoedd y gweithlu. Nid oes unrhyw effaith o ran cydraddoldeb. |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant**<br>**Wellbeing of Future Generations Act – Wellbeing Goals** | Ddim yn berthnasol | |
| **Effaith Amgylcheddol / Cynaliadwyedd (5Rs)**<br>**Environmental /Sustainability Impact (5Rs)** | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:<br>If more than one applies, please list below: | |
| | Na - Ddim yn berthnasol | |
| | Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny:<br>If more than one applies, please list: | |
| **Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data** | Do/Yes: ☐ | Naddo/No: ☒ |
| | Canlyniad/Outcome: | Ddim yn berthnasol |

<table>
<tr><td rowspan="1">A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data?<br>Data Protection Impact Assessment<br>Have you undertaken a Data Protection Impact Assessment Screening?</td><td>Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale:</td><td>Mae'r adroddiad yn ymwneud â phenderfyniadau mewnol ynghylch niferoedd y gweithlu. Nid oes unrhyw effaith o ran diogelu data.</td></tr>
<tr><td rowspan="3">Asesiad o'r Effaith ar Atal Twyll<br>A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau ar atal twyll?<br>Counter Fraud Impact<br>Have you considered the counter fraud impacts</td><td>Do/Yes: ☐</td><td>Naddo/No: ☒</td></tr>
<tr><td>Canlyniad/Outcome:</td><td>Amh</td></tr>
<tr><td>Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:<br>If no, please include rationale:</td><td>Mae'r adroddiad yn ymwneud â phenderfyniadau mewnol ynghylch niferoedd y gweithlu. Nid oes unrhyw effaith o ran atal twyll.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Cyfreithiol<br>Legal</td><td colspan="2">Do (Rhowch ragor o fanylion isod)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mae Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd statudol ar Fyrddau Iechyd i "ystyried pwysigrwydd darparu digon o nyrsys i roi amser i nyrsys ofalu am gleifion mewn modd sensitif" ac o fewn ardaloedd 25B i "gyfrifo a chymryd pob cam rhesymol i gynnal lefelau staff nyrsio".</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Enw Da<br>Reputational</td><td colspan="2">Do (Rhowch ragor o fanylion isod)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mae'n bosibl y bydd effaith ar enw da os bydd ansawdd, perfformiad ariannol neu ddarpariaeth weithredol yn dirywio o ganlyniad i'r risgiau staffio a chyllidebol sydd heb eu datrys a amlinellir yn yr adroddiad hwn. Os na fyddwch yn cynnal lefelau staffio diogel, yn enwedig mewn ardaloedd 25B, mae'n bosibl y bydd rheoleiddwyr, y cyhoedd a Llywodraeth Cymru yn craffu ar hynny.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Effaith ar Adnoddau<br>(Pobl / Ariannol)<br>Resource Impact<br>(People / Financial)</td><td colspan="2">Oes (Rhowch ragor o fanylion isod)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd costau premiwm asiantaethau'n parhau oni bai y rhoddir sylw i fylchau staffio, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â gwelyau uwchgyfeirio heb eu hariannu. Bydd craffu'n parhau os methir lleihau gwariant ar asiantaethau.</td></tr>
</table>

Staff Nyrsio
Nurse Staffing

<table>
<tr><th colspan="4">Adroddiad Sicrwydd Blynyddol ar gydymffurfio â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru): Adroddiad i'r Bwrdd/Pwyllgor Dirprwyedig</th></tr>
<tr><td>Ymddiriedolaeth / Bwrdd Iechyd</td><td colspan="3">Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr</td></tr>
<tr><td>Dyddiad cyflwyno'r adroddiad sicrwydd blynyddol i'r Bwrdd</td><td colspan="3">Cyfarfod Gweithredol 6 Mai 2026<br>Cyfarfod Pwyllgor y Bwrdd 28 Mai 2026<br><br>Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cyfeirio at y cyfnod rhwng 6 Ebrill 2025 a 5 Ebrill 2026 yn unig, ond mae'r adroddiad hwn yn rhan o'r adroddiad sicrwydd tair blynedd ar gyfer y cyfnod adrodd rhwng 6 Ebrill 2024 a 5 Ebrill 2027, a fydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2027.</td></tr>
<tr><td></td><td>Wardiau <u>meddygol</u> acíwt i gleifion mewnol sy'n oedolion</td><td>Wardiau llawfeddygol acíwt i gleifion mewnol sy'n oedolion</td><td>Wardiau cleifion mewnol paediatrig</td></tr>
<tr><td>Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, y nifer isaf ac uchaf o wardiau</td><td>Mae wardiau cleifion mewnol meddygol acíwt i oedolion wedi aros yr un fath/yn sefydlog yn ystod y cyfnod adrodd:<br><br>Cyfanswm y wardiau Meddygol = 25<br><br>Ysbyty Gwynedd 7<br>Ysbyty Glan Clwyd 9<br>Ysbyty Maelor Wrecsam 9</td><td>Mae wardiau cleifion mewnol llawfeddygol acíwt i oedolion wedi aros yr un fath/yn sefydlog yn ystod y cyfnod adrodd:<br><br>Cyfanswm y wardiau Llawfeddygol = 17<br><br>Ysbyty Gwynedd 5<br>Ysbyty Glan Clwyd 6<br>Ysbyty Maelor Wrecsam 6</td><td>Mae wardiau cleifion mewnol paediatrig wedi aros yr un fath/sefydlog yn ystod y cyfnod adrodd:<br><br>Cyfanswm y wardiau Paediatrig = 3<br>Ysbyty Gwynedd 1<br>Ysbyty Glan Clwyd 1<br>Ysbyty Maelor Wrecsam 1</td></tr>
<tr><td>Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, nifer yr achlysuron (wardiau lle mae adran 25B yn berthnasol) lle mae'r lefel staff nyrsio wedi cael ei hadolygu/hailgyfrifo y tu allan i'r cyfnodau cyfrifo ddwywaith y flwyddyn</td><td>Mae lefelau staffio wardiau cleifion meddygol aciwt mewnol i oedolion wedi cael eu hadolygu / ailgyfrifo chwe gwaith y tu allan i'r broses gyfrifo ddwywaith y flwyddyn:<br><br>Arweiniodd newidiadau cyllido rhwng mis Chwefror a mis Gorffennaf 2025 at amrywiad yn y sylfaen gwelyau a ariennir ar draws 3 ward ar safle Ysbyty Maelor Wrecsam (Pantomime, Tywysog Cymru a Morris), ac fe symudodd eu gwelyau uwchgyfeirio i mewn ac allan o</td><td>Mae lefelau staffio wardiau cleifion llawfeddygol aciwt mewnol i oedolion wedi cael eu hadolygu / ailgyfrifo ddwy waith y tu allan i'r broses gyfrifo ddwywaith y flwyddyn:<br><br>Arweiniodd newidiadau cyllido rhwng mis Chwefror a mis Gorffennaf 2025 at amrywiad yn y sylfaen gwelyau a ariennir ar draws 3 ward ar safle Ysbyty Maelor Wrecsam (Cyraeddiadau), ac fe symudodd eu gwelyau uwchgyfeirio i mewn ac allan o statws ariannu. Ym mis</td><td>Nid yw lefelau staffio wedi cael eu hadolygu / hailgyfrifo y tu allan i'r cyfnodau cyfrifo ddwywaith y flwyddyn.</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | statws ariannu. Ym mis Ionawr 2026, dyrannwyd cyllid yn barhaol o gronfeydd canolog y Bwrdd Iechyd, gan osod sylfaen gwelyau wedi'i hariannu'n llawn ar draws y 3 ward hyn. | Ionawr 2026, dyrannwyd cyllid yn barhaol o gronfeydd canolog y Bwrdd Iechyd, gan osod sylfaen gwelyau wedi'i hariannu'n llawn ar draws y ward hon. | |

| | |
|---|---|
| **Y broses a'r fethodoleg a ddefnyddir i gyfrifo'r lefel staff nyrsio.** | Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar wardiau y mae Adran 25B[1] o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) yn berthnasol iddynt yn BIPBC. Yn unol â gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, mae wardiau sy'n ymwneud ag Adran 25B yn destun adolygiadau ddwywaith y flwyddyn[2] er mwyn cyfrifo'n benodol beth yw'r lefelau staff nyrsio a gynlluniwyd. Mae'r naratif a nodir yn yr adroddiad sicrwydd blynyddol wedi ceisio dangos y rhesymeg dros unrhyw newidiadau i'r lefelau staff nyrsio, er enghraifft newidiadau i ganlyniadau ansawdd gofal, newid parhaus ym mhatrwm aciwtedd cleifion a gweithgarwch wardiau, neu newidiadau i'r sylfaen gwelyau a ariennir.<br><br>Yn unol â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, bydd cyfrifiadau staff nyrsio yn cael eu cymeradwyo gan berson dynodedig[3] sydd wedi cael ei awdurdodi i gyfrifo ar ran y Prif Swyddog Gweithredol. Dylai'r person dynodedig fod wedi cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a bod â dealltwriaeth o gymhlethdodau pennu lefel staff nyrsio yn yr amgylchedd clinigol. O fewn byrddau iechyd Cymru, gan gynnwys BIPBC, y person dynodedig yw'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio.<br><br>Yn unol â'r Canllawiau Statudol[4], rhaid i'r cyfrifiad a wneir gan y person dynodedig arwain at y lefel staff nyrsio ar gyfer ardal y ward. Y lefel staff nyrsio fydd y niferoedd gofynnol h.y. cyfanswm nifer y staff i ddarparu digon o adnoddau i roi rhestr ddyletswyddau wedi'i chynllunio ar waith, a fydd yn galluogi nyrsys i ddarparu gofal i gleifion sy'n bodloni'r holl ofynion rhesymol yn y sefyllfa berthnasol. Dylid ariannu'r gwaith o gynnal y lefel staff nyrsio o ddyraniad refeniw'r bwrdd iechyd, gan ystyried pwyntiau cyflog gwirioneddol y staff a gyflogir ar ei wardiau. |

[1] Mae adran 25B o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn berthnasol i wardiau meddygol acíwt i gleifion mewnol sy'n oedolion; wardiau llawfeddygol acíwt i gleifion mewnol sy'n oedolion; ac wardiau cleifion mewnol paediatrig. Ymhlith yr ardaloedd sydd wedi'u heithrio o'r diffiniad o wardiau Adran 25B mae adrannau cleifion allanol, pyrth derbyn/unedau asesu, unedau gofal critigol/dibyniaeth fawr, ardaloedd achosion dydd, ardaloedd adferiad, theatrau, unedau triniaethol, unedau gofal coronaidd. Mae'r meysydd hyn fel arfer yn cael adolygiad staff nyrsio blynyddol (o leiaf) i sicrhau bod digon o nyrsys i ddarparu gofal amserol a sensitif i gleifion.

[2] Mae cyfrifiadau statudol o lefelau staff nyrsio ar draws wardiau sy'n ymwneud ag Adran 25B yn digwydd rhwng mis Mawrth/Ebrill (adroddiad i'r Bwrdd ym mis Mai) a mis Awst/Medi (adroddiad i'r Bwrdd ym mis Tachwedd).

[3] Rhaid i'r person dynodedig weithredu o fewn fframwaith llywodraethu'r bwrdd iechyd sy'n awdurdodi'r person hwnnw i gyfrifo staff nyrsio ar ran Prif Swyddog Gweithredol y bwrdd iechyd. O ystyried y gofyniad i arfer barn nyrsio broffesiynol, dylai'r person dynodedig fod wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a bod â dealltwriaeth o gymhlethdodau pennu lefel staff Nyrsio yn yr amgylchedd clinigol, fel y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth.

[4] Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016: canllawiau statudol

| | **Y fethodoleg a ddefnyddir i gyfrifo'r lefel staff nyrsio:**<br><br>Mae Adran 25C o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn disgrifio'r dull trionglog o gyfrifo y mae'n rhaid ei ddefnyddio wrth wneud y cyfrifiadau / adolygiadau lefel staff nyrsio. Mae'r fethodoleg drionglog yn cynnwys casglu, adolygu a dehongli data sy'n ymwneud ag Aciwtedd Cleifion, Dangosyddion Ansawdd Gofal, a Barn Broffesiynol.<br><br>Caiff data Aciwtedd Cleifion ei fesur gan ddefnyddio adnodd cynllunio'r gweithlu ar sail tystiolaeth Lefelau Gofal Cymru[5]. Mae'r mesur hwn o lefelau aciwtedd cleifion yn dangos faint o ofal sydd ei angen er mwyn pennu'r lefel staff nyrsio sy'n ofynnol i fodloni gofynion gofal rhesymol. Yn BIPBC, mae system RL Datix Saf eCare[6] yn casglu data aciwtedd fesul shifft. Fodd bynnag, ledled Cymru, ym mhob ward lle mae adran 25B o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn berthnasol, cynhelir archwiliadau aciwtedd ffurfiol bob 6 mis (Ionawr a Mehefin). I gefnogi'r archwiliadau aciwtedd, mae dangosfwrdd misol[7] wedi cael ei ddatblygu sy'n darparu gwybodaeth am aciwtedd cleifion, llif cleifion a lefelau staff nyrsio.<br><br>Mae Dangosyddion Ansawdd Gofal yn fesurau sy'n arbennig o sensitif i ofal a ddarperir gan nyrs yn unig a rhaid eu hystyried yn ystod y broses gyfrifo. Dyma sut y nodir dangosyddion ansawdd y dangoswyd bod ganddynt gysylltiad â lefelau staff nyrsio isel:<br><br>• Cleifion yn cael codwm – unrhyw godwm y mae claf wedi'i gael ar y ward;<br>• Briwiau pwyso – cyfanswm nifer y briwiau pwyso y mae claf yn eu cael yn yr ysbyty ac yr ystyrir eu bod wedi datblygu neu waethygu tra roedd y claf ar y ward;<br>• Camgymeriadau â meddyginiaethau – unrhyw gamgymeriad wrth baratoi, rhoi neu hepgor meddyginiaeth gan staff nyrsio<br>• Cwynion – yn gyfan gwbl neu'n rhannol am ofal a ddarperir i gleifion gan nyrsys, ac a wneir yn unol â'r rheoliadau cwynion.<br><br>Mae wardiau cleifion mewnol paediatrig hefyd yn cynnwys anafiadau ymdreiddio/elifiad fel rhan o'u mesuriadau dangosydd ansawdd gofal.<br><br>Yn ogystal â'r dangosyddion a nodir uchod, gellir ystyried dangosyddion ansawdd eraill sy'n sensitif i'r lefel staff nyrsio. Gall enghreifftiau gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain, brofiad cleifion, anghenion gofal heb eu diwallu, methiant i |

[5]Mae Lefelau Gofal Cymru yn cynnwys pum lefel o aciwtedd; o Lefel 5 lle mae'r claf yn ansefydlog iawn ac mewn perygl, a bod angen lefel ddwys o ofal nyrsio parhaus ar sail 1:1 arno, i Lefel 1 lle mae'r claf mewn cyflwr sefydlog a rhagweladwy, a bod angen gofal nyrsio arferol arno.

[6] Mae RL Datix SafeCare yn system feddalwedd ar gyfer staffio dyddiol sy'n dangos lefelau staff nyrsio ac aciwtedd cleifion mewn amser real, sy'n golygu bod modd gwneud penderfyniadau gwybodus ar lefelau staffio ar draws safle ysbyty. Mae'n galluogi staff i fod yn weladwy er mwyn cefnogi'r defnydd o adnoddau yn ogystal â chofnodi fflagiau coch a rhesymau barn broffesiynol a chamau lliniaru a gymerwyd.

[7] Adroddiad aciwtedd - Power BI Report Server

| | |
|---|---|
| | ymateb i ddirywiad cleifion, profiad a llesiant staff a chydymffurfio â hyfforddiant gorfodol ac adolygiadau datblygu perfformiad.<br><br>Ystyr barn broffesiynol yw defnyddio gwybodaeth, sgiliau a phrofiad nyrsio er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch cyfrifiadau lefel staff nyrsio. Bydd barn broffesiynol yn ystyried cymwysterau, cymwyseddau, sgiliau, profiad, datblygiad proffesiynol a gofynion hyfforddiant gorfodol y nyrsys sy'n darparu gofal i gleifion ar y ward. Bydd hefyd yn ystyried y defnydd o staff dros dro, cyflyrau a allai effeithio ar ddarpariaeth gofal, cymorth i fyfyrwyr a dysgwyr, cynllun y ward, trosiant cleifion a'r defnydd cyffredinol o welyau, cymhlethdod anghenion cleifion yn ogystal â'u hanghenion nyrsio meddygol neu lawfeddygol ac iechyd a llesiant staff.<br><br>Yn ystod y broses o gyfrifo'r lefelau staff nyrsio gan ddefnyddio'r dull trionglog, nid oes hierarchaeth wedi'i phennu ymlaen llaw o ran y dystiolaeth, gyda'r un pwysoliad yn cael ei roi i'r holl wybodaeth sy'n sail i'r broses hon. Y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth, fel y person dynodedig, fydd yn pennu'r lefelau staff nyrsio ar sail dadansoddiad o'r holl wybodaeth a gesglir am y ward a chyfraniadau'r staff sy'n rhan o'r broses.<br><br>Yn unol â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, ac ar ôl ystyried y ffactorau hyn, mae cynnydd o 26.9% yn cael ei gymhwyso i niferoedd nyrsys cofrestredig (RN) a gweithwyr cymorth gofal iechyd (HCSW) i gyflenwi pan fo staff yn absennol[8]. Yn unol â gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, mae pob Rheolwr Ward Band 7 yn ychwanegol ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn y ffigurau sefydlu gofynnol.<br><br>**<u>Y broses a ddefnyddir i gyfrifo'r lefel staff nyrsio:</u>**<br><br>Mae 3 cham ym mhroses BIPBC o gyfrifo lefelau staff nyrsio:<br><br>**Cam 1: Adolygiad Cychwynnol**<br>Mae'r broses adolygu yn dechrau ar lefel ward gyda Rheolwr y Ward yn cyflwyno data aciwtedd y ward, dangosyddion ansawdd gofal, a barn broffesiynol. Mae pob ward yn llenwi'r profforma cyfrifo staff nyrsio dynodedig i ddangos tystiolaeth o'r broses adolygu a'r defnydd o'r fethodoleg drionglog a ddisgrifir uchod. Mae hyn hefyd yn sicrhau dull cyson a thryloyw o wneud cyfrifiadau am lefel staff nyrsio. Cyflwynir hyn ar lefel safle, er mwyn ei adolygu, ei drafod a'i herio'n gefnogol.<br><br>Y Cyfarwyddwr Cymuned Iechyd Integredig / Cyfarwyddwr Nyrsio sy'n arwain yr adolygiad safle i gyfrifo lefelau staff Nyrsio ar y cyd â'r Penaethiaid Nyrsio, Metronau, Rheolwyr Ward, a chydweithwyr o'r adran gyllid. Mae'r adolygiad yn seiliedig ar wybodaeth ansoddol a meintiol sy'n cynnwys gwybodaeth a data a gasglwyd gan ddefnyddio'r fethodoleg drionglog sy'n ymwneud ag Aciwtedd Cleifion, Dangosyddion Ansawdd Gofal, a Barn Broffesiynol. |

[8] Mae'r 26.9% yn cwmpasu absenoldebau sy'n ymwneud â gwyliau blynyddol, salwch ac absenoldeb astudio ond nid yw'n cynnwys absenoldeb mamolaeth.

| | |
|---|---|
| | Mae'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd yn yr adolygiad cychwynnol yn cynnwys y canlynol, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt:<br>• Nifer y gwelyau ac arbenigedd ar y ward ar hyn o bryd, gan gynnwys triniaethau penodol.<br>• Amgylchedd, cynllun a safle daearyddol y ward<br>• Manylion newidiadau i wasanaethau a llwybrau cleifion<br>• Mentrau, rhaglenni gwella neu gynlluniau gweithredu ar wardiau<br>• Y ddarpariaeth bresennol o staff nyrsio, gan gynnwys y rhai nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr staffio graidd (rheolwr ward goruchwyliol, gweithwyr bregusrwydd/adferiad, gweithwyr cymorth dementia, gweinyddwyr wardiau ac ati).<br>• Data metrig sy'n ymwneud â'r Gweithlu/Staffio, h.y. niferoedd gwirioneddol a'r niferoedd y cyllidebwyd ar eu cyfer, cydymffurfio ag Adolygiad Perfformiad a Datblygiad (PADR), cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol, salwch, absenoldeb mamolaeth.<br>• Data sy'n ymwneud â llif/gweithgarwch cleifion ar gyfer y 12 mis blaenorol.<br>• Data sy'n ymwneud â chyllid h.y. cyflogau/gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau/defnyddio staff parhaol/dros dro.<br><br>**Cam 2: Adolygiad o'r Bwrdd Iechyd Cyfan**<br>Cynhelir adolygiad o'r bwrdd iechyd cyfan (aml-safle, penodol i wasanaeth/arbenigedd), dan arweiniad y Cyfarwyddwr Nyrsio ar gyfer y Gweithlu, Staffio a Safonau Proffesiynol, gan ystyried canllawiau cenedlaethol a thystiolaeth o'r arferion gorau, er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson ar draws y bwrdd iechyd. Mae'r adolygiad yn cynnwys rhannu arferion da a gwersi a ddysgwyd a sicrwydd o gydymffurfio â gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, sef bod rhaid i bob model gweithlu gynnwys cynnydd o 26.9%, a bod Rheolwr Ward Band 7 ychwanegol wedi'i gyfrifo yn y cynllun gweithlu cyffredinol ar gyfer pob ward. Mae heriau a thrafodaethau cefnogol yn cael eu cynnal rhwng yr uwch dîm arwain nyrsys[9], a chydweithwyr o'r gweithlu a chyllid i sicrhau bod y fethodoleg drionglog yn cael ei rhoi ar waith yn ddilys ac yn gywir.<br><br>**Cam 3: Cyflwyno Lefelau Staff Nyrsio yn Ffurfiol i Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth**<br>Bydd pob Cyfarwyddwr Nyrsio Cymuned Iechyd Integredig / Cyfarwyddwr Cyswllt Nyrsio yn cyflwyno eu lefelau staff nyrsio arfaethedig yn ffurfiol i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth fel y person dynodedig a gadarnhawyd. Mae Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Pobl a Datblygu Sefydliadol; a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid (neu eu dirprwyon enwebedig) hefyd yn cael eu gwahodd i'r cyflwyniadau ffurfiol. Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cytuno ar gymeradwyaeth derfynol i'r Lefelau Staff Nyrsio fel y person dynodedig a gadarnhawyd ac, ar ôl eu cymeradwyo, mae'r rhain yn cael eu cyflwyno'n ffurfiol i'r Bwrdd.<br><br>• Cynhaliwyd cyflwyniad gwanwyn 25 ar 3 Ebrill 2025 a chyflwynwyd y canlyniad i'r Bwrdd ar 29 Mai 2025[10]. |

[9] Cyfarwyddwr Nyrsio ar gyfer y Gweithlu, Staffio a Safonau Proffesiynol, Cyfarwyddwr Nyrsio Cymuned Iechyd Integredig / Cyfarwyddwr Cyswllt Nyrsio a Phenaethiaid Nyrsio

[10] [Bwndel Agendau Cyfarfodydd Bwrdd BIPBC 290525]

| | |
|---|---|
| | • Cynhaliwyd cyflwyniad hydref 25 ar 15 Hydref 2025 a chyflwynwyd y canlyniad i'r Bwrdd ar 27 Tachwedd 2025[11].<br>• Cynhaliwyd cyflwyniad gwanwyn 26 ar 23 Mawrth 2026 a chyflwynir y canlyniad yn atodiad 3.<br><br>Mae rhestr isod o'r diwygiadau a wnaed yn ystod cyfnod adolygu gwanwyn 2026:<br><br>• Staff Ward Cyraeddiadau YMW wedi cynyddu 8.53 RN WTE ac 8.53 HCSW WTE<br>• Staff Ward Morris YMW wedi cynyddu 2.84 RN WTE a 2.84 HCSW WTE<br>• Staff Ward Pantomeim YMW wedi cynyddu 5.69 RN WTE a 4.27 HCSW WTE<br>• Staff Ward Tywysog Cymru YMW wedi cynyddu 5.69 RN WTE a 5.69 HCSW WTE<br>• Gwelwyd gostyngiad o 2.84 RN WTE yn staff ward Moelwyn YG<br><br>Mae'r diwygiadau staffio ar draws wardiau Cyraeddiadau, Pantomeim a Thywysog Cymru wedi'u hariannu'n llawn, ac mae 2.84 o Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd cyfwerth ag amser llawn yn dal heb eu cwblhau ar gyfer ward Morris. Er bod diwygiadau i ward Moelwyn wedi lleihau'r gofyniad staffio nyrsys cofrestredig, mae'r cynnydd cynharach heb ei ariannu yn hydref 2024 yn golygu nad oes newid yn y gyllideb o ganlyniad i hynny. |
| **Rhoi Gwybodaeth i Gleifion** | Yn unol â gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, mae hysbysfyrddau wrth y fynedfa i bob un o'r wardiau yn dangos y lefelau staff nyrsio sydd wedi'u cynllunio ar y wardiau a'r dyddiad y cafodd y rhain eu cyflwyno i'r Bwrdd. Defnyddir templedi dwyieithog "Unwaith i Gymru" y cytunwyd arnynt yn genedlaethol i ddangos y lefelau staffio sydd wedi'u cynllunio, ac mae gwybodaeth atodol ar gael drwy boster sy'n egluro pwrpas y Ddeddf a thaflen Cwestiynau Cyffredin (sydd ar gael yn ddwyieithog mewn fersiynau safonol a hawdd eu deall) i ateb unrhyw gwestiynau manylach sydd gan glaf neu ymwelydd am y Ddeddf. Mae staff y ward yn ymwybodol o Safonau'r Gymraeg a gwasanaethau cyfieithu, ac yn ymdrechu i'w cynnal, er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael y cyfle i gyfathrebu yn eu dewis iaith.<br><br>Mae Rheolwyr Wardiau ac Uwch Reolwyr Nyrsio yn cael canllawiau ynghylch eu dyletswyddau i roi gwybodaeth i gleifion dan Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 cyn pob adolygiad ddwywaith y flwyddyn, a gofynnir am sicrwydd drwy'r profforma cyfrifo staff nyrsio fod y dyletswyddau hyn yn cael eu cyflawni.<br><br>Bydd y metrigau Rheolwr Ward ac Achredu ar eu newydd wedd, sydd i fod i gael eu lansio ym mis Mai 2026 yn cynnwys adran yn y Safonau 'Dan Arweiniad Da' i gadarnhau bod y byrddau staffio yn gyfredol ac yn bodloni gofynion y Ddeddf.<br><br>Bydd Arweinydd y Rhaglen Staff Nyrsio yn cynnal archwiliadau ffurfiol ar wardiau bob blwyddyn. Bydd y canlyniadau'n cael eu rhannu â'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth, y Cyfarwyddwyr Nyrsio, Cyfarwyddwyr Cyswllt Nyrsio a'r Penaethiaid Nyrsio. |

[11] Bwndel Agendau Cyfarfodydd Bwrdd BIPBC 271125

| | |
|---|---|
| | Mae gwaith wedi'i wneud ar lefel genedlaethol i ddatblygu ateb pragmatig i'r wybodaeth sydd ar gael i gleifion, gyda'r templed lefelau staffio arfaethedig wedi'i ddiweddaru i gynnwys cod QR. Bydd cleifion ac ymwelwyr â'r ward yn gallu sganio'r cod QR hwn ar unrhyw ffôn clyfar a chael eu cyfeirio at y dogfennau gwybodaeth cenedlaethol i gleifion, sydd ar gael yn Gymraeg; Saesneg a fersiynau hawdd eu deall. Bydd y templedi newydd yn cael eu cyflwyno ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ystod 2026. |

**Adran 25E (2a) I ba raddau y mae lefel y staff nyrsio wedi cael ei chynnal**

Gan fod lefel y staff nyrsio yn cael ei diffinio dan Ddeddf 2016 fel un sy'n cynnwys y rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd ynghyd â'r lefelau staffio gofynnol, dylai'r adran hon roi sicrwydd ynghylch i ba raddau y mae'r rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd wedi'i chynnal a sut mae'r lefelau staffio gofynnol ar gyfer wardiau Adran 25B wedi'u cyflawni/cynnal yn ystod cyfnod yr adroddiad blynyddol hwn.

| **I ba raddau y mae'r niferodd gofynnol wedi cael eu cynnal mewn <u>wardiau cleifion meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion</u>**<br><br>Sylwch: Cylch cyntaf: gwanwyn 2025 yn dilyn archwiliad mis Ionawr<br>Ail gylch: hydref 2025: yn dilyn archwiliad mis Mehefin | | **6 Ebrill 2025 – 5 Ebrill 2026** | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Nifer y Wardiau:** | **RN (WTE)** | **HCSW (WTE)** |
| | **Nifer y staff gofynnol (WTE) ar wardiau cleifion meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion a gyfrifwyd yn ystod y cylch cyntaf (Mai)** | **42** | **851.66** | **769.89** |
| | **Nifer y staff gofynnol WTE ar wardiau cleifion meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion a ariannwyd yn dilyn y cylch cyfrifo cyntaf (Mai)** | **42** | **842.71** | **758.41** |
| | **Nifer y staff gofynnol (WTE) ar wardiau cleifion meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion a gyfrifwyd yn ystod yr ail gyfrifiad (Tach)** | **42** | **828.91** | **747.14** |
| | **Nifer y staff gofynnol WTE ar wardiau cleifion meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion a ariannwyd yn dilyn yr ail gylch cyfrifo (Tach)** | **42** | **826.75** | **742.88** |
| | **Prif nyrs/nyrs â gofal Band 7 Ychwanegol WTE (wedi'i hariannu ond wedi'i heithrio o'r rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd)** | **WTE: 42** | | |
| | **Naratif cysylltiedig:**<br><br>*Yn unol â gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 a'i Chanllawiau Statudol cysylltiedig, y 'lefel staff nyrsio' yw nifer y nyrsys cofrestredig – a staff eraill y mae dyletswyddau nyrsio wedi'u dirprwyo iddynt gan nyrs gofrestredig – sy'n ofynnol i gyflawni'r rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd. Cydnabyddir bod amrywiaeth o weithwyr gofal iechyd proffesiynol ychwanegol yn cyfrannu at ddarparu a chydlynu gofal a thriniaeth cleifion. Fodd bynnag, nid yw'r staff hyn wedi'u cynnwys yn y data ar gyfer yr adroddiad hwn.* | | | |

| | |
|---|---|
| | Yn ystod y cyfnod adrodd rhwng gwanwyn 2025 a hydref 2025, nid yw 38 ward wedi gweld **dim** newidiadau i'w nifer gofynnol, mae 4 ward wedi bod angen newid i'w niferoedd gofynnol. O'r wardiau oedd angen newid niferoedd, yr un pedair ward oedd angen newidiadau yng ngwanwyn 2025, (gyda'r rhain yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd ym mis Mai 2025[10]) ac yn hydref 2024 (gyda'r rhain yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd yn Nhachwedd 2024[11]). Mae manylion y 5 ward y mae angen eu newid yn dilyn adolygiadau gwanwyn 2026 wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn o'r blaen.<br><br>Mae manylion wardiau unigol a lefelau staff nyrsio a gyfrifwyd ar gael yn atodiadau'r adroddiad sicrwydd blynyddol. Mae'r naratif a nodir yn atodiadau'r adroddiad sicrwydd blynyddol yn dangos y rhesymeg dros unrhyw newidiadau i'r lefelau staff nyrsio. Bydd lefelau staff nyrsio a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Tachwedd 202 yn cael eu hystyried yng nghylch cynllunio ariannol 2026/27. Fodd bynnag, er mwyn lliniaru'r risgiau, mae pob ward Adran 25B wedi gallu recriwtio a staffio yn unol â'r ffigurau gofynnol a gyfrifwyd, gan ddefnyddio staff dros dro yn ôl yr angen i gyrraedd y lefelau hyn.<br><br>Yn dilyn y cynnydd i'r cyllidebau ym mis Ebrill 2025, y diffyg cyllidebol sy'n weddill yn dilyn adolygiadau gwanwyn 2026 yw 7.1 HCSW WTE. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:<br><br>• 4.26 HCSW WTE o adolygiadau hydref 2024, a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2024, mis Mai 2025 a mis Tachwedd 2025.<br>• 2.84 JCSW WTE o adolygiadau gwanwyn 2026.<br><br>Mae'r adolygiadau staff nyrsio yn dal i nodi'r defnydd arferol o welyau uwchgyfeirio mewn ymateb i bwysau ar y system. Er nad yw data'r sefydliad Adran 25B yn cynnwys gofynion staffio sy'n gysylltiedig â gwelyau uwchgyfeirio, mae'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu drwy'r broses o adolygu staff nyrsio ac yn cael ei hystyried drwy gynllunio'r Gymuned Iechyd Integredig a blaenoriaethu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig.<br><br>Mae aciwtedd cleifion wedi parhau'n uchel ar draws yr holl feysydd cleifion mewnol. Mae'r bwrdd iechyd yn dangos tuedd tuag at lai o gleifion Lefel 1 a Lefel 2, a chynnydd o ran cleifion Lefel 3 a Lefel 4 ar ein wardiau meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion. Mae data aciwtedd ar gyfer wardiau sy'n ymwneud ag Adran 25B yn ystod mis Mehefin 2025 yn dangos bod 74% o gleifion yr oedd angen gofal arnynt yn rhai ar Lefel 3 a 4, ar gyfartaledd, gydag 10% o gleifion angen gofal Lefel 5.<br><br><u>Datblygiadau a phrosesau ar gyfer cyflawni'r lefelau staffio gofynnol ar draws pob ward Adran 25B (oedolion a phediatrig):</u><br><br>Fel bwrdd iechyd, mae gwaith sylfaenol wedi cael ei gyflawni i sicrhau cynlluniau ar gyfer cynnal lefelau staff Nyrsio a chydymffurfiad â Deddf 2016 hyd yma, ac mae'n parhau. Mae datblygiad parhaus wrth i fwy o wybodaeth, dadansoddi a dealltwriaeth gael eu meithrin yn lleol ac yn genedlaethol. Mae'r bwrdd iechyd yn cymryd amrywiaeth o gamau tymor byr a thymor hir i wella i ba raddau y mae gweithlu digonol ar gael i weithio o fewn y nifer ofynnol o nyrsys cofrestredig (RN) a |

gweithwyr cymorth gofal iechyd (HCSW) ar draws pob lleoliad iechyd. Dyma rai o'r mentrau i recriwtio a chadw staff nyrsio a bydwreigiaeth:

- Gweithredu NU53 - Cyfrifo a Chynnal Lefelau Staff Nyrsio SOP, gan sicrhau bod yr holl feysydd gofal cleifion yn cael eu cynnwys mewn adolygiadau sefydliadol a bod staffio'n cyd-fynd yn raddol ag aciwtedd a galw cleifion
- Adolygiadau chwarterol optimeiddio'r gweithlu nyrsio sy'n canolbwyntio ar sefydliadau, swyddi gwag, cydymffurfio a rhestrau staff, recriwtio a defnydd o staff dros dro
- Prosesau blynyddol cynllunio'r gweithlu sy'n sail i gomisiynu addysg nyrsio
- Cynnydd yn nifer y sefydliadau Band 6 i gryfhau uwch arweinyddiaeth glinigol a chymorth y tu allan i oriau
- Integreiddio rolau ychwanegol i gefnogi'r staff nyrsio, er enghraifft Ymarferwyr Cynorthwyol (Band 4) a Swyddogion Olrhain Cynnydd (Band 3)
- Datblygu piblinellau "tyfu ein gweithlu ein hunain" drwy lwybrau Baglor mewn Nyrsio Rhan-amser a thrwy'r Brifysgol Agored
- Parhau i fuddsoddi mewn addysg a datblygu staff ar bob lefel, rhai enghreifftiau yw'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau gweithwyr cymorth gofal iechyd sy'n galluogi symud ymlaen i'r Dystysgrif Lefel 4 mewn Ymarfer Gofal Iechyd; rhaglen Cyswllt Gofal Iechyd y Coleg Nyrsio Brenhinol i gefnogi unigolion i gael profiad cyn gwneud cais i astudio gradd nyrsio; a datblygu staff ôl-raddedig ar y cyd â phrifysgolion lleol drwy Fodiwlau Sgiliau Clinigol a rhaglenni Datblygiad Proffesiynol Parhaus
- Mae penodi staff sydd newydd raddio drwy'r broses symleiddio yn parhau i fod yn llwyddiant.

**I ba raddau y mae'r lefelau staffio gofynnol wedi'u cynnal ar wardiau cleifion mewnol paediatrig**

Sylwch: Cylch cyntaf: gwanwyn 2025 yn dilyn archwiliad mis Ionawr
Ail gylch: hydref 2025: yn dilyn archwiliad mis Mehefin

| | **6 Ebrill 2025 – 5 Ebrill 2026** | | |
|---|---|---|---|
| | **Nifer y Wardiau:** | **RN (WTE)** | **HCSW (WTE)** |
| **Lefelau staffio gofynnol (WTE) wardiau cleifion mewnol paediatrig a gyfrifwyd yn ystod y cylch cyntaf (Mai)** | **3** | **85.29** | **28.43** |
| **Lefelau staffio gofynnol WTE wardiau cleifion mewnol paediatrig a ariannwyd yn dilyn y cylch cyfrifo cyntaf (Mai)** | **3** | **83.46** | **30.95** |
| **Lefelau staffio gofynnol (WTE) wardiau cleifion mewnol paediatrig a gyfrifwyd yn ystod yr ail gylch cyfrifo (Tach)** | **3** | **85.29** | **28.43** |
| **Lefelau staffio gofynnol (WTE) wardiau cleifion mewnol paediatrig a ariannwyd yn dilyn yr ail gylch cyfrifo (Tach)** | **3** | **85.29** | **28.43** |
| **Prif nyrs/nyrs â gofal Band 7 Ychwanegol WTE (wedi'i hariannu ond wedi'i heithrio o'r rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd)** | **WTE: 3** | | |

**Naratif cysylltiedig:**

*Yn unol â gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 a'i Chanllawiau Statudol cysylltiedig, y 'lefel staff nyrsio' yw nifer y nyrsys cofrestredig – a staff eraill y mae dyletswyddau nyrsio wedi'u dirprwyo iddynt gan nyrs gofrestredig – sy'n ofynnol i gyflawni'r rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd. Cydnabyddir bod amrywiaeth o weithwyr gofal iechyd proffesiynol ychwanegol yn cyfrannu at ddarparu a chydlynu gofal a thriniaeth cleifion. Fodd bynnag, nid yw'r staff hyn wedi'u cynnwys yn y data ar gyfer yr adroddiad hwn.*

Nid yw nifer y wardiau Adran 25B ym maes paediatreg wedi newid yn ystod y cyfnod adrodd ac ni wnaed unrhyw newidiadau i'r lefelau staffio gofynnol. Mae manylion wardiau unigol a lefelau staff nyrsio a gyfrifwyd ar gael yn atodiadau'r adroddiad sicrwydd blynyddol.

Mae data aciwtedd ar gyfer y wardiau cleifion mewnol paediatrig yn ystod y cyfnod adrodd ym mis Mehefin 2025 yn dangos mai ychydig iawn o gleifion sydd ar lefel 1 ar y wardiau paediatrig, gyda'r rhan fwyaf o gleifion ar lefelau 2 a 3. Nid oedd dim diwrnodau heb rai cleifion ar lefel 4 neu 5 ar draws yr unedau. Mae trosiant y wardiau paediatrig yn uchel iawn ac mae hyd cyfartalog eu harhosiad yn is na'r hyn a welir ar wardiau oedolion. Ategir hyn gan y data llif gyda chyfartaledd o 37 o dderbyniadau'r dydd, sy'n cael eu cofnodi ar draws y tair uned bediatrig.

**I ba raddau y mae'r rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd wedi'i chynnal mewn wardiau cleifion meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion**

| | Cyfanswm y shifftiau | Shifftiau lle cyflawnwyd y rhestr ddyletswydd au a gynlluniwyd a oedd yn briodol | Shifftiau lle cyflawnwyd y rhestr ddyletswydd au a gynlluniwyd nad oedd yn briodol | Shifftiau lle na chyflawnwyd y rhestr ddyletswydd au a gynlluniwyd a oedd yn briodol | Shifftiau lle na chyflawnwyd y rhestr ddyletswydd au a gynlluniwyd nad oedd yn briodol | Cyflawnrwydd data |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CYFANSWM | 48395 | 20916 | 6932 | 9240 | 9105 | 95.45% |
| | | 43.22% | 14.32% | 19.09% | 18.81% | |

**Naratif cysylltiedig:**

Rhwng mis Ebrill 2025 a mis Ebrill 2026 mae BIPBC wedi defnyddio'r system SafeCare i gasglu data ar gyfer y wardiau meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion. Mae SafeCare yn rhoi cyfle i ddefnyddwyr y ward gofnodi a oedd staffio'n briodol i ddiwallu anghenion y cleifion fesul shifft ai peidio. Mae'r wybodaeth a adroddwyd ar gyfer i ba raddau y mae'r rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd wedi cael ei chynnal mewn wardiau meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion yn seiliedig ar y shifftiau gofal clinigol uniongyrchol, yn cynnwys staff parhaol a staff dros dro fel y'u cofnodwyd ar y rhestrau,

<table>
<tr>
<td></td>
<td>a'r ymateb a ddarparwyd gan y nyrs â gofal sy'n defnyddio ei barn broffesiynol i gofnodi priodoldeb y lefelau staffio ar bob un o'r shifftiau hyn.<br><br>Dyma'r bedwaredd flwyddyn o adrodd fel hyn ac mae gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud yn ansawdd y data sy'n cael ei adrodd, gyda chyflawnder data cyffredinol yn codi o 37.82% (y flwyddyn gyntaf) i 95.45% ar draws Adran 25B meddygol a llawfeddygol i oedolion yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Bydd gwaith yn parhau i sicrhau bod y gwelliannau'n cael eu cynnal, gyda data'n cael ei fonitro a'i ddilysu'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.</td>
</tr>
<tr>
<td>I ba raddau y mae'r rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd wedi'i chynnal ar wardiau cleifion mewnol paediatrig</td>
<td>
<table>
<tr><th></th><th>Cyfanswm y shifftiau</th><th>Shifftiau lle cyflawnwyd y rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd a oedd yn briodol</th><th>Shifftiau lle cyflawnwyd y rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd nad oedd yn briodol</th><th>Shifftiau lle na chyflawnwyd y rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd a oedd yn briodol</th><th>Shifftiau lle na chyflawnwyd y rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd nad oedd yn briodol</th><th>Cyflawnrwydd data</th></tr>
<tr><td rowspan="2">CYFANSWM</td><td rowspan="2">3285</td><td>2162</td><td>123</td><td>729</td><td>181</td><td rowspan="2">97.26%</td></tr>
<tr><td>65.81%</td><td>3.74%</td><td>22.19%</td><td>5.51%</td></tr>
</table>
Naratif cysylltiedig:<br><br>Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae'r wardiau cleifion mewnol paediatrig wedi defnyddio'r system SafeCare er mwyn gallu casglu a dadansoddi data. Dyma'r ail flwyddyn lawn i'r dair ward cleifion mewnol paediatrig gasglu data fel hyn ac, yn gadarnhaol, nodwyd gwelliant gyda'r data cyflawn yn codi o 93.57% yn y cyfnod adrodd gyntaf i 97.26% yn y cyfnod adrodd hwn.<br><br>Mae'r wybodaeth a adroddwyd ar gyfer i ba raddau y mae'r rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd wedi cael ei chynnal yn y wardiau cleifion mewnol paediatrig yn seiliedig ar y shifftiau gofal clinigol uniongyrchol, yn cynnwys staff parhaol a staff dros dro fel y'u cofnodwyd ar y rhestrau, a'r ymateb a ddarparwyd gan y nyrs â gofal sy'n defnyddio ei barn broffesiynol i gofnodi priodoldeb y lefelau staffio ar bob un o'r shifftiau hyn. Bydd gwaith yn parhau i sicrhau bod y gwelliannau'n cael eu cynnal, gyda data'n cael ei fonitro a'i ddilysu'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.
</td>
</tr>
<tr>
<td>Prosesau a systemau ar gyfer casglu data ynghylch i ba raddau y mae'r rhestr staffio a gynlluniwyd wedi</td>
<td>Mae GIG Cymru wedi ymrwymo i ddefnyddio system wybodeg genedlaethol y gellir ei defnyddio fel storfa ganolog ar gyfer casglu data i ddangos i ba raddau y mae'r lefelau staff nyrsio wedi'u cynnal ac i roi sicrwydd bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i gynnal y lefelau staff nyrsio sy'n ofynnol. Mae gwaith helaeth wedi cael ei wneud ar draws GIG Cymru i roi system wybodeg genedlaethol ar waith i alluogi ymddiriedolaethau/byrddau iechyd i fodloni gofynion adrodd y Ddeddf a dilyn dull Unwaith i Gymru er mwyn sicrhau cysondeb.</td>
</tr>
</table>

| | |
|---|---|
| **cael ei chynnal ar wardiau lle mae adran 25B yn berthnasol.** | *Mae pob ymddiriedolaeth/bwrdd iechyd wedi ymrwymo i weithredu system SafeCare RI Datix (Allocates gynt), gyda phob sefydliad wedi rhoi'r system hon ar waith yn eu wardiau adran 25B.*<br><br>Rhoddodd BIPBC y system SafeCare ar waith ar draws pob ward Adran 25B cyn yr arweiniad cenedlaethol, a chwblhawyd y broses o roi'r system ar waith mewn wardiau paediatrig ym mis Mehefin 2023. Yn ogystal, rhoddwyd y system ar waith ar draws wardiau Adran 25A fel Unedau Asesu, Wardiau Iechyd Meddwl, Wardiau Ysbytai Cymunedol ac Unedau Gofal Critigol.<br><br>Mae'r system yn rhoi amlygrwydd amser real i staffio, y gymysgedd sgiliau ac aciwtedd cleifion ac mae wedi'i gwreiddio'n dda ar draws y sefydliad, gan gefnogi barn broffesiynol a phenderfyniadau gweithredol o ddydd i ddydd, gan gynnwys adleoli adnoddau dros dro i gefnogi gofal amserol a sensitif i gleifion.<br><br>Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi gweithio'n agos gyda Grŵp Gweithredu SafeCare Cymru Gyfan i gefnogi a sicrhau dull gweithredu cyson ar gyfer Cymru gyfan, a mabwysiadwyd Gweithdrefn Weithredu Safonol SafeCare Cymru Gyfan i'w defnyddio ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. |
| **Y broses ar gyfer cynnal y lefel staff nyrsio** | Mae cynnal lefelau staff nyrsio yn broses barhaus sy'n cynnwys goruchwyliaeth weithredol, uwchgyfeirio, cynllunio'r gweithlu a chymorth staff, gan ddangos bod pob cam rhesymol yn cael ei gymryd i gynnal lefelau staff diogel ar draws wardiau Adran 25B a gwasanaethau ehangach.<br><br>Yn ogystal â'r mesurau a amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae'r camau gweithredu isod yn dangos sut mae lefelau staffio'n cael eu cynnal ar draws y Bwrdd Iechyd, nid yn unig o fewn wardiau Adran 25B ond ar draws holl wasanaethau'r bwrdd iechyd:<br><br>• Amlinellir y prosesau uwchgyfeirio staff nyrsio yn NU28 - Deddf Lefelau Staff Nyrsio - Polisi Llywodraethu a Chydymffurfiaeth; NU53 - Cyfrifo a Chynnal Gweithdrefn Weithredu Safonol Lefelau Staff Nyrsio a Pholisi Uwchgyfeirio Pediatrig Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr<br>• Mae'r tîm rheoli safle clinigol ac arweinyddiaeth nyrsio ar-alwad yn darperir goruchwyliaeth weithredol 24/7, gan sicrhau bod uwch swyddogion yn gwneud penderfyniadau'n barhaus a bod yr holl wasanaethau'n cael eu huwchgyfeirio. Cefnogir hyn gan gyfarfodydd gweithredol dyddiol ar y safle lle mae risgiau o ran capasiti, staffio a'r system yn cael eu hadolygu, gan alluogi penderfyniadau amser real sy'n seiliedig ar risg, gan gynnwys adleoli staff i gynnal lefelau diogel o staff nyrsio.<br>• Defnyddio staff dros dro (banc ac asiantaeth) fel mesur lliniaru tymor byr pan nad oes staff parhaol ar gael<br>• Optimeiddio amserlennu a monitro cydymffurfiaeth yn unol â Pholisi Amserlennu WP28a i sicrhau bod rhestrau staff diogel ac effeithiol ar waith<br>• Mae gwasanaethau a strategaethau llesiant staff ar waith<br>• Gwaith ac ymgysylltu parhaus ar lefel leol a chenedlaethol i sicrhau bod safonau preseptoriaeth ac egwyddorion goruchwyliaeth glinigol yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus o fewn BIPBC |

| | |
|---|---|
| | • Darparu cefnogaeth fugeiliol a rhaglen preseptoriaeth strwythuredig ar gyfer graddedigion a nyrsys a addysgwyd yn rhyngwladol i sicrhau eu bod yn ymgartrefu'n dda ac yn cael gyrfa werth chweil a boddhaus yn BIPBC<br><br>Mae gwaith yn mynd rhagddo i gryfhau ffocws y sefydliad ar gadw staff, gydag Arweinwyr Cadw yn cael eu nodi ar draws meysydd corfforaethol a chlinigol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Cadw Nyrsys. Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Gweithlu Cenedlaethol Cymru Gyfan; a'r Cynllun Gweithlu Nyrsio Strategol dilynol. Gyda'i gilydd, mae'r mentrau hyn yn adeiladu ar yr ethos sefydledig o gefnogaeth ar gyfer dysgu gydol oes a datblygu staff, a darparu cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith a gyda phwyslais pendant ar les staff, ymgysylltu a boddhad mewn swydd, gan gefnogi sefydlogrwydd a chynaliadwyedd y gweithlu.<br><br>Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, bu cynnydd bychan yn y lefelau staffio cyffredinol a ariennir ar draws wardiau Adran 25B fn 12ar gyfer swyddi nyrsio cofrestredig (1007.6 WTE ym mis Ebrill 2025 o'i gymharu â 1014.1 WTE ym mis Mawrth 2026).[12] Mae nifer y staff nyrsio cofrestredig mewn swyddi wedi cynyddu ar draws y cyfnod, o 929.9 (WTE) ym mis Ebrill 2025 i 983.7 (WTE) ym mis Mawrth 2026, sef cynnydd o 53.8 (WTE). Mae recriwtio'n llwyddiannus i wardiau Adran 25B wedi golygu bod y cyfraddau swyddi gwag ar gyfer nyrsys cofrestredig yn y meysydd hyn wedi gostwng o 7.7% (Ebrill 2025) i 3.0% (Mawrth 2026).<br><br>Ar draws y nifer o weithwyr cymorth gofal iechyd sy'n cael eu hariannu ar gyfer wardiau Adran 25B[12], mae'r swyddi wedi aros yn gymharol sefydlog ar gyfer y cyfnod adrodd (859.2 WTE ym mis Ebrill 2025 o'i gymharu ag 860.1 WTE ym mis Mawrth 2026). Mae cyfraddau swyddi gwag yn y grŵp gweithwyr cymorth gofal iechyd ar draws wardiau Adran 25B yn dal i fod yn heriol o ran y gweithlu, gyda chyfradd swyddi gwag o 15.8% (136.1 WTE) ym mis Mawrth 2026.<br><br>Wrth i weithgarwch recriwtio barhau, gan ddefnyddio'r strategaethau a amlinellir yn y papur hwn i fynd i'r afael â chyfraddau swyddi gwag ar draws y staff o nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd, mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi cyfarwyddo bod cynlluniau gweithredu recriwtio manwl yn cael eu rhoi ar waith sy'n benodol i weithwyr cymorth gofal iechyd. Bydd Gwasanaethau Pobl yn cefnogi'r cynlluniau hyn, a'u bwriad yw sicrhau gostyngiad parhaus yn nifer y swyddi gwag yn y grŵp staff hwn. |
| **Adran 25E(2b) Effaith ar ofal yn sgil peidio â chynnal y lefelau staff nyrsio ar wardiau cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion** | |

[12] Yn berthnasol i'r wardiau hynny sy'n ymwneud ag Adran 25B fel yr oedd pethau ar 31 Mawrth 2024.

| Digwyddiadau o niwed i gleifion gan gyfeirio at ddangosyddion ansawdd a chwynion am ofal nyrsio (sylwer: dim ond digwyddiadau sydd wedi'u cau sydd wedi'u cynnwys ym mhob rhes) | Briwiau pwyso a gafwyd yn yr ysbyty ond y gellid bod wedi eu hosgoi (gradd 3, gradd 4 ac na ellir eu graddio.) | Codymau sy'n arwain at niwed cymedrol, niwed difrifol neu farwolaeth (h.y. digwyddiadau lefel 3, lefel 4 a lefel 5). | Camgymeriadau wrth roi meddyginiaeth sy'n arwain at niwed cymedrol, niwed difrifol, marwolaeth a digwyddiadau byth (sef digwyddiadau lefel 3, lefel 4, lefel 5 a byth). | Unrhyw gwynion am ofal nyrsio (Mae cwynion yn cyfeirio at y cwynion hynny a reolir o dan reoliadau cwynion GIG Cymru (Gweithio i Wella)) |
|---|---|---|---|---|
| *Nifer y digwyddiadau/cwynion a gaewyd yn ystod y cyfnod adrodd presennol. (Cofiwch y gall y rhain gynnwys digwyddiadau/cwynion a agorwyd cyn y cyfnod adrodd hwn.)* | YMW 4 | YMW 4 | YMW 0 | YMW 4[13] |
| | YGC 23 [14] | YGC 13 [14] | YGC 0 | YGC 1 |
| | YG 9 | YG 4 | YG 0 | YG 0 |
| | Oncoleg a Haematoleg 0 | Oncoleg a Haematoleg 0 | Oncoleg a Haematoleg 0 | Oncoleg a Haematoleg 0 |
| | Gynaecoleg Menywod 0 | Gynaecoleg Menywod 0 | Gynaecoleg Menywod 0 | Gynaecoleg Menywod 0 |
| **CYFANSWM** | **36** | **21** | **0** | **5** |
| *Nifer y digwyddiadau/cwynion ar gau pan na chafodd lefel y staff nyrsio (rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd) ei chynnal* | YMW 1 | YMW 0 | YMW 0 | YMW 0 |
| | YGC 8 | YGC 6 | YGC 0 | YGC 0 |
| | YG 1 | YG 1 | YG 0 | YG 0 |
| | Oncoleg a Haematoleg 0 | Oncoleg a Haematoleg 0 | Oncoleg a Haematoleg 0 | Oncoleg a Haematoleg 0 |
| | Gynaecoleg Menywod 0 | Gynaecoleg Menywod 0 | Gynaecoleg Menywod 0 | Gynaecoleg Menywod 0 |
| **CYFANSWM** | **10** | **7** | **0** | **0** |
| *Nifer y digwyddiadau/cwynion hynny oedd ar gau lle ystyriwyd bod methu â chynnal lefel y* | YMW 0 | YMW 0 | YMW 0 | YMW 0 |
| | YGC 6 | YGC 4 | YGC 0 | YGC 0 |

[13] Ar ddiwedd y cyfnod adrodd blaenorol, roedd dwy gŵyn yn dal ar agor ynglŷn ag YWM a gaewyd wedyn yn ystod y cyfnod adrodd presennol (o'i gymharu â dim un ar gyfer YG ac YGC). Mae hyn yn cyfrif am y ffigurau cymharol uwch a adroddwyd ar gyfer Ysbyty Maelor Wrecsam yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

[14] Ar ddiwedd y cyfnod adrodd blaenorol, roedd nifer uwch o ddigwyddiadau yn dal ar agor mewn perthynas ag YGC a gaewyd yn ddiweddarach yn ystod y cyfnod adrodd presennol. Arweiniodd hyn at gario drosodd 14 achos o friwiau pwyso a gafwyd yn yr ysbyty ond y gellid bod wedi'u hosgoi (o'i gymharu â dau ddigwyddiad yr un ar gyfer YG ac YMW) a chwe chodwm (o'i gymharu ag un ar gyfer YMW a dim un ar gyfer YG). Mae hyn yn cyfrif am y ffigurau cymharol uwch a adroddwyd ar gyfer Ysbyty Glan Clwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *staff nyrsio (rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd) wedi bod yn ffactor gyfrannol* | YG 1 | YG 1 | YG 0 | YG 0 |
| | Oncoleg a Haematoleg 0 | Oncoleg a Haematoleg 0 | Oncoleg a Haematoleg 0 | Oncoleg a Haematoleg 0 |
| | Gynaecoleg Menywod 0 | Gynaecoleg Menywod 0 | Gynaecoleg Menywod 0 | Gynaecoleg Menywod 0 |
| **CYFANSWM** | **7** | **5** | **0** | **0** |
| *Nifer y digwyddiadau/cwynion oedd ar gau pan gafodd lefel y staff nyrsio (rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd) ei chynnal* | YMW 3 | YMW 4 | YMW 0 | YMW 4 |
| | YGC 15 | YGC 7 | YGC 0 | YGC 1 |
| | YG 8 | YG 3 | YG 0 | YG 0 |
| | Oncoleg a Haematoleg 0 | Oncoleg a Haematoleg 0 | Oncoleg a Haematoleg 0 | Oncoleg a Haematoleg 0 |
| | Gynaecoleg Menywod 0 | Gynaecoleg Menywod 0 | Gynaecoleg Menywod 0 | Gynaecoleg Menywod 0 |
| **CYFANSWM** | **26** | **14** | **0** | **5** |
| *Nifer y digwyddiadau/cwynion hynny oedd ar gau pan ystyriwyd bod lefel y staff nyrsio wedi bod yn ffactor allweddol, hyd yn oed pan oedd y rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd wedi cael ei chynnal.* | YMW 0 | YMW 0 | YMW 0 | YMW 0 |
| | YGC 0 | YGC 1 | YGC 0 | YGC 0 |
| | YG 0 | YG 0 | YG 0 | YG 0 |
| | Oncoleg a Haematoleg 0 | Oncoleg a Haematoleg 0 | Oncoleg a Haematoleg 0 | Oncoleg a Haematoleg 0 |
| | Gynaecoleg Menywod 0 | Gynaecoleg Menywod 0 | Gynaecoleg Menywod 0 | Gynaecoleg Menywod 0 |
| **CYFANSWM** | **0** | **1** | **0** | **0** |

**ALLWEDD:** YMW - Ysbyty Maelor Wrecsam / YGC - Ysbyty Glan Clwyd / YG - Ysbyty Gwynedd.

**Naratif cysylltiedig:**

*Yn seiliedig ar adolygiad o adroddiadau tair blynedd gyntaf yr ymddiriedolaethau/byrddau iechyd ac adborth gan arweinwyr gweithredol ar eu profiad o gwblhau'r adroddiadau, cyflwynwyd adroddiad i Gyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth a Phrif Swyddog Nyrsio Cymru yn 2021 a oedd yn cynnwys cyfres o argymhellion i wella a mireinio'r broses adrodd. Sefydlwyd is-grŵp o Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan i wella a mireinio'r broses adrodd, safoni dulliau adrodd yn unol â'r Ddyletswydd Gonestrwydd[15] a nodir yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Deddf Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020[16] ac ehangu cwmpas adrodd digwyddiadau o niwed er mwyn darparu data mwy ystyrlon, gyda'r bwriad o ehangu cwmpas adrodd digwyddiadau o niwed er mwyn darparu data mwy ystyrlon, drwy gynnwys digwyddiadau o wallau wrth roi meddyginiaeth a chodymau sy'n peri risg ganolig*

[15] Dyletswydd Gonestrwydd y GIG | LLYW.CYMRU
[16] Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru): crynodeb | LLYW.CYMRU

*Roedd gwaith yr Is-grŵp Adrodd yn cynnwys adolygu'r mesurau ar gyfer y wardiau meddygol a llawfeddygol i gleifion mewnol sy'n oedolion. Cyflwynwyd y rhain i'r Cyfarwyddwyr Nyrsio Gweithredol ym mis Awst 2023, a gymeradwyodd yr argymhellion i ddod i rym o'r cyfnod adrodd nesaf, sef 6 Ebrill 2024 – 5 Ebrill 2025. Bydd y dangosyddion ansawdd y cytunwyd arnynt ar gyfer y wardiau cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion o 6 Ebrill 2024 ymlaen fel a ganlyn:*

- *Briwiau pwyso a gafwyd yn yr ysbyty ond y gellid bod wedi eu hosgoi (gradd 3, gradd 4 ac na ellir eu graddio).*
- *Codymau sy'n arwain at niwed cymedrol, niwed difrifol neu farwolaeth (h.y. digwyddiadau lefel 3, lefel 4 a lefel 5).*
- *Camgymeriadau wrth roi meddyginiaeth sy'n arwain at niwed cymedrol, niwed difrifol, marwolaeth a digwyddiadau byth (sef digwyddiadau lefel 3, lefel 4, lefel 5 a byth).*
- *Unrhyw gwynion am ofal nyrsio (Mae cwynion yn cyfeirio at y cwynion hynny a reolir o dan reoliadau cwynion GIG Cymru (Gweithio i Wella))*

*Dyma'r data i'w adrodd ar gyfer pob un o'r uchod:*

- *Nifer y digwyddiadau/cwynion a gaewyd yn ystod y cyfnod adrodd presennol. (Cofiwch y gall y rhain gynnwys digwyddiadau/cwynion a agorwyd cyn y cyfnod adrodd hwn.)*
- *Nifer y digwyddiadau/cwynion pan na chafodd lefel y staff nyrsio (rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd) ei chynnal*
- *Nifer y digwyddiadau/cwynion hynny lle ystyriwyd bod methu â chynnal lefel y staff nyrsio (rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd) wedi bod yn ffactor allweddol*
- *Nifer y digwyddiadau/cwynion pan gafodd lefel y staff nyrsio (rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd) ei chynnal*
- *Nifer y digwyddiadau/cwynion hynny pan ystyriwyd bod lefel y staff nyrsio wedi bod yn ffactor allweddol, hyd yn oed pan oedd y rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd wedi cael ei chynnal.*

*Ar ôl i'r Cyfarwyddwyr Nyrsio Gweithredol gytuno ar yr argymhellion ym mis Awst 2023, daeth yn amlwg y byddai'r Ddyletswydd Gonestrwydd, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2023, yn effeithio ar y metrigau adrodd yn yr adroddiadau sicrwydd blynyddol gan fod adroddiadau blaenorol wedi adrodd ar y niwed gwirioneddol a gafwyd heb ei ddilysu, yn hytrach na nifer y digwyddiadau y canfuwyd eu bod yn deillio o weithred neu hepgoriad wrth dderbyn Gofal y GIG. Felly, i gyd-fynd â'r gwaith o adrodd am ddigwyddiadau diogelwch cleifion i Lywodraeth Cymru, bydd yr adroddiad hwn, a'r holl adroddiadau yn y dyfodol, yn adrodd am ddigwyddiadau diogelwch cleifion a gaewyd ac sydd wedi cael eu dilysu gyda lefel o niwed adroddadwy (yn unol â'r diffiniad o ddigwyddiad diogelwch cleifion) ac sy'n nodi a oedd y lefelau staff nyrsio wedi cyfrannu at y digwyddiad. O ganlyniad, gall nifer y digwyddiadau a adroddwyd yn yr adroddiad hwn, a'r adroddiadau sicrwydd blynyddol dilynol, fod yn is na'r rhai mewn blynyddoedd blaenorol.*

*Ddiwedd 2024, daeth yn amlwg bod amrywiaeth sylweddol yn y mathau o gwynion sy'n cael sylw yn adroddiad staff nyrsio pob sefydliad oherwydd dehongliad lleol o'r Canllawiau Gweithredol. O ganlyniad, cyflwynodd y Grŵp Adrodd Argymhelliad Asesiad Cefndir Sefyllfa (SBAR) a oedd yn amlinellu meini prawf arfaethedig ar gyfer adrodd ar gwynion safonol i Fforwm Cyfarwyddwr Nyrsio Adrannol ym mis Chwefror 2025. Y Fforwm DDoN gytunodd ar y meini prawf hyn ar y sail bod adroddiadau'n cael eu hadolygu'n ddiweddarach yn 2025 i benderfynu a yw'r meini prawf yn ddigon sensitif ac yn cynhyrchu'r*

*lefel gywir o gyd-destun defnyddiol yn ymarferol fel dangosydd ansawdd.*

*Y meini prawf adrodd y cytunwyd arnynt ar gyfer Cwynion a dderbynnir gan ardaloedd 25B yw'r rheini sydd:*

- *Wedi cael eu cau yn ystod y cyfnod adrodd hwn;*
- *Yn cael eu rheoli drwy'r cynllun Gweithio i Wella;*
- *Wedi canfod achos o dorri'r ddyletswydd gofal;*
- *Yn berthnasol i ofal nyrsio (gyda dogfen ganllaw wedi'i datblygu i gefnogi gyda gwaith adnabod).*

Mae gan BIPBC nifer o fentrau ar waith i fonitro a gwella profiad cleifion drwy leihau digwyddiadau lle ceir niwed i gleifion, gan gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Mae'r Weithdrefn Weithredu Safonol (SOP) Atal a Rheoli Briwiau Pwyso (PUPM) sy'n hyrwyddo cydweithrediad a hunanreolaeth cleifion i leihau'r risg a thrin a rheoli briwiau pwyso ac mae'n argymell bod yr holl staff yn mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y claf o Atal a Rheoli Briwiau Pwyso, gan ymgorffori'r fframwaith aSSKINg[17] i sicrhau bod dulliau atal a rheoli briwiau pwyso yn cael eu personoli.
- Cyflwyno'r pecyn e-ddysgu Atal a Rheoli Briwiau Pwyso.
- Fforymau Dysgu Briwiau Pwyso
- Mae'r Dangosfwrdd Ansawdd a Sicrwydd a lansiwyd yn ystod 25/26 yn llwyfan hawdd ei ddefnyddio lle gall staff gyrchu data allweddol sy'n ymwneud ag ansawdd ar Ddiogelwch Cleifion, Profiad Cleifion a'r Gweithlu. Gwella ymhellach drwy ychwanegu'r Cerdyn Sgorio Ansawdd sy'n tynnu sylw at fesurau ansawdd allweddol i alluogi tryloywder a chefnogi'r prosesau o wneud penderfyniadau. Mae'r dangosfwrdd a'r cerdyn sgorio yn dwyn ynghyd y dangosyddion pwysicaf er mwyn darparu gofal diogel, effeithiol a thosturiol.
- Cyfarfodydd misol y grŵp strategol ar godymau
- Parhau i fonitro cydymffurfiad ag ymgymryd â hyfforddiant codymau rhan 1a ac 1b
- Mae prosesau rheoli codymau, wedi'u gwreiddio ym mhob Cymuned Iechyd Integredig, yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniad ymyriadau manwl ac o safon yn yr asesiadau risg.
- Mae'r drefn Bresgripsiynu a Gweinyddu Meddyginiaethau yn Electronig (EPMA) wedi cael ei roi ar waith ar draws y Bwrdd Iechyd yn ystod 25/26. Mae'r system EMPA wedi ail-lunio sut mae meddyginiaethau'n cael eu presgripsiynu, eu rheoli a'u gweinyddu ar draws y sefydliad.

Yn genedlaethol, lansiwyd y canllawiau statudol newydd, Gwrando ar Bobl, o 1 Ebrill 2026 ymlaen i ddisodli'r canllawiau Gweithio i Wella presennol. Bwriad y newidiadau hyn yw ei gwneud yn haws ac yn gyflymach i gleifion, teuluoedd a gofalwyr fynegi pryderon a / neu ddarparu eu profiad o ofal y GIG. Mae'r dull newydd hwn yn rhan o ymrwymiad cenedlaethol i wneud pethau'n fwy agored, a chynyddu tosturi a dysgu ar draws gwasanaethau iechyd yng Nghymru, a chyflwyno prosesau cliriach a gwell cefnogaeth i unrhyw un sy'n dymuno siarad am eu gofal.

[17] aSSKINg - asesu risg; asesu croen a gofal croen; arwyneb; parhau i symud; anymataliaeth neu fwy o leithder; asesiad / cymorth maeth a hydradu; a rhoi gwybodaeth

| Adran 25E(2b) Effaith ar ofal yn sgil peidio â chynnal y lefelau staff nyrsio ar wardiau cleifion mewnol paediatrig | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Digwyddiadau o niwed i gleifion gan gyfeirio at ddangosyddion ansawdd a chwynion am ofal nyrsio (sylwer: dim ond digwyddiadau sydd wedi'u cau sydd wedi'u cynnwys ym mhob rhes)** | **Briwiau pwyso a gafwyd yn yr ysbyty ond y gellid bod wedi eu hosgoi (gradd 3, gradd 4 ac na ellir eu graddio.)** | **Codymau sy'n arwain at niwed cymedrol, niwed difrifol neu farwolaeth (h.y. digwyddiadau lefel 3, lefel 4 a lefel 5).** | **Camgymeriadau wrth roi meddyginiaeth sy'n arwain at niwed cymedrol, niwed difrifol, marwolaeth a digwyddiadau byth (sef digwyddiadau lefel 3, lefel 4, lefel 5 a byth).** | **Anafiadau treiddio ac elifiad** | **Unrhyw gwynion am ofal nyrsio (Mae cwynion yn cyfeirio at y cwynion hynny a reolir o dan reoliadau cwynion GIG Cymru (Gweithio i Wella))** |
| | **CYFANSWM** | **CYFANSWM** | **CYFANSWM** | **CYFANSWM** | **CYFANSWM** |
| *Nifer y digwyddiadau/cwynion a gaewyd yn ystod y cyfnod adrodd presennol. (Cofiwch y gall y rhain gynnwys digwyddiadau/cwynion a agorwyd cyn y cyfnod adrodd hwn.)* | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| *Nifer y digwyddiadau/cwynion pan na chafodd lefel y staff nyrsio (rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd) ei chynnal* | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| *Nifer y digwyddiadau/cwynion hynny lle ystyriwyd bod methu â chynnal lefel y staff nyrsio (rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd) wedi bod yn ffactor allweddol* | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| *Nifer y digwyddiadau/cwynion pan gafodd lefel y staff nyrsio (rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd) ei chynnal* | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| *Nifer y digwyddiadau/cwynion hynny pan ystyriwyd bod lefel y staff nyrsio wedi bod yn ffactor allweddol, hyd yn oed pan oedd y rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd wedi cael ei chynnal.* | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

**Naratif cysylltiedig:**

| | |
|---|---|
| *Roedd gwaith yr Is-grŵp Adrodd, y soniwyd amdano'n flaenorol, yn cynnwys y mesurau ar gyfer y wardiau cleifion mewnol paediatrig ac fe gyflwynwyd y rhain i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth ym mis Awst 2023, ynghyd â'r mesurau diwygiedig ar gyfer y wardiau meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion. Cytunwyd ar y newidiadau i'r mesurau paediatrig, gyda'r bwriad y bydd y mesurau diwygiedig yn dod i rym ar ddechrau'r cyfnod adrodd nesaf, sef 6 Ebrill 2024.*<br><br>*Dyma fydd y dangosyddion ansawdd ar gyfer y wardiau cleifion mewnol paediatrig:*<br>• *Briwiau pwyso a gafwyd yn yr ysbyty (gradd 3, gradd 4 ac na ellir eu graddio) (y gellid bod wedi eu hosgoi ac nad oedd modd eu hosgoi)*<br>• *Codymau sy'n arwain at niwed cymedrol, niwed difrifol neu farwolaeth (h.y. digwyddiadau lefel 3, lefel 4 a lefel 5).*<br>• *Camgymeriadau o ran meddyginiaeth sy'n arwain at niwed cymedrol, niwed difrifol, marwolaeth a digwyddiadau byth (h.y. digwyddiadau lefel 3, lefel 4, lefel 5 a byth).*<br>• *Anafiadau treiddio ac elifiad*<br>• *Unrhyw gwynion am ofal nyrsio (Mae cwynion yn cyfeirio at y cwynion hynny a reolir o dan reoliadau cwynion GIG Cymru (Gweithio i Wella))*<br>•<br>*Dyma'r data i'w adrodd ar gyfer pob un o'r uchod:*<br>• *Nifer y digwyddiadau/cwynion a gaewyd yn ystod y flwyddyn gyfredol a'r rhai a gariwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol.*<br>• *Cyfanswm nifer y digwyddiadau/cwynion heb eu cau ac i'w hadrodd yn ystod y flwyddyn nesaf*<br>• *Nifer y digwyddiadau/cwynion pan na chafodd lefel y staff nyrsio (rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd) ei chynnal*<br>• *Nifer y digwyddiadau/cwynion hynny lle ystyriwyd bod methu â chynnal lefel y staff nyrsio (rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd) wedi bod yn ffactor allweddol*<br>• *Nifer y digwyddiadau/cwynion a ddigwyddodd pan oedd y lefel staff nyrsio (rhestr staffio a gynlluniwyd) wedi cael ei chynnal. Nifer y digwyddiadau/cwynion hynny pan ystyriwyd bod y lefel staff nyrsio wedi bod yn ffactor allweddol, hyd yn oed pan oedd y rhestr staffio a gynlluniwyd wedi cael ei chynnal.* | |
| | **Adran 25E (2c) Camau a gymerir os na chaiff lefel y staff nyrsio ei chynnal (neu y caiff ei chynnal ond nad yw'n briodol*)** |
| **Camau a gymerwyd os na chafodd lefel y staff nyrsio ei chynnal lle mae adran 25B yn berthnasol** | Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, mae cynnal lefelau staff nyrsio yn broses barhaus sy'n cynnwys cynllunio tymor byr a thymor hir ar lefelau strategol/corfforaethol a gweithredol. Mae hyn yn dangos ein bod wedi ystyried a/neu gymryd "pob cam rhesymol" i gynnal lefelau staffio, nid yn unig o fewn wardiau Adran 25B ond ar draws holl wasanaethau'r bwrdd iechyd. Pan nad yw lefelau staffio'n cael eu cynnal, mae camau gweithredu, lliniaru ac uwchgyfeirio priodol yn cael eu rhoi ar waith yn unol ag NU28 - Deddf Lefelau Staff Nyrsio - Polisi Llywodraethu a Chydymffurfiaeth; NU53 - Cyfrifo a Chynnal Gweithdrefn Weithredu Safonol Lefelau Staff Nyrsio a Pholisi Uwchgyfeirio Pediatrig Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr<br><br>Mae'r effaith ar ansawdd gofal yn cael ei monitro'n weithredol, gyda'r uwch dimau nyrsio yn defnyddio eu barn broffesiynol i sicrhau bod y lefelau staffio yn cael eu cynnal lle bo'n bosibl – a, lle nad yw'n bosibl, yn cael eu lliniaru. Yn ogystal â'r camau gweithredu a nodwyd uchod, mae'r canlynol hefyd yn cael eu cyflawni: |

| | |
|---|---|
| | • Cymorth llesiant staff, gan gynnwys sesiynau pwrpasol drwy'r Gwasanaeth Llesiant Staff lle mae diffygion parhaus yn digwydd<br>• Dysgu ar y cyd drwy gyfarfodydd misol y Rheolwyr Wardiau a'r Metronau<br>• Mwy o amlygrwydd i'r uwch dîm nyrsio (Metronau / Penaethiaid Nyrsio / Cyfarwyddwyr Nyrsio) a Gwasanaeth Ymholiadau a Datrys y Bobl (PEARS), drwy deithiau cerdded/archwiliadau/arolygon adborth cleifion<br>• Adolygiadau dyddiol o ddigwyddiadau yn y Gymuned Iechyd Integredig a'r Uwch Adrannau, gan alluogi adolygiad amserol o godymau ac achosion o Friwiau Pwyso a Gafwyd yn yr Ysbyty (HAPU), gan uwchgyfeirio digwyddiadau difrifol<br>• Mae fforymau dysgu wythnosol ar waith a chaiff y rhain eu cefnogi gan arweinwyr perthnasol ee nyrsys datblygu ymarfer, hyrwyddwyr codymau, nyrsys arweiniol HAPU.<br>• Mwy o weithgarwch archwilio mewn meysydd sy'n peri pryder i gefnogi gwaith gwella<br>• Fframwaith Sicrhau Ansawdd Nyrsio - i sicrhau bod archwiliadau trylwyr yn cael eu cynnal ym mhob maes clinigol i gefnogi Achredu Wardiau<br>• Mae'r Dangosfwrdd Ansawdd a Sicrwydd yn darparu trosolwg strategol a gweithredol o brofiad cleifion, digwyddiadau o niwed i gleifion, cwynion cleifion a metrigau staffio. |
| | **ADRAN 25A: Dyletswydd i roi sylw i ddarparu digon o nyrsys** |
| **Gofynion Adran 25A**<br><br>(Sylwch: Mae Adran 25A yn cyfeirio at gyfrifoldeb cyffredinol y Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau i sicrhau lefelau staff nyrsio priodol mewn unrhyw faes lle mae gwasanaethau nyrsio'n cael eu darparu neu eu comisiynu, nid dim ond wardiau lle mae adran 25B yn berthnasol) | Mae Adran 25A o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn nodi cyfrifoldebau byrddau iechyd i ystyried darparu lefelau staff nyrsio priodol ar draws yr holl wasanaethau nyrsio, er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu gofal diogel, effeithiol ac amserol i gleifion. Mae'r adran yn rhoi crynodeb o'r gwaith ehangach a wnaed mewn perthynas â meysydd Adran 25A yn ystod 2025/26.<br><br>Mae'n ofynnol i bob maes sy'n darparu gofal i gleifion gyfrifo staff nyrsio, ac er nad oes mandad cyfreithiol i wneud y rhain o dan adran 25A, disgwylir y bydd yr adolygiadau hyn yn cael eu cynnal fel mater o drefn ac i ymateb i newidiadau mewn aciwtedd a / neu ddibyniaeth cleifion; pan fydd newid yn y model gwasanaeth neu'r ddarpariaeth; neu pan fydd pryderon yn cael eu codi drwy adrodd ar eithriadau neu lywodraethu clinigol.<br><br>Mae'r gwaith Craffu ar ôl Deddfu a gynhaliwyd yn 2024 yn nodi'r angen am ganllawiau gweithredol clir i gefnogi'r gwaith o gymhwyso adran 25A yn gyson, gan gynnwys defnyddio'r dull triongli o gyfrifo lefelau staff nyrsio. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar lefel genedlaethol o dan nawdd Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan. Yn amodol ar gyhoeddi canllawiau cenedlaethol, mae BIPBC yn defnyddio NU53 - Gweithdrefn Weithredu Safonol Cyfrifo a Chynnal Lefelau Staff Nyrsio gan sicrhau bod yr holl adolygiadau staff nyrsio ar draws y sefydliad yn dilyn yr un fethodoleg wedi'i thriongli sy'n seiliedig ar dystiolaeth a ddisgrifir yn gynharach yn yr adroddiad hwn.<br><br>Dyma wasanaethau nyrsio BIPBC sydd wedi cynnal/cychwyn adolygiadau o'r lefelau staff nyrsio gan ddefnyddio'r dull gweithredu uchod: |

| | |
|---|---|
| | • Wardiau meddygol a llawfeddygol 24/7 nad ydynt yn ymwneud ag Adran 25B y Ddeddf<br>• Wardiau ac adrannau argyfwng y cwadrant<br>• Wardiau ysbytai cymunedol<br>• Wardiau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu<br>• Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol<br>• Timau Nyrsio Ardal<br><br>Mae'r prosesau ar gyfer cynnal lefelau staff nyrsio, gan gynnwys y strategaethau recriwtio, cadw ac addysg a ddisgrifiwyd yn flaenorol yn y papur hwn yn berthnasol i bob maes lle darperir gwasanaethau nyrsio. |
| | **Casgliad ac Argymhellion** |
| | Mae'r adroddiad yn rhoi sicrwydd i'r bwrdd iechyd fod BIPBC, yn unol â chanllawiau statudol, yn cydymffurfio â gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yng nghyswllt cyfrifiadau bob dwy flynedd ar gyfer wardiau meddygol a llawfeddygol i gleifion mewnol sy'n oedolion 25B; a wardiau cleifion mewnol paediatrig.<br><br>Drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, mae lefelau staff nyrsio ar gyfer pob lleoliad gofal iechyd ar draws BIPBC wedi cael eu cyfrifo ar lefel sy'n dangos yr ymrwymiad i 'ystyried pwysigrwydd darparu digon o nyrsys i ganiatáu amser i'r nyrsys ofalu am gleifion mewn modd sensitif'. Mae'r gofyniad statudol hwn wedi sicrhau bod y lefelau staffio ar gyfer pob ward a maes ar draws BIPBC sy'n gofalu am gleifion mewnol wedi'u pennu a, lle bo'n bosibl, eu cynnal. Pan nad oes modd cynnal lefelau staffio, mae camau gweithredu, lliniaru ac uwchgyfeirio priodol yn unol ag NU28 - Deddf Lefelau Staff Nyrsio - Polisi Llywodraethu a Chydymffurfiaeth; NU53 - Cyfrifo a Chynnal Gweithdrefn Weithredu Safonol Lefelau Staff Nyrsio a Pholisi Uwchgyfeirio Pediatrig Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr<br><br>Gofynnir i'r Bwrdd nodi a chefnogi'r camau nesaf canlynol:<br><br>1. Yn unol â'r Ddeddf a'r Canllawiau Statudol, dylai'r cyfrifiadau staff nyrsio a gyflwynir yn yr adroddiad hwn a'r atodiadau cysylltiedig; a gymeradwyir gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth, fel y person dynodedig, gael eu hariannu o ddyraniad refeniw'r bwrdd iechyd. Lle nad yw hyn yn bosibl, dylid cymryd camau lliniaru i gynnal diogelwch cleifion dan oruchwyliaeth y Bwrdd. Gall camau lliniaru gynnwys ad-drefnu wardiau, cau gwelyau neu ddefnyddio staff dros dro.<br>2. Parhau â'r strategaethau recriwtio a chadw gweithlu nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd niferus ac amrywiol i sicrhau 'cyflenwad' o weithlu nyrsio i gefnogi'r gwaith o gynnal a chadw lefelau'r staff nyrsio. Y galluogwyr allweddol yw Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Gweithlu Cymru Gyfan; Cynllun Cadw Nyrsys AaGIC a Chynllun y Gweithlu Nyrsio Strategol AaGIC.<br>3. Parhau i ddatblygu a gwella dangosfyrddau adrodd, er mwyn gallu dadansoddi data'r gweithlu a chleifion i gefnogi a llywio penderfyniadau'r gweithlu nyrsio<br>4. Bydd y templedi galw rhestrau staffio a gynlluniwyd yn cael eu diwygio yn y system amserlennu i adlewyrchu'r rhestrau staffio cymeradwy er mwyn gallu cyflawni'n weithredol a chynllunio'r gweithlu'n effeithiol. |

| | |
|---|---|
| | 5. Bydd Rheolwyr Ward yn symud ymlaen i recriwtio staff, ar sail y gofyniad staffio diwygiedig ar gyfer nyrsys (lle bo hynny’n berthnasol)<br>6. Bydd Rheolwyr Wardiau yn sicrhau bod byrddau’r wardiau, sy’n cael eu harddangos wrth fynedfeydd y wardiau, yn cael eu diweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau i’r rhestr staff arfaethedig a’r dyddiad y cyflwynwyd y cyfrifiadau staff nyrsio i’r Bwrdd |

**Atodiad 2: Adroddiad Sicrwydd Blynyddol**

| | |
|---|---|
| **Ymddiriedolaeth/Bwrdd Iechyd:** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| **Cyfnod yr adroddiad** | 6 Ebrill 2025 (cylch adolygu'r gwanwyn) - 5 Ebrill 2026 (cylch adolygu'r hydref) |
| **Wardiau Meddygol Acíwt i Gleifion Mewnol s** | 25 |

Yn unol â gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 a'i Chanllawiau Statudol cysylltiedig, y 'lefel staff nyrsio' yw nifer y nyrsys cofrestredig – a staff eraill y mae dyletswyddau nyrsio wedi'u dirprwyo iddynt gan nyrs gofrestredig – sy'n ofynnol i gyflawni'r rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd. Cydnabyddir bod amrywiaeth o weithwyr gofal iechyd proffesiynol ychwanegol sy'n cyfrannu at ddarparu a chydlynu gofal a thriniaeth cleifion. Fodd bynnag, nid yw'r staff hyn wedi'u cynnwys yn yr atodiad hwn ond mae rhagor o wybodaeth ar gael ym mhrif gorff yr adroddiad sicrwydd blynyddol

## Wardiau Meddygol Acíwt i Gleifion Mewnol sy'n Oedolion

| | | CYFANSWM Rheolwr Ward Band 7 ychwanegol WTE | Y nifer sy'n ofynnol ar ddechrau'r adroddiad hwn (cylch cyfrifo Gwanwyn 2025) gan gynnwys codiad o 26.9% | | CYFANSWM Rheolwr Ward Band 7 ychwanegol WTE | Y nifer sy'n ofynnol ar ddiwedd cyfnod yr adroddiad hwn (cylch cyfrifo Hydref 2025) gan gynnwys codiad o 26.9% | | Adolygiadau cylch cyfrifo ddwywaith y flwyddyn, a'r rhesymeg dros unrhyw newidiadau a wnaed | | | Unrhyw adolygiadau heblaw cyfrifo ddwywaith y flwyddyn. Os oes, rhowch sail resymegol dros unrhyw newidiadau a wnaed | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Safle** | **Enw'r Ward** | | **CYFANSWM RN WTE (bandiau 5 a 6)** | **CYFANSWM HCSW WTE (bandiau 2, 3 a 4)** | | **CYFANSWM RN WTE (bandiau 5 a 6)** | **CYFANSWM HCSW WTE (bandiau 2, 3 a 4)** | **Cwblhawyd (Do/Na)** | **Newidiwyd** | **Rhesymeg** | **Cwblhawyd (Do/Naddo)** | **Dyddiad** | **Newidiwyd** | **Rhesymeg** |
| YMW | Acton | 1 | 25.58 | 19.9 | 1 | 25.58 | 19.9 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YMW | Uned Gardiaidd Acíwt | 1 | 31.27 | 14.21 | 1 | 31.27 | 14.21 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YMW | Bersham | 1 | 25.58 | 19.9 | 1 | 25.58 | 19.9 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YMW | Bonney | 1 | 19.9 | 19.9 | 1 | 19.9 | 19.9 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YMW | Cunliffe | 1 | 19.9 | 19.9 | 1 | 19.9 | 19.9 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YMW | Fleming | 1 | 11.37 | 5.69 | 1 | 11.37 | 5.69 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YMW | Morris | 1 | 19.9 | 24.16 | 1 | 17.06 | 21.32 | Do | Do | Newidiadau a wnaed y tu allan i'r adolygiadau cylch cyfrifo bob dwy flynedd oherwydd ad-drefnu'r sylfaen gwelyau a ariennir ar safle Maelor Wrecsam. | Do | Jul-25 | Do | Adolygwyd staffio oherwydd ad-drefnu'r sylfaen gwelyau a ariennir ar safle Maelor Wrecsam. |
| YMW | Pantomime | 1 | 21.32 | 19.9 | 1 | 15.63 | 14.21 | Do | Do | Newidiadau a wnaed y tu allan i'r adolygiadau cylch cyfrifo bob dwy flynedd oherwydd ad-drefnu'r sylfaen gwelyau a ariennir ar safle Maelor Wrecsam. | Do | Jul-25 | Do | Adolygwyd staffio oherwydd ad-drefnu'r sylfaen gwelyau a ariennir ar safle Maelor Wrecsam. |
| YMW | Tywysog Cymru | 1 | 19.9 | 19.9 | 1 | 14.21 | 14.21 | Do | Do | Newidiadau a wnaed y tu allan i'r adolygiadau cylch cyfrifo bob dwy flynedd oherwydd ad-drefnu'r sylfaen gwelyau a ariennir ar safle Maelor Wrecsam. | Do | Jul-25 | Do | Adolygwyd staffio oherwydd ad-drefnu'r sylfaen gwelyau a ariennir ar safle Maelor Wrecsam. |
| YG | Aran | 1 | 25.58 | 25.58 | 1 | 25.58 | 25.58 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YG | Glaslyn | 1 | 19.9 | 26.58 | 1 | 19.9 | 26.58 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YG | Glyder | 1 | 14.21 | 11.37 | 1 | 14.21 | 11.37 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YG | Hebog | 1 | 22.74 | 25.58 | 1 | 22.74 | 25.58 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YG | Moelwyn | 1 | 31.27 | 22.74 | 1 | 31.27 | 22.74 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YG | Prysor | 1 | 12.79 | 12.37 | 1 | 12.79 | 12.37 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YGC | Ward 1 | 1 | 19.07 | 23.21 | 1 | 19.07 | 23.21 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YGC | Ward 2 | 1 | 19.07 | 20.49 | 1 | 19.07 | 20.49 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YGC | Ward 4 | 1 | 19.07 | 16.34 | 1 | 19.07 | 16.34 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YGC | Ward 6 Anadlol | 1 | 24.52 | 19.07 | 1 | 24.52 | 19.07 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YGC | Ward 9 | 1 | 19.07 | 20.49 | 1 | 19.07 | 20.49 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YGC | Ward 10 | 1 | 19.07 | 20.49 | 1 | 19.07 | 20.49 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YGC | Ward 11 Strôc (Ward 14 gynt) | 1 | 21.79 | 20.49 | 1 | 21.79 | 20.49 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YGC | Ward 12 | 1 | 21.79 | 19.07 | 1 | 21.79 | 19.07 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YG | Alaw | 1 | 17.66 | 14.21 | 1 | 17.66 | 14.21 | Do | Do | Er nad oedd newid i'r sefydliad gofynnol, addaswyd lefelau staffio nyrsys cofrestredig dros y penwythnos yn ystod adolygiad hydref 2025 i gefnogi gofynion brysbennu y tu allan i oriau. | Naddo | | | |
| YGC | Enfys | 1 | 19.9 | 19.9 | 1 | 19.9 | 19.9 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |

**Atodiad 2: Adroddiad Sicrwydd Blynyddol**

| | |
|---|---|
| **Ymddiriedolaeth/Bwrdd Iechyd:** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| **Cyfnod yr adroddiad** | 6 Ebrill 2025 (cylch adolygu'r gwanwyn) - 5 Ebrill 2026 (cylch adolygu'r hydref) |
| **Wardiau Llawfeddygol Acíwt i Gleifion Mew** | 17 |

Yn unol â gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 a'i Chanllawiau Statudol cysylltiedig, y 'lefel staff nyrsio' yw nifer y nyrsys cofrestredig – a staff eraill y mae dyletswyddau nyrsio wedi'u dirprwyo iddynt gan nyrs gofrestredig – sy'n ofynnol i gyflawni'r rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd. Cydnabyddir bod amrywiaeth o weithwyr gofal iechyd proffesiynol ychwanegol sy'n cyfrannu at ddarparu a chydlynu gofal a thriniaeth cleifion. Fodd bynnag, nid yw'r staff hyn wedi'u cynnwys yn yr atodiad hwn ond mae rhagor o wybodaeth ar gael ym mhrif gorff yr adroddiad sicrwydd blynyddol

**Wardiau Llawfeddygol Acíwt i Gleifion Mewnol sy'n Oedolion**

| | | CYFANSWM Rheolwr Ward Band 7 ychwanegol WTE | Y nifer sy'n ofynnol ar ddechrau'r adroddiad hwn (cylch cyfrifo Gwanwyn 2025) gan gynnwys codiad o 26.9% | | CYFANSWM Rheolwr Ward Band 7 ychwanegol WTE | Y nifer sy'n ofynnol ar ddiwedd cyfnod yr adroddiad hwn (cylch cyfrifo Hydref 2025) gan gynnwys codiad o 26.9% | | Adolygiadau cylch cyfrifo ddwywaith y flwyddyn, a'r rhesymeg dros unrhyw newidiadau a wnaed | | | Unrhyw adolygiadau heblaw cyfrifo ddwywaith y flwyddyn. Os oes, rhowch sail resymegol dros unrhyw newidiadau a wnaed | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Safle** | **Enw'r Ward** | | **CYFANSWM RN WTE (bandiau 5 a 6)** | **CYFANSWM HCSW WTE (bandiau 2, 3 a 4)** | | **CYFANSWM RN WTE (bandiau 5 a 6)** | **CYFANSWM HCSW WTE (bandiau 2, 3 a 4)** | **Cwblhawyd (Do/Na)** | **Newidiwyd** | **Rhesymeg** | **Cwblhawyd (Do/Naddo)** | **Dyddiad** | **Newidiwyd** | **Rhesymeg** |
| YMW | Cleifion sy'n cyrraedd | 1 | 22.74 | 19.9 | 1 | 14.21 | 11.37 | Do | Do | Newidiadau a wnaed y tu allan i'r adolygiadau cylch cyfrifo bob dwy flynedd oherwydd ad-drefnu'r sylfaen gwelyau a ariennir ar safle Maelor Wrecsam. | Do | Jul-25 | Do | Adolygwyd staffio oherwydd ad-drefnu'r sylfaen gwelyau a ariennir ar safle Maelor Wrecsam. |
| YMW | Erddig | 1 | 25.58 | 19.9 | 1 | 25.58 | 19.9 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YMW | Mason | 1 | 19.9 | 24.16 | 1 | 19.9 | 24.16 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YMW | Glyndŵr | 1 | 25.58 | 17.06 | 1 | 25.58 | 17.06 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YMW | U5 | 1 | 13.4 | 7.72 | 1 | 13.4 | 7.72 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YG | Tegid | 1 | 25.58 | 19.9 | 1 | 25.58 | 19.9 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YG | Dulas | 1 | 28.43 | 22.74 | 1 | 28.43 | 22.74 | Do | Do | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YG | Ogwen | 1 | 19.9 | 25.58 | 1 | 19.9 | 25.58 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YG | Enlli | 1 | 14.21 | 14.21 | 1 | 14.21 | 14.21 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YGC | Ward 3 | 1 | 21.79 | 21.79 | 1 | 21.79 | 21.79 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YGC | Ward 5 | 1 | 21.79 | 19.07 | 1 | 21.79 | 19.07 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YGC | Ward 7 | 1 | 21.79 | 21.79 | 1 | 21.79 | 21.79 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YGC | Ward 8 | 1 | 19.07 | 19.07 | 1 | 19.07 | 19.07 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| ABH | Ward 6 Abergele | 1 | 15.57 | 13.62 | 1 | 15.57 | 13.62 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YGC | Ward 19a Glaslyn | 1 | 11.37 | 7.72 | 1 | 11.37 | 7.72 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YMW | Bromfield | 1 | 11.37 | 5.69 | 1 | 11.37 | 5.69 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YG | Ffrancon | 1 | 11.37 | 8.53 | 1 | 11.37 | 8.53 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |

**Atodiad 2: Adroddiad Sicrwydd Blynyddol**

| | |
|---|---|
| **Ymddiriedolaeth/Bwrdd Iechyd:** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| **Cyfnod yr adroddiad** | 6 Ebrill 2025 (cylch adolygu'r gwanwyn) - 5 Ebrill 2026 (cylch adolygu'r hydref) |
| **Wardiau Meddygol Acíwt i Gleifion Mewnol** | 3 |

Yn unol â gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 a'i Chanllawiau Statudol cysylltiedig, y 'lefel staff nyrsio' yw nifer y nyrsys cofrestredig – a staff eraill y mae dyletswyddau nyrsio wedi'u dirprwyo iddynt gan nyrs gofrestredig – sy'n ofynnol i gyflawni'r rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd. Cydnabyddir bod amrywiaeth o weithwyr gofal iechyd proffesiynol ychwanegol sy'n cyfrannu at ddarparu a chydlynu gofal a thriniaeth cleifion. Fodd bynnag, nid yw'r staff hyn wedi'u cynnwys yn yr atodiad hwn ond mae rhagor o wybodaeth ar gael ym mhrif gorff yr adroddiad sicrwydd blynyddol

**Wardiau Cleifion Mewnol Paediatrig**

| | | CYFANSWM Rheolwr Ward Band 7 ychwanegol WTE | Y nifer sy'n ofynnol ar ddechrau'r adroddiad hwn (cylch cyfrifo Gwanwyn 2025) gan gynnwys codiad o 26.9% | | CYFANSWM Rheolwr Ward Band 7 ychwanegol WTE | Y nifer sy'n ofynnol ar ddiwedd cyfnod yr adroddiad hwn (cylch cyfrifo Hydref 2025) gan gynnwys codiad o 26.9% | | Adolygiadau cylch cyfrifo ddwywaith y flwyddyn, a'r rhesymeg dros unrhyw newidiadau a wnaed | | | Unrhyw adolygiadau heblaw cyfrifo ddwywaith y flwyddyn. Os oes, rhowch sail resymegol dros unrhyw newidiadau a wnaed | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Safle** | **Enw'r Ward** | | **CYFANSWM RN WTE (bandiau 5 a 6)** | **CYFANSWM HCSW WTE (bandiau 2, 3 a 4)** | | **CYFANSWM RN WTE (bandiau 5 a 6)** | **CYFANSWM HCSW WTE (bandiau 2, 3 a 4)** | **Cwblhawyd (Do/Na)** | **Newidiwyd** | **Rhesymeg** | **Cwblhawyd (Do/Naddo)** | **Dyddiad** | **Newidiwyd** | **Rhesymeg** |
| YMW | Uned y Plant | 1 | 28.43 | 8.53 | 1 | 28.43 | 8.53 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YGC | Uned y Plant | 1 | 28.43 | 11.37 | 1 | 28.43 | 11.37 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| YG | Uned y Plant | 1 | 28.43 | 8.53 | 1 | 28.43 | 8.53 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |

**Atodiad 3: Adroddiad Cyflwyno Lefel Staff Nyrsio yn Flynyddol i'r Bwrdd. Crynodeb o Lefelau Staff Nyrsio ar gyfer wardiau lle mae Adran 25B yn berthnasol.**

| | |
|---|---|
| **Ymddiriedolaeth/bwrdd iechyd** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| **Cyfnod yr adroddiad** | Ebrill 2025 - Mawrth 2026 |
| **Wardiau Meddygol Acíwt i Gleifion Mewnol sy'** | 25 |

Mae angen cofnodi nifer y staff fesul shifft. Dylai'r wybodaeth adlewyrchu'r wybodaeth ar y templed hysbysu cleifion.

Yn unol â gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 a'i Chanllawiau Statudol cysylltiedig, y 'lefel staff nyrsio' yw nifer y nyrsys cofrestredig – a staff eraill y mae dyletswyddau nyrsio wedi'u dirprwyo iddynt gan nyrs gofrestredig – sy'n ofynnol i gyflawni'r rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd. Cydnabyddir bod amrywiaeth o weithwyr gofal iechyd proffesiynol ychwanegol sy'n cyfrannu at ddarparu a chydlynu gofal a thriniaeth cleifion. Fodd bynnag, nid yw'r staff hyn wedi'u cynnwys yn y data ar gyfer yr adroddiad hwn. Darperir rhagor o wybodaeth yn yr adroddiad sicrwydd blynyddol am y staff amlbroffesiynol ychwanegol sy'n cyfrannu at gydlynu a darparu gofal cleifion.

**Wardiau Meddygol Acíwt i Gleifion Mewnol sy'n Oedolion**

| Safle | Enw'r Ward | Adroddwyd i'r Bwrdd ym mis Mai 2025: SHIFFT | Rhestr staffio wedi'i chynllunio fel y nodir yn y cyflwyniad blynyddol i adroddiad y Bwrdd (ym mis Tachwedd 2024): RN (bandiau 5 a 6) | HCSW (bandiau 2, 3 a 4) | Staff Gofynnol fel y nodwyd yn y cyflwyniad blynyddol i adroddiad y Bwrdd (ym mis Tachwedd 2024) gan gynnwys cynnydd o 26.9%: CYFANSWM RN WTE (bandiau 5 a 6) | CYFANSWM HCSW WTE (bandiau 2, 3 a 4) | CYFANSWM Prif Nyrs ward ychwanegol Band 7 WTE | Cyfrifwyd yn ystod cylch hydref 2025: SHIFFT | Rhestr staffio wedi'i chynllunio a gyfrifwyd gan y person dynodedig yn ystod cylch gwanwyn 2025: RN (bandiau 5 a 6) | HCSW (bandiau 2, 3 a 4) | Staff Gofynnol fel y'i cyfrifwyd gan y bobl ddynodedig yn ystod cylch gwanwyn 2025 gan gynnwys cynnydd o 26.9%: CYFANSWM RN WTE (bandiau 5 a 6) | CYFANSWM HCSW WTE (bandiau 2, 3 a 4) | CYFANSWM Prif Nyrs ward ychwanegol Band 7 WTE | Y dyddiad y cyfrifodd y person dynodedig y lefel staff nyrsio | Cyfrifwyd yn ystod cylch gwanwyn 2026: SHIFFT | Rhestr staffio wedi'i chynllunio a gyfrifwyd gan y person dynodedig yn ystod cylch hydref 2025: RN (bandiau 5 a 6) | HCSW (bandiau 2, 3 a 4) | Staff Gofynnol fel y'i cyfrifwyd gan y bobl ddynodedig yn ystod cylch hydref 2025 gan gynnwys cynnydd o 26.9%: CYFANSWM RN WTE (bandiau 5 a 6) | CYFANSWM HCSW WTE (bandiau 2, 3 a 4) | CYFANSWM Prif Nyrs ward ychwanegol Band 7 WTE | Y dyddiad y cyfrifodd y person dynodedig y lefel staff nyrsio | Adolygiadau cylch cyfrifo ddwywaith y flwyddyn, ac unrhyw newidiadau a wnaed a'r sail resymegol yn ystod cylchoedd cyfrifo gwanwyn 2025 a hydref 2025: Cwblhawyd (Do/Naddo) | Newidiwyd | Rhesymeg | Unrhyw adolygiadau heblaw cyfrifo ddwywaith y flwyddyn. Os oes, rhowch sail resymegol dros unrhyw newidiadau a wnaed: Cwblhawyd (Do/Naddo) | Dyddiad | Newidiwyd | Rhesymeg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YMW | Acton | Cynnar | 5 | 4 | 25.58 | 19.9 | 1 | Cynnar | 5 | 4 | 25.58 | 19.9 | 1 | 15/10/2025 | Cynnar | 5 | 4 | 25.58 | 19.9 | 1 | 24/03/2026 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| | | Hwyr | 5 | 4 | | | | Hwyr | 5 | 4 | | | | | Hwyr | 5 | 4 | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 4 | 3 | | | | Nos | 4 | 3 | | | | | Nos | 4 | 3 | | | | | | | | | | | |
| YMW | Uned Gardiaidd Acíwt | Cynnar | 6 | 3 | 31.27 | 14.21 | 1 | Cynnar | 6 | 3 | 31.27 | 14.21 | 1 | 15/10/2025 | Cynnar | 6 | 3 | 31.27 | 14.21 | 1 | 24/03/2026 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| | | Hwyr | 6 | 3 | | | | Hwyr | 6 | 3 | | | | | Hwyr | 6 | 3 | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 5 | 2 | | | | Nos | 5 | 2 | | | | | Nos | 5 | 2 | | | | | | | | | | | |
| YMW | Bersham | Cynnar | 5 | 4 | 25.58 | 19.9 | 1 | Cynnar | 5 | 4 | 25.58 | 19.9 | 1 | 15/10/2025 | Cynnar | 5 | 4 | 25.58 | 19.9 | 1 | 24/03/2026 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| | | Hwyr | 5 | 4 | | | | Hwyr | 5 | 4 | | | | | Hwyr | 5 | 4 | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 4 | 3 | | | | Nos | 4 | 3 | | | | | Nos | 4 | 3 | | | | | | | | | | | |
| YMW | Bonney | Cynnar | 4 | 4 | 19.9 | 19.9 | 1 | Cynnar | 4 | 4 | 19.9 | 19.9 | 1 | 15/10/2025 | Cynnar | 4 | 4 | 19.9 | 19.9 | 1 | 24/03/2026 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| | | Hwyr | 4 | 4 | | | | Hwyr | 4 | 4 | | | | | Hwyr | 4 | 4 | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 3 | 3 | | | | Nos | 3 | 3 | | | | | Nos | 3 | 3 | | | | | | | | | | | |
| YMW | Cunliffe | Cynnar | 4 | 4 | 19.9 | 19.9 | 1 | Cynnar | 4 | 4 | 19.9 | 19.9 | 1 | 15/10/2025 | Cynnar | 4 | 4 | 19.9 | 19.9 | 1 | 24/03/2026 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| | | Hwyr | 4 | 4 | | | | Hwyr | 4 | 4 | | | | | Hwyr | 4 | 4 | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 3 | 3 | | | | Nos | 3 | 3 | | | | | Nos | 3 | 3 | | | | | | | | | | | |
| YMW | Fleming | Cynnar | 2 | 1 | 11.37 | 5.69 | 1 | Cynnar | 2 | 1 | 11.37 | 5.69 | 1 | 15/10/2025 | Cynnar | 2 | 1 | 11.37 | 5.69 | 1 | 24/03/2026 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| | | Hwyr | 2 | 1 | | | | Hwyr | 2 | 1 | | | | | Hwyr | 2 | 1 | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 2 | 1 | | | | Nos | 2 | 1 | | | | | Nos | 2 | 1 | | | | | | | | | | | |
| YMW | Morris | Cynnar | 4 | 5 | 19.9 | 24.16 | 1 | Cynnar | 4 | 4 | 17.06 | 21.32 | 1 | 15/10/2025 | Cynnar | 4 | 5 | 19.9 | 27 | 1 | 24/03/2026 | Do | Naddo | Newidiadau a wnaed y tu allan i'r adolygiadau cylch cyfrifo bob dwy flynedd oherwydd ad-drefnu'r sylfaen gwelyau a ariennir ar safle Maelor Wrecsam. | Do | Gor-25 a Rhag 25 | Do | Adolygwyd staffio oherwydd ad-drefnu'r sylfaen gwelyau a ariennir ar safle Maelor Wrecsam. |
| | | Hwyr | 4 | 4 | | | | Hwyr | 4 | 3 | | | | | Hwyr | 4 | 4 | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 3 | 4 | | | | Nos | 2 | 4 | | | | | Nos | 3 | 5 | | | | | | | | | | | |
| YMW | Pantomime | Cynnar | 5 | 4 | 21.32 | 19.9 | 1 | Cynnar | 4 | 3 | 15.63 | 14.21 | 1 | 15/10/2025 | Cynnar | 5 | 4 | 21.32 | 19.9 | 1 | 24/03/2026 | Do | Naddo | Newidiadau a wnaed y tu allan i'r adolygiadau cylch cyfrifo bob dwy flynedd oherwydd ad-drefnu'r sylfaen gwelyau a ariennir ar safle Maelor Wrecsam. | Do | Gor-25 a Rhag 25 | Do | Adolygwyd staffio oherwydd ad-drefnu'r sylfaen gwelyau a ariennir ar safle Maelor Wrecsam. |
| | | Hwyr | 4 | 4 | | | | Hwyr | 3 | 3 | | | | | Hwyr | 4 | 4 | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 3 | 3 | | | | Nos | 2 | 2 | | | | | Nos | 3 | 3 | | | | | | | | | | | |
| YMW | Tywysog Cymru | Cynnar | 4 | 4 | 19.9 | 19.9 | 1 | Cynnar | 3 | 3 | 14.21 | 14.21 | 1 | 15/10/2025 | Cynnar | 4 | 4 | 19.9 | 19.9 | 1 | 24/03/2026 | Do | Naddo | Newidiadau a wnaed y tu allan i'r adolygiadau cylch cyfrifo bob dwy flynedd oherwydd ad-drefnu'r sylfaen gwelyau a ariennir ar safle Maelor Wrecsam. | Do | Gor-25 a Rhag 25 | Do | Adolygwyd staffio oherwydd ad-drefnu'r sylfaen gwelyau a ariennir ar safle Maelor Wrecsam. |
| | | Hwyr | 4 | 4 | | | | Hwyr | 3 | 3 | | | | | Hwyr | 4 | 4 | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 3 | 3 | | | | Nos | 2 | 2 | | | | | Nos | 3 | 3 | | | | | | | | | | | |
| YG | Aran | Cynnar | 5 | 5 | 25.58 | 25.58 | 1 | Cynnar | 5 | 5 | 25.58 | 25.58 | 1 | 15/10/2025 | Cynnar | 5 | 5 | 25.58 | 25.58 | 1 | 24/03/2026 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| | | Hwyr | 5 | 5 | | | | Hwyr | 5 | 5 | | | | | Hwyr | 5 | 5 | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 4 | 4 | | | | Nos | 4 | 4 | | | | | Nos | 4 | 4 | | | | | | | | | | | |
| | | Cynnar | 4 | 6 | | | | Cynnar | 4 | 6 | | | | | Cynnar | 4 | 6 | | | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YGC | Ward 12 | Diwrnod Hir | | | 21.79 | 19.07 | 1 | Diwrnod Hir | | | 21.79 | 19.07 | 1 | 15/10/2025 | Diwrnod Hir | | | 21.79 | 19.07 | 1 | 24/03/2026 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 3 | 3 | | | | Nos | 3 | 3 | | | | | Nos | 3 | 3 | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| YG | Alaw (Llun - Gwener) | Cynnar | 4 | 3 | 17.66 | 14.21 | 1 | Cynnar | 4 | 3 | 17.66 | 14.21 | 1 | 15/10/2025 | Cynnar | 4 | 3 | 17.66 | 14.21 | 1 | 24/03/2026 | Do | Do | Yn ystod adolygiad hydref 2025, addaswyd staffio nyrsys cofrestredig ar benwythnosau i gefnogi gofynion brysbennu y tu allan i oriau. | Naddo | | | |
| | | Hwyr | 4 | 3 | | | | Hwyr | 4 | 3 | | | | | Hwyr | 4 | 3 | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | 1 | 0 | | | | Gyda'r nos | 1 | 0 | | | | | Gyda'r nos | 1 | 0 | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 2 | 2 | | | | Nos | 2 | 2 | | | | | Nos | 2 | 2 | | | | | | | | | | | |
| | Alaw (Sadwrn a Sul) | Cynnar | 3 | 3 | | | | Cynnar | 4 | 3 | | | | | Cynnar | 4 | 3 | | | | | | | | | | | |
| | | Hwyr | 3 | 3 | | | | Hwyr | 3 | 3 | | | | | Hwyr | 3 | 3 | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | 1 | 0 | | | | Gyda'r nos | 0 | 0 | | | | | Gyda'r nos | 0 | 0 | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 2 | 2 | | | | Nos | 2 | 2 | | | | | Nos | 2 | 2 | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| YGC | Enfys | Cynnar | 4 | 4 | 19.9 | 19.9 | 1 | Cynnar | 4 | 4 | 19.9 | 19.9 | 1 | 15/10/2025 | Cynnar | 4 | 4 | 19.9 | 19.9 | 1 | 24/03/2026 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| | | Hwyr | 4 | 4 | | | | Hwyr | 4 | 4 | | | | | Hwyr | 4 | 4 | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 3 | 3 | | | | Nos | 3 | 3 | | | | | Nos | 3 | 3 | | | | | | | | | | | |

**Atodiad: Adroddiad Cyflwyno Lefel Staff Nyrsio yn Flynyddol i'r Bwrdd**

| | |
|---|---|
| **Ymddiriedolaeth/bwrdd iechyd:** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| **Cyfnod yr adroddiad** | Ebrill 2025 - Mawrth 2026 |
| **Wardiau Llawfeddygol Acíwt i Gleifion Mewn** | 17 |

Mae angen cofnodi nifer y staff fesul shifft. Dylai'r wybodaeth adlewyrchu'r wybodaeth ar y templed hysbysu cleifion.

Yn unol â gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 a'i Chanllawiau Statudol cysylltiedig, y 'lefel staff nyrsio' yw nifer y nyrsys cofrestredig – a staff eraill y mae dyletswyddau nyrsio wedi'u dirprwyo iddynt gan nyrs gofrestredig – sy'n ofynnol i gyflawni'r rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd. Cydnabyddir bod amrywiaeth o weithwyr gofal iechyd proffesiynol ychwanegol sy'n cyfrannu at ddarparu a chydlynu gofal a thriniaeth cleifion. Fodd bynnag, nid yw'r staff hyn wedi'u cynnwys yn y data ar gyfer yr adroddiad hwn. Darperir rhagor o wybodaeth yn yr adroddiad sicrwydd blynyddol am y staff amlbroffesiynol ychwanegol sy'n cyfrannu at gydlynu a darparu gofal cleifion.

**Wardiau Llawfeddygol Acíwt i Gleifion Mewnol sy'n Oedolion**

| | | Adroddwyd i'r Bwrdd ym mis Mai 2025 | | | | | | Cyfrifwyd yn ystod cylch hydref 2025 | | | | | | | Cyfrifwyd yn ystod cylch gwanwyn 2026 | | | | | | | Adolygiadau cylch cyfrifo ddwywaith y flwyddyn, ac unrhyw newidiadau a wnaed a'r sail resymegol yn ystod cylchoedd cyfrifo gwanwyn 2025 a hydref 2025 | | | Unrhyw adolygiadau heblaw cyfrifo ddwywaith y flwyddyn. Os oes, rhowch sail resymegol dros unrhyw newidiadau a wnaed | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Safle | Enw'r Ward | SHIFFT | Rhestr staffio wedi'i chynllunio fel y nodir yn y cyflwyniad blynyddol i adroddiad y Bwrdd (ym mis Tachwedd: RN (bandiau 5 a 6) | HCSW (bandiau 2, 3 a 4) | Staff Gofynnol fel y nodwyd yn y cyflwyniad blynyddol i adroddiad y Bwrdd (ym mis Tachwedd 2024) gan gynnwys: CYFANSWM RN WTE (bands 5 &6) | CYFANSWM HCSW WTE (bandiau 2,3 a 4) | CYFANSWM Prif Nyrs ward ychwanegol Band 7 WTE | SHIFFT | Rhestr staffio wedi'i chynllunio a gyfrifwyd gan y person dynodedig yn ystod cylch gwanwyn 2025: RN (band 5 a 6) | HCSW (bandiau 2,3 a 4) | Staff Gofynnol fel y'i cyfrifwyd gan y bobl ddynodedig yn ystod cylch gwanwyn 2025 gan gynnwys cynnydd o 26.9%: CYFANSWM RN WTE (bandiau 5 a 6) | CYFANSWM HCSW WTE (bandiau 2,3 a 4) | CYFANSWM Prif Nyrs ward ychwanegol Band 7 WTE | Y dyddiad y cyfrifodd y person dynodedig y lefel staff nyrsio | SHIFFT | Rhestr staffio wedi'i chynllunio a gyfrifwyd gan y person dynodedig yn ystod cylch hydref 2025: RN (bandiau 5 a 6) | HCSW (bandiau 2,3 a 4) | Staff Gofynnol fel y'i cyfrifwyd gan y bobl ddynodedig yn ystod cylch hydref 2025 gan gynnwys cynnydd o 26.9%: CYFANSWM RN WTE (bandiau 5 a 6) | CYFANSWM HCSW WTE (bandiau 2,3 a 4) | CYFANSWM Prif Nyrs ward ychwanegol Band 7 WTE | Y dyddiad y cyfrifodd y person dynodedig y lefel staff nyrsio | Cwblhawyd (Do/Na) | Newidiwyd | Rhesymeg | Cwblhawyd (Do/Naddo) | Dyddiad | Newidiwyd | Rhesymeg |
| YMW | Cleifion sy'n cyrraedd | Cynnar | 5 | 4 | 22.74 | 19.9 | 1 | Cynnar | 3 | 2 | 14.21 | 11.37 | 1 | 15/10/2025 | Cynnar | 5 | 4 | 22.74 | 19.9 | 1 | 24/03/2026 | Do | Naddo | Newidiadau a wnaed y tu allan i'r adolygiadau cylch cyfrifo bob dwy flynedd oherwydd ad-drefnu'r sylfaen gwelyau a ariennir ar safle Maelor Wrecsam. | Do | Gor-25 a Rhag 25 | Do | Adolygwyd staffio oherwydd ad-drefnu'r sylfaen gwelyau a ariennir ar safle Maelor Wrecsam. |
| | | Hwyr | 5 | 4 | | | | Hwyr | 3 | 2 | | | | | Hwyr | 5 | 4 | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 3 | 3 | | | | Nos | 2 | 2 | | | | | Nos | 3 | 3 | | | | | | | | | | | |
| YMW | Erddig | Cynnar | 5 | 4 | 25.58 | 19.9 | 1 | Cynnar | 5 | 4 | 25.58 | 19.9 | 1 | 15/10/2025 | Cynnar | 5 | 4 | 25.58 | 19.9 | 1 | 24/03/2026 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| | | Hwyr | 5 | 4 | | | | Hwyr | 5 | 4 | | | | | Hwyr | 5 | 4 | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 4 | 3 | | | | Nos | 4 | 3 | | | | | Nos | 4 | 3 | | | | | | | | | | | |
| YMW | Mason | Cynnar | 4 | 6 | 19.9 | 24.16 | 1 | Cynnar | 4 | 6 | 19.9 | 24.16 | 1 | 15/10/2025 | Cynnar | 4 | 6 | 19.9 | 24.16 | 1 | 24/03/2026 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| | | Hwyr | 4 | 5 | | | | Hwyr | 4 | 5 | | | | | Hwyr | 4 | 5 | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 3 | 3 | | | | Nos | 3 | 3 | | | | | Nos | 3 | 3 | | | | | | | | | | | |
| YMW | Glyndŵr | Cynnar | 5 | 3 | 25.58 | 17.06 | 1 | Cynnar | 5 | 3 | 25.58 | 17.06 | 1 | 15/10/2025 | Cynnar | 5 | 3 | 25.58 | 17.06 | 1 | 24/03/2026 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| | | Hwyr | 5 | 3 | | | | Hwyr | 5 | 3 | | | | | Hwyr | 5 | 3 | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 4 | 3 | | | | Nos | 4 | 3 | | | | | Nos | 4 | 3 | | | | | | | | | | | |
| YMW | U5 (Llun – Gwener) | Cynnar | 3 | 2 | 13.4 | 7.72 | 1 | Cynnar | 3 | 2 | 13.4 | 7.72 | 1 | 15/10/2025 | Cynnar | 3 | 2 | 13.4 | 7.72 | 1 | 24/03/2026 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| | | Hwyr | 3 | 2 | | | | Hwyr | 3 | 2 | | | | | Hwyr | 3 | 2 | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 2 | 1 | | | | Nos | 2 | 1 | | | | | Nos | 2 | 1 | | | | | | | | | | | |
| | U5 (Sadwrn a Sul) | Cynnar | 2 | 1 | | | | Cynnar | 2 | 1 | | | | | Cynnar | 2 | 1 | | | | | | | | | | | |
| | | Hwyr | 2 | 1 | | | | Hwyr | 2 | 1 | | | | | Hwyr | 2 | 1 | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 2 | 1 | | | | Nos | 2 | 1 | | | | | Nos | 2 | 1 | | | | | | | | | | | |
| YG | Tegid | Cynnar | 5 | 4 | 25.58 | 19.9 | 1 | Cynnar | 5 | 4 | 25.58 | 19.9 | 1 | 15/10/2025 | Cynnar | 5 | 4 | 25.58 | 19.9 | 1 | 24/03/2026 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| | | Hwyr | 5 | 4 | | | | Hwyr | 5 | 4 | | | | | Hwyr | 5 | 4 | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 4 | 3 | | | | Nos | 4 | 3 | | | | | Nos | 4 | 3 | | | | | | | | | | | |
| YG | Dulas | Cynnar | 6 | 4 | 28.43 | 22.74 | 1 | Cynnar | 6 | 4 | 28.43 | 22.74 | 1 | 15/10/2025 | Cynnar | 6 | 4 | 28.43 | 22.74 | 1 | 24/03/2026 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| | | Hwyr | 6 | 4 | | | | Hwyr | 6 | 4 | | | | | Hwyr | 6 | 4 | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 4 | 4 | | | | Nos | 4 | 4 | | | | | Nos | 4 | 4 | | | | | | | | | | | |
| YG | Ogwen | Cynnar | 4 | 5 | 19.9 | 25.58 | 1 | Cynnar | 4 | 5 | 19.9 | 25.58 | 1 | 15/10/2025 | Cynnar | 4 | 5 | 19.9 | 25.58 | 1 | 24/03/2026 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| | | Hwyr | 4 | 5 | | | | Hwyr | 4 | 5 | | | | | Hwyr | 4 | 5 | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 3 | 4 | | | | Nos | 3 | 4 | | | | | Nos | 3 | 4 | | | | | | | | | | | |
| YG | Enlli | Cynnar | 3 | 3 | 14.21 | 14.21 | 1 | Cynnar | 3 | 3 | 14.21 | 14.21 | 1 | 15/10/2025 | Cynnar | 3 | 3 | 14.21 | 14.21 | 1 | 24/03/2026 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| | | Hwyr | 3 | 3 | | | | Hwyr | 3 | 3 | | | | | Hwyr | 3 | 3 | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 2 | 2 | | | | Nos | 2 | 2 | | | | | Nos | 2 | 2 | | | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YGC | Ward 3 | Cynnar | 4 | 4 | 21.79 | 21.79 | 1 | Cynnar | 4 | 4 | 21.79 | 21.79 | 1 | 15/10/2025 | Cynnar | 4 | 4 | 21.79 | 21.79 | 1 | 24/03/2026 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| | | Hwyr | 4 | 4 | | | | Hwyr | 4 | 4 | | | | | Hwyr | 4 | 4 | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 4 | 4 | | | | Nos | 4 | 4 | | | | | Nos | 4 | 4 | | | | | | | | | | | |
| YGC | Ward 5 | Cynnar | 5 | 4 | 21.79 | 19.07 | 1 | Cynnar | 5 | 4 | 21.79 | 19.07 | 1 | 15/10/2025 | Cynnar | 5 | 4 | 21.79 | 19.07 | 1 | 24/03/2026 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| | | Hwyr | 5 | 4 | | | | Hwyr | 5 | 4 | | | | | Hwyr | 5 | 4 | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 3 | 3 | | | | Nos | 3 | 3 | | | | | Nos | 3 | 3 | | | | | | | | | | | |
| YGC | Ward 7 | Cynnar | 5 | 4 | 21.79 | 21.79 | 1 | Cynnar | 5 | 4 | 21.79 | 21.79 | 1 | 15/10/2025 | Cynnar | 5 | 4 | 21.79 | 21.79 | 1 | 24/03/2026 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| | | Hwyr | 5 | 4 | | | | Hwyr | 5 | 4 | | | | | Hwyr | 5 | 4 | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 3 | 4 | | | | Nos | 3 | 4 | | | | | Nos | 3 | 4 | | | | | | | | | | | |
| YGC | Ward 8 | Cynnar | 4 | 4 | 19.07 | 19.07 | 1 | Cynnar | 4 | 4 | 19.07 | 19.07 | 1 | 15/10/2025 | Cynnar | 4 | 4 | 19.07 | 19.07 | 1 | 24/03/2026 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| | | Hwyr | 4 | 4 | | | | Hwyr | 4 | 4 | | | | | Hwyr | 4 | 4 | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 3 | 3 | | | | Nos | 3 | 3 | | | | | Nos | 3 | 3 | | | | | | | | | | | |
| ABH | Ward 6 ABH (Llun - Gwener) | Cynnar | 4 | 3 | 15.57 | 13.62 | 1 | Cynnar | 4 | 3 | 15.57 | 13.62 | 1 | 15/10/2025 | Cynnar | 4 | 3 | 15.57 | 13.62 | 1 | 24/03/2026 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| | | Hwyr | 4 | 3 | | | | Hwyr | 4 | 3 | | | | | Hwyr | 4 | 3 | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 2 | 2 | | | | Nos | 2 | 2 | | | | | Nos | 2 | 2 | | | | | | | | | | | |
| | Ward 6 ABH (Sadwrn a Sul) | Cynnar | 3 | 3 | | | | Cynnar | 3 | 3 | | | | | Cynnar | 3 | 3 | | | | | | | | | | | |
| | | Hwyr | 3 | 3 | | | | Hwyr | 3 | 3 | | | | | Hwyr | 3 | 3 | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 2 | 2 | | | | Nos | 2 | 2 | | | | | Nos | 2 | 2 | | | | | | | | | | | |
| YGC | Ward 19a Glaslyn (Llun – Gwener) | Cynnar | 2 | 2 | 11.37 | 7.72 | 1 | Cynnar | 2 | 2 | 11.37 | 7.72 | 1 | 15/10/2025 | Cynnar | 2 | 2 | 11.37 | 7.72 | 1 | 24/03/2026 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| | | Hwyr | 2 | 2 | | | | Hwyr | 2 | 2 | | | | | Hwyr | 2 | 2 | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 2 | 1 | | | | Nos | 2 | 1 | | | | | Nos | 2 | 1 | | | | | | | | | | | |
| | Ward 19a Glaslyn (Sadwrn a Sul) | Cynnar | 2 | 1 | | | | Cynnar | 2 | 1 | | | | | Cynnar | 2 | 1 | | | | | | | | | | | |
| | | Hwyr | 2 | 1 | | | | Hwyr | 2 | 1 | | | | | Hwyr | 2 | 1 | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 2 | 1 | | | | Nos | 2 | 1 | | | | | Nos | 2 | 1 | | | | | | | | | | | |
| YMW | Bromfield | Cynnar | 2 | 1 | 11.37 | 5.69 | 1 | Cynnar | 2 | 1 | 11.37 | 5.69 | 1 | 15/10/2025 | Cynnar | 2 | 1 | 11.37 | 5.69 | 1 | 24/03/2026 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| | | Hwyr | 2 | 1 | | | | Hwyr | 2 | 1 | | | | | Hwyr | 2 | 1 | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 2 | 1 | | | | Nos | 2 | 1 | | | | | Nos | 2 | 1 | | | | | | | | | | | |
| YG | Ffrancon | Cynnar | 2 | 2 | 11.37 | 8.53 | 1 | Cynnar | 2 | 2 | 11.37 | 8.53 | 1 | 15/10/2025 | Cynnar | 2 | 2 | 11.37 | 8.53 | 1 | 24/03/2026 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| | | Hwyr | 2 | 2 | | | | Hwyr | 2 | 2 | | | | | Hwyr | 2 | 2 | | | | | | | | | | | |
| | | Diwrnod Hir | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | Diwrnod Hir | | | | | | | | | | | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 2 | 1 | | | | Nos | 2 | 1 | | | | | Nos | 2 | 1 | | | | | | | | | | | |

**Atodiad: Adroddiad Cyflwyno Lefel Staff Nyrsio yn Flynyddol i'r Bwrdd**

| | |
|---|---|
| **Ymddiriedolaeth/bwrdd iechyd:** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| **Cyfnod yr adroddiad** | Ebrill 2025 - Mawrth 2026 |
| **Wardiau Cleifion Mewnol Pediatrig** | 3 |

Mae angen cofnodi nifer y staff fesul shifft. Dylai'r wybodaeth adlewyrchu'r wybodaeth ar y templed hysbysu cleifion.

Yn unol â gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 a'i Chanllawiau Statudol cysylltiedig, y 'lefel staff nyrsio' yw nifer y nyrsys cofrestredig – a staff eraill y mae dyletswyddau nyrsio wedi'u dirprwyo iddynt gan nyrs gofrestredig – sy'n ofynnol i gyflawni'r rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd. Cydnabyddir bod amrywiaeth o weithwyr gofal iechyd proffesiynol ychwanegol sy'n cyfrannu at ddarparu a chydlynu gofal a thriniaeth cleifion. Fodd bynnag, nid yw'r staff hyn wedi'u cynnwys yn y data ar gyfer yr adroddiad hwn. Darperir rhagor o wybodaeth yn yr adroddiad sicrwydd blynyddol am y staff amlbroffesiynol ychwanegol sy'n cyfrannu at gydlynu a darparu gofal cleifion.

**Wardiau Cleifion Mewnol Pediatrig**

| | | Adroddwyd i'r Bwrdd ym mis Mai 2025 | | | | | | Cyfrifwyd yn ystod cylch hydref 2025 | | | | | | | Cyfrifwyd yn ystod cylch gwanwyn 2026 | | | | | | | Adolygiadau cylch cyfrifo ddwywaith y flwyddyn, ac unrhyw newidiadau a wnaed a'r sail resymegol yn ystod cylchoedd cyfrifo gwanwyn 2025 a hydref 2025 | | | Unrhyw adolygiadau heblaw cyfrifo ddwywaith y flwyddyn. Os oes, rhowch sail resymegol dros unrhyw newidiadau a wnaed | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Safle | Enw'r Ward | SHIFFT | Rhestr staffio wedi'i chynllunio fel y nodir yn y cyflwyniad blynyddol i adroddiad y Bwrdd (ym mis Tachwedd: RN (bandiau 5 a 6) | HCSW (bandiau 2, 3 a 4) | Staff Gofynnol fel y nodwyd yn y cyflwyniad blynyddol i adroddiad y Bwrdd (ym mis Tachwedd 2024) gan gynnwys: CYFANSWM RN WTE (bandiau 5 a 6) | CYFANSWM HCSW WTE (bandiau 2, 3 a 4) | CYFANSWM Prif Nyrs ward ychwanegol Band 7 WTE | SHIFFT | Rhestr staffio wedi'i chynllunio a gyfrifwyd gan y person dynodedig yn ystod cylch gwanwyn 2025: RN (bandiau 5 a 6) | HCSW (bandiau 2, 3 a 4) | Staff Gofynnol fel y'i cyfrifwyd gan y bobl ddynodedig yn ystod cylch gwanwyn 2025 gan gynnwys cynnydd o 26.9%: CYFANSWM RN WTE (bandiau 5 a 6) | CYFANSWM HCSW WTE (bandiau 2, 3 a 4) | CYFANSWM Prif Nyrs ward ychwanegol Band 7 WTE | Y dyddiad y cyfrifodd y person dynodedig y lefel staff nyrsio | SHIFFT | Rhestr staffio wedi'i chynllunio a gyfrifwyd gan y person dynodedig yn ystod cylch hydref 2025: RN (bandiau 5 a 6) | HCSW (bandiau 2, 3 a 4) | Staff Gofynnol fel y'i cyfrifwyd gan y bobl ddynodedig yn ystod cylch hydref 2025 gan gynnwys cynnydd o 26.9%: CYFANSWM RN WTE (bandiau 5 a 6) | CYFANSWM HCSW WTE (bandiau 2, 3 a 4) | CYFANSWM Prif Nyrs ward ychwanegol Band 7 WTE | Y dyddiad y cyfrifodd y person dynodedig y lefel staff nyrsio | Cwblhawyd (Do/Na) | Newidiwyd | Rhesymeg | Cwblhawyd (Do/Naddo) | Dyddiad | Newidiwyd | Rhesymeg |
| | | Cynnar | | | | | | Cynnar | | | | | | | Cynnar | | | | | | | | | | | | | |
| | | Hwyr | | | | | | Hwyr | | | | | | | Hwyr | | | | | | | | | | | | | |
| YMW | Uned y Plant | Diwrnod Hir | 5 | 2 | 28.43 | 8.53 | 1 | Diwrnod Hir | 5 | 2 | 28.43 | 8.53 | 1 | 15/10/2025 | Diwrnod Hir | 5 | 2 | 28.43 | 8.53 | 1 | 24/03/2026 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 5 | 1 | | | | Nos | 5 | 1 | | | | | Nos | 5 | 1 | | | | | | | | | | | |
| | | Cynnar | | | | | | Cynnar | | | | | | | Cynnar | | | | | | | | | | | | | |
| | | Hwyr | | | | | | Hwyr | | | | | | | Hwyr | | | | | | | | | | | | | |
| YGC | Uned y Plant | Diwrnod Hir | 5 | 2 | 28.43 | 11.37 | 1 | Diwrnod Hir | 5 | 2 | 28.43 | 11.37 | 1 | 15/10/2025 | Diwrnod Hir | 5 | 2 | 28.43 | 11.37 | 1 | 24/03/2026 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 5 | 2 | | | | Nos | 5 | 2 | | | | | Nos | 5 | 2 | | | | | | | | | | | |
| | | Cynnar | | | | | | Cynnar | | | | | | | Cynnar | | | | | | | | | | | | | |
| | | Hwyr | | | | | | Hwyr | | | | | | | Hwyr | | | | | | | | | | | | | |
| YG | Uned y Plant (Llun - Gwener) | Diwrnod Hir | 5 | 2 | 28.43 | 8.53 | 1 | Diwrnod Hir | 5 | 2 | 28.43 | 8.53 | 1 | 15/10/2025 | Diwrnod Hir | 5 | 2 | 28.43 | 8.53 | 1 | 24/03/2026 | Do | Naddo | Dim newid i'r staff | Naddo | | | |
| | | Gyda'r nos | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | Gyda'r nos | | | | | | | | | | | | | |
| | | Nos | 5 | 1 | | | | Nos | 5 | 1 | | | | | Nos | 5 | 1 | | | | | | | | | | | |

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

# Bwrdd Iechyd

## ADRODDIAD BLYNYDDOL 2025/26
## PARODRWYDD AM ARGYFYNGAU, GWYDNWCH AC YMATEB

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 28 Mai 2026 |
| **Statws Cyhoeddi** | Agored / Cyhoeddus |
| | Amherthnasol |
| **Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad** | Joanne Gauntlett, Dirprwy Bennaeth Parodrwydd am Argyfyngau, Gwydnwch ac Ymateb (EPRR)<br><br>Sharon Scott, Pennaeth Parodrwydd am Argyfyngau, Gwydnwch ac Ymateb (EPRR) |
| **Enw a theitl yr Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol** | Jane Moore<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd |

| | |
|---|---|
| **Pwrpas yr Adroddiad** | Cadarnhau i'w Gymeradwyo gan y Bwrdd |

| **Crynodeb Gweithredol** |
|---|
| Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ofynion statudol Parodrwydd am Argyfyngau, Gwydnwch ac Ymateb (EPRR) a osodwyd ar y Bwrdd Iechyd gan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl (2004) a Deddf y GIG (2006) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2012), fel sy'n ofynnol gan Fframwaith EPRR y GIG.<br><br>Gofynnir i'r Bwrdd wneud y canlynol:<br>i. Cael sicrwydd bod y Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau (PPHP) wedi cadarnhau'r papur i'w gymeradwyo gan y Bwrdd;<br>ii. Nodi'r prif weithgareddau a'r ymateb i ddigwyddiadau ac argyfyngau yn ystod 2025/26;<br>iii. Cael sicrwydd bod BIPBC yn barod i ymateb i argyfwng a'i fod yn gallu parhau i ddarparu gofal diogel i gleifion;<br>iv. Cael sicrwydd lle nodwyd bylchau mewn gwydnwch, bod y camau gweithredu a'r cerrig milltir allweddol wedi cael eu hymgorffori yn y cynllun gwaith blynyddol. |

| **Yr ymgysylltu (mewnol/allanol) a wnaed hyd yma (gan gynnwys derbyn/ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp)**<br>Cyflwynwyd i'r Grŵp Sicrwydd Argyfyngau Sifil Posibl 24/03/2026 | | |
|---|---|---|
| **Pwyllgor / Grŵp / Unigolion** | **Dyddiad** | **Canlyniad, Tystiolaeth a Data** |
| Grŵp Sicrwydd Argyfyngau Sifil Posibl | 16.04.26 | Cymeradwywyd i symud ymlaen drwy'r Pwyllgor Gweithredol, Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau, a Llywodraeth Cymru. |
| Pwyllgor Gweithredol | 29.04.26 | Diwygiadau wedi'u cynnwys fel yr awgrymwyd. |
| Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau | 07.05.26 | Cefnogwyd y papur ar gyfer cymeradwyaeth y Bwrdd. |

| **Byrfoddau / Rhestr Termau** | |
|---|---|
| **Byrfodd** | **Teitl Llawn** |
| CBRN(e) | Cemegol, Biolegol, Ymbelydrol, Niwclear a Ffrwydrol |
| CCA 2004 | Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 |
| CCAG | Grŵp Sicrwydd Argyfyngau Sifil Posibl (cyfarfod mewnol BIPBC) |
| CCC | Pwyllgor Argyfyngau Sifil Posibl |
| CEO | Prif Swyddog Gweithredol |
| COBR | Ystafell Friffio Swyddfa'r Cabinet |
| CONOPS | Dogfen Egluro Gweithrediadau |
| DECC | Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd |
| DEFRA | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| DPH | Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd |
| ECCW | Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru) |
| EMRTS | Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys |
| EPAG | Grŵp Cynghori Cynllunio Rhag Argyfyngau GIG Cymru |
| EPRR | Parodrwydd am Argyfyngau, Gwydnwch ac Ymateb |
| HAC | Canolfan Cymorth Dyngarol |
| HACMG | Grŵp Rheoli'r Ganolfan Cymorth Dyngarol |
| HAZMAT | Deunyddiau Peryglus |

| **Byrfoddau / Rhestr Termau** | |
|---|---|
| **Byrfodd** | **Teitl Llawn** |
| HCC | Canolfan Rheoli Iechyd |
| HECC | Canolfan Rheoli Argyfyngau mewn Ysbytai |
| IMT | Tîm Rheoli Digwyddiadau |
| JESIP | Egwyddorion Rhyngweithredu'r Cydwasanaethau Brys |
| ALl | Awdurdod Lleol |
| LRF | Fforwm Gwydnwch Lleol |
| METHANE | Fformat strwythuredig, safonedig a ddefnyddir i rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau critigol<br>Digwyddiad Mawr (**M**ajor Incident), Union leoliad (**E**xact location), Math o Ddigwyddiad (**T**ype of Incident), Peryglon (**H**azards), Mynediad (**A**ccess), Nifer yr anafusion (**N**umber of casualties), Gwasanaethau brys (**E**mergency services) |
| MIO | Swyddog Digwyddiadau Meddygol |
| MIP | Cynllun Digwyddiadau Mawr |
| NBBB | Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Gwelyau Llosgiadau |
| GIG | Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| NRW | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| NWLRF | Fforwm Gwydnwch Lleol y Gogledd |
| NWP | Heddlu Gogledd Cymru |
| NWFRS | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| OOH | Y Tu Allan i Oriau |
| PHE | Public Health England |
| PHW | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| RD | Resilience Direct |
| RDPH | Cyfarwyddwr Rhanbarthol Iechyd y Cyhoedd |
| REAP | Cynllun Gweithredu Uwchgyfeirio Adnoddau (ar gyfer WAST) |
| SAG | Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch |
| SCC | Canolfan Cydgysylltu Strategol |
| SCG | Grŵp Cydgysylltu Strategol (amlasiantaeth) |
| SID | Safle Rhannu, Gwybodaeth a Thrafod |

| Byrfoddau / Rhestr Termau | |
|---|---|
| **Byrfodd** | **Teitl Llawn** |
| SITREP | Adroddiad Sefyllfa |
| STAC | Y Gell Cyngor Gwyddonol a Thechnegol |
| TCC | Canolfan Cydgysylltu Tactegol |
| TCG | Grŵp Cydgysylltu Tactegol (amlasiantaeth) |
| UEC | Gofal Brys ac Argyfwng |
| UKHSA | Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU |
| LIC | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| WAST | Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| WB | Cyflenwadau gwaed Cymru |
| WCCC | Pwyllgor Argyfyngau Sifil Posibl Cymru |
| WRF | Fforwm Gwydnwch Cymru |

GIG CYMRU NHS WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

# Adroddiad Blynyddol 2025 / 2026
# Parodrwydd am Argyfyngau, Gwydnwch ac Ymateb



**Cynnwys**


1. CRYNODEB GWEITHREDOL ....................7
2. CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN ....................7
3. ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU ....................9
4. GWEITHGAREDDAU CYSON ....................11
5. GWEITHGAREDDAU NEWYDD ....................11
6. STRATEGAETH GWRTHDERFYSGAETH TRAWSLYWODRAETHOL (CONTEST) ....................12
7. FFORWM GWYDNWCH LLEOL Y GOGLEDD (NWLRF) ....................13
8 RESILIENCE DIRECT ....................14
9 CYFARFODYDD A GORUCHWYLIO ....................14
10. RHEOLI PERFFORMIAD ....................15
11. CYDGYSYLLTU YMATEB I ARGYFWNG LLEOL (DIGWYDDIAD MAWR) ......15
12. 4x4 RESPONSE WALES ....................16
13. TUDALEN NET BETSI ....................16
14. HYFFORDDIANT / YMARFERION / GWEITHDAI / SEMINARAU ....................16
15. ADRODD YN ÔL ....................22
16. CANLLAWIAU ....................22
17. CYNNYDD YN ERBYN BLAENORIAETHAU 2025/26 ....................23
18. Y FFORDD YMLAEN DROS Y 12 MIS NESAF ....................24
19. CRYNODEB ....................25
20. Y PRIF RISGIAU / MATERION I’W HUWCHGYFEIRIO ....................26
21. ARGYMHELLION ....................27

ATODIAD 1 – YMATEB I DDIGWYDDIADAU LLEOL ....................29

ATODIAD 2 – RHEOLI PERFFORMIAD ....................34

# ADRODDIAD BLYNYDDOL PARODRWYDD AM ARGYFYNGAU, GWYDNWCH AC YMATEB O 1 EBRILL 2025 HYD AT 31 MAWRTH 2026

## 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

1.1 Rhaid i'r Bwrdd Iechyd gynllunio ar gyfer ystod eang o ddigwyddiadau ac argyfyngau a allai effeithio ar ei allu i ddarparu gofal iechyd neu ofal cleifion effeithiol ac ymatebol, a gallu ymateb iddynt. Er enghraifft, gallai'r rhain fod yn effeithiau tywydd garw, pandemig arall, damweiniau torfol, gweithredu diwydiannol neu ddamwain trafnidiaeth fawr. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg a sicrwydd o wydnwch parhaus y Bwrdd Iechyd i gynllunio ar gyfer ystod eang o ddigwyddiadau ac argyfyngau, a allai effeithio ar ei allu i ddarparu gofal iechyd effeithiol ac ymatebol, a dod drostynt.

## 2. CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN

2.1 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu'r gofynion statudol a'r ystyriaethau cenedlaethol sy'n pennu agenda gwydnwch BIPBC, neu a fydd yn dylanwadu ar yr agenda yn y dyfodol.

2.2 **Deddf Argyfyngau Sifil Posibl (CCA) 2004 – Dyletswyddau Ymatebwyr Categori 1**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ymatebydd Categori 1, fel y nodir yn Neddf Argyfyngau Sifil Posibl (CCA) 2004, gyda dyletswydd i baratoi, cynllunio a lliniaru yn erbyn digwyddiadau sy'n tarfu ac sy'n bygwth lles pobl yn y DU, amgylchedd lle yn y DU neu ryfel neu derfysgaeth sy'n bygwth niwed difrifol i ddiogelwch y DU. Mae gan asiantaethau Categori 1 eraill gyfrifoldeb tebyg i weithio mewn partneriaeth i liniaru ar y tarfu ac mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio mewn partneriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i gyflawni'r nod hwn.

2.3 Rhaid i'r Bwrdd Iechyd gadw'r hyblygrwydd a'r gallu i ymateb i argyfyngau lleol (digwyddiadau mawr) a chynnal gweithgareddau hanfodol ar yr un pryd. Rhaid i'r hyblygrwydd hwn ystyried unrhyw newidiadau trosiannol a newidiadau yn y dyfodol yn y Bwrdd Iechyd.

2.4 Fel ymatebydd categori un, mae'r Bwrdd Iechyd yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau amddiffyn sifil canlynol pe bai argyfwng yn digwydd ac o'r herwydd mae'n ofynnol iddo wneud y canlynol:

- Asesu'r risg o argyfyngau'n digwydd a defnyddio hyn fel sail i gynlluniau lleol wrth gefn
- Rhoi cynlluniau argyfwng ar waith
- Rhoi trefniadau rheoli parhad busnes ar waith
- Rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd am faterion amddiffyn sifil a chynnal trefniadau i rybuddio, hysbysu a chynghori'r cyhoedd os bydd argyfwng
- Rhannu gwybodaeth ag ymatebwyr lleol eraill i wella trefniadau cydgysylltu

- Cydweithredu ag ymatebwyr lleol eraill i wella trefniadau cydgysylltu ac effeithlonrwydd.

Sylwch: Mae’r Ddeddf yn cael ei hategu gan reoliadau statudol a chanllawiau anstatudol.

2.5 Y prif lasbrint ar gyfer sicrhau gwydnwch yw Canllawiau Craidd Cynllunio ar gyfer Argyfyngau GIG Cymru Llywodraeth Cymru, sy'n amlinellu'r gofyniad sydd ar Fyrddau i baratoi, cynnal ac ymarfer cynlluniau argyfwng wrth weithio mewn partneriaeth. Mae nifer o ofynion eraill wedi'u cynnwys ynddo, yn amrywio o gynnal system Rheoli Parhad Busnes, gallu Cemegol, Biolegol, Radiolegol, Niwclear a Ffrwydrol (CBRNe), i'r ddyletswydd gwrthderfysgaeth, Prevent.

2.6 O dan ofynion canllawiau EPRR y GIG, rhaid i'r Bwrdd Iechyd wneud y canlynol:

- Cael cynlluniau ymateb i ddigwyddiadau addas a chyfredol sy'n nodi sut byddai'n ymateb i ddigwyddiad mawr / argyfwng sy'n effeithio ar y gymuned ehangach neu ar ddarparu ei wasanaethau, a sut byddai'n dod drostynt
- Mabwysiadu cynlluniau parhad busnes i'w alluogi i gynnal neu adfer darpariaeth ei wasanaethau hanfodol os bydd tarfu sylweddol.

2.7 Mae trefniadau Parhad Busnes yn gofyn am welliant parhaus ac arfer cynlluniau sydd wedi’u cwblhau. Mae hyn wedi cael ei ymgorffori yn rhaglen waith y tîm EPRR ar gyfer 2026/27.

2.8 Mae angen gwella trefniadau parodrwydd ac ymateb CBRNe a Hazmat ar gyfer y Bwrdd Iechyd yn barhaus. Bydd hyn yn cael sylw drwy gynllun gwaith 2026/27 i ddatblygu ymhellach, yn unol â threfniadau cynllunio cenedlaethol, fesurau cadarn sy'n cynnwys pennu'r offer ymateb CBRN sydd ar gael ar hyn o bryd yn y tri safle ysbyty acíwt, unrhyw stociau gwrthfesur cenedlaethol, lleol a / neu ar y safle a datblygu cynlluniau ymateb CBRNe / Hazmat. Ar ôl cwblhau'r ymarfer cwmpasu a diweddaru cynlluniau lleol, bydd ymarfer pen-bwrdd yn cael ei gynnal i ddilysu cadernid cynlluniau.

2.9 Mae’r adroddiad hwn yn cofnodi’r hyn a gyflawnwyd rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2026, ynghyd â’r disgwyliadau ar gyfer datblygu yn y dyfodol, gan gynnwys:

- Rôl a chyfrifoldebau EPRR presennol BIPBC
- Gweithgareddau cyson drwy gydol 2025/26
- Gweithgareddau newydd yn ystod 2025/26
- Strategaeth Gwrthderfysgaeth (CONTEST)
- Fforwm Gwydnwch y Gogledd
- Cyfarfodydd a goruchwylio
- Rheoli Perfformiad
- Hyfforddiant, Ymarfer a Chydgysylltu ymateb i ddigwyddiadau
- Y ffordd ymlaen dros y 12 mis nesaf

## 3. ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

3.1 Mae gan BIPBC nifer o gyfrifoldebau o dan EPRR gan gynnwys:

- Penodi / enwebu Cyfarwyddwr Gweithredol sy'n gyfrifol am gynllunio ar gyfer argyfyngau iechyd. Dylai'r person hwn adrodd i'r bwrdd yn rheolaidd ar risgiau lleol o ran darparu gofal iechyd, a / neu iechyd y boblogaeth leol;
- Cynnal tîm cynllunio ar gyfer argyfyngau iechyd sydd â digon o adnoddau ac sydd wedi'i hyfforddi'n ddigonol, sy'n gallu rheoli'r gwaith parodrwydd o ddydd i ddydd, a chefnogi'r Cyfarwyddwr Gweithredol a BIPBC;
- Cynnal rhwydwaith cynllunio rhag argyfyngau iechyd, drwy EPAG (Grŵp Cynghori Cynllunio ar gyfer Argyfyngau GIG Cymru) (a fforymau eraill), i gytuno ar faterion gwydnwch iechyd;
- Cynnal prosesau sicrwydd drwy ymarfer mapio a, lle mae bylchau o ran capasiti, cymryd camau i sicrhau darpariaeth;
- Cynnal y capasiti i ddarparu rota ar-alwad 24/7 drwy un pwynt cyswllt a chynlluniau rhoi ar waith. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cymorth ymateb a digwyddiadau ar gael i staff ar y rotas ar-alwad, i Gymunedau Iechyd Integredig a cheisiadau trawsffiniol am gymorth ar y cyd;
- Sicrhau bod BIPBC yn cyfrannu'n llawn at unrhyw raglen hyfforddi ac ymarfer amlasiantaeth leol, yn enwedig, ond heb fod yn gyfyngedig i, ymarferion sy'n ofyniad statudol ar gyfer safleoedd risg uchel lleol, h.y. ffatrïoedd cemegol, Porthladd Caergybi, trwyddedu meysydd chwaraeon ac ati.

### 3.2 Prif Weithredwr BIPBC

Mae'r Prif Weithredwr yn cael cyfrifoldeb gan y Bwrdd dros sicrhau bod EPRR yn cael ei weithredu a'i fod yn cydymffurfio, ac mae'n gyfrifol am y canlynol:

- Nodi arweinyddiaeth i gydgysylltu a rheoli cynlluniau ar gyfer poblogaethau lleol. Dylai'r trefniadau hyn adeiladu ar flynyddoedd blaenorol lle bynnag y bo modd i sicrhau nad yw'r gwersi a ddysgwyd a'r profiadau yn cael eu colli.
- Sicrhau bod trefniadau rheoli o ddydd i ddydd ar waith rhwng darparwyr a sefydliadau partner i ganiatáu i'r system ymdopi ag unrhyw anawsterau.
- Sicrhau bod gan bob Cymuned Iechyd Integredig drefniadau uwchgyfeirio a chyfathrebu clir ar waith. Bydd y rhain yn cynnwys sicrwydd bod galwadau cynadledda drwy Microsoft Teams yn cael eu trefnu gyda'r tîm EPRR a'r Tîm Ymateb i Ddigwyddiadau, os oes angen.

### 3.3 Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd

Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd sydd â'r cyfrifoldeb dirprwyedig dros EPRR ar gyfer y Bwrdd Iechyd. Mae'r gweithgareddau a nodir uchod yn cael eu cyflawni gan y Tîm EPRR ar ran Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd.

### 3.4 Y Tîm EPRR

Rôl y Tîm EPRR yw cynnal gofynion statudol a gweithgareddau cysylltiedig CCA 2004.

Mae'r tîm yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau data gan gynnwys IRIS, i lywio a chefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel.

Mae cymorth presennol y tîm EPRR i Ofal Brys ac Argyfwng yn darparu gwasanaeth pwrpasol nad yw'n cael ei efelychu mewn mannau eraill, gan alluogi BIPBC i gael sylfaen weithredol a chadarn ar y cyd, gan ddwyn ynghyd ddata, dadansoddiadau ac ymateb system naill ai o safbwynt system weithredol y GIG neu fel rhan o strwythur ymateb amlasiantaeth ehangach.

Mae'r tîm EPRR yn darparu cell cefnogi digwyddiadau ar unwaith ar gyfer y Comander Strategol a / neu Dactegol wrth asesu sefyllfa a gorchymyn a rheoli system gyfan.

Gellir crynhoi rôl a chyfrifoldebau presennol y tîm EPRR fel a ganlyn:

- Prosesau sicrwydd ac archwilio;
- Cydgysylltu cynrychiolaeth y GIG yng ngweithgareddau NWLRF;
- Cydgysylltu a chynnal cyfarfodydd ôl-drafod digwyddiadau'r GIG;
- Adolygu a chynnal cynlluniau ymateb i ddigwyddiadau;
- Hyfforddi ac ymarfer;
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys NWLRF, Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau, Cymunedau Iechyd Integredig, Gwasanaethau Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Menywod a Gofal Sylfaenol;
- Cynnal a goruchwylio rotas ar-alwad Strategol, Tactegol a Gweithredol;
- Arwain neu gefnogi ymateb y GIG i argyfwng lleol (digwyddiad mawr / parhad busnes);
- Cydgysylltu cyfranogiad y GIG yn ystod cyfnod adfer digwyddiad.

Mae'r tîm EPRR hefyd yn darparu'r canlynol:

- Rheolaeth weithredol o systemau gofal brys a gofal mewn argyfwng;
- Dwywaith y dydd, galwadau gwydnwch systemau / adroddiadau risg tactegol am risgiau a phwysau ar systemau er mwyn hysbysu galwadau Cenedlaethol;
- Ymgysylltu â Chymunedau Iechyd Integredig ynghylch cysoni cynlluniau uwchgyfeirio lleol a'u heffeithiolrwydd o ran lleddfu pwysau;
- Goruchwylio a rheoli trefniadau Cynllunio Penwythnos gan nodi risgiau allweddol a mesurau lliniaru ar draws y system;
- Darparu adroddiadau uwchgyfeirio gweithredol wythnosol i'r Tîm Gweithredol sy'n ymdrin â data'r Adran Achosion Brys, data staff / gweithlu, diweddariadau brechu a sganio'r gorwel EPRR;
- Asesu pwysau gofal brys ac argyfwng a chefnogi safleoedd i ddatrys problemau llif cleifion lle bo hynny'n briodol;
- Darparu adroddiadau ôl-drafod i ddylanwadu ar gynlluniau'r Bwrdd Iechyd yn y dyfodol a'u llywio;
- Parhau i gynnal y ddarpariaeth i reoli'r system leol ar gyfer materion capasiti arferol, dargyfeirio a phwysau'r gaeaf;

- Cefnogi UEC i gyflawni perfformiad boddhaol a monitro'r perfformiad hwnnw drwy SITREPs, perfformiad dyddiol yr Adran Achosion Brys a systemau cyfathrebu cydlynol;
- Cydgysylltu rotas ar-alwad Efydd (gweithredol), Arian (Tactegol) ac Aur (Strategol) a sicrhau bod staff yn cael gwybod am unrhyw risgiau posibl drwy'r cyfarfodydd cynllunio penwythnos.

4. **GWEITHGAREDDAU CYSON**

4.1 Mae nifer o weithgareddau EPRR cyson wedi cael eu cynnal yn 2025/26, gan gynnwys:

- Cymryd rhan yng ngweithgareddau Fforwm Gwydnwch Lleol y Gogledd (NWLRF) yn lleol;
- Cymryd rhan yng ngweithgareddau Gwydnwch y GIG yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol;
- Cynnal a phrofi rotas ar-alwad i gefnogi swyddogaeth gorchymyn a rheoli BIPBC;
- Datblygu a darparu rhagor o hyfforddiant i staff ar-alwad, Rheolwyr Safle Clinigol a chofnodwyr;
- Cadeirio grŵp Marwolaethau Torfol NWLRF a datblygu'r diwrnod galluoedd Marwolaethau Torfol a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2026;
- Cynnal safle net Betsi sy'n canolbwyntio ar faterion gwydnwch;
- Cynnal adnoddau Teams ar gyfer staff ar-alwad;
- Cydgysylltu cyfranogiad BIPBC mewn ymarferion amlasiantaeth a chyfleoedd hyfforddi Cymru Gyfan;
- Ymgymryd â holl ffrydiau gwaith y Rhaglen Waith Flynyddol sydd wedi cynnwys mwy na 10 ffrwd waith ar gyfer 2025/26. Mae'r rhaglen waith flynyddol ar gyfer 2026/27 hefyd wedi cael ei chreu a'i chymeradwyo ar gyfer adrodd yn ei herbyn yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

5. **GWEITHGAREDDAU NEWYDD**

5.1 Mae gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn adrodd (2025/26) wedi cynyddu lefelau cyffredinol parodrwydd a gwydnwch yn y Bwrdd Iechyd; mae'r rhain yn cynnwys:

- Datblygu llawlyfr cofnodwyr newydd;
- Cynnal hyfforddiant logisteg;
- Datblygu Sianel Teams Ar Alwad;
- Adolygu a diweddaru'r Drefn Rheoli Parhad Busnes;
- Ffurfio grŵp i edrych yn benodol ar hyfforddiant digwyddiadau mawr a ddarperir i glinigwyr yr Adran Achosion Brys;
- Adolygu Cynllun Tywydd Garw y Bwrdd Iechyd;
- Ymateb i 24 o argyfyngau cenedlaethol a lleol (digwyddiadau mawr, parhad busnes) ar lefelau strategol neu dactegol;
- Datblygu a hwyluso gweithdai parhad busnes gyda gwasanaethau / cyfarwyddiaethau i godi ymwybyddiaeth a gwella gwydnwch;
- Dylunio a darparu Dosbarthiadau Meistr Gweithredol UEC;

- Datblygu a hwyluso gweithdy pwysau'r gaeaf / ôl-drafodaeth ymchwydd economi iechyd BIPBC;
- Creu dangosfwrdd parhad busnes ar gyfer monitro a chydymffurfio;
- Creu dangosfwrdd ar gyfer monitro cymwyseddau hyfforddi staff ar-alwad;
- Darparu cymorth i'r rhaglen Gofal Brys ac Argyfwng;
- Mapio risgiau NSRA ym Matrics BCU;
- Rheoli'r gweithgareddau gweithredol dyddiol sy'n gysylltiedig â gofal brys a gofal mewn argyfwng;
- Cymryd rhan yn y gweithdy cenedlaethol ar gyfer datblygu Cynllun Tywydd Garw UKHSA 2026.

5.2 Mae'r Tîm EPRR yn cydgysylltu'r rotas ar-alwad Efydd (Gweithredol), Arian (Tactegol), ac Aur (Strategol) yn gynhwysfawr, i sicrhau arweinyddiaeth gadarn a gwneud penderfyniadau effeithiol ar draws y Bwrdd Iechyd bob amser. Fel rhan o'r swyddogaeth hon, mae'r tîm yn arwain y broses cynllunio'n wythnosol ar gyfer y penwythnos. Mae hyn yn sicrhau bod uwch arweinwyr a swyddogion ar-alwad yn gwbl ymwybodol o risgiau sy'n dod i'r amlwg, pwysau gweithredol, ac unrhyw wendidau posibl yn y system cyn penwythnos. Ar ôl pob penwythnos, mae adborth o safleoedd a gwasanaethau'n cael ei goladu, ei adolygu a'i ddosbarthu'n systematig i Benaethiaid Safleoedd ac Arweinwyr Gwasanaeth i gefnogi dysgu sefydliadol a chryfhau parodrwydd ar gyfer y dyfodol. Mae'r ddolen adborth strwythuredig hon yn golygu bod modd nodi themâu, risgiau a meysydd i'w gwella yn brydlon, gan sicrhau bod dysgu'n cael ei wreiddio a bod y Bwrdd Iechyd yn cynnal system ar-alwad gadarn a gwybodus.

## 6. STRATEGAETH GWRTHDERFYSGAETH TRAWSLYWODRAETHOL (CONTEST)

6.1 Mae CONTEST yn ddull integredig trawslywodraethol o fynd i'r afael â therfysgaeth ac mae'n cynnwys dull gweithredu sy'n seiliedig ar bedair prif ffrwd waith, pob un ag amcan clir:

- Mynd ar drywydd - atal ymosodiadau terfysgol;
- Diogelu - cryfhau ein hamddiffyniad rhag ymosodiadau;
- Paratoi - lliniaru effaith ymosodiadau; ac
- Atal - atal pobl rhag bod yn derfysgwyr neu gefnogi eithafiaeth dreisgar.

6.2 Mae BIPBC yn parhau i gyfrannu'n weithredol at amcanion Diogelu, Paratoi ac Atal Strategaeth CONTEST y DU, gan sicrhau rôl gydlynol yn y sector iechyd o ran paratoi ar gyfer gwrthderfysgaeth ar draws y sefydliad.

6.3 Mae'r Tîm EPRR yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Diogelu i sicrhau cysondeb rhwng dyletswyddau Prevent, cyfrifoldebau diogelu sefydliadol, a threfniadau gwydnwch ehangach. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan ar y cyd mewn fforymau amlasiantaeth perthnasol.

6.4 Drwy gydol 2026/27 bydd y Tîm EPRR yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Diogelu i gefnogi hyfforddiant integredig a fydd yn cefnogi'r gwaith o ganfod pryderon

yn gynnar ac uwchgyfeirio pryderon yn briodol. Bydd hyn yn helpu i wella ymwybyddiaeth weithredol ar draws gwasanaethau clinigol ac anghlinigol. Y nod cyffredinol yw cael rhaglen fwy strwythuredig o hyfforddiant wedi'i dargedu a chodi ymwybyddiaeth i sicrhau y cydymffurfir yn barhaus â dyletswyddau statudol a mwy o wydnwch sefydliadol.

## 7. FFORWM GWYDNWCH LLEOL Y GOGLEDD (NWLRF)

7.1 Er mwyn cyflawni'r dyletswyddau o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl, mae angen i BIPBC weithredu'n effeithiol fel corff ar y cyd â'i bartneriaid NWLRF.

7.2 Mae BIPBC yn mynychu NWLRF ar ran yr holl Gymunedau Iechyd Integredig ac yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r fforwm.

7.3 Gofynion gorfodol NWLRF yw:

- Rhaid i ymatebwyr Categori Un gael eu cynrychioli'n effeithiol;
- Rhaid iddo gyfarfod o leiaf unwaith bob chwe mis, ond mae'n cyfarfod bob chwarter;
- Rhaid iddo hefyd gyflawni polisi'r llywodraeth drwy gydgysylltu'r ymateb lleol i fentrau'r llywodraeth;
- Cynllunio ar gyfer ffurfio Grŵp Cydgysylltu Strategol (SCG) neu Grŵp Cydgysylltu Tactegol (TCG) i gydgysylltu'r ymateb amlasiantaeth i argyfwng;
- Ymarfer cynlluniau a dysgu gwersi o ymarferion, argyfyngau a pholisi sy'n dod i'r amlwg a'u rhoi ar waith.

7.4 Mae'r strwythur gwydnwch yng Ngogledd Cymru yn canolbwyntio ar NWLRF. Mae NWLRF a nifer o is-grwpiau allweddol yn canolbwyntio ar elfennau penodol o'r ffrwd waith Galluoedd Cenedlaethol sy'n gofyn am fesurau lliniaru lleol. Mae presenoldeb BIPBC yn cael ei gydgysylltu neu ei ddarparu gan y tîm EPRR ar gyfer pob un o'r is-grwpiau a restrir isod:

- Grŵp Asesu Risg
- Grŵp Rhybuddio a Hysbysu
- Grŵp Rheoli Gwersi
- Grŵp Cydgysylltu, Hyfforddi ac Ymarfer
- Grŵp Parodrwydd Logisteg a Seilwaith
- Grŵp Dysgu a Datblygu / Gallu i Ryngweithredu
- Grŵp Tywydd Garw
- Grŵp Iechyd
- Grŵp Canolfan Cymorth Dyngarol a Gwydnwch Cymunedol
- Grŵp Marwolaethau Torfol
- Grŵp Amgylcheddol
- Grŵp Seilwaith Digidol

Mae Cymunedau Iechyd Integredig yn cael eu harfarnu o ran y gweithgareddau a amlygwyd uchod drwy Grŵp Sicrwydd Argyfyngau Sifil Posibl BIPBC.

7.5 Oherwydd y nifer fawr o gyfarfodydd lle mae angen cynrychiolaeth BIPBC, mae'r cyfarfodydd hanfodol sy'n digwydd dro ar ôl tro wedi cael eu cofnodi gydag arweinydd a dirprwy wedi'u nodi ar gyfer pob un.

**8 RESILIENCE DIRECT**

8.1 Mae Dirprwy Benaethiaid EPRR yn cynnal ac yn diweddaru tudalennau BIPBC ar yr adnodd ar-lein diogel Resilience Direct. (Mae Resilience Direct yn llwyfan rhannu gwybodaeth yn ddiogel sydd wedi'i achredu'n llawn ar gyfer Ymatebwyr Brys. Mae'n caniatáu i wybodaeth amser real gael ei rhannu ar draws yr holl ffiniau sefydliadol a daearyddol). Mae'r llwyfan hwn yn cael ei ddefnyddio fwyfwy fel cyfrwng diogel ar gyfer cyfathrebu rhyngasiantaethol, rheoli digwyddiadau a chydgysylltu.

**9 CYFARFODYDD A GORUCHWYLIO**

**9.1 Grŵp Sicrhau Parodrwydd am Argyfwng (EPAG)**

Mae EPAG yn grŵp rhanbarthol o Arweinwyr Parodrwydd am Argyfwng y GIG Cymru Gyfan sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r saith Bwrdd Iechyd yng Nghymru. Mae'n cyfarfod bob chwarter i ganolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud ag EPRR y GIG, datblygu rhaglenni sicrwydd a rhannu arferion gorau ledled Cymru.

**9.2 Grŵp Sicrwydd Argyfyngau Sifil Posibl (CCAG)**

Rôl y grŵp hwn, sy'n cael ei arwain gan y Weithrediaeth, yw arwain, cydgysylltu a llywodraethu'r gwaith o gynllunio a pharatoi ar gyfer argyfyngau sifil posibl ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, gan gynnwys ymateb i argyfwng a chynllunio parhad busnes, ar draws yr holl wasanaethau, yn unol â Chanllawiau Craidd Cynllunio ar gyfer Argyfyngau GIG Cymru Llywodraeth Cymru.

- Datblygu, cefnogi a hyrwyddo'r diwylliant paratoi ar gyfer argyfyngau sifil posibl / gwydnwch ar draws y bwrdd iechyd
- Goruchwylio a chydgysylltu'r gwaith o gynllunio ar gyfer argyfyngau a chynllunio ar gyfer parhad busnes
- Sicrhau bod cynlluniau ar gyfer parhad busnes ac ymateb i argyfyngau yn cael eu datblygu yn unol â chanllawiau cenedlaethol neu risgiau sy'n dod i'r amlwg, a'u bod yn cael eu hadolygu a'u profi yn unol â chanllawiau a pholisïau
- Sicrhau bod seilwaith gorchymyn, rheoli a chyfathrebu addas yn cael ei sefydlu a'i gynnal i gefnogi ymateb i argyfwng / digwyddiad mawr
- Adolygu, gweithredu a dosbarthu canllawiau, cynlluniau a gweithdrefnau lleol a chenedlaethol perthnasol
- Nodi effaith deddfwriaeth / canllawiau newydd neu ddiwygiedig a'u hadlewyrchu mewn gweithdrefnau
- Rheoli unrhyw gynlluniau gweithredu sy'n deillio o wersi a ddysgwyd ar ôl digwyddiadau ymarferol, neu ymarferion lleol neu genedlaethol
- Cytuno ar raglen hyfforddi flynyddol a'i chefnogi ar gyfer y bwrdd iechyd, gan sicrhau bod gan staff perthnasol y sgiliau i ymgymryd â'u rôl ddynodedig yn ystod argyfwng / digwyddiad mawr

- Cytuno ar raglen ymarfer flynyddol a'i chefnogi ar gyfer cynlluniau ymateb i argyfyngau / digwyddiadau mawr a chynlluniau parhad busnes a bod angen ymarfer hynny ar adegau penodol
- Cymryd rhan mewn unrhyw archwiliad o drefniadau gwydnwch
- Adolygu ac uwchgyfeirio risgiau EPRR
- Adrodd yn flynyddol i'r Bwrdd gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd bob chwe mis.

9.3 **Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch (SAG)**

Yr Awdurdodau Lleol sy'n cadeirio'r Grwpiau Cynghori ar Ddiogelwch (SAG) lleol. Pwrpas SAG yw darparu digwyddiad wedi'i gynllunio a'i drefnu'n ddiogel i'r cyhoedd; sy'n bodloni'r holl rwymedigaethau statudol o dan ddeddfwriaeth berthnasol; sy'n bodloni'r safonau diogelwch sy'n berthnasol i bob digwyddiad cyhoeddus ledled Gogledd Cymru, ac adolygu a chytuno ar argymhellion a wnaed mewn Cyfarfodydd Cynllunio Asiantaethau ar y Cyd

Mae Dirprwy Bennaeth EPRR yn cynrychioli'r Bwrdd Iechyd yng nghyfarfodydd lleol y SAG ac yn dosbarthu gwybodaeth am ddigwyddiadau i'r sianel Teams ar-alwad pan fydd effaith, neu pan fydd potensial i gael effaith, ar wasanaethau iechyd lleol. Mae'r wybodaeth hon ar gael yn rhwydd i staff ar rotas ar-alwad gweithredol, tactegol a strategol BIPBC.

## 10. RHEOLI PERFFORMIAD

10.1 Mae rheoli perfformiad yn cael ei gynnal drwy nifer o weithgareddau rhagweithiol ac adeiladol sydd wedi'u cynllunio i alluogi BIPBC i gyrraedd y safonau gofynnol.

10.2 Mae BIPBC wedi cynnal hunanasesiad yn erbyn Safonau Craidd GIG Lloegr ar gyfer EPRR. Yn dilyn hunanasesiad, ac yn unol â'r diffiniadau o gydymffurfio, datganodd y sefydliad ei fod yn dangos 'Sicrwydd Cyfyngedig' yn erbyn Safonau Craidd EPRR. Roedd hyn yn seiliedig ar gamau a gymerwyd dros y deuddeg mis blaenorol ac ymrwymiad y CCG i gynllunio ac ymateb yn effeithiol i EPRR. Mae gan y tîm EPRR gynllun gwaith manwl i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau a nodwyd. Gwiriwyd hyn yn dilyn proses graffu gan y Tîm Archwilio Mewnol.

Sylwch: Er bod Safonau Craidd EPRR penodol Cymru yn cael eu datblygu, mae BIPBC yn defnyddio Safonau Craidd EPRR sefydledig GIG Lloegr fel fframwaith hunanasesu gan fod y rhain yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl.

## 11. CYDGYSYLLTU YMATEB I ARGYFWNG LLEOL (DIGWYDDIAD MAWR)

11.1 Er mwyn sicrhau ymateb cydgysylltiedig i unrhyw argyfwng lleol (digwyddiad mawr) p'un a yw'n ymwneud â'r GIG neu'n cynnwys partneriaid amlasiantaeth, mae gan BIPBC drefniadau ar waith i hwyluso ymateb priodol.

11.2 Yn dibynnu ar raddfa a natur yr argyfwng lleol (digwyddiad mawr), mae trefniadau ar waith i weithredu ymateb GIG ar raddfa ar draws y tair Cymuned Iechyd Integredig.

11.3 Cafodd y drefn ei phrofi ddiwethaf drwy ymarfer rhoi ar waith o dan arweiniad WAST ar 26 Tachwedd 2025.

12. **4x4 RESPONSE WALES**

12.1 Yn ystod gaeaf 2025/26, manteisiodd BIPBC unwaith eto ar gefnogaeth 4x4 Response Wales (4x4 RW), sefydliad gwirfoddol sy'n elusen gofrestredig â chysylltiad â'r rhwydwaith National 4x4 Response sy'n gweithredu ledled y DU.

12.2 Mae gan 4x4 RW dimau rhanbarthol ledled Cymru, ac mae eu haelodau'n rhoi eu hamser, eu cerbydau a'u harbenigedd yn wirfoddol i gynorthwyo'r Gwasanaethau Brys, Swyddogion Cynllunio at Argyfyngau, Grwpiau Gwydnwch, Awdurdodau Iechyd, a sefydliadau partner eraill yn ystod cyfnodau o dywydd garw neu angen brys. Yn unol â'r cytundeb presennol rhwng BIPBC a 4x4 RW, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y defnyddir yr adnodd hwn i sicrhau bod staff sy'n angenrheidiol i gynnal gwasanaethau hanfodol yn gallu teithio'n ddiogel i'r gwaith. Drwy gydol cyfnod y gaeaf, roedd nifer o achosion lle'r oedd tywydd garw yn golygu bod angen eu defnyddio i gefnogi parhad gwasanaethau clinigol a gweithredol allweddol. Mae rhagor o waith yn mynd rhagddo gyda 4x4 RW i baratoi ar gyfer gaeaf 2026/27 i gryfhau a symleiddio'r broses archebu a rhoi ar waith, gan sicrhau mwy o wydnwch ac eglurder i bob parti.

13. **TUDALEN BETSINET**

13.1 Mae tudalennau mewnrwyd EPRR wedi parhau i gael eu cynnal a'u diweddaru drwy gydol y deuddeg mis diwethaf, gan ddarparu ffynhonnell ganolog a hygyrch o wybodaeth gyfredol am wydnwch, trefniadau digwyddiadau mawr, parhad busnes, a dyletswyddau statudol ar gyfer holl staff BIPBC. Er mwyn cryfhau hygyrchedd a pharodrwydd gweithredol ymhellach, sefydlwyd Sianel Microsoft Teams ar-alwad yn 2025 ar gyfer staff sy'n ymgymryd â chyfrifoldebau Strategol (Aur), Tactegol (Arian), a Gweithredol (Efydd) ar-alwad. Mae'r sianel benodol hon yn cynnwys yr holl rotas ar-alwad perthnasol, copïau digidol o'r pecynnau ar-alwad, cyfeiriaduron cyswllt, templedi gweithredol, a deunyddiau cyfeirio ategol. Mae mynediad yn cael ei reoli'n briodol ac ar gael i'r Comander Strategol (Aur), y Comander Tactegol (Arian), Gweithredol (Efydd), y staff cymorth gweinyddol a'r cofnodwyr hyfforddedig. Mae cyflwyno'r llwyfan hwn wedi gwella'r broses o rannu gwybodaeth, wedi sicrhau mynediad cyson at ddogfennau cyfredol, ac wedi cefnogi dull mwy effeithlon a chadarn o gydgysylltu trefniadau ar-alwad.

14. **HYFFORDDIANT / YMARFERION / GWEITHDAI / SEMINARAU**

14.1 Mae Canllawiau Craidd Llywodraeth Cymru ar Gynllunio ar gyfer Argyfyngau yn GIG Cymru 2015 yn nodi ei bod yn ofynnol o leiaf i sefydliadau'r GIG gynnal

ymarfer byw bob tair blynedd, ymarfer pen-bwrdd a sefydlu'r ganolfan reoli'n ffisegol bob blwyddyn a phrofi'r broses o ddosbarthu cyfathrebiadau bob chwe mis. Er mwyn bodloni'r gofynion hyn, mae'r tîm EPRR wedi cydgysylltu holl bresenoldeb lleol y GIG (fel arsylwyr neu fel cyfranogwyr) mewn ymarferion, gweithdai a seminarau amlasiantaeth.

Gwahoddir Uwch Reolwyr BIPBC sy'n rhan o'r rota Ar-Alwad i fynychu hyfforddiant perthnasol a drefnir gan y Tîm EPRR.

Gofynnir i holl staff BIPBC sy'n rhan o'r rota ar-alwad i gwblhau dogfen dadansoddi anghenion hyfforddi. Bydd canlyniadau'r rhain yn helpu'r tîm EPRR i benderfynu ar gynnwys a lefel yr hyfforddiant a fydd yn cael ei ddarparu i staff ar-alwad yn ystod y flwyddyn nesaf.

Mae'r tîm EPRR wedi darparu'r hyfforddiant canlynol i staff BIPBC:
- **Hyfforddiant i bobl sy'n cofnodi** – mae 32 aelod o staff wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn;
- **Hyfforddiant ar-alwad i Gyfarwyddwyr / Comanderiaid Strategol, Tactegol a Gweithredol** – mae 159 (80%) o staff ar-alwad wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn bellach.
- **Rheolwyr safle clinigol** – mae 27 (69%) rheolwr safle clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn.
- **Dosbarthiadau Meistr Gweithredol** – mae 54 aelod o staff wedi mynychu'r sesiynau hyn
- **Sesiwn Ymwybyddiaeth Parhad Busnes** – daeth 29 aelod o staff i'r sesiwn hon
- **Hyfforddiant / gweithdai ymwybyddiaeth parhad busnes sy'n benodol i wasanaethau** – mae'r rhain wedi cael eu cyflwyno naill ai ar Teams neu wyneb yn wyneb. Hyd yma, mae'r sesiynau cymorth wedi cael eu darparu i Wasanaethau Menywod, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, Switsfwrdd, Corfforaethol, Iechyd y Cyhoedd a Chymuned Iechyd Integredig y Gorllewin.
- Hyfforddiant a ddarperir gan sawl asiantaeth
- Aur Cymru
- Arian Cymru (JESIP Tactegol)
- JESIP Gweithredol
- Hyfforddiant Trefn Reoli Dactegol / Arian GSB
- Hyfforddiant Risg LRF Academi Gwydnwch y DU

### 14.2 Ymarferion a gweithdai

Mae BIPBC wedi cymryd rhan ac wedi cydgysylltu cyfranogiad y GIG mewn nifer o ymarferion yn ystod 2025/26, gan gynnwys:

- **IMAD Cymuned Iechyd Integredig y Gorllewin, Ymarfer Parhad Busnes Tŷ Llewelyn 10/04/2025**

Defnyddiwyd yr ymarfer hwn i ymarfer ymateb tactegol a gweithredol i ddigwyddiad mawr a arweiniodd at wagio Uned Iechyd Meddwl Tŷ Llywelyn. Roedd yr ymarfer yn darparu heriau ar amrywiaeth o faterion y byddai'n rhaid mynd i'r afael â nhw wrth ymateb i ddigwyddiad mawr sy'n arwain at wagio'r adeilad ar raddfa fawr. Roedd yr ymarfer yn profi ac yn gwerthuso ymateb uniongyrchol a pharhaus Uned Iechyd Meddwl Tŷ Llywelyn i wagio, darparu lloches a throsglwyddo grŵp amrywiol o gleifion ag ystod eang o anghenion dibyniaeth.

- **Ymarfer Solaris (30/04/2025)**
  Roedd Ymarfer Solaris yn ymarfer pen-bwrdd a gynhaliwyd dros Microsoft Teams i ymarfer trefniadau a chynlluniau amlasiantaeth ar gyfer ymateb i bandemig ar lefel LRF, i baratoi ar gyfer Ymarfer Pegasws (ceir rhagor o fanylion am Ymarfer Pegasws yn nes ymlaen yn yr adran hon).

- **IMAD Cymuned Iechyd Integredig y Dwyrain, Ymarfer Parhad Busnes Uned Heddfan 30/05/2025**
  Defnyddiwyd yr ymarfer hwn i ymarfer ymateb ar unwaith a pharhaus ar lefel tactegol a gweithredol petai digwyddiad mawr yn arwain at wagio Uned Iechyd Meddwl Heddfan. Roedd yr ymarfer yn rhoi heriau i gyfranogwyr weithio drwyddynt gan ymdrin ag amrywiaeth o faterion y byddai'n rhaid mynd i'r afael â nhw wrth ymateb i ddigwyddiad mawr sy'n arwain at wagio'r adeilad ar raddfa fawr, gan gynnwys gwagio, darparu lloches a throsglwyddo grŵp amrywiol o gleifion sydd ag amrywiaeth eang o anghenion dibyniaeth.

- **Digwyddiad dysgu ac ôl-drafodaeth Gaeaf 2024/25 (05/06/2025)**
  Daeth y digwyddiad hwn â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol at ei gilydd i fyfyrio ar y gwersi a nodwyd yn ystod Gaeaf 2024/25. Edrychwyd ar syniadau a chyfleoedd i lunio'r ymateb i'r gaeaf sydd o'n blaenau (2025/26). Nod y digwyddiad oedd datblygu Fframwaith Cynllunio'r Gaeaf gyda disgwyliadau clir a chytuno ar gerrig milltir cynllunio allweddol ar gyfer Gaeaf 2025/26 i adeiladu cynlluniau "realistig" ac osgoi ceisiadau trawsbynciol ac ailadrodd cynlluniau.

- **Storm Gaeaf 2025**
  Cynhaliwyd y gweithdy amlasiantaeth hwn ar 11 Mehefin 2025 gyda'r prif siaradwr yn rhannu'r gwersi a ddysgwyd o'r ymateb i lifogydd dinistriol Valencia, a'r sesiynau grŵp yn canolbwyntio ar bwysigrwydd JESIP mewn ymateb amlasiantaeth.

- **Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd Cyfarwyddiaeth Iechyd y Cyhoedd 17/06/2025**

- **Ymarfer Parhad Busnes Uned Ablett IMAD (Cymuned Iechyd Integredig Canolog) 10/07/2025 (Ymarfer Clirio Ward)**

Ymarfer pen-bwrdd oedd yr Ymarfer Clirio Ward i brofi gallu Uned Iechyd Meddwl Oedolion Ablett i ymateb i frigiad o achosion lle bu'n rhaid gwagio'r uned.

- **Ymarfer y Ddraig Oren (WXM FC) 15/07/2025**
  Roedd Ymarfer y Ddraig Oren yn ymarfer pen-bwrdd a gynhaliwyd i brofi'r ymateb amlasiantaeth i Ddigwyddiad Mawr yn Stadiwm Wrecsam a'r ardaloedd cyfagos, gan gynnwys yr orsaf drenau. Ysgogwyd yr ymarfer hwn gan gynnydd yn y risg oherwydd mwy o weithgarwch a digwyddiadau pêl-droed yn ardal Wrecsam. Yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig oedd yn arwain yr ymarfer, ac roedd Trafnidiaeth Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, y GIG a'r Gwasanaeth Tân yn bresennol. Y nod oedd gwerthuso'r gallu i ryngweithredu a'r cynlluniau ymateb presennol.

- **Ymarfer Efelychu Diogelu Iechyd (17/07/2025)**
  Adolygu ac asesu capasiti, sgiliau, profiad ac adnoddau offer y Gwasanaeth Diogelu Iechyd ar gyfer ymateb i geisiadau brys am samplau cymunedol

- **28/07/2025 – Cymuned Iechyd Integredig y Dwyrain, Ymarfer AHPs BC (Ymarfer Gofal wedi'i Ddatgysylltu)**
  Roedd Ymarfer Gofal wedi'i Ddatgysylltu yn ymarfer pen-bwrdd i brofi gwydnwch ac effeithiolrwydd trefniadau parhad busnes ar draws Gwasanaethau Therapi yng Nghymuned Iechyd Integredig y Dwyrain mewn ymateb i ymosodiad seiber sy'n analluogi mynediad at gofnodion / systemau clinigol.

- **Dŵr Cymru – Ymarfer Dyffryn Conwy (13/08/2025)**
  Roedd senario'r ymarfer pen-bwrdd amlasiantaeth hwn yn seiliedig ar bibell ddŵr Bryn Cowlyd yn byrstio, a ddigwyddodd ym mis Ionawr 2025. Er bod y sefyllfa yr un fath, newidiwyd yr adeg o'r flwyddyn i'r haf, gan gyflwyno heriau ychwanegol i asiantaethau weithio drwyddynt.

- **Ymarfer Pegasws (22-23/09/2025, 13-14/10/2025 a 3-4/11/2025)**
  Roedd Ymarfer Pegasws yn ymarfer pen-bwrdd cenedlaethol haen 1, dan arweiniad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gyda'r nod o asesu parodrwydd, galluoedd a strategaethau ymateb y DU yn drylwyr yng nghyd-destun pandemig sy'n deillio o glefyd heintus newydd. Roedd yr Ymarfer yn canolbwyntio ar gamau cychwynnol pandemig, wedi'i strwythuro o amgylch tri phwynt amser allweddol.
  Cam 1: Tarddiad – 22 a 23 Medi 2025
  Cam 2: Cyfyngu – 13 a 14 Hydref 2025
  Cam 3: Lliniaru – 3 a 4 Tachwedd 2025.

- **Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd Tîm PH (09/10/2025)**
  Arweiniodd y tîm EPRR sesiwn hyfforddi ryngweithiol gyda Chyfarwyddiaeth Iechyd y Cyhoedd i godi ymwybyddiaeth.

- **Ymarfer Brathiadau (18/11/2025)**
  Ymarfer pen-bwrdd a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru dros Microsoft Teams oedd hwn. Roedd yr ymarfer hwn yn edrych ar yr ymateb amlasiantaeth i fosgitos goresgynnol yng Nghymru

- **Dosbarthu Cyfathrebiadau MI WAST (26/11/2025)**
  Cynhaliodd WAST ymarfer dosbarthu cyfathrebiadau mewn digwyddiadau mawr i brofi effeithiolrwydd eu systemau dosbarthu cyfathrebiadau. Dosbarthodd WAST adroddiad METHANE ffuglennol a'i anfon allan fel rhan o'r prawf cyfathrebu. Ar ôl derbyn yr ymarfer cyfathrebu ar gyfer digwyddiadau mawr ar lefel switsfwrdd, cysylltwyd â phob haen o BIPBC ar-alwad ar 26/11/2025 drwy brosesau gorchymyn a rheoli sefydledig.

- **Ymarfer Fframwaith Ymateb Achub Torfol mewn Digwyddiadau Morol Gogledd Cymru**
  Roedd yr ymarfer pen-bwrdd hwn yn seiliedig ar achos Achub Torfol mewn Digwyddiad Morol Torfol yng Ngogledd Cymru ac roedd yn gyfle i brofi'r Fframwaith Ymateb i Ddigwyddiadau Morol a oedd newydd gael ei gwblhau.

- **Ymarfer Annwn (Twnnel Conwy) 19/01/2026**
  Roedd Ymarfer Annwn yn ymarfer byw yn y twnnel, a oedd yn caniatáu i'r Gwasanaethau Brys ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ymarfer eu hymateb i ddigwyddiad mawr yn y twnnel.

- **Gweithdy Asesu Risg a Chanlyniadau Academi Gwydnwch y DU 28-29/01/2026**
  Pwrpas y gweithdy hwn oedd arfogi gweithwyr proffesiynol gwydnwch ac argyfyngau â'r wybodaeth a'r sgiliau i asesu, dehongli a chyflwyno gwybodaeth am risg yn effeithiol, gan sicrhau dealltwriaeth gynhwysfawr o gofrestrau risgiau cenedlaethol, cymunedol a sefydliadol a'u rôl mewn gwydnwch a chynllunio ar gyfer argyfyngau.

- **Ymarfer Mercurius 11/03/2026**
  Roedd hwn yn ymarfer cyfathrebu a fynychwyd gan dîm cyfathrebu mewnol BIPBC. Roedd wedi'i gynllunio i brofi a chryfhau galluoedd cyfathrebu amlasiantaeth yn ystod digwyddiad mawr a oedd yn denu diddordeb cyfryngau rhyngwladol.

- **Diwrnod Galluoedd Marwolaethau Torfol 18/03/2026**
  Roedd y digwyddiad hwn yn gyfle i bartneriaid amlasiantaeth gyflwyno eu hymateb a'u galluoedd i ddigwyddiad marwolaethau torfol.

14.3 **Seminar a gweithgareddau ychwanegol**
Er mwyn sicrhau datblygiad parhaus y swyddogaeth EPRR, mae BIPBC wedi cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau ychwanegol gan gynnwys:

- **Gweithdy Cenedlaethol i ddatblygu Cynllun Tywydd Garw UKHSA**
  Roedd y gweithdy cenedlaethol yn gyfle i arweinwyr iechyd a gofal cymdeithasol gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu Cynllun Tywydd Garw UKHSA ar gyfer 2026;

- **Cynhadledd Prevent Cymru 2026**
  Cynhaliwyd y gynhadledd ar-lein hon ar 25 Chwefror 2026 i gyflwyno a hyrwyddo prosesau a phrosiectau Prevent yng Nghymru o dan Fframwaith Strategaeth Prevent Llywodraeth y DU. Yn ystod sesiynau'r gynhadledd, edrychwyd ar dueddiadau sy'n dod i'r amlwg ym maes Prevent, gan gynnwys: Camwybodaeth/Twyllwybodaeth/Drwgwybodaeth; Diddordeb mewn Trais Torfol; Radicaleiddio Ar-lein; y math o gynnwys sydd ar gael ar-lein; gweithdrefnau Panel Channel, a; Gwneud atgyfeiriadau Prevent effeithiol.

- **Cynhadledd Argyfyngau Sifil Posibl Cymru 2025 – Agweddau Dynol Argyfyngau Sifil Posibl**
  Cynhaliwyd y digwyddiad hwn ar 1 Hydref 2025 ac roedd yn canolbwyntio ar Agweddau Dynol Argyfyngau Sifil Posibl. Rhannodd siaradwyr gwadd o gefndiroedd amrywiol eu profiadau a'u myfyrdodau personol o ganlyniad i'w cysylltiad â digwyddiadau arwyddocaol ledled y DU yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd y rhain yn cynnwys yr Ymosodiad yn Arena Manceinion, Ymosodiad Seiber Hackney a sefydlu Canolfan Cymorth Dyngarol.

- **Cynhadledd Health Prepared Wales**
  Cynhaliwyd y gynhadledd ar-lein hon ar 20 Tachwedd 2025 a daeth â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, gweithwyr proffesiynol parodrwydd am argyfyngau, gwydnwch ac ymateb, llunwyr polisïau a phartneriaid cymunedol at ei gilydd i fyfyrio ar y gwersi a nodwyd o argyfyngau'r gorffennol, archwilio'r heriau presennol, a chryfhau strategaethau parodrwydd, ymateb ac adfer amlasiantaeth ar draws GIG Cymru a'r system ehangach;

- **Cryfhau Seiberwydnwch Cymru**
  Cynhaliwyd y seminar ar-lein hwn a drefnwyd gan Fforwm Gwydnwch Lleol y De ar 19 Ionawr 2026. Daeth â chynrychiolwyr ynghyd o bob un o bedwar Grŵp Seilwaith Digidol Fforwm Lleol Cymru Gydnerth (LRF), gan ddarparu cyfle gwerthfawr i rannu gwybodaeth, cryfhau cydweithio, a chlywed gan amrywiaeth o siaradwyr gwadd am wella ein seiberwydnwch ar y cyd.

- **Piblinellau Perygl - Damweiniau Mawr a sesiwn Ymwybyddiaeth EPRR**
  Cynhaliwyd y sesiwn ar 21 Ionawr 2026 a'r bwriad oedd codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r dyletswyddau statudol a roddir ar sefydliadau NWLRF gan Reoliadau Diogelwch Piblinellau 1996 (PSR 1996).

- **Trefniadau ar gyfer Digwyddiadau Anafiadau Torfol yn GIG Cymru**
  Cynhaliwyd cyfres o sesiynau ymwybyddiaeth ynghylch Trefniadau Digwyddiadau Anafiadau Torfol GIG Cymru drwy gydol mis Chwefror 2026. Pwrpas y sesiynau ymwybyddiaeth hyn oedd cryfhau hyder ac eglurder yn GIG Cymru a fyddai'n ymateb i'r argyfyngau mwyaf heriol sy'n cael effaith sylweddol.

14.4 **Ymateb i Ddigwyddiadau Lleol**
Rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026, ymatebodd BIPBC i 25 o argyfyngau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys digwyddiadau mawr a digwyddiadau parhad busnes, naill ai ar lefel Strategol (Aur) neu Dactegol (Arian). Roedd y digwyddiadau hyn yn gofyn am wneud penderfyniadau cydlynol, ymgysylltu ar lefel amlasiantaeth, a defnyddio trefniadau EPRR sefydledig yn gyflym i gynnal parhad gwasanaethau a diogelu gofal cleifion. Mae ehangder ac amlder yr ymatebion hyn yn dangos y pwysau parhaus ar y system ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd hanfodol cynnal parodrwydd cadarn ar draws pob gwasanaeth. Mae pob digwyddiad wedi arwain at ddysgu sefydliadol gwerthfawr, sydd wedi cael ei gofnodi drwy brosesau ôl-drafod ffurfiol a'i ddefnyddio i gryfhau trefniadau gwydnwch ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae Atodiad 1 yn cynnwys dadansoddiad llawn o'r holl ddigwyddiadau a gafodd eu rheoli yn ystod y cyfnod adrodd.

## 15. ADRODD YN ÔL

15.1 Ar ôl ysgogi unrhyw ddigwyddiad mawr neu barhad busnes, mae'r Tîm EPRR yn cynnal proses ôl-drafod strwythuredig a chynhwysfawr i sicrhau bod dysgu sefydliadol yn cael ei gofnodi a'i wreiddio'n weithredol. Mae hyn yn cynnwys ôl-drafodaeth frys ar unwaith gyda'r rhai dan sylw i nodi arsylwadau cychwynnol, ac yna ôl-drafodaeth fanylach ar ôl i'r pwysau gweithredol leddfu. Mae gwybodaeth o'r ddau gam yn cael ei chyfuno mewn adroddiad ôl-drafodaeth ffurfiol, sy'n amlinellu canfyddiadau clir, y gwersi a nodwyd, a chynllun gweithredu gydag arweinwyr a enwir ac amserlenni diffiniedig. Mae'r adroddiadau hyn yn sicrhau atebolrwydd, yn hyrwyddo gwelliant parhaus, ac yn hwyluso'r gwaith o ledaenu gwersi a ddysgwyd ar draws timau a gwasanaethau perthnasol i gryfhau parodrwydd a gwytnwch cyffredinol y sefydliad.

## 16. CANLLAWIAU

16.1 Mae'r canllawiau canlynol wedi cael eu rhyddhau yn ystod 2025/26:

- Cynllun Tywydd Garw UKHSA – adolygodd BIPBC gynnwys y cynllun lleol a sicrhau bod camau'n cael eu cymryd yn lleol i gydymffurfio â'r canllawiau.

- Safonau Craidd GIG Lloegr ar gyfer Parodrwydd am Argyfyngau, Gwydnwch ac Ymateb – nod y safonau craidd yw nodi'n glir y safonau EPRR sylfaenol a ddisgwylir gan sefydliadau'r GIG yn Lloegr a darparwyr

gofal a ariennir gan y GIG. Er nad yw'r safonau hyn yn orfodol yng Nghymru, fe'u defnyddir i lywio gofynion cynllunio ac arferion gorau.

- Fframwaith Gwydnwch Cymru 2025 - Mae Fframwaith Gwydnwch Cymru 2025 yn ailddatgan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau risg ac effaith argyfyngau ac i weithio mewn partneriaeth i gryfhau parodrwydd Cymru. Mae'r Fframwaith yn nodi gweledigaeth a disgwyliadau Llywodraeth Cymru a sut bydd yn parhau i gefnogi ymatebwyr a Fforymau Gwydnwch Lleol. Mae rhaglen waith fewnol EPRR yn cyd-fynd yn llwyr â Fframwaith Gwydnwch Cymru.

- Iechyd Cyhoeddus Cymru – Canllawiau Dihalogi Cemegol ar gyfer Byrddau Iechyd. Rhyddhawyd y canllawiau hyn ym mis Ionawr 2025 ac maent yn cael eu hymgorffori mewn cynlluniau mewnol.

## 17. CYNNYDD YN ERBYN BLAENORIAETHAU 2025/26

17.1 Yn adroddiad blynyddol EPRR 2024/25, y blaenoriaethau i wella cadernid cyffredinol ar gyfer 2025/26 oedd:

- Ymarfer Pegasws
- Parhad Busnes
- Asesiad CBRN
- Ôl-drafodaeth y Gaeaf 2024/25
- Cynllun Ffliw Pandemig
- Hyfforddi ac Ymarfer
- Seiberddiogelwch
- Ymarfer Dosbarthu Cyfathrebiadau

17.2 Mae cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hyn fel a ganlyn:

- **Ymarfer Pegasws a Chynllun Ffliw Pandemig**
  Roedd Ymarfer Pegasws yn ymarfer pen-bwrdd cenedlaethol haen 1, dan arweiniad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gyda'r nod o asesu parodrwydd, galluoedd a strategaethau ymateb y DU yn drylwyr yng nghyd-destun pandemig sy'n deillio o glefyd heintus newydd. Cynhaliwyd yr ymarfer hwn drwy gydol mis Medi, mis Hydref a mis Tachwedd 2025. Mae'r ymarfer hwn wedi helpu i ddatblygu strwythur cynllun ymateb i bandemig y Bwrdd Iechyd sydd ar ffurf drafft ar hyn o bryd. Rhagwelir y bydd canllawiau cenedlaethol pellach i gefnogi'r ffrwd waith hon yn cael eu rhyddhau cyn bo hir.

- **Parhad Busnes**
  Ym mis Medi 2025, datblygodd a gweithredodd y Tîm EPRR Ddangosfwrdd Parhad Busnes cynhwysfawr, sef y mecanwaith ffurfiol cyntaf ar gyfer llywodraethu parhad busnes ac adrodd ar gydymffurfedd a gyflwynwyd yn BIPBC. Mae'r dangosfwrdd yn cynnwys system sgorio RAG i gofnodi a monitro statws pob Cynllun Parhad Busnes, wedi'i hategu gan lwybr

archwilio llywodraethu clir a dangosydd cydymffurfio cysylltiedig ar sail canrannau. Mae hyn yn darparu dull tryloyw a chyson o asesu parodrwydd sefydliadol. Prif nod y dangosfwrdd yw sicrhau bod holl Gynlluniau Parhad Busnes y Bwrdd Iechyd yn cael eu nodi, eu tracio, eu mesur a'u monitro'n rheolaidd, gan alluogi'r Tîm EPRR i nodi gwasanaethau sydd angen cymorth ychwanegol yn brydlon. Mae'r gwelededd uwch hwn yn cryfhau gwydnwch sefydliadol drwy sicrhau bod risgiau, bylchau ac anghenion gwella yn cael sylw systematig.

- **Asesiad CBRN**
  Mae'r ymarfer cwmpasu yn y tri safle Acíwt bellach wedi'i gwblhau ar y cyd â dadansoddiad o'r bwlch mewn hyfforddiant ac addysg. Bydd canlyniadau hyn yn cael eu defnyddio i fwrw ymlaen â'r rhaglen waith yn 2026/27.

- **Hyfforddi ac Ymarfer**
  Fel y gwelir yn Adran 13 yr adroddiad hwn, mae hyfforddiant sylweddol wedi cael ei ddarparu i staff ac mae nifer o gyfleoedd wedi bod i staff perthnasol gymryd rhan mewn ymarferion mewnol ac allanol i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau. Bydd cyfleoedd hyfforddi ac ymarfer mewnol ac allanol yn parhau i gael eu cynnig i staff allweddol er mwyn gwella cydymffurfedd. Mae dangosfwrdd hyfforddi wedi cael ei ddatblygu i gofnodi a monitro cydymffurfio â hyfforddiant, gan adrodd yn rheolaidd i'r Cymunedau Iechyd Integredig a'r CCAG.

- **Seiberddiogelwch**
  Mae'r tîm EPRR wedi gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr Seiber i ymgorffori adran sy'n benodol i seiber mewn templedi parhad busnes. Mae seiberwydnwch wedi'i gynnwys gyda sesiynau hyfforddi mewnol EPRR a bydd gweithio agos rhwng y ddau dîm yn parhau drwy gydol 26/27.

- **Ymarfer Dosbarthu Cyfathrebiadau**
  Fel y nodir yn adran 13.2, cynhaliwyd ymarfer dosbarthu cyfathrebiadau ym mis Tachwedd 2025.

## 18. Y FFORDD YMLAEN DROS Y 12 MIS NESAF

18.1 Bydd Safonau Craidd EPRR GIG Lloegr a Fframwaith Gwydnwch Cymru ynghyd ag unrhyw risgiau a bygythiadau cenedlaethol neu ryngwladol newydd unwaith eto yn sail i weithgareddau EPRR a fydd yn cael eu cynnal gan BIPBC ar gyfer 2026/27.

18.2 Y flaenoriaeth yn ystod 2026/27 fydd i'r Bwrdd Iechyd barhau i allu ymateb i unrhyw ddigwyddiad a allai godi o ganlyniad i weithredoedd maleisus, damweiniau neu beryglon naturiol, gan gryfhau ymhellach drwy hyfforddiant ac ymarfer ei drefniadau ymateb a pharhau i gefnogi gwasanaethau ar draws y Bwrdd Iechyd ac o fewn y Fforwm Gwydnwch Lleol ehangach i wella ei barodrwydd.

18.3 Dylai trefniadau atebolrwydd barhau i fod yn glir bob amser a rhaid i BIPBC barhau i brofi ac adolygu ei drefniadau. Yn ogystal â'r Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i'r tair Cymuned Iechyd Integredig gynnal safon dda o barodrwydd i ymateb yn ddiogel ac yn effeithiol i sbectrwm llawn o fygythiadau, peryglon a digwyddiadau aflonyddgar, fel ffliw pandemig, anafusion torfol, digwyddiadau terfysgol posibl, tywydd garw, digwyddiadau cemegol, biolegol, radiolegol a niwclear, tarfu ar danwydd a chyflenwadau, digwyddiadau iechyd y cyhoedd a digwyddiadau proffil uchel / ar raddfa fawr.

18.4 Er mwyn sicrhau y cydymffurfir â rhaglen waith y Tîm EPRR, bydd cynlluniau parhad busnes gwasanaeth y Gymuned Iechyd Integredig yn dechrau cael eu rhoi drwy broses archwilio a gynhelir gan y tîm EPRR yn erbyn ISO:22301. Ar ôl pob archwiliad, bydd adroddiad a chynllun gweithredu priodol yn cael eu datblygu i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a bydd y rhain yn cael eu rhannu â'r gwasanaeth. Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu dilyn ar ôl cyfnod o 6 mis i fonitro eu cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu sydd wedi cael eu datblygu.

18.5 Bydd adolygiad o hyfforddiant ac addysg CBRN gyda dadansoddiad o'r bylchau a chynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu ymhellach yng ngoleuni canllawiau cenedlaethol wedi'u diweddaru a bydd cynllun Bwrdd Iechyd gydag atodiadau safle-benodol yn cael ei greu. Ar ôl cwblhau'r cynllun lleol, bydd ymarfer pen-bwrdd yn cael ei gynnal i ddilysu cadernid cynlluniau.

18.6 Bydd y Bwrdd Iechyd yn diweddaru ei Gynllun Ymateb i Bandemig a bydd ymarfer bwrdd yn cael ei gynnal i ddilysu gwydnwch y cynllun.

## 19. CRYNODEB

19.1 Dros y deuddeg mis diwethaf, mae'r gweithgarwch wedi canolbwyntio ar gynnal swyddogaeth EPRR gadarn ac mae'r Tîm EPRR newydd wedi gwreiddio ei hun yn y sefydliad. Mae hyn wedi cynnwys adolygu, addasu a chynnal a chadw cynlluniau parodrwydd am argyfwng a pharhad busnes presennol yn systematig i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd a'r Cymunedau Iechyd Integredig yn parhau i fod yn barod i gynllunio ar gyfer argyfyngau lleol ac ymateb yn effeithiol iddynt, gan gynnwys digwyddiadau mawr. Mae gallu'r sefydliad wedi cael ei brofi sawl gwaith drwy gydol y cyfnod adrodd, y tu mewn a'r tu allan i oriau, gan ddarparu cyfleoedd dysgu gweithredol gwerthfawr a dangos gwydnwch ac ymatebolrwydd y trefniadau sydd ar waith.

19.2 Wrth edrych ymlaen at 2026/27, bydd blaenoriaeth y sefydliad yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau'r gallu parhaus i ymateb i unrhyw ddigwyddiad a allai godi. Mae gweithredoedd maleisus a ffliw pandemig yn parhau i fod yn fygythiadau sylweddol yn y dirwedd risg genedlaethol, a rhaid i'r parodrwydd ar gyfer y peryglon hyn barhau i fod yn gryf. Ar ben hynny, mae effaith gynyddol newid amgylcheddol yn parhau i gynyddu tebygolrwydd a difrifoldeb digwyddiadau tywydd eithafol. Mae cyfnodau o wres dwys, cyfnodau hir o oerni, glawiad uchel, a gwyntoedd cryfion i gyd yn peri risg o darfu ar wasanaethau

iechyd a'r system ehangach. Bydd sicrhau parodrwydd ar gyfer yr heriau hyn yn faes ffocws allweddol yn y flwyddyn i ddod.

19.3 Yn ystod y deuddeg mis nesaf, bydd angen monitro parodrwydd gwasanaethau'r GIG yn ofalus wrth i'r Bwrdd Iechyd symud ymlaen drwy ei ailstrwythuro sefydliadol o dan y rhaglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol. Mae'n hanfodol bod y swyddogaeth EPRR yn parhau i fod yn gadarn drwy gydol y cyfnod hwn o newid ac na fydd effaith niweidiol ar allu, capasiti a pharhad cyfrifoldebau statudol. Bydd cynnal llywodraethiant clir, prosesau sefydlog, a llwybrau cyfathrebu cadarn yn hanfodol i sicrhau y cydymffurfir yn barhaus a pharodrwydd gweithredol.

19.4 Gall y Bwrdd fod yn dawel ei feddwl bod BIPBC yn cymryd ei gyfrifoldebau statudol a'i gyfrifoldebau ehangach yn y GIG o ran Parodrwydd am Argyfyngau, Gwydnwch ac Ymateb, a Pharhad Busnes o ddifrif. Mae'r sefydliad wedi sefydlu'r seilwaith llywodraethu, y cynlluniau a'r mecanweithiau adrodd angenrheidiol i sicrhau bod y dyletswyddau hyn yn cael eu cyflawni'n effeithiol ac yn broffesiynol. Mae datblygu trefniadau'n barhaus, ynghyd â goruchwyliaeth a sicrwydd cryfach, yn cefnogi dull cyson a chadarn o baratoi ar gyfer argyfyngau ar draws yr holl wasanaethau.

19.5 Mae sefydlu'r Tîm EPRR canolog wedi creu un pwynt cyswllt cydlynol ar gyfer y Cymunedau Iechyd Integredig, gan leihau dyblygu, dryswch ac amrywiaeth yn sylweddol yn y ffordd y mae gweithgareddau cynllunio ac ymateb i ddigwyddiadau yn cael eu cydgysylltu. Mae'r dull symlach hwn wedi arwain at gyfathrebu cliriach, gwell cysondeb, a chymorth gweithredol mwy effeithlon. Mae cydweithwyr mewnol wedi derbyn y newid yn gadarnhaol ac mae partneriaid amlasiantaeth ar draws Gogledd Cymru wedi canmol y newid, sydd wedi arwain at wella gweithio mewn partneriaeth ac atgyfnerthu rôl BIPBC mewn trefniadau gwydnwch rhanbarthol.

19.6 Mae gwaith cydgysylltiedig rhwng y Tîm EPRR a'r swyddogaeth Gofal Heb ei Drefnu a Gofal Brys (UEC) wedi cryfhau rheolaeth weithredol gyffredinol ymhellach, yn enwedig yn ystod cyfnodau o bwysau ar y system. Mae gwell integreiddio wedi gwella ymwybyddiaeth sefyllfaol, wedi galluogi ymatebion mwy cydgysylltiedig i risgiau sy'n dod i'r amlwg, ac wedi cefnogi uwchgyfeirio a gwneud penderfyniadau mwy effeithiol ar draws y system. Mae'r dull cydweithredol hwn yn parhau i gyfrannu at ddarparu gwasanaethau'n fwy diogel a chadarn yn ystod cyfnodau heriol.

## 20. Y PRIF RISGIAU / MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO

20.1 Mae gofyn parhau i gryfhau ymwybyddiaeth sefydliadol o Barodrwydd am Argyfyngau, Gwydnwch ac Ymateb (EPRR) ar draws BIPBC i sicrhau bod yr holl staff yn deall eu cyfrifoldebau unigol ac ar y cyd wrth ymateb i unrhyw beth sy'n tarfu ar y gwasanaeth neu argyfwng lleol, gan gynnwys digwyddiad mawr. Bydd pwyslais parhaus ar gyfathrebu, hyfforddiant ac arweiniad clir yn hanfodol

er mwyn gwreiddio dealltwriaeth gyson o rolau, disgwyliadau uwchgyfeirio, a'r camau gweithredu sydd eu hangen i gynnal parhad gwasanaeth yn ystod cyfnodau o bwysau. Bydd gwella ymwybyddiaeth staff yn y maes hwn yn cefnogi gallu'r Bwrdd Iechyd ymhellach i ymateb yn gyflym, yn ddiogel ac yn effeithiol, gan sicrhau bod gwydnwch yn parhau i fod yn ganolog i weithrediadau o ddydd i ddydd.

20.2 Mae sicrhau bod yr holl staff ar-alwad wedi'u hyfforddi'n llawn ac yn gymwys yn eu cyfrifoldebau Parodrwydd am Argyfyngau, Gwydnwch ac Ymateb (EPRR) yn dal yn flaenoriaeth sefydliadol allweddol. Yn ystod 2025/26, roedd lefelau cydymffurfio â hyfforddiant EPRR ar gyfer comanderiaid Strategol (Aur), Tactegol (Arian), a Gweithredol (Efydd) wedi cynyddu i 80%, gan adlewyrchu gwell ymgysylltiad a llwybrau hyfforddi cryfach. Y ffocws ar gyfer 2026/27 fydd sicrhau cydymffurfio 100% ar draws pob haen o'r rota ar-alwad, gan sicrhau bod pob swyddog sy'n gorfod gwneud penderfyniadau hanfodol yn ystod digwyddiadau mawr neu ddigwyddiadau parhad busnes wedi'i baratoi'n llawn, yn hyderus ac yn barod i gyflawni ei rôl yn effeithiol. Bydd monitro parhaus, gwaith dilynol wedi'i dargedu, a darpariaeth hyfforddi well yn helpu'r Bwrdd Iechyd i gyrraedd y targed hwn a chryfhau gwydnwch y sefydliad ymhellach.

20.3 Fel yr amlinellir yn Adran 17.2, mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud o ran cryfhau prosesau llywodraethiant a chydymffurfio ym maes Parhad Busnes ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae'r Dangosfwrdd Parhad Busnes bellach yn gwbl weithredol a byw, yn darparu mecanwaith tryloyw i bob gwasanaeth weld, diwygio a monitro eu Cynlluniau Parhad Busnes mewn amser real. Mae lefelau cydymffurfio bellach yn cael eu cofnodi drwy system RAG glir gyda dangosyddion cydymffurfio yn dangos canrannau, sy'n galluogi gwasanaethau i ddeall eu sefyllfa bresennol a nodi meysydd y mae angen cymryd camau pellach yn eu cylch. Mae adroddiadau cydymffurfio misol BC yn cael eu cynhyrchu a'u dosbarthu i'r Grŵp Sicrwydd Argyfyngau Sifil Posibl (CCAG) ac Arweinwyr Cyfarwyddiaeth BC, gan sicrhau goruchwyliaeth reolaidd, uwchgyfeirio risgiau sy'n dod i'r amlwg, a ffocws sefydliadol parhaus ar gynnal trefniadau BC cadarn sydd wedi'u profi. Mae'r prosesau adrodd a sicrwydd cryfach hyn yn cefnogi gwelliant parhaus ac yn atgyfnerthu ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i reoli parhad busnes yn effeithiol.

## 21. ARGYMHELLION

21.1 Gofynnir i'r Pwyllgor gefnogi'r tîm EPRR i wneud y canlynol:

- Gweithio gyda Chymunedau Iechyd Integredig i gael rhagor o dystiolaeth ganddynt i sicrhau bod cynlluniau parhad busnes a threfniadau ategol yn cael eu hadolygu, eu cynnal a'u gwreiddio'n barhaus yng ngofynion CCA a safonau / canllawiau cyson, a bod y gwersi a ddysgir o ddigwyddiadau ac ymarferion yn cael eu hymgorffori yn y cynlluniau hyn.

- Parhau i godi ymwybyddiaeth o rolau a chyfrifoldebau ar gyfer EPRR ar draws y Bwrdd Iechyd a gyda'n hasiantaethau partner.

- Parhau i gydgysylltu cynrychiolaeth BIPBC yn is-grwpiau NWLRF.

- Sicrhau bod staff Strategol a Thactegol ar-alwad yn mynychu hyfforddiant angenrheidiol ac yn cymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi ac ymarfer.

## ATODIAD 1 – YMATEB I DDIGWYDDIADAU LLEOL

Mae BIPBC wedi ymateb i nifer o ddigwyddiadau rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026 ac mae rhestr lawn o'r digwyddiadau hyn ar gael isod.

- **Gollyngiadau Nwy (Gyferbyn ag YGC) 11/04/2025**
  Sefydlwyd grŵp cydgysylltu tactegol yn dilyn pryderon yn ymwneud â gollyngiadau nwy wrth ymyl YGC. Cafodd gwaith atgyweirio ei wneud ar unwaith a chafodd y risg ei lliniaru.

- **Gwrthdrawiad Traffig Ffyrdd, Bodfari 23/04/25**
  Digwyddodd hyn y tu allan i oriau ac roedd yn rhaid ystyried agor theatrau brys ychwanegol gyda'r galw cysylltiedig am aelodau ychwanegol o staff. Roedd yr ôl-drafodaeth a gafwyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd peidio â defnyddio byrfoddau ac ymadroddion llafar. Cafodd y digwyddiad ei reoli â'r adnoddau presennol

- **SACT (Triniaethau Gwrth-Ganser Systemig) Mai 2025**
  Roedd y tîm EPRR yn cefnogi cydweithwyr oncoleg a fferylliaeth i barhau i ddarparu gwasanaethau canser yn ddiogel tra bo offer hanfodol yn cael ei atgyweirio ar frys.

- **Colli Pŵer yn Uned Iechyd Meddwl Heddfan 01/06/25**
  Dywedwyd wrth y tîm EPRR fod Uned Heddfan wedi colli ei phŵer yn llwyr dros nos. Fodd bynnag, nid oedd angen sefydlu tîm ymateb i ddigwyddiadau gan fod hyn yn cael ei reoli ar y safle ac nid oedd angen unrhyw adnoddau ychwanegol.

- **Tân Twnnel Conwy 19/06/2025**
  Sefydlwyd grŵp cydgysylltu tactegol. Yn ystod y digwyddiad hwn, bu BIPBC yn gweithio gydag asiantaethau partner i sicrhau, er enghraifft, bod trefniadau ar waith pe bai cleifion fasgwlaidd wedi gorfod cael eu trosglwyddo o YG i YGC ar frys. Rhannwyd gwyriadau traffig â staff drwy'r tîm cyfathrebu mewnol.

- **Storm Floris 04/08/2025**
  Daeth Storm Floris â gwyntoedd eithriadol o gryf ac annhymhorol i rannau o'r Alban. Fodd bynnag, nid oedd Floris mor gryf ar draws Cymru, ond gwelsom rai gwyntoedd cryfion o 50-60 mya a rhywfaint o gyfnodau o law trwm. Yn dilyn briffiau gwylio, ni roddwyd gwybod am unrhyw ddigwyddiadau o unrhyw ran o BIPBC. Roedd diweddariadau tywydd yn cael eu rhannu'n rheolaidd ac roedd cynlluniau parhad busnes ar waith ond nid oedd eu hangen.

- **Tarfu ar Ddŵr Sir y Fflint 08/08/2025**
  Yn yr oriau mân ar 8 Awst 2025, byrstiodd pibell ddŵr ym Mhenarlâg, Sir y Fflint, gan amharu ar gyflenwad y gronfa ddŵr ar draws ardal Glannau Dyfrdwy a Sir y Fflint. Sefydlwyd Grŵp Cydgysylltu Tactegol (TCG) i gydgysylltu'r ymateb amlasiantaeth.

Ar gyfer BIPBC, roedd Ysbyty Cymunedol Glannau Dyfrdwy yn parhau i fod ar gyflenwad tanceri cyson, roedd Ysbytai Cymunedol yr Wyddgrug a Threffynnon yn cadw golwg ar bethau (roedd tanceri wrth gefn os oedd angen), nodwyd pobl agored i niwed yr oedd BIPBC yn ymwybodol ohonynt, a chafodd yr holl Gartrefi Gofal / Nyrsio / Preswyl, Meddygon Teulu a Fferyllfeydd Cymunedol eu dynodi a dosbarthwyd dŵr potel iddynt yn ôl yr angen. Roedd y gwaith dosbarthu cyflenwadau'n parhau bob dydd nes i'r mater gael ei ddatrys. Sefydlwyd gorsafoedd dŵr potel hefyd i'r cyhoedd gael gafael arnynt.

- **Gwrthdrawiad traffig ffyrdd A55 Treffynnon 09/08/25**
  Datganodd Heddlu Gogledd Cymru ddigwyddiad mawr yn dilyn gwrthdrawiad traffig ffyrdd ar yr A55 ger Treffynnon. Sefydlwyd grŵp cydgysylltu tactegol. Rhybuddiwyd timau Adrannau Achosion Brys YGC i fod yn barod i dderbyn anafusion, a rheolwyd y digwyddiad â'r adnoddau presennol.

- **Gollyngiad Nwy Labordy Cathetreiddio YGC 10/09/2025**
  Sefydlwyd cyfarfodydd ymateb i ddigwyddiadau mewnol oherwydd bod nwy yn gollwng y tu allan i labordy cathetreiddio yn YGC. Gweithiodd y tîm ystadau gyda'r cwmni cyfleustodau i ddatrys ac atgyweirio'n gyflym. Gan fod twymwyr tanddwr wedi'u cysylltu â'r boeleri yn yr adeilad, roedd dŵr poeth ar gael. Felly, ni roddwyd cynlluniau parhad busnes ar waith, ac nid oedd yn rhaid symud cleifion i wasanaethau arbenigol eraill.

- **Storm Amy 03/10/2025 a chau Pont Menai**
  Oherwydd gwyntoedd cryfion yn sgil Storm Amy, cafodd cyfyngiadau teithio eu rhoi ar waith ar Bont Britannia. Ar yr un pryd, roedd Pont Menai wedi cau o 3 Hydref tan 10 Hydref hefyd, oherwydd gwaith peirianyddol brys. Rhannwyd gwybodaeth yn eang a rhoddwyd cynlluniau parhad busnes ar waith i gefnogi unrhyw darfu ar deithio, cleifion agored i niwed yn y gymuned a lliniaru unrhyw drosglwyddiadau brys oddi ar yr ynys.

- **Tarfu ar y Cyflenwad Golchi Dillad 03/10/2025**
  Adroddwyd am darfu ar wasanaethau golchi dillad ar 3 Hydref a oedd yn effeithio ar y prif safleoedd. Gwnaed gwaith ar unwaith i roi dillad gwely ychwanegol yn y system i sicrhau cyflenwad digonol. Hefyd, roedd cynlluniau parhad busnes ar waith i reoli tarfu ar wasanaethau a chynnal goruchwyliaeth reolaidd.
    - .

- **Pibell Ddŵr wedi Byrstio yn Ruthin Road 10/10/2025**
  Cafwyd adroddiadau am brif bibell ddŵr wedi byrstio ar Ruthin Road, Wrecsam a oedd yn rhoi mynediad i'r ysbyty mewn perygl. Ailagorwyd mynediad o fewn 2 awr ar ôl y gwaith trwsio cychwynnol. Gosodwyd system goleuadau traffig er mwyn gallu gwneud gwaith atgyweirio llawn. Roedd holl reolwyr y safle yn ymwybodol ac anfonwyd gwybodaeth at feddygon teulu a fferyllfeydd yn yr ardal. Dim effaith ar wasanaethau.

- **Switsfwrdd Ardal y Dwyrain 16/10/2025**
  Oherwydd gostyngiad dros dro mewn adnoddau, cefnogodd y tîm EPRR y gwaith o reoli Parhad Busnes yn Ysbyty Maelor Wrecsam i leihau risg a sicrhau parhad gwasanaethau switsfwrdd critigol.

- **Digwyddiad YGC 04/11/2025**
  Gofynnwyd i'r tîm EPRR hwyluso 'ôl-drafodaeth frys' yn dilyn digwyddiad yn Ysbyty Glan Clwyd. Nodwyd camau gweithredu ac argymhellion a chytunodd y gwasanaethau dan sylw i sicrhau y byddai hyfforddiant ychwanegol ar gael i staff ar-alwad a rheng flaen ynghylch y broses gyfreithiol y mae'n rhaid ei dilyn er mwyn gallu cadw claf yn gaeth neu ei drosglwyddo i 136 o ystafelloedd o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

- **Toriad yn y Cyflenwad Dŵr yn ardal Bwcle 06/11/2025**
  Roedd fferyllfa yn ardal Bwcle wedi rhoi gwybod i'r tîm EPRR nad oedd dŵr yno. Cadarnhaodd Dŵr Cymru bod y cyflenwad wedi diffodd dros dro oherwydd bod prif bibell ddŵr wedi byrstio a chynigiwyd amser datrys disgwyliedig, a bodlonwyd hynny. Fel rhagofal, cysylltodd y tîm dialysis â chleifion yn yr ardal yr effeithiwyd arni a'u hatgoffa am bwysigrwydd gwirio lefel y clorin yn y dŵr cyn dechrau eu sesiwn dialysis nesaf yn y cartref.

- **Storm Claudia 14/11/2025**
  Rhoddodd y Swyddfa Dywydd rybuddion Melyn am wynt a glaw ar waith ar gyfer y rhan fwyaf o Ogledd Cymru rhwng dydd Gwener 14 a dydd Sadwrn 15 Tachwedd. Sefydlwyd dau TCG i sicrhau bod pob asiantaeth yn cael ei pharatoi a'i chefnogi os oedd angen. Cyhoeddwyd cyfathrebiadau mewnol a gofynnwyd i dimau ystyried effaith bosibl rhybuddion tywydd yn eu cynlluniau penwythnos.

- **Ysbyty Glan Clwyd yn Colli Stêm, Gwasanaethau Sterileiddio 20/11/2025**
  Arweiniodd y digwyddiad hwn at yr adran Gwasanaethau Sterileiddio yn gorfod rhoi eu Cynllun Parhad Busnes ar waith, a chafodd y gwasanaeth ei symud i sicrhau nad oedd effaith ar weithgareddau theatr.

- **Methiant Pŵer Ysbyty Maelor Wrecsam 24/11/2025**
  Roedd pŵer yr ysbyty wedi gostwng rhywfaint gan arwain at risg sylweddol i'r safle, a chafodd hyn ei gywiro o fewn 90 munud. Fodd bynnag, achosodd ail ostyngiad mewn pŵer ragor o aflonyddwch. Trosglwyddodd yr adran Ystadau Gweithredol y llwyth trydanol, a chafodd y sefyllfa ei huwchgyfeirio gyda chontractwyr arbenigol yn dod i'r safle i gwblhau'r gwaith atgyweirio.

- **Storm Bram 09/12/2025**
  Arweiniodd y tywydd gwael hwn at wyntoedd cryfion sylweddol ac o ganlyniad i hyn collwyd pŵer yn YG. Gosodwyd generaduron, ond arweiniodd ymchwydd mewn pŵer at golli gallu CT. Tra roedd hyn yn cael ei ddatrys, roedd unrhyw gleifion yr oedd angen sgan CT arnynt yn cael eu dargyfeirio i YGC.

- Arweiniodd gwyntoedd cryfion Storm Bram hefyd at sefydlu dau TCG:

- Sefydlwyd TCG oherwydd bod yr angorfeydd yng Nghaergybi wedi cau a bod hynny wedi arwain at lorïau'n cael eu stacio a darpariaethau lles yn cael eu rheoli ar gyfer y rhai a oedd yn sownd yno.

- Sefydlwyd TCG oherwydd bod trên Trafnidiaeth Cymru wedi taro coeden ar y rheilffordd tuag at Blaenau. Cafwyd llifogydd ymhellach i lawr y lein i Flaenau Ffestiniog hefyd. Ni chafwyd unrhyw anafusion o ganlyniad i'r digwyddiad hwn.

- **Tywydd Garw (eira) 04/01/2026**
  Sefydlwyd TCG oherwydd y tywydd garw (eira) yng Ngogledd Cymru, yn enwedig mewn rhannau o Wynedd ac Ynys Môn. Defnyddiodd y Bwrdd Iechyd y gwasanaeth ymateb gwirfoddol 4x4 i alluogi staff hanfodol i gyrraedd eu gweithle. Ni ddatganodd unrhyw asiantaethau ddigwyddiad mawr a pharhawyd â'r ymateb drwy ddefnyddio'r cynllun tywydd garw.

- **Storm Goretti 07/01/2026**
  Daeth y digwyddiad tywydd gwael hwn â gwyntoedd, glaw, eirlaw ac eira i Ogledd Cymru. Sefydlwyd TCG ar 7 Ionawr 2026. Cynhaliwyd rhagor o gyfarfodydd TCG ar 8 Ionawr 2026 a sefydlwyd cell Drafnidiaeth ychwanegol i gefnogi amcanion y TCG. Cafodd cau ysgolion effaith ar bob asiantaeth.

- Datganwyd digwyddiad critigol mewnol ar 8 Ionawr 2026 o ganlyniad i bwysau sylweddol parhaol a pharhaus ar draws y system iechyd a'r tywydd gwael a ragwelwyd yn gysylltiedig â Storm Goretti. Gwnaed y penderfyniad hwn i sicrhau y gallai'r Bwrdd Iechyd wneud cynlluniau'n rhagweithiol i ddarparu'r cymorth angenrheidiol i wasanaethau, staff a chleifion. Gofynnwyd i'r holl wasanaethau sicrhau bod eu cynlluniau parhad busnes yn cael eu rhoi ar waith a gweithio'n agos gyda'r Gymuned Iechyd Integredig a thimau rheoli safleoedd. Sefydlwyd tîm rheoli digwyddiadau mewnol hefyd i gydgysylltu gweithgarwch yn y cyfnod cyn ac yn ystod y penwythnos, gyda rhagor o fanylion yn cael eu rhannu'n uniongyrchol â gwasanaethau ac adrannau. Cafodd y digwyddiad critigol mewnol ei ddirwyn i ben ar 9 Ionawr 2026. Er bod y Digwyddiad Critigol Mewnol wedi cael ei ddirwyn i ben, roedd yr holl gamau a roddwyd ar waith i leihau'r pwysau ac i adfer yn dal i fynd rhagddynt dros y penwythnos.

- **Cau Twnnel Conwy 29/01/2026**
  Sefydlwyd TCG yn dilyn digwyddiad traffig ffyrdd difrifol a chynrychiolwyd y Bwrdd Iechyd yn y cyfarfod. Er bod camau paratoi cychwynnol wedi cael eu rhoi ar waith oherwydd natur yr anafiadau, cafodd anafusion eu trosglwyddo i ganolfannau trawma y tu allan i ogledd Cymru.

- **Prinder Sment Esgyrn Cenedlaethol 18/02/2026**
  Sefydlwyd grŵp rheoli digwyddiadau mewnol i reoli ymateb y Bwrdd Iechyd i'r prinder sment esgyrn cenedlaethol. Arweiniodd hyn at ohirio'r holl driniaethau

orthopedig â sment (cluniau a phengliniau newydd yn bennaf) am gyfnod tra bod cynnyrch arall yn cael ei gymeradwyo i'w ddefnyddio. Parhaodd y triniaethau heb sment, a derbyniwyd bod rhai triniaethau'n digwydd y tu allan i'r drefn amser safonol fel nad oedd sesiynau theatr yn cael eu gwastraffu.

- **Methiant Trydanol YGC 28/02/2026**
  Ddydd Sadwrn 28 Chwefror, cafodd Ysbyty Glan Clwyd nam ar ei brif system cylch Foltedd Uchel sy'n effeithio ar y cyflenwad trydan i'r Is-orsaf Cwadrant Brys. Arweiniodd hyn at drosglwyddo'r cyflenwad trydan ar gyfer yr is-orsaf yn awtomatig i eneradur wrth gefn mewn argyfwng. Cafodd y prif gyflenwad pŵer ei adfer brynhawn dydd Mawrth (3 Mawrth). Yn ystod y cyfnod hwn, roedd angen aildrefnu rhai triniaethau a gynlluniwyd, ond cafodd gwasanaethau gofal brys, trawma a TG eu cynnal drwy gydol y cyfnod.

- **Problemau TG 25/03/2026**
  Ar brynhawn 25 Mawrth 2026, bu toriad rhwydwaith ledled Cymru a oedd yn effeithio ar sefydliadau'r GIG a oedd wedi'u cysylltu drwy Rwydwaith Gwasanaethau Cyhoeddus BT / PSBA, fel y cadarnhawyd gan ddiweddariadau cenedlaethol. Arweiniodd y toriad at golli cysylltedd rhyngrwyd gan amharu'n helaeth ar systemau sy'n cael eu lletya yn y Cwmwl. Yn BIPBC, arweiniodd hyn at golli neu ddiraddio nifer o systemau clinigol a gweithredol. Roedd meysydd clinigol wedi nodi pwysau gweithredol sylweddol, yn enwedig mewn Adrannau Achosion Brys a Mamolaeth, a oedd yn golygu bod angen defnyddio prosesau parhad busnes (ar bapur).

## ATODIAD 2 – RHEOLI PERFFORMIAD

Mae Adran 10 (Rheoli Perfformiad) yr adroddiad hwn yn nodi, yn dilyn hunanasesiad yn erbyn Safonau Craidd Parodrwydd am Argyfyngau, Gwydnwch ac Ymateb (EPRR) GIG Lloegr ac adolygiad annibynnol a gynhaliwyd gan Wasanaethau Archwilio a Sicrwydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (Archwiliad Mewnol), bod y Bwrdd Iechyd wedi datgan sefyllfa o 'Sicrwydd Cyfyngedig' o ran EPRR a Pharhad Busnes. Mae'r atodiad hwn yn rhoi trosolwg o'r rhesymeg sy'n sail i'r asesiad hwn.

Mae fframwaith Safonau Craidd EPRR yn cynnwys deg maes allweddol:

- Llywodraethiant
- Dyletswydd i Asesu Risg
- Dyletswydd i Gynnal Cynlluniau
- Gorchymyn a Rheoli
- Hyfforddi ac Ymarfer
- Ymateb
- Rhybuddio a Hysbysu
- Cydweithredu
- Parhad Busnes
- Deunyddiau Peryglus / Cemegol, Biolegol, Radiolegol a Niwclear (HazMat / CBRN)

Mae'r fethodoleg hunanasesu yn caniatáu i sefydliadau raddio eu lefel cydymffurfio yn erbyn pob maes, naill ai fel un sy'n cydymffurfio'n llawn, sy'n cydymffurfio'n rhannol, neu nad yw'n cydymffurfio.

Nododd asesiad y Bwrdd Iechyd lefel cydymffurfio'n rhannol ar draws pob maes, gan adlewyrchu, er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud, nad yw eto mewn sefyllfa i ddatgan ei fod yn cydymffurfio'n llawn ag unrhyw un o'r safonau craidd. Yn bwysig, nid oes unrhyw feysydd lle mae'r Bwrdd Iechyd yn cael ei asesu nad yw'n cydymffurfio, gan ddangos bod trefniadau sylfaenol priodol ar waith ar draws pob maes.

Cwblhaodd y tîm Archwilio Mewnol adolygiad o raglen waith EPRR yn 2025. Roedd y canfyddiadau'n cydnabod bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd ystyrlon o ran cryfhau ei fframwaith EPRR, wedi'i ategu gan strwythur llywodraethu gwell a rhaglen waith strwythuredig sydd wedi'i diffinio'n glir. Roedd yr adolygiad hefyd yn cydnabod bod datblygiadau pellach yn mynd rhagddynt ar draws sawl maes.

Fodd bynnag, daeth adroddiad y tîm Archwilio Mewnol i'r casgliad bod angen parhau i ganolbwyntio ar sawl maes allweddol, gan gynnwys:

- Sicrhau darpariaeth gynhwysfawr yn y Cynllun Parhad Busnes ar draws yr holl wasanaethau
- Sicrhau bod cynlluniau'n cael eu hymarfer a'u profi'n amserol ac yn gyson
- Cryfhau hyfforddiant ac ymwybyddiaeth staff
- Sicrhau cysondeb llawn rhwng prosesau rheoli risg a pholisïau EPRR

Er mwyn mynd i'r afael â'r canfyddiadau hyn, mae'r Tîm EPRR wedi datblygu rhaglen waith fanwl ar gyfer 2026/27, sy'n cyd-fynd â Safonau Craidd EPRR a Fframwaith Gwydnwch Cymru, ac mae wedi'i ddylunio i sicrhau gwelliant mesuradwy pellach ar draws pob maes. Bydd y rhaglen hon yn parhau i feithrin gallu, aeddfedrwydd a sicrwydd, gyda'r nod o symud ymlaen tuag at gydymffurfio'n llawn.

Cydnabyddir y bydd sicrhau bod pob maes yn cydymffurfio'n llawn yn debygol o alw am ymdrech barhaus dros nifer o flynyddoedd, gan adlewyrchu cymhlethdod y safonau a'r goblygiadau o ran adnoddau, gan gynnwys capasiti'r gweithlu a buddsoddiad ariannol.

| ASESIAD | |
|---|---|
| **Cysylltiad â'r Blaenoriaethau Strategol** | 1. Creu sefydliad effeithiol |
| **Egwyddorion Dylunio** | Symleiddio, Safoni, a Mabwysiadu Arferion Gorau |
| **Risgiau Corfforaethol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd** | Mae gan y Rhaglen Waith EPRR ar gyfer 2025/26 9 risg fyw ar Datix. Mae'r rhain yn cyd-fynd â Chofrestrau Risgiau Argyfyngau Sifil Posibl Cenedlaethol a rhanbarthol. |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Nodau Llesiant** | Cymru Gydnerth |

| ASESIADAU O'R EFFAITH | | |
|---|---|---|
| **Cydraddoldeb**<br>*Ydych chi wedi cynnal Asesiad Sgrinio o'r Effaith ar Gydraddoldeb (sy'n cynnwys gofynion Safonau'r Gymraeg)* | Do: ☒ | Naddo: ☒ |
| | Canlyniad: | |
| | Os nad ydych, nodwch y rhesymeg: | Mae'r adroddiad hwn yn weinyddol ei natur ac fe'i cyflwynir er gwybodaeth yn unig. Nid yw'r dyletswyddau sector cyhoeddus cysylltiedig yn berthnasol (nid oes unrhyw effeithiau cysylltiedig ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig). |
| **Asesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol**<br>*Ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol* | Do: ☐ | Naddo: ☒ |
| | Canlyniad: | |
| | Os nad ydych, nodwch y rhesymeg: | Mae'r adroddiad hwn yn weinyddol ei natur ac fe'i cyflwynir er gwybodaeth yn unig. Nid yw'r dyletswyddau sector |

| | | |
|---|---|---|
| | | cyhoeddus cysylltiedig yn berthnasol (nid oes unrhyw effeithiau cysylltiedig ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig). |
| **Ansawdd**<br>*Ydych chi wedi cynnal Asesiad Sgrinio o'r Effaith ar Ansawdd?* | **Galluogwyr Ansawdd**<br>Mae pob un yn Berthnasol | **Meysydd Ansawdd** Mae pob un yn Berthnasol |
| | | |
| | | |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Nodau Llesiant** | Cymru Gydnerth | |
| | | |
| **Effaith Amgylcheddol/Cynaliadwyedd (5R)** | Na - Ddim yn berthnasol | |
| | | |
| **Y Ddyletswydd i roi Sylw Dyledus i Gyfamod y Lluoedd Arfog**<br>Ydych chi wedi ystyried y Ddyletswydd i roi Sylw Dyledus i Gyfamod y Lluoedd Arfog? | Do: ☐ | Naddo: ☒ |
| | Canlyniad: | |
| | Os nad ydych, nodwch y rhesymeg: | Mae'r adroddiad hwn yn weinyddol ei natur ac fe'i cyflwynir er gwybodaeth yn unig. Nid yw'r dyletswyddau sector cyhoeddus cysylltiedig yn berthnasol (nid oes unrhyw effeithiau cysylltiedig ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig). |
| **Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data**<br>*Ydych chi wedi cynnal Asesiad Sgrinio o'r Effaith ar Ddiogelu Data?* | Do: ☐ | Naddo: ☒ |
| | Canlyniad: | |
| | Os nad ydych, nodwch y rhesymeg: | Mae'r adroddiad hwn yn weinyddol ei natur ac fe'i cyflwynir er gwybodaeth yn unig. Nid yw'r dyletswyddau sector cyhoeddus cysylltiedig yn berthnasol (nid oes |

| | | |
|---|---|---|
| | | unrhyw effeithiau cysylltiedig ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig). |
| **Asesiad o'r Effaith ar Atal Twyll**<br>*Ydych chi wedi ystyried yr effeithiau o ran atal twyll* | Do: ☐ | Naddo: ☒ |
| | Canlyniad: | |
| | Os nad ydych, nodwch y rhesymeg: | Mae'r adroddiad hwn yn weinyddol ei natur ac fe'i cyflwynir er gwybodaeth yn unig. Nid yw'r dyletswyddau sector cyhoeddus cysylltiedig yn berthnasol (nid oes unrhyw effeithiau cysylltiedig ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig). |
| **Cyfreithiol** | Nid oes goblygiadau cyfreithiol penodol yn gysylltiedig â'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn. | |
| | | |
| **Enw da** | Nid oes effaith uniongyrchol ar enw da'r Bwrdd Iechyd o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn. | |
| | | |
| **Effaith ar Adnoddau**<br>*(Pobl / Ariannol)* | Nid oes effaith uniongyrchol ar adnoddau o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn. | |
| | | |